Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

Bt from widow of Bob Owen, Croesor.

289 e. 53



R. Thomas.

(Ap Vychan)

Engraved by J. Cochran, from a Photograph.

DOLGELLAU:

... FFDWYD GAN W. H... S,

SWYDDFA'R ... YDD."



# COFIANT

A

# THRAETHODAU DUWINYDDOL

Y

## PARCH. R. THOMAS,

(AP VYCHAN), BALA.

DAN OLYGIAETH Y

PARCH. M. D. JONES, A MR. D. V. THOMAS.

---

DOLGELLAU:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWYD GAN W. HUGHES,
SWYDDFA'R "DYSGEDYDD."

Henry Rowlands

June 15th 1882.

# Y CYNWYSIAD.

## COFIANT.

Cofnodion Byrion, gan y Gwrthddrych ei hun ... ... ... 5
ATTODIAD:—Cofnodion Cymreig, Hen a Diweddar ... ... 21
Chwareu Teg i'r Lluaws ... ... ... ... ... 27
Ychydig o Adgofion Maboed ... ... ... ... 29
Y Gof ... ... ... ... ... ... ... 32
Ymweliad â Glan y Môr, oddeutu Haner can' mlynedd yn ol 38

## NODIADAU AR AP VYCHAN.

Ysgrif I. Gan Gwalchmai ... ... ... ... 42
„ II. Gan S. R. ... ... ... ... ... 54
„ III. Gan y Parch. D. Williams, Garth, Bangor ... 55
„ IV. Gan y Parch. W. Edwards, Aberdar ... ... ... 58
„ V. Gan Mr. Arthur Rowlands ... ... ... 62
„ VI. Gan y Parch. S. Evans, Llandegla ... ... ... 70
„ VII. Gan y Parch. W. Nicholson, Llynlleifiad .. ... 71
„ VIII. Gan J. R... ... ... ... ... ... 76
„ IX. Gan y Parch. E. T. Davies, Abergele ... ... 77
„ X. Gan y Parch. M. D. Jones, Bala ... ... ... 79

## DARLITHIAU AR DDUWINYDDIAETH.

Darlith Ragarweiniol .... ... ... ... ... 3
Yr Ysgrythyrau—Yr Hen Destament ... ... ... ... 6
Y Testament Newydd—Ysbrydoliaeth y Beibl—Amser ei Ysgrifeniad—Ei Ysgrifenwyr—Paham y gelwir hwn yn Destament Newydd—Cynwysiad y Testament Newydd—Unoliaeth y Ddau Destament ... ... ... ... ... 17—24

Dwyfol Ysbrydoliaeth y Beibl ... ... ... ... ... 24
Termau Duwinyddol a arferir yn fynych ... ... ... 31
Termau Duwinyddol—Parhad ... ... ... ... ... 35
Termau Duwinyddol—Parhad ... ... ... ... 39
Cysylltiad a Chydweddiad holl Waith Duw yn Natur, Rhaglun-iaeth, Llywodraeth Foesol, a Threfn Iachawdwriaeth pechaduriaid ... ... ... ... ... ... 42
Duw: Pa fath Fôd ydyw efe—"Ysbryd yw Duw"—Y gwahan-iaeth rhwng Duw fel Ysbryd a phob ysbryd arall ... ... 49—55
Duw: Pa fath Fôd ydyw efe—Parhad ... ... ... ... 55
Athrawiaeth y Drindod ... ... ... ... ... 60
Arfaeth Duw ... ... ... ... ... ... ... 66
Gweithredoedd Duw ... ... ... ... ... 75
Perthynas yr Arglwydd â'i Weithredoedd ... ... ... 82
Y Dyn cyntaf Adda ... ... ... ... ... 85
Cynrychiolaeth Adda ... ... ... ... ... 93
Llygredigaeth llwyr Dynoliaeth mewn canlyniad i'r cwymp ... 101
Y Cyfamod Gras ... ... ... ... ... ... 104
Dyn yn Gyfrifol, ac mewn Sefyllfa o Brawf ... ... ... 111
Dyn mewn Sefyllfa o Brawf ... ... ... ... ... 117
Rhinwedd ... ... ... ... ... ... 124
Natur Rhinwedd— Parhad ... ... ... ... ... 131
Pechod ... ... ... ... ... ... ... 140
Pechod—Parhad ... ... ... ... ... ... 149
Y Gwaredwr ... ... ... ... ... ... 158
Etholedigaeth Gras ... ... ... ... ... ... 164
Etholedigaeth a Galwad yr Efengyl... ... ... ... 169
Y Nefoedd ... ... ... ... ... ... ... 175
Cosb yr Annuwiol ... ... ... ... ... 179
Cosb yr Annuwiol—Parhad ... ... ... ... ... 184
Natur Eglwys Gristionogol ... ... ... ... 190

# COFNODION BYRION

*Am rai o'r Amgylchiadau yn Hanes fy Mywyd sydd yn fwy adnabyddus i mi fy hunan nag ydynt i bobl eraill.*

MAB ydwyf fi i Dafydd Thomas, gynt o Ty'nygwynt, Llangower, swydd Feirionydd, a Mary Roberts o'r Tycoch, Pennantlliw Bach, Llanuwchllyn, y ddau yn frodorion o Benllyn. Rhieni fy nhad oedd Thomas a Margaret Roberts o Ty'nygwynt. Nid oes nemawr i'w goffau am danynt ond eu bod yn trin tyddyn bychan, eu bod yn aelodau yn Hen Gapel Llanuwchllyn, ac yn bobl dduwiol. Yr oeddynt yn dra gofalus am gynal i fyny addoliad teuluaidd. Arferent ganu emyn yn eu gwasanaeth crefyddol. Fy nain fyddai yn dechreu y gân. Bu iddynt saith o blant heblaw fy nhad. Mae dwy chwaer* i fy nhad eto yn fyw; un o'r enw Susanah Thomas, sydd yn preswylio, hi a'i gwr, yn nhy capel y Methodistiaid yn Moelygarnedd, gerllaw y Bala; a'r llall, Margaret Thomas, yn byw yn Nghendl, swydd Fynwy, ac yn adnabyddus i lawer wrth yr enw "Begws o'r Bala."

Rhieni fy mam oedd Robert Oliver, a Margaret ei wraig, o'r Tycoch, Pennantlliw Bach, fel y nodwyd uchod. Yr oeddynt hwythau yn aelodau yn Hen Gapel Llanuwchllyn, ac yn addoli Duw yn eu ty yn gystal ag yn y capel. Trin tyddyn bychan yr oeddynt hwythau. Ganwyd fy nhad Rhagfyr 29ain, 1782, a fy mam Ionawr 2, 1785. Ychydig iawn o fanteision addysg a gawsant yn eu hieuenctyd; ond dysgwyd hwy i ddarllen Cymraeg yn dda. Tair wythnos o ysgol ddyddiol a gafodd fy nhad, ond troes allan yn hunan-ddysgydd rhagorol. Deallai ramadeg iaith ei fam, rheolau barddoniaeth ei wlad, a chasglodd lawer o wybodaeth gyffredinol; ond rhagorai yn fawr fel duwinydd. Ysgrifenai law deg a gwastadlefn, sillebai yn gywir, a chyfansoddodd aml ddernyn barddonol, caeth a rhydd, yn ei dymor, a chyhoeddwyd amryw o honynt.

Dynes gref, iachus, galonog, siriol dros ben, weithgar, a gofalus am ei theulu, ydoedd fy mam. Rhagorai fy nhad arni mewn amryw bethau, ond rhagorai hithau arno yntau mewn pethau eraill, yn enwedig mewn gwroldeb meddyliol, a medrusrwydd i osod ei meddwl allan mewn ymadroddion cryfion a hylithr. Priodwyd fy rhieni yn

* Ysgrifenwyd y "Cofnodion" hyn yn 1874. Erbyn hyn, y mae "Begws o'r Bala" yn gorfoleddu fry.—D. V. T.

y flwyddyn 1805, a buont fyw gyda eu gilydd yn ddedwydd iawn, er gwaethaf caledfyd a thlodi, a llawer o amrywiol wasgfeuon, am y tymor maith o ddeunaw mlynedd a deugain. Ganwyd iddynt ddeg o blant—pump o feibion a phump o ferched, ond bu feirw tair o'u merched a dau o'u meibion tra yr oedd y rhieni eto yn fyw. Mae y pump eraill, wedi cael help gan Dduw, yn aros hyd y dydd hwn, dau yn America a thri yn Nghymru. Mae fy mrawd* Ellis Thomas yn ddiacon defnyddiol gyda Dr. Gwesyn Jones yn Utica, talaeth New York, ac yn meddu gradd eang o'r ddawn farddonol; ac y mae fy mrawd Evan Thomas yn grefyddwr da yn Meifod, swydd Drefaldwyn. Mae yntau wedi astudio rheolau Simwnt Vychan, ac yn gallu cyfansoddi yn rhwydd yn ol eu deddfwriaeth.

Ganwyd fi, trydydd plentyn fy rhieni, yn y Tycoch, Pennantlliw Bach, Llanuwchllyn,† ar yr unfed dydd ar ddeg o Awst, 1809, ac yno y magwyd fi nes oeddwn yn agos i saith mlwydd oed. Dysgais ddarllen yn bur ieuanc. Nid wyf yn cofio fy hunan yn dysgu darllen o gwbl. Rhaid fod rhywrai wedi cymeryd trafferth i'm dysgu yn gynar iawn, oblegid yn medru darllen yr wyf yn cofio fy hun gyntaf. Darllenais y Beibl unwaith drosto i gyd, yr Hen Destament a'r Newydd, cyn fy mod yn wyth oed; ac yr oeddwn wedi dysgu llawer o benodau a Salmau ar dafod-leferydd, fel y dywedir, yn y cyfnod plentynaidd a nodwyd. Yr oeddym ni yn byw yn y ty agosaf i'r mynydd, ac felly yr oedd ein chwareuon plentynaidd yn gyffredin yn dal perthynas â phethau pob dydd amaethwyr a bugeiliaid. Daeth yr efengyl yn ei phurdeb, drwy offerynoliaeth y Parch. Lewis Rees o Lanbrynmair, yn benaf, i ardal Llanuwchllyn oddeutu 1740, ac adeiladwyd capel yr Ymneillduwyr yno yn y flwyddyn 1746. Bu llawer o weinidogion goleuedig a thalentog yn llafurio yn y lle. Y diweddar Dr. George Lewis oedd yn gweinidogaethu yno pan anwyd fi, ac efe a'm bedyddiodd; a bu yn hyfryd genyf feddwl lawer gwaith, fod dyn mor dda a'r gwr hwnw wedi bod yn gweddïo drosof fi yn bersonol unwaith, o leiaf, ar ddechreu fy nhaith drwy y byd. Yr wyf yn ei gofio yn pregethu am un Sabbath yn yr Hen Gapel; ond yn anffodus i mi, myfi oedd i fod y Sabbath hwnw yn cadw caeau y lle yr oeddym yn treulio yr haf ynddo, ac nid oedd neb a wnai hyny yn fy lle; felly, bu raid i mi fod gartref, a thrwy hyny collais yr unig gyfle a ddaeth yn fy ffordd i glywed y gwr hynod hwnw.

Yr oedd crefydd wedi darostwng yr ardal y magwyd fi ynddi yn rhyfedd o dan ei dylanwad. Perchid dydd yr Arglwydd yn bur gyffredin. Ychydig iawn o feddwi oedd yn y fro. Yr oedd llwon a rhegfeydd wedi eu hymlid ymaith o'n terfynau ni. Ni wyddem ni fel plant beth oedd tyngu a rhegi. Ni fyddai neb, am a wn i, yn glanhau esgidiau, na thori gwair i anifeiliaid, ar y Sabbath. Yr oedd tori barf, a golchi cloron, a'r cyffelyb, allan o'r cwestiwn yn ein plith

* Bu farw Ellis Thomas yn Utica, N.Y., ddechreu Hydref, 1878.—D. V. T.

† Gwel yr ysgrif gyntaf yn yr Attodiad. Ceir yn hon ddesgrifiad barddonol o Benllyn a'r amgylchoedd. Gwel hefyd *Dysgedydd* Mawrth, 1878.– D.V.T.

ar y dydd hwnw. Sylwais eisoes, na chlywsem ni neb yn tyngu ac yn rhegi pan oeddym yn fychain ar aelwyd ein rhieni. Clywsem fod rhai yn gwneuthur hyny; ond ni wyddem ni yn y byd pa beth ydoedd. Un noswaith yn y gauaf, yr oedd hen aelod yn y capel yn aros am rai oriau gyda ni a'n rhieni wrth y tân, ac mewn profedigaeth fechan, dywedodd air hollol ddyeithr i ni, ac yr oeddym yn ofni ei fod wedi tyngu. Dranoeth, daeth gwr ieuanc oedd, yntau, yn aelod yn yr Hen Gapel heibio i ni, a gofynasom iddo, Beth ydyw tyngu? gan ychwanegu fod arnom eisieu cael gwybod y peth yn gywir. Atebodd yntau yn bur gall, "Nid wyf yn ewyllysio dweyd i chwi, rhag i chwi ddysgu tyngu." "Wnawn ni ddim dysgu, yn sicr," meddem ninau. "Wel," ebai ein cymydog ieuanc, "dweyd rhyw eiriau hyllion, y byddwch chwi yn cael drwg gan eich mam am eu dywedyd, ydyw tyngu." "A ydyw —— yn dyngu?" meddem ninau. "Ydyw," ebai yntau, "peidiwch a dweyd y gair hwnw." "Wel, y mae Harri o'r Graig wedi dywedyd y gair yn ein ty ni neithiwr, ac y mae o yn perthyn i'r capel. Rhaid ei dori fo allan yn union deg," meddem ni. Dechreuodd ein cymydog William amddiffyn tipyn erbyn hyny ar ei frawd Harri. Dywedai nad oedd hwnw yn air drwg iawn, a bod geiriau gwaeth nag ef o lawer, ac mai mewn byrbwylldra y dywedodd yr hynafgwr y gair; ond nid oedd yr amddiffyniad yn ein boddhau ni, ac ni a ddiarddelasom Harri ar ben y gareg fawr oedd yn y clawdd terfyn rhwng ein caeau ni a chaeau Ty'nybryn. Mae Harri, wedi y cyfan, yr wyf yn credu, yn y nefoedd er's llawer dydd. Yr oeddwn i o bump i chwech oed, feddyliwn, pan ddygwyd Harri dan ddysgyblaeth pen y gareg gan blant y Tycoch.

Yr oedd amryw o ddynion neillduol yn byw gerllaw i ni. Un o honynt oedd Edward o Danycastell. Bugail defaid ydoedd ar hyd ei oes. Perthynai i'r eglwys oedd yn yr Hen Gapel. Meddai lais mwy cryf a soniarus na neb a ddygwyddodd i mi glywed erioed. Pe cawsai addysg dda mewn peroriaeth, prin y buasai Sims Reeves yn gymhwys i ymgystadlu âg ef. Yr oedd yn ei gyflawn nerth pan oeddwn i yn blentyn, a'i lais, fel udgorn y jubili, yn boddi lleisiau pawb mewn cynulleidfa. Yr oedd yn byw gerllaw i ni hynafgwr iach o fugail defaid, yr hwn a gyrhaeddodd yr oedran teg o 102. Byddai gwr arall o'r gymydogaeth, o'r enw Cadwaladr Williams, Wernddu, yn myned heibio i'n ty ni yn aml, yn yr haf, i'r mynydd i fugeilio, a bu yn aml yn cyfeillachu â ni fel plant. Gofynodd i mi, un diwrnod, I ba le yr oeddwn yn meddwl myned wedi marw? Atebais inau, mai i'r nefoedd os cawn i fyned yno. "'Chei di ddim," ebai yntau. "Paham," meddwn inau. Ei ateb oedd, "Am fod genyt ti lygaid gleision, ac nid oes neb â llygaid felly i gael myn'd i'r nefoedd; gofyn di heno i dy dad, a dywed i mi beth a fydd efe yn ei ddywedyd pan ddelwyf heibio eto yfory." Wedi dychrynu braidd, gofynais i fy nhad, A oedd Cadwaladr, Wernddu, yn dywedyd y gwir, pan haerai na ch'ai plant â llygaid gleision ganddynt fyned i'r

nefoedd? Dywedodd yntau, "Dywed wrtho ef yfory y caiff plant â llygaid gleision ganddynt fyned i'r nefoedd, os byddant yn blant da; ond na chaiff hen bobl â danedd duon ganddynt fyned yno sut yn y byd." Pan ddaeth yr hynafgwr serchog heibio dranoeth, gofynodd i mi beth a ddywedasai fy nhad, a thraethais inau y genadwri. Siriol wenai yr hen wr, a chwarddodd yn hyfryd bob yn dipyn, er syndod i mi. Nid oeddwn i yn deall ergyd sylw fy nhad o gwbl. Cnoi myglys yr oedd Cadwaladr, nes oedd ei ddanedd yn dduon; ond nid oedd fy nhad yn ymarfer âg ef fodd yn y byd ar hyd ei oes.

Ar ddydd tesog ryw haf pan oeddym yn y Tycoch, a'n rhieni oddicartref, duodd y ffurfafen yn y prydnawn, fflamiodd y mellt, rhuodd y taranau, a disgynodd y braswlaw yn llifeiriant. Ceisiasom ninau, y plant, fyned i'r marchdy i ochel y gwlaw; ond yr oedd ein bysedd yn rhy fyrion i gyrhaeddyd y glicied drwy y twll oedd yn y drws, ac nid oedd genym ond sefyll ar y rhiniog, bedwar o honom, yn dŷn ochr yn ochr, er mwyn cael cysgod y gareg hir oedd uwchben drws y marchdy, oblegid yr oedd drws y ty wedi ei gloi i fyny, a'r agoriad gan ein mam, a hòno oddicartref. Yr oedd arnom ofn y taranau, ac wylem am yr uchaf. Cyn hir, dyma Cadwaladr Williams, Wernddu, yn rhedeg atom drwy y rhuthrwlaw; agorodd ddrws y marchdy, ac aeth efe a ninau i mewn gyda ein gilydd. Wedi i ni ddywedyd fod arnom ofn y taranau, ac nad oedd ein rhieni gartref, dechreuodd efe ein cysuro a'n lloni. "I beth yr ydych yn crïo, fy mhlant i?" meddai. "Ofn y taranau sydd arnom ni." "P'le mae eich tad a'ch mam?" "Oddicartref." "O, peidiwch a chrïo; nid oes ar neb sydd yn ei *sense* ofn taranau." "Oes arnoch chwi ddim o'u hofn nhw?" "Nac oes: a wyddoch chwi ddim beth ydyw y taranau?" "Na wyddom ni'n wir." "Wel, fy mhlant i, chwi a welsoch yr awyr las fawr sy tudraw i'r cymylau yna." "Do, lawer gwaith." "A wyddoch chwi beth ydyw yr awyr hòno?" "Na wyddom." "*Tin* ydyw hi, fel y *tin* sydd ganddoch chwi yn cario dw'r i'ch mam, ond ei fod o yn *tin* mawr, gwastad, ac yn llofft dros yr holl wlad." "O! 'r anwyl!" "A ddarfu chwi ddim sylwi fod y llofft *tin* hòno yn pwyso ar ben Llangower a Moelygraig, a'r holl fryniau uchel?" "Do." "Wel, fy mhlant i, pan fo hi yn daranau, Deio'r Graig fydd yn myned i ben y foel, ac olwyn trol ganddo, ac wedi rhoi tair careg dan ei draed, yn myned a'r olwyn o'r tu fewn i'r *tin*, ac yn ei bowlio hi ar hyd y *tin*, nes y bo yn cadw swn dros yr holl wlad. Peidiwch ag ofni; gwaith Deio'r Graig ydyw y cwbl." Anghofiasom ofyn iddo beth oedd y mellt. Pe gwnaethem hyny, pur debyg y dywedasai mai rhyw gastiau o eiddo Deio gyda phylor oedd y rhai hyny hefyd. Pa fodd bynag, llwyr dawelwyd ein hofnau ni. Dywedasom esboniad Cadwaladr, Wernddu, ar y taranau wrth ein tad pan ddaeth adref. Gwenu a wnaeth efe, ond ni ddywedodd ddim yn erbyn eglurhad y gwr o'r Wernddu. Dyna fy syniad cyntaf i am y taranau. Bu Deio'r Graig yn wr mawr yn ein golwg ni am beth amser. Tebygol i Deio

glywed esboniad Cadwaladr, oblegid pan welsom ni ef oddidraw, gwaeddasom arno, a gofynasom iddo, "Deio, ai ti oedd yn gwneud y taranau y dydd o'r blaen?" "Ië," ebai Deio; "tendiwch chwi eich hunain, os byddwch chwi yn blant drwg." Daeth adeg wedi hyny y gallem ni dderbyn athrawiaeth wahanol ar bwnc y taranau a'r mellt, ond dysgeidiaeth Cadwaladr o'r Wernddu oedd oreu i dawelu ein hofnau ar ddydd y dymhestl hòno.

Yr wyf yn cofio un cyffro teuluaidd mawr iawn yn ein ty ni. Aeth fy nhaid, Robert Oliver, a Margaret fy chwaer gydag ef (geneth oddeutu chwech oed y pryd hwnw), ar ryw ddydd teg yn niwedd mis Medi, feddyliwn, i'r mynydd a elwir "Ffridd Helyg y Moch" i edrych am y gwartheg hesbion oedd yno dros yr haf. Wedi cerdded cryn lawer yn y mynydd, a'r hen wr heb gael hyd i'r gwartheg, a Margaret bach yn blino cerdded drwy y grug, dywedodd ei thaid wrthi am eistedd yn llonydd mewn rhyw fan neillduol, tra y byddai efe yn myned ychydig yn mhellach, ac y dychwelai efe ati yn ol cyn bo hir, fel y ca'ent fyned adref ill dau gyda eu gilydd cyn y nos. Felly arosodd hi yno, ac aeth yntau yn mlaen i edrych am yr anifeiliaid. Pan ddychwelodd i'r lle y gadawsai yr eneth, yr oedd hi wedi myned ymaith. Llwyr flinasai hi yn dysgwyl am dano ef, ac aethai i grwydro, gan chwilio am ei thaid. Bu yntau yn chwilio yn hir am dani hithau, ac er iddo waeddi, nid oedd neb yn ateb. Tybiodd efe y gallasai fod wedi dychwelyd adref, a throes yntau ei wyneb tua'r un man. Cyrhaeddodd i'r Tycoch ar fin nos, a dechreuodd holi a ddaethai Margaret adref. "Naddo," meddai fy mam, "pa le y gadawsoch chwi hi?" Dywedodd yntau yr holl hanes. Cyffro mawr fu y canlyniad. Aeth y newydd drwg o dŷ i dŷ fel ar edyn y trydan. Cododd yr holl gwm allan, ac i'r mynydd a hwy, a'm mam gyda hwy, i chwilio am y lodes fechan. Nid oedd ganddynt ddim i'w wneud ond ymranu yn wahanol ddosbarthiadau, cerdded yn mlaen, a gwaeddi, *cydwaeddi*, i edrych a barai eu cydlef i'r fechan glywed eu lleferydd. Wedi i'r dosbarth yr oedd fy mam gydag ef gydwaeddi llawer, gwaeddodd fy mam ei hunan ei goreu, a dyna yr eneth fechan yn ateb llais ei mam. Rhuthrodd pawb yn mlaen, a chyn hir dacw y ferch golledig yn mreichiau ei mam, er mawr lawenydd y ddwy. Crwydrasai Margaret, a gwaeddasai, ac wylasai nes pallu o'i nerth, a daliwyd hi gan y nos. Yna, mewn bryncyn teg, aeth dan ryw gareg gysgodol, gorweddodd, a chysgodd yn dawel. Ymdŷrodd defaid y lle yno ati, ac yr oedd yn hollol gynes yn eu mysg. Oddeutu tri o'r gloch y boreu, os wyf yn cofio yn gywir, y cafwyd hi. Noswaith sobr oedd hòno i fy nain, fy mrawd Evan, a minau, gartref; ond yr oeddwn i ar y pryd yn rhy fychan i amgyffred y trychineb, ond i raddau bychain. Ond diweddodd y cyfan mewn llawenydd teuluaidd, a chymydogaethol hefyd.

Ychydig iawn wyf yn gofio am y rhyfel* rhwng Prydain a Ffrainc,

* Coffeir yn yr Attodiad, ysgrif ail, am amgylchiad hynod yn nglŷn â'r cyfnod yma. Gwel hefyd *Dysgedydd* Ebrill, 1879.—D. V. T.

oddieithr brwydr Waterloo yn unig. Yr wyf yn cofio yr ymladdfa hòno yn burion. Yr oedd enw *Boniparti*, fel y gelwid ef, yn air teuluaidd yn nghymoedd mynyddig Meirion driugain mlynedd yn ol. Gwyddid ei fod wedi dianc o Elba, wedi glànio yn Ffrainc, a chymeryd gafael yn awenau llywodraeth y wlad hòno, ac ofnid gan y werinos anwybodus y deuai efe drosodd i Brydain. Yn mysg eraill, yr oeddym ninau yn ofni y deuai heibio i'n ty ni, ac y lladdai ni i gyd. Bu fy mrawd Evan, yr hwn sydd yn hynach na mi, a minau yn dyfalu pa le y diangem i ymguddio pan ddeuai i Bennantlliw Bach. Meddyliodd un o honom mai myned i ddaear llwynog oedd yn "Nghraig y Llestri" oedd y peth goreu i ni. Ofnai y llall y gallai y llwynog fod i fewn pan ae'm ni yno; ac felly, rhwng bod y llwynog i fewn, a *Boniparti* o'r tu allan a'i gleddyf yn ei law, y byddem ni mewn cyflwr peryglus rhwng y ddau. Pan oedd y mater dan ystyriaeth genym, daeth y newydd fod brwydr fawr wedi ei hymladd, a'r penrhyfelwr wedi cael ei lwyr orchfygu, ac wedi rhoddi ei hun i fyny i'r Saeson yn rhywle ar y môr. Yr oedd y wlad yn llawn o ysbryd rhyfela y pryd hwnw. Ymunasai dau frawd i fy mam â'r gwirfoddlu, ac yr wyf yn eu cofio yn dyfod adref unwaith yn eu gwisgoedd milwraidd i edrych am eu perthynasau. Bu llawer o ryfeloedd ar ol hyny rhwng gwahanol genedloedd yn Ewrop, a pharthau eraill o'r byd, ond y mae arwyddion yr amserau presenol yn awgrymu y bydd diwedd ar ryfel yn y man.

Yn fuan wedi terfyniad rhyfel Ffrainc, aeth ein bwthyn bychan ni, yr hwn oedd wrth dalcen y Tycoch, yn rhy gyfyng i'r teulu cynyddol a gyfaneddent ynddo, a chafodd fy nhad ganiatâd gan oruchwyliwr Syr Watkin i ail adeiladu hen dŷ adfeiliedig yn yr ardal o'r enw Tanycastell. Costiodd hyny i'm rhieni dipyn o arian, a chollasant y pryd hwnw bedair punt ar ddeg a roddasent yn fenthyg; a chyda hyny oll, dechreuodd y byd caled ac enbyd a ddilynodd ryfeloedd mawrion dechreuad y ganrif bresenol, wasgu yn drwm ar bob graddau, a darostyngwyd ninau, fel llaweroedd, i afaelion tlodi a chyfyngderau dirfawr. Yr wyf yn cofio mai ty newydd tlawd iawn oedd ein ty newydd ni. Yr oeddym erbyn hyn yn deulu lluosog, a swllt yn y dydd, ar ei fwyd ei hun, oedd cyflog fy nhad yn yr haner gauafol o'r flwyddyn, ac yr oedd haner pecaid o flawd ceirch yn costio i ni ddeg swllt a chwe' cheiniog; felly, prin y gallem gael bara, heb son am enllyn, gan y drudaniaeth. Buom am un pythefnos heb un tamaid o fara, caws, ymenyn, cig, na chloron. Dygwyddodd i ni gael ychydig o faip, a berwai ein mam y rhai hyny mewn dwfr, ac a'u rhoddai i ni i'w bwyta gyda y dwfr y berwasid hwynt ynddo, ac nid oedd ganddi ddim oedd well iddi ei hun, er fod un bychan yn sugno ei bron ar y pryd! Yr wyf yn cofio ei bod yn wylo am ei bod yn gorfod rhoddi i ni ymborth mor wael. Gwelais hi yn prynu rhuddion i'w wneud yn fara i ni. Gwingem ein goreu rhag tlodi, ond y cwbl yn ofer. Y prif beth a feddem i ymddibynu arno oedd cyflog fy nhad; ond bob yn ychydig, dysgasom ni, y plant, wau hosanau i'w gwerthu, ac enillem drwy

hyny ryw ychydig. O'r diwedd, cymerwyd fy nhad a'm mam, a'r teulu oll, yn afiach gan glefyd trwm. Buom felly yn hir iawn, a bu raid i ni gael cymhorth plwyfol y pryd hwnw. Bu brodyr a chwiorydd crefyddol yn dda iawn wrthym yn yr amgylchiad cyfyng. Yr oedd yn anhawdd iawn cael neb i'n hymgeleddu. Daeth fy nain o Ty'nygwynt atom; ond tarawyd hi gan y clefyd, dychwelodd adref, a bu farw yn fuan iawn. Un Ann Jones, chwaer y Parch. Ellis Evans, D.D., o'r Cefnmawr, a fu yn ffyddlon iawn i ddyfod atom. Deuai i'n gwylio y nos, a gweithiai yn ei lle y dydd. Bu wedi hyny yn wraig i un Evan Jones, Ty'nybraich, Dinas Mawddwy, ond bu farw flynyddoedd yn ol.

Yr oedd gan fy rhieni y pryd hwnw wely plyf da; ond gan ein bod ar y pryd yn cael cymhorth plwyfol, daeth *Overseer** y plwyf, a'i fab gydag ef, i'n ty ni, a thynasant y gwely odditan fy nhad, yr hwn oedd i olwg ddynol ar y pryd bron a marw, a'i synwyrau yn dyrysu yn fawr, gan rym tanllyd y clefyd, a gwerthasant y gwely i ddyn o'r ardal oedd ar gychwyn i America, a gosodwyd fy nhad i orwedd ar wellt. Yr oeddwn i yn dechreu gwellâu y pryd hwnw, ac yr wyf yn cofio gweled yr *Overseer* hwnw, gyda pherffaith ddideimladrwydd, yn myned a'r gwely ymaith. Mae gan ei fab blant, a chan un o'r rhai hyny blant hefyd. Na ddeued un o honynt byth i amgylchiadau mor gyfyng a'r rhai yr oeddym ni fel teulu tlawd ac afiach ynddynt y pryd hwnw; a phe deuent, na fydded iddynt gael ymddwyn tuag atynt mor galed a didosturi ag y cafodd fy rhieni ymddwyn tuag atynt yn yr amgylchiad dan sylw. Gwellhaodd pob un o honom yn raddol; ailymaflodd fy nhad yn ei waith, dechreuasom ninau wau hosanau, hel cèn ceryg, yr hwn a werthem am geiniog a dimai y pwys, mwy neu lai, ac felly, cynorthwyem dipyn ar ein rhieni. Nid oedd braidd gareg, o ychydig faintioli, yn yr holl fynyddau o gylch ein cartref nad oeddym yn ei hadnabod fel adnabod ein cymydogion, oblegid ein bod wedi bod mor fynych yn cèna yn eu plith. Buom lawer gwaith mewn perygl am ein heinioes wrth ddringo y creigiau i chwilio am y cèn, yn enwedig Margaret a minau, unwaith mewn craig a elwir "Clogwyn yr Eglwys," yn Mhennantlliw Bach. Aethom rywfodd i le y buom am oriau lawer yn methu yn lan a dyfod allan o hono; ond wedi bod yn garcharorion ar hyd y prydnawn, ni a lwyddasom i ddyfod oddiyno gyda y nos, dan grynu, uwchben dyfnder mawr a dychrynllyd, a'n bywydau yn ddiogel genym.

Yn haf y flwyddyn 1817, debygaf, gadawsom Tanycastell, ac aethom i'r Adwy Wynt, gerllaw Blaenlliw Isaf, i gadw hafod dros fisoedd yr haf. Yr oedd fy nhad yn gweithio ar y tyddyn, a ninau yn hanos ac yn cèna. Beudy oedd yr Adwy Wynt, a'r tân yn y naill ben iddo, a'r mwg yn myned allan drwy dwll yn ei dalcen, a wnaethid i fwrw gwair drwyddo i'r adeilad. Dychwelasom galangauaf i Tanycastell,

* Gadawyd yr enwau allan yn y fan hon. Yr oedd yr *Overseer* hwn yn ddyn pur adnabyddus yn yr ardal, ond y mae efe a Dafydd Thomas wedi huno yn yr angeu er's llawer blwyddyn, a chânt ill dau ymddangos yn y *dydd hwnw* gerbron brawdle yr Un didderbyn wyneb.—D. V. T.

lle yr oedd ein hychydig ddodrefn yn cael eu cadw drwy yr haf. Wedi dychwelyd yn ol, gwau, pabwyra, a chèna oedd fy ngorchwyl i a'r plant eraill yn y gauaf dilynol; ac weithiau, ae'm ar daith i gardota o fangre i fangre. Bu Margaret a minau yn cardota drwy ranau uchaf Meirion. Cysgem weithiau mewn tai, ac weithiau mewn ysguboriau, a dychrynwyd ni yn fawr unwaith mewn ysgubor lle y troisem i gysgu. Rhyw swn sisial a'n dychrynodd ni. Rhywrai tebyg i ninau oedd wedi troi i mewn, ond odid, am gysgod. Codasom ni, pa fodd bynag, ac aethom allan mor ddystaw ag y gallem, ac ymaith a ni, ac ni orphwysasom nes cyrhaedd ein cartref, er fod i ni filldiroedd lawer o ffordd, naw o leiaf. Bu Evan, sydd yn awr yn Meifod, a minau mor bell ag Aberystwyth ar daith gardotawl. Yr oedd genym Feibl bychan a llyfr hymnau i'w darllen, ac i ddysgu allan o honynt, yn ein hysgrepan. Heblaw hyny, yr oedd genym ledr, hoelion, mynawyd, edau grydd, a morthwyl bychan, tuag at drwsio ein clocs, ac edau a nodwydd tuag at drwsio ein dillad, pan fyddent mewn angen am hyny. Nid oedd fy mrawd ar y pryd ond wedi gadael ei ddegfed flwydd, na minau ond wedi gadael fy wythfed flwyddyn, ac yn gyru ar fy nawfed. Go ieuainc oeddym i fyned yn mhell oddicartref. Wrth ddychwelyd o Aberystwyth tua Towyn, Meirionydd, deallasom y costiai i ni ddwy geiniog bob un am groesi yr afon i Aberdyfi. Nid oedd genym ni yr un ddimai o arian; gan hyny, bu raid i ni werthu yr ychydig ŷd oedd genym i gael pedair ceiniog i dalu i'r cwch. Gwerthasom y cwbl am bedair ceiniog. Cafodd rhywun fargen dda. Yr oedd yr ŷd yn werth haner coron o leiaf, feddyliwn. Daethom i draeth yr afon Dyfi, ond bu raid i ni aros am gryn ddwy awr am y cwch o'r ochr arall. Yr oedd yn drai; ond cyn i'r cwch ddyfod, yr oedd y llanw yn dyfod i mewn. Daeth boneddwr tirion atom. Bob yn dipyn holodd ni. Dywedasom ninau ein holl hanes, a phwy oedd gweinidog Llanuwchllyn. Gwnaeth i ni ddarllen o'r Beibl oedd genym, ac adrodd pethau a ddysgasem. Wedi croesi yr afon, dywedodd wrth y cychwyr, "Yr wyf fi yn talu dros y plant bach." Ni ddeallasom ni ef ar y cyntaf, a phan oeddym a'r pres yn ein dwylaw yn eu cynyg i'r cychwr, dywedodd hwnw fod y boneddwr wedi talu drosom. Pwy ydoedd, ni wyddem ni; dyna yr olwg olaf a welsom ni arno; ond fe wnaeth weithred dda, pwy bynag ydoedd, gweithred a goffëir yn nydd y farn ddiweddaf.

Daethom i Dowyn, a chawsom le i gysgu mewn taflod wair yn nghŵr y dref. Addawodd y dyn a'n harweiniodd ni yno ddyfod a thamaid i ni, ond anghofiodd. Mewn taflod o wair, ac heb swper, y buom ni ein dau y noson hòno. Cawsom lety cysurus nos dranoeth yn y ty sydd wrth bont Dysyni, yn ochr Llanegryn i'r bont. Cawsom le i fwrw y Sabbath yn nhy'r Gawen, a chroeso calon hefyd. Cawsom waredigaeth fawr yn Nhowyn. Wrth godi y boreu o'r daflod wair, syrthiasom ein dau drwyddi i'r gwaelod. Syrthiais i ar flaen dant ôg, ond ni chefais nemawr o niwed. Cafodd fy mrawd fwy o niwed na myfi, a bu efe yn wylo yn hidl am beth amser. Yr oeddwn inau

yn hongian ar y dant ôg, ac ni allwn mewn un modd ymryddhau. Fy mrawd a'm tynodd oddiyno. Cyrhaeddasom adref yn iach, a dyna y daith gardotawl olaf i ni. Gyda dyddordeb yr edrychais yn wastad wed'yn ar y tai y lletyasom ynddynt. Ni ellais byth, ar fy nheithiau pregethwrol, fyned heibio y tai a'm lletyasant, heb deimlo diolchgarwch i Dduw, ac i ddynion hefyd, am y tiriondeb a dderbyniais yn nyddiau plentynrwydd a thlodi. A pha fodd y gallaswn?

* Ar y 25ain o Ebrill, 1819, cefais le gyda y diweddar Evan Davies, Tymawr, Pennantlliw Bach, i gadw caeau Craigytân. Yr oedd rhyngof rai misoedd a chyrhaeddyd pen fy negfed flwydd pan aethum yno. Arosais yno yn agos i saith mlynedd, sef hyd nes yr aethum yn egwyddorwas. Yr oedd genyf gyfle mynych i fod dan addysg fy nhad yn y blynyddoedd hyny oll, gan ei fod yn byw yn y gymydogaeth, ac yn fynych yn gweithio yn y Tymawr. Yr oedd teulu y Tymawr yn bobl wir grefyddol, ac yn aelodau gyda y Parch. Michael Jones yn yr Hen Gapel. Cefais yno lawer o fanteision crefyddol. Yr oedd addoliad teuluaidd yn cael ei gynal yn rheolaidd yno, a llywodraeth gref, gariadlawn, yn cael ei dal i fyny yn ddiysgog dros bawb a berthynent i'r teulu. Gwraig y Tymawr oedd y ddynes fwyaf deallus mewn duwinyddiaeth a welais i erioed, ac nid wyf yn dysgwyl cyfarfod ei chyffelyb byth mwyach. Yr oedd fel oracl ar holl bynciau crefydd. Cefais yno gyfle i ddarllen llawer o wahanol lyfrau, a chynyddais mewn gwybodaeth o bob math. Barnai y Parch. M. Jones mai dyledswydd plant yr eglwys oedd dyfod i'r cyfeillachau crefyddol i adrodd adnodau, ac i gael eu holi ynddynt. Byddwn inau yn myned, gydag eraill, a chefais lawer o fudd drwy hyny. Dysgodd fy nhad mi i ysgrifenu a rhifo, egwyddorion peroriaeth, a rheolau Barddoniaeth Gymreig, a gallwn gyfansoddi englynion lled ddifai pan oeddwn oddeutu 14eg oed. Gwr arall a fu yn addysgydd parod i mi yn rheolau barddoniaeth gaeth oedd Mr. John Parry, Deildref Isaf. Bardd rhagorol oedd y gwr hwnw, llawn o athrylith a thân awenyddol; ond bu farw o'r darfodedigaeth yn nghanol ei ddyddiau. Pan oeddwn yn hogyn cadw yn y Tymawr derbyniwyd fi yn aelod o Gymdeithas y Cymreigyddion yn Llanuwchllyn. Yr oedd swm bychan o arian i'w dalu gan aelodau ar eu derbyniad, ond ni feddwn i yr un geiniog; gan hyny, yn ol cynghor John Parry o'r Deildref, cyfansoddais englyn i ofyn am gael fy nerbyn yn rhad. Adroddais ef yn y cyfarfod Cymrodorol, a llwyddais i gael derbyniad heb dalu dim. Parheais yn aelod tra yr arosais yn yr ardal hòno. Enillais wobr am chwe' englyn o farwnad i Evan Davies, brawd gwraig y dafarn lle y cynelid ein cyfarfodydd. Y wobr oedd ciniaw ar ddydd gwyl Dewi, a pheint o gwrw gydag ef. Dyna y tro cyntaf i mi brofi cwrw; ofnwn o hyd iddo fy meddwi. Bum am rai oriau yn ei yfed, ond gadewais dipyn o hono heb ei gyffwrdd, rhag ofn iddo feistroli fy ymenydd. Cefais i lawer o

* O barth amgylchiad dyddorol a ddygwyddodd yn y flwyddyn 1818, gwel ysgrif y drydedd yn yr Attodiad, a'r *Dysgedydd* am Ragfyr, 1877.—D. V. T.

lle yr oedd ein hychydig ddodrefn yn cael eu cadw drwy yr haf. Wedi dychwelyd yn ol, gwau, pabwyra, a chèna oedd fy ngorchwyl i a'r plant eraill yn y gauaf dilynol; ac weithiau, ae'm ar daith i gardota o fangre i fangre. Bu Margaret a minau yn cardota drwy ranau uchaf Meirion. Cysgem weithiau mewn tai, ac weithiau mewn ysguboriau, a dychrynwyd ni yn fawr unwaith mewn ysgubor lle y troisem i gysgu. Rhyw swn sisial a'n dychrynodd ni. Rhyw-rai tebyg i ninau oedd wedi troi i mewn, ond odid, am gysgod. Codasom ni, pa fodd bynag, ac aethom allan mor ddystaw ag y gallem, ac ymaith a ni, ac ni orphwysasom nes cyrhaedd ein cartref, er fod i ni filldiroedd lawer o ffordd, naw o leiaf. Bu Evan, sydd yn awr yn Meifod, a minau mor bell ag Aberystwyth ar daith gardotawl. Yr oedd genym Feibl bychan a llyfr hymnau i'w darllen, ac i ddysgu allan o honynt, yn ein hysgrepan. Heblaw hyny, yr oedd genym ledr, hoelion, mynawyd, edau grydd, a morthwyl bychan, tuag at drwsio ein clocs, ac edau a nodwydd tuag at drwsio ein dillad, pan fyddent mewn angen am hyny. Nid oedd fy mrawd ar y pryd ond wedi gadael ei ddegfed flwydd, na minau ond wedi gadael fy wythfed flwyddyn, ac yn gyru ar fy nawfed. Go ieuainc oeddym i fyned yn mhell oddicartref. Wrth ddychwelyd o Aberystwyth tua Towyn, Meirionydd, deallasom y costiai i ni ddwy geiniog bob un am groesi yr afon i Aberdyfi. Nid oedd genym ni yr un ddimai o arian; gan hyny, bu raid i ni werthu yr ychydig ŷd oedd genym i gael pedair ceiniog i dalu i'r cwch. Gwerthasom y cwbl am bedair ceiniog. Cafodd rhywun fargen dda. Yr oedd yr ŷd yn werth haner coron o leiaf, feddyliwn. Daethom i draeth yr afon Dyfi, ond bu raid i ni aros am gryn ddwy awr am y cwch o'r ochr arall. Yr oedd yn drai; ond cyn i'r cwch ddyfod, yr oedd y llanw yn dyfod i mewn. Daeth boneddwr tirion atom. Bob yn dipyn holodd ni. Dywedasom ninau ein holl hanes, a phwy oedd gweinidog Llanuwchllyn. Gwnaeth i ni ddarllen o'r Beibl oedd genym, ac adrodd pethau a ddysgasem. Wedi croesi yr afon, dywedodd wrth y cychwyr, "Yr wyf fi yn talu dros y plant bach." Ni ddeallasom ni ef ar y cyntaf, a phan oeddym a'r pres yn ein dwylaw yn eu cynyg i'r cychwr, dywedodd hwnw fod y boneddwr wedi talu drosom. Pwy ydoedd, ni wyddem ni; dyna yr olwg olaf a welsom ni arno; ond fe wnaeth weithred dda, pwy bynag ydoedd, gweithred a gofféir yn nydd y farn ddiweddaf.

Daethom i Dowyn, a chawsom le i gysgu mewn taflod wair yn nghŵr y dref. Addawodd y dyn a'n harweiniodd ni yno ddyfod a thamaid i ni, ond anghofiodd. Mewn taflod o wair, ac heb swper, y buom ni ein dau y noson hòno. Cawsom lety cysurus nos dranoeth yn y ty sydd wrth bont Dysyni, yn ochr Llanegryn i'r bont. Cawsom le i fwrw y Sabbath yn nhy'r Gawen, a chroeso calon hefyd. Cawsom waredigaeth fawr yn Nhowyn. Wrth godi y boreu o'r daflod wair, syrthiasom ein dau drwyddi i'r gwaelod. Syrthiais i ar flaen dant ôg, ond ni chefais nemawr o niwed. Cafodd fy mrawd fwy o niwed na myfi, a bu efe yn wylo yn hidl am beth amser. Yr oeddwn inau

yn hongian ar y dant ôg, ac ni allwn mewn un modd ymryddhau. Fy mrawd a'm tynodd oddiyno. Cyrhaeddasom adref yn iach, a dyna y daith gardotawl olaf i ni. Gyda dyddordeb yr edrychais yn wastad wed'yn ar y tai y lletyasom ynddynt. Ni ellais byth, ar fy nheithiau pregethwrol, fyned heibio y tai a'm lletyasant, heb deimlo diolchgarwch i Dduw, ac i ddynion hefyd, am y tiriondeb a dderbyniais yn nyddiau plentynrwydd a thlodi. A pha fodd y gallaswn?

* Ar y 25ain o Ebrill, 1819, cefais le gyda y diweddar Evan Davies, Tymawr, Pennantlliw Bach, i gadw caeau Craigytân. Yr oedd rhyngof rai misoedd a chyrhaeddyd pen fy negfed flwydd pan aethum yno. Arosais yno yn agos i saith mlynedd, sef hyd nes yr aethum yn egwyddorwas. Yr oedd genyf gyfle mynych i fod dan addysg fy nhad yn y blynyddoedd hyny oll, gan ei fod yn byw yn y gymydogaeth, ac yn fynych yn gweithio yn y Tymawr. Yr oedd teulu y Tymawr yn bobl wir grefyddol, ac yn aelodau gyda y Parch. Michael Jones yn yr Hen Gapel. Cefais yno lawer o fanteision crefyddol. Yr oedd addoliad teuluaidd yn cael ei gynal yn rheolaidd yno, a llywodraeth gref, gariadlawn, yn cael ei dal i fyny yn ddiysgog dros bawb a berthynent i'r teulu. Gwraig y Tymawr oedd y ddynes fwyaf deallus mewn duwinyddiaeth a welais i erioed, ac nid wyf yn dysgwyl cyfarfod ei chyffelyb byth mwyach. Yr oedd fel oracl ar holl bynciau crefydd. Cefais yno gyfle i ddarllen llawer o wahanol lyfrau, a chynyddais mewn gwybodaeth o bob math. Barnai y Parch. M. Jones mai dyledswydd plant yr eglwys oedd dyfod i'r cyfeillachau crefyddol i adrodd adnodau, ac i gael eu holi ynddynt. Byddwn inau yn myned, gydag eraill, a chefais lawer o fudd drwy hyny. Dysgodd fy nhad mi i ysgrifenu a rhifo, egwyddorion peroriaeth, a rheolau Barddoniaeth Gymreig, a gallwn gyfansoddi englynion lled ddifai pan oeddwn oddeutu 14eg oed. Gwr arall a fu yn addysgydd parod i mi yn rheolau barddoniaeth gaeth oedd Mr. John Parry, Deildref Isaf. Bardd rhagorol oedd y gwr hwnw, llawn o athrylith a thân awenyddol; ond bu farw o'r darfodedigaeth yn nghanol ei ddyddiau. Pan oeddwn yn hogyn cadw yn y Tymawr derbyniwyd fi yn aelod o Gymdeithas y Cymreigyddion yn Llanuwchllyn. Yr oedd swm bychan o arian i'w dalu gan aelodau ar eu derbyniad, ond ni feddwn i yr un geiniog; gan hyny, yn ol cynghor John Parry o'r Deildref, cyfansoddais englyn i ofyn am gael fy nerbyn yn rhad. Adroddais ef yn y cyfarfod Cymrodorol, a llwyddais i gael derbyniad heb dalu dim. Parheais yn aelod tra yr arosais yn yr ardal hòno. Enillais wobr am chwe' englyn o farwnad i Evan Davies, brawd gwraig y dafarn lle y cynelid ein cyfarfodydd. Y wobr oedd ciniaw ar ddydd gwyl Dewi, a pheint o gwrw gydag ef. Dyna y tro cyntaf i mi brofi cwrw; ofnwn o hyd iddo fy meddwi. Bum am rai oriau yn ei yfed, ond gadewais dipyn o hono heb ei gyffwrdd, rhag ofn iddo feistroli fy ymenydd. Cefais i lawer o

* O barth amgylchiad dyddorol a ddygwyddodd yn y flwyddyn 1818, gwel ysgrif y drydedd yn yr Attodiad, a'r *Dysgedydd* am Ragfyr, 1877.—D. V. T.

addysg drwy feirniadaethau R. ab Dewi a John Humphreys ar gyfansoddiadau ymgeiswyr yn nghyfarfodydd y gymdeithas. Wedi treulio chwe' blynedd a deng mis yn ddedwydd iawn yn y Tymawr, aethum yn egwyddorwas at Mr. Simon Jones, Lôn, Llanuwchllyn, tad y diweddar Simon Jones, Bala. Dechreuais fy egwyddorwasiaeth Mawrth 1, 1826. Dwy flynedd ac wyth mis oedd y tymor i mi addysgu fy nghelfyddyd.* Yr oedd fy meistr yn ôf gwlad pur dda; ond yr oedd ei fab, Thomas Jones, yn grefftwr rhagorol, ac yn fardd gwych hefyd. Cyfansoddodd ef a minau lawer dernyn gyda ein gilydd, a dysgais lawer o gywreinion fy nghelfyddyd oddiwrtho ef. Nid oedd Thomas Jones gyda chrefydd; ond yr oedd ei dad a'i fam, a thair chwaer iddo, yn aelodau ffyddlon gyda y Methodistiaid, a'i frawd, Simon Jones, yn perthyn i'r Annibynwyr. Simon oedd yr unig un o'r meibion oedd gyda chrefydd. Teulu dedwydd iawn, hawddgar dros ben, oedd teulu y Lôn, a bum i yn nodedig o gysurus gyda hwy. Y modd y cefais i fyned yn egwyddorwas oedd, drwy i'r diweddar Barchedig Michael Jones, gweinidog yr Hen Gapel, roddi i mi y flwyddyn hòno arian prentisiaeth plant tlodion rhieni crefyddol, oedd wedi eu gadael yn ewyllys Dr. Daniel Williams, mewn cysylltiad âg Ysgol Rad y Doctor, yr hon oedd dan ofal y Parch. M. Jones. Gyda llaw, Mr. Jones, yn ddiau, oedd y dyn cryfaf ei feddwl a pherffeithiaf ei fuchedd a gyfarfum i erioed. Nid oedd bwlch yn ei nodweddiad; ond cafodd driniaeth chwerw yn Llanuwchllyn. Mae hanes yr ymraniad a fu yno i'w gael yn *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, fel na raid i mi ychwanegu.

Pan ddaeth fy amser i fyny yn y Lôn, aethum i weithio at Mr. Robert Roberts, Ty'nycefn, ger Corwen. Bum yno am 6 mis. Dyn medrus fel celfyddydwr oedd fy meistr. Yr oedd hefyd yn gryn ddarllenwr, a chanddo lawer o lyfrau pur dda. Ond y pryd yr oeddwn i yno, yr oedd yn arfer meddwi yn fynych iawn; ond *tyngodd* y ddiod feddwol, a bu yn llwyrymwrthodwr â hi tra y bu byw. Yr oedd hyny flynyddau cyn i lwyrymataliad ddyfod i Gymru.

Gadewais Dy'nycefn yn nechreu Mai, 1829, ac aethum i weithfaoedd Deheudir Cymru i weithio am rai misoedd. Bum yn Nhredegar a Dowlais, a dysgais gryn lawer yn y misoedd hyny. Pan yn Dowlais, cefais barch a charedigrwydd mawr gan feistr y gwaith, a'm cydweithwyr hefyd. Pan yn Nhredegar, gwelais 25 o bobl yn cael eu bedyddio trwy drochiad. Yr oedd Mr. Davies, y gweinidog, yn rhy wael ei iechyd i fyned i'r dwfr gyda hwy. Dyn arall oedd yn eu trochi; ond rhoddodd Mr. Davies anerchiad ar làn y dwfr. Yr oedd fy mrawd Evan gyda mi yn gwrando yr anerchiad, ac yn edrych ar y trochiad. Wrth weled y merched yn myned i'r dwfr, ac yn dyfod allan o hono, daethom ni ein dau i'r penderfyniad, nas gallai dull felly o fedyddio *ddim bod* o ordeiniad y llednais Iesu o Nazareth, ac ni ddilëwyd yr argraff anffafriol i drochyddiaeth a wnaed ar fy meddwl y pryd hwnw hyd y dydd heddyw; ac wrth chwilio yn fanwl

* Gwel yr Attodiad, ysgrif y bedwaredd; a hefyd *Dysgedydd* Ebrill, 1876.—D. Y. T.

i'r mater mewn amser diweddarach, gwelais yn eglur mai nid bedydd y crediniol yn unig, a hwnw trwy drochiad, ydyw y bedydd Cristionogol, ond fod plant mor gymhwys i fod yn ddeiliaid bedydd ag ydyw pobl mewn oedran. Er gwahaniaethu o honof felly oddiwrth yr Hybarch Philip Davies (mab Dewi Ddu, dadl fawr yr Iawn yn *Seren Gomer* gynt), yr oeddwn i a'm brawd yn hoff iawn o'i glywed yn pregethu. Cynilais bum' punt yn Ty'nycefn, a rhoddais hwynt ar lôg. Cychwynais i Ferthyr gyda saith swllt a chwecheiniog yn fy llogell. Cysgais mewn gwesty bob nos. Cerddais yr holl ffordd, a phrynais fwyd ar hyd y daith, ac yr oedd genyf oddeutu tri swllt yn weddill erbyn cyrhaeddyd Tredegar. Cerddais yn ol drachefn bob cam yn nghwympiad y flwyddyn, a gweithiais y gauaf a'r gwanwyn drachefn gyda fy hen gyfeillion yn y Lôn, Llanuwchllyn, lle oedd yn gartref da i mi bob amser.

Yn Mai, 1830, aethum i Groesoswallt at Mr. Edward Price o Gareg-y-big, Llangwm gynt, a bum gydag ef hyd ddiwedd Mai, 1831, pryd yr ymadewais oblegid gwaeledd fy iechyd, ac ymwelais â glàn y môr, yn sir Gaernarfon, a chefais waith am dri mis gyda Mr. William Jones, yn Nghonwy, ac adferwyd fy iechyd yn hollol.*

Yn nechreu Medi, 1830, pan oeddwn gyda Mr. Price yn Nghroesoswallt, y daethum yn benderfynol i ymuno âg eglwys Dduw. Nid oedd yr un gynulleidfa Gymreig y pryd hwnw yn perthyn i'r Annibynwyr yn y dref i mi ymuno â hi, ac nid oeddwn inau yn medru ond ychydig iawn o Saesonaeg. Yr unig gynulleidfa Gymreig yn y lle oedd un y Methodistiaid Calfinaidd, a chyda hwy y byddwn i yn gwrandaw yr efengyl. Annibynwr oeddwn i o farn a theimlad; ond pa beth a wnawn dan yr amgylchiadau oedd y cwestiwn. Aethum i'r Main, Meifod, i ymgynghori â fy nhad beth oedd oreu i'w wneuthur. Yr oeddwn i yn meddwl mai gwell oedd i mi gael fy nerbyn yn aelod yno, os oedd modd, ond barnai fy nhad, gan na allwn i fod yno yn y *society*, y byddai fy nerbyn felly yn beth dyeithr braidd, a hollol anarferol yn y Main; a chynghorodd fi, yn hytrach nag oedi dim, rhag i'r argraffiadau ar fy meddwl wanhau, i ymuno â'r gynulleidfa Gymreig yn Nghroesoswallt fel aelod achlysurol, a phan ddysgwn yr iaith Saesonaeg, y cawn lythyr cymeradwyol ganddynt hwy i'm trosglwyddo i'r gynulleidfa Seisonig oedd dan ofal Mr. Jenkyn (Dr. Jenkyn, wedi hyny.) Dilynais ei gynghor, a derbyniwyd fi yn aelod yn y gynulleidfa Gymreig. Gwnaeth rhai beth gwrthwynebiad, oblegid y gwahaniaeth barn oedd rhyngof fi a'r Methodistiaid. Ond dywedodd Mr. Ffowc Parry, nad oedd efe yn gweled un rhwystr yn y mater, oblegid os oeddwn i yn bwriadu aros yn y dref hòno, ac yn byw yn addas i'r efengyl, y gallent hwy roddi llythyr cymeradwyol i mi i fyned at y Saeson, pan ddysgwn ddigon o Saesonaeg i allu cydaddoli â hwy; ac felly derbyniwyd fi. Cefais lawer iawn o ymgeledd ac adeiladaeth yn y gynulleidfa Gymreig. Diflanodd fy rhagfarn yn erbyn y Methodistiaid, a chymerais inau ofal am beidio eu blino

* Gwel yr Attodiad, ysgrif bumed, a hefyd y *Dysgedydd* am Mai, 1880.—D. V. T.

hwy yn yr Ysgol Sul, a'r cyfeillachau neillduol, â'm golygiadau neillduol fy hun am Natur Eglwys, Iawn Crist, Prynedigaeth, gwaith yr Ysbryd Glan yn nychweliad pechaduriaid, a phynciau cyffelyb. Bum yn y gyfeillach o ddechreu Medi, 1830, hyd ddechreu Mawrth, 1831, cyn cael fy nerbyn yn gyflawn aelod. Daeth William Vaughan, yn ddiweddar o'r Waun, i'r *society* yr un noswaith a mi, ac os nad wyf yn camgofio, derbyniwyd ni yn aelodau yr un pryd. Parhaodd ein parch tuag at ein gilydd tra y bu efe byw. Cyfansoddais inau englynion coffadwriaethol am dano, ac yr wyf yn meddwl eu bod wedi eu cyhoeddi.

Tra y bum yn gweithio gydag Edward Price, ymroddais i ddysgu Saesonaeg. Arferwn godi yn foreu iawn yn yr haf, ac ysgrifenwn restr o eiriau Saesonaeg, a'u harwyddocâd yn Gymraeg wrthynt, a hoeliwn hwy ar y fantell uwchben y tân lle yr oeddwn yn gweithio, a dysgwn hwy allan ar hyd y dydd; yna, darllenwn lyfr Seisonig ar ol noswylio, ac yn achlysurol, cyfarfyddwn â rhai o'r geiriau a fuasent dan hoelion genyf, a thaflent gryn oleuni ar y brawddegau y dygwyddent fod ynddynt. Yr oedd yn anfantais i mi i ddysgu Saesonaeg ein bod yn wastad yn siarad Cymraeg gyda ein gilydd ar yr aelwyd gartref, ond cymerais i Ramadeg Seisonig, ac astudiais ef. Yr oeddwn yn deall y Gramadeg Cymraeg yn weddol dda o'r blaen, ac felly, drwy ddiwydrwydd ac ymdrech, daethum yn raddol yn alluog i weddïo ac i anerch Ysgol Sabbathol Seisonig a gynaliai y Methodistiaid y pryd hwnw yn Mhorth-y-waun, i'r hon y gadewid i mi fyned, er mwyn i mi ymarfer tipyn â'r iaith Seisonig, gyda gwr ieuanc arall o'r enw John Davies, yr hwn oedd yn Sais da iawn, a dysgodd hwnw lawer arnaf fi.

Wedi i mi adael Conwy, ac aros rhyw ychydig yn Llanuwchllyn, dychwelais at Mr. Edward Price i Groesoswallt, a bu fy mrawd Evan a minau yn gweithio yno am ran o'r flwyddyn 1832. Bum i yn gweithio am dro hefyd gyda Mr. William Evans, Lawnt, yn nghymydogaeth Croesoswallt, yr hwn oedd yn cadw gefail a thafarn. Lle direol dros ben oedd hwnw. Y nos gyntaf yr aethum yno, noson o ganu a dawnsio yn y ty gan ynfydion a ddaethent yno o redegfeydd meirch ar Gyrn-y-bwch, cefais i freuddwyd rhyfedd iawn, ac a wnaeth effaith ddofn ar fy meddwl, a phenderfynais yn y fan na chyffyrddwn â dafn o ddiod feddwol tra y byddwn yn y lle, ac ni wneuthum yehwaith, a chefais ddiolch gan wraig y ty wrth ymadael am hyny, er ei bod yn dafarnwraig, oblegid, meddai hi, fod y gweithwyr a arferent yfed yno yn colli eu hamser, ac yn esgeuluso eu gwaith, fel yr oedd eu colled hwy oddiwrth eu hesgeulusdod yn llawer mwy na'u henill oddiwrth y cwrw a yfent. Wedi gadael y Lawnt, bum am fis gyda gwraig weddw bur gas yn gweithio; ond ni allwn ei dyoddef yn hŵy na mis. Ymadewais, ac aethum yn *bartner* â Mr. Thomas Letsom, Morda, ger Croesoswallt, mewn *foundry* fechan. Gweithiais yn galed iawn ddydd a nos, ac er fod fy mhartner, Thomas Letsom, yn meddwi llawer, talasom ein ffordd i bawb, ac enillasom swm go wych o arian heblaw hyny.

Ar ddydd Nadolig, 1833, cynaliwyd cyfeillach yn y capel Methodistaidd yn Nghroesoswallt, a darllenwyd llythyr gollyngdod i mi o flaen y frawdoliaeth i fyned at y Saeson, gan fy mod bellach wedi dysgu Saesonaeg yn weddol dda. Ymddygodd y Methodistiaid ataf yn hynod o dirion a charedig yn fy ymadawiad, ac y mae genyf barch dwfn iddynt byth ar ol fy arosiad yn eu plith. Cymerais y llythyr, ac ymunais yn hollol ddirwystr â'r gynulleidfa Seisonig oedd dan ofal Mr. Jenkyn. Bu yn fanteisiol iawn i mi gael bod yn aelod gyda y Saeson. 1. Yr oedd Mr. Jenkyn yn bregethwr rhagorol. Llefarai yn Saesonaeg yn eglurach na neb a glywswn i erioed o'r blaen. 2. Cefais ymarfer âg areithio yn yr iaith Seisonig fy hunan mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn amgylchoedd Croesoswallt, mewn cysylltiad â'r Ysgol Sabbathol, a daeth hyny yn raddol yn esmwyth i mi. 3. Cefais lawer o gyfeillion newyddion, y rhai a fuont yn ffyddlon i mi bob amser wedi hyny. Mynai y cyfreithiwr Mr. Minshull i mi roddi fy ngwaith heibio, a myned i bregethu yr efengyl; a phan oeddwn, rai blynyddoedd wedi hyny, yn pregethu i'r Saeson yn yr Hen Gapel, ysgydwodd law yn gynhes â mi, a dywedodd wrthyf mor dda oedd ganddo fy mod wedi cydymffurfio â'i gynghor. Efe oedd y cyntaf erioed a soniodd wrthyf am fyned yn bregethwr. 4. Y pryd hwnw y daethum yn gydnabyddus âg "*Equity and Sovereignty*" Dr. Edward Williams. Cefais fenthyg argraffiad 1809 gan Mr. Edward Davies o Lwynymapsi, yr hwn oedd yn dduwinydd rhagorol, ac yn fuan wedi hyny, prynais y trydydd argraffiad o'r gwaith; ac wedi ei ddarllen yn fanwl, rhyfeddais fod cynifer o ddynion yn condemnio y traethawd—dynion na fuont erioed yn deilwng i ddatod careiau ei esgidiau ef. Prynais hefyd waith Jonathan Edwards ar "Ryddid yr Ewyllys," a bu y llyfr hwnw, mewn cysylltiad â gwaith Dr. Williams, yn foddion effeithiol i sefydlu fy marn ar amryw o bynciau pwysicaf crefydd. Darllenais amryw o lyfrau da eraill ar wahanol bynciau, a daethum yn raddol i ddechreu agor fy llygaid, a deall rhyw ychydig.

Yn niwedd Ionawr, 1835, gadewais Groesoswallt, ac aethum i weithio at fy hen feistr i Gonwy, yr hwn oedd erbyn hyn yn cadw tawdd-dy, tebyg i'r hwn oedd gan Letsom a minau yn Morda. Bum yno hyd wanwyn y flwyddyn 1840. Lle caled, ond pur ddedwydd i mi, oedd hwnw. Yr oedd achos newydd wedi cael ei ddechreu gan yr Annibynwyr yn Nghonwy, a chapel newydd yn cael ei adeiladu, yr hwn a agorwyd ar ddydd Iau Dyrchafael, yn 1835. Y Parch. Richard Rowlands oedd y gweinidog yn Nghonwy ac yn Henryd y pryd hwnw. Ymunais i â'r gynulleidfa fechan hòno, ac ymdrechais fod yn ddefnyddiol yn eu mysg.

Ar y 12fed o Awst, 1836, priodwyd fi âg Isabella, merch hynaf fy meistr, a buom ein dau fyw yn ddedwydd a diangen, nes y torwyd hi i lawr gan angeu, yn nechreu y flwyddyn 1847.

Yn haf y flwyddyn 1836, yr oedd y gweinidog, y Parch. R. Rowlands, yn gwaelu o ran ei iechyd; ac er iddo fyned dan ddwylaw amryw o feddygon, nid oedd yn cael dim llesâd. Yn mis Hydref

y flwyddyn hòno, cynghorwyd fi gan lawer i bregethu yn achlysurol, er cynorthwyo Mr. Rowlands yn ei wendid; ac wedi tipyn o hwyrfrydigrwydd, ufuddheais i'w cais; ac wedi dywedyd ychydig yn y gyfeillach neillduol, a chael cymeradwyaeth yr eglwys fechan hòno, dechreuais bregethu yn gyhoeddus, yn gyntaf oll yn Henryd, yna yn Nghonwy. Wedi ymaflyd felly yn y gorchwyl mawr o bregethu yr efengyl, ymroddais yn egnïol i gyfansoddi pregethau, a theithiais lawer, ar fy nhraed yn wastad, i'w traddodi yn yr holl gapeli oedd o bob ochr i afon Conwy. Fy nheithiau pellaf oeddynt i Dolyddelen, Pentre-y-Foelas, Moelfro, swydd Dinbych; Bethesda, Arfon; Bangor, Beaumaris, a Chaergybi. Cychwynwn nos Sadwrn, wedi noswylio, gan amlaf, a dychwelwn yn foreu iawn ddydd Llun at fy ngorchwylion yn Nghonwy, a pharheais i lafurio felly—pregethu a gweithio bob yn ail, am dair blynedd a haner. Cyn hir, ar ol i mi ddechreu pregethu, aeth Mr. Rowlands yn rhy wael i lafurio mwyach. Clywais ef yn traddodi ei bregeth olaf. Y testun oedd Phil. iii. 18: "Canys y mae llawer yn rhodio, am y rhai y dywedais i chwi yn fynych, ac yr ydwyf yr awr hon hefyd dan wylo yn dywedyd, mai gelynion croes Crist ydynt." Yr oedd efe a'r gynulleidfa yn ymwybodol mai y tro diweddaf iddo ef esgyn i'r areithfa yn Nghonwy ydoedd, ac oedfa ddifrifol iawn a gawsom. Bu yno wylo yn yr areithfa, ac yn yr eisteddleoedd hefyd. Aeth Mr. Rowlands i Feddyg-dy Dinbych, ac yno y bu farw Rhagfyr 10fed, 1836, ddeunaw mlynedd ar hugain i'r dydd wyf fi yn ysgrifenu y geiriau hyn, sef Rhagfyr 10fed, 1874. Dyn da a hawddgar iawn oedd Mr. Rowlands. Wedi ei farwolaeth ef, dechreuodd mân-brofedigaethau pregethwyr fy nghylchynu inau. Yr oedd yn yr eglwys yn Nghonwy rai dynion anhywaith a drygionus, yn mysg dynion da a ffyddlawn iawn, a chefais beth poen oddiwrth y dosbarth gwael hwnw am dymor; sef, hyd nes y daeth y Parch. Richard Parry i ymsefydlu yno ac yn Henryd, yn weinidog. Pregethwr rhagorol oedd Mr. Parry (Gwalchmai), a chefais lawer o les dan ei weinidogaeth tra yr arosais yn Nghonwy.

Yr oedd Cymdeithas Cymedroldeb yn ein plith er's tro, ond yr oedd yfed a meddwi yn myned yn mlaen er hyny. Wrth weled mor aneffeithiol oedd Cymdeithas Cymedroldeb i atal y diota a'r meddwi ymffurfiodd lluaws o honom yn Gymdeithas Lwyrymataliol oddiwrth ddiodydd meddwol, dan arweiniad y diweddar Hybarch Evan Richardson. Llafuriasom yn egnïol o blaid dirwest, a llwyddasom yn ddirfawr. Yr oedd yr holl dafarnwyr yn ein herbyn; ond yr oedd Duw gyda ni. Cawsom wawd a dirmyg, ond cawsom ben y gelyn meddwdod i lawr i raddau helaeth iawn. Diolch i Dduw. Yr wyf y dydd heddyw mor sefydlog fy marn am y diodydd syfrdanol ag oeddwn y pryd hwnw, a rhoddais yn wastad ar hyd fy oes weinidogaethol, y dylanwad bychan oedd genyf yn erbyn eu hyfed fel diodydd cyffredin, ac o blaid llwyrymwrthodiad â hwynt.

Yr oedd yn nghymydogaeth Conwy a dyffryn Llanrwst amryw o ddynion hynod yr amser hwnw, megys John Owen, Cyffin, yr hwn

oedd ar y pryd yn bregethwr gyda'r Wesleyaid, ac yn ddyn go neillduol; William Bridge, blaenor gyda'r un blaid, a dyn teilwng a dylanwadol; Owen Owens, Tyddyn Cynal, hen bererin rhyfedd iawn; David Jones, Salem, oedd yn ddyn da, diniwaid, llawn o arabedd; William Jones, hen weinidog Dwygyfylchi, Cristion rhagorol, a pherchen synwyr cyffredin cryf iawn, ac eraill a allwn enwi; ond nid oes genyf amser i wneud sylwadau arnynt. Y maent oll ond Mr. Bridge wedi eu claddu. Heddwch i'w gweddillion yn eu beddrodau.

Yn nechreu y flwyddyn 1840, aethum i *supplyo* am ddau Sabbath i Dinas Mawddwy, a'r eglwysi cysylltiedig â'r Dinas, a derbyniais alwad unfrydol oddiwrth yr eglwysi yn Mawddwy i ddyfod atynt i lafurio yn eu plith. Wedi ymgynghori â Duw (gobeithiaf), ac â llawer o'i bobl fwyaf defnyddiol, symudais yno ddechreu yr haf, ac ar y 19eg o Fehefin, urddwyd fi i'm swydd bwysig yn nghapel y Dinas. Yr oedd y gweinidogion canlynol yn cymeryd rhan yn y cyfarfod a'r neillduad:—Cadwaladr Jones, Dolgellau; Michael Jones, Llanuwchllyn; Edward Davies, Trawsfynydd; Hugh Lloyd, Towyn; Samuel Roberts, Llanbrynmair; Hugh Morgans, Sammah; Evan Evans, 'Bermo; Evan Griffith, Llanegryn; Hugh Hughes, y Foel; John Parry, Machynlleth; Hugh James, Brithdir; Ellis Hughes, Treffynon. Y Parch. Samuel Roberts a draddododd yr anerchiad ar "Natur Eglwys;" y Parch. Cadwaladr Jones a ofynodd y gofyniadau, ac a alwodd am arwydd o'u dewisiad o honof fi oddiwrth yr eglwysi, ac o'm derbyniad o'r alwad oddiwrthyf finau; y Parch. Michael Jones a bregethodd i mi, oddiwrth Actau xx. 20; Evan Evans, 'Bermo, a bregethodd i'r eglwysi a'r gwrandawyr, oddiwrth 1 Thes. v. 12, 13. Dylaswn ddywedyd yn gynt, mai yr Hybarch Edward Davies, Trawsfynydd, a weddïodd yr urddweddi, fel y gelwir hi. Yr oedd efe yn gâr pellenig i mi, a chyflawnodd ei ran yn y neillduad yn deimladol a phriodol dros ben. Yr un modd y gwnaeth yr Hybarch Michael Jones ei ran yntau.

Ymdrechais lafurio yn galed a diarbed yn y Dinas a'r holl amgylchoedd. Yr oedd yn adeg adfywiad grymus ar grefydd, a bu llwyddiant dymunol ar fy llafur. Derbyniais lawer iawn o aelodau newyddion. Dychwelodd llawer o wrthgilwyr yn ol, a chynyddodd y cynulleidfaoedd. Yr oedd dirwest yn blodeuo, a haelfrydedd Cristionogol ar gynydd yn ein mysg. Gelwid am fy ngwasanaeth yn yr eglwysi cymydogaethol, a bum yn ddedwydd yn fy holl gysylltiadau. Ni arosais ond ychydig dros ddwy flynedd yn y Dinas. Yn gynar yn 1842, derbyniais alwad unfrydol oddiwrth yr eglwys newydd oedd yn nghapel Salem, Liverpool. Yr oedd amrywiol bethau yn ymddangos i mi ar y pryd yn ffafriol i'm symudiad yno, a gwnaethum hyny yn nechreu Medi, 1842. Bum lawer gwaith yn amheu wedi hyny a wnaethum yn ddoeth ac yn dda i adael pobl oedd yn fy ngharu mor fawr, ac yn mawrygu fy enw mor drylwyr, a'r eglwysi oedd dan fy ngofal yn Meirion. Prin yr wyf wedi cael boddlonrwydd ddarfod i mi wneuthur yn iawn yn fy ymadawiad â

hwynt. Pa fodd bynag, yr oedd llawer o brif ddynion ein henwad yn fy anog i fyned i Liverpool, ac, ar y cyfan, bu fy ngweinidogaeth yn gymeradwy ac yn llwyddianus yno. Y diweddar Barch. T. Pierce oedd yr unig weinidog oedd gyda yr Annibynwyr pan sefydlais i yno. Yn mhen 9 mis ar ol i mi gymeryd gofal yr eglwys yn Salem, symudodd y Parch. W. Rees o Ddinbych i Liverpool, i gymeryd arolygiaeth yr eglwys yn y Tabernacl. Bu Mr. Pierce, a Mr. Rees (yn awr Dr. Rees), a minau yn cydlafurio yn unol a dedwydd iawn dros y tymor yr arosais i yn Liverpool, a chefais lawer iawn o addysg yn eu cwmnïaeth. Brodyr anwyl iawn oeddynt, ac yr oedd yr eglwysi mewn undeb hyfryd â'u gilydd dan ein gweinidogaeth, a phob un o'r cynulleidfaoedd yn cael mwynhau ein gweinidogaeth ni ein trioedd yn rheolaidd, oblegid arferem newid pulpudau bob Sabbath. Y pryd hwnw hefyd y dechreuasom yr achos yn Birkenhead. Bychan iawn oedd hwnw yn y dechreuad, ond y mae yn gallu cynal gweinidog ei hunan er's llawer o flynyddoedd bellach.

Cyfarfum i a'r plant â phrofedigaeth lem a cholled fawr yn Liverpool. Ar y 29ain o Ionawr, 1847, bu farw fy anwyl wraig ar enedigaeth merch, a bu farw y ferch hefyd yr un pryd, a chladdwyd y ddwy yn yr un arch, Chwefror 1af, yn nghladdfa Low Hill. Parodd marwolaeth Mrs. Thomas mor ddisymwth, a chyn cyrhaeddyd pen ei thrydedd flwydd ar ddeg ar hugain, gyffro a galar cyffredinol yn mysg eglwysi Annibynol Cymreig Liverpool, oblegid mawr berchid hi gan bawb o'i chydnabyddion yn y gwahanol eglwysi. Ni chawsai hi na'r plant iechyd da yno o gwbl, ond yr oeddwn i fy hunan yn weddol iach bob amser.

Wedi fy ngadael gyda thri o blant amddifaid afiach i gadw ty gyda morwynion, aeth bywyd yn Liverpool yn fwy o flinder nag o gysur i mi. Felly mi a symudais i'r wlad, a chymerais ofal yr eglwysi Annibynol yn mhlwyf Rhiwabon, sef yn Rhosllanerchrugog, Rhosymedre, a Rhiwabon. Pan yno, bu farw fy merch ieuangaf o'r clefyd coch, a chladdwyd hi yn mynwent y Wern, pan nad oedd ond tri mis dros saith mlwydd oed. Bu hyny yn ergyd trwm i mi, oblegid yr oedd yn fy ngolwg yn wastad yr anwylaf o'r teulu. Bum yn y Rhos oddeutu saith mlynedd. Llafuriais yno dan amryw o anfanteision, ond ymroddais i waith y weinidogaeth, ac ni adawodd yr Arglwydd fi yn hollol ychwaith. Cefais y fraint o dderbyn cryn nifer yn aelodau yn y gwahanol leoedd oedd dan fy ngofal, a chadwodd y gynulleidfa yn ei lluosogrwydd, a chynyddodd hefyd yn y gwahanol fanau. Y mae genyf barch calon i lowyr plwyf Rhiwabon, a bum ar y cyfan yn ddedwydd iawn yn eu mysg.

Yn y flwyddyn 1855, derbyniais alwad unfrydol oddiwrth yr eglwys Annibynol yn Mangor, Arfon. Buasai yno ddwy gynulleidfa, ond rhai bychain oedd y ddwy; a gwaeth na hyny, yr oedd teimladau annedwydd rhyngddynt â'u gilydd. Yr oedd y diweddar Dr. Arthur Jones wedi gadael Bangor er's tro, ond yr ydoedd yn awyddus iawn am i mi ddyfod yn olynydd iddo ef yn Mangor. Penderfynodd y

ddwy gynulleidfa hefyd ymuno â'u gilydd os deuwn i i'w plith i weinidogaethu; ac yr oeddwn inau yn hoff o Fangor bob amser, oblegid cymerasai y gynulleidfa fechan oedd dan ofal y Dr. Jones sylw serchog iawn o honof pan oeddwn yn dechreu pregethu, ac yn wastadol ar ol hyny hefyd. Yn fuan ar ol fy sefydliad yn Mangor, priodwyd fi â Miss Mary Vaughan, merch ieuangaf y diweddar Rowland Vaughan o Lanuwchllyn. Priodwyd ni yn Craven Chapel, Llundain, Ionawr 10fed, 1856, a buom fyw yn ddedwydd iawn hyd Mehefin 10fed, 1877, pryd y gadawodd fi, gan fyned i'r wlad well. Bum yn agos i ddeunaw mlynedd yn Mangor, yn ddedwydd a defnyddiol. [*Cefais alwad i fyned i'r Bala yn 1873, i fod yn Athraw mewn Duwinyddiaeth yn yr Athrofa Annibynol yno. Cefais lawer o ofid yn y Bala, nid oddiwrth yr eglwys na'r gynulleidfa, y myfyrwyr na'r athrawon. Yr oedd gwir gydgordiad rhwng y rhai hyn oll â mi; ond daeth y gofidiau oddiwrth ryw *Gothiaid* a *Vandaliaid* cythryblus o fân-weinidogion a lleygwyr, y rhai a sychedent am waed y Prifathraw, dyn na fu yr un o honynt *hwy* erioed yn deilwng i ddatod careiau ei esgidiau.]

Tra fum yn Mangor, disgynodd ysbryd barddoniaeth arnaf, ac enillais gadair Rhyl a chadair Caerlleon. Ni anfonais byth linell i Eisteddfod ar ol yr ymdrechfa ar wastadedd Caer.

Bu farw Ap Vychan oddeutu dau o'r gloch boreu dydd Gwener, y 23ain o Ebrill, 1880. Ei oed ydoedd 70 mlwydd 7 mis a dwy wythnos.

* Y mae yr adran sydd rhwng cromfachau yn gymhwys fel yr ysgrifenwyd hi yn y Cofnodion gwreiddiol gan Ap Vychan ei hun.—D. V. T.

# ATTODIAD.

## COFNODION CYMREIG, HEN A DIWEDDAR.

### *Ysgrif I.*

"NES penelin nag arddwrn," medd hen air adnabyddus yn mhlith ein cydwladwyr; felly hefyd, nes yw yr ardal lle y ganwyd ac y magwyd ef at feddwl a serch ysgrifenydd y llinellau hyn nag un ardal arall o fewn Cymru benbaladr; a naturiol yw iddo, yn gyntaf oll, ysgrifenu ychydig o gofnodion am ardaloedd ei fro gysefin.

Mae llawer o hynodion ac amrywion yn perthyn i'r rhandir a elwir Penllyn. Yn ei chanol y mae y llyn mawr, môr canoldir Meirion, yr hwn, weithiau, a wisga wên hawddgar a deniadol iawn, ond sydd heddyw yn noethi ei ddanedd, ac yn rhuo megys bwystfil ysglyfaethus, fel pe byddai am falu a llyncu pob peth sydd yn agos i'w derfynau;

ond er ei fawredd a'i rwysg, mae yn rhy fychan i foddloni ei ddyfroedd, änt allan o hono i chwilio am gartref mwy. cydnaws â'u naturiaeth yn mynwes y môr; rhywbeth yn debyg i ysbryd anfarwol dyn, yr hwn nis gall ymgartrefu ond am dymhor byr yn unlle, nes y cyrhaeddo fynwes y Duw a'i gwnaeth. Mae yn y llyn doraeth mawr o amrywiol bysg, ac felly y mae yn yr afonydd a ymarllwysant iddo. Dywedwyd yn fynych fod y brif afon sydd yn ymdywallt iddo yn rhedeg drwyddo heb ymgymysgu â'i ddyfroedd, ond nid yw hyny ddim ond un o freuddwydion y trigolion gynt, pan oedd nos anwybodaeth yn gordoi y wlad.

Mae yn Mhenllyn lwyni prydferth o amryw goedydd, dolydd breision, porfaoedd meillionog, eithinoedd llymion, ucheldiroedd corsiog, marwddyfroedd cysglyd, rhaiadrau trochionog, brysiog, a thrystiog, mawnogydd dyfnion, gwastadeddau grugog, rhosydd grugwelltog, a llechweddau caregog a diffrwyth, lawer iawn. Mae rhanau uchaf y rhandir yn nodedig o fynyddog. Mae y creigiau daneddog, ysgythrog, yn lluosog iawn; ar y rhai y mae mellt, gwlawogydd, eiraoedd, rhewogydd, a gwres, wedi bod yn diwyd weithio, nes datod rhanau dirif o honynt, nes y mae y rhanau hyny megys plant o amgylch traed eu rhiaint, ac yn gwireddu y ddiareb, "Odid fab cystal a'i dad." Yn mysg y ceryg hynotaf yn yr ardal, y mae "careg y lluniau," ar yr hon y ceir lluniau o amryw ffurfiau, a rhai o honynt yn dwyn llawer o debygrwydd i waith llaw dyn, neu sangiad troed anifail, cyn i'r gareg galedu fel y mae yn bresenol. Bu llawer o bobl feddylgar yn myfyrio uwchben "careg y lluniau," ac yn methu deall y dirgelwch sydd yn perthyn iddi. Yn mysg eraill, bu y daearegydd cyfarwydd, y diweddar Ioan Pedr, yn ei hastudio, a sicrhai efe i ni mai gwaith natur yw y cyfan, ac na fu gan law dyn, na throed anifail, ran yn y byd yn ffurfiad y lluniau; ac yr oedd efe yn awdurdod led uchel ar y fath bynciau, fel yr addefir yn gyffredinol.

Mae yma hefyd domenau pridd a cheryg, wedi eu ffurfio yn agos yn grynion, i'w cael mewn amryw fanau. Gwaith dwylaw dynion yw y rhai hyn, yn ddiau. Creda rhai mai claddfeydd i'r meirw oeddynt, ond tybia eraill mai yn orsafoedd arwyddion y bwriadwyd hwynt, er trosglwyddo newyddion o'r naill ardal i'r llall. Tyb-osodiadau, heb nemawr o sicrwydd yn perthyn iddynt, yw llawer o bethau a ddywedir am danynt. Mae un o honynt yn Nglyn Dyfrdwy, ar yr unig lecyn, o ben Bwlch yr Ysgog i Gorwen, lle y canfyddir Castell Dinas Bran. Mae yn lled debyg mai derbyn arwydd o'r castell y byddai Gwyliedydd y domen hòno, a'i drosglwyddo yn mlaen gan wneud defnydd o domen arall sydd gerllaw, ac y mae hòno yn ngolwg tomen sy' gerllaw palas Rug. Parodd hyn, a phethau cyfatebol iddynt, i amryw feddwl yn gryf mai un o brif amcanion y tomenau oedd gwasanaethu fel lleoedd i osod arwyddion arnynt, banerau neu dân, i rybuddio gwahanol ardaloedd pan fyddai perygl oddiwrth elynion yn dynesu atynt. Ymddengys eu bod i'w cael yn India, ac yn wir, yn y rhan amlaf o wledydd y byd. Nid yw chwaith yn anmhosibl nad

oedd amcanion coelgrefyddol, hefyd, yn perthyn iddynt, a'u bod yn dal cysylltiad â Derwyddiaeth y dyddiau gynt. Mae amryw bethau yn peri i ddyn meddylgar dybio hyny.

Mae amryw leoedd yn Mhenllyn yn dwyn yr enw o *gaer*, a *chastell*, megys y Caerau, Caergai, Castell Carn Dochan, &c. Yr oedd Caergai yn wersyllfa i adran o filwyr Rhufain, yn yr hen amseroedd, fel y mae gweddillion eu gwaith yn y lle yn profi yn eglur; ac yr oedd ffordd Rufeinig yn arwain o Gaergai i Gwm Prysor, a Thomen y Mur, gweddillion yr hon a ganfyddir mewn amryw fanau yn y cyfeiriad hwnw hyd y dydd heddyw. Mor anturiaethus raid fod gwŷr Rhufain yn eu dydd, pan y sefydlent eu gwersylloedd yn nghanol mynyddoedd Cymru, ac y gweithient eu ffyrdd drwy y cymoedd, a thros fynyddoedd Gwyllt Walia, o'r naill wersyllfa i'r llall! Ond clywsom y diweddar Dr. O. O. Roberts o Fangor, yn dywedyd eu bod wedi cymeryd mantais ar ffyrdd yr hen Gymry yn ngwneuthuriad eu ffyrdd eu hunain yn mhob man y gallent, ac mai nid hwy a biau yr holl glod yn y mater dyddorol hwn. "Yr oedd gan yr hen Gymry gerbydau," meddai Dr. Roberts, "a chan hyny, rhaid fod ganddynt ffyrdd i'w dwyn o ardal i ardal. Mae cerbydau heb ffyrdd, nid yn unig yn annhebygol, ond yn anmhosibl."

Cafodd yr ysgrifenydd ei eni a'i fagu wrth droed Castell Carn Dochan. Adeiladwyd y Castell ar ben craig serth, uchel, ac mewn lle anhygyrch a thymhestlog dros ben. Nid oes yn awr olion ffyrdd yn arwain ato o unrhyw gyfeiriad; ond diau fod rhai yn yr hen oesoedd. Mae yn adeilad cadarn; y muriau o drwch dirfawr, ac wedi eu gweithio drwy yr hyn a elwir "morter poeth." Mae cregyn o'r môr, yn gystal a graian, yn gymysg â'r cymrwd, ac yr oedd yn anmhosibl cael cregyn y môr yn nes na'r Traeth Bach, neu afon yr Abermaw; ac yr oedd yn rhaid eu cario yn bynau, mae yn debyg, ar gefnau anifeiliaid. Mae y Castell braidd yn hirgul, yn betryalawg yn y pen dwyreiniol, ac yn fwaog yn y pen gorllewinol. Mae ffos ddofn, sych, wedi ei thori yn y graig, a ffos arall, lawn o ddwfr, ychydig o latheni yn mhellach i'r gorllewin na'r ffos a dorwyd yn y graig, er amddiffyn y pen hwnw i'r castell, a dyna yr unig ben iddo y gallai gelynion nesâu ato i geisio gwneud niwaid iddo. Mae y muriau cedyrn wedi eu chwalu er ys oesoedd, a'r ceryg yn haner lenwi gweddillion yr adeilad, ac wedi treiglo i'r ochrau, ar bob llaw. Trueni na chymerai pobl yr ardal y gorchwyl o lwyr lanhau yr hen adeilad, fel y gellid gweled y llawr drosto oll. Yr oedd yn y pen dwyreiniol, gynt, adeiladau eraill, heb fod o'r un wneuthuriad cadarn a'r castell ei hunan—adeiladau oeddynt, mae yn ddiau, i gynwys pethau angenrheidiol at wasanaeth teulu y Castell. Y mae llanerch deg o gryn faintioli ar yr ochr ddeheuol i'r amddiffynfa. Dyna lle yr oedd yr ardd a berthynai i'r lle, feallai; neu gwnai fan cyfleus i ddysgu y milwyr a amddiffynent y lle i drin eu harfau, ac i ymsymud yn rhengoedd rheolaidd. Tebygol yw, mai ar y gwastadedd, yn ngwaelod y cwm, yr oedd perchenogion y Castell yn arfer cartrefu, ac y mae yno hyd heddyw

le a elwir "lle'r llys," ac mai cilio y byddent yn nydd rhyfel a therfysg i amddiffynfa Carn Dochan, lle y gallent herfeiddio unrhyw allu gelynol i'w gorchfygu. Tyb-osodiad ydyw hyn; ond y mae y goreu a all yr ysgrifenydd ffurfio.

Yr oedd yr ardaloedd hyn yn y dyddiau gynt, yn dryfrith o fân uchelwyr, y rhai oeddynt bob un yn perchenogi tyddyn, neu ddau, neu dri, ac yn byw yn lân ar eu moddion. Yr oedd yn mhlwyf Llanuwchllyn, yn unig, lawer o'r cyfryw fân uchelwyr; megys yn y Llwyn Gwern, y Prys, Plas Deon, Plas-yn-Nghynllwyd, Plas Madog, Glan Llyn, a Chaergai, yn nghyda manau eraill; ond drwy briodasau, gwerthiadau, a gwastraff yr hen deuluoedd, y mae y tiroedd yn bresenol wedi myned i ychydig o ddwylaw, mewn cymhariaeth, er colled drom i annibyniaeth y wlad, mewn unrhyw faterion o bwys cyffredinol i'r trigolion. Pe buasem yn alluog i nodi allan pwy oedd sylfaenwyr hen deuluoedd yr ardal, a phwy oedd perchenog cyntaf Castell Carn Dochan, ai Riryd Flaidd, Arglwydd Penllyn, neu rywun arall (yr hyn nis gallwn), ni fuasai hyny o nemawr fudd i'n darllenwyr, er y buasai yn ddigon difyrus i hoffwyr hynafiaeth; ond rhaid i ni adael y pethau hyn fel y cawsom hwynt, dan len gudd ebargofiant.

Bu o bryd i bryd, amryw o wŷr enwog, fel Beirdd a Llenorion, yn preswylio yn yr ardal hon, ac y mae enwau rhai o honynt wedi disgyn i lawr i'n dyddiau ni. Gallwn nodi y rhai canlynol:—

*Llywarch Hen.* Efe yw y mwyaf ei athrylith o'r cynfeirdd. Collodd ei feddianau yn y Gogledd, collodd ei feibion mewn rhyfeloedd, ffodd i lys Cynddylan am nodded, ond cwympodd ei noddwr, llosgwyd ei lys yn Pengwern, neu yr Amwythig, a goresgynwyd yr holl wlad o amgylch gan y Saeson; ffodd y bardd i Abereuawg, ond symudodd oddiyno i Benllyn, lle y bu farw, yn 150 oed, meddir, a chladdwyd ef, mae yn dra thebygol, yn Llanfor. Mae darnau o'i waith yn y *Myf. Arch.*, ac y maent yn brofion diymwad o'i athrylith.

*Gwerfil Vychan.* Un o deulu Caergai oedd y farddones awenyddol hon. Blodeuodd, debygid, oddeutu diwedd y bymthegfed ganrif. Mae ei chywydd i'r March Glas, neu yn hytrach y darnau o hono sydd ar gael, yn profi ei bod yn feddianol ar athrylith gref, a medrusrwydd mawr, ac y mae rhai ergydion rhagorol yn ei chywydd ar Ddyoddefaint Crist. Dywedir ei bod, yn amser llyfnu, yn tosturio wrth ryw hen geffyl blinedig oedd wedi llwyr ddiffygio yn ei waith, ac yn dywedyd wrth ei thad,—

> Hen geffyl, gogul, digigog,—sypyn,
> Swper brain a phiog;
> Ceisio'r wyf, mae'n casâu'r ôg,
> Wair i'r Iuddew gorweiddiog.

Mae amryw o'i dywediadau ar ffurf cynghanedd, wedi nofio i lawr ar lif llafar gwlad, hyd ein dyddiau ni.

*Rowland Vychan* o Gaergai, oedd yn ei flodau oddeutu canol yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn dirfeddianwr helaeth a pharchus;

ac felly yr oedd ei hynafiaid, er ys canrifoedd cyn ei ddyddiau ef. Cyfieithodd yr "Ymarfer o Dduwioldeb," a chryn nifer o lyfrau buddiol eraill. Yr oedd Rowland Vychan yn freninoliad aiddgar, a dyoddefodd lawer o herwydd hyny. Llosgwyd ei dŷ hyd y llawr gan fyddin y Senedd, adran o ba un a fu yn aros am ychydig, y pryd hwnw, yn y Bala, a throsglwyddwyd ei etifeddiaeth, neu o leiaf, *ran* fawr o honi, i gâr iddo, fel y dengys yr englyn canlynol a gyfansoddodd yr adeg hòno:—

"Caergai nid difai fu gwaith tàn—arnad
Oernych wyd yrwan,
Caer aethost i'm câr weithian,"
Caergai, lle bu cywir gân.

Bu raid i Rowland Vychan droi o'r ardal yn ffoadur am dro, rhag dialedd gwŷr y Senedd. Dengys y penill canlynol ei fod yn eu casâu â chas cyflawn:—

Pe cawn i 'r pengrynion
Rhwng ceulan ac afon,
Ac yn fy llaw goed-ffon o linon ar li—
Mi a gurwn yn erwin
Yn nghweryl fy mrenin,
Mi a'u gyrwn yn un byddin i'w boddi.

Drwy lawer o drafferth, wedi adferiad yr anniolchgar Charles II., y cafodd ei etifeddiaeth yn ol. Ail adeiladodd Gaergai, megys y mae yn bresenol, a chanodd yr englyn canlynol i'r adeilad newydd:—

Llawer caer yn daer i'w dydd,—a losgwyd,
Lesgwaith gwŷr digrefydd;
Y Gaer hon i gywir rhydd,
Caer gain yw—Caergai newydd.

Dywedir ei fod yn ymladd o blaid y brenin yn mrwydr Naseby; ond diangodd yn ddiogel adref o'r trychineb a oddiweddodd blaid y brenin yn yr ornest hòno. Mae adeg ei farwolaeth a'i gladdedigaeth yn anhysbys; er hyny, dir yw i seren ddysglaer fachludo pan y bu efe farw. Gwelsom waith barddonesau o deulu Caergai yn y *Blodeugerdd* rai blwyddi yn ol; ond nid ydym yn cofio eu henwau, nac yn gwybod eu cysylltiadau ar hyn o bryd; ond hanu o'r un teulu a Rowland Vychan yr oeddynt. Un o'r teulu hwnw hefyd a adeiladodd yr elusendai sydd yn Mhennantlliw, ac a'u gwaddolodd, hyd y dydd hwn. Aeth yr etifeddiaeth i feddiant Wynniaid Wynnstay, trwy briodas, os na chamhysbyswyd ni am hyny.

*Siôn Dafydd Las*, yr hwn a flodeuodd rhwng 1650 a 1690, oedd frodor o Lanuwchllyn. Yr oedd yn gerddor tafod a thant i deulu Nannau, ac yn gyfansoddwr tra rhagorol. Pan glywodd am farwolaeth ei gyfaill, Edward Morris o'r Perthi Llwydion, yr hwn oedd borthmon wrth ei alwedigaeth, a bu farw yn Essecs, dywedodd Siôn Dafydd Las:—

"I'r bedd, lle oeraidd yn llan,—cul feddiant!
Aeth celfyddyd weithian;
A'r hen iaith, ni a'i rho'wn weithian,
A'r *awen* fyth i'r un fan."

Gwendid mawr a pharhaus Siôn Dafydd Las oedd yfed i ormodedd. Bu ei gyfeillion yn ymliw gydag ef ar y mater yn fynych, ond y cwbl yn ofer. Ryw dro, pan dan eu cerydd a'u cynghorion, teimlai awydd cryf i ddiwygio, a dywedai:—

"At fy nhad, fwriad edifeirwch,—äf
I ofyn ei heddwch,
Dan grynu, llechu'n y llwch,
A darostwng i dristwch.

"Wrth fy Naf glynaf yn glau,—a'i gyfarch,
A gofyn ar liniau,
Am ras im', wiw resymau,
A mwy llwydd i mi wellhau."

Ond syrthio beunydd i'r un bai yr oedd efe, a dywedai am dano ei hunan fel y canlyn:—

"Ofer, pan haner hunwyf,—a hefyd,
Ofer pan ddeffrowyf;
Afradus, ofer ydwyf,
Fe wyr Duw ofered wyf!"

Parodd y boen a'r gwaew oedd yn ei ben ar ol yfed i ormodedd yn Nghorsygedol, iddo ddywedyd boreu dranoeth:—

"Pen brol, pen lledffol, pen llaith,—pen dadwrdd,
Pen d'wedyd yn helaeth;
Pen croch alw, pen crych eilwaith,
Pen a swn fel penau saith.

"Pen chwyrn, pen tefyrn wyt ti,—pen breulwnc,
Pen barilo meddwi;
Pen rhydd, di 'menydd i mi,
Pen ffwdan—pa'm na pheidi?"

Bu farw fel y bu fyw, dipyn yn anystyriol. Yr oedd yn berchen awen o'r iawn ryw. Trueni na ddefnyddiasid hi i well dyben. Nid oes neb, ar a wyddom, a edwyn "fan fechan ei fedd." Prin y gellir dysgwyl i wr cyffredin, fel oedd efe, fod yn feistr ar ddeddfau y gynghanedd; ond er ei holl fân feiau cynghaneddol, rhaid addef fod gwir athrylith yn berwi ynddo; a than amgylchiadau eraill mwy manteisiol, gallasai fod cystal cyfansoddwr barddoniaeth a William Lleyn.

Yr oedd hen gyfansoddwr barddoniaeth pur wych, meddir, yn byw yn yr ardal hon oddeutu 400 mlynedd yn ol, o'r enw Tudur Penllyn; a dywedir fod peth o'i waith eto ar gael, ond ni ddygwyddodd i ni weled dim o hono. Hefyd, yr oedd gwr o'r enw William Penllyn,

dros dri chan' mlynedd yn ol, yn fardd a cherddor. Yr oedd yn hanu, meddir, o'r fan hon; ac urddwyd ef yn Eisteddfod Caerwys, yn 1566, yn brif-fardd, ac yn ddysgawdwr cerdd. Yr oedd Morys ap Rhobert o'r Bala, wedi hanu yn wreiddiol o Lanuwchllyn, ac yn meddu traws-amcan go lew at gyfansoddi barddoniaeth. Yr oedd yn ddyn pur grefyddol, ac yn awyddus am droi pob peth y canai arno, hyd yn nod Llyn Tegid, i wneud rhyw wasanaeth i grefydd. Gwel ei gywydd i'r Llyn. Digon heddyw. Dychwelir at y mater eto pan geir hamdden.

Ni chafodd Ap Vychan gyfle i ychwanegu y Cofnodion hyn.—D.V.T.

## CHWAREU TEG I'R LLUAWS.

*Ysgrif II.*

Mae pob un yn hoffi cael chwareu teg iddo ei hunan; ond nid pob un a ganiata yr un tegwch i'w gymydogion. Mae rhai personau unigol yn fwy aiddgar gyda golwg ar eu hawliau personol a theuluaidd nag eraill, a rhai cymydogaethau yn fwy parod i hòni eu hawliau, ac i'w mŷnu, na chymydogaethau eraill. Mae amgylchiadau, weithiau, yn tueddu i lenwi ardaloedd â llwfrdra a gwaseidd-dra, fel na cheir odid neb a gyfyd ei lais a'i law dros degwch a hawliau cydwybod mewn achosion o gryn bwys—rhai gwladol a chrefyddol.

Y mae un peth yn tueddu yn gryf i waseiddio ardal, sef fod yr holl dyddynod o'i mewn, neu yn agos yr oll o honynt, wedi dyfod i feddiant rhyw un tirfeddianwr cadarn a chyfoethog, a hwnw yn dwyn mawr eiddigedd dros Doriaeth, Whigiaeth, Llanyddiaeth, neu ryw aeth arall, ac yn barod i wgu ar ei ddeiliaid a farnont ac a weithredont yn groes i'w fympwyon ef ei hun, nes codi ofn ar boblach weiniaid i hòni mai eu heiddo hwy yw eu heneidiau eu hunain. Mae hanesyn ar fy nghof a esyd allan yr yni oedd mewn ardal yn Mhenllyn, flynyddau yn ol, a'r eiddigedd oedd yn mysg y trigolion dros eu hawliau cymdeithasol. Yr wyf yn anfoddlon i'r hanesyn hwnw fyned i dir anghof, a hyny yn fwy, oblegid y cyhuddir yr ardal hòno yn bresenol, weithiau, o dipyn o waseidd-dra; ond er hyny, prin yr wyf yn credu fod y cyhuddiad yn un teg a sylweddol.

Gwyddys fod rhyfel mawr a gwaedlyd wedi tori allan rhwng Lloegr a Ffrainc yn 1793, ac i'r rhyfel hwnw barhau heb onid ychydig iawn o seibiant am 22 o flynyddau. Ymladdwyd brwydrau llofruddiog lawer ar dir a môr; ac amcan mawr Prydain yn y dechreu oedd, rhoddi i lawr ysbryd gwerinol y Ffrancod, darostwng Napoleon wedi hyny, ond yn benaf oll, llethu tueddiadau Rhyddfrydol yn mhlith trigolion y wlad hon. Heblaw rhestru dynion fel gwirfoddolwyr, yr oedd codi meiwyr *(militia)* yn beth tra chyffredin. Ychydig o wŷr ieuainc, a mân dyddynwyr, mewn ardaloedd gwledig, fyddent yn foddlon i

wasanaethu yn rhengau y meiwyr drostynt eu hunain. Gan hyny, yr oedd yn rhaid i'r rhai a godid trwy y tugel, os yn anfoddlon i wasanaethu yn bersonol, gael eraill i sefyll yn eu lleoedd. Ni ellid cael hyny heb symiau go fawrion o arian i wobrwyo a boddloni y cynrychiolwyr. Y ffordd a gymerid fyddai *clubio*, fel y dywedid, sef i bob un y byddai ei enw i lawr fel un cymhwys i wasanaethu yn mysg y meiwyr, dalu swm penodol, ac i'r arian gael eu defnyddio i wobrwyo y rhai a safent drostynt eu hunain, ac i gyflogi cynrychiolwyr. Yr oedd peth felly yn dreth drom ar y werin mewn amser pryd yr oedd cyflogau yn fychain, ac yr oedd y wlad hon yn llawn o anfoddlonrwydd o'r herwydd. Os byddai rhywun yn gwrthod talu ei gyfran i'r clwb, nid oedd hwnw i gael dim o'r arian iddo ei hun, nac i bwrcasu cynrychiolwr.

Bob yn dipyn, sylwyd nad oedd meibion pobl gyfoethog byth, braidd, yn cael eu codi trwy y tugel, a dechreuwyd amheu a oedd eu henwau hwy ar y llyfrau o gwbl. Cryfhaodd yr amheuaeth fwyfwy, a phenderfynwyd chwilio i'r peth, a mynu cael gwybod a oedd eu henwau i lawr, ac yn mysg y rhai oeddynt i gael eu codi at y meiwyr. Daeth pobl Llanuwchllyn yn lluoedd i'r Bala i ymofyn yn nghylch y cwestiwn hwnw, ond ni chaniateid iddynt gael gweled y llyfrau, na chwilio i'r mater. Cauwyd drws y swyddfa yn eu herbyn. Yna, rhuthrodd Joseph Jones o Hafodyrŵyn, Pennantlliw Fawr, a Dafydd Owen o Hafodybibell, Pennantlliw Bach, a'u hysgwyddau yn erbyn drws y swyddfa, a thorasant ef yn yfflon, a mynasant weled y llyfrau, yn nghanol banllefau y dorf, yna dychwelasant i'w cartrefi. Yn mha sefyllfa y cawsant hwy y llyfrau a'r enwau nid wyf yn cofio; ond nid yw hyny nac yma na thraw yn ei gysylltiad â gwrhydri y ddau wr o Lanuwchllyn.

Cythruddodd y fath hyfder awdurdodau y Bala yn ddirfawr, a danfonasant am fintai o feirchfilwyr i ddal Joseph Jones a Dafydd Owen. Clywsant hwythau fod y meirchfilwyr yn dyfod, ac yr oeddynt ar eu llawn wyliadwriaeth. Yr oedd Dafydd Owen, ar y pryd, yn gwasanaethu yn y Deildref Uchaf, gyda thad a mam yr Hybarch Cadwaladr Jones, Dolgellau. Daeth y meirchfilwyr yn foreu iawn at y Deildref. Amgylchasant y ty o bob parth, gan feddwl dal Dafydd Owen yn ei wely. Chwiliasant bob congl o'r ty, y cypyrddau, a than y gwelyau. Gyrasant eu cleddyfau drwy y gwelyau plyf, ac nid oedd y cistiau blawd yn dianc rhag eu harchwiliad, ond y cwbl yn ofer. Yr oedd y pryf y ceisient hwy ei ddal wedi codi o'u blaen, ac wrth y beudy uchaf, yn edrych arnynt yn carlamu at y Deildref. Cymerodd Dafydd Owen y goes yn union, a llechodd mewn gallt goediog a elwir Coedygraig. Arosai yn ei guddfan y dydd, a deuai i'r Graig, Tyddyn yr Onen, Ty Coch, a'r Ty'nybryn, yn y nos, i gael ymborth, ac yr oedd pawb yn barod i roddi nodded iddo, ac ni fynasent, er llawer, iddo syrthio i ddwylaw y milwyr.

Aeth y meirchfilwyr i Hafodyrŵyn, ond yr oedd Joseph Jones wedi dianc o'u cyrhaedd; ac ar ol carlamu i fyny ac i waered ar hyd

y ddwy Bennantlliw, dychwelasant i Loegr, dan chwerthin yn eu llewys, heb ddal neb, er iddynt fod, am rai dyddiau, ar hyd y Pennantlliwiau. Cafodd y werin fwy o "chwareu teg" wedi yr ysgarmes a ddarluniwyd.

Parodd y meirchfilwyr eu harswyd yn nhir y rhai byw. Bu dychryn yn lletya yn mynwes Dafydd Owen, i raddau, tra bu fyw, a chyrhaeddodd 90 o oedran, neu drosodd. Rywbryd wedi i'r milwyr ddychwelyd, fel yr oedd Dafydd Owen yn palu gydag un arall ar gae, daeth cymydog a wyddai yn dda am ei sefyllfa, yn ddystaw o'r tu ol iddo, tarawodd ei law ar ei ysgwydd, a dywedodd, "Yr wyf fi yn eich cymeryd chwi, gwalch." Dychrynodd y palwr, taflodd ef o'i hyd gyhyd ar y ddaear—trodd y bâl o amgylch ei ben, a phlanodd hi yn y pridd o fewn tair modfedd i wddf y cellweiriwr; ond trwy drugaredd, ni niweidiodd ef. Gwawried y dydd y gwneir chwareu teg â phawb, heb i neb ddefnyddio moddion treisiol i'w gael.

## YCHYDIG O ADGOFION MABOED.

"Mae y pethau hyn yn hen."

*Ysgrif III.*

Yn nechreu haf y flwyddyn 1818, yr oedd gwr a gwraig, a thyaid o blant nwyfus a chwareus, yn byw dan gysgod craig fawr ac ysgythrog, ac mewn ty bychan, a'i dô o redyn y mynydd-dir oedd gerllaw iddo, ac nid oedd yr haul yn tywynu arno am rai wythnosau yn nyfnder y gauaf. Yr oedd yn cael ei gysgodi yn dda rhag gwyntoedd o'r Gorllewin, ac o'r Deheu; ond yr oedd awelon oerion y Gogledd a'r Dwyrain yn ymosod arno yn ddidrugaredd. Mynai y mwg hefyd ymgartrefu yn y ty a'r tô rhedyn, gyda y teulu, ac nid äi allan o'i fodd, os na fyddai y gwynt yn chwythu o ryw bwynt a ryngai ei fodd ef. Yr oedd megys un o'r teulu.

Ond yr oedd amryw o bethau manteisiol a dymunol yn y fangre wladaidd hòno wedi y cwbl. Yr oedd y teulu, wedi iddynt ddyfod drwy un bangfa galed o waeledd, yn cael iechyd pur dda ar y cyfan. Yr ydoedd ffynon o ddwfr iachus yn tarddu o ganol y mynydd mawr, yn union wrth dalcen y ty. Ceid digon o danwydd o fawnog oedd yn y mynydd uwchlaw y ty, yr hyn a barai fod yr aelwyd ar nosweithiau hirion y dyddiau byrion, yn hynod o gysurus. Eisteddai y tad yn un gornel, a'r fam ar ei gyfer yn y gornel arall, a'r plant yn haner cylch o flaen y tân, a phob un oedd yn ddigon o faint yn gwau hosan mor gyflym ag y gallai, fel y gallai y fam fyned a haner dwsin o barau i'r farchnad ar y Sadwrn, a'u cyfnewid yno am angenrheidiau teuluaidd.

Nid oedd yn hawdd peidio a chysgu yn ngwres y tân. Teimlai y plant hyny yn fynych, ac anfonai y fam hwynt allan ambell dro i

oeddynt yn gweithio y cynhauaf yno, yn ymddwyn yn barchus hollol at eu gilydd, ar y meusydd ac yn y ty. Ni roddent sarhad i neb. Nid yw rhifedi mawr o ysgrifenwyr ffugenwol ein papyrau Cymreig, yn y dyddiau hyn, yn gymhwys i ddatod careiau esgidiau gweithwyr dibroffes Amnoedd Wen. Yn sicr, nis gall fod proffeswyr crefydd sydd yn ymhyfrydu mewn pardduo ac enllibio dynion diniwaid a difeddwl-ddrwg, yn credu yn "adgyfodiad y meirw, a'r farn dragwyddol."

3. Mor ddedwydd a hardd fyddai y byd hwn pe dygid ef dan lywodraeth crefydd bur a dihalogedig gerbron Duw a'r Tad. Crefydd bersonol yn meithrin crefydd deuluaidd—crefydd deuluaidd yn meithrin crefydd gynulleidfaol—teuluoedd yn tywallt poblogaeth pob aelwyd i dŷ Dduw ar y Sabbathau—pechod wedi gwywo a dihoeni, a santeiddrwydd i'r Arglwydd yn argraffedig ar bob peth. Beth pe ceid y byd hwn am un ganrif dan lywodraeth cariad, cyfiawnder, a phurdeb? Byddai cael peth felly yma yn nefoedd ar y ddaear, yn lle y genfigen, y falais, a'r ddrwg-ewyllys sydd yn ei anurddo, ac yn ei andwyo yn bresenol.

Mae y ddau fachgen fu gynt yn taenu ystodiau yn Amnoedd, ac yn dringo, fel mwncïod, ar hyd llorpiau y ceir cefnau, er mwyn marchogaeth y ceffylau, wrth gario y cnwd i'r weirlan, eto ill dau yn fyw ac yn iach. Trwy gael llawer o help gan Dduw, y maent yn aros hyd y dydd hwn; ond ni bu yr un o'r ddau, debygwyf, byth wedi hyny dros riniog y ty lle y treuliasant bedair wythnos gynt mor ddedwydd. Pobl newyddion sydd yn byw hefyd yn y cwm, ac nid oes dim yn aros heddyw fel yr oedd y pryd hwnw ond yr Arenig a Moel Llyfnant.

## Y GOF.

### *Ysgrif IV.*

Mae gwaith y gôf yn gelfyddyd hen iawn. Mae agos mor hen a gwaith yr amaethwr; ac fel amaethyddiaeth, yn un o anhebgorion cymdeithas wareiddiedig. Mae llawer o'r celfyddydau sydd yn ein plith yn addurniadau prydferthion i wlad; ond, ar yr un pryd, prin y gellir dywedyd eu bod mor angenrheidiol i fywyd cymdeithasol ag ydyw gwaith yr amaethwr, y saer, y gof, y crydd, a'r teiliwr. Ceir fod rhai pethau yn dyfod yn raddol i'r fath bwysigrwydd, megys yr agerdd a'r trydan yn yn ein dyddiau ni, fel bron na theimlem nas gellid gwneuthur hebddynt, mewn modd yn y byd, gan mor werthfawr, effeithiol, ac amrywiol yw eu gwasanaeth i wladwriaeth. Pe darfyddai am danynt mewn un noswaith, byddai boreu y dydd canlynol yn un rhyfedd iawn; eto, pan gofiom ddarfod i'r byd allu gwneuthur heb eu gwasanaeth presenol am yn agos i chwe' mil •

flynyddoedd, ni fyddai raid i ddynolryw syrthio i iselder anobaith pe y diflanent yn ddisymwth allan o'r ddaear; ond y gôf ydyw pwnc yr ysgrif hon; ac nid y gôf ychwaith yn yr holl amrywiaethau a berthyn i ddefnyddiad yr enw; megys, gôf du, gôf gwyn, gôf copr, gôf arian, gôf aur, ond y gôf fel yr adnabyddir ef a'i gelfyddyd yn ein gwlad, ac yn ein dyddiau ni.

Gorwedda tywyllwch ar ddechreuad celfyddyd y gofaint, fel ar ddechreuad llawer o gelfyddydau eraill; ond y peth tebycaf i fod yn gywir ydyw, fod gan y Brenin mawr ei hunan law uniongyrchol mewn dysgu a chyfarwyddo dynion i ddarparu meteloedd at waith, ac i'w gweithio, ar ol eu darparu, at wasanaeth cymdeithas yn gyffredinol. Nid yw hyn yn gwneud y Goruchaf yn ôf, mwy nag ydyw ei waith yn gwneud peisiau crwyn i'n rhieni cyntaf yn ei wneud yn ddilledydd. Y mae dysgu y gôf mor addas iddo ef ag ydyw dysgu yr amaethwr; ac y mae genym dystiolaeth bendant yn y Beibl ei fod yn gwneuthur hyny, yn gystal a'i fod yn dysgu y celfyddydwr yn yr anialwch i weithio cywreinion y tabernacl. Nid ydym yn dywedyd dim am y *dull* a'r *modd* y dysgodd efe y gôf cyntaf, na'r crefftwyr yn yr anialwch. Gadawn bethau felly yn ei law ef ei hun. Digon yw i ni ei fod ef yn gwneuthur pethau o'r fath a nodwyd, a bod hyny yn gweddu iddo.

Myn rhai mai Tubal Cain yw tad y gofaint; ond ni ddywed y Beibl hyny. Pan yr ystyriom mai yr wythfed o Adda, a chyfrif Adda ei hun ar ben y rhestr, oedd Tubal Cain, mae yn anhawdd genym dderbyn y syniad hwnw. Yr oedd ar ddynion angen am waith y gôf, debygem, oesoedd maith cyn dyddiau Tubal Cain, yn gystal ag am waith y saer, ac nis gellir cael saer heb y gôf i ddarparu arfau iddo. Ni a ddarllenwn am adeiladu dinas cyn dyddiau Tubal, ac, ond odid fawr, nad oedd peth o waith y gôf a'r saer yn adeiladaeth y ddinas hòno. Heblaw hyn, ymddengys fod Tubal Cain yn gelfyddydwr rhy *berffaith* i fod yn ddechreuydd gwaith y gofaint. Yr oedd efe yn "weithydd pob CYWREINWAITH pres a haiarn." Yr oedd y gelfyddyd yn lled bell yn mlaen, debygid, erbyn ei ddyddiau ef.

Cawn rai cyfeiriadau at y gôf yn yr ysgrythyrau, hyd yn nod yn yr ystyr gyfyng y defnyddir y gair genym ni yn yr ysgrif hon, heblaw yr hyn a ddywed y Beibl am Tubal Cain. Mor annhraethol o brydferth yw darluniad yr ysgrifenydd santaidd o sefyllfa pobl Israel dan orthrymder y Philistiaid: "Ac ni cheid gôf drwy holl wlad Israel:—canys dywedasai y Philistiaid, Rhag gwneuthur o'r Hebreaid gleddyfau neu waewffyn. Ond holl Israel a aent i waered at y Philistiaid i flaenllymu bob un ei swch, a'i gwlltwr, a'i fwyell, a'i gaib. Ond yr oedd llif-ddur *i wneuthur* min ar y ceibiau, ac ar y cylltyrau, ac ar y pigffyrch, ac ar y bwyeill, ac i flaenllymu y symbylau. Felly yn nydd y rhyfel, ni chaed na chleddyf na gwaewffon yn llaw yr un o'r bobl *oedd* gyda Saul a Jonathan, ond a gaed gyda Saul a Jonathan ei fab." Gwel 1 Sam. xiii. 19—22. "Y gôf â'r efail a weithia yn y glo, ac a'i llunia â morthwylion, ac â nerth ei fraich y gweithia efe hi:

newynog yw hefyd, a'i nerth a balla; nid yf ddwfr, ac y mae yn diffygio," Esa. xliv. 12. "Wele, myfi a greais y gôf, yr hwn a chwyth y marwor yn tân, ac a ddefnyddia arf i'w waith; myfi hefyd a greais y dinystrydd i ddystrywio," Esa liv. 16. Caethgludodd brenin Babilon fil o seiri a gofaint o Jerusalem i'r un amcan, yn ddiau, ag y gwnaethai y Philistiaid yn gyffelyb, ganoedd o flynyddau cyn hyny. Nid oes a fynom ni â gofaint arian Llyfr yr Actau, nac âg Alexander y gôf copr, yr hwn, chwedl y diweddar Barch. D. Price, Dinbych, a ddysgodd luoedd o brentisiaid, y rhai a ddysgasant eraill, fel y maent hyd heddyw yn cadw *business* eu hunain yn mhob ardal, ac yn gofalu na roddant ond copr yn mhob casgliad.

Dywedir y byddai gofaint, yn yr hen amseroedd, yn darparu y metel eu hunain, yn gystal ag yn ei ddefnyddio i wneuthur pob math o offerynau haiarn a dur at wasanaeth amaethwyr a chelfyddydwyr; ond er ys hir o amser bellach, mae y gwaith wedi ei ranu rhwng gwahanol ddosbarthiadau. Gosodir gweithfa haiarn a dur i fyny gan ryw foneddwr cyfoethog, neu ymuna dynion â'u gilydd yn gwmni i'r amcan hwnw. Cyflogir canoedd neu filoedd o weithwyr ganddynt. Tiria un dosbarth i'r ddaear i godi mŵn haiarn; cyfyd dosbarth arall lo i'w doddi; adeiledir ffwrneisiau mawrion, a thoddir y ceryg ynddynt, a gollyngir ef allan yn yr adeg briodol, yn ffrwd lifeiriol, i rigolau wedi eu gwneud mewn tywod o flaen y doddfa. Pan oero, torir ef i fyny i gael ei drin a'i gyfaddasu mewn mân ffwrneisiau i fyned dan forthwyl mawr a thrwm—morthwyl a ysigai benglog y mwyaf pendew yn maelor Seisonig ar un dyrnod. Yna danfonir yr haiarn drwy felinau, a gwneir ef yn bob math o fariau at wasanaeth y gofaint mewn tref a gwlad. Wedi i ôf ddysgu ei grefft yn weddol fel egwyddorwas, ä, ond odid, i'r *tramp*, fel y dywedir, am dymhor, fel y caffo gyfle i weled gwaith yn cael ei wneud gan ddyeithriaid, fel y meistrolo wahanol ddulliau i wneuthur pethau. Daw i gyffyrddiad â llawer o wahanol nodweddiadau, ac arferion dyeithr iddo yma a thraw. Gwyddom am un neu ddau a gawsant gryn brofedigaeth, am na chydymffurfient âg arferion y rhai y trigent yn eu plith. Ond dychwelyd a wna y trampiwr bob yn dipyn, ac wedi edrych o'i amgylch, ymdrecha gael mangre i godi gefail, fel y gallo gario gwaith yn mlaen ar ei gyfrifoldeb ei hun. Os yw yn ddyn iach, sobr, a diwyd, bydd wedi enill a chynilo ychydig o arian tuag at gael megin, eingion, gwasgyddes, morthwylion, gordd neu ddwy, llifiau dur, cynion, a llu o bethau nas gellir eu henwi yma. Dechreua ar ei waith—enfyn fwg drwy y mwg-dwll am y tro cyntaf; cafodd orchwyl i'w wneud—y cyntaf oll, ac y mae ganddo addewidion am waith oddiwrth hwn a'r llall. Noswylia, ä ar ei liniau i weddïo, a rhydd ei ben i lawr i huno mewn gobaith am iechyd, gwaith, bywioliaeth, a modd i dalu ei ffordd i bawb oll. Mae yr efail mewn gwlad, a rhaid iddo yntau wneud ynddi bob peth sydd ar wlad eisieu—pedoli meirch a mulod, gwisgo olwynion, a gwneud echelau, ffyrch, pigffyrch, ceibiau, trwsio cloion dorau, cloion gynau, a gwneud llawer o begiau moch am ddim—pob

peth. Drwy godi yn foreu, gweithio yn galed, bod yn ufudd a diolchgar i'w gwsmeriaid, a gofalus am wneud pob gwaith erbyn yr adeg apwyntiedig, cynydda y gwaith yn raddol, ac enilla yntau hyder ei holl gymydogion.

Ond caiff amryw brofedigaethau. Dydd y pethau bychain fydd hi arno am flwyddyn neu ddwy. Caiff ambell un i weithio iddo pur ddrwg am dalu. Caiff ambell geffyl i'w bedoli a ysgytia ei gnawd a'i esgyrn. Caiff aml droediad gan asynod, a rhwygir ei gnawd weithiau gan hoelion wedi eu gyru, a'r anifail yn gwingo cyn i'r gôf gael hamdden i dori eu blaenau ymaith gyda rhigol ei forthwyl. Caiff allan wirionedd englyn Pedr Fardd yn fynych:—

> "Un a gnoa'n egnïol—yw asyn
> Wrth osod ei bedol;
> Try ei d—n, ac â'r traed ol,
> Tyr f'esgyrn, ddelff terfysgol."

Ond er cael briwiau, nid ä byth, braidd, at feddyg.

> Eli Treffynon
> A'i gwella fo'n union.

Bydd arno eisieu help, yn fuan, i gario ei waith yn mlaen. Egwyddorwas cryf, a swm gweddol o'i flaen am ei ddysgu, yw y peth iddo ef. Daw o hyd iddo, ond odid. Ond caiff fod hwnw, am dymhor, yn gwneud pob peth o chwith. Yn lle taro yr haiarn poeth a meddal, tery yr eingion oer a chaled, nes y bo yr ordd, trwy rym gwrthneidiad, yn ei daro yntau ei hunan yn ol yn ei dalcen, nes y bo, gan synu, yn rhoi gruddfaniad, ac yn barod, pan ddel ato ei hunan, i roddi y bai i gyd ar yr ordd. Llosga gryn lawer o haiarn, yn lle ei wyniasu. Try ddau ben i fodrwy, yna ceisia ei chydio yn ei chanol. Wrth asio dau haiarn, rhydd yr hwn fo yn ei ddeheulaw yn uchaf ar yr eingion, a thra y byddo ef yn ceisio cael gafael yn y morthwyl, bydd hwnw wedi syrthio ymaith, a'r holl lafur yn ofer. Gyr lawer o hoelion i'r byw wrth bedoli, nes y bo aml geffyl llonydd, a hen, fel pe byddai ar ei oreu yn ceisio tyngu tipyn. Ond yn raddol, daw y gwalch ieuanc i ddysgu tipyn, a dechreua ymloni pan allo wneud S yn iawn.

Bydd cwmni difyr yn yr Efail, yn fynych. Adroddir yn hyawdl fel y cymerodd merlen flewog, fer, y Ty draw yn ei phen redeg nerth ei charnau, pan oedd Sionyn Sion yn ei marchogaeth, a'r truan gan Sionyn yn ceisio amddiffyn ei einioes goreu y gallai, trwy ymaflyd âg un llaw yn ei chynflon, ac â'r llaw arall yn ei mwng, gan lefain yn groch, a'r ferlen yn ceisio troedio yr awyr, yr hon nis gallai ei chyrhaeddyd, a'r olygfa yn parhau, nes y cafodd Sionyn ei hunan o'r diwedd, er ei fawr lawenydd, yn ffos clawdd, heb arno niwaid yn y byd mwy na phe buasai bren mawnog. Traethir yn hylithr hanes ymladdfa rhwng Twm William a Deio Llwyd—beth oedd testun yr ymrafael rhwng y ddau, a phwy a gurodd, a pha fodd y bu hyny.

Sicrheir fod Siôn Parry wedi gweled ysbryd yn nghoed y Glyn, a bod yr ysbryd wedi ymddangos, i ddechreu, fel ci anferth, yna fel eidion mawr, wed'yn fel milgi main,—ac yna, iddo yn y diwedd fyned ymaith fel olwyn o dân, ac iddi, ar ol hyny, fyned mor dywyll a'r pyg.

Chwerddir am ben un, gwatwerir y llall, tosturir wrth y trydydd, a chanmolir y pedwerydd yn fawr dros ben. Yn nghyfarfodydd yr efail, ceid clywed pwy oedd y darllenwr goreu yn yr ardal, pwy oedd yr ysgrifenydd tecaf ei law, pwy oedd yn deall y gyfraith wladol berffeithiaf, a phwy oedd y cyfoethocaf yn y plwy', a pha fodd y gwnaeth ei arian, pwy oedd y callaf, a phwy oedd y ffolaf yn y wlad. Trinid cyflwr pob ceffyl o fri, pob llwynog a ddiangasai rhag y cwn, pob ysgyfarnog a dwyllasai y milgwn, pob ffwlbart a phob dyfrgi y cawsid trafferth a helbul yn eu dal. Ar ol cyfarfodydd pregethu, trinid achosion y pregethu—beiid rhai, canmolid eraill. Safai John Elias yn wastad ar ben y rhestr, a Williams o'r Wern yn rhywle gerllaw iddo, ac, yn ol barn amryw, yn uwch nag ef. Ceid clywed yn y cyfeillachau hyn pa un oedd y ferch ieuanc falchaf, a'r llanc ieuanc mwyaf ffroenuchel a thordyn; y wraig fwyaf diwyd yn yr ardal, a'r gwr mwyaf diles. Yn gyffredin, bydd y gôf a'i lygaid yn ei ben yn ystod cyfeillachau yr efail—bydd ganddo, ond odid, ryw haiarn trwm yn ei dân, a tharewid iddo ddau dwymniad neu dri gan wŷr cedyrn nerthol yn olynol, er boddlonrwydd mawr iddo ef ei hun, ac yn enwedig i'r herlod a fyddai yn chwythu y tân, yr hwn a deimlai ei hunan yn dra ysgafn i beri i haiarn cryf felly ymestyn nemawr dan ei ordd ef. Chwalai y cwmni; ond y mae y gwaith eto heb ei orphen—rhaid ei adael bellach hyd ryw adeg y ceir taräwr cryf arall i'r efail. Dygwyddai dranoeth neu dradwy, feallai, fod gwr cryf yn dyfod gyda deuben o geffylau i'r efail. Canfyddid ef yn dyfod oddidraw. Rhoddid yr haiarn cryf yn y tân yn union gan y gôf; a cheid help yn hwylus gan y gwr tra y gosodir pedol neu ddwy dan draed y meirch; ond mae y gwaith ar yr haiarn heb ei orphen, ac y mae y ceffylau yn barod i droi tuag adref. Pa fodd y cedwir arweinydd y meirch yn yr efail am dipyn eto yw y cwestiwn yn awr, er mwyn ei gael i daro twymniad arall neu ddau. Rhaid i'r gof ddyfod a'i holl fedrusrwydd allan i sicrhau hyny. Gofyna i'w gymydog am reswm am ryw ymddygiad o'i eiddo fo wedi dyfod yn destun beirniadaeth ar y pryd; a thra y byddo yntau yn egluro, bydd twymniad yn barod, a gyrir ef allan cyn i'r eglurhad gael ei orphen. Rhoddir yr haiarn yn y tân unwaith eto; a dywedir yn lled ddystaw wrth yr egwyddorwas am chwythu yn gryfach o dipyn; ac arweinia y gôf y taräwr at rywbeth arall y gwyr am dano, yn yr hwn ni all y tarawydd lai na theimlo cryn ddyddordeb; a bydd yr haiarn yn barod unwaith eto, a cheir help y gwr dyeithr i'w yru allan am y tro diweddaf. Prysura y cymydog ymaith; a gall y gôf wneuthur y gweddill yn burion bellach gyda yr herlod sydd yn chwythu y tân. Ond, "Ofer yw taenu rhwyd yn ngolwg pob perchen aden."

Byddai ambell lanc cryf yn deall cyfeiriad y cyfan, ac nid oedd modd cadw hwnw yn y lle wedi iddo gael pethau yn barod. Yr unig ffordd gydag ambell un fyddai gofyn yn dringar iddo, a wnai efe aros am ychydig i daro twymniad, er mwyn gwneud cymwynas â'r gôf, a'i hogyn ysgafn, a byddai hyny yn debyg o fod yn llwyddianus yn gyffredin; ond nid peth hyfryd gan feistr yr efail fyddai gofyn cymwynas, os gellid cael yr un peth ryw ffordd naturiol arall.

Os bydd y gôf wedi dysgu ei grefft yn dda, yn ddyn synwyrol, yn sobr, ac yn ddiwyd, mae ei fywyd ef a'r eiddo ei deulu yn un digon dedwydd, ar y cyfan. Os bydd yn ddarllenwr dyfal yn ei oriau hamddenol, yn feddyliwr treiddgar, ac yn llenor coeth, ychwanegir cryn lawer at ei urddas ef ei hunan, a'i efail hefyd. Ond y peth a gorona y cwbl ydyw, ei fod yn grefyddwr da, yn ffyddlawn gyda'r Ysgolion Sabbathol, ac heb esgeuluso unrhyw foddion o ras a allo gyrhaeddyd. Os, o'r ochr arall, mai bolerwr mewn tafarnau a fydd, yn yfed gormod mewn ffair a marchnad, yn dyfod adref o ddiodtai yn hwyr i derfysgu ei deulu, na ddysgwylied y dyn hwnw lwyddiant iddo ei hunan, na neb a berthyn iddo.

Nid oes neb a ddaw yn feistr ar gelfyddyd heb fod ganddo hyfrydwch mawr yn y gelfyddyd hòno. Os na fydd gan ddyn hyfrydwch mewn gweled llif yn brathu ei ffordd drwy goed ac estyll, ni ddaw byth yn saer da. Yr un modd, os na fydd swn y morthwyl a'r eingion mewn pentref yn fiwsig hyfryd yn nghlust dyn wrth fyned drwodd, ni wna hwnw byth ôf da. Mae hyfrydwch yn y gwaith y bo dyn yn ei gyflawni yn brif amod llwyddiant bob amser. Mae gwaith pen a llaw y gôf i'w weled yn mhob cyfeiriad, ac ni all gwlad na thref fyned yn mlaen â'i gorchwylion hebddo. Dywedir fod ei fraich ddeau yn enill nerth wrth arfer ymegnïo, ac y mae hyny yn eithaf cywir; ond pan ddywedir fod ei gi wedi cynefino â'r gwreichion, fel nad yw yn eu hofni, camgymerir. Ni welsom ni gi gof erioed a ddeuai yn agos atynt wedi iddo gael prawf o'u gallu unwaith ar ei groen.

Gallasem enwi llawer o ddynion a fuont fyw yn ddedwydd a pharchus yn yr efail wrth ddilyn eu galwedigaeth; a llawer hefyd a ddringasant oddiwrth yr eingion i sefyllfaoedd o enwogrwydd a defnyddioldeb mewn gwlad ac eglwys; ond ni oddef nac amser na gofod i ni wneuthur hyny.

Dymuniad yr ysgrifenydd wrth derfynu ydyw, am i'r gofaint, fel dosbarth defnyddiol, fod yn sobr, yn ddiwyd, yn ddarllengar, myfyrgar, a phwyllog, ac yn ofalus am grefydd bersonol, crefydd deuluaidd, a chrefydd gymdeithasol; neu, mewn gair arall, yn dduwiol a defnyddiol mewn pethau pwysicach na phethau y fuchedd hon.

# YMWELIAD A GLAN Y MOR, ODDEUTU HANER CAN' MLYNEDD YN OL.

*Ysgrif V.*

YN y flwyddyn 1830, aeth gwr ieuanc o fynydd-dir Cymru i weithio ei gelfyddyd i blith Saeson y Mers, a threuliodd yr haf a'r gauaf dilynol yn eu plith. Fel yr oedd y gwanwyn yn ymwthio yn mlaen i ddiorseddu y gauaf, teimlai fod rhyw wendid dyeithrol iddo ef wedi ymaflyd yn ei gyfansoddiad, ac ymofynodd â meddyg beth a fyddai oreu iddo ei wneuthur. Cynghorodd hwnw ef i dalu ymweliad am rai wythnosau, neu fisoedd, os gallai, â glàn y môr; ac wedi trefnu pethau i foddlonrwydd gyda y bobl y gweithiai ei gelfyddyd yn eu plith, efe a ymbarotodd tuag at gychwyn i'w daith. Yr oedd yn gydnabyddus âg arfordiroedd Aberteifi, a Meirionydd hefyd; ond yr oedd glànau y môr yn Arfon a Mon, Dinbych a Fflint, yn hollol ddyeithr iddo; gan hyny, penderfynodd fyned i'r lleoedd nad ymwelsai â hwynt erioed o'r blaen. Penderfynodd yr äi i Fangor i ddechreu, ac oddiyno i leoedd eraill wedi hyny. Ffordd hwylus iawn i gyrhaeddyd Bangor fuasai cymeryd ei le ar y llythyr-gerbyd oedd yn rhedeg o Lundain i Gaergybi; ond yr oedd rheswm cryf ac effeithiol iawn yn erbyn hyny yn ei logell ef. Gwelodd mai y ffordd esmwythaf a diogelaf iddo oedd ceisio cyflawni y daith ar ei draed, yn araf, fel y gallai.

Meddai y gwr ieuanc amryw fanteision i ymgymeryd â'r daith a fwriadai gyflawni. Yr oedd yn gerddwr da—yr oedd yn gydnabyddus â phob pregethwr, pob bardd, a phob llenor oeddynt *wedi* bod, neu a oeddynt *yn* bod y pryd hwnw, yn agos i linell ei lwybr ef, hyd derfyn ei daith. Gwyddai am balasau y mawrion a'u hynodion, meusydd brwydrau y dyddiau gynt, rheieidr a llynoedd, cestyll ac amddiffynfeydd, a hanesion ei wlad yn gyffredinol.

Ar foreu teg a hyfryd, o fewn rhyw wythnos cyn diwedd mis Mai, 1831, wedi iddo wneud ei sypyn dillad yn barod, cyfeiriodd y gwr ieuanc tua'r Berwyn. Aeth yn foreu iawn dros Gyrn y Bwch, lle y preswyliai Edward Benyon, y meddyg, yr hwn, yn nghyda Richard ei frawd, yn ol llafar gwlad, a fedrent nid yn unig godi cythreuliaid, ond eu rhoddi i lawr hefyd, yr hyn ni all eu dynwaredwyr yn y gelfyddyd ddu mo'i wneuthur. Bydd yn hwylusach i ni gael enw ar y gwr ieuanc o hyn allan. Yr oedd tri enw arno ef yn wreiddiol. Gelwid ef yn Robert Oliver Davies; ond efe, wedi tyfu i fyny, a ymwrthododd â'r ddau enw olaf, ac a ddewisodd un arall yn eu lle. Yr oedd efe yn hanu o Olifeiriaid Meirionydd; gan hyny, ni a'i galwn ef yn Robert Oliver yn yr hanes hon. Aeth ef yn mlaen heibio i Ryd y Croesau, lle y ganesid Charles Edwards, awdwr enwog "*Hanes y ffydd Ddiffuant,*" ac o'r neilldu i breswylfod Hugh Morus (*Eos Ceiriog*), a chyrhaeddodd Lanarmon Dyffryn Ceiriog. Yr oedd dau beth yn peri fod Llanarmon yn lle o gryn ddyddordeb iddo ef. Buasai un o

gewri y pulpud Cymreig yn preswylio yno am rai blynyddoedd, sef y diweddar Morris Roberts, Brynllin gynt, ac wedi hyny o Remsen, yn Nhalaeth New York, Gogledd America. Oddeutu mis cyn dyfodiad Robert Oliver i'r lle yr ymadawsai Mr. Roberts a'i deulu i'r Gorllewin. Bu y gwr hwnw dan gryn erledigaeth yn Nghymru, ac yn America drachefn, oblegid rhyw rai o'i ddaliadau crefyddol; ond cafodd amddiffyniad rhagorol yn y cofiant a ysgrifenwyd iddo gan y Parch. Edward Davies, Waterville.

Yr oedd gwr enwog arall wedi bod, yn ddiweddar, yn dal bywoliaeth Eglwysig Llanarmon. Ei enw oedd Peter Roberts. Yr oedd yn ysgolhaig trwyadl, yn hynafiaethydd manylgraff, yn dduwinydd galluog, ac yn serydd wr campus. Pan ofynodd rhyw wr i Horsley, Esgob Llanelwy, a oedd efe yn adnabod *un* Peter Roberts, atebodd, "Diau fy mod, nid oes ond *un* Peter Roberts yn y byd." Yr oedd ei dad, John Roberts, yn awrleisydd yn Rhiwabon, a symudodd oddiyno i Wrexham. Pan oedd yno, ceisiodd gwrthwynebydd rhwysgfawr a gwyntog iddo ei ddychrynu a'i ddigaloni, drwy argraffu ar ei arwyddfwrdd ei fod ef yn "awrleisydd o Lundain." I'r dyben o ollwng ychydig o'r gwynt allan o hono, argraffodd John Roberts ar ei arwyddfwrdd yntau, ei fod yn "awrleisydd o Riwabon;" ac atebodd hyny yr amcan mewn golwg. Yn 1818, cafodd Peter Roberts fywoliaeth Halcin mewn cyfnewid am Lanarmon; ac yno, pan ar y weithred o roddi cardod i ddyn tlawd yn nrws ei dŷ, tarawyd ef gan y parlys mud, a bu farw y boreu canlynol. "Cwbl wagedd yw pob dyn pan fo ar y goreu," fel y tystiolaetha geiriau y Beibl.

Wedi cael ymborth yn Llanarmon, cyfeiriodd Robert Oliver i fyny i Ferwyn, a bob yn dipyn, wele ef yn sefyll ar ben Moel Fferna, lle y cafodd olygfa ogoneddus ar ranau helaeth o Gymru, a Lloegr hefyd. Disgynodd wrth ei bwys i waered o Foel Fferna i Gorwen, lle y prynodd ddau lyfr. Yn un o honynt, yr oedd canoedd lawer o ymadroddion Cymreig wedi eu troi i Saesonaeg priodol, yr hyn a ystyriai Robert Oliver yn dra manteisiol iddo ef ar y pryd. Y llyfr arall ydoedd Gramadeg Dwyieithawg, neu Ramadeg o'r iaith Saesonaeg yn Gymraeg a Saesonaeg ar gyfer eu gilydd, o waith John Williams, wedi hyny o Lansilin, Rhosllanerchrugog, y Drefnewydd, a'r Rhos eilwaith yn niwedd ei oes. Gweinidog dysgedig, meddylgar, a gwir ragorol yn perthyn i'r Bedyddwyr, oedd John Williams—dyn gwirioneddol fawr—y mwyaf a fagodd Gogledd Cymru yn yr oes hòno oedd John Williams. Bu y llyfr hwnw o ddefnydd mawr i Robert Oliver wedi hyny. Yr oedd taith o swydd yr Amwythig, a thros Ferwyn i Gorwen, yn llawn digon o waith diwrnod i Robert Oliver. Gan hyny efe a letyodd yn nghymydogaeth Corwen y noswaith hòno.

Boreu dranoeth, "cyn codi cwn Caer," yr oedd Robert Oliver ar y ffordd yn cyfeirio tua Bangor. Aeth heibio i Rug, lle yr oedd heliwr cadarn yn preswylio y pryd hwnw. Dringodd i ardal Llangwm, lle yr oedd hen weinidog perthynol i'r Annibynwyr, o'r enw Thomas Ellis, yn preswylio. Gwr oedd efe "yn ofni Duw yn fwy na llawer,"

ac yn wir lafurus yn y weinidogaeth. Yn yr ardal hòno hefyd yr oedd John Roberts, brawd i'r enwog Robert Roberts o Glynog, yn cyfaneddu. A hòno oedd gwlad y pastynfardd, Hugh Jones o Langwm. Nid oedd a fynai Hugh Jones â gwrandaw yr Ymneillduwyr. Gofynwyd iddo unwaith a ddeuai efe i wrandaw un Siôn Moses, pregethwr perthynol i'r Methodistiaid, oedd yn byw yn y Bala, ond ei ateb ef oedd yn nacaol. Ebai ef, "Mi gymra i nhywys gan fugail yr eglwys, rhag ofn fod Siôn Moses yn misio."

Cyn bo hir, yr oedd Robert Oliver ar gyfer hen gartref John Jones, Glanygors, awdwr y traethodau, "Seren dan Gwmwl," a "Thoriad y Dydd," a chyfansoddwr llawer o ganeuon, megys "Dic Sion Dafydd," a "Sesiwn yn Nghymru," &c. Daeth Robert Oliver cyn hir i gymydogaeth Pentre y Voelas. Yno yr oedd Plas Iolyn, cartref y Dr. Coch, un o reolwyr yr Eisteddfod a gynaliwyd yn Nghaerwys yn 1568, drwy awdurdod y Frenhines Elizabeth. Yr oedd Thomas Price, mab y Dr. Coch, yn fardd rhagorol yn ei ddydd. Yn y Voelas y preswyliai y Wyniaid dros oesoedd lawer. Rhwng Pentre y Voelas a Bettwsycoed y trigai yr erlidiwr mawr o Rydlanfair, yr hwn a wnaeth ymosodiad beiddgar ar y Dr. Lewis, Robert Roberts, Tyddynyfelin, Azariah Sadrach, ac eraill. Wedi i Robert Oliver gyrhaeddyd Bettwsycoed, yr hwn nid oedd y pryd hwnw ond lle bychan iawn, gan nad oedd eto ond cynar yn y prydnawn, penderfynodd yr äi mor bell a Chapel Curig i orphwys y noson hòno. Cychwynodd, a dringodd heibio i Raiadr y Wenol, lle y dywedir ddarfod offrymu ysbryd un o Wyniaid Gwydir, a'r lle, meddir, y mae efe a'r rhaiadr yn ewynu drosto er ys yn agos i 300 mlynedd bellach. Ond rhaid cael ffydd wahanol i ffydd y dyddiau presenol i dderbyn peth fel yna fel gwirionedd. Aeth y teithiwr yn mlaen gan ddarllen, a chroesodd yr afon wrth y Ty-hyll; ond cyn pen hir, dyrchafodd ei olwg oddiar ei lyfr, a gwelai mewn cae gerllaw y ffordd ffynon o ddwfr gloewlas, a llawer iawn o ferw y dwr yn tyfu yn ei gofer. Yr oedd ganddo fara a chaws yn ei logell, a chan ei bod yn adeg prydnawnfwyd, efe a ddringodd dros y clawdd ac a roddes ei sypyn dillad a'i lyfr ar lawr, ac a ddechreuodd fwyta o ddifrif. Wedi i'r wledd derfynu, ac i ferw y dwr gael eu trethu yn bur drwm, cododd ac aeth ymaith; ond, yn anffodus, ni chofiodd ddim am y llyfr nes ydoedd yn Nghapel Curig; ac erbyn hyny yr oedd yn rhy flin i fyned yn ol i'w ymofyn. Fel yr oedd goreu y modd, nid y Gramadeg Dwyieithawg a adawyd ar ol, ond y llyfr Ymadroddion Cymreig wedi eu troi i'r Saesonaeg. Mae y Gramadeg gan R. Oliver hyd heddyw. Fel yr oedd R. Oliver yn dringo o Bettws y Coed i Gapel Curig, yr oedd yn myned am ryw gefnen o fynydd â rhosdiroedd Dolyddelen, lle y preswylai amryw o bregethwyr nodedig o dalentog ac efengylaidd; megys John Jones, Tanycastell; a David Jones, ei frawd; Cadwaladr Owen, a John Williams yr ieuangaf, a John Williams yr hynaf hefyd, yr hwn a ddefnyddiodd yr Arglwydd i ddychwelyd mam yr enwog Williams o'r Wern. Yno hefyd yr oedd y castell lle y ganesid Llewelyn Fawr,

un o dywysogion enwocaf y Cymry, a'r hwn a orchfygodd y Saeson mewn llawer o frwydrau llofruddiog.

Oddeutu 9 mlynedd cyn ymweliad Robert Oliver â Chapel Curig, yr oedd gwr o'r enw William Thomas, ewythr frawd ei dad i'r diweddar Barch. William Thomas o Beaumaris, yn cadw Tollborth Capel Curig. Yr oedd swyddog perthynol i'r gyllidaeth yn byw, ar y pryd, yn Llanrwst, ac yn arfer myned, yn fynych, ar ei farch drwy y Tollborth a gadwai William Thomas yn Nghapel Curig. Enw y cyllidydd oedd Sturdy, ac yr oedd ef a'r ceffyl a farchogai yn berffaith adnabyddus i'r Tollwr. Gwelodd William Thomas ef un boreu yn myned drwodd tua Bethesda a Bangor, ac yn mhrydnawn yr un dydd gwelai farch Mr. Sturdy, a marchogwr dyeithr ar ei gefn, yn dyfod at y Tollborth ac yn myned drwodd heb dalu. Cyn hir, dyma erlidwyr o ardal Bethesda yn dyfod ar ol Lewis Owen, ac yn dywedyd ei fod wedi saethu Mr. Sturdy yn ei fraich, ac wedi ceisio ei saethu drwy ei ben, ond wedi methu y tro hwnw, ac wedi lladrata ei farch, a dianc ymaith. Ymwasgarodd yr erlidwyr, rhai bob ffordd. Cafodd William Thomas fenthyg ceffyl, heb na chyfrwy na ffrwyn yn perthyn iddo. Aeth ef dros Hiraethog, a goddiweddodd y llofrudd ar y mynydd. Gofynodd y llofrudd pwy ydoedd, ac i ba le y cyfeiriai. Atebwyd ef, a thwyllwyd ef yn hollol. Ymadawsant â'u gilydd ar gyfer Nantglyn; ond aeth William Thomas ar ei ledol i Ddinbych, a llwyddodd i'w ddal yn y dref hòno. Anfonwyd ef i garchar Rhuthyn; symudwyd ef i Gaernarfon i gael ei brofi. Cafwyd ef yn euog o'r cyhuddiad, a dienyddiwyd ef ar Forfa Seiont, Medi 4, 1822.

Wedi gorphwyso noswaith yn Nghapel Curig, cychwynodd Robert Oliver yn foreu iawn tua Bangor. Cafodd gipdrem ar amryw o leoedd o hynodrwydd, ac ni welsai efe y fath leoedd gwylltion, creigiog, a charegog, hyd y diwrnod hwnw. Cafodd hamdden i gael golwg ar Chwarel Caebraichycafn, a chyrhaeddodd Fangor yn mhell cyn y nos, lle y lletyodd y noswaith hòno. Wedi cyrhaeddyd priffordd Caergybi yn Nghorwen, cafodd y troed-deithiwr y ffordd oreu yn y byd, ond odid, i'w cherdded, nes y cyrhaeddodd Fangor Fawr yn Ngwynedd.

[Hon ydoedd yr ysgrif olaf a ysgrifenodd Ap Vychan i'r DYSGEDYDD.]

---

[Cofier mai bras-ddarlun a roddir i ni gan AP VYCHAN ei hun yw'r tudalenau blaenorol, ac y mae pob dyn yn gwybod ei hanes ei hun yn well nag y medr neb arall ei draethu. Fodd bynag, nid yw'n gweddu i neb roddi bywgraffiad o hono ei hun, am fod y Beibl yn ein dysgu, "Canmoled arall dydi, ac nid dy enau dy hun; estron, ac nid dy wefusau dy hunan." Yr oedd edmygwyr AP VYCHAN yn aneirif, a phe codasid carn ar ei fedd, yn ol yr hen arferiad, i bawb a ewyllysiai daflu careg iddi, nid wyf yn tybio y buasai nemawr i garn yn ein dyddiau ni gymaint ag eiddo AP VYCHAN. Yn ei Gofiant, fodd bynag, o herwydd prinder gofod, rhaid cyfyngu ei fywgraffwyr i nifer fychan, a dechreuir gan Gwalchmai, hen weinidog AP VYCHAN am flynyddau, a dilynir ef gan eraill o'i gydnabod.—GOL.]

# NODIADAU AR AP VYCHAN.

## YSGRIF I.

(GAN GWALCHMAI.)

YMDDANGOSODD cyfran helaeth o'r Ysgrif hon yn y *Dysgedydd* am fis Mehefin, 1880, a hyderir na fydd hyny yn anghymeradwy gan ddarllenwyr y Cofiant hwn, ac nad edrychir ar hyny yn anmhriodol wedi gweled y nodiadau ychwanegol a geir yma, gyda'r adgyweiriad a ganfyddir ar rai rhanau o'r Bywgraffiad.

*Bryn Llewelyn, Llandudno.* R. P.

ADDEFIR yn gyffredinol nad oes un gangen o lenoriaeth yn fwy defnyddiol i'r byd na Hanesyddiaeth, yn ei holl wersi amrywiaethol, ac nad oes yr un gangen o Hanesiaeth yn fwy addysgiadol na Bywgraffiaeth, neu gofnodiad ffyddlon o brif linellau cymeriad dynion ymadawedig, o ragoroldeb mewn gwybodaeth, a defnyddioldeb yn eu buchedd gyhoeddus. Prin y gellir cyfeirio at hanesion gwledydd na chenedloedd heb eu bod yn cynwys nodiadau am bersonau neillduol oedd yn cymeryd rhan arbenig yn ngweithrediadau yr amseroedd a gofnodir tra y blodeuent. Ni a welwn hyn yn eglur yn nhrysorau y datguddiad dwyfol o'r braidd ar bob dalen. Os edrychwn i'r Hen Destament, yr ydym yn wastadol yn dyfod heibio i batrieirch, brenhinoedd, barnwyr, offeiriaid, a phrophwydi, wedi eu darlunio ar yr holl leni symudol ger ein bron. Os craffwn ar lyfrau Ruth ac Esther, ni a gawn fywgraffiadau personol o'r dechreu i'r diwedd. Ni allwn lai na chanfod yr un llinellau yn rhedeg drwy y Testament Newydd yr un modd.

Y mae y sylw hwn yn gymhwysiadol iawn at ein gwlad ni ein hunain, yn arbenig yn mhob dosbarth o ddynion, pa un bynag ai fel tywysogion, gwladgarwyr, beirdd, neu offeiriaid, yn gystal ag athrawon ac arweinwyr y genedl, mewn bywyd neillduol, ag y tremiom arnynt. Y mae gan bob enwad crefyddol o fewn ein Tywysogaeth enwogion teilwng i gyfeirio atynt yn y dylanwad ymarferol a adawsant ar eu hol. Y mae gweinidogion yr efengyl yn gwneud eu goreu ar allu o'r byd wneud coffa am danynt wedi eu hymadawiad o'r fuchedd hon. Ni allant foddloni ar fod eu mynediad drwy eu tymhor yma, fel ehediad yr eryr drwy yr awyr, neu nofiad y llong drwy y môr, heb adael un math o argraff ar eu hol. Yr ydym ninau wedi cael ein galw yn ddiweddar i goffâu am nifer o ffyddloniaid nad oedd y byd yn deilwng o honynt, y rhai y gellid cynull defnyddiau am eu rhagoroldeb eilfydd i'r unfed benod ar ddeg o'r Llythyr at yr Hebreaid.

Un o'r rhai diweddaraf yn y rhestr hon ydoedd y Parch. Robert Thomas o'r Bala, neu "Ap Vychan," fel yr adwaenid ef yn gyffredin yn mysg y beirdd a'r llenorion. Buom yn lled gwmpasog cyn dyfod at y gwrthddrych yn ein rhagymadrodd. Na fuom, yn sicr, canys yr oeddym a'n golwg arno yn mhob brawddeg a llinell o'r dechreu. Nid oeddym wedi dysgwyl clywed am ei ymadawiad o blith y byw gyda'r fath sydynrwydd, oblegid oedran na llesgedd corfforol; ac yr oedd ei symudiad mor gyflym o'n plith yn taro ar ein teimlad yn llawer mwy cyffrous na phe y buasem wedi clywed am nychdod maith, neu wendid graddol. Disgynodd i'r bedd o ganol ei ddefnyddioldeb; machludodd ei haul megys ar haner dydd; nid oeddym mewn un modd yn barod i dderbyn y dyrnod; nid yw ond megys doe genym adgofio ein bod yn ei gyfeillach yma ar ein haelwyd; tybiwn weled ei wyneb hawddgar ger ein bron y munyd yma. Ond beth a dâl tybiau plentynaidd fel hyn? Ni ellir galw doe yn ol.

Brodor oedd Mr. Thomas o Lanuwchllyn, gerllaw y Bala, yn sir Feirionydd; mab i Mr. Dafydd Thomas, Ty Coch, Pennantlliw Bach. Ganwyd ef yn y fl. 1809. Symudodd y teulu cyn hir wedi hyny i Danycastell, gerllaw hen gastell Carn Dochan, yr hwn ydoedd anedd parchus, ond diaddurn. Yr oedd ei rieni yn bobl gymeradwy yn y gymydogaeth, ond cyffredin o ran eu sefyllfa fydol, yn ol yr hen ddull Cymreig o fyw, a'r fath ag a welid yn fynych yn y cyfryw ardaloedd dysyml a dirodres. Dygodd ei dad ef a'i ddau frawd i fyny mewn celfyddyd ddefnyddiol, oedd yn gaffaeliad gwerthfawr yn y lle, wedi i Robert fod yn gwasanaethu mewn amaethfa hyd nad ydoedd tua deng mlwydd oed. Yr oedd pob un o'r teulu yn fedrus ar lyfr, ac yr oedd ganddynt yn eu meddiant rai o argraffiadau cyntaf y Beibl Cymraeg fel trysorau teuluol. Y mae hyn yn ddigon o awgrym er dangos pa fath ydoedd osgo meddwl ei hynafiaid a'u perthynasau. Yr oeddynt oll o duedd ymofyngar a darllengar, er y gwybyddid fod Robert yn cymeryd y blaen yn eu plith. Yr oedd y Parch. Michael Jones, yr hwn oedd weinidog yr Annibynwyr yn y lle, yr hwn ydoedd yn ysgolhaig gwych, ac yn dra athrawaidd (*apt to teach*), neu yn meddu ar y ddawn o gyflwyno addysg i eraill, fel y dywedir, yn gweinidogaethu, ac yn codi Ysgol Sabbathol yno ar y pryd mewn tai amaethwyr yn yr ardal ac yn y capel. Mae ysgoldai wedi eu hadeiladu yn y gwahanol fanau hyn yn awr. Byddai Mr. Jones, yn fynych, yn holi yr ysgolion, ac i Ty'nybwlch y byddai gwrthddrych ein Cofiant yn myned. Pan yr oedd Robert Thomas yn bur fychan, gofynai Mr. Jones i'r plant yn yr ysgol hòno mewn pa fath gadachau yr oedd Iesu Grist wedi ei ddodi? Atebai y bychan, "Mewn cadachau sidan." Chwarddodd y gynulleidfa am ei ben; ond dywedai Mr. Jones, "Da 'machgen i, am barchu Iesu Grist y mae Robert, ac am ei roddi yn y cadachau goreu." Yr oedd sylw a gofal Mr. Jones yn fawr am y bechgyn, yn enwedig lle y gwelai efe fod arwyddion talent yn cael eu harddangos mewn athrylith naturiol ynddynt, ac na allai oddef yr hwyrdrwm a'r difater mewn diofalwch am y gwersi a roddai,

ac yr oedd ei sylw wedi cael ei dynu yn neillduol at y bachgen gobeithiol hwn. Bu hyn yn foddion i argymhell gwrthddrych ein Cofiant i ail enyn y ddawn oedd ynddo yntau, drwy lafur diorphwys, o blygain hyd echwydd, yn ol fel y caniatai ei alwedigaeth fydol.

Dichon y dylid cydnabod yma, mewn gair, fod sylwadau o wahanol olygiadau i'r hyn a grybwyllir yma wedi ymddangos yn ddiweddar ar glawr y DYSGEDYDD, ac nad oes genym ond cymeryd y nodiadau hyny am eu gwerth ein hunain, a'u cyflwyno felly i sylw eraill.

Symudodd Mr. Thomas cyn hir i gymydogaeth Croesoswallt, a chafodd fwynhau gweinidogaeth adeiladol yr enwog Dr. Jenkyn am beth amser; a chododd hyn gryn awydd ynddo am ddysgu yr iaith Saesoneg, ac am iawn ddeall athrawiaeth yr efengyl. Yr oedd ef yn gweled mewn duwinyddiaeth yr hyn a alwai ef yn *necessity* mewn cysylltiad â rhyddid ewyllys dyn yn llywodraeth Duw, er yn fachgen, a glynodd hyny yn ei syniadau drwy ei oes. Darllenodd a myfyriodd lawer ar draethawd y Dr. Edward Williams o Rotherham, ar "Uniondeb Dwyfol lywodraeth, a phenarglwyddiaeth Dwyfol ras;" ac yr oedd cryn raddau o ddylanwad y syniadau sydd yn y gwaith hwnw wedi gadael argraff dwfn ar ei feddwl; a pharhaodd i wneud gwahanol bynciau athrawiaeth yr efengyl yn destynau ei fyfyrdod yn barhaus. Dywedodd unwaith wrth gyfaill ag oedd ychydig yn wahanol ei olygiadau iddo mewn rhai pynciau, "Wedi y cyfan, y mae yna ryw *angenrheidrwydd* yn aros yn athrawiaeth gras, nad allwch chwi byth ddyfod dros ei ben," a dywedodd fod Wardlaw yn datgan hyny yn groyw.

Symudodd tua chwe' blynedd a deugain yn ol i Gonwy. Yma y gweithiai wrth ei gelfyddyd. Ymbriododd cyn hir â Miss Isabella Jones o'r dref uchod, a daeth yn feddianol ar deulu, ac yn un o'r trefwyr cyfaneddol. Y mae mab iddynt, Mr. David V. Thomas, oedd yn America yn ddiweddar, wedi dychwelyd i Gymru ar ol claddedigaeth ei dad; ac efe a ymgymerodd â'r gorchwyl clodfawr o gyhoeddi y Cofiant hwn. Y mae merch iddynt yn briod â gweinidog perthynol i'r Eglwys Sefydledig, ac yn preswylio yn Maldwyn. Yr oedd Mr. Thomas yn aelod gyda yr Annibynwyr, ac yn gyfeillgar iawn gyda y diweddar Barch. R. Rowlands, y gweinidog. Pregethai yn fynych yn y cymydogaethau ar y Sabbathau, gyda chymeradwyaeth mawr. Daeth galwad i Gonwy ar un adeg am un i fyned fel cyflenwydd i gapel Gartside Street, Manchester, ac anogwyd ef i fyned yno, ac felly y bu. Dygwyddodd fod cyfeillion o Dinas Mawddwy, oeddynt fasnachwyr, yno yn ei wrando, a chawsant foddhad mawr yn ei bregethau, yn gymaint felly, fel wedi dychwelyd adref, yr anogasant eu brodyr i'w wahodd yno i'w gwasanaethu yn yr areithfa am rai Sabbathau, a chydsyniodd yntau, a'r canlyniad fu iddynt roddi galwad iddo ddyfod i'w plith i'w bugeilio yn nghyflawn waith y weinidogaeth. Cydsyniodd â'r cais, ac ordeiniwyd ef felly yno; a bu yn llafurio am amser yn eu plith gyda llwyddiant anarferol. Nid hir y bu yno heb gael ei alw i Le'rpwl, yn weinidog i'r capel newydd

a elwid Salem, ac wedi iddynt gael llawer o foddlonrwydd yn ei weinidogaeth, yno yr ymsefydlodd, a bu yn dra defnyddiol yno am dymhor maith. Symudodd drachefn i Rhosllanerchrugog, gyda Rhosymedre, a Rhiwabon, lle y llafuriai yn egnïol iawn. Cwynai wrth gyfaill, tra y bu yma, fod y cerdded o'r naill fan i'r llall yno, rhwng y gwahanol oedfaon, yn ei nychu yn fawr, ac yn peri blinder lluddedig iddo, ac yr hoffai le a llai o lafur corfforol. Yn y cyfamser, daeth eglwys Ebenezer, Bangor, yn wag drwy farwolaeth y Dr. Arthur Jones, a derbyniodd alwad oddiyno, a chymerodd ofal y lle Cyn hir llwyddodd i godi capel newydd yno, a bu cynydd mawr yn yr eglwys a'r gynulleidfa. Dywedai i'r diweddar Mr. Daniel Williams o'r Slate Yard, Garth, fod yn gymhorth mawr iddo, wrth godi yr adeilad newydd. Wedi llafurio yma dros amryw flynyddoedd gyda llwyddiant dedwydd, daeth galwad arno i gymeryd y swydd o Athraw Duwinyddol yn Athrofa Annibynol y Bala, mewn cydweithrediad â'r Parch. Michael D. Jones, ac hefyd i gymeryd gofal yr eglwys Gynulleidfaol yno, fel ei gweinidog. Wedi ystyriaeth bwyllus cydsyniodd â'r cais, a symudodd yno. Cynaliwyd cyfarfod effeithiol iawn ar deimladau y bobl yn Mangor ar yr achlysur o'i ymadawiad. Cyflwynwyd iddo anrhegion gwerthfawr fel arwyddion o deimlad cynes y bobl tuag ato. Yn mysg y rhoddion, yr oedd *inkstand* arian gorwych, ac ar estyniad hwnw i'w law, dywedai, "Wel, dyma anrheg i mi ag sydd wrth fy modd; ac mi a welaf yn amlwg beth oedd nod y cyfeillion wrth ei ddethol rhagor dim arall, sef am y dysgwyliant i mi ysgrifenu pregethau dysglaer, ac ambell awdl a chân newydd awenyddol eto o ddifrif. Wel, yr wyf finau yn ei dderbyn fel y cyfryw, gan obeithio na siomir hwy yn y canlyniad." Traddododd un o'r brodyr chwe' englyn a gyfansoddwyd ar y perwyl, y rhai a dderbyniai efe gyda theimladau diolchgar iawn. Credwn y cynyrchid teimladau ar y cynulliad lluosog anarferol hwn, nad anghofir hwy ar fyrder yn Mangor.

Nid oes un angen yma am unrhyw sylwadau ar y priodoldeb neu yr anmhriodoldeb o'r symudiad diweddaf hwn. Bu Mr. Thomas yn llafurus iawn yn narpariad ei Ddarlithoedd Duwinyddol i'r efrydwyr ieuainc yn yr Athrofa. Dysgwylid y gwnaethai gasgliad o honynt wedi eu parotoi ar gyfer y wasg. Nid ydym yn hysbys yn mha gyflwr y gadawodd hwy ar ei ol. Dichon y cawn awgrym o'r hyn y bwriadai efe iddynt fod yn ei draethodau ar "Alwad yr Efengyl," ac ar y "Ddeddf Foesol," a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn y DYSGEDYDD. Y mae yn ddiau y gwneir y goreu o honynt ar gyfer eu hymddangosiad mewn argraff yn y cyfrolau hyn, dan ofal ei fab talentog, a threfniant Golygydd galluog y gwaith.

Nid yw yn hawdd gwneud darluniad teg o hono fel pregethwr; byddai yn haws gwneud cyfeiriad at ei ardeb corfforol o lawer, drwy sylwi fod ger ein bron berson hawddgar yr olwg arno, o faintioli a thaldra ychydig uwchlaw y canolig, heb fod yn gnodiog iawn, a'i wallt llawn yn addurn canaid o amgylch ei ben; ac wedi gwresogi yn

ei draddodiad, ei arleisiau megys yn ymgodi, a'i lygaid craff fel yn encilio yn ol, a phob peth ynddo, ar y cyfan, yn gwneud ei ymddangosiad yn foddhaol i bawb. Dichon, ar yr un pryd, y dylid cynyg ychydig o sylw arno yn yr areithfa, er cael rhyw awgrym am ddull ei ddawn, ac fel y gweler, i raddau, yn mha le yr oedd cuddiad ei gryfder pregethwrol. Pa fodd bynag, gwnaed y sylw canlynol gan un oedd yn lled adnabyddus o hono wedi bod yn ei wrando yn pregethu oddiwrth y geiriau canlynol, "Yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddyoddefgarwch Duw," &c. Yr oedd efe y pryd hwn, ar y cyfan, yn ei hapusrwydd uwchaf. Dechreuai yn gwbl hamddenol, ac yn hollol hunanfeddianol. Enillai sylw y gwrandawyr yn fuan, fel y gallesid yn hawdd gweled oddiwrth sirioldeb gwedd y dorf. Yr oedd pob peth yn ymddangos yn ffafriol—y gwynt yn deg, yr awel yn dyner, y nen yn glir, a'r cymlawdd yn fanteisiol—oll yn uno i ddal allan obaith am fordaith ddedwydd ar y cychwyn; ac ni chafwyd yr un siomedigaeth yn hyny. Yr oedd yn geirio yn dda, ac yn traddodi yn hyawdl, gydag ambell ymadrodd pert yn blethedig drwy y sylwadau. Wrth esbonio geiryddiaeth ei destun, aeth yn fuan i ormod o fanylwch amgylchiadol, a chollodd ei afael ar deimladau y bobl, i raddau. "Iawn—y mae ychwaneg nag un ystyr i'r gair mewn iaith gyffredin; ac yn wir, y mae geiriau yn newid eu hystyr weithiau, mewn amser, o oes i oes. Gallem weled hyn yn ddigon eglur ond cyfeirio at y gwahanol ystyron roddir i'r gair *gwawd*, yr hwn a arferid yn gyffredin am gân neu farddoniaeth gan ein cenedl ni gynt, a hyny er amser Aneurin Gwawdrydd. Ond pwy a feddyliai unwaith am gân wrth *wawdio* eu gilydd yn ein dyddiau ni? &c. Felly am y gair *Iawn;* cawn iddo amryw ystyron a gwahanol arwyddocâd mewn amrywiol gysylltiadau," &c. Sylwyd fod y manylder gor-gywrain hwn yn tueddu i oeri teimladau y bobl, i raddau, ac yntau yn colli ei feistrolaeth ar eu sylw. Ond beth er hyny? Nid oedd yn ddim amgen na mantais i roddi mwy o nerth yn yr ergydion cyrhaeddgar wedi iddo ddychwelyd at enaid ei destun. "Iawn, yn briodol, mewn iaith sathredig, a arwydda yr hyn sydd addas—y tâl neu y boddlonrwydd a rydd y naill ddyn i'r llall mewn achos o golled neu sarhad; neu y ddirwy a rydd llywodraeth wladol ar droseddwyr, &c. Y mae llawer o ymadroddion yn cael eu harfer er ei egluro—iawn adferiadol, a iawn taledigol—iawn personol ac anghyhoedd," &c. Gwelid yma leied o ddyddordeb a deimlai cynulleidfa gymysg dan argraff sylwadau tebyg i'r rhai hyn. Ond aroswch ychydig bach. Yr oedd efe, erbyn hyn, wedi dyfod drwy yr orsaf gyntaf o'i draddodiad, ac yn parotoi i alw ei holl ymadferthion yn nghyd.

Cymerodd fantais ar y clauarineb ymddangosiadol hwn i ddeffro i bwrpas, a thywallt allan ffrwd o'i hyawdledd mwyaf effeithiol ar deimladau y dorf, gan gario eu sylw gydag ef yn deg hyd y diwedd. Dechreuai estyn ei fraich dde allan, a'i fys blaenaf rhagddo, gan

ysgwyd ei fraich o'r penelin, ol a blaen, megys yn gychwyniad i'r ail orsaf; ac wedi ychydig o chwareu felly, daeth ei holl alluoedd, gorff ac enaid, yn fuan i'r golwg, pan y dywedai mai at Iawn yr efengyl yr oedd efe yn tynu—cyfrwng neu sylfaen gweinyddiad trugaredd i bechadur euog yn gyson âg anrhydedd y gyfraith, a gogoniant y Brenin mawr, trwy gyfryngdod yr Arglwydd Iesu Grist, &c. Erbyn hyn, yr oedd yn eglur i bob gwrandawr craff ac ystyriol, ei fod wedi cael ei draed ar y graig, a hwylio ei gerddediad. Dangosodd fod athrawiaeth trososodiad, neu y naill yn myned yn wirfoddol i le y llall, fel dirprwywr, i'w gweled mewn natur yn mhob rhan o'r greadigaeth. Dirprwywr yw un yn sefyll dros arall, neu rai eraill, a bod llywodraeth y Brenin mawr felly yn osodiad naturiol, ac yn cyd-daro âg anian, ac felly yr oedd gosodiad ei Fab yn lle yr euog yn unol â threfn, &c. Yr oedd efe erbyn hyn wedi cael meddiant hollol ar sylw a theimladau y gwrandawyr, a gwelid ambell ddeigryn yn dianc yn ddystaw o lawer llygad ar y pryd. Daeth rhagddo drachefn i ddangos fod yr Iawn yn cynwys person Crist, a'r hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd yn ei anfeidrol haeddiant, nid y naill na'r llall ar wahan oddiwrth eu gilydd, ond yr oll yn un Iawn anfeidrol a digonol rhwng Duw a dynion. Y mae hyn yn cael ei ddal allan yn eglur yn yr ymadroddion ysgrythyrol, "Efe yw yr Iawn," "Hwn a osododd Duw yn Iawn;" pryd arall, "ei waed," "ei waed ei hun," "yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed," "dyoddefgarwch Duw," "Crist unwaith a ddyoddefodd," "âg un aberth," &c. Chwareuodd yn effeithiol iawn ar y geiriau "unwaith," "un aberth," &c., nes yr oedd pob meddwl oedd gan bob dyn oedd ger ei fron wedi ei sicrhau wrth ei wefus. Yr oedd yr ymadroddion "gwerth" a "pridwerth," "gwerthfawr," &c., yn cael eu galw yn fynych at ei wasanaeth gyda hapusrwydd neillduol. Yr oedd yn arfer y gair, "Y Brenin mawr," mewn cysylltiad â phob brawddeg o'r bron, fel yr oedd yn ymddangos o'r braidd yn debyg i dra-mynychiad afreidiol; ond wedi y cyfan, teimlid rywfodd nad oedd ond megys dyrnod ychwanegol i daro yr hoel adref i fynwes a chalon pob dyn yn y lle. Gweithiodd yn mlaen i edrych ar bechod yn ei wahanol ffurfiau, a'r darluniadau ysgrythyrol am dano fel dyled, caethiwed, afiechyd, gwrthryfel, &c., yn effeithiol hynod. Darluniodd yn rymus iawn beth a fuasai canlyniadau pechod ar y byd, pe heb ei gosbi, mewn trefn i agor llwybr cyfreithlon ac anrhydeddus i'w faddeu, ac fel y buasai hyny yn datod rhwymau llywodraeth, dinystr y gyfraith, sarhau yr orsedd, goddef anufudddod, a rhoddi anogaeth i chwyldroad ac annhrefn yn yr ymerodraeth ddwyfol. Mawr fel yr ymgodai i nerth a dylanwad wrth arddangos Iawn y Groes fel cyfrwng gweinyddiad trugaredd i fyd colledig. Daeth rhagddo yn wir effeithiol, pan y cymhwysai yr athrawiaeth at gyflyrau y bobl, ac y dangosai yr angenrheidrwydd am ffydd yn yr Aberth mawr er cysylltu darpariadau gras y nef â chyflwr y pechadur, yn ei sylwadau ar sefyllfa anobeithiol yr anghredadyn allan o gylch nodded yr Iawn, ac ar fawredd

cariad Crist yn ei ddylanwad er ein cymhell i ymddiried ynddo am fywyd, yr oedd wedi ymgodi i uchder angerddoldeb a chryfder ei weinidogaeth; yr oedd ei sylwadau ar y sicrwydd yr atebai ei ddyben yn rymus iawn—nid äi byth yn ofer. Wrth arwain y pechadur i edrych ar Grist yn dyoddef dros ei elynion, yr oedd yn wir rymus. "Bechadur," meddai, "tyred heibio i ardd Gethsemane, i weled yr olygfa ryfeddaf erioed yno, a thi a gei weled ei chwys yn disgyn megys dafnau mawrion o waed, nes lliwio gwyrddlesni y llysiau gan gochni hylif ei gariad—a thi a gei weled angel nef yn sychu y gwaedlyd chwys oddiar ei wyneb glan," &c. Yn awr, tybied y darllenydd am dinc melusaf ei lais soniarus wedi cyrhaedd crib uchaf ei floedd berseiniol, yn y cywair lleddf, ac am y disgyniad cyflym yn ei sain ar derfyn ei frawddegau ar y geiriau "mawr o waed"—a'i "wyneb glan," a dichon y gall ffurfio rhyw ddychymyg gwelw am effeithioldeb y traddodiad, yr hwn ydoedd mewn gwirionedd dros ben pob darluniad! Yr oedd hon yn un o'i oedfaon hapusaf, feddyliem. Terfynodd gan adael y dorf mewn hwyl o fyfyrdodau nefol, a theimladau o gariad cynhes at y Gwaredwr mawr. Anhawdd genym gredu na adawyd argraffiadau annileadwy ar feddwl lluaws oedd yno yn gwrandaw ar y pryd, trwy y sylwadau naturiol a'r apeliadau difrifol a nerthol gyda'r rhai y terfynodd ei anerchiad. Arosodd sain ei lef a grym ei ymadroddion yn bwysig iawn ar ein clust a'n teimlad am dymhor maith wedi hyn. Nid ydym yn awgrymu dim yma mai rhyw eithriad yn ei oes ydoedd yr amgylchiad dedwydd hwn; na, clywsom bethau cyffelyb droiau eraill, ac adroddwyd i ni gan eraill am bethau oedd yn llawn mor nodedig, a hyny ar lawer tro mewn manau eraill.

Tuag at gael golwg lled gyflawn ar bortread gwrthddrych ein sylwadau, y mae yn ofynol i ni gael tremiad arno o amrywiol gyfeiriadau eraill. Yr oedd Mr. Thomas wedi enwogi ei hun yn fawr fel bardd a llenor er's cryn amser bellach. Yr oedd wedi hoffi yr awdl a'r mesurau cynghaneddol i raddau mawr er yn fachgen, er mai yn ddiweddar yr oedd efe wedi astudio y rheolau yn eu manylder. Ei air cyffredin ydoedd, "Yr awdl ydyw y canu Cymraeg." Cafodd ei awdl fuddugol ar y "Diluw" ganmoliaeth uchel gan y beirniad craff Caledfryn, yn Eisteddfod leol Rhyl. Cafodd y Gadair Genedlaethol dan feirniadaeth Gwalchmai, yn Eisteddfod Caerlleon, ar "Y Môr." Bu yn ymgeisydd drachefn am y Gadair Farddol yn Eisteddfod Aberystwyth, ar yr "Apostol Paul." Teimlodd i raddau yn archolledig ei feddwl y tro hwn, oblegid rhai sylwadau miniog a duchanol oedd yn y feirniadaeth, a thrwy gael ei gyflëu yn ail oreu, er nad ystyrid mo'r cyntaf, sef Nicander, yn deilwng o'r wobr, ac o ganlyniad Cadair wag oedd yno. Y lle yr oedd ef fwyaf diffygiol yn ei wybodaeth o'r rheolau gwarantedig oedd am y goddefiadau rheolaidd, a thrwy hyny yr oedd weithiau yn llithro i'r coll sydd yn "llunio bai lle na bydd."

Y mae nifer o englynion da wedi eu cyhoeddi ganddo yn y

*Dysgedydd* o bryd i bryd, ac y mae y rhai ar Pennantlliw Bach yn mysg y goreuon. Y maent yn gyfoethog o syniadau naturiol, ac yn orlawn o deimlad a barddoniaeth. Ni allwn ymatal heb ddwyn dau neu dri o'r penillion gerbron, fel cynlluniau teilwng o'u hadgoffa,—

A diau esgud y dysgodd—fy nhad,
Fu'n hir, ac ni flinodd,
Eithr ef fu athraw o'i fodd,
I'm hyrwyddaw ymroddodd.

I mi yno, fy mam anwyl—fu'n dda,
Fu'n ddoeth ar bob egwyl;
Gwarchod, a gwneud ei gorchwyl,
A fynai hi, fenyw ŵyl.

Llon oedd, llawen o hyd—eon wenai
Yn wyneb caledfyd;
Canai hi, heb ofni'r byd,
Yn oedfa gerwin adfyd.

Yr oedd efe, fel y tystiai ei hun, wedi llawn fwriadu cynyg yn mhellach am y gadair, ond dichon i afiechyd neu drafferthion ei luddias i fyned rhagddo yn ei fwriad.

Ni wyddom iddo ymenwogi nemawr fel beirniad cyhoeddus y naill dro ar ol y llall. Dichon ei fod yn ddigon cywir yn ei ddyfarniad, ond ni chynyrchodd sylwadau oedd yn arddangos llafur na medr mawr yn y dosbarth hwn. Ychydig o nodiadau byrion a fyddai ganddo yn gyffredin. Ni chawsom nemawr o addysgiadau beirniadol ganddo mewn ceryddon am fai, na chanmoliaethau am ragoroldeb. Ni hynododd ei hunan yn neillduol iawn yn y dosbarth hwn o lenoriaeth, hyd y gwyddom.

Y mae llafur ac ymdrech Mr. Thomas fel llenor, yn ei gymeriad fel gweinidog a bardd, yn dangos beth a all dyn gyrhaedd trwy hunan-addysgiaeth. Ymgododd i raddau uchel fel ysgolhaig, ac awdwr, a hyny heb fanteision addysg foreuol. Pregethai yn yr iaith Saesoneg yn dda, er nad oedd yn gallu ymryddhau yn gwbl oddiwrth yr acen Gymreig. Yr oedd yn ymwybodol ei fod yn deall y priod-ddull yn lled drwyadl, er na allai feistroli y manylion defodgarol. Nid oedd yn ddiolchgar iawn i rai llai eu galluoedd, am ei alw i gyfrif am hyny. Fel egluriad o hyn, gellid cyfeirio at yr ymddyddan canlynol a fu rhyngddo a chyfaill—"Wel," meddai Mr. Thomas, "a dderbyniasoch chwi ofyniad oddiwrth awdurdodau yr *Year Book*, yn mha goleg y cawsoch chwi eich dwyn i fyny?" "Do," oedd yr atebiad. "A atebasoch chwi y gofyniad?" "Naddo, oblegid prin yr oeddwn yn meddwl fod ganddynt hawl i ofyn y fath holiad." "Wel, yr wyf finau wedi cael y gofyniad, ac yr wyf wedi eu hateb, a mi a roddaf i chwi fy ngeiriau iddynt, a dyma hwy:—'*In the College of Nature, among the mountains, cataracts, and the ravines of my native country, with a Bible in my hand, from childhood.*'" Dyna ddigon ynte ar hynyna o bwnc yn y fan yna.

Yr oedd ein cyfaill wedi bod yn dra darllengar drwy ystod ei oes. Ymroddodd i olrhain holl ysgrifau yr awdwyr goreu, ac yr oedd yn dra chynefin â gwaith Howe, Owen, Edwards, Charnock, &c., yn gystal a'r rhai diweddarach, megys Chalmers, Wardlaw, Williams, a'r cyffelyb. Yr oedd wedi ymgyfoethogi i raddau mawr â'u gwleddoedd goreu a mwyaf danteithiol, o basgedigion breision a gloew-win puredig. Yr oedd wedi eu cylleddu mor dda, a'u cymhwyso mor fedrus at fold ei archwaeth ei hun, fel yr oedd eu syniadau megys wedi dyfod yn eiddo personol iddo, ac nid fel eiddo benthyg, y rhai y buasai raid eu dychwelyd yn ol pe y galwesid ef i lys cyfraith. Uwchlaw y cyfan, yr oedd efe yn ysgrythyrwr trwyadl; yr oedd hanesion yr Hen Destament megys ar ben ei fys, a holl ffugrau cyfoethog y prophwydi bob amser yn barod at ei alwad. Yr oedd ganddo ei lwybr hollol briodol iddo ei hun wrth esbonio a chymhwyso "y gwirionedd megys y mae yn yr Iesu." Yr ydym bellach wedi gweled mewn ymarferiad ger ein bron yr hyn a all ymdrech personol wneud mewn hunan-wellhad, yn absenoldeb addysg athrofaol. Gofynir, weithiau, pa fodd y gall dyn fyddo yn byw ar enillion ei ddiwrnod gwaith gael amser er hunan-ddiwylliaeth? I hyn gellid yn hawdd ateb, fod meddwl ystyriol a phenderfynol yn sicr o fynu adeg, neu grëu amser, yn ol fel y byddo angen yn galw. Yr oedd ef yn gwylio ac yn dal gafael ar bob munydau hamddenol, ac yn troi pob eiliad yn gyfoeth gwerthfawr. Y mae y dyn fyddo yn dilyn ei alwedigaeth gydag ysbryd darbodus a chynilgarol yn gwylio ar ei adeg, gan brynu yr amser, ac yn gofalu am ei ddyledswyddau yn hollol gydwybodol ar yr un pryd. Efe a dry bob llafur meddyliol a chorfforol i ryw ddyben daionus yn mhob modd drwy drefniant darbodus ac ystyriol.

Yr oedd Mr. Thomas wedi ei gynysgaeddu â manteision naturiaethol hynod er ei wneud yn boblogaidd yn yr areithfa, fel yr awgrymwyd yn barod; yn ychwanegol at ddawn ymadrodd hyawdl, yr oedd ganddo ddychymygiad ehedegog a barddonol iawn, iaith ddillyn, a thrysorfa o wybodaeth gyffredinol, ac yn feistrolgar iawn ar yr hen floedd Gymreig bulpudaidd, a hyny gyda nerth corfforol anghyffredin, er dilyniad a pharhad diorphwys. Yr oedd ei apeliadau bob amser yn ddengar a serchus, fel y byddai yn sicr o gyrhaedd y nod o adael argraff ddyladwy ar deimlad pob gwrandawr o bob dosbarth—o'r amaethwr mwyaf gwledig hyd at yr ysgolhaig mwyaf myfyrgar a choethedig yn ein gwlad.

Bu ein cyfaill yn weithgar iawn fel un o Olygwyr y *Dysgedydd*. Yr oedd ei draethodau, ei adolygiadau, a'i farddoniaeth, yn arddangos chwaeth dda, a thuedd ymarferol gymeradwy. Yr oedd ei nodiadau ar ysgrifau eraill, ar un llaw, heb fod yn ganmoliaeth gwagsaw, ac ar y llaw arall heb fod yn duchanol er archolli teimlad y gwan. Gwelid tegwch a doethineb yn ei addysgiadau, fel ei rybuddion, ond wele erbyn hyn ei lafur ar ben, a'i ddydd gwaith wedi terfynu o'r braidd cyn ein bod wedi cael cyfle i ganu yn iach iddo.

Anrhydeddwyd coffadwriaeth Mr. Thomas, erbyn hyn, mewn

darlun tarawiadol yn yr *Eurgrawn Efengylaidd*, ac oddiyno i'r *Dysgedydd*, ac y mae yn cael cymeradwyaeth uchel pawb a'i hadwaenai. Bydd hwn yn aros fel trysor i'r oes ddyfodol yn mhlith y Cymry, yn ngheseiliau addurniadol ystafelloeddd y tai.

Yr oeddym wedi cael arwyddion dadfeiliad yn mhabell, os nad yn ysbryd, ein cyfaill er's peth amser yn ol. Yr oedd yn debyg i dderwen yn yr hydref, fel yn dechreu colli ei dail; ond ni feddyliasom na ddeuai gwanwyn i wenu arno, ac y gwelid ef eilwaith yn ymddilladu yn ei wyrddlesni arferol; ond yr arwyddion cyntaf a gryfhasant, yr oedd cyhyrau ei wyneb wedi llacio, ac nid oedd yn amlygu ei hoywder megys cynt. Terfynodd yr anhwyldeb hwn yn yr afiechyd a elwir *bronchitis*. Yr oedd ei ddarluniad o angeu yn ymlid ar ei ol i bob man yn ofnadwy: "Y mae angeu yn fy nilyn," meddai, "i bob man lle yr elwyf, fel na chawn lonydd ganddo am funyd awr. Myned ar daith i Drefriw a wnawn, i yfed y dwfr bywiol yno, a phwy oedd yn eistedd ar y fainc gerllaw y ffynon, wrth fy ochr, ond efe! Myned eilwaith i Landrindod oddiar ei ffordd, ond yn lle hyny, yr oedd yn teithio gyda mi yn ddystaw bob cam hyd yno. Myned wedi hyny i Loegr, er mwyn cael ymadael âg ef, ond yno drachefn ag ef ar fy ol yr un modd. Myned dros y môr wed'yn i Ffrainc, gan feddwl yn sicr na ddeuai o hyd i mi yn y fan hòno, ond yn ofer, dyma ef yn fy nghyfarfod yno yn ddigon hyf, yn tremio arnaf, ac yn poeri yn fy wyneb! Dychwelyd oddiyno a myned i Ddinbych at y meddyg mawr, yr hwn a'i hataliodd rhag dilyn pobl lawer gwaith, ac yn dysgwyl y rhoisai ef ffon ar ei wàr, ac y cawswn lonydd ganddo am ryw dymhor beth bynag, ond y cwbl yn ofer, yr oedd ef yn gwawdio pob cais a wnelwn, ac yn glynu wrthyf, ac yn ddigon digywilydd i dremio yn fy wyneb yn barhaus, nos a dydd, awr ac enyd!" Dywedodd unwaith, "Y mae dynion yn gyffredin yn myned i'w gwelyau i farw," a dyma finau yn marw heb allu cael gorphwys felly! Diau fod y cwbl yn iawn yn llaw ein Tad nefol, yr hwn sydd yn gwybod oreu beth i'w wneud."

Yr oedd colli ei ail wraig hefyd wedi ei anmharu i raddau mawr. Yr oedd wedi ymbriodi yr ail waith âg un Miss Vaughan o Lundain, brodores yn wreiddiol o'i hen gartref yn Llanuwchllyn. Yr oedd hi yn mhob modd wedi profi ei hun yn ymgeledd gymhwys iddo. Gwraig ydoedd o gryn bwyll a doethineb, ac o adnabyddiaeth brofiadol o'r byd, ac felly yn gyfeilles bywyd tra chyfaddas i'w sefyllfa. Yr oedd hithau wedi cael anmharu ei hiechyd er's tro, a cholli graddau o'i defnyddioldeb. Yr oedd ei thymhor daearol hi wedi terfynu tua thair blynedd cyn ei ymadawiad ef.

Bu Mr. Thomas farw ar y trydydd ar hugain o fis Ebrill, 1880. Yr oedd felly yn ymyl 71 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent plwyf Llanuwchllyn, ar y dydd Mawrth canlynol, yn meddrod teulu ei ail wraig, lle y gorphwysa ei gweddillion marwol hithau. Dangoswyd arwyddion o barch neillduol i'w goffadwriaeth ar ddydd y cynhebrwng. Ymgynullodd tyrfa luosog iawn at ei breswylfod erbyn tua

haner dydd, yr awr a benodasid i gychwyn tua Llanuwchllyn, wedi cyflawniad y gwasanaeth crefyddol ar yr achlysur galarus. Acthai y dorf i gapel y Trefnyddion Calfinaidd yn mlaenaf, ac wedi darllen a gweddïo, cafwyd anerchion gan Dr. Edwards, ac eraill, oeddynt yn dra phriodol i'r amgylchiad; ac wedi mawl a gweddi eilwaith, cychwynai yr elor-gerbyd, a'r cerbydau angladdol yn orymdaith hirfaith. Ystyrid fod hwn yn un o'r claddedigaethau lluosocaf a welwyd erioed yn nhref y Bala. Pregethwyd yn yr hwyr yn y Bala a Llanuwchllyn. Fel hyn gwelwn golli o honom un o'n prif lenorion a'n pregethwyr. "Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig." Bendithir ei gofion yntau gan luaws sydd wedi derbyn bendithion bythol trwy ei weinidogaeth.

Dealla y rhai oeddynt yn adnabyddus o'n cyfaill ymadawedig fod amryw o'n nodiadau coffadwriaethol yma, mewn awgrymiadau yn unig, wedi eu crynhoi mewn ychydig amser, fel yr oedd yr adgofion yn taro ar y meddwl, heb amcanu at y manylion yr hyderwn a gyflëir yn nghorff y cyfrolau hyn. Y mae lluaws mawr o ffraetheiriau ein cyfaill mewn cyfarfodydd cyhoeddus, ac yn ei ymddyddanion mewn cyfeillachau neillduol, ar gof a chadw ar hyn o bryd, ond a gollir, fe ddichon, yn fuan, oddieithr iddynt gael eu hysgrifenu ar fyrder. Er engrafft, gellir cyfeirio at ei lafur mewn cysylltiad â'r symudiad dirwestol yn ein gwlad. Teithiodd lawer i gyfarfodydd cyhoeddus o'r braidd drwy yr holl Dywysogaeth, a thraddododd nifer o anerchiadau o blaid yr amcan daionus hwnw, a bu yn gynghorwr doeth a chymedrol mewn achosion o ddadleuon ar y mater. Yr oedd efe yn wastadol yn gyson mewn gair a gweithred yn yr oll a wnelai gyda phob brodoriaeth oedd a thuedd ymarferol ynddi at ddiwygio y byd, a llesâu y cyhoedd. Yr oedd yn weithiwr difefl gyda phob moddion moesol a chrefyddol er dyrchafu cymeriad ei wlad a'i genedl. Diau y gwna y cynulliad teg a ddysgwyliwn o'i sylwadau athrawiaethol drysorfa dduwinyddol werthfawr i'r cyhoedd wedi eu cyhoeddi.

Wrth adlewyrchu ar ansawdd presenol ein henwad, a sefyllfa y byd yn gyffredinol, yr ydym yn methu ymatal heb gyfeirio gair yma at y cyfnewidiadau sydd yn cymeryd lle yn fynych yn rhengau y weinidogaeth yn ein plith. Y gofyniad a glywir yn aml yn awr ydyw, "Y tadau, pa le y maent hwy?" Haner canrif yn ol, nid oedd y dull o godi pregethwyr yn gwbl yr un fath ag ydyw yn awr. Yr oedd rhywbeth, efallai, a ellid ei alw yn fys Rhagluniaeth, gynt, fel pe buasai yn pwyntio at y rhai oedd i fyned i'r weinidogaeth, mewn dawn, gwybodaeth, llafur, neu brofiad, tra yr oeddynt yn ieuainc; ac y mae nifer o honynt, erbyn hyn, yn cael eu rhestru yn mhlith yr henafgwyr, dan goron anrhydeddus penllwydni. Y mae eu nifer, erbyn heddyw, wedi myned yn ychydig iawn; eto, dichon mai y dull presenol o ddarparu a galw gweithwyr i'r winllan ydyw y mwyaf priodol at amgylchiadau yr oes. Y mae yn wir lawenydd i ni ganfod y fath fyddin luosog sydd mewn golwg o frodyr ieuainc talentog,

doniol, galluog, a theilwng, yn ysgrifenyddion wedi eu dysgu i deyrnas nefoedd, yn gallu dwyn allan bethau newydd a hen o arfdy yr Ysgrythyr Lan yn Nhwr Dafydd, lle y mae tarianau fel yn nghrog, a saethau Duw yn nghawellau addysg a gwirionedd yn ddirif. Nid ydym yn anmharod hefyd i gydnabod eu bod wedi eu gwisgo âg ephod glaerwen y swydd, a meitr santeiddrwydd i'r Arglwydd ar eu pen, gyda chalon wedi ei llenwi â "gwaed y groes," fel elfen bywyd ysbrydol, megys ag y mae y gwaed hylifol yn y galon naturiol, ac yn cael ei chadw yn dra diesgeulus mewn trefn; a thrwy hyny, yn cael gair da gan y rhai sydd oddiallan, a chan y gwirionedd ei hun. Efallai fod coleg y prophwydi yn myned dan adgyweiriad ac addurniad ar hyn o bryd; a dyma ydyw ein cysur, wrth geisio tremio ar y dyfodol, fel y dywedai Williams o'r Wern—"Byddaf fi wedi myned i ffordd yr holl ddaear yn fuan, ond pa bryd bynag y cymer hyny le, yr wyf fi yn hollol foddlawn i adael yr achos mawr yn nwylaw y dynion cysegredig hyn, sydd yn weision y Duw Goruchaf, i fynegu i'r byd ffordd iachawdwriaeth." Hyderwyf yr änt rhagddynt yn eu grymusdra hwn; a phan y byddo yr ychydig nifer y cyfeiriwyd atynt wedi ymddyosg o'u dillad offeiriadol, y bydd eu mentyll oll wedi disgyn ar eraill, ag a fyddo yn deilwng o honynt, ac yn tra rhagori arnynt, yn yr hyn a berthyn i'r swydd bwysicaf dan nefoedd Duw! O! am weled tywalltiad mor helaeth o Ysbryd y gras oddiuchod, ar y gweinidogion, athrawon y colegau a'r myfyrwyr, y pregethwyr ieuainc, athrawon yr Ysgolion Sabbathol a'u hysgolorion, diaconiaid a'r eglwysi, y gwrandawyr a'r byd, yn gyffredinol, fel yr ysguber ymaith bob oerni ac anghariad, difaterwch a chlauarineb, bydolrwydd a rhodres, yn gwbl allan o derfynau ein bro, ac fel y delo cadwedigaeth eneidiau, dedwyddwch y byd, a gogoniant y Gwaredwr, yn brif destun sylw yr holl wlad, yn gystal ag yn wrthddrych llawenydd diderfyn yn ngwydd angylion y nef, yn nhrigfanau gogoniant yr ochr draw i'r bedd!

Y mae amryw wersi personol yn cyflwyno eu hunain megys yn anocheladwy i'n meddwl, wrth ganu yn iach i'n cyfaill, gydag eraill a gollasom yn ddiweddar, y rhai a adwaenem mor dda, a thuag at y rhai yr ymdeimlem mor gynes—yn ol gair yr apostol, "Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw, ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt." Ac wrth adlewyrchu ychydig ar fyrder tymhor ac ansicrwydd bywyd sydd wedi ei ragdrefnu i'r rhai a adewir hwyaf ar faes llafur y weinidogaeth, y mae yn galw yn neillduol am ein hystyriaeth difrifolaf, mewn ffordd o ymroad, i gyflwyno yr ychydig weddill dyddiau sydd eto i ni yn ffyddlonach i anrhydedd yr hwn yr ydym yn cael y fraint o'i wasanaethu, ac i eneinio pob penderfyniad a wnelom â gweddi daer am y llewyrch gofynol, er ymnerthu yn y gras sydd yn Nghrist Iesu, cyn cymeryd ein camrau ar y llwybr sydd yn arwain i lethr y glyn ac

"i ymyl y dw'r,
Er gadael yr anial yn lan,"

ac er dilyn y rhai, drwy ffydd, sydd wedi etifeddu yr addewidion a'u cysurodd mor fawr ar y daith, nes cyrhaedd y trigfanau lawer sydd yn nhy ein Tad!

Pwy fu uwch nac Ap Vychan—ar ddawnus
Farddoniaeth o anian;
Tarawiadau fel trydan,
Roisai dorf yn wres â'i dân?

A'r traddodwr treiddiadol—fu redlef
Yr hyawdledd gwefrol;
Am roi addysg ymroddol
Ni bu'n wir i neb yn ol.

Ond awel yn y diwedd—dan anwyd,
Enynai yn rhyfedd;
A Vychan, hoyw fuchedd,
Gampwr byd, gwympai i'r bedd!

## YSGRIF II.

(GAN S. R.)

Anwyl Syr,—

Da genyf ein bod mewn gobaith o gael ein breintio a'n buddioli yn fuan â chyfrol o brif weithiau ein cyfaill awenyddol a brawdol Ap Vychan. Pan yr oedd yn dilyn ei alwedigaeth, yn ngwanwyn ei oes, yn Hen Ddinas Conwy, yr wyf yn cael profion cryfion a lluosog fod gan ei gymydogion a'i adnabyddwyr farn uchel am ei ddawn a'i gymeriad. Yr oedd eu serch ato yn gryf ac yn gynes, nid yn unig o herwydd ei ffraethineb mewn cyfeillachau, ond o herwydd sirioldeb ei foneddigeiddrwydd. Yr wyf yn cofio yn dda iawn am ei daith gyntaf drwy Faldwyn; nid anghofiwyd, ac nid anghofir byth, y nerth a'r goleuni a'r dyddanwch a dderbyniwyd oddiwrth ei bregeth *gyntaf* yn "Hen Gapel" Llanbrynmair. Cyfnerthwyd llawer y tro hwnw ar yr hen gredinwyr cryfaf a gwresocaf oeddynt yn ei wrando, er eu cynhyrfu i weithio dros Iesu, ac i ymwthio yn mlaen ar eu gyrfa tua'r nefoedd; a darfu i'r un dylanwadau nerthol a nefol ddilyn ei weinidogaeth mewn gwahanol fanau drwy yr holl daith hòno. Yr wyf yn cofio yn dda hefyd am y teimladau o orfoledd oeddynt yn llenwi mynwesau y gynulleidfa fawr oedd wedi cyfarfod yn y Dinas ar achlysur ei urddiad, ac yr oedd y llawenydd hyny wedi ymgroni ac ymgryfhau nes ymdaenu dros holl gylchoedd Meirion a Maldwyn, oblegid yr oeddid mor hoff o'i gael i gymeryd ei le a'i ran yn mhob cyfeillach a phob cyfarfod pregethu. Byddai pobl Llanbrynmair a'r cylchoedd, nid yn unig yr hen athrawon a'r hen athrawesau, ond y dosbeirth ieuainc hefyd, yn ymysgwyd i ledu eu hwyliau pan y cyhoeddid eu bod i gael ymweliad ganddo, oblegid gwyddent y caent wledd faethol i'w heneidiau o frasder yr efengyl ac o afon yr iechydwriaeth,

Tywyllodd wybren cylchoedd y Dinas pan y deallasant ei fod ar symud oddiyno i Brifddinas Cymru; ond gan y ceir yn ei Gofiant adroddiad llawn o'i symudiadau o Ddinas Mawddwy i Liverpool, ac oddiyno i'r Rhos, ac wedi hyny i Bangor, ac i'r Bala, afreidiol ac annoeth fyddai i mi fanylu ar unrhyw symudiad felly.

Nis gallaf anghofio, ac ni ddylid anghofio ei deimladau dolurus, a'i ymadroddion tyner yn wyneb rhai o'r egnïadau cyfrwys a wnaed drwy y pymtheg mlynedd diweddaf i geisio nychu Hen Goleg defnyddiol y Bala. Gwnaeth ef ei ran yn foneddigaidd a brawdol er ceisio meithrin cydymdeimlad, ac adferyd cydweithrediad; ond cafodd ei ddirmygu mewn modd iselwael gan rai o "oreugwyr yr enwad," am na fedrai ymwerthu i gydweithio â hwy i ddiraddio a diswyddo y Prifathraw, er gallu felly andwyo y sefydliad. Yr oedd rhai o'r goreugwyr yn hoffi ei alw yn "Babi mawr," a hyny yn unig am fod tynerwch ei galon yn ei luddias i gydweithio â hwy er cyrhaedd amcan eu gormes. Nid hyfrydwch i mi ydyw gorfod cyfeirio at y traha un-colegawl a achosodd y fath ofidiau a'r fath niweidiau, ond nid hawdd osgoi hyny, gan fod yr helynt mor hysbys drwy yr holl Dywysogaeth, a llawer parth o Loegr; a drwg gan yr ysgrifenydd orfod tystio ei fod ef ei hun wedi cael oddiwrth rai o hen gyfeillion bore a chanol ei oes, ac oddiwrth rai o'u cynffonwyr ieuangach, y dirmyg iselaf a fedrent roddi iddo. Yr oedd ganddynt ryw ddybenion mewn golwg wrth wneud hyny, a dichon fod cydwybodau eu dyn "newydd" yn gallu cyfiawnhau eu dybenion.

Yr oedd yn amlwg oddiwrth holl weinidogaeth Ap Vychan, ei fod yn ddifrifol awyddus i enyn Ysbryd Crist, ac i blanu egwyddorion y Beibl yn nghalonau efrydwyr ein colegau, a gweinidogion ieuainc yr eglwysi; ac yr wyf yn credu yr adolygir ei Hanes, ac y darllenir ei WEITHIAU gyda hyfrydwch a budd, nid yn unig gan feirdd a duwinyddion ein dyddiau ni, ond gan rai coethaf eu chwaeth, a mwyaf Beiblaidd eu hawen yn yr oesau dyfodol.

## YSGRIF III.

(GAN Y PARCH. D. WILLIAMS, GARTH, BANGOR.)

ANWYL FRAWD,—

Da genyf ddeall fod Cofiant i'ch anwyl dad yn cael ei barotoi i'r wasg, a gobeithio y bydd yn un teilwng o hono; y mae yn haeddu cael cofiant anrhydeddus, oblegid yr oedd yn uchel ei gymeriad yn mhlith ei genedl fel Cristion, pregethwr, llenor, a bardd; llafuriodd yn galed, a llwyddodd i gyrhaedd safle uchel yn mhlith ei frodyr.

Yn ol eich cais, yr wyf yn cyflwyno i'ch gwasanaeth yr ychydig adgofion canlynol am dano. Ar ei ddyfodiad i Fangor y daethum i gyfleusdra i ymgydnabyddu âg ef gyntaf, er fy mod wedi ei weled a'i

glywed yn pregethu rai gweithiau cyn hyny, ond wedi dyfod yma fyw yn ymyl ein gilydd fel cymydogion y ffurfiwyd cyfeillgarwch rhyngom a barhaodd hyd ddiwedd ei oes. Bu yma yn llafurio yn y weinidogaeth am 18 mlynedd gyda graddau helaeth o lwyddiant, profodd ei hun yn "weinidog cymhwys y Testament Newydd."

Yr oedd wedi ei gymhwyso i fod yn bregethwr mewn corff, meddwl, a dawn; yr oedd yn meddu corff cryf ac iach. Llawer gwaith y clywais ef yn dywedyd fod y "Brenin mawr wedi ei fendithio ef âg un o'r cyfansoddiadau cryfaf ac iachaf." Bu hyny yn help mawr i'w ddefnyddioldeb; yr oedd cryfder yn nodwedd arbenig iddo yn ei gorff, yn ei feddwl, yn nghyfansoddiad a thraddodiad ei bregethau, yn gystal ag yn ei holl weithiau barddonol a duwinyddol; ond ymataliaf rhag ymhelaethu yn y cyfeiriad yma, gan y bydd i'r cofiantydd yn ddiau ei bortreadu yn llawer gwell nag y gallaf fi. Yn awr, edrychwn arno

YN EI DY.

Os byddai gartref, hawdd gwybod pa le i'w gael, sef yn ei fyfyrgell. Ni chaech ef byth yn trin yr ardd, nac yn cymeryd rhan mewn unrhyw waith cyffredin yn y ty, nac allan, ac ni byddai byth yn ymofyn pa beth "a fwytäai, na pha beth a yfai, nac â pha beth yr ymddilladai," yr oedd yn syml iawn yn y pethau hyn. Yr oedd Mrs. Thomas yn ei ryddhau yn hollol oddiwrth bob gofalon teuluaidd, hi fyddai yn gofalu am yr holl amgylchiadau, hyd yn nod ei gyhoeddiadau, ac amser y trêns i'w gychwyn i ffwrdd. Byddai ef yn gallu mwynhau ei hun ond iddo gael cadair i eistedd, llyfr i'w ddarllen, a phibell i dynu mwg drwyddi. Dychymygaf ei weled yn ei Gadair Eisteddfodol, y cap coch am ei ben, a phibell hir yn ei law, ac yn pwffian mygu, a golwg chwareus a boddhaol yn ei lygaid. Yr oedd yn llawn o dymher dda, a byddai ei gymdeithas yn ddifyr ac adeiladol. Byddai yn ddifyr gwrando arno yn adrodd hanesion am hen gymeriadau crefyddol yn ardaloedd y Bala a Llanuwchllyn, ac am hen bregethwyr y gwahanol enwadau. Yr oedd yn meddu cof cryf, a byddai yn gywir iawn mewn *dates* pan ddygwyddodd rhyw amgylchiadau o bwys; ond yn fwyaf cyffredin rhyw bwnc duwinyddol fyddai testun yr ymddyddan, ac yr oedd yn hoff o ymddyddanion felly, a chefais lawer o addysg yn ei gymdeithas. Nid oedd ganddo flas ar ryw *small talk* fel y dywedir, ac ystraeon; dywedai yn fynych yn y ty ac yn y capel, "na roddai ef ddim ceiniog a dimai am lon'd sach o ystraeon." Yr oedd yn dduwinydd galluog, yr oedd wedi darllen llawer, a meistroli yr hyn a ddarllenai, ac wedi ffurfio barn bersonol iddo ei hun ar bob pwnc o bwys, fel yr oedd yn hollol gartrefol wrth ymddyddan ar wahanol byneiau; hawdd oedd canfod ei fod yn ymgartrefu o ran ei feddwl mewn gwybodaeth Feiblaidd. Edrychwn arno eto

YN EI GYSYLLTIAD A'R EGLWYS YN EBENEZER.

Ar ol ei ddyfodiad ef yma yr adeiladwyd capel newydd Ebenezer, a chyda fod yr adeilad wedi ei agor torodd y diwygiad mawr diweddaf allan, a llanwyd y ty yn fuan â gwrandawyr, a chynyddodd yr

aelodau yn gyflym. Yn mhen rhai blynyddoedd dechreuodd bregethu yn Hirael ar nos Sadyrnau, er mai ychydig fyddai yn dyfod i wrando yn aml, eto pregethai mor rymus a phe byddai mewn cymanfa, ac ni bu ei lafur yn ofer, y ffrwyth yw fod yno erbyn heddyw gapel bychan hardd, ac eglwys fechan, ond ffyddlon ac ymdrechgar iawn.

Gan ei fod mor boblogaidd byddai galwadau parhaus arno i fyned oddicartref i'r gwahanol gyfarfodydd yn y sir, a phob rhan o Gymru o ran hyny, oblegid yr oedd mor adnabyddus trwy Ddeheu a Gogledd. Byddai rhai yn Ebenezer yn ei feio am fyned oddicartref mor aml, er y dylid dweyd y byddai yn bur ofalus i fod gartref ar y Sabbathau, a gwnai ymdrech i ddyfod adref o ffordd bell yn aml i'r gyfeillach yn yr wythnos—ei ateb yn fynych i gwynion o'r natur yma fyddai, "Wel, byddai yn hawdd i chwi gael gweinidog yma na byddai galwad arno byth fyned dros Bont Menai, ond beth wnaech chwi âg ef?"

Yr oedd yn fedrus fawn i gadw heddwch yn yr eglwys; ni byddai byth yn ymyryd yn ormodol â threfniadau yr eglwys, ac ni chredai mewn rhyw gynlluniau newyddion a gwylltion; ystyriai mai ei waith ef oedd gofalu am y pulpud yn benaf, a gadawai bethau eraill, i raddau mawr, yn nwylaw y diaconiaid, yn mha rai yr oedd ganddo yr ymddiried llwyraf, a chlywais ef yn eu canmol lawer gwaith. Byddai ambell un aflonydd, weithiau, yn cyfodi i siarad yn y gyfeillach, ac yn beio gweithrediadau y swyddogion yn y sêt fawr; ac wedi i hwnw ddystewi, gofynai a oedd gair ar feddwl rhywun arall; ac os siaradai dau neu dri yn olynol yn yr un cyfeiriad, nid äi ef byth i ymddadleu â hwynt, ond dywedai, "Wel, y mae y brodyr wedi cael dweyd eu meddwl, mi derfynwn yn awr, gweddïwn," a dyna bob peth drosodd; byddai y weddi, yn gyffredin, mor dda, fel y byddai pawb yn ymadael yn y teimlad goreu, a gwyr pawb a'i hadwaenai ei fod yn weddïwr anghyffredin, mor gymhwys i bob amgylchiad—mor nerthol, ysgrythyrol, a gafaelgar, fel pe yn tynu y nefoedd i lawr. Gallem ychwanegu gair eto am ei safle uchel fel gweinidog yn Mangor. Yr oedd yn hynod barchus gan yr holl enwadau crefyddol yn y ddinas; ac yn mhob cyfarfod cyffredinol, edrychid i fyny ato fel y prif arwr yn ei gysylltiad â phob mudiad cyhoeddus; yr oedd fel brenin yn y lle. Credwyf mai y tymhor y bu yn Mangor oedd y mwyaf poblogaidd a defnyddiol yn ei oes, a gresyn, yn ein tyb ni, na fuasai wedi aros yma i orphen ei yrfa; ond fel arall yr arweiniwyd ef gan Ragluniaeth, a rhaid credu fod ei ffyrdd hi yn ddoeth a da, er nas gallwn ni weled hyny bob amser.

Creodd y newydd am ei farwolaeth alar mawr yn mhlith yr Annibynwyr ac eraill o'i edmygwyr yn y ddinas hon. Gwisgwyd pulpudau Pendre a Salem mewn du, a phregethwyd pregeth angladdol iddo yn y ddau le, ac yr oedd yn hawdd canfod ar agwedd y cynulleidfaoedd fod eu hiraeth yn fawr, ac y gallesid dweyd wrth weled eu dagrau, "Wele, fel yr oeddynt yn ei garu." Gellir dweyd am Ap Vychan, er wedi marw, ei fod yn llefaru eto. Heddwch i'w lwch hyd fore caniad yr udgorn diweddaf.

## YSGRIF IV.

(GAN Y PARCH. W. EDWARDS, ABERDAR.)

ANWYL FRAWD,—

Nis gallaf draethu y fath foddhad i mi ydyw cydymffurfio â'ch cais o gyflwyno fy hatling i drysorfa Cofiant yr anwyl Ap Vychan; ond mae y ffaith fod brodyr eraill yn gwneud yr un peth, yn peri i mi deimlo ychydig yn bryderus. Mae yn beth posibl i ni redeg gormod i'r un cyfeiriad, ac wrth hyny dynu oddiwrth werth y Cofiant yn hytrach nag ychwanegu ato. Eto pan gofiwyf fod y fath gyflawnder o bethau hynod yn ngwrthddrych y Cofiant, dichon nad rhaid petruso, canys nid yr un peth sydd yn taro meddwl pob dyn yn yr un cymeriad. Yr wyf yn teimlo yn lled gryf yn nghylch yr hyn ag oedd yn cyfansoddi hynodion bywyd Ap Vychan; eto, cyfarfyddais â brodyr ag oedd yn edrych ar y dyn a'i fywyd o bwyntiau lled wahanol. Cryn orchwyl ydyw tafoli cymeriad cyhoeddus, o'r braidd y ceir dynion yn gwahaniaethu mewn dim yn fwy nag yn eu syniadau am ddynion cyhoeddus. Rhoddir mwy na'i ran o glod i un, a llai na'i haeddiant i arall, ac weithiau gorfolir yr un cymeriad am y peth oedd yn wendid ynddo, a chondemnir ef am y peth oedd mewn gwirionedd yn ddirgelwch ei gryfder. Dichon mai dyna y rheswm fod barn y byd yn aml mor ehud ac annheg am ddynion cyhoeddus; neu, o leiaf, fod y fath wahaniaeth barn yn bod am yr un personau.

Ond Ap Vychan ydyw ein testun, felly ar gymeriad Ap Vychan y dylwn draethu; ond yr anhawsder ydyw gwybod yn mha le i ddechreu, canys nid dyn cyffredin oedd efe. Yr oedd ynddo ef gyflawnder o bethau hynod—yn hynod o ran corff a meddwl—corff cryf i gario meddwl cryf, ac felly yr holl ddyn yn ogyhyd ei esgeiriau. Wrth hyny gallesid gweled yr holl ddyn yn mhob arwedd o'r dyn. Dichon mai yn hyn y gellir cael cyfrif am yr unplygrwydd a'r gwastadrwydd ag oedd yn nodweddu ei holl fywyd. Yr oedd Ap Vychan yn nodedig yn hyn, a rhaid i mi gyfaddef nas gwn i am sail gadarnach i adeiladu cymeriad cyhoeddus arni nag unplygrwydd. Yr oedd y dyn yn peri i ni ddysgwyl am y pregethwr, a'r pregethwr yn dwyn y dyn i'r golwg, a'r cymeriad cyhoeddus yn adlewyrchu anrhydedd ar bob un o'r ddau. Y fath oedd cysondeb a chydbwysedd ei fywyd, fel y gallasai y rhai oedd yn ei adnabod ganfod yr henafgwr yn y gwr ieuanc, ddeugain a haner can' mlynedd yn ol—a'r gwr ieuanc drachefn yn hoenusrwydd ysbryd yr henafgwr pan yn disgyn yn dwysen addfed i'r bedd, ac yn y fan yma yr ymguddiai dirgelwch ei gryfder.

Yr amser cyntaf y daethum i wybod dim am dano oedd pan yr aethum i'r ysgol i Groesoswallt, yn 1837, lle y buasai am dymhor yn dilyn ei alwedigaeth. Gadawodd arogl esmwyth ar ei ol. Yr oedd efe wedi enill sylw a pharch yr eglwys, y pryd hwnw o dan ofal yr enwog Dr. Jenkins, ac yr oedd gan Mr. Jenkins ei hunan feddwl uchel o hono. Parodd y siarad am dano gan wŷr mor barchus i

minau feddwl yn uchel am dano, er nad oeddwn yn ei adnabod. Modd bynag, yn fuan ar ol hyny, daethum i adnabyddiaeth bersonol o hono—a gweddus i mi yw traethu, gan nad pa mor uchel oedd fy nysgwyliad, na chefais fy siomi ynddo. Gwelais ar unwaith fod yna rywbeth allan o'r cyffredin yn y dyn. Ffurfiais syniadau uchel am dano, ac y mae yn falch genyf allu dweyd, ar ol mwy na deugain mlynedd o adnabyddiaeth o hono, a chyfleusderau i edrych arno o wahanol gyfeiriadau, na chefais achos i newid fy marn am y dyn. Fel yr oedd fy adnabyddiaeth o hono yn ychwanegu, dyfnhai fy mharch iddo, a'm hedmygedd o'r dyn fel gwr o dalent a chymeriad dilychwin, a phregethwr o'r radd flaenaf. Wrth gwrs, ni chefais ef heb ei ddiffygion mwy nag eraill o farwolion daear. Ond i mi adlewyrchai mawredd yn ngwendid y dyn. Nid diffygion oeddynt yn cael eu magu a'u meithrin gan feddwl gwag-hocedus, uchelgeisiol, ac anwrthteithiedig, yn hytrach gwendidau dyn mawr, a diffygion yn ymgodi oddiar ryw fath o ymwybyddiaeth o fawredd; ond, a'i gymeryd oll yn oll, yr oedd ef yn wr o urddas. Dyna sydd yn cyfrif am y safiad uchel a gymerodd ef pan yn gymharol ieuanc, nid yn unig yn ei enwad ei hun, ond gyda'r enwadau eraill hefyd. Yr oedd ei alluoedd mor hynod, ei dalent mor ddysglaer, ei feddwl mor rhydd ac eangfrydig, fel y daeth yn anwyl-ddyn y genedl. Ymrysonai pleidwyr pob symudiad cyhoeddus yn mhlith y genedl am ei wasanaeth. Cafodd crefydd, a dirwest, ac addysg, a heddwch, a rhyddid ynddo ategydd cadarn, ac amddiffynydd ffyddlon a difefl. Ac nid heb reswm, canys yr oedd efe yn ddyn o alluoedd yn mhell uwchlaw y cyffredin hyd yn nod o bleidwyr ffyddlonaf achosion da; ac yr oedd y fath frwdfrydedd yn ei natur, fel ag i'w alluogi i daflu ei galon i bob achos yr ymgymerai âg ef. Yr oedd ef felly yn y pulpud, ac allan o'r pulpud. Dichon nad ellir dweyd ei fod ef yn siaradwr hyawdl, yn ol ystyr fanol y gair; eto yr oedd ynddo lawer o bethau ag oedd yn ei wneud yn bregethwr ac areithiwr derbyniol a llwyddianus. Yr oedd ei ffraethder—gwres ei ysbryd—difrifwch ei feddwl—amrywiaeth ei ddarluniadau, a meistrolaeth ar y mater a gymerai mewn llaw, yn fwy na gwneud i fyny am y peth a elwir yn hyawdledd. Ac yn wir, yr oedd rhywbeth yn ei lais a'i allu i bwysleisio yn ei wneud yn bregethwr ac areithiwr cwbl ar ei ben ei hun. Clywsom rai yn condemnio ei donyddiaeth bwysleisiol, neu, yn fwy priodol, hirleisiol. Ond ni chlywsom neb yn beiddio dweyd nad oedd ei ddullwedd hirleisiol yn hollol naturiol iddo ef; ac yn wir, nid Ap Vychan fuasai efe heb hyn. Dyna un o'r pethau ag oedd yn gwneud ei arddull mor briodol iddo ei hun. Colli hyn fuasai colli un o nodweddion mwyaf arbenig y pregethwr a'r areithiwr. Yr oedd ef yn hyn yn hollol wreiddiol, canys gwir wreiddioldeb mewn pregethwr ac areithiwr ydyw ei allu i ddwyn ei hunan i gyffyrddiad â'i wrandawyr yn y fath fodd ag i'r pregethwr yn gystal a'r bregeth allu dylanwadu arnynt.

Ni byddai i mi ddweyd ei fod yn bregethwr o'r fath fwyaf poblogaidd ond dweyd y peth a addefir gan genedl gyfan; ac yr oedd ef yn

haeddianol boblogaidd. Nid ymwthio a wnaeth efe i boblogrwydd, ond tyfu yn naturiol. Daeth yn boblogaidd am y ceid ynddo gyflawnder o'r pethau sydd yn gwneud pregethwr yn gymeradwy. Mŷnai y bobl ei anrhydeddu. Nid ystyrid ef yn ail i neb yn Nghymru. Felly, daeth Thomas, Bangor, yn bregethwr mawr ei genedl. Yr oedd ein cyfaill hefyd yn dduwinydd o radd uchel, yn gystal a phregethwr galluog. Gwnaeth deall yr athrawiaeth, a bod yn gadarn yn ffydd yr efengyl yn ymgais fawr ei fywyd. Credwn fod ei fryd ar fod yn dduwinydd galluog yn llawer mwy nag ar fod yn bregethwr poblogaidd. Dyna, fe ddichon, oedd y rheswm ei fod, fel rheol, mor athrawiaethol yn ei bregethau, a'r rheswm iddo godi i safle mor uchel a dyfod yn athraw duwinyddol yn un o'n Colegau. Ei hoff byngciau mewn duwinyddiaeth fyddai, Cyfiawnhad drwy ffydd, Etholedigaeth gras, yr Iawn, a Gwaith yr Ysbryd Glan, Gras Duw a dyledswydd dyn. Ac nid gormod dweyd am dano ei fod yn gryf yn yr athrawiaeth. Ystyriai ei hun yn Galfin cymedrol—o leiaf, yn fwy o Galfin nag o Armin. Ond ni phiniai ei hun wrth syniadau y galluocaf o dduwinyddion. Mynai farnu drosto ei hun, a ffurfio syniadau iddo ei hun ar bob pwnc o athrawiaeth. Yr oedd ei feddwl yn rhy ymchwilgar ac annibynol i blygu i farn neb, na derbyn duwinyddiaeth ail law. Y gair a'r athrawiaeth oedd ei safon yn mhob peth.

Fel y credai, felly y llefarai. Nid ofnai wyneb neb. Yr oedd eondra gwylaidd yn un o nodweddion arbenig ei feddwl. Ymddangosai fel gwr yn deall y peth yr oedd yn ei gylch, felly yn ymwybodol o'i alluoedd cynhenid ei hun. Dywedai gyda Job, gan nad pwy fuasai yn gwahaniaethu oddiwrtho yn yr athrawiaeth, "Mae genyf fi ddeall fel chwithau." Yr oedd efe yn wir yn un o athrawiaethwyr goreu ein cenedl ni. Ymddangosai fel un yn gallu taflu ei enaid i bob gwirionedd a gymerai mewn llaw, ac yn meddu perffaith gydymdeimlad â'r gwirionedd. Yr oedd hyn yn ei alluogi i ddwyn pethau newydd a hen i'r bobl. Mae bod y pregethwr yn cydymdeimlo yn ddwfn â'r gwirionedd yn enill y bobl i gydymdeimlo âg ef hefyd. Mae y gwirionedd, drwy hyn, yn ymdoddi i'w calonau, ac yn treiddio yn eiriasboeth i holl gilfachau y cyflwr. Ond er fod Ap Vychan yn gredwr dwfn ei hunan, nid arglwyddiaethai efe ar ffydd pobl eraill. Yr oedd rhyddid barn, a hawliau pob dyn i ffurfio ei gredo ei hun yn un o erthyglau mwyaf cysegredig ei ffydd. Gwir y teimlai fod ffyddlondeb i'r gwirionedd, ac i Dduw a chydwybod yn ei rwymo i draethu y peth a gredai yn ddiamwys a digel; ac yn ol ein bryd ni, ni ddylai y pregethwr gymhell ar eraill ddim ond y pethau y mae efe yn gredu o'i galon sydd yn wirionedd tragwyddol. Mae amheuon yn y pulpud yn creu amheuon allan o'r pulpud. Felly, gwendid y weinidogaeth ydyw bod yn wan yn y ffydd, ac yn newyddian yn yr athrawiaeth; ond y fath oedd Ap Vychan ag oedd yn peri i mi deimlo mai ei fwyd a'i ddiod oedd yr athrawiaeth yn ol duwioldeb, a'r gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. Am ei fod yn gredwr dwfn ei hunan, rhoddai i'w weinidogaeth ffurf ag oedd yn fwyaf tebyg o enill eraill i

gredu fel yntau. Ymddangosai i mi fel yn casâu â châs cyflawn bob math o amheuon. Arwyddair ei weinidogaeth dros ei holl fywyd oedd eiddo Micheah, "Yr hyn a ddywedo yr Arglwydd wrthyf, hyny a lefaraf fi." Ni aberthai efe i Dduw ar un llaw, a chynyg offrwm yr eilun i'r bobl ar y llaw arall; arlwyai i eneidiau newynog ddysgleidiau breision yr efengyl, ac nid defodaeth wag a diystyr.

A pha beth yn ychwaneg a ddywedaf am dano? Onid oedd ef yn addurn i'r weinidogaeth? Yr oedd ef yn genad Duw; ac fel gwr Duw yr oedd efe yn onest ac unplyg yn ei waith. Medrai ddweyd y gwir yn onest a didderbynwyneb. Gwir i'r byd, a gwir yn erbyn y byd, oedd arwyddeiriau ei weinidogaeth; a pha beth sydd fwy gwerthfawr i'r weinidogaeth na hyn? nid pawb sydd yn gallu dweyd y gwir wrth y byd, mae ofn dyn yn dwyn magl. Gwyr y pregethwr, os dywed efe y gwir, a'r holl wir, a dim ond y gwir, y bydd efe yn aml yn peryglu ei heddwch, ac yn debyg o golli ffafr y bobl; ac os atalia efe ddim o'r gwirionedd, y colla efe heddwch cydwybod a ffafr Duw. Yn hytrach na hyny, mabwysiadai Ap Vychan eiriau Paul yn ei Epistol at y Corinthiaid, " Eithr ni a ymwrthodasom â chuddiedig bethau cywilydd, heb rodio mewn cyfrwysdra, na thrin gair Duw yn dwyllodrus, eithr trwy eglurhad y gwirionedd yr ydym yn ein canmol ein hun wrth bob cydwybod dynion yn ngolwg Duw." "A'n gorfoledd ni yw tystiolaeth ein cydwybod tuag atoch chwi." Yr oedd ef yn ddyn cydwybodol yn mhob ystyr o'r gair—yn ddirwestwr cydwybodol; a phe buasai gofod yn caniatau, buasai yn weddus i mi, ar ol llafurio gydag ef ac eraill am dros ddeugain mlynedd, ddweyd gair am dano fel dirwestwr; ond ymataliaf gyda chrybwyll ei fod wedi bod yn un o gedyrn a noddwyr ffyddlonaf yr achos hyd ei fedd. Yr oedd efe hefyd yn Annibynwr egwyddorol, yr oedd annibyniaeth yn un o nodweddion cynhenid ei feddwl. Nid oes neb a'i hadwaenai a amheu hyn am foment. Gwelodd Annibyniaeth yn ystod ei weinidogaeth fwy nag unwaith, fel y tybiai ef, mewn perygl o gael ei chlwyfo yn nhy ei charedigion. Yr oedd hi felly yn Arfon ar yr adeg yr ymgymerodd efe â bod yn olynydd i'r enwog Dr. Arthur Jones, Bangor, a theimlai ei fod wedi ei wthio tua therfyn ei oes gan amgylchiad gofidus arall ag oedd yn galw am iddo ddatgan ei ymlyniad trwyadl wrth yr Annibyniaeth rydd ag yr oedd efe wedi ei phroffesu ar hyd ei oes. Ond ymataliwn.

Wele y dyn cadarn, y Cristion dilychwin, y bardd enwog, y pregethwr poblogaidd, y duwinydd galluog, y bugail rhagorol, yr athraw defnyddiol, y cyfaill twymgalon, wedi ein gadael. Yn ei farwolaeth collwyd un o gedyrn ein henwad, ac anwylddyn ein heglwysi. Ond na wylwn fel rhai heb obaith, canys y mae efe, wedi marw, yn llefaru eto. Ymdrechodd ymdrech deg, gorphenodd ei yrfa, cadwodd y ffydd, derbyniodd y goron. Bydded heddwch i'w lwch, a gorphwysed ei ysbryd gwynfydedig hyd nes y cyfarfyddom oll yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw, yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist. Duw Ap Vychan fyddo yn Dduw i ninau hyd genedlaeth a chenedlaeth.

## YSGRIF V.

(GAN MR. ARTHUR ROWLANDS.)

Y MAE'R adgofion cyntaf a feddwyf am Mr. Thomas, yn myn'd yn ol i'r cyfnod rhwng 1850—55, pan arferai efe ddyfod i gyfarfodydd y Sulgwyn yn Ebenezer, Bangor, capel "yr Hen Arthur," sef yr hybarch a'r hyglod Dr. Arthur Jones. Capel nodedig iawn oedd hwnw, wedi ei adeiladu bron ar ysgythredd y graig, y pulpud yn y godre, a'r eisteddleoedd yn codi yn raddol, uwch, uwch, hyd at y gopa. Clywais Mr. Thomas yn dweyd lawer tro iddo ef fod yn nghyfarfod y Sulgwyn yno yn 1839—pryd y bedyddiwyd fi gan Dr. Arthur Jones. Pan yr oeddwn i yn fachgenyn, yr oedd cewri gogoneddus yn y weinidogaeth, ond dysgais, yn ol dim a glywodd y bobl â'u clustiau, nad oedd neb fel "Robert Tomos y Rhos." Fel Amos brophwyd wedi ei ddewis o'r gorlan, felly "Robert Tomos," yn fab natur, wedi ei fwrw o eigion anian, athrylith uchelryw yn fyw ynddo, a thân Duw yn llosgi yn ei enaid, a arweiniwyd o'r efail at yr allor; cymeriad hollol at chwaeth Dr. Arthur Jones, yn union y dyn iddo ef ei gefnogi, a gwnaeth hyny gyda chalon eang hyd angeu. Coleddai Mr. Thomas feddyliau mawr ac anwyl am y Doctor, fel gwr Duw, ac un a roisai iddo fwyaf o symbyliad o bawb yn y byd i erlid ar ol gwybodaeth, ac i bregethu'r efengyl. Blinwyd Paul yn erwin gan Alexander y gôf copr, yr hwn a wnaeth iddo "ddrygau lawer;" ond os gwybu Paul rywbeth am y byd hwn wedi cartrefu o hono yn y drydedd nef, credaf iddo lygadu gydag hyfrydwch ar Robert Tomos y gôf haiarn yn Nghonwy, yr hwn â'i holl galon ac â'i nerth cawraidd a'i cymerodd yn athraw yn nyfnion bethau Duw! Yn aml traethai ei fawrhad o Abraham, Moses, Esaiah, a Phaul, ac os, trwy rad ras, y caffai fynediad i'r nefoedd, y dymunasai fyn'd o dan addysg y rhai hyny—bob un am gan' mlynedd, ond yr eiddo Paul am o leiaf fil o flynyddoedd! Wyth mlynedd ar hugain yn ol yr oedd ei agweddiad allanol yn hynod. Dyn gwrdd, talgryf, esgyrnog, gwyneb fel llew, pryd tywyll, gwisgiad da, ond diofal. Yr oedd ei freichiau a'i ddyrnau fel dwy ordd anferth, yn ateb i'r blewyn i ddesgrifiad Longfellow yn ei gân benigamp, "*The Village Blacksmith:*"—

"The smith a mighty man is he,
With large and sinewy hands,
And the muscles of his brawny arms
Are strong as iron bands."

Gyda'i freichiau cedyrn, a pheroriaeth ei lais, rhoddai rym ofnadwy yn ei areithyddiaeth. Byth ni welid ef yn fwy yn ei elfen na phan yn darlunio mawrwaith Duw, a rhyfeddodau y Brenin mawr yn nglŷn â thaith Israel o'r Aipht i Ganaan, "â braich estynedig, ac â barnedigaethau mawrion." Wrth groesi o'r genedl dros yr Iorddonen, dacw "Arglwydd Iôr yr holl fyd," meddai, "yn gosod ei law ar dalcen yr afon ddofn, a hi wedi llifo dros ei holl dorlanau, ac yn ei gwthio

yn ei hol tua llyn Merom!" A thra yn dweyd y geiriau yna, yr oedd ystum anwrthwynebol ei gorff, a hyrddiad ei ddeheulaw yn mlaen, yn llydan agored, yn ddigon i beri i'r gwrandawyr feddwl ei fod ef ei hunan ar y pryd yn y weithred o achosi y gwrthdro bythgofiadwy! I grëu argraff felly, rhaid oedd cael braich nerthol y gôf, a'i chyhyrau mor gryfed a haiarnol gylchau. Digrifol iawn fuasai clywed rhyw bitw neu gorach yn ymgymeryd â gosod allan y cyfryw feddylddrych.

Yn 1855, yn ebrwydd ar gynghor Dr. Arthur Jones, rhoddodd yr eglwys yn Ebenezer alwad unfrydol i Mr. Thomas i fod iddo ef yn olynydd. Yn y cyfwng hwnw yr oedd plaid ymranol o'r eglwys, "y Sentars Bach," fel y gelwid hwy, yn cyfarfod mewn ystafell a adawyd yn wag gan wrthryfelwyr o fysg enwad arall, mewn twll anolygus allan o heol anmhendefigaidd yn y ddinas—yr hon a elwid—wel, ni chaniatâ gweddeidd-dra i mi i osod ei henw ar lawr. Yn ei atebiad i'r alwad, dywedai Mr. Thomas y cydsyniai, ar yr amod i'r ddwy blaid ymuno. Hyny a fu; a dechreuodd ar ei lafur yn Mangor yn llwyddianus odiaeth. Cyflym lanwyd yr hen gapel; deffrowyd yr eglwys, a dyrchafwyd ei pharch a'i dylanwad yn y dref a'i hamgylchoedd. Adeiladwyd capel newydd helaeth. Cynyddodd enw da Mr. Thomas; yr oedd uwchlaw amheuaeth a chwedlau drwg, ac anrhydeddid ef gan bob dosbarth o'r bobl. Yn ddiau efe oedd y dyn cyhoeddus mwyaf o lawer yn Mangor. Yn y pulpud, neu ar lwyfan, wrth wely y claf, ar aelwyd y weddw, ar làn y bedd, yn y gyfeillach grefyddol, a'r cyfarfod gweddïo, nid oedd ei gyffelyb. Pan fynegid ei enw mewn unrhyw gymdeithas, ni roddai ddolur i neb, ond ceid barn unol am dano mewn ymadroddion fel y canlyn:—"Hen fachgen braf ydi Tomos!" "Pregethwr diail!" "Yr hen greadur anwyl!"

Ar y 3ydd o Ragfyr, 1857, derbyniwyd fi ganddo yn gyflawn aelod eglwysig, ac o'r awr hòno hyd ei fedd, bu i mi yn ddysgawdwr ffyddlon, yn noddwr tirion, ac yn gyfaill gwerthfawr. Edrychwn i fyny ato megys angel Duw. Cleddyf a drywanodd fy enaid pan glywais am ei farwolaeth. Y mae colli cyfeillion fel efe yn gadael gwagder mawr yn y byd. "Ni allaf gyflawni un gorchwyl crefyddol," ebe Dr. Arthur Jones yn ei hunan-gofiant, "heb gofio dechreuad fy ngyrfa ysbrydol, a rhyw ddynion anwyl a fuont yn gyfeillion gwerthfawr, dysgawdwyr dawnus, a chyfarwyddwyr gofalus i mi. Nid digon fyddai genyf pe gallwn ddodi aur ar geryg eu beddau—hoff iawn genyf eu coffadwriaeth."

Tra yn Mangor, myfi a fum yn preswylio gydag ef am dymhor lled faith. Ni ddysgwyliaf amser mwy hapus na hwnw ar y ddaear hon. Bellach, cyfeiriwn ychydig at

### AP VYCHAN GARTREF.

Gwyr llaweroedd sy'n fyw y fath gartref oedd ganddo, a'r fath un oedd yntau yn ei gartref. Anfonodd cyfaill ato un tro i ofyn a gawsai efe aros o dan ei gronglwyd am bythefnos o wyliau. "Cewch," oedd yr atebiad, "a chroeso calon, dreulio pythefnos yma pan fynoch;

mae yma le bob amser, gwely, a thân, a lluniaeth, ac ewyllys da." Dyna ddarluniad byw, mewn byr eiriau, o'r cartref; ond yn fwy na'r cwbl, yr oedd ei wyneb hawddgar, a'i ymddyddanion difyr ef, yn llenwi y ty â sirioldeb. Ac at hyny, rhaid ychwanegu, *gwraig dda*, y penaf o'r anhebgorolion i wneud cartref cyflawn. *Gwraig dda* oedd Mrs. Thomas—seren yn ei thy. Cyfranai nid yn unig at gysuron y corff, ond hefyd at ddiwylliad y meddwl, a lleshad y galon. Yr oedd ei henaid wedi ei drwytho yn ysbryd yr efengyl, ac estynai i'w gwr bob cefnogaeth a chalondid yn ngwaith pwysig y weinidogaeth. Hwyliai ef at ei waith gartref ac oddicartref, heb rwgnach na rhincian yn dragywydd (fel y mae arfer rhai), am ei fod "yn myn'd i ffwrdd o hyd!" Yr oeddynt yn hoff iawn o'u gilydd. Hwyrach yr esgusodir fi, yn y fan yma, am adgynyrchu sylwadau a wnaethum yn Nghofiant Mrs. Thomas yn y *Dysgedydd* am Mehefin, 1880, i roddi mantais i'r darllenydd i wybod yn well am gymeriad Mrs. Thomas, a pha fodd yr oedd hi a'i gwr yn byw:—"Anaml y gwelid gwraig lawnach o ragoriaethau. Gwyddai sut i gadw ty yn berffaith—yn lan, a threfnus, a diwastraff. Yr oedd lluniaeth ei bwrdd bob amser yn arddangos medrusrwydd anghyffredin. Atebai hefyd i ddesgrifiad Lemuel frenin o'r wraig rinweddol,—'Hi a gais wlan a llin, ac a'i gweithia â'i dwylaw yn ewyllysgar. * * * * Hi a weithia iddi ei hun garpedau; ei gwisg yw sidan a phorphor.' Yr oedd ei basged yn wastadol yn llawn o orchestion y nodwydd ddur a'r wiallen. Cwynir fod yr oes hon yn brin o ferched yn meddu ar y cyfryw rinweddau. Diau fod llawer hen ffolog falch heb fedru trefnu ei thy, na gosod botwm ar grys, na bara ar ford. 'Yn mhell y bo nhw!' Deallai Mrs. Thomas yn dda iawn reolau moesgarwch a boneddigeiddrwydd. Llawer gwers a roddodd hi i mi ynddynt, a mawr ddifyrwch a gaem pan alwai hi Mr. Thomas i gyfrif am eu troseddu weithiau mewn amryfusedd, a phryd arall o bwrpas er mwyn cael ychydig o ystorm. Wedi treulio cwrs o'i hoes yn Llundain yn mysg cymdeithas wybodus, yr oedd hi yn gymhwys i roddi hyfforddiant mewn iawn ymddygiad, fel yr arferai wneud i bobl ieuainc a gymerai i'w chyfrinach. Ond yr oedd ardderchowgrwydd Mrs. Thomas yn gynwysedig:—1. *Mewn meddwl deallus a llon.* Yr oedd hi felly am ei bod o dueddiadau llenyddol. Glynai wrth ddarllen. Yr oedd ganddi amser bob dydd yn gyson, gyda'r hwyr gan mwyaf, i fod a'i llyfr yn ei llaw yn myfyrio. Pan ddeuai ar draws rhyw feddylddrych da, wedi ei wisgo mewn iaith goeth a tharawiadol, yn sydyn darllenai ef yn uchel, ac yna apeliai at ei gwr, 'Mr. Thomas! *Isn't that very good!*' Brydiau eraill, deuai o hyd i ddarnau digrifol, a byddai wrth ei bodd yn darllen y rhai hyny i'n clyw, hyd nes peri i ni chwerthin dros y ty. Pan geid gafael ar lyfr dyddorol, arferem ein tri ei ddarllen allan i'n gilydd bob yn ddwy neu dair o ddalenau. Mynych y gorfodid ni i sefyll i wrando beirniadaeth Mrs. Thomas, naill ai ar y darlleniad, neu ar ryw syniad a ddatgenid yn y llyfr. '*Go on*, Arthur,' ebai Mr. Thomas, 'am *farnu* y mae Mrs. Thomas o hyd.'

'Fedrwch chi ddim barnu!' atebai hithau yn wyllt, yr hyn a'n gyrai ni ill dau yn deilchion. 'Na fedrwch chi,' ychwanegai yn y munyd mewn tôn chwareus, ac unai â ni mewn *hearty laugh.*"

Yr oedd tymher Mr. Thomas yn wastad ryfeddol. Dyn hynaws a boddlon oedd efe bob amser yn ei dŷ. Ni ofalai pa beth a fwytäai na pha beth a yfai. Eisteddai wrth y bwrdd, a gwnai bryd digonol o unrhyw ymborth a osodid o'i flaen gyda'r fath foddlonrwydd a naturioldeb a barai iechyd a llawenydd i gnawd a chalon y rhai a eisteddent yn yr un lle ag ef. Byth ni welid ef yn y gegin a'r cypyrddau, yn finflysig yn chwilota am ryw dameidiau moethus. Cyn pryd ni wyddai pa ddysglaid a ddygid ger ei fron, ac ar ol pryd yr oedd yn ddigon aml yr un mor anwybodus. "Yr oedd y ciniaw yn dda iawn heddyw, Mr. Thomas," meddwn wrtho un diwrnod. "Oedd wir." Gofynwn yn mhellach (yn gywreingar), "Pa gig oedd o?" "Wn i yn y byd," meddai yntau yn hurt. Cymerai Mrs. Thomas arni fod yn ddigllawn wrtho am fod mor ddwl. Cododd oddiwrth y bwrdd, ac aeth allan o'r ystafell. Yna crechwenodd Mr. Thomas gyda hwyl fawr. Medrai chwerthin yn ddihafal. Enyd yn mhellach, clywem swn fel llwyth o datws yn disgyn o ben y ty. "Yn enw'r anwyl, beth sydd yna?" (bloeddiai Mr. Thomas mewn dychryn). Rhedasom i'r drws i weled beth oedd wedi dygwydd, ac yn nhroed y grisiau, canfyddem Mrs. Thomas yn swp wedi syrthio o'r pen i'r gwaelod! "A ydych ch'i wedi brifo?" ymholai Mr. Thomas gan atal ei anadl. Meddai hithau yn ruddfanllyd, "*O dear!* wn i ddim!" Gwnai yntau ei oreu i beidio chwerthin, ond yn ofer; ymdorodd allan drachefn a thrachefn tuhwnt i bob llywodraeth ar ei ysbryd. "Chwerthin 'naech ch'i pe bawn i wedi fy lladd," myntumiai hithau mewn cryn wasgfa. "Os drwg cynt, gwaeth wed'yn;" bu raid i mi redeg allan (canys nid oeddwn inau mor sobr a sant), a gadewais Mr. Thomas mewn dirdynfa. Wedi dychwelyd yn mhen rhai oriau, yr oedd yn dda genyf glywed fod esgyrn Mrs. Thomas yn gyfan, a'i chroen yn ddianaf. Angylion mwyn, yn ddiau, a'i cadwodd. "Canys efe a orchymyn i'w angylion am danat ti, dy gadw yn dy holl ffyrdd. Ar eu dwylaw y'th ddygant, rhag taro dy droed wrth gareg," Salm xci. 11, 12.

Unwaith y gwelais yr arwydd lleiaf o orphwylledd yn Mr. Thomas. Rhyw noson, yr oedd ei orhoff a'i unig fab David a minau yn yr un gwely. Aethom yno yn gynar, gan hèrio cwsg i sefyll draw. Ar ol myn'd rhwng y cynfasau, aeth yn ymryson am y mwyaf o le yn yr orweddfa. Poethodd y frwydr, a chodwyd trwst nad oedd yn fanteisiol i efrydiaeth Mr. Thomas yn yr ystafell odditanom. "Fechgyn!" oedd y waedd gyntaf am ddystawrwydd mewn natur dda. Llonyddwyd ni am foment, yna adnewyddwyd yr ymdrech yn arswydus am hir amser. "David! Arthur!" "Hoi! David! Arthur!" llefai Mr. Thomas gryfach gryfach, ond nid oedd dim yn tycio i beri i ni ymatal. O'r diwedd, treiglasom dros erchwyn y gwely i'r llawr gyda thwrf enbyd—David yn isaf, ond cododd mewn amrantiad ar ei

"bedwar," a minau yn marchog ar ei gefn. Dolefodd yn groch; llithrais inau dros ei wanegau, ac ymeflais yn ei "ddau droed ol," fel mewn berfa. Erbyn hyn yr oedd y gwely yn draphlith, a rhai o'r dillad yn garpiau, a'r dodrefn yn bendramwnwgl! Yr oeddym yn ymladd fel cipiaid. Profwyd amynedd Mr. Thomas i'r eithaf; enynodd ei lid—rhedodd i fyny y llofft dan ruo a chwythu bygythion; yr oedd y ty yn siglo benbwygilydd o dan bwysau ei garlam drom a digofus. Am wn i na buasai wedi'n rhwygo ni pe cawsai afael ynom. Ond yn ffodus i'n penglogau, a dweyd y lleiaf, yr oedd y lle yn dywyll fel y fagddu; methodd a d'od o hyd i ddwrn y drws, na'i droi wedi ei gael mor fuan ag y gallasai mewn gwaed oerach. Tra y bu ef yn ymbalfalu wrth y drws, achubwyd y cyfleusdra genym i ymguddio. Diffoddasom y ganwyll, a chyda brys aethom ar ein torau o dan y gwely i'r gornel bellaf, ac mor agos i'r wal ag oedd yn ddichonadwy, yn ofidus ein calon nad allem fyned yn lan trwyddi hi i ryw gilfach fwy diogel. Agorodd y drws. "Mi fyna' i heddwch yn fy nhy," meddai, "gw'ranta' i ch'i! P'le yr ydach ch'i? Margaret (y forwyn), dowch a goleu yma!" Bendith ar goryn Margaret, ni ddaeth hi a goleu yn ddiatreg. Yr oeddem ni yn y cyfwng hwnw mor ddystaw a'r llygod. Aeth Mr. Thomas i waered i ymofyn yn mhellach am oleu, ond ni ddychwelodd! Rhybuddiodd ni wrth droed y grisiau i fod "bellach yn llonydd."

Y noson hòno, breuddwydiodd David; ac yn ei freuddwyd, rhoddodd ddyrnod â'i holl fedr i'r pared (pared o ais a morter)—dyrnod a adawodd ar ei hol fwlch mawr. Deffrowyd fi, a chlywais Mr. Thomas yn neidio o'i wely; rhedodd i fyny atom, a goleu yn ei law y tro hwn, yn ei goban a'i gap nos. "Be 'di'r mater 'rwan?" gofynai'n bryderus. "O 'nhad!" atebai David mewn braw, a'i lygaid yn melltenu, "y mae yma ryw ddyn yn treio lladd Arthur!" Gosododd ei law ar ben David, yn dyner a deniadol, a dywedai dan wenu wrth fodd ei galon, "Taw, taw, breuddwydio yr wyt ti. Arthur!" "Yr ydw i yma yn *all right.*" "Ha, ha, ha, nos dawch, ewch i gysgu." Dranoeth y daeth i wybod am y twll yn y pared, yr hwn a adawyd heb ei drwsio; am flynyddoedd ar ol hyny, clywid ef ar brydiau yn adrodd helyntion y noson hòno gyda mawr ddifyrwch, a diwedd y stori fyddai, yn glo ar ei gwir, "Y mae'r twll yno hyd heddyw!" Edmygai wroldeb o'r fath a ddangosodd David yn ei freuddwyd.

Yn nglŷn â hyn, soniodd am ei hanes ei hun yn dychwelyd o daith bregethwrol ar gefn ceffyl ar noson dywyll iawn, yn nghyffiniau Llanuwchllyn a'r Bala. Daeth dyn, yr hwn hefyd oedd ar gefn ceffyl, i'w gyfarfod, ac a ymosododd arno ef yn ffyrnig; cydiodd yn ei wddf, gan geisio ei daflu i lawr. "Yr oedd gen' i bastwn cry' yn fy llaw," ebe Mr. Thomas mewn tôn hunanfeddianol. "'Gollwng fi!' meddwn wrtho fo; ond ni wnai, ac mi ro'is iddo fo lab a'i disgynodd yn gelain ar y ffordd! Diangodd y ceffyl ar ffrwst heb ei farchogwr; euthum inau yn fy mlaen am ryw chwarter milldir; yna daeth i fy meddwl, Beth pe bawn i wedi lladd y creadur? Ar hyny, troais yn fy ol, a

chefais y dyn yn gorwedd fel yn farw yn y fan lle y gadewais ef. Disgynais oddiar fy ngheffyl, ysgydwais y gwalch, a gofynais, 'Wyt ti'n fyw, d'wad?' 'A dy ffaglo, y d——,' medda fo, gan ollwng rheg ofnadwy o'i safn. Gwelais y deuai ato ei hun, a ffwrdd a fi wed'yn. Fu 'rioed yn dda gen' i glywed dyn yn rhegu dan y tro hwnw!" Adnabyddwyd y dyn yn yr ardaloedd hyny wrth farc y pastwn tra y bu ef byw.

Synais fwy na mwy at Mr. Thomas fel *darllenydd dyfal* a *myfyriwr caled.* Codai yn foreu, ac äi yn hwyr i gysgu haf a gauaf. Daliai fod chwe' awr o gysgu yn ddigon i bob bôd rhesymol. Fel rheol, ni chysgai fwy na hyny ei hun. Efe oedd y cyntaf i fyny a'r olaf i fyn'd i'w wely—byth, byth, yn darllen, myfyrio, ac ysgrifenu. Llefodd aml waith, "Peidiwch a phydru a byrhau eich einioes yn eich gw'l'au, bobl." Ei brif lyfr oedd y Beibl, yn yr hwn yr oedd ei holl hyfrydwch, ac â pha un yr oedd mor gyfarwydd ag undyn a safodd mewn pulpud er dyddiau Solomon; ni allai neb adrodd adnod yn ei glyw yn anghywir mewn gair na llythyren, heb iddo ef fedru dadguddio y gwall. Pwy bynag wnelai hyny, yn enwedig os byddai yn bregethwr, cawsai yn sicr deimlo pwysau ei ordd am "lofruddio y Beibl!" Yr oedd enwau, achau, oedran, symudiadau, a gweithredoedd bywyd y patriarchiaid, yr offeiriaid, y prophwydi, a brenhinoedd Israel a Judah ar flaenau ei fysedd. Llwyr fwytaodd "Amseryddiaeth Llwyd y Bala." Barnai yn ddiamheuol nad oedd lyfr o'i fath ar y pwnc hwnw, ar gyfrif helaethrwydd, manylder, a chywirdeb y wybodaeth a gynwysa. Yr oedd ganddo gof fel cronfa llong marsiandwr fawr, yn enwedig i ddal ar fanylion a dyddiadau. Pan yn darllen allan o lyfr iddo un tro, "*In the year* 1673," meddwn, gan fyned heibio. "'Rhoswch, Arthur, yr ydych wedi methu; 1678 ydyw'r flwyddyn." Creffais ar y ffigyrau. "Ië'n wir!" atebais, wedi rhyfeddu; a dywedais wrtho stori am David Vaughan, Llanelwy, yn dywedyd wrth Mr. Everett, (Dyserth gynt), wedi ei wrando yn pregethu un boreu Sul. "Mi glywais i y bregeth yna o'r blaen genych ch'i, Mr. Everett." "Mi glywaist, do! Faint sydd er hyny?" "Wel, y mae deunaw mlynedd mi wn." "Wel, Dafydd," ebe'r hen wr, bron a phenddaru, "wyddost ti beth! y mae gen't ti gythraul o go'!"

Yr oedd tueddfryd ei feddwl yn ddiderfyn at weithiau Jonathan Edwards, America; Dr. Edward Williams (yn enwedig ei draethawd *on the Equity of Divine Government, and the Sovereignty of Divine Grace*); Andrew Fuller, Charnock, Wardlaw, Payne, Pye Smith, Howe, Scott, Mathew Henry, Barnes, Dr. Owen, &c. Darllenai yr un llyfrau laweroedd o weithiau drosodd, a myfyriai ynddynt â'i holl nerth. Gwnaethai nodiadau aneirif ar ymylon y dalenau. Hoffai gymhell bechgyn ieuainc i ddarllen—"glynwch wrth ddarllen," arferai ddweyd, "darllenwch a myfyriwch nes y byddoch yn chwysu. Ha, ro'wn i ddim botwm corn am ddyn ieuanc wedi gwirioni ar *watch* a chadwyn, a modrwy, a *dim* yn i ben o. F'ase waeth gen i ddyn wedi ei fwrw yn y *foundry* yn Hirael (cymydogaeth yn Mangor) na dyn felly."

Yn gyffredin *skeletons* o bregethau a ddarparai ar ddydd Gwener a bore Sadwrn, a byddai y ty yn siglo ac yn gwichian pan y byddai ef yn cerdded yn ol ac yn mlaen yn ei fyfyrgell am oriau meithion yn addfedu ei dafod, a'i galon, a'i ysbryd at y gwaith o'u traddodi am ddau a chwech y Sabbath. Ond, fel y gwelir yn awr yn ddiau, ysgrifenodd bentyrau o bregethau yn fanwl a chyflawn, nid i'w darllen—yr oedd yn elyn annhrugarog i ddarlleniad pregethau—ond fel y dywedai ef, i fod mewn cof a chadw, rhag y bydd yn dda i mi wrthynt rywbryd eto. Gwnelai ddefnydd mawr oddicartref o'i bregethau ysgrifenedig.

Fel addolwr Duw gartref, yn ddiddadl yr oedd efe yn hynod yn mysg y rhai hynod yn Israel. Gofynai fendith o flaen, a thalai ddiolchgarwch ar ol pob pryd o fwyd yn ddieithriad, a chadwai y ddyledswydd deuluaidd fore a hwyr yn gyson, ac ni chaffai dim ei folestu. Wedi bod ar daith, cyrhaeddai gartref ar adegau tua haner dydd, a'i ymholiad cyntaf fyddai'n wastad, "Ddar'u ch'i gadw dyledswydd heddyw?" Ac os byddwn i heb wneud yn y bore, galwai ni yn nghyd cyn ciniaw, ac elai drwy y gwasanaeth mewn hwyl fendigedig. Yr oedd yr addoliad teuluaidd ddwywaith yn y dydd yn rheol bendant a chysegredig yn ei fywyd. Cyfarchai yr orsedd ar yr aelwyd gyda'r fath gartrefolrwydd a barai i ni dybio fod Duw ac yntau yn ymddyddan yn hyglyw â'u gilydd yn y fangre. Wedi codi oddiar ein gliniau teimlais awydd yn fynych i ddweyd gyda Jacob—"Dyma wersyll Duw."

Yr oedd ef yr un mor ofalus am foddion gras yn y cysegr—pyrth merch Seion—ffyddlondeb oedd elfen fawr ragorol yn ei gymeriad fel gweinidog. Anfynych iawn y gwelid ef o'i bulpud ei hun ar y Sabbath, ac anamlach fyth y collid ef o'r cyfarfod gweddi a'r seiat. Deuai yn ol o bellafoedd y wlad mewn pryd i fod yn ei le yn y cyfarfodydd wythnosol. Dysgodd finau i garu ty yr Arglwydd. Bob bore Sul deffroai fi i fyned i'r cyfarfod gweddi am saith o'r gloch. Pa le mae y cyfarfod hwnw yn y dyddiau hyn? Yr wyf yn ofni nad ydyw y crefyddwyr presenol yn haeddu eu gosod wrth ochr y tadau sydd wedi gorphen y daith, ac wedi cyfarfod yn nhy eu Tad, ar ol canu yn hiraethlawn am hyny mewn anial wlad—

> **"Henffych foreu cawn gyfarfod,**
> **Yn nhy ein Tad:**
> **Byth ni ddaw na phoen na thrallod,**
> **I dŷ ein Tad:**
> **Pawb a'u dagrau wedi eu sychu,**
> **Yn egnïol gyd-ddyrchafu,**
> **Enw'r mwyn Waredwr Iesu,**
> **Yn nhy ein Tad."**

Un boreu yn nhrymder y gauaf, pan oedd yr eira droedfeddi o drwch ar y ddaear, galwodd Mr. Thomas fi i fyned i'r cyfarfod gweddi yn fuan iawn ar ol chwech o'r gloch. Codais yn ddioed, ac aethum at y capel gryn haner awr o flaen yr amser. Nid oedd y capel wedi ei

agor, ac nid oedd neb wedi cyrhaedd y lle ond myfi. Curais ddrws ty'r capel i gael yr agoriad. Yr oedd y boreu yn dywyll ac yn oer iawn, a chan nad oedd neb yn ateb, curais yn uwch. Yn y man dyma y wraig i lawr, a gwyddwn wrth swn ei throed ei bod yn groes. "Pwy sydd yna?" gofynai yn ffromllyd. "Y fi," meddwn ninau, yn wylaidd ac ofnus. "Pwy wyt ti, d'wed?" ebe hithau, yn bur awdurdodol; "Arthur Rowlands," atebais innau yn fwy crynedig eto, o dan yr hin oer a'i digter hithau—"y mae arna' i eisio agoriad y capel i fyn'd i'r cyfarfod gweddi, os gwelwch ch'i'n dda." "Be' haru'r hogyn dwl," atebodd hithau drachefn yn bigog, gan agor cil y drws ac estyn yr agoriad i mi—"sel heb wybodaeth ydyw peth fel hyn!" Wedi myned i frecwast, dywedais yr helynt wrth Mr. Thomas, er ei fawr ddifyrwch. Denodd fi lawer gwaith ar ol hyny i ddweyd yr hanes. Edrychai yn fy ngwyneb yn ddysgwylgar am foddhad, ac meddai, "Arthur, sut y deudodd Mrs. Davies wrthych chwi y bore oer hwnw?" Bendithied yr Arglwydd Mrs. Davies, cadwed hi, a rhodded iddi dangnefedd; y mae hi yn fyw eto, ac yn un o'r gwragedd duwiolaf yn yr holl fyd.

Yr oedd iechyd Mr. Thomas bob amser yn dda a chryf. Prin y gallai gydymdeimlo â neb yn cwyno heb fod achos mawr. Crechwenai wrth glywed dynion ieuainc a chanol oed yn son am wendid a llesgedd. Pan yn cerdded drwy ryw bentref dinod, canfyddodd amryw o ddynion cloff, ac yn fyr o fraich neu glun. "Yn enw'r anwyl," meddai yn syn, "be' haru'r bobl yma, y mae rhyw felldith ar bob un o honyn' nhw!" Ond tua'i ddiwedd daeth yn fwy teimladol o waeledd eraill. Rhoddaf yma lythyr a ysgrifenodd ataf fi ychydig cyn ei farwolaeth. Yr oeddwn i wedi gadael cwyn ar fy ol nad oeddwn yn bur iach, y mae yntau yn gyru (rhwng difri' a chwareu):—

"BALA, *Hydref* 31, 1879.

"ANWYL ARTHUR,—Dychwelais neithiwr o Aberystwyth. Dywedodd Ann wrthyf eich bod braidd yn wael wedi dyfod o Lanuwchllyn. Daliwch sylw, rhaid i chwi gael gwasgodau gwlanen, a *drawers* gwlanen, onide chwi a fyddwch farw yn glap, fel cath wedi rhewi.

"Cofion. Yr eiddoch, &c.,

"AP VYCHAN."

Yr wyf wedi ei ddilyn at gyffiniau ei farwolaeth, a phrudd-der yn gwmwl dudew a ddaw dros fy ysbryd. Bron nad eisteddwn i lawr i dristâu fel Jacob gynt am ei Joseph anwylgu, heb fynu fy nghysuro byth nes cael eto ei gymdeithas ddyddanus ef. Wylo yr wyf, a rhaid i mi derfynu.

## YSGRIF VI.

(GAN Y PARCH. S. EVANS, LLANDEGLA.)

FY ANWYL FRAWD,—

Mae yn dda genyf gael y cyfleusdra i dalu teyrnged fechan o barch i goffadwriaeth eich diweddar dad, y Parch. R. Thomas (*Ap Vychan*). Y tro cyntaf y daethum i gyffyrddiad âg ef ydoedd yn Nghonwy, Mawrth 7fed, 1839. Yr oeddwn y pryd hyny ar daith yn y parth hwnw o'r wlad, ac o dan addewid i bregethu y noson hòno yn Henryd. Erbyn cyrhaedd Conwy o Fangor, teimlwn fy hun yn analluog i bregethu gan waelder iechyd. Yr oedd eich tad wedi dechreu pregethu oddeutu yr adeg hòno, ac o dan yr amgylchiadau llwyddodd Gwalchmai i gael ganddo ef lenwi y diffyg. Ar ol hyny, cefais fanteision cydnabyddiaeth helaethach âg ef wedi ei sefydliad yn y Dinas, a thrachefn yn Salem, Liverpool, hyd nes yr ymsefydlodd yn Rhos a Ruabon, a Rhosymedre; a chan fy mod y pryd hwnw yn byw yn yr ardal hòno, daeth yn gymydog agos i mi dros ysbaid ei arosiad yn Rhos, nes y symudodd i Bangor. Yn ystod chwe' blynedd ei weinidogaeth yn y lleoedd hyn, yr oeddwn yn cael cyfleusderau dyddiol o'r bron i gyfarfod a chydgyfeillachu âg ef.

Gan ei fod ef y pryd hyny yn weddw, mewn canlyniad i'r brofedigaeth o golli eich anwyl fam cyn gadael Liverpool, ac wedi colli ei anwyl blentyn Isabella, trwy y *scarlet fever*,—mewn trefn i leddfu ychydig ar ei unigrwydd, rhedai i lawr atom o Brynybarcud, a threuliai aml ddiwrnod yn ddifyr a dedwydd yn ein cwmni fel teulu, a thrwy y mynych gyfleusderau hyn, ffurfiwyd cyfeillgarwch ac ymlyniad a barhaodd hyd y bedd. Cafodd ef brofedigaethau teuluaidd, a chawsom ninau eu cyffelyb ar ei ol, ac nis gallwn byth anghofio ei dynerwch, ei gydymdeimlad, a'i ffyddlondeb yn yr amgylchiadau hyny; wedi pasio drwy yr un profiad tanllyd, yr oedd yn gymhwys iawn i weinyddu cysur.

Pallai ymadroddion i osod allan y syniad uchel a feddem am ragoriaethau cymeriad eich tad yn mhob cylch y dygwyd ni i gyffyrddiad âg ef. Yr oedd Mr. Thomas yn enghraifft deg o *ddyn* yn ystyr briodol y gair. Mae llawer person i'w gael ar ffurf a delw dyn, eithr yn amddifad iawn o'r elfenau naturiol a moesol sydd yn cyfansoddi un yn ddyn mewn gwirionedd. Yn ystod faith ein cydnabyddiaeth âg ef, mewn gwahanol gylchoedd, yr oedd genym yr argyhoeddiad gwastadol ein bod yn cyfarfod â dyn.

Fel *cyfaill* yr oedd yn onest a didwyll—yn un y gallem ymddiried yn ei ffyddlondeb. Nid oedd dichell yn ei ysbryd, na bradwriaeth yn ei galon. Cawsom brofion blynyddoedd o'i gywirdeb a'i ymlyniad fel cyfaill. Ar ol ein symudiad i Llandegla, dywedodd fod yr atdyniad i dori y daith yn Ruabon pan y dygwyddai fyned heibio wedi darfod.

Fel *Cristion* hefyd yr oedd yn syml a dirodres, a'i holl fywyd yn

anrhydedd i'r grefydd a broffesai. Yr oedd cydwybodolrwydd manwl yn nodi holl gylch ei ddyledswyddau. Talai sylw arbenig i'r addoliad teuluaidd dan bob amgylchiadau, ac yn wyneb pob anfanteision. Edrychem arno fel cymeriad cyflawn—fel "Cristion cwbl oll." Nis anghofir genym un prawf diamheuol o hyn a ddangosodd ar achlysur neillduol yn ei berthynas âg ysgrifenydd y llinellau hyn. Ar un adeg, pan ydoedd efe yn gwasanaethu rhai o'r eglwysi yn Llundain, cyfarfum â damwain echrydus drwy gael fy nhaflu allan o gerbyd, a'm llusgo gryn bellder gan y march ffromwyllt, nes yr ofnid fod bywyd mewn perygl. Yn mhen deuddydd ar ol hyn dychwelodd Mr. Thomas, a'r newydd cyntaf a glywodd gan gyfaill wedi disgyn o'r *train* yn Ruabon, oedd yr anffawd a gyfarfyddais i. Prysurodd i fyny, a galwodd yn y ty; daeth at erchwyn y gwely, a chyn bron holi pa fodd y teimlwn, disgynodd ar ei liniau, a gwnaeth weddi fer, syml, fel plentyn yn siarad â'i Dad yn y geiriau hyn—"Diolch i ti, O Arglwydd, am arbed bywyd ein brawd. Dyma ni wedi dyfod yn ddiogel o Lundain ar daith ag y mae miloedd wedi eu lladd cyn hyn, ac yntau wedi cyfarfod â pherygl yn ymyl drws ei dŷ," &c. Yr oedd yr amlygiad yma o gydymdeimlad crefyddol yn gynaliaeth mawr i'n meddwl dan friwiau ac archollion corff, ac hefyd yn ddangoseg o'r Cristion.

Fel *pregethwr* nid oedd ond un farn am dano, ac yn wyneb yr adnabyddiaeth helaeth a gafodd y Dywysogaeth o hono yn y cymeriad hwn, afreidiol ac ofer fyddai ceisio gwneud desgrifiad o hono. Gwyr y miloedd a'i clywsant mor hoff ydoedd o olrhain athrawiaethau sylfaenol y grefydd Gristionogol, a dwyn egwyddorion mawr y Beibl i bwyso ar yr ymarferiad. Yr oedd tuedd yn ei bregethau bob amser i beri i ni deimlo mwy o barch i'r Brenin Mawr, ac edmygedd mwy nag erioed o drefn Duw i achub pechadur; ac er ei fod yn enwog yn mhob cylch, credwn mai yn y pulpud yr oedd ei brif ragoriaeth. Gwnaed adwy fawr yn nghylch y weinidogaeth drwy ei symudiad, a'r hyn sydd yn ein cysuro yn ein galar ar ol colli y dewrion ydyw, y dichon Duw lenwi y bylchau i fyny.

## YSGRIF VII.

(GAN Y PARCH. W. NICHOLSON, LLYNLLEIFIAD.)

FY ANWYL FRAWD:

Nid wyf yn cofio yr adeg y gwelais eich tad gyntaf, o herwydd er pan oeddwn fachgen deuai i Gaergybi i gynal cyfarfodydd cenadol y Calan. Tanymarian, Emrys, Dr. J. Thomas, Liverpool, Hiraethog, Griffiths, Bethel, D. Roberts, Wrecsam, ac Ap Vychan, ydynt y pregethwyr a gyfodant i'm golwg gyntaf, heblaw yr Hybarch W.

Griffith, yn nghyrion pellaf cof. Llawer oedfa ogoneddus a gafodd y cewri uchod yn yr Hen Dabernacl; ac o honynt ni byddai neb yn cael ei wahodd yn amlach, nac yn fwy derbyniol pan y deuai na "Mr. Thomas, Bangor." Am dano fel pregethwr y ceisiwyd genyf ysgrifenu ychydig eiriau i'r Cofiant hwn.

Yr oedd ganddo fanteision dirfawr i fod yn bregethwr Cymreig poblogaidd. Meddai ar gorff mawr, cadarn; a pha faint bynag a haerir gyda Watts mai'r meddwl sy'n gwneuthur y dyn, yn hanes y Pulpud Cymreig, mae nerth corfforol wedi ffurfio rhan, a rhan lled bwysig hefyd, yn mhoblogeiddrwydd ei enwogion. Gallasai efe pan bregethai mewn Cymanfaoedd i gynulleidfaoedd lluosog fentro pwyso cryn lawer ar ei gorff nerthol, yr hyn hefyd a wnai yn ddiarbed. Yr oedd ganddo ymddangosiad awdurdodol. Safai yn syth, fel derwen ansymudadwy, a theimlai pob cynulleidfa yn yr olwg gyntaf arno ymddiriedaeth a boddhad. Yr oedd ei lais yn ddwfn a soniarus iawn. Clywais ef lawer gwaith yn tori y dystawrwydd gyda'r fath urddas a swyn nes oedd calon cynulleidfa yn ymdòni gan hyfrydwch. Ni wrandewais isalaw organ yn rhoi sain cliriach, pereiddiach erioed na'r llais cyfoethog gyda'r hwn y llefarai efe eiriau ei destun.

Edrychwch arno cyn dyfod i'r pwynt hwn yn yr oedfa; eistedda dan y pulpud tra y mae brawd arall yn pregethu. Mae ei ddwy wefl yn ymgeulanu tuag allan, gan fel y mae efe yn gwasgu y naill ar y llall, ac ysgydwa un troed. Gallasai gwr anghyfarwydd âg ef dybio fod surni anghymeradwyaeth a chulni trahausedd yn cartrefu ar ei wedd; ond profai efe i'r gwrthwyneb yn bur fuan, o herwydd pan ddywedid sylw a'i tarawai, neu pan fyddai y pregethwr yn cario y gynulleidfa gydag ef, taflai ei ben naill ochr, ac mewn tarawiad amrant ymdaenai ysbryd boddineb dros ei holl wynebpryd. Anaml y dywedai fwy na "hy" pan yn gwrandaw y pregethwr mwyaf hyawdl a dylanwadol. Gydag arafwch urddasol esgyna i'r pulpud, ac mewn rhai engreifftiau teimlai fod hon yn orchest go fawr. Gwelais ef unwaith yn ymwthio gerfydd ei ochr i bulpud yr oedd ei ddrws yn gyfyng, daeth i mewn gyda dwy hwb, un haner yn gyntaf, a'r haner arall wed'yn, nes oedd y coed yn grillian a chrecian. "Dyn anwyl," meddai wrthyf, wedi eistedd gronyn cyn dechreu pregethau, "on'd oes rhyw silod meinion iawn o bregethwyr yn byw yn y cymydogaethau hyn?" Parhewch i edrych arno cyn iddo gymeryd ei destun. Mae ei wallt yn wyn a chrych, a'i goryn wedi moeli; ei ben sydd fawr a chrwn, a'i ffurfiad yn gymhesurol a phrydferth; ei dalcen sydd uchel a llawn, er nad yn llydan. Ei aeliau ydynt drymion a llaesion fel dau warchodlu yn gwylio y llygaid a lechant danynt. Ei lygaid ydynt fychain a dyfnion yn ei ben, fel pe byddent yn trigianu bob amser yn yr un ystafell a'r ymenydd, a'u lliw sydd las fel glesni'r awyr; ei drwyn sydd bantiog, a'i ffroenau yn llydain. Ei enau a ddiogelir gan ddwy wefl, y rhai o ran eu maint sydd gyffelyb i weflau cwmwl; ei ên sydd brydferth, a gên arall islaw iddi yn ei hategu. Ei wyneb sydd ysgwar a llydan, a'i farf wedi ei heillio

oddieithr yr hon a edy i dyfu ar ei gernau. Ei wddf sydd fyr a thrwchus, ac o'i gylch y mae neisiad wen drom wedi ei dyblu. Ei ddillad ydynt dduon, a'i wasgod yn cau hyd y gwddf. Saif yn unionsyth, a'i ysgwyddau llydain llawnion yn sefyll ddigon pell yn ol i'w ysgyfaint gael perffaith chwareu teg i gyflawni eu gorchwyl. Dywedaf eto fod y fath ymddangosiad a chryfder corff yn fanteision dirfawr i'w boblogeiddrwydd.

Gan y bydd eraill yn y Cofiant, ond odid fawr, yn sylwi ar ei athrylith pregethwrol, ni wnaf ond crybwyll rhai o'i helfenau. 1. Yr oedd yn efrydydd caled; gwyddai beth oedd "chwysu ymenydd," chwedl yntau. Dan lawer o anfanteision, cyrhaeddodd wybodaeth gyffredinol eang. Dysgodd yr iaith Seisonig, nes y gallai bregethu ynddi gyda chryn rwyddineb. Clywais ef yn dweyd y byddai, weithiau, yn anghofio geiriau Seisonig pan yn pregethu. Cyfeiriai at un amgylchiad neillduol yn Upper Bangor. Ar ganol y bregeth, methai yn lan a chofio yr ymadrodd, *Protestant Reformation.* "Gair wyddwn i gystal a mhader, ynte, ond ddeuai ef ddim i'r meddwl y pryd hwnw pan oedd ei eisieu." "Wel, sut y bu hi arnoch?" "O, rhyw droi o gwmpas y buom i weled a fuasai yn d'od, ond 'doedd dim d'od ynddo; ac o'r diwedd, mi ddywedais yn y Gymraeg, y *Diwygiad Protestanaidd!* Dyn! yr oedden nhw yn agor eu llyged, a llawer yn meddwl, mi wrantaf, mai Groeg oeddwn i wedi ddweyd." Yna, chwarddodd nes ydoedd yn siglo. Ond yr oedd yn feistr lled dda ar y Saesoneg, a chlywais ef yn pregethu ynddi gyda blas. Yr oedd wedi myfyrio *Rhyddid yr Ewyllys*, gan Edwards, a *Chyfiawnder a Phenarglwyddiaeth*, gan Dr. Edward Williams, gyda manylwch mawr, ac yr oedd yn dal gafael dŷn yn yr athrawiaeth a adnabyddir fel Calfiniaeth ddiweddar. 2. Yr oedd barddoniaeth ei natur yn rhan o'i athrylith bregethwrol. Ymhyfrydai gyda'r aruchel pan yn darlunio perffeithderau, bwriadau, a gweithredoedd y Brenin Mawr. 3. Yr oedd yn hyddysg hollol yn y Dadguddiad dwyfol, hyd yn nod yn manylion amseryddiaeth yr Hen Destament. 4. Meddai hunanhyder a'i gallu-ogai i ddweyd unrhyw beth gyda phenderfynoldeb a nerth mawr. Ni wyddai beth oedd naddu y pwnc gydag ymadroddion a gymedrolai yr hyn a ddywedai. Taflai y pren i lawr, a pha le bynag y syrthiai, yno yr arosai. Nid oedd dim dadl i fod ar y peth. "*Dogmatism*," medd rhywun, "ydoedd hyny." Wel, galwer ef ar yr enw a fyner, yr oedd Ap Vychan yn orlawn o hono, ac ystyriwn ef yn elfen hanfodol i lwyddiant pregethwr. Ofnwyf fy mod yn myned i dir rhyw frawd arall wrth aros yn hir yma, ac af yn ol i wrando arno yn pregethu.

Ei destun ydyw, "Efe a ddyrchafodd i'r uchelder, efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a dderbyniodd roddion i ddynion; ïe, i rai cyndyn," &c. Wedi rhagymadrodd byr, yn yr hwn yr esboniai ychydig ar y Salm, dywed mai y *Gwaredwr fel gorchfygwr* oedd yn yr adnod. Dyma y bregeth gliraf ei chynllun a wrandewais erioed ganddo; oblegid nid oedd efe yn enwog am raniadau a chynlluniaeth fanwl. Rhyw forio

yn mlaen drwy ganol cefnfor ei destun y byddai, yn mhell o gyrhaedd *buoys*, "Yn gyntaf," "Yn ail," ac "Yn drydydd." Os cai efe y nefoedd uwch ei ben yn glir, er mwyn cymeryd *bearings*, a digon o fôr i gyrhaedd hafan diogel yn y diwedd, ni phryderai nemawr yn nghylch mân ordeiniadau dynol sydd wedi ymgrynhoi oddeutu *y bregeth.* Ond y tro hwn mae ei gynllun yn hynod syml a chlir. Mae y Gwaredwr wedi gorchfygu pedwar gallu mawr, sef y byd, pechod, galluoedd y tywyllwch, ac angeu. Mae yn eglur o'r cychwyn ei fod yn teimlo yn ddedwydd. Darlunir y byd ganddo yn ei gyfoeth ac yn ei dlodi, yn ei hudoliaethau a'i groesau, yn ymosod ar y Ceidwad, ac yntau yn dyfod allan o bob gornest â'r byd yn orchfygwr. Pechod yr un fath. Temtiwyd Ef, ond yn y diwedd, wedi rhodio yn mhlith y crochanau, nid oedd un brycheuyn ar ei wisgoedd, "heb bechod." Nid wyf yn cofio yn iawn pa un ai wrth drin y byd ai ynte pechod, y gwnaeth ddefnydd o gymhariaeth yr Iorddonen yn cael ei throi yn ol. Dywedai fod y Brenin mawr "wedi rhoi ei ddwrn yn nhalcen yr Iorddonen, nes y ffodd hi yn ei hol fel pe wedi penwanu tua mynyddoedd Labanon." Mae yr awel o'i du, ac yntau yn lledu mwy o hwyliau iddi. Mae ei lais wedi dechreu ymdòni, a'r oslef hòno sydd mor fyw yn y cof, ac er hyny mor anhawdd trosglwyddo syniad am dani ar bapur, yn tyneru a gogleisio teimladau y gynulleidfa. Mae y pregethwyr o'i gwmpas yn gwenu yn gymeradwyol, a gwelir aml i lygad yn lleithio drwy y gwenau, fel cawod Ebrill trwy belydrau haul. Nid ydyw y pregethwr hyawdl, ymadadroddion yr hwn sydd yn llifo mor naturiol ag y rhed dwfr ar wely o raian arian, yn feddianol ar nemawr o ddramayddiaeth Hiraethog. Hyd y gwn, nid ydyw ei wadnau wedi gadael eu man o'r adeg y cymerodd ei destun. Ysgydwa ei law ddeheu, yr hon a estyna allan yn agored o'i flaen, fel pe buasai yn rhoddi dyrnodiau ar rywbeth, yna cyfyd hi, gan ysgwyd ei fysedd at ei wyneb, a chyffyrdda y deigryn o chwys sydd yn prysur weithio ei ffordd tuag i waered—arwydd sicr ei fod yn dechreu ymgolli yn ei bwnc. Daw galluoedd y tywyllwch gyda'u nerthoedd ofnadwy a'u hystrywiau dichellgar i'r golwg, ond y mae Gwaredwr pechadur yn eu gorchfygu. Mae diafliaid yn ymblethu o gwmpas echelau a *spokes* olwynion cerbyd y Gorchfygwr, nes y caent eu darnio a'u dyfetha. Mae nerth hyawdledd y pregethwr erbyn hyn wedi llwyr orchfygu y gynulleidfa fawr. Daw y naill ddesgrifiad byw ar ol y llall gyda'r fath rwyddineb ac esmwythder, er mai araf ydyw parabliad y llefarwr, nes y mae pawb o'i amgylch mewn haner syfrdandod. Mae Gorchfygwr Edom a Bozra yn sathru ei elynion oll o dan ei draed. Ond yn olaf, y mae angeu i'w orchfygu eto. Gwna hyn yn gyntaf pan yn adgyfodi ei hun o fedd Joseph. Dengys y pregethwr ei fod wedi myned i'r bedd, ond y gofyniad yn awr ydyw a ddaw efe i fyny? Ddaw i O fyny? Na ddaw, medd awdurdod yr Ymerodraeth Rufeinig, yr hwn sydd wedi bwrw y maen seliedig ar ei fedd. Ddaw O i fyny? Na ddaw, medd y milwyr arfog sydd wedi eu gosod, ac sydd wrth eu hunswydd

i'w gadw yn ddiogel. Ddaw O? Na ddaw, medd baich pechodau y byd, yr hwn oedd yn pwyso ar gareg ei fedd. Ddaw O? Na ddaw, medd taranau lleisiau ellyllon y pwll. Yr ydym wedi ei gael i le y rhwymir ef â gwdyn nas gall ddyfod byth yn rhydd. Ond mi a glywaf leisiau eraill yn dywedyd y daw. Ddaw O i fyny? Daw, medd y cysgodau dan y gyfraith a'r holl brophwydoliaethau. Ddaw O? Daw, medd yr aderyn byw drochwyd â gwaed yr aderyn marw, yr hwn sydd yn lledu ei adenydd i hedeg i'r wybren glir. Ddaw O i fyny? Daw, medd Jonah, wedi bod dridiau a theirnos yn mol y morfil, pan yn gadael ei safn, ac yn disgyn ar dir sych. Ddaw O? Daw, medd y Cynghor bore, a wnaed ar sail digonolrwydd haeddiant yr Iawn. Ddaw O? Daw, medd Moses; daw, medd Dafydd, Esaiah, Jeremiah, a Zechariah. Ddaw O? Daw, medd angeu; 'rwyf yn methu'n lan a'i gadw'n llonydd, mae yn mynu codi ar fy ngwaethaf. Gofynai y gofyniad, "Ddaw O?" gyda llais uchel—ME yn y Solffa, a disgynai wrth ddweyd "na ddaw," a "daw," i'r $\text{LAH}_{|}$ : M . M $\text{L}_{|}$. Erbyn hyn nid oedd genym ond gadael i'r pregethwr fyned a ni i'r man y mynai.

Yr adeg y claddwyd unig ferch y Parch. W. Griffith, Caergybi, daeth yno, a chofus genyf ei weled yn sefyll fel derwen gadarn wrth ochr y bedd. Yn mhlith pethau eraill, dywedodd gyda thynerwch mawr, "Byddaf yn arfer meddwl, pan yn meddwl am angeu, na ddyga mo honof yn îs nag y bum i; ac er iddo fy nwyn i i'r ddaear, na ddyga fo mo'na' i ond i fynwes fy mam. Yn wir, mae y ddaear yma yn fam garedig iawn wedi i ni fyned yn hen a methedig, yn plygu fel mieren, gan chwilio am le i orphwyso; bydd hi yn dweyd, gan agor ei mynwes, 'Tyr'd yma, mhlentyn anwyl i, cei le clyd i orphwys drwy hirnos faith marwolaeth, hyd fore caniad yr udgorn.'"

Mae rhanau lawer o'i bregethau, ei ddull, a'i lais yntau yn eu pregethu yn fy nghof; ond nis gwn yn iawn pa bethau i'w dodi i lawr, am nad ydyw yn hysbys pa rai o'i bregethau a argreffir yn y Cofiant. Efallai fod yr uchod yn gymaint ag a ddysgwylir oddiwrthyf.

Teimlwyf chwithdod a hiraeth pan feddyliwyf na chaf byth eto gyddeithio âg ef i gyfarfodydd pregethu, na'i glywed yntau yn traethu am anchwiliadwy olud Crist.

Gwelodd ffyrdd anghysbell Môn, Arfon, Meirion, a Maldwyn ef am lawer blwyddyn yn teithio mewn cerbydau gwledig i gyfarfodydd blynyddol eglwysi bychain yn y wlad; ond galarant heddyw ar ei ol. "Ei le nid edwyn ddim o hono ef mwy." Gorphwysed mewn heddwch, canys gweithiodd yn dda ac yn ddiwyd. A chyfoded yr Arglwydd eraill o oes i oes i gadw i fyny nerth a dylanwad y pulpud Cymreig.

A ganlyn sydd engraifft o'i donyddiaeth, yn yr hon y rhoddai y fath nerth a swyn:—




## YSGRIF VIII.

(GAN J. R.)

Y MAE yntau wedi marw! Gwell genyf yr hen enw *Ap Vychan* na'r enw newydd, *Proff. Thomas.* Pan mae un wedi ymenwogi o dan ryw enw, gresyn yw ei newid. Da i Judas Iscariot a Herod fawr fuasai cael newid eu henwau; ond trueni fyddai gwneud hyn â Williams, Wern, neu Ap Vychan.

Bu efe yn ôf yn Nghonwy. Yma y dechreuodd bregethu. Pan yn hysbysu am ei farwolaeth i gyfaill, dywedai, "O! yr wyf yn ei gofio pan yma yn pedoli ceffyl i hwn a hwn, a ystyriai ei hun yn wr mawr; a phan oedd y gof ar ganol gosod y bedol, cymerodd y boneddwr yn ei ben i'w regu. Rhoddodd yntau droed y ceffyl i lawr, cyfododd ei focs pedoli, ac aeth ymaith, gan ddweyd, 'Ni chymeraf fy rhegu pan yn gwneud fy ngoreu, ac yn gwybod yn well ddengwaith na'r rhegwr.'" Y mae hwn yn ddrych bychan o gymeriad Ap Vychan drwy ei oes. Edrychai gyda dirmyg ar y rhai a geisient ei ddiystyru ef ac eraill, pan y teimlai ei fod yn gwybod mwy o'r haner na hwy.

Yr wyf yn cofio ei daith gyntaf drwy Faldwyn. Gwnaeth ei hun yn boblogaidd ar unwaith. Yr ergydion barddonol a thrydanol yn ei bregethau a'i hynodai, ac nid tlysni ei gyfansoddiadau. Yr wyf yn meddwl ei fod yn engraifft o un ddaeth a chystal pregethau i'r pulpud oddiwrth yr eingion ag a ddaeth efe o'r llyfrgell. Yn blentyn natur y ganwyd ef, ac y mae un o honynt hwy gystal a deg o feib celfyddyd, a hyny yn unig. Bum yn gydnabyddus âg ef pan ydoedd yn y Dinas, Le'rpwl, Rhos, Bangor, a'r Bala. Bum gydag ef mewn hawddfyd, do, ac mewn adfyd. Yr oeddwn yn ei ymyl yn y Rhos pan fu farw un o'i blant ar adeg cyfarfod. Gwelais effeithiau

gweinidogaeth angeu ar wynebpryd cawr. Yr oedd Ap Vychan yn fawr mewn *llawer o bethau*, ac wedi gosod i lawr y seiliau pan yn ei ysgol ei hun wrth yr eingion. Yr oedd yn hollol feistr mewn hanesiaeth wladol, eglwysig, a Beiblaidd. Yr oedd yn fardd, ac yn adnabod yr addurniadau roddir ar wisgoedd barddoniaeth, a elwir *cynghaneddion*. Enillodd amryw gadeiriau, a chredwyf iddo eu cael mor deg a'r rhan fwyaf a gadeiriwyd yn Nghymru y 50 ml. diweddaf. Addurniadau ar farddoniaeth a synwyr yw ei gynghaneddion ef, ac nid awdl wedi ei gwneud o fotymau plwm, a golchiad arian arnynt, yn clecian yn eu gilydd.

Yr oedd Ap Vychan yn fawr fel pregethwr ac fel ysgrifenwr. Hyd ddydd ei farwolaeth yr oedd yn Ol. y *Dysgedydd*, yn athraw Coleg, ac yn weinidog eglwys yn y Bala.

Yr oedd yn Ymneillduwr a rhyddfrydwr trwyadl. Clywais ef yn dweyd geiriau cryfion am drais cynadleddau Cyfarfodydd Chwarterol. Ymunodd â dirwest er dyddiau "Eta Delta," a pharhaodd yn ffyddlon hyd y diwedd.

## YSGRIF IX.

(GAN Y PARCH. E. T. DAVIES, ABERGELE).

UN o'r wynebau cyntaf a adnabum oedd yr eiddo Mr. Thomas, ac y mae ei ddelweddau yn fyw ar fy nghof, fel yr oeddynt yn agos i driugain mlynedd yn ol. Y pryd hwnw yr oedd yn fachgenyn ieuanc iach a hoenus, yn aros yn y Tymawr, gyda'm tad a'm mam; yno yr arosai er pan oedd tua deg oed, nes, pan yn ddwyarbymtheg, yr aeth i'r Lôn, i fod yn egwyddorwas gyda Simon Jones. Dywedodd wrthyf ugeiniau o weithiau (bron bob tro y cyfarfyddwn âg ef) ei fod yn cofio yn eithaf da y dydd y'm ganed i—enwai y lle yr oedd ynddo ar y pryd, ei orchwyl, a'i gwmni, pan ddaeth yr "hen fugail" heibio iddynt, ac y dywedodd y newydd fod yno "faban bach yn y Tymawr," '*A chwi oedd hwnw!*" dywedai Mr. Thomas yn ei ddull arbenigol ef ei hun.

Rhai o'r pethau cyntaf ar fy nghof am dano ydyw ei eisteddiad wrth gongl bwrdd y teulu, amser pryd bwyd, o tan *shelf*, yr hon a ddaliai amryw lyfrau, ac yn eu plith y *Dysgedydd* a'r *Seren Gomer*, y rhai a dderbynid i'r ty yn rheolaidd. Gwelid ef bron yn wastad yno a llyfr yn ei law chwith, neu gerllaw ar y bwrdd, o'r hwn y darllenai yn astud, tra yr ymborthai â'r llaw arall; ar y ddyledswydd deuluaidd hefyd, hwyr a bore, gyda darllen a gweddïo, yn ystod ei arosiad ef yn y lle, cenid penill neu ddau, ac efe bob amser fyddai arweinydd y gân. Er na chafodd un diwrnod o ysgol ddyddiol, cafodd yn ychwanegol at gyneddfau naturiol uwch na'r cyffredin, fanteision mwy

na llawer i gyrhaedd gwybodaeth. Yr oedd ei dad, Dafydd Thomas, er mewn sefyllfa isel, yn un o'r dynion mwyaf darllengar a deallus yn y gymydogaeth. Yn hyddysg mewn gramadeg, rhifyddeg, daearyddiaeth, rheolau barddoniaeth, peroriaeth (darllenai nodau cerddoriaeth yn rhwydd), hanesyddiaeth, a duwinyddiaeth. Anhawdd dirnad pa fodd y cyrhaeddodd y fath wybodaeth gyffredinol; ond nid anhawdd pan ystyrir cymeriad caruaidd, llariaidd, a chrefyddol y dyn ag oedd yn ei meddu ei fod yn un o'r rhai mwyaf athrawus (*apt to teach*) ag y gellid dyfod i gyffyrddiad âg ef. Cafodd ei blant addysg aelwyd i gychwyn, a rhagorai yn ddiamheu yn ei manteision ar yr hyn a weinyddid mewn lluaws o ysgolion cyhoeddus y wlad yn y dyddiau hyny. Ac nid oes amheuaeth nad oedd Mr. T. cyn gadael cartref, wedi ei osod ar "ben ffordd" gwybodaeth a synwyr. Cafodd flas ar ddarllen llyfrau buddiol ac adeiladol tra gartref ac yn y Tymawr, a glynodd wrth ddarllen a meddwl trwy holl ystod ei oes. Yr oedd yn gyson ddeiliad o'r Ysgol Sabbathol o'i febyd, yn gystal a gwrandawr difrif pregethau athrawiaethol a grymus yr Hybarch Michael Jones, a chewri eraill y weinidogaeth a fynych ymwelent â'r ardal. Mynai ddeall yr hyn a glywai ac a ddarllenai, ac ystyrid ef pan yn ieuanc iawn yn un o'r ieuenctyd mwyaf addawol yn y fro. Cychwynwyd Cymdeithas y Cymreigyddion ryw flwyddyn neu ddwy cyn ei symudiad i'r Lôn, i'r hon yr ymaelododd Mr. T., yn yr hon yr enillodd enw a pharch fel bardd a llenor. Wedi myned i'r Lôn, i addoldy y Methodistiaid yr elai fynychaf i wrando yr efengyl, gyda'r teulu; ac ar ol ei symudiad i Groesoswallt (feddyliwyf) yr ymunodd fel aelod gyda'r Annibynwyr. Bob amser y deuai ar hynt i ymweled â Llanuwchllyn, arosai yn wastad yn y Tymawr, ac ni ddeuai yno un ymwelydd, mawr na bychan, a fyddai yn fwy derbyniol gan fy nhad a'm mam, a'r teulu, nag efe. Yr oedd ei ufudd-dod, ei addfwynder, ei eirwiredd, a'i onestrwydd, yn nghyda'i synwyr a'i dalentau, wedi eu swyno, a bron nad ystyrid ef ganddynt fel un o honynt hwy eu hunain. Mor bell ag y mae fy ngwybodaeth i yn cyrhaedd, ni bu erioed yn euog o bechodau cyhoeddus a rhyfygus, fel y gellid ei gyfrif o ran ei gymeriad cyhoeddus yn aelod diargyhoedd o eglwys Crist, cyn yn gystal a chwedi iddo wneud proffes gyhoeddus o Grist.

Wedi ei symudiad i Gonwy, ac ymuno mewn priodas â Miss Jones, dechreuodd bregethu yn yr eglwysi cylchynol; ac y mae cof am dano yn Moelfre, a St. Sior, yn fyw ar galon a thafod rhai o'r hen bobl er pan y deuai yno i'w gwasanaethu o Gonwy. Yr oedd y pryd hwnw, ystyrient, yn "un o'r pregethwyr goreu" a ddeuai i'r gymydogaeth

Yr wyf yn cofio yn dda ei ymweliad â Llanuwchllyn, ar daith i bregethu gyda'r diweddar Mr. Evan Thomas o Lanrwst, wedi hyny o Meifod. Yn y Tymawr y pregethent, ac yr oedd y ty yn llawer rhy fychan i gynwys y rhai a ddaethant i wrando. Pregethodd Mr. Thomas oddiar y geiriau, "Ni welant, Arglwydd, pan ddyrchafech dy law." Swynodd bawb a'i clywodd, a dywedai hen dduwinyddion

Llanuwchllyn ei fod, nid yn debyg o dd'od, ond ei fod y pryd hwnw yn dywysog o bregethwr.

Ar y daith hòno y derbyniodd alwad i fod yn weinidog yn y Dinas, &c. Yr oeddwn i gyda lluaws o Lanuwchllyn yn bresenol yn nghyfarfod yr urddiad, a deuai yn fynych i Lanuwchllyn i bregethu, tra y bu ei arosiad yn y Dinas; ac yn awr a phryd arall, o Lynlleifiad, y Rhos, a Bangor, i'r cyfarfodydd mawr, &c., hyd ei fedd, ac ni ddeuai neb yno ar ymweliad ag a fyddai yn fwy derbyniol a phoblogaidd na Robert Thomas.

Cefais lawer iawn o'i gwmni yn awr a phryd arall hyd derfyn ei oes, yma yn ein ty ni, ac yn ei gartref yntau, ac mewn gwahanol gyfarfodydd, &c., yma a thraw. Yr argraff a adawodd ar fy meddwl yn wastad oedd ei fod yn mhob ystyr yn "*wr Duw*," yn meddu ar dalentau uwch o lawer iawn na'r cyffredin; wedi ceisio gwybodaeth fel ceisio arian, a bod yn anghredadwy lwyddianus yn ngwyneb anfanteision mawrion iawn. Fel bardd, llenor, pregethwr, a duwinydd, yn y rhestr flaenaf o'i gydgenedl y safai ac y mynai fod. Tywysog a gwr mawr yn wir yn Israel a syrthiodd, ac y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig.

## YSGRIF X.

(GAN Y PARCH. M. D. JONES, BALA).

GANWYD Ap Vychan yn y Tycoch, wrth droed Craig a Chastell Carndochan, yn mhlwyf Llanuwchllyn, lle y mae tua milldir ysgwar o lawnt gwlad, a thrwy dreigliad ysbwrial llifogydd miloedd o flynyddoedd, y mae y badell hon wedi ei chau allan o Lyn Tegid. Mae pob afon a nant sydd yn rhedeg i'r Llyn yn ffurfio penrhyn, yr hyn sydd yn dangos fod y gwaith o gau Llyn Tegid yn dal i fyned yn mlaen, a mater o amser yw gorphen troi y Llyn yn ddyffryn, o Lanuwchllyn i'r Bala, a'r afon Ddyfrdwy yn ymddolenu ar hyd ei ddolydd. O gyfeiriad Llanuwchllyn y llenwir gyflymaf, am mai oddiyno y mae mwyaf o dreigliad dwfr. Mae Llyn Tegid yn ychwanegiad mawr at hardd wch cymydogaethau Penllyn.

Mae mynyddau mawrion a chreigiau yn amgylchu Llanuwchllyn yn mhob cyfeiriad, y rhai a rigolir gan luaws o ribynau arianaidd o nentydd, ac hefyd gan gymoedd rhamantus, yn mhlith y rhai y mae Cwm Pennantlliw, drwy yr hwn y mae'r afon Lliw yn rhedeg, cangen o'r afon Dyfrdwy. Yn y Cwm hwn y treuliodd Ap Vychan fore ei oes. Yn ngodre y Cwm, hyd ddolydd Tymawr a'r Wern, mae coedydd derw henafol, wedi eu ceuo gan amser yn nythle dylluanod; ac o graig y Castell sydd uwchlaw y coedwigoedd hyn, y mynych glywir y dylluanod yn dolefain ac yn twhwan ar hirnos gauaf. Yn uwch i fyny i'r Cwm, tua Tyceryg a Ty Mwy, y rhua eirwy dyffryn Dolhendre, a gwelir yr afon Lliw yn trochioni hyd risiau Rhaiadr

Mwy. Treuliodd Ap Vychan lawer o oriau ei ieuenctyd i ymhyfrydu yn swynion barddonol y llanerchau hyn. Bu lawer gwaith yn bugeilia tua Chraigytân, a Chraigyllestri, a'r Vuallt, ac yn pabwyra yn Ngwaun y Griolen. Bu yn cena ac yn dringo Clogwyn yr Eglwys, a chreigiau serth Buarthmeini, a difyr adroddai ei anturiaethau hyd greigiau ysgythrog nad allai nemawr ond geifr ysgafndroed eu mynychu. Y prif raiadr ar yr afon Lliw yw Rhaiadr Buarthmeini, a phensyfrdanid ef wrth edrych ar hwn. Treuliodd lawer tymhor o Raiadr Buarthmeini hyd Raiadr Mwy, a gwrandawodd lawer arnynt hyd ddolydd Dolfudr a ffriddoedd Craigytân yn cydganu eu bâs dwfn. Yn nghoed Dolfudr, clywai y gog yn canu ei chlych deunod, a'r fronfraith, a'r fwyalchen, ac aderyn du y graig yn telori, tra y byddai y cornchwiglod a'r gylfin hir yn chwibianu yn uwch i'r mynydd. Mawr ymhyfrydai yn natur a thônau hen yr adar, llawer hŷn na'r "Hen Ganfed," fel y dywedai; ïe, llawer hŷn na thônau Asaph a Dafydd, a hŷn na'r tônau a ganai Jubal, tad "pob teimlydd telyn ac organ," ganrifoedd cyn y diluw. Bu y prydferthion a'r swynion sy'n nglŷn â'r afon Lliw a'r Mwy, a'r gororau a'u cylchynant yn un o'r prif achosion i ddeffro y farddoniaeth ag oedd yn enaid Ap Vychan.

Mae'r afon Dyfrdwy yn tarddu yn Llanuwchllyn, ac yn ymarllwys i'r môr heb fod yn mhell o Gaerlleon. Nid yw hi ond afon fechan, ond y mae hi yn hynod o brydferth. Pe nas gwyddid ond am ei dyfroedd a'i gwely, sef yr afon ei hunan, ni fyddai genym ond syniad anmherffaith am harddwch y Dyfrdwy. Ni fyddai gwybodaeth felly yn amgen na chydnabyddiaeth yr eog a'r dyfrgi â'r afon. Felly, i ddeall hanes Ap Vychan yn iawn, y mae yn angenrheidiol gwybod am y pethau a'r amgylchiadau, a'r personau a weiniasant i lunio ei gymeriad. I ddeall Ap Vychan yn iawn, rhaid deall am ei rieni, a'r teulu y cododd o hono. Rhaid deall am y grefydd, a'r farddoniaeth, a'r dduwinyddiaeth oedd yn ei hynafiaid a'i dad. Rhaid deall am yr Ysgol Sabbathol y magwyd ef ynddi, a'r llyfrau a ddarllenodd pan yn fachgen. Rhaid deall am y teuluoedd y gwasanaethodd ynddynt, a'r eglwys y codwyd ef ynddi, a'r weinidogaeth a fwynhaodd nes oedd yn ugain oed. Rhaid deall am gymdeithion ei ieuenctyd, a'r llenorion y cymdeithasodd â hwynt yn fore, a dylanwad y *Cymreigyddion* a'r *Seren Gomer* arno. Rhaid deall am ei ymdrech i ddeall Saesoneg, a dylanwad Duwinyddiaeth Buritanaidd arno. Ond nid oes eisieu deall dim yn fwy nag adnabod yr ardal brydferth a rhamantus sydd yn nghwm Penantlliw, yn mhlwyf Llanuwchllyn, lle yr agorodd Ap Vychan ei lygaid gyntaf i weled gwaith y Brenin Mawr. Carai ei gymydogaeth enedigol yn angerddol, ac nid oedd diwedd ar y pleser a fwynhai wrth ymweled â hi, a siarad am ei harddwch.

Yr oedd Ap Vychan yn hanu o rieni rhinweddol a thalentog, a pheth mawr iawn yw hyn. Mae y fath beth yn bod ag etifeddu diffygion a rhinweddau moesol. Mae talentau yn hanu oddiwrth rieni, a chyfansoddiad meddwl cryf, yn gystal a chyfansoddiad corfforol

cadarn. Mae gwahaniaeth mawr yn rhinwedd neu ddrygioni naturiol plant, fel ag y mae gwahaniaeth yn ngweryd y ddaear. Mae y ddaear oll dan felldith, ond y mae rhanau o honi yn dwyn mwy o ddrain, a mieri, a llysiau'r felldith na rhanau eraill. Mae pawb wedi syrthio yn y codwm, ond y mae rhai wedi syrthio yn ddyfnach i bwll llygredd nag eraill. Mae ambell i blentyn yn angylaidd iawn wrth natur, tra y mae y llall mor farus a llawn o asbri drwg, fel y gellid meddwl mai yr ysbryd drwg oedd ei dad. Dyn tirion iawn, a hynaws wrth natur oedd Ap Vychan, a phrin y gallasai fod yn bechadur mawr, fel ambell i un y mae toraeth o ddrygioni greddfol ynddo. Nid oedd cymaint o waith i ras i'w wneud ar Ap Vychan ag ar lawer pechadur. Yr oedd efe fel doldir da wrth natur, yn fwy addas i ddwyn llysiau cymhwys na rhai pobl sydd wedi etifeddu drygioni y teuluoedd yr hanant o honynt. Yr oedd efe yn ddyn corffol a thywysogaidd ei olwg, ac yn llawn natur dda. Edrychai yn bendefigaidd fel baron, ac yr oedd ei lygaid yn llawn o athrylith. Mae ambell i un fel pe byddai yn cario'r byd o hyd ar ei gyrn. Mor wahanol i hyn oedd Ap Vychan, carai heddwch, ac ymddedwyddai mewn tangnefedd gwastadol, os oedd modd yn y byd. Gwelais ddynion a llymder miniog yn eu llygaid, a chlywir acenion cynen yn eu llais. Mae nwydau drwg i'w weled yn eu cerddediad a'u hystumiau. Ond yr oedd holl agweddau Ap Vychan yn dangos heddwch urddasol, a cheid mwyneidd-dra mawr yn ei lafar. Hyd yn nod pan y gorfodid ef i droi ei ordd fawr o gylch ei ben i roddi ergyd hyd adref i'w wrthwynebydd, yr oedd bob amser yn hollol hunan-feddianol. Nid yn unig coleddai amynedd, goddefgarwch, a phwyll, ond yr oedd efe yn eu hetifeddu oddiwrth ei rieni.

Yr oedd ei gof yn hynod o rymus. Lleibiai efe bobpeth a ddarllenai ac a glywai, fel cawrfil yn sugno afon â'i rynswch (*trunk*). Adroddai ddarnau mawrion o farddoniaeth, a chofiai enwau personau, a lleoedd, a dyddiadau (*dates*) gyda chywirdeb mawr. Yr oedd hyn yn ei alluogi i ddifynu allan o hanes Feiblaidd, neu ranau o'r prophwydi, neu'r Salmau, neu'r Testament Newydd, gyda rhwyddineb na fedrai nemawr ei efelychu. Arferodd lawer ar ei gof yn moreu ei oes i ddysgu allan ranau o'r Ysgrythyrau, a darnau o farddoniaeth.

Mabwysiadai Ap Vychan yr enw llenorol hwn, am ei fod yn hanu o deulu Vychaniaid Caergai, Llanuwchllyn. Mae rhai canghenau o'r cyff hwn i'w cael yn awr yn bobl o ddylanwad a chyfoeth yn Meirionydd. Tua 200 mlynedd yn ol, y Vychaniaid oedd yn byw yn Caergai, neu Gaer-Caius. Yr oedd bardd o'r enw Sion Vychan yn byw yno tua 1640, yr hwn a aeth yn filwr, a bu am flynyddau heb i neb wybod dim o'i hanes.

Ar ol amser maith, daeth Sion Vychan adref i gymydogaeth y Bala, a lletyodd yn Rhiwaedog, pan ar ei daith yn ol i Gaergai. Tua thri neu bedwar o'r gloch yn y boreu deffrodd, a chlywai swn mawr yn y palas, a gofynodd beth oedd yr achos. Atebwyd ef mai un o deulu'r ty oedd yn priodi merch Caergai y diwrnod hwnw. Brysiodd

yntau fyned tua Chaergai, a chnociodd wrth y drws, a gofynodd am ganiatad i fyned i mewn. Atebid ef ei bod hi yn ddiwrnod prysur iawn y dydd hwnw, am fod yno briodas. Drwy daerineb, fodd bynag, cafodd fyned i mewn. Yr oedd canu a dawnsio wedi dechreu yn y parlwr. Aeth Sion Vychan yno, a gofynodd i'r wraig am delyn. Dywedodd hithau nad oedd yno delyn ond un ei thad, yr hon a gedwid yn y llofft er's blynyddau. Gofynodd am hòno, a cheisiodd y wraig y delyn iddo. Ar ol cyweirio ei thànau, canodd dôn a barai i'r wraig ieuanc wylo ar ganol y wledd briodasol. Gofynwyd iddi beth oedd yr achos o'i galar. Atebodd hithau mai yr hen dôn a ganasai ar y delyn oedd yn codi hiraeth arni, ac mai hòno oedd y dôn a arferai ei thad ganu pan oedd yn fyw. Am fod y gwr dyeithr yn chwerwi y wledd, ceisiwyd ei droi allan, a gorchymynwyd iddo fyned. Ond atebai y milwr fel y canlyn:—

"Os collais tra fuais o'r fan—fy ngwraig,
Vyngaredd Vychan;
Ni chollaf, ewch chwi allan,
Na'm ty, na'm telyn, na'm tân."

Erbyn i bethau ddyfod oddiamgylch, cafwyd mai gwr cyntaf y wraig ieuanc oedd. Gofynwyd i'r wraig ieuanc pa un o'r ddau wr a fyddai raid fyned allan, i'r hyn yr atebodd mai y gwr cyntaf a gaffai aros yno. Felly, bu raid i fab y Rhiwaedog fyned allan yn isel ei ben.

Barddones enwog iawn oedd Gwerfyl Vychan o Gaergai. Mae y ddynes glodfawr hon yn fyw yn nhraddodiadau plwyf Llanuwchllyn. Mae "Cywydd y March Glas" yn dangos ei bod, nid yn unig yn hysbys â'r cynghaneddion, ond fod barddoniaeth fyw yn ei natur:—

"Ysbïwch farch glas buan,
Un bywiog, calonog, glan,
A'i flew yn fyr, a'i fol yn fain,
A'r un rhawn a gŵn rhiain;
A chlustiau'n flinion aflonydd,
Ail dail *sage* uwch ei dal sydd,
A'i ffroenau fel gynau gwynias
'N gwylltio'r gwlith o'r gwellt glas.
"Llygaid fel dwy arllegen"
"Llymion byw'n llamu'n ei ben."
Pan genir salm ar balmant,
Bydd ol ei bedol yn bant;
"Ar godiad yr egwydydd,"
"Ser neu fellt o'r sarn fydd."
Tyrcha bedair tywarchen,
Trwch baedd, o'r tir uwchben,
"Cnuw praff yn cnoi prif-ffordd,"
"Cloch y ffair, ciliwch o'r ffordd."
Rhai ddywedant mai'r hŷdd ydoedd,
Ar hyd grwn mai rhedeg 'roedd;
Lleill yn dal allan yn deg
Am ei hoedl mai ehedeg

Mewn pybyr ddull eryr llon,
Deil i'r haul, dal yn yr hoelion ;
Deugain dâl hwn, gwn heb gâs,
O Noblan* dan wyneblas."

Pa le y mae merch yn Nghymru a fedr farddoni fel Gwerfyl? Wele englyn a wnaeth hi i'r bedd:—

"Oer lety, gwely gwaeledd,—anniddan
Aneddle i orwedd ;
Clöedig, unig anedd,
Cas gan bawb yw cwsg y bedd."

Nid oes sicrwydd pa amser y blodeuai yr awdures enwog hon, barnai rhai mai o 1460 i 1490.

Rowland Vychan, Caergai, neu fel y'i gelwid gan rai, Rowland Vychan y cyfieithydd, ydoedd freniniaethwr mawr yn amser Oliver Cromwell, ac yr oedd wedi bod yn mrwydr Naseby. Cyfieithodd lawer o lyfrau crefyddol i'r Gymraeg, megys, "Ymarfer o Dduwioldeb," gan Esgob Bailey. Ar gais y Milwriad Gwilym Salesbury, cyfieithodd y "Llawlyfr o Weddïau Dr. Brough." Y Milwriad yma oedd ceidwad dewr Castell Dinbych. Ar ei draul ef y cafodd y cyfieithiad yma ei argraffu, a'i ranu yn rhad yn mhlith y tlodion. Adgyweiriodd lawer o eglwysi a niweidiwyd gan filwyr y Weriniaeth, ac efe a seiliodd ac a waddolodd gapel Rug, ger Corwen. Dyoddefodd Rowland Vychan lawer oddiwrth bleidwyr Cromwell. Cyfansoddodd gerdd a welir yn y "Blodeugerdd" (tud. 52), i ymosod ar aflywodraeth a rhagrith pleidwyr y Weriniaeth, yn ol ei dyb ef. Yr oedd Cromwell yn ei rwysg mae'n debyg pan ysgrifenodd y gerdd hon, o herwydd nid allai gan berygl siarad yn eglur a difloesgni ei syniadau i ochri'r brenin oedd wedi colli ei ben.

"Ni allai fynegu yr achos o'i dori,
Mwy da i mi dewi yn dawel a son;
Ond dyweda'n seiliedig na thorir pen tebyg
Yn Lloegr goch oerddig na'r 'Werddon."

Golygai Rowland Vychan ei fod yn ddiogel wrth ddweyd na thorir pen tebyg i ben Siarl y cyntaf

"Yn Lloegr goch oerddig na'r 'Werddon."

Mae hyn gyda llaw yn dwyn i'm cof chwedl am Werinwr yn nghymydogaeth Caerfyrddin, o'r enw Mr. Parry, Llethrach, ag oedd wedi ei ddwyn gerbron yr ynadon am godi yn erbyn y Llywodraeth. Cyhuddid ef o ddweyd mewn tafarndy eiriau pleidiol i Weriniaeth Ffrainc ar ol chwyldroad mawr 1796. Cyfaddefai Mr. Parry ei fod wedi dweyd fod gan y Ffrancod hawl i ddewis eu brenin, ac nad oedd cyfraith yn Mhrydain yn erbyn hyny. Ond, meddai ei gyhuddwyr, dywedasoch nad oedd eisieu brenin yma ychwaith. "Mae hyny

* Math o arian bathol yw Noblan, arferedig y pryd hyny.

hefyd yn wir," meddai Mr. Parry, "onid oes gyda ni un?" Nid oedd gan ei gyhuddwyr ddim i'w wneud ond ei ollwng yn rhydd.

Yn y gerdd uchod, mae Rowland Vychan yn cydnabod mai ofer iddo ddanodi, ac nad yw ei eiddigedd yn cael mwy o effaith na digofaint baban; ond cynghora ei gydwladwyr i ddysgwyl yn amyneddgar am adferiad Siarl yr ail, i

**"Rodio yn gefnog, yn llawn wych alluog,**
**Yn mhlaid yr Eneiniog Anianawl."**

Cafodd ei dalu am ddatgan y syniadau hyn, drwy i'w dŷ gael ei losgi i lawr; ac oddiwrth yr englyn canlynol, gellir tybio ei fod wedi trosglwyddo ei etifeddiaeth i gâr iddo,—

**"Caergai, nid difai gwaith tân—arnad**
**Oernychwyd yrwan:**
**Caer aethost i'm câr weithian,**
**Caergai lle bu cywir gân."**

Ar adferiad Siarl yr Ail, adferwyd yntau hefyd i'w etifeddiaeth, ar ol bod yn garcharor am dair blynedd ar ddeg yn Nghaerlleongawr. Wedi ail adeiladu Caergai, canodd yr englyn canlynol iddo,—

**Llawer Caer yn daer i'w dydd—a losgwyd**
**Lesgwaith gwŷr digrefydd;**
**Y Gaer hon i gywir rydd,**
**Caer gain yw Caergai newydd."**

Gwel *Cambro Brit.*, vol. i., page 231; a cherfiwyd y penill canlynol uwchben y drws,—

**"Dod glod i bawb yn ddibrin,**
**A char dy frawd cyffredin,**
**Ofna Dduw, can's hyn sy' dda,**
**Ac anrhydedda'r Brenin."**

Gwelir yn amlwg fod barddoniaeth yn wythïen euraidd yn rhedeg drwy hynafiaid Ap Vychan; ond yr oedd efe yn dra gwahanol ei egwyddorion gwladol a chrefyddol i Rolant Vychan. Yr oedd yn edmygydd mawr o Oliver Cromwell, yr hwn a osododd i lawr sylfeini mawredd presenol Prydain Fawr, fel y profa Thomas Carlyle. Nid oedd Ap Vychan yn edmygydd o Siarl I. na Siarl II. "Nid o waed," meddai Ioan, "nac o ewyllys gwr, eithr o Dduw." Credai Ap Vychan yn gryf mewn Annibyniaeth Eglwysig, yn wrthwynebol i Henaduriaeth ac Esgobyddiaeth. Cryfder pob Llywodraeth yw, fod ei deiliaid yn ffyddlon iddi, ac y mae rhoddi pleidlais a rhan i bawb yn y Llywodraeth yn gwneud y cyfryw yn bleidiol a ffyddlon, ac nid oes un ffurf o lywodraeth mor gref a cheidwadol a gweriniaeth. Yr oedd gan Ap Vychan barch mawr i Unol Daleithiau'r America; ond credai fod addysg a chrefydd yn hanfodol i'w pharhad a'i llwyddiant.

Yr oedd Dafydd Thomas, Tanycastell, tad Ap Vychan, yn fardd gwych, a dysgodd ei blant i ddarllen ac ysgrifenu. Dysgodd hefyd reolau Gramadeg Cymreig a barddoniaeth i Ap Vychan. Yr oedd ysgol ddyddiol rad yn Llanuwchllyn, wedi ei gadael gan y diweddar

Dr. Daniel Williams, a gallasai Ap Vychan gael ei addysg yno yn ddidraul. Yr oedd yr amseroedd a ddilynasant ddiwedd rhyfeloedd Bonaparte mor wasgedig fel yr oedd plant gweithwyr yn gorfod troi allan i enill eu cynaliaeth. Mr. Michael Jones, gweinidog yr Annibynwyr yn nghapel Rhosyfedwen, neu Ebenezer, Llanuwchllyn, oedd yn cadw yr ysgol y pryd hyn, ac yr oedd yn dra chyfeillgar â'r teulu, a diamheu y rhoddasid derbyniad croesawus i'r bachgen Robert Thomas i'r ysgol ddyddiol pe gallesid ei hebgor i ddyfod. Mynychai yr Ysgol Sabbathol yn Ty'nybwlch, tyddyn yn mhen uchaf y cwm, ac yn agos yno y mae ysgoldy Carmel wedi ei godi yn ddiweddarach. Byddai y diweddar Michael Jones yn hynod ofalus am y cyfeillachau a'r Ysgolion Sabbathol yn y cymoedd. Yr oedd Mr. Michael Jones unwaith yn holi y plant yn Ty'nybwlch, yn nghylch Iesu Grist. Gofynai, "Lle yr oedd Iesu Grist wedi ei ddodi yn Methlehem?" "Yn y preseb," meddai'r plant. "Beth oedd Mair ei fam ef wedi ei roddi yn wisg am dano?" meddai y gweinidog. "Cadachau," meddai y plant. "Pa fath gadachau?" meddai eilwaith, ond nid oedd atebiad; o'r diwedd dywedai Robert Thomas, "Mewn cadachau sidan." Chwarddodd y gynulleidfa, ond dywedodd yr holydd, "Peidiwch a chwerthin am ben y bachgen bach; parchu Iesu Grist oedd yn ei feddwl, a barnai y dylasai gael cadachau sidan. Mae Robert yn lled agos i'w le." Ar ol cael y cefnogrwydd yma gan y gweinidog, teimlai Robert yn galonog iawn.

Mae hi yn rheol, ond nid heb eithriadau, fod coledd unrhyw duedd foesol, lenorol, gelfyddydol, neu wyddonol, ynom yn tueddu i wneud yr hyn a goleddir yn anian gyfansoddiadol. Yn y cyflwr newydd hwn y mae galluoedd ein natur yn ymgymhwyso at yr amgylchiadau, nes y delo yr hyn a goleddir yn etifeddiaeth deuluol. Fel hyn y cawn bobl yn fedrus o genhedlaeth i genhedlaeth fel cantorion, a beirdd, a chelfyddydwyr, a meddygon, a masnachwyr. Mae teuluoedd rhinweddol o oes i oes, ac eraill yn feddwon o dad i fab; mae eraill yn lladron o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'r ddeddf yma yn amlwg, fel nad wyf yn meddwl fod *a priori* neb yn dysgwyl i'r epil fod ond yn debyg i'r rhieni. Nid yw angylion, medd Crist, yn gwra nac yn gwreica, yn priodi nac yn rhoddi i briodas. Pe byddent felly, a rhyw angel yn ymgysylltu mewn glan briodas âg angyles, dysgwyliai pawb i'w hepil gyda'u hedyn euraidd i fod yn angylion bach. Pe byddai rhyw angel colledig o ddiafol du yn priodi diafles, ac yn epilio, dysgwylid i'w hiliogaeth frwmstanaidd fod yn ellyllon bychain bob un. Nid yw y syniad yma yn milwrio dim yn erbyn dylanwad a gallu addysg, ond yn profi fod addysg ac ymarferiad yn ystumio natur i fod yn wasanaethgar i'r ddysgyblaeth a roddir iddi. Mae y golygiad hefyd yn cadarnhau yr athrawiaeth o'n llygredigaeth drwy y cwymp, yn yr hon y credai Ap Vychan yn drwyadl. Ond nid oedd yn credu yn nghyfrifiad euogrwydd pechod Adda i'w had.

Mae dyfodol bywyd plant yn aml yn cael ei lunio gan eu teganau

a'u chwareu, a goruchwyliaeth y cysgodau yw ffrilbethau bore bywyd. Pan y rhoddir y rhaw bren, y bladur bren, a'r ceffyl pren, a'r drol fach i'r bachgen, a'r ddoli i'r eneth, nid ydynt ond cysgod o ddaionus bethau i ddyfod. Mae anian at y gwrthddrychau hyn yn y plant, ac y mae hyn yn ysgol iddynt drwy gynefino eu meddyliau â sylweddau pwysig bywyd dyfodol, a gosod ysbryd ynddynt at y gwaith. Goruchwyliaeth gysgodol gogyfer â mabandod dynoliaeth oedd yr Hen Oruchwyliaeth. Gellid rhagweled y pregethwr, a blaenor y gynulleidfa yn Robert Thomas pan yn hogyn gyda'i gyfoedion yn Tanycastell a'r Tycoch. Mae islaw Castell Carndochan ddwy gareg fawr, a'u sodlau heb fod nebpell oddiwrth eu gilydd, ond y mae eu hymylon yn cwrdd fel tô ty, fel ag i wneud cysgod. Defnyddiai Robert Thomas a'r plant cyfagos y lle hwn fel capel, ac yno y cyrchent bob Sabbath, a Robert Thomas oedd y pregethwr bob amser. Byddai y gwrandawyr yn d'od i fewn drwy un agoriad i'r addoldy, a Robert Thomas bob amser drwy y pen arall, fel pe buasai yn festri, ac yr oedd Beibl mawr ei dad ganddo. Nid oedd y gwrandawyr bob amser yn astud tra fyddai y pregethwr yn myned drwy'r addoliad. Byddai rhai o'r plant yn aflonydd a chwareus, ac yn niffyg gras rhagorach, byddai Robert yn d'od i lawr o'r pulpud, ac yn rhoddi iddynt weithiau dipyn o ras penpastwn. Fy hen gyfaill Dafydd Edward, Blaenlliw, mab dros bedwar ugain mlwydd oed, ac un o fynych wrandawyr boreuol Robert Thomas, a ddywedodd wrthyf yr hanesyn uchod.

Un o'r teuluoedd a ddylanwadodd fwyaf ar feddwl Ap Vychan i'w grefyddoli oedd teulu Evan a Beti Davies, Tymawr, o Gwm Pennantlliw bach. Cafodd fyned yno yn foreu i weini, ac yr oedd yn ddigon agos i'w gartref i fod dan lygad ei dad a'i fam. Yr oedd Evan Davies yn rhagori fel dyn ffyddlon a da, ac anaml y cwrddir â neb mor gywir a dihoced. Ond yr oedd gallu mawr yn ei wraig, Beti Davies, ac ni fagodd Meirion erioed ddynes fwy duwiolfrydig. Nid oedd yn meddu dim dawn i wneud hòniadau rhodresgar. Yr oedd yna gymydog iddi, yn meddu llais, ac urddas-ystumiau, a gallu cyfarchiadol mwyaf pendefigaidd a welais erioed, sef Dafydd Jones, Ty'nybryn. Ni welais yr un Ffrancwr o Paris mor athrylithgar yn hyn ag efe, ac un o ddirgelion fy mywyd yw sut y cafodd efe hyd i hyn yn Mhennantlliw bach; ond yr oedd y peth yn gynhenid ynddo. Dynes hynod o ostyngedig a syml oedd Beti Davies, ond yn rhuddyn hyd y rhisgl. Yr oedd hi yn hollol hyddysg yn y Beibl, o ddechreu Genesis hyd ddiwedd y Datguddiad. Gwn am rai, fel Dafydd Cadwaladr o'r Bala, a ddysgodd y Beibl ar ei gof. Os dechreuid rhyw adnod, medrai Beti Davies ei gorphen, a hyny yn mhob rhan o'r Beibl braidd. Yr oedd hi yn wraig ddiwyd iawn. Byddai y teulu yn codi yn foreu, fel y mae arfer amaethwyr, a hi fyddai gyntaf ar ei thraed bob amser, a'r olaf yn myned i'w gwely. Pan y byddai gyda'i gorchwylion yn y teulu, byddai hi y rhan fynychaf a'r Beibl yn ei hymyl, os na fyddai rhyw brysurdeb mawr. Yr oedd

hi yn hyddysg mewn athrawiaethau, a meddai syniadau addfed ar wahanol byncian duwinyddiaeth. Yr oedd hi yn dra chydnabyddus â gweithiau Dr. George Lewis, Esboniad Mathew Henry, a llyfrau buddiol eraill. Cafodd addysg ddirodres y wraig dda hon ddylanwad arosol ar feddwl Ap Vychan, a chlywais ef yn coffau am dani ganwaith. Dywedodd lawer gwaith wrthym mai hi oedd y ddynes berffeithiaf a welodd erioed, ac mai y diweddar Michael Jones, ei weinidog, oedd y dyn perffeithiaf a welodd yn ei fywyd. Pan y byddai Robert Thomas yn gweini yn y teulu hwn, ar brydiau bwyd, gan ei awydd am wybodaeth, byddai bob amser yn bwyta a'i lyfr yn agored o'i flaen. Er na chafodd Robert Thomas erioed ddiwrnod o ysgol ddyddiol, mwy na'r Saer o Nazareth, bu yn fyfyriwr caled ar hyd ei oes.

Pan yn laslanc, aeth i deulu arall, sef teulu Simon Jones, Lôn, i ddysgu bod yn ôf. Aelod gyda'r Trefnyddion Calfinaidd oedd Simon Jones; ond yr oedd yn ddyn braf, a thra rhyddfrydol, ac ystyried y dyddiau dadleugar hyny. Yr oedd dadleuon duwinyddol yn berwi Cymru y pryd hyny, sef y dadleuon brwd a fu rhwng pleidwyr Uchel-Galfiniaeth a Chalfiniaeth Gymedrol. Yr oedd y ddadl yn cael ei dwyn yn mlaen mor chwyrn yn Llanuwchllyn ag yn unman. Calfiniad cymedrol oedd Robert Thomas, a chlywais ei fod unwaith yn traethu ei ochr, ac yn mrwdfrydedd ei sel, darfu i hen chwaer godi ei dwrn, a'i daro, nes oedd ei waed yn pistyllio. Chwarddodd yntau yn galonog am ei phen. Dychymygol iawn oedd Simon Jones, a byddai yn cael llawer o areithiau dirwestol o brophwydoliaethau Daniel, a'r Datguddiad! Wrth ei glywed yn trin yr olwynion yn Ezeciel, byddai ei wrandawyr yn cael difyrwch, ond nid cymaint o argyhoeddiad. Yr oedd Simon Jones yn awyddus i Ap Vychan gyhoeddi ei esboniad ar Ezeciel, Daniel, a'r Datguddiad; ond barnodd Ap Vychan yn garedig na safai y byd ddim o eisieu cael esboniad ei hen feistr.

Er hyn oll, dyn hirben iawn oedd Simon Jones yn ei lwybr ei hun, fel y prawf y chwedl ganlynol:—Yr oedd mab i Simon Jones, Lôn, sef y diweddar Simon Jones, Bala, yn byw yn Sheffield. Byddai hen deiliwr o gymydogaeth Dolgellau yn arfer cael parsel bob blwyddyn gyda Simon Jones, ieu., o hen ddillad oddiwrth ei fab, yr hwn hefyd oedd yn byw yn Sheffield. Byddai Simon Jones, Lôn, weithiau yn arfer myned i ffeiriau i werthu pladuriau. Daeth y teiliwr ato yn Nolgellau yn y ffair, a gofynodd iddo a oedd dim parsel yn ddiweddar oddiwrth y mab. Dywedodd Simon Jones nad oedd. Cynygiodd werthu pladur i'r teiliwr, ond dywedodd nad oedd arian ganddo i dalu. Coeliodd Simon Jones ef, ond yn mhen y flwyddyn, ïe, a dwy flynedd, nid oedd argoel ei fod yn d'od i dalu. Wrth holi am dano, clywodd ei fod yn dalwr drwg, ac nad oedd gobaith iddo am yr arian. Anfonodd Simon Jones wed'yn at y teiliwr i ddweyd fod parsel ganddo; ac ond iddo dalu am y bladur, y caffai efe y parsel, ond nid heb hyny. Barnodd y teiliwr yn ddios mai parsel gwerthfawr oddi-

wrth y mab oedd y parsel. Yn mhen ychydig ddyddiau wedi hyny, dyma'r teiliwr yn d'od drwy dywydd mawr i'r Lôn, sef y pellder o tua phedair milldir ar ddeg, a churodd wrth y drws, a gofynodd a oedd Simon Jones adref. Nid oedd yn y ty. Cafodd Mary y wraig ar ddeall pwy ydoedd, a dywedodd fod y parsel yno, ond nad oedd modd i'w gael heb dalu am y bladur. Talodd 5s. yn gyndyn am y bladur, a chafodd y parsel. Wedi iddo ddechreu ei agor, gwelodd mai parsel o hen wlan a thocion, a phethau diwerth oedd. Tarawodd y wraig ei dwrn yn y bwrdd, a dywedodd, "Dysgu i ti dwyllo'r hen Simon." Trugarhaodd i roddi tamaid o fwyd iddo, am fod yr olwg arno mor druenus. Cwrt bach fel hyn oedd gan yr hen bobl. Yr oedd y chwareus a'r nwyfus yn elfen gref yn Ap Vychan, a diamheu ei fod wedi cael deffroad a phorthiant i'r duedd hon yn y Lôn gymaint ag un man y bu'n aros. Yr oedd llawer o hyn yn Thomas, mab Simon Jones, ac yr oedd efe yn ddyn o synwyr a barn gref, ac yr oedd Ap Vychan ac yntau yn gyfeillion. Nid oedd Ap Vychan yn grefyddwr y pryd hyn. Yr oedd yn ddarllenwr mawr, ac yn fardd a llenor.

Yr oedd Simon Jones yn dra gofalus am anfon y plant a'r teulu oll i'r addoliad. Yr oedd ar Thomas ei fab, a Robert Thomas eisieu aros gartref un Sabbath yn lle myned i'r addoliad. Gwyddai y ddau na chaent aros gan Simon Jones, heb gymeryd rhyw gynllun i dori ar y drefn arferol. Nid oedd Thomas gymaint dan lywodraeth ei dad ag ydoedd Robert Thomas. Beth a ddarfu Thomas ond tori gwallt Robert Thomas ar un ochr i'w ben, nes oedd golwg hynod o chwerthinus arno. Pan welodd Simon Jones ef, dywedodd, "Beth sydd arnat ti?" Dywedodd yntau mai Thomas oedd wedi bod yn darn-dori ei wallt, ac heb orphen. "Nid wyt ti yn addas i fyned i blith pobl fel yna, rhaid i ti aros gartref heddyw," meddai Simon Jones wrtho. Yr oedd Robert yn chwerthin yn ei lawes wrth weled cynllun Thomas yn atal trefn arferol yr hen wr, ac yntau yn cael aros gartref.

Yr oedd golygydd y *Seren Gomer* wedi deffroi Cymru at lenyddiaeth Gymreig y pryd hyn. Prif ddiffyg y mudiad pwysig hwn oedd, fod Cymdeithasau y Cymreigyddion yn cael eu cynal mewn tafarndai. Yr oedd Cymdeithas Gymreigyddol Llanuwchllyn yn cael ei chynal yn y dafarn, am nad oedd lle cyfleus arall i'w chynal. Byddai dynion o'r cymeriad goreu yn cefnogi y mudiad; ac yn nglŷn â'r gymdeithas hon y dechreuodd Ap Vychan gael deffroad i'w awen, fel ag i dynu sylw y cyhoedd yn y plwyf. Yr oedd Ap Vychan ar yr adeg hon yn rhy dlawd i dalu ychydig am ymaelodi; ond drwy iddo allu boddhau aelodau y Gymdeithas Gymreigyddol â barddoniaeth a gyfansoddodd at yr amgylchiad, cafodd ei dderbyn i'r gymdeithas y bu yn aelod mor anrhydeddus o honi.

Yr oedd y diweddar Michael Jones yn aelod o'r gymdeithas hon, Sion Wmffre, Ty'nllechwedd, Robert Morgan a John D. Morgan, Cefnprys, John Jones, Weirgloddgilfach, John Jones, Plasdeon, John

Jones, Deildreisa, Eos Glan Twrch, ac eraill. Yn y fan hon, gadawaf i Eos Glan Twrch i draethu ei len, sef John Edwards, Ty'nyfedw, Llanuwchllyn, yn awr o Rome, Talaeth Efrog Newydd, America:—

ANWYL "RHODWY,"—Diolch i chwi am eich sylw o hen rigymydd pellenig wedi gadael Cymru er's dros haner can' mlynedd. Yr ydych yn crybwyll fod Cofiant i Ap Vychan i dd'od allan—y mae yn fwy haeddiannol o Gofiant na llawer un a gafodd y cyfryw warogaeth. Nid oes genyf ddim o bwys i'w ddywedyd am ddyddiau boreuol Robert, nad yw eisoes yn wybyddus i chwi, a'i gydnabod o ardal Llanuwchllyn a'r cylchoedd. Gallaf fynegu pa fodd y daethum i'w adnabod gyntaf, pan oeddym ein dau yn blant anmhrofiadol. Pan yn myned adref o Lanuwchllyn i dŷ fy nhad yn Nghwm Cynllwyd, o gylch tair milldir o ffordd, daethum ar draws bachgenyn oedd tua deg neu ddeuddeg oed, fel y tybiwn, yn droednoeth, ar ddiwrnod gwlawog a mwdlyd.* Gofynais iddo yn ol y dull taeog yno, "I ba le yr oedd yn myned?" i'r hwn ofyniad yr atebodd mai i geisio ei dad adref yr äi, fod ei fam yn sâl. Yr oedd ei dad ar y mynydd yn gwneud clawdd tyweirch; y bachgen hwnw ydoedd Robert Thomas; ac wedi peth ymddyddan plentynaidd, aethom i adrodd penillion ac emynau bob yn ail, i edrych pwy a wyddai fwyaf, a thrwy hyny, darfu i ni ymdoddi y naill i'r llall nes myned yr ymddyddan yn lled grefyddol cyn y diwedd.

Y tro nesaf y gwelais ef ydoedd yn nghymdeithas Cymreigyddion Llanuwchllyn. Byddai yn arferiad yno, wrth dderbyn aelod i fewn, i dalu chwe' cheiniog i'r drysorfa, ond yr oedd hyny yn dyfod yn rhy anhawdd i Robert ar y pryd, a gofynodd cyfaill drosto am iddo gael adrodd tri englyn oedd ganddo at yr achlysur, yr hyn a ganiatawyd iddo. Cynwysai y rhai hyny glodforedd mawr i'r gymdeithas, a diweddent fel y canlyn:—

"Cael profi o'ch cwmni cu
Wy'n adolwyn *heb dalu.*"

Yr ydoedd yn arferiad gan y gymdeithas hon i roddi testun i'r beirdd i gystadlu arno bob mis, a'r wobr fyddai *ysnoden!* Darfu i Robert enill un yn fuan, am y chwe' englyn ar ol Rhaglywydd y Gymdeithas, ydoedd wedi marw ar y pryd. Dyma y wobr gyntaf a enillodd Robert—YSNODEN! Pwy y pryd hyny fuasai yn rhagdybied y daethai yn gadeirfardd cenedlaethol Cymru mewn amser a ddeuai? Byddai yn arferiad hefyd gan y gymdeithas i gael gwledd unwaith yn y flwyddyn, a chelid ciniaw danteithiol, yr hwn oedd yn costio swllt, ac felly uwchlaw cyrhaedd Robert; ond gwnaeth y wraig yn y gwesty, yr hon oedd yn chwaer i'r trancedig y gwnaeth englynion iddo, anrheg iddo o giniaw, a thrwy hyny cafodd Robert ddwy wobr am y fuddugoliaeth gyntaf. Y lle nesaf y daeth Robert yn amlwg oedd yn Nghorwen. Byddai Eisteddfod yn cael ei chynal bob blwyddyn, o dan nawdd Eglwyswr, y Parch. B. Clough, M.A. Rhoddwyd "Llongddrylliad" yn destun yn un o'r rhai hyn. Dwy gini yn wobr am y cyfansoddiad goreu, a gini am yr ail. Daeth Robert allan yn gydfuddugol am yr ail wobr, a chafodd bedwar darn haner coron. Yr oeddwn i yn yr Eisteddfod hòno. Pa nifer o bersonau ydoedd ynddi sydd yn fyw heddyw, tybed?

Bu Robert, fel y gwyddoch, gyda Simon Jones, y Lôn, yn dysgu myned yn ôf. Yr oedd i'r Simon hwn fab, o'r enw Thomas, yn gweithio, ac yr oedd yn hŷn na Robert o flynyddoedd. Yr oedd yn dipyn o brydydd a datgan-

* Yr oedd llawer o bobl barchus yn droednoeth y dyddiau hyny.

wr, ac yr oedd yn hynod am ei arabedd a'i ddigrifwch. Yr oedd Robert yn meddu ar lais lled soniarus, a chanai gerddi ar rai prydiau. Yn yr adeg hyny, 1828, ymadewais i am y wlad hon, a'r newydd cyntaf a glywais am dano ar ol d'od yma, ydoedd ei fod wedi canu yn iach i'r hen lwybrau, a dechreu rhodio yn llwybrau doethineb, yr hon mae ei ffyrdd yn hyfrydwch, a'i llwybrau yn heddwch. Yr oedd natur wedi ei wneud yn hynod at dderbyn gras; yr oedd o ddeall cyflym a threiddgar, o hyawdledd naturiol, ac o dymher addfwyn, hynaws, a chyfeillgar.

Irwyd tymor i Robert Thomas—fel
Dan nefolaidd urddas;
I'w ddonio ef i Dduw'n was
Ireiddiwyd o'n wir addas.

Yr ydych yn crybwyll am yr awdwr enwog Dr. George Lewis, am yr hwn y dywedir fod gan Ap Vychan feddwl uchel iawn. Nid wyf fi yn cofio dim gwerth am dano. Efe a'm bedyddiodd. Cof genyf fyn'd efo fy mam, yr hon oedd yn meddwl yn fawr o'r Dr., i wrando arno yn pregethu mewn ty anedd o'r enw Talardd; ond nid aethum ddim pellach na'r drws tu allan, felly ni welais ef, ac ni ddeallais air. Yr oedd gan Ap Vychan syniad uchel am yr Hybarch Michael Jones. Gyda M. Jones y bum i yn cael hyny o ysgol a gefais. Yr oedd yn ddysgawdwr da, a gwnelai ddefnydd o'r wialen fedw. Yr adnod a roddodd at fy ystyriaeth pan oeddwn yn gadael gwlad fy ngenedigaeth, ydoedd, "Yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef, ac efe a hyfforddia dy lwybrau." Mae y gorchymyn yn dyfod yn fwy priodol, a'r addewid yn fwy gwerthfawr yn fy ngolwg yn barhaus. Dyn penderfynol oedd efe, a diragrith, yn casâu y drwg, ac yn glynu wrth y da.

EOS GLAN TWRCH.

Un o'r dynion mwyaf athrylithgar ag oedd yn mhlith cyfoedion Ap Vychan oedd John, mab i Harry Rowland, Deildref, neu Sionyn Deildref, fel y'i gelwid. Dysgodd Saesonaeg heb nemawr o gymhorth. Yr oedd y digrif a'r chwerthinus yn ormod o brofedigaeth iddo, fel ag yr oedd yn cael ei arwain gan y duedd hon i ganu ar destynau gwagsaw. Yr oedd ei chwaeth hefyd a mawr angen ei choethi. Yr wyf yn cofio darn o gân Seisonig a gyfansoddodd pan y deuai Syr Watcyn i Lanuwchllyn yn Awst i saethu ieir mynydd. Arferai Syr Watcyn roddi gwledd i lawer o bobl y plwyf a'i cynorthwyent gyda'r saethu. Fel hyn y canodd Sionyn:—

"Syr Watcyn our chief, has
Given us relief,
He has given us plenty
Without money,
And a belly full of beef," &c.

Yr oedd ar bawb ofn awen Sionyn Deildre, am y medrai wneud rhyw wawd tyner a digrif-luniau o'r dynion a gymerai mewn llaw, ac yr oedd y cyfan mor llyfn a naturiol fel y cofid ei ganau. Canodd i Huw Morgan, teiliwr, Nantydeiliau; Mary Lewis, Hafodyrhaidd; priodas Dafydd Edward, Tanycastell, yr hwn oedd hen lanc, ac heb briodi hyd heddyw, a gwnaeth farwnad i gi Edward Robert y bugail,

Tayncastell. Ni ddarfu Ap Vychan ymyraeth erioed â thestynau o'r natur hyn. Yr oedd y canau hyn yn ei daflu draw oddiwrth y fath bethau, ac yn ei ddysgu i ddewis testynau teilwng yn sylfaen ei farddoniaeth.

Mae'n ddiamheu fod gan y Parch. Michael Jones, fel gweinidog yr Annibynwyr yn Llanuwchllyn, ran fawr yn ffurfiad cymeriad Ap Vychan. Nid oedd nemawr o'r bardd ynddo. Yr oedd Ap Vychan wedi cael ei farddoniaeth o ffynonellau eraill, a diamheu ei fod yn fardd-bregethwr o'r radd flaenaf. Ond yr oedd Ap Vychan hefyd yn dduwinydd, a Mr. Jones a fu ei arweinydd boreuaf, a'i brif arweinydd fel duwinydd. Syniadau duwinyddol y Parch. Michael Jones a goleddodd ar hyd ei oes, a'r llyfrau a gymeradwyai efe oedd ei brif lyfrau. Yr oedd Ap Vychan yn feistr ar weithiau Dr. Edward Williams o Rotherham, President Edwards o'r America, Andrew Fuller, a'u bath. Ffafryn Mr. Jones ac Ap Vychan oedd President Edwards, a'r lleoedd yr oedd y naill yn gwahaniaethu oddiwrth Edwards, yr oedd y llall yn fynychaf yn gwahaniaethu. Yr oedd Ap Vychan yn annibynol ei feddwl, ac nid oedd yn ddilynwr gwasaidd i neb. Ond yr oedd ganddo gred fawr yn ei weinidog fel arweinydd duwinyddol. Yn araf iawn y mentrai wahaniaethu oddiwrth y fath awdwr a President Edwards, ond yr oedd argyhoeddiad dwfn yn ei orfodi i wneud rai gweithiau. Credai Ap Vychan mewn purdeb bywyd a chrefyddolder, ac i hyn yr oedd yn anhawdd cael gwell esiampl nag eiddo y Parch. M. Jones.

Ni chlywid o enau Ap Vychan na Mr. Jones yr un ymadrodd llygredig. Yr oedd eu geiriau bob amser yn bur, ac yn peri gras i'r gwrandawyr. Yr oedd yma debygrwydd mawr yn nghoethineb eu cynyrchion a'u hymddyddan, a hyny yn cyfodi oddiar feddwl crefyddol, wedi ei buro gan wirionedd ac Ysbryd Duw.

Yr oedd Ap Vychan yn ddirwestwr trwyadl, fel ei hen weinidog, a pharhaodd felly hyd y diwedd. Daliodd yn gyson a digoll i lafurio yn bur ddidâl ar lawer adeg fel llwyrymataliwr oddiwrth ddiodydd meddwol. Yr wyf yn cofio tô o weinidogion a fuont yn cydgychwyn yr yrfa ddirwestol gydag ef, ond a droisant yn ol. Mae llawer o honynt wedi dal ar dir cymedroldeb, heb gwympo yn ysglyfaeth i feddwdod; ond y mae rhai wedi myned yn dra chaethion i'w blysiau, ac eraill wedi syrthio dros y dibyn. Hudoles yw'r ddiod feddwol. Mae ganddi hi allu i fyned a bryd ei haddolwyr. Yr oedd Michael Jones ac Ap Vychan yn ddynion nerthol, ac fel olwyn gref yn meddu digon o ganol i gylymu eu haelodau yn nghyd. Nid oeddent fel rhai dynion yn ysbagau i gyd, fel olwyn melin wynt. Yr oeddent ill deuoedd yn ddynion golygus, ac yn gredid i ddirwest, ac wedi eu gwneud o'r defnydd goreu, sef o fara ceirch. Mae hyn yn dwyn i'm cof hanesyn bychan am y Parch. John Huws, Pontrobert, yr hwn hefyd oedd o'r un fold o gorff a'r ddau uchod.

Yr oedd e' mewn cyfarfod dirwestol yn adrodd fel yr oedd wedi cyfansoddi rhigwm ar ddirwest. Dywedai wrth ei wrandawyr, "Ond i ti fod yn sobr, ac addaw peidio chwerthin, mi ddywedaf i ti benill a wnaethum:"—

"Edrychwch ar wyneb a bol John Huws,
A chofiwch ei fod yn ddirwestwr,
Chwi welwch yn union fod llawer o faeth
I'w gael allan o laeth a glasdwr."

Yr oedd yn anhawdd cwrdd â gwell cronfa o faeth a nerth nag oedd yn John Huws, Pontrobert, Michael Jones, Llanuwchllyn, ac Ap Vychan, a'r tri yn ddirwestwyr, a'u diod oedd dw'r, llaeth, a glasdwr. Gwyn fyd na fyddai pob gweinidog yn ddirwestwr fel y tri uchod. Arbedid cymdeithas grefyddol felly rhag cael ei chlwyfo yn nhy ei charedigion. Llafuriodd Ap Vychan lawer yn bur ddidâl ar adegau fel dirwestwr. Nid oedd yn ddyn ariangar, ac ni chafodd gyflog mawr erioed, ac ni adawodd argraff yn un man y bu mai arian oedd ei nod. Aeth lawer gwaith i gymoedd anghysbell am ychydig neu am ddim i gyhoeddi'r efengyl, ac i gynal cyfarfodydd buddiol, "canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gwobrwy."

Fel ag y mae gan wahanol fryniau a mynyddoedd, creigiau a chlogwyni, dolydd a dyffrynoedd, eu dylanwad i ffurfio gwely'r afon a fyddo yn rhedeg heibio iddynt, un yn ei gŵyro yn y man hyn, a'r llall yn ei throi yn y man arall; felly y personau, y pethau, a'r amgylchiadau sydd eisoes wedi eu nodi a weiniasant yn benaf i lunio cymeriad, ac i ddadblygu athrylith Ap Vychan. Ond rhaid priodoli mwy i Dduw nag i bawb a phobpeth gyda'u gilydd. Efe sydd oll yn oll, ac efe oedd y ffynon o ba un y tarddodd rhaiadr athrylith Ap Vychan. Oddiuchod o'r cymylau y mae pob afon yn dyfod i ddechreu. Mewn afon loyw a fyddo'n rhedeg dros gerygos a graian dolydd a chymoedd, ar ddiwrnod clir, gellir gweled delw'r haul yn mhob llyn a ffrwd, a'i oleu yn chwareu ar grychni'r tònau; felly yr oedd delw Duw, a'i ogoniant mewn creadigaeth, rhagluniaeth, a gras, yn llewyrchu yn holl bregethau, a darlithiau, ac ysgrifau, ac ymddyddanion Ap Vychan; ond yn neillduol felly yn ei fywyd pur. Yr oedd efe yn epistol byw o Grist.

Fel duwinydd, yr oedd Ap Vychan yn gyfarwydd iawn â gweithiau y duwinyddion Puritanaidd. Yr oedd efe bob amser yn ddarllenwr caled, ac fel yr haul yn rhedeg ei yrfa. Yr oedd efe wrth y gwaith o geisio gwybodaeth yn barhaus, a chyda ei holl orchwylion yn brydlon. Yr oedd ei ddeall yn gyflym, a'i gof yn elephantaidd, dau beth ag sydd yn cydfyned ond anfynych.

Fel gweinidog, yr oedd yn ganmoladwy am bregethu yn ddigoll yn ei bulpud, ac yn dda bob amser, weithiau yn rhagorol. Yr oedd ynddo fedr mawr i arwain eglwys, yn gŵyro gormod i'r ochr dyner, a mwyaf boddhaol i ddynion, er y medrai hèrio pawb a phobpeth, ond ei gynhyrfu. Nid oedd hyny yn waith rhwydd. Byddai bob

amser yn tybio fod ei fynediad i wasanaeth yn moreu ei oes wedi llareiddio annibyniaeth ei ysbryd yn ormodol, ac yr oedd ei diriondeb yn brofedigaeth iddo. Yr oedd ei synwyr a'i hynawsedd wedi ei gario drwy lawer helbul yn more ei fywyd. Gwyddai yn dda am nerth cariad i ladd cenfigen, er fod ambell i genfigen nad oes un cariad ar y ddaear nac yn y nefoedd a'i lladd. Gwyddai hefyd, ar rai adegau, beth oedd bod yn gall fel y sarph, a diniwed fel y golomen, a gwelid y naill fel y llall yn chwareu yn nghornel ei lygaid.

Fel pregethwr, yr oedd yn odidog, ac ar y blaen. Hen wirioneddau'r efengyl a bregethai efe. Mae ysfa mewn rhai am bethau newydd, fel ffasiynau newydd mewn gwisgoedd. Nid oes ffasiwn newydd mewn gwirionedd, ond y mae fel Duw, yr un o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb. Mae rhai yn blino ar foddion gras, ac yn gwaeddi am newydd-deb. Ant i ffeiriau a marchnadoedd, lle nad oes dim newydddeb, ond anifeiliaid a nwyddau, fel ag oedd mewn ffeiriau bum' can' mlynedd yn ol. Onid hen drefn yw gwisgo a bwyta? Eto nid ydym yn blino arnynt am eu bod yn hen. Mae'r awyr, a'r ffurfafen, a'r haul, a'r lloer, yn hen, ac y maent mor werthfawr gan bawb a'r dydd cyntaf y daethant i fodolaeth. Yr oedd gweinidogaeth Ap Vychan yr un fath, yn llawn o hen chwedl y groes, na fynem ei newid am un efengyl arall; ac nid oedd neb yn blino arno mwy nag ar ddydd a nos, a gwahanol dymhorau y flwyddyn. A'i waith mae'n ddiamheu yn y nefoedd heddyw yw canu, "Mai teilwng yw'r Oen a laddwyd." Bu am flynyddau lawer yn brif nerth ein cyfarfodydd cyhoeddus a'n cymanfaoedd, ac ni chlywais ei fod un amser yn ystrancio o eisieu cael eistedd yn nghadair Moses, nac yn cynllwyna sut i'w chael. Bu yn olygydd llwyddianus ar y *Dysgedydd*, a chodwyd ef i gylchrediad mawr, a bu yn athraw yr un mor llwyddianus yn Athrofa'r Bala. Casglodd yr athrofa nerth drwy ychwanegu ei thrysor a'i myfyrwyr ar ol iddo dd'od yno.

Er y gwyddai lluaws o frodyr a chyfeillion fod iechyd Mr. Thomas wedi anmharu yn fawr er's amryw fisoedd, achosodd y newydd o'i farwolaeth, tua dau o'r gloch boreu dydd Gwener, y 23ain o Ebrill, 1880, syndod mawr i laweroedd, a thristwch dwys drwy'r wlad yn gyffredinol. Teimlai pawb fod "tywysog a gwr gwir fawr yn Israel wedi syrthio," a bod bylchau mawrion, mewn gwahanol gylchoedd, wedi cael eu gwneud drwy ei farwolaeth. Safai yn rhestr y "cedyrn cyntaf" fel llenor, bardd, darlithiwr, pregethwr, a duwinydd. Anhawdd dyfalu pa bryd a pha fodd y gwneir y bylchau i fyny yn yr eglwys oedd yn arbenigol dan ei ofal, yn yr athrofa, yn mhulpudau y wlad, ac yn ngolygiaeth y *Dysgedydd!* "Cyflawnodd ei weinidogaeth" yn anrhydeddus iawn, a meistrolgar am lawer o flynyddoedd, yn mhob un o'r cylchoedd a enwyd; ond trwy yr amgylchiad galarus, mor fawr yw yr adwyau heddyw!

Claddwyd ef ddydd Mawrth, y 27ain, yn mynwent plwyf Llanuwchllyn, yn meddrod teulu ei ail wraig, lle y claddesid hithau hefyd, yn ol ei dymuniad hi a'i gydsyniad yntau. Yr oedd y darpariadau mewn cysylltiad â'r angladd yn bobpeth a allesid eu dymuno. Am haner dydd, cyfarfyddwyd yn addoldy y Trefnyddion Calfinaidd; ac ar ol darllen rhanau o air yr Arglwydd, a gweddïo, canwyd penill neu ddau yn deimladol iawn, a chafwyd anerchiadau byrion gan ddau neu dri o'r brodyr, a chan y Dr. Edwards; ac wedi canu a gweddïo yn fyr, parotowyd at gychwyn i Lanuwchllyn. Trefnwyd fod i'r gweinidogion a'r myfyrwyr o bob enwad fyned i'r blaen, yna yr elorgerbyd; ac yn nesaf y galargerbydau, yn cludo y perthynasau agosaf, a'r dorf yn dilyn. Tystiai amryw o'r hen breswylwyr na welwyd claddedigaeth mwy lluosog yn eu cof hwy, yn myned allan o dref y Bala. Pregethwyd yn Llanuwchllyn ac yn y Bala yn yr hwyr i gynulleidfaoedd lluosog a galarus.

Yn mhlith eraill, sylwasom ar y gweinidogion canlynol yn yr angladd:—Y Parchn. Dr. Edwards, Bala; M. D. Jones, Bala; Wm. Edwards, Aberdar; Davies, Abergele; Jones, Mostyn; Evans, Amlwch; D. G. Evans, Penrhyn; Howells, Arthog; J. Pritchard, Corwen; Ellis Edwards (T.C.), Bala; Evan Peters (T.C.), Bala; Jones, Llanddaniel; Davies, Bangor; Thomas, Llanfairfechan; Jones, Rhesycae; Rees, Capelmawr; Jones, Dolyddelen; Thomas, Maesglas; Thomas, Fflint; Evans, Llandderfel; Evans, Llandegla; Davies, Llandrillo; Roberts, Brymbo; Lewis, Birmingham; Evans, Samah; Edwards, Graigfechan; Mathias (B.), Bala; Parry, Ffestiniog; D. Griffiths, Dolgellau; Jones, Trawsfynydd; Davies, Llanddulas; Powell, Drefnewydd; Charles, Llanuwchllyn; Mathers, Abermaw; Williams (T.C.), Corwen; Hugh Williams (T.C.), Bala; Evan Jones (C.M.), Pentrecelyn; D. C. Edwards (C.M.), Bala; Williams, Llanelltyd; Thomas, Newmarket; Roberts (T.C.), Rhydymain; heblaw tua 60 i 100 o fyfyrwyr.

# TRAETHODAU DUWINYDDOL.

# DARLITHIAU AR DDUWINYDDIAETH.

## DARLITH RAGARWEINIOL.*

ANWYL FRODYR IEUAINC: Trwy ganiatâd dwyfol Ragluniaeth, yr wyf yn bwriadu traddodi i chwi gyfres o Ddarlithiau ar Dduwinyddiaeth, Gwyddoniaeth foesol, natur a threfn Eglwys Gristionogol, Pregethiad yr Efengyl, Bedydd a Swper yr Arglwydd, ac ymarweddiad anrhydeddus yn y Weinidogaeth.

Gallai na chymerir y pynciau hyn dan sylw bob amser yn ol y drefn y gosodir hwy i lawr yma; ond ymdrechir, os estynir i mi nerth ac iechyd, rhoddi ystyriaeth briodol i bob un o honynt yn ei dro.

Nid fy amcan i fydd gosod fy ngolygiadau fy hunan fel baich arnoch *chwi*, a'ch rhwymo *chwi* i dderbyn y syniadau a goleddir genyf fi. Byddai hyny yn annaturiol ac yn afresymol. Ond fy amcan fydd egluro y syniadau a ymddangosant i mi, mor bell ag y cyrhaeddant, yn seiliedig ar egwyddorion y dadguddiad dwyfol, a dodi ger eich bronau y profion a'm boddlonant i eu bod felly. Bydd yn angenrheidiol i mi yn fynych sylwi ar olygiadau gwrthwynebol i'r eiddof fy hun; ond yr wyf yn benderfynol i wneuthur cyfiawnder a thegwch â hwynt, mor bell ag y byddo yn ddichonadwy i mi. Yr wyf yn credu yn ddiysgog mai "Rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei llafar;" ac fel nad wyf fy hun yn foddlon i dderbyn unrhyw olygiadau nad yw fy meddwl yn argyhoeddedig o'u tegwch a'u gwirionedd, felly nid wyf am i eraill wneuthur hyny mwy na minau. Barned pob un drosto ei hun, ond bydded pob barn yn ystyriol, bwyllog, ac wedi ei phwyso yn fanwl yn nghlorian deg Gair Duw. Un o'm prif amcanion yn y darlithiau hyn ydyw anog a chynhyrfu y myfyrwyr i ymchwiliaeth ddyfal a diflino am y gwirionedd ar y gwahanol byncïau yr ymdrinir â hwynt, ac i brynu y gwir, drwy dalu y pris gofynol am dano mewn llafur diarbed; ac yna i'w ddal, ac i beidio ei werthu byth, pe gallent gael hyd yn nod yr holl fydysawd am dano.

Rhaid i bob dyn ystyriol gydnabod fod anhawsderau yn perthyn agos i bob pwnc y dylai myfyriwr ei gymeryd dan ei ystyriaeth. Dylai hyny ddysgu gwylder, gostyngeiddrwydd, a pharchedig ofn i ni wrth ymdrin â gwahanol faterion. Er hyny, dylid addef yn rhwydd fod gwahanol byncïau duwinyddiaeth yn dra eglur, mor bell ag y mae y datguddiad o honynt yn cyrhaeddyd. Fel rheol, wedi i ni fyned allan o dir y Datguddiad a roddes yr Arglwydd i ni, i dir

* Yr wyf wedi dechreu darlithio yn y Bala, Gorphenaf 3ydd, 1872. Hon oedd y Ddarlith gyntaf yno.—AP VYCHAN.

dychymygion a thyb-osodiadau, y mae yr anhawsderau mwyaf yn ein cyfarfod. Mae y pethau a ddywed yr Ysgrythyr, ar y cyfan, yn oleu iawn: "Pethau amlwg a roddwyd i ni;" ond pan fyddom yn *orawyddus* am wybod pethau na welodd yr Arglwydd yn addas eu datguddio, ac i wybod y "paham a'r pa fodd" am y gwirioneddau a ddatguddiwyd, dyna y pryd yr amgylchynir ni gan yr anhawsderau mwyaf o lawer.

Wrth ddywedyd fel yna, nid wyf fi mewn un modd yn gwadu buddioldeb tyb-osodiadau er ateb amcanion neillduol, a phwysig hefyd, i'r myfyriwr yn ei ymchwiliadau am y gwirionedd; ond yr wyf yn dywedyd y dylai efe fod yn dra gofalus am beidio rhoddi gormod o bwys arnynt, ac am eu bod, mor bell ag y gallo efe ddirnad, yn gyson â'r pethau sydd wedi eu datguddio i ni yn yr Ysgrythyrau, ac yn ngweithredoedd yr Arglwydd, ac yn gorwedd yn esmwyth ar y parch goruchel sydd yn ddyledus oddiwrth bawb i Air Duw.

Nid ydwyf yn amheu na ddylai myfyriwr geisio gwybod pob peth a ellir wybod yn y fuchedd hon. Yr wyf yn defnyddio y gair *myfyriwr* yma, nid yn unig am y rhai sydd mewn colegau yn ymbarotoi i'r weinidogaeth, ond am astudwyr yn gyffredinol. Ond eglur ydyw y dylai pob dyn, wrth chwilio o'r naill beth i'r llall i "gael y rheswm," fod yn dra gofalus am degwch a chywirdeb ei ragosodiadau, ac am fod ei gasgliadau oddiwrthynt yn deg a diduedd, ac yn gorwedd yn gadarn ar y "pethau amlwg" a roddwyd i ni ac i'n plant. Er engraifft: dengys y Beibl yn eglur,—yn wir, y mae yn cymeryd y pwnc yn ganiataol fel peth wedi ei brofi eisoes gan natur a Rhagluniaeth,—fod *Un* Duw yn bodoli, ac nad oes ond *Un* Bod tragwyddol, hollbresenol, hollalluog, anghyfnewidiol, ac anfeidrol yn ei holl briodoleddau. Ond dengys yr Ysgrythyr yn mhellach, fod Duw yn bodoli yn *dri* o bersonau, cyd-dragwyddol a gogyfuwch. Yn awr, dylai pob syniad fyddo gan ddyn am y Brenin mawr fod mewn cysondeb âg unoliaeth y Duwdod ar un llaw, ac â Thrindodiaeth yr *un* Duw ar y llaw arall. Os dechreua dyn ymresymu oddiwrth ddull bodolaeth y creadur at ddull bodolaeth y Creawdwr, bydd yn debyg o wadu athrawiaeth y Drindod ar un tu, neu o wadu unoliaeth y Duwdod ar y tu arall; a byddai gwadu y naill neu y llall yn hollol groes i'r datguddiad a roddodd Duw ei hun am dano ei hun i ni yn yr Ysgrythyrau. Dengys yr engraifft hon y mawr bwys i ni ffurfio ein golygiadau ar bob peth mewn cysondeb â'r "pethau amlwg" sydd wedi eu datguddio yn y Beibl, a'r perygl sydd i ni drwy ein tybiau a'n dychymygion ein hunain wyro oddiwrth y safon anffaeledig a roddodd Duw i ni yn ei Air i ffurfio ein syniadau wrthi.

Gan y bwriedir, mewn darlithiau dilynol i hon, alw eich sylw at amryw o bynciau perthynol i dduwinyddiaeth, a phethau eraill y byddai yn fuddiol i chwi fel gweinidogion y Gair yn y dyfodol fod yn hyddysg ynddynt, gallai mai y peth goreu a allaf fi wneud yn y Ddarlith Ragarweiniol hon ydyw ceisio dangos i chwi y pwysigrwydd i bob un o honoch astudio duwinyddiaeth, a phethau eraill cysylltiedig

â duwinyddiaeth, yn fanwl a thrwyadl mewn trefn i fod yn weinidogion cymhwys y Testament Newydd yn y cylchoedd y gosodo dwyfol Ragluniaeth chwi i droi.

Mae y gair, neu y *term* duwinyddiaeth, o ystyr eang, a gall yn briodol gynwys yr oll a ddatguddiwyd i ni gan yr Arglwydd yn natur, Rhagluniaeth, a'r Ysgrythyrau. Gall gynwys, nid yn unig y gwirioneddau datguddiedig am Dduw o ran ei natur, y dull y bodola, ei gynlluniau, ei weithredoedd mewn crëu, cynal, llywodraethu ei greaduriaid, ac achub pechaduriaid i fywyd tragwyddol—y gwirioneddau perthynol i Berson Crist, a'i aberth, a'i swyddau cyfryngol, a'r gwirioneddau a berthynant i'r Ysbryd Glan, a'i waith yn iachawdwriaeth dynion a'r cyffelyb; ond gall y gair gynwys hefyd lawer o bethau a restrir genym ni dan enwau eraill, megys hanesiaeth ac amseryddiaeth Ysgrythyrol, arddansoddiaeth a gwyddoniaeth foesol (*metaphysics and moral science*), a llawer o ddosbarthiadau eraill. Er hyny, y mae y gair *duwinyddiaeth* yn cael ei gyfyngu yn gyffredin o fewn cylch y pethau sydd yn dal y cysylltiad agosaf a mwyaf uniongyrchol â chrefydd. Ond wrth wasgu at eich meddyliau chwi, fel myfyrwyr, y pwysigrwydd i chwi fod yn hyddysg mewn duwinyddiaeth, yr wyf yn cymeryd y gair fel yn cynwys yr holl bethau y mae a fyno gweinidog yr efengyl yn *benaf* â hwynt wrth hyfforddi ei wrandawyr mewn crefydd bur, ac ymarweddiad santaidd, a bywyd defnyddiol i'w cyd-ddynion fel deiliaid barn a byd arall. Ond ar ba ystyriaethau y mae yn bwysig i weinidogion y Gair fod yn gyfarwydd mewn duwinyddiaeth? Paham y cymhellir ein myfyrwyr i ddyfal astudio duwinyddiaeth? Yn mysg pethau eraill, gallwn sylwi:—

1. Oblegid fod gwirioneddau duwinyddiaeth y rhai ardderchocaf y bu dyn neu angel erioed yn myfyrio ynddynt. Pa wirioneddau a all fod mor odidog a'r rhai a berthynant i Dduw a'i briodoleddau, ei arfaethau, a'i weithredoedd; i Berson Crist, a'i holl waith fel Cyfryngwr rhwng Duw a dynion; i'r Ysbryd Glan, a'r oll a wna yn iachawdwriaeth pechaduriaid; cyflwr andwyol dyn syrthiedig, a'r efengyl dragwyddol yn yr oll ag ydyw ar gyfer sefyllfa dynolryw? Y fath bynciau ardderchog ydyw Iawn Crist, cyfrifiad, dylanwad dwyfol, adenedigaeth, cyfiawnhad, santeiddiad, parhad mewn gras, adgyfodiad y meirw, y farn dragwyddol, a'r byd a ddaw! Mae y fath bynciau ardderchog yn rhwym o ardderchogi y meddwl a ymhyfrydo ynddynt, ac a dreiddio iddynt gydag egni diarbed. Nid oes gwrthddrychau i'w cael drwy y greadigaeth fel y rhai y sylla y duwinydd arnynt, ac y mae y dybenion uwchaf a gogoneddusaf i'w cyrhaeddyd drwy gynydd gweinidog yr efengyl mewn gwybodaeth a phrofiad o honynt.

2. Mae gweinidogaeth yr efengyl wedi ei hordeinio gan Dduw i ddysgu crefydd Crist i'r byd. Gan hyny, y mae y cylch y troa gweinidog yr efengyl ynddo yn un anrhydeddus iawn. Os oes rhyw fyfyriwr i'w gael sydd yn edrych yn isel ar swydd y weinidogaeth, mae hwnw yn amddifad o un o'r prif gymhwysderau i'w chyflawni

Claddwyd ef ddydd Mawrth, y 27ain, yn mynwent plwyf Llanuwchllyn, yn meddrod teulu ei ail wraig, lle y claddesid hithau hefyd, yn ol ei dymuniad hi a'i gydsyniad yntau. Yr oedd y darpariadau mewn cysylltiad â'r angladd yn bobpeth a allesid eu dymuno. Am haner dydd, cyfarfyddwyd yn addoldy y Trefnyddion Calfinaidd; ac ar ol darllen rhanau o air yr Arglwydd, a gweddïo, canwyd penill neu ddau yn deimladol iawn, a chafwyd anerchiadau byrion gan ddau neu dri o'r brodyr, a chan y Dr. Edwards; ac wedi canu a gweddïo yn fyr, parotowyd at gychwyn i Lanuwchllyn. Trefnwyd fod i'r gweinidogion a'r myfyrwyr o bob enwad fyned i'r blaen, yna yr elorgerbyd; ac yn nesaf y galargerbydau, yn cludo y perthynasau agosaf, a'r dorf yn dilyn. Tystiai amryw o'r hen breswylwyr na welwyd claddedigaeth mwy lluosog yn eu cof hwy, yn myned allan o dref y Bala. Pregethwyd yn Llanuwchllyn ac yn y Bala yn yr hwyr i gynulleidfaoedd lluosog a galarus.

Yn mhlith eraill, sylwasom ar y gweinidogion canlynol yn yr angladd:—Y Parchn. Dr. Edwards, Bala; M. D. Jones, Bala; Wm. Edwards, Aberdar; Davies, Abergele; Jones, Mostyn; Evans, Amlwch; D. G. Evans, Penrhyn; Howells, Arthog; J. Pritchard, Corwen; Ellis Edwards (T.C.), Bala; Evan Peters (T.C.), Bala; Jones, Llanddaniel; Davies, Bangor; Thomas, Llanfairfechan; Jones, Rhesycae; Rees, Capelmawr; Jones, Dolyddelen; Thomas, Maesglas; Thomas, Fflint; Evans, Llandderfel; Evans, Llandegla; Davies, Llandrillo; Roberts, Brymbo; Lewis, Birmingham; Evans, Samah; Edwards, Graigfechan; Mathias (B.), Bala; Parry, Ffestiniog; D. Griffiths, Dolgellau; Jones, Trawsfynydd; Davies, Llanddulas; Powell, Drefnewydd; Charles, Llanuwchllyn; Mathers, Abermaw; Williams (T.C.), Corwen; Hugh Williams (T.C.), Bala; Evan Jones (C.M.), Pentrecelyn; D. C. Edwards (C.M.), Bala; Williams, Llanelltyd; Thomas, Newmarket; Roberts (T.C.), Rhydymain; heblaw tua 60 i 100 o fyfyrwyr.

# TRAETHODAU DUWINYDDOL.

# DARLITHIAU AR DDUWINYDDIAETH.

## DARLITH RAGARWEINIOL.*

ANWYL FRODYR IEUAINC: Trwy ganiatâd dwyfol Ragluniaeth, yr wyf yn bwriadu traddodi i chwi gyfres o Ddarlithiau ar Dduwinyddiaeth, Gwyddoniaeth foesol, natur a threfn Eglwys Gristionogol, Pregethiad yr Efengyl, Bedydd a Swper yr Arglwydd, ac ymarweddiad anrhydeddus yn y Weinidogaeth.

Gallai na chymerir y pynciau hyn dan sylw bob amser yn ol y drefn y gosodir hwy i lawr yma; ond ymdrechir, os estynir i mi nerth ac iechyd, rhoddi ystyriaeth briodol i bob un o honynt yn ei dro.

Nid fy amcan i fydd gosod fy ngolygiadau fy hunan fel baich arnoch *chwi*, a'ch rhwymo *chwi* i dderbyn y syniadau a goleddir genyf fi. Byddai hyny yn annaturiol ac yn afresymol. Ond fy amcan fydd egluro y syniadau a ymddangosant i mi, mor bell ag y cyrhaeddant, yn seiliedig ar egwyddorion y dadguddiad dwyfol, a dodi ger eich bronau y profion a'm boddlonant i eu bod felly. Bydd yn angenrheidiol i mi yn fynych sylwi ar olygiadau gwrthwynebol i'r eiddof fy hun; ond yr wyf yn benderfynol i wneuthur cyfiawnder a thegwch â hwynt, mor bell ag y byddo yn ddichonadwy i mi. Yr wyf yn credu yn ddiysgog mai "Rhydd i bawb ei farn, ac i bob barn ei llafar;" ac fel nad wyf fy hun yn foddlon i dderbyn unrhyw olygiadau nad yw fy meddwl yn argyhoeddedig o'u tegwch a'u gwirionedd, felly nid wyf am i eraill wneuthur hyny mwy na minau. Barned pob un drosto ei hun, ond bydded pob barn yn ystyriol, bwyllog, ac wedi ei phwyso yn fanwl yn nghlorian deg Gair Duw. Un o'm prif amcanion yn y darlithiau hyn ydyw anog a chynhyrfu y myfyrwyr i ymchwiliaeth ddyfal a diflino am y gwirionedd ar y gwahanol bynciau yr ymdrinir â hwynt, ac i brynu y gwir, drwy dalu y pris gofynol am dano mewn llafur diarbed; ac yna i'w ddal, ac i beidio ei werthu byth, pe gallent gael hyd yn nod yr holl fydysawd am dano.

Rhaid i bob dyn ystyriol gydnabod fod anhawsderau yn perthyn agos i bob pwnc y dylai myfyriwr ei gymeryd dan ei ystyriaeth. Dylai hyny ddysgu gwylder, gostyngeiddrwydd, a pharchedig ofn i ni wrth ymdrin â gwahanol faterion. Er hyny, dylid addef yn rhwydd fod gwahanol bynciau duwinyddiaeth yn dra eglur, mor bell ag y mae y datguddiad o honynt yn cyrhaeddyd. Fel rheol, wedi i ni fyned allan o dir y Datguddiad a roddes yr Arglwydd i ni, i dir

* Yr wyf wedi dechreu darlithio yn y Bala, Gorphenaf 3ydd, 1872. Hon oedd y Ddarlith gyntaf yno.—AP VYCHAN.

dychymygion a thyb-osodiadau, y mae yr anhawsderau mwyaf yn ein cyfarfod. Mae y pethau a ddywed yr Ysgrythyr, ar y cyfan, yn oleu iawn: "Pethau amlwg a roddwyd i ni;" ond pan fyddom yn *orawyddus* am wybod pethau na welodd yr Arglwydd yn addas eu datguddio, ac i wybod y "paham a'r pa fodd" am y gwirioneddau a ddatguddiwyd, dyna y pryd yr amgylchynir ni gan yr anhawsderau mwyaf o lawer.

Wrth ddywedyd fel yna, nid wyf fi mewn un modd yn gwadu buddioldeb tyb-osodiadau er ateb amcanion neillduol, a phwysig hefyd, i'r myfyriwr yn ei ymchwiliadau am y gwirionedd; ond yr wyf yn dywedyd y dylai efe fod yn dra gofalus am beidio rhoddi gormod o bwys arnynt, ac am eu bod, mor bell ag y gallo efe ddirnad, yn gyson â'r pethau sydd wedi eu datguddio i ni yn yr Ysgrythyrau, ac yn ngweithredoedd yr Arglwydd, ac yn gorwedd yn esmwyth ar y parch goruchel sydd yn ddyledus oddiwrth bawb i Air Duw.

Nid ydwyf yn amheu na ddylai myfyriwr geisio gwybod pob peth a ellir wybod yn y fuchedd hon. Yr wyf yn defnyddio y gair *myfyriwr* yma, nid yn unig am y rhai sydd mewn colegau yn ymbarotoi i'r weinidogaeth, ond am astudwyr yn gyffredinol. Ond eglur ydyw y dylai pob dyn, wrth chwilio o'r naill beth i'r llall i "gael y rheswm," fod yn dra gofalus am degwch a chywirdeb ei ragosodiadau, ac am fod ei gasgliadau oddiwrthynt yn deg a diduedd, ac yn gorwedd yn gadarn ar y "pethau amlwg" a roddwyd i ni ac i'n plant. Er engraifft: dengys y Beibl yn eglur,—yn wir, y mae yn cymeryd y pwnc yn ganiataol fel peth wedi ei brofi eisoes gan natur a Rhagluniaeth,—fod *Un* Duw yn bodoli, ac nad oes ond *Un* Bod tragwyddol, hollbresenol, hollalluog, anghyfnewidiol, ac anfeidrol yn ei holl briodoleddau. Ond dengys yr Ysgrythyr yn mhellach, fod Duw yn bodoli yn *dri* o bersonau, cyd-dragwyddol a gogyfuwch. Yn awr, dylai pob syniad fyddo gan ddyn am y Brenin mawr fod mewn cysondeb âg unoliaeth y Duwdod ar un llaw, ac â Thrindodiaeth yr *un* Duw ar y llaw arall. Os dechreua dyn ymresymu oddiwrth ddull bodolaeth y creadur at ddull bodolaeth y Creawdwr, bydd yn debyg o wadu athrawiaeth y Drindod ar un tu, neu o wadu unoliaeth y Duwdod ar y tu arall; a byddai gwadu y naill neu y llall yn hollol groes i'r datguddiad a roddodd Duw ei hun am dano ei hun i ni yn yr Ysgrythyrau. Dengys yr engraifft hon y mawr bwys i ni ffurfio ein golygiadau ar bob peth mewn cysondeb â'r "pethau amlwg" sydd wedi eu datguddio yn y Beibl, a'r perygl sydd i ni drwy ein tybiau a'n dychymygion ein hunain wyro oddiwrth y safon anffaeledig a roddodd Duw i ni yn ei Air i ffurfio ein syniadau wrthi.

Gan y bwriedir, mewn darlithiau dilynol i hon, alw eich sylw at amryw o byneiau perthynol i dduwinyddiaeth, a phethau eraill y byddai yn fuddiol i chwi fel gweinidogion y Gair yn y dyfodol fod yn hyddysg ynddynt, gallai mai y peth goreu a allaf fi wneud yn y Ddarlith Ragarweiniol hon ydyw ceisio dangos i chwi y pwysigrwydd i bob un o honoch astudio duwinyddiaeth, a phethau eraill cysylltiedig

â duwinyddiaeth, yn fanwl a thrwyadl mewn trefn i fod yn weinidogion cymhwys y Testament Newydd yn y cylchoedd y gosodo dwyfol Ragluniaeth chwi i droi.

Mae y gair, neu y *term* duwinyddiaeth, o ystyr eang, a gall yn briodol gynwys yr oll a ddatguddiwyd i ni gan yr Arglwydd yn natur, Rhagluniaeth, a'r Ysgrythyrau. Gall gynwys, nid yn unig y gwirioneddau datguddiedig am Dduw o ran ei natur, y dull y bodola, ei gynlluniau, ei weithredoedd mewn crëu, cynal, llywodraethu ei greaduriaid, ac achub pechaduriaid i fywyd tragwyddol—y gwirioneddau perthynol i Berson Crist, a'i aberth, a'i swyddau cyfryngol, a'r gwirioneddau a berthynant i'r Ysbryd Glan, a'i waith yn iachawdwriaeth dynion a'r cyffelyb; ond gall y gair gynwys hefyd lawer o bethau a restrir genym ni dan enwau eraill, megys hanesiaeth ac amseryddiaeth Ysgrythyrol, arddansoddiaeth a gwyddoniaeth foesol (*metaphysics and moral science*), a llawer o ddosbarthiadau eraill. Er hyny, y mae y gair *duwinyddiaeth* yn cael ei gyfyngu yn gyffredin o fewn cylch y pethau sydd yn dal y cysylltiad agosaf a mwyaf uniongyrchol â chrefydd. Ond wrth wasgu at eich meddyliau chwi, fel myfyrwyr, y pwysigrwydd i chwi fod yn hyddysg mewn duwinyddiaeth, yr wyf yn cymeryd y gair fel yn cynwys yr holl bethau y mae a fyno gweinidog yr efengyl yn *benaf* â hwynt wrth hyfforddi ei wrandawyr mewn crefydd bur, ac ymarweddiad santaidd, a bywyd defnyddiol i'w cyd-ddynion fel deiliaid barn a byd arall. Ond ar ba ystyriaethau y mae yn bwysig i weinidogion y Gair fod yn gyfarwydd mewn duwinyddiaeth? Paham y cymhellir ein myfyrwyr i ddyfal astudio duwinyddiaeth? Yn mysg pethau eraill, gallwn sylwi:—

1. Oblegid fod gwirioneddau duwinyddiaeth y rhai ardderchocaf y bu dyn neu angel erioed yn myfyrio ynddynt. Pa wirioneddau a all fod mor odidog a'r rhai a berthynant i Dduw a'i briodoleddau, ei arfaethau, a'i weithredoedd; i Berson Crist, a'i holl waith fel Cyfryngwr rhwng Duw a dynion; i'r Ysbryd Glan, a'r oll a wna yn iachawdwriaeth pechaduriaid; cyflwr andwyol dyn syrthiedig, a'r efengyl dragwyddol yn yr oll ag ydyw ar gyfer sefyllfa dynolryw? Y fath bynciau ardderchog ydyw Iawn Crist, cyfrifiad, dylanwad dwyfol, adenedigaeth, cyfiawnhad, santeiddiad, parhad mewn gras, adgyfodiad y meirw, y farn dragwyddol, a'r byd a ddaw! Mae y fath bynciau ardderchog yn rhwym o ardderchogi y meddwl a ymhyfrydo ynddynt, ac a dreiddio iddynt gydag egni diarbed. Nid oes gwrthddrychau i'w cael drwy y greadigaeth fel y rhai y sylla y duwinydd arnynt, ac y mae y dybenion uwchaf a gogoneddusaf i'w cyrhaeddyd drwy gynydd gweinidog yr efengyl mewn gwybodaeth a phrofiad o honynt.

2. Mae gweinidogaeth yr efengyl wedi ei hordeinio gan Dduw i ddysgu crefydd Crist i'r byd. Gan hyny, y mae y cylch y troa gweinidog yr efengyl ynddo yn un anrhydeddus iawn. Os oes rhyw fyfyriwr i'w gael sydd yn edrych yn isel ar swydd y weinidogaeth, mae hwnw yn amddifad o un o'r prif gymhwysderau i'w chyflawni

yn deilwng, a byddai yn well iddo droi ei sylw at ryw orchwyl arall mwy cydnaws â'i chwaeth a'i dueddfryd. Mae y fath ymddiriedaeth a gweinidogaeth yr efengyl yn hawlio i ddyn fod mor hyddysg ag y byddo modd iddo yn ei holl bynciau athrawiaethol, ac ymarferol hefyd.

3. Mae yn angenrheidiol i bregethwyr yr efengyl bregethu pynciau athrawiaethol Cristionogaeth, a phregethu dyledswyddau, nid fel pe byddent yn ufudd-dod i ryw orchymynion pendant, ond fel y maent mewn gwirionedd yn seiliedig ar wirioneddau a ffeithiau digyfnewid y gyfundraeth Gristionogol. Nid i bregethu dychymygion dynol, ac i adrodd chwedlau gwrachïaidd, i ddifyru colledigion ar riniog y carchar tragwyddol, yr anfonwyd y gweinidog Cristionogol, ond i gyhoeddi holl gynghor Duw iddynt. Ond pa fodd y gall neb gyhoeddi y cynghor rhyfedd hwnw yn ei holl gyflawnder heb ei fod yn gydnabyddus âg ef fel duwinydd?

4. Mae cysur a dedwyddwch personol pregethwr yr efengyl yn y cyflawniad o'i waith pwysig, i raddau helaeth, yn troi ar y cynydd a wnelo mewn gwybodaeth dduwinyddol, a'r profiad a feddo o'i dylanwad ar ei enaid ei hun. Os bychan fydd ei gyrhaeddiadau yn y wyddoniaeth ardderchog hon, bydd yn weinidog eiddil, llwfr, ac ofnus. Arswyda gyffwrdd âg unrhyw bwnc yn yr areithfa; ysgoa bob peth dyrus; ofna gyfarfod â dynion deallus a eisteddant dan ei weinidogaeth; ni feiddia ddywedyd ei farn ar odid fater, oddieithr rhai poblogaidd ag y byddo pawb yn unfryd unfarn gyda golwg arnynt, yn mhresenoldeb ei frodyr yn y weinidogaeth. Ond os ymrydd dyn yn ieuanc i fyfyrio duwinyddiaeth, a'r canghenau eraill sydd yn gysylltiedig â hi, daw yn raddol yn gysur iddo ei hun, ac yn eofn a dedwydd yn ei waith. Bydd ganddo fwyd i'w fwyta na wyr y cyffredin ddim am dano. Meistrola y naill bwnc ar ol y llall. Esgyn yr uchelderau. Treiddia i'r dyfnderoedd. Nofia yn esmwyth a diogel mewn moroedd o fwynhad. Codir ef i awyr loywach a phurach na'r un a anadla y miloedd sydd o'i gylch. Daw yn fath o angel mewn cnawd. Bydd ei fyfyrdodau, ei serchiadau, ei ymddyddanion, a'i ymarweddiad yn y nefoedd, tra y mae eto ar y ddaear yn llafurio yn galed yn ngwinllan ei Arglwydd. Os myn dyn gysur a dedwyddwch yn ei waith, myfyried a meistroled dduwinyddiaeth.

5. Bydd yn wastadol o gylch gweinidog yr efengyl ryw ychydig o ymofynwyr manwl a chydwybodol am olygiadau cyson ar bynciau duwinyddol. Dylai yntau fod yn alluog i'w cyfarwyddo, drwy egluro iddynt gysondeb gwahanol bynciau y ffydd. Daw ambell gwestiwn ger ei fron yn lled annysgwyliadwy, ond os bydd efe yn dduwinydd da, ni phâr hyny nemawr o anghyfleusdra iddo. Ond os cyll efe hyder y dosbarth deallus o'i gynulleidfa, bydd hyny yn golled fawr a throm iddo.

6. Bydd hefyd ddosbarth o ddadleuwyr yn erbyn y gwirionedd, neu *ranau neillduol* o hono, yn wastad yn cylchynu gweinidog yr efengyl. Dylai yntau fod yn barod i dori y tir ymaith o dan draed

y cyfryw, ac i ddangos iddynt anghysondeb a gwrthuni eu golygiadau. Os gall efe wneuthur hyny, caiff ei barchu gan y cyfryw wrthddadleuwyr, er, feallai, ar yr un pryd, na chredant ei dystiolaeth. Ond pa fodd y gall efe gau safnau y fath ddynion heb iddo fod yn dduwinydd craff, ac yn feistr ar athroniaeth y meddwl dynol, gwyddoniaeth foesol, arddansoddiaeth, ac amryw o ganghenau eraill gwybodaeth fuddiol y dylai gweinidog fod yn hyddysg ynddynt?

7. Mae o bwys mawr i bregethwyr yr efengyl a gweinidogion y Gair astudio duwinyddiaeth a gwyddoniaeth foesol yn fanwl, fel y gallont osod galwad yr efengyl ar bechaduriaid ar ei sylfaen naturiol a disigl ei hun ar y naill law, a gwaith achubol yr Ysbryd Glan ar ei sylfaen briodol yntau ar y llaw arall. Mewn gair, rhaid i fyfyriwr mewn duwinyddiaeth fod yn gydnabyddus â gweinyddiadau cyfiawnder a gras tuag at ddynion cyn y gallo gyflawni gwaith y weinidogaeth yn anrhydeddus a theilwng. Ond os astudia efe yr egwyddorion hyn i bwrpas, ac egwyddorion eraill cysylltiedig â hwynt yr un modd, ni flinir ef gan adnodau yn ymddangos iddo yn gwrthdaro adnodau eraill. Daw y Beibl yn un gyfundraeth lefn a chyson yn ei olwg, a gall ar darawiad llygad weled cysondeb pethau sydd yn blino eraill fel corff y farwolaeth ar hyd eu hoes. Y duwinydd manwl sydd yn meddu rhesymau dros wasgu y ddyledswydd o gredu yn yr Arglwydd Iesu ar ei wrandawyr ar dir teg a diogel, a hwnw yn unig a wêl y gogoniant dwyfol sydd yn ngwaith yr Ysbryd Glan yn nychweliad a santeiddiad pechaduriaid, ac a rydd y gogoniant i gyd i'r Arglwydd am ei anfeidrol ras yn iachawdwriaeth colledigion.

8. Gan fod gweinidog yr efengyl i draethu holl gynghor Duw i'w wrandawyr, ac nid rhyw ranau o hono; gan ei fod yn gyfrifol i'r Arglwydd Iesu yn y diwedd am yr oll o'i weinidogaeth; gan fod esgeuluso astudio yn fanwl y pethau a ddatguddiodd yr Arglwydd yn ddirmyg ar y datguddydd; a bod y dyn a farno nad yw o bwys iddo ef ei fod yn deall llawer rhan o'r Beibl yn gosod ei hun ar uwch tir na Duw, ac yn farnwr arno, mor bell ag y mae efe yn gofyn i ddynion astudio yr oll a lefarodd, fel y gallo dyn yn y weinidogaeth ateb cydwybod dda tuag at Dduw a dynion, a rhoddi ei gyfrif i fyny yn hyderus ar ol cyflawni ei waith yn ffyddlon, cyflawn, a difefl, ymrodded i astudio ac i geisio deall duwinyddiaeth yn ei holl ranau, ac i ymarfer yr oll a ddeallo, gan fyw yr efengyl wrth ei phregethu.

Gan fy mod i yn bresenol yn dechreu traddodi darlithiau i chwi fel myfyrwyr yn yr Athrofa hon, ar gais Pwyllgor yr Athrofa, credu yr wyf fod yn briodol ac yn angenrheidiol i mi fel hyn ar y cychwyniad geisio dangos y mawr bwys fydd i chwi ar hyd eich oes weinidogaethol feddu safle gadarn ac anrhydeddus fel duwinyddion yn Nghymru, a hon yw yr adeg i chwi ymroddi i lafurio. Yn awr, wedi dangos y pwysigrwydd i chwi astudio duwinyddiaeth, er cyflawni gwaith y weinidogaeth yn anrhydeddus, gadewch i mi eto ar fyr eiriau cyn terfynu, nodi rhai o'r cymhwysderau gofynol ynoch chwithau i wneuthur hyny yn llwyddianus.

1. Bydd yn fantais fawr i chwi, yn ddiau, fod yn gydnabyddus â'r Beibl, a gallu ei ddarllen a'i ddeall yn yr ieithoedd yr ysgrifenwyd ef yn wreiddiol. Yr ydych chwi yma mewn mantais i gyrhaeddyd hyny drwy lafur egnïol, a bendith y Goruchaf ar y llafur hwnw; ac os byddwch chwi yn fyfyrwyr o'r iawn ryw, nid yma yn unig yr astudiwch chwi yr ieithoedd yn mha rai yr ysgrifenwyd yr Ysgrythyrau, ond bydd y meusydd hyny yn lleoedd i chwi fyfyrio ynddynt ar hyd eich oes, fel y cynyddoch o hyd mewn gwybodaeth o honynt.

2. Os mynwch chwi fod yn dduwinyddion deallus, rhaid i chwi ymhyfrydu yn ddirfawr yn y wyddoniaeth hòno. Nid oes nac amaethwr, na chelfyddydwr, na masnachwr, na llongwr, na gwladweinydd, a wna gynyddu yn ei alwad heb hyfrydwch mawr yn ei orchwylion. Yr un modd yn union, rhaid i chwithau feddu hyfrydwch diderfyn mewn astudio duwinyddiaeth, mewn trefn i wneud cynydd gwastadol a rheolaidd ynddi hithau. Golwg ddigon llwyd a salw fydd ar weinidog nad oes ganddo galon at ddim ond ceisio gwneud pregethau ar hyd ei oes, a bydd ei bregethau fel yntau yn ddigon llwydion a dienaid wedi pob trafferth a gymero gyda hwynt. Hyfrydwch calon Dafydd yn Ngair Duw a'i galluogodd ef i gyrhaeddyd tir uwch o ran ei wybodaeth o hono na'i holl athrawon, a gellir dywedyd yr un peth am yr Apostol Paul, a lluoedd ar ol ei ddyddiau ef.

3. Os mynwch chwi lwyddo fel duwinyddion, rhaid i chwi feddu meddyliau rhydd a hollol ddiragfarn, a bod yn barod i dderbyn pob gair a lefarodd Duw. Na wrthodwch unrhyw syniad o eiddo dynion chwaith yn unig am ei fod yn newydd, ac na dderbyniwch ef ychwaith yn unig ar y cyfrif hwnw. Cedwch eich meddyliau yn agored i dderbyn gwirionedd o ba le bynag y delo. "Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."

4. Rhaid i'r myfyriwr a fyno gyrhaeddyd safle uchel ac anrhydeddus fel duwinydd, fod yn ddiwyd a diesgeulus yn ei orchwyl. Yr un modd ag mewn cylchoedd eraill, felly yn nghylch y myfyriwr, "Llaw y diwyd a gyfoethoga." Rhaid i chwi feddu y gallu i feddwl ac i adfeddwl, i fesur a phwyso pethau yn ddiflino lawer gwaith drosodd. Rhaid i chwi drethu cwsg ac adegau o adloniant i ddringo Alpau uchel gwybodaeth dduwinyddol. Ymysgydwch oddiwrth bob syrthni, ac na ddeued difaterwch na seguryd byth yn agos i'ch trigfanau.

5. Rhaid i chwi fod yn ostyngedig, ac yn foddlawn i gymeryd eich dysgu gan y rhai a allant eich dysgu a'ch cyfarwyddo. Mae mwngloddiau duwinyddiaeth yn ddyfnion iawn; ond bu llawer o hen fwnwyr medrus i lawr yn y gwaelodion o'ch blaen chwi, a gallant roddi i chwi ychydig o gyfarwyddiadau i fyned i'r fan lle mae y trysorau, ond i chwi fod yn ddigon gostyngedig i'w derbyn. Hunanoldeb yw un o elynion penaf dynion cyhoeddus. Mi a welais luoedd o honynt, o bryd i bryd, yn trengu yn nghrafangau y gelyn hwnw. Am y dyn chwyddedig, "chwyddo y mae, heb wybod dim;" ac ni ddeuai i wybod nemawr pe byddai fyw cyhyd a Methuselah!

6. Yn olaf oll, mae duwioldeb personol dwfn a gwirioneddol yn anhebgorol angenrheidiol i ddyn mewn trefn i fod yn dduwinydd craff a choethedig. Rhaid iddo roddi banau ei ffydd mewn ymarferiad, a gweled eu gwerthfawredd yn eu gwaith. Tystiolaeth yr Arglwydd Iesu ydyw, "Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth, ai o Dduw y mae hi." Y dyn duwiol yw yr hwn a dywysir gan Ysbryd y gwirionedd i adnabyddiaeth o'r gwirionedd fel y mae yn natur, yn Rhagluniaeth, yn llywodraeth foesol Duw, ac yn nhrefn cadwedigaeth pechaduriaid—y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu.

Yma y terfynir y Ddarlith Ragarweiniol hon. Pwnc y Ddarlith nesaf fydd, "Yr Ysgrythyrau."

**Gorphenaf 3, 1872.**

## YR YSGRYTHYRAU—YR HEN DESTAMENT.

*Darlith II.*

MAE bodolaeth y Duwdod yn cael ei brofi tuhwnt i bob dadl resymol gan natur a Rhagluniaeth, "Canys ei anweledig bethau ef er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg, sef ei dragwyddol allu ef a'i Dduwdod; hyd onid ydynt (sef y paganiaid eu hunain) yn ddiesgus," Rhuf. i. 20. "Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen sydd yn mynegu gwaith ei ddwylaw ef. Dydd i ddydd a draetha ymadrodd, a nos i nos a ddengys wybodaeth." Mae y greadigaeth yn profi yn y modd egluraf fod y Creawdwr yn bodoli; y gwaith yn profi bodolaeth y gweithiwr; yr effeithiau mawrion a rhyfeddol yn profi fod yr achos o honynt yn Fod mawr a rhyfeddol. Profant ei wybodaeth, ei ddoethineb, ei allu, ei ddaioni, a'i ofal am ei greaduriaid; ac y rhaid ei fod Ef ei hun yn bodoli cyn y cyfan—*cyn pob peth, ac, o angenrheidrwydd, er tragwyddoldeb.*

Yr un modd, y mae Rhagluniaeth yn profi bodolaeth y Duwdod: "Er hyny, ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddidyst, gan wneuthur daioni, a rhoddi gwlaw o'r nefoedd i ni, a thymhorau ffrwythlawn, a llenwi ein calonau ni â lluniaeth, ac â llawenydd," Act. xiv. 17.

Mae gan ddynion brawf arall o fodolaeth Duw—yn eu mynwesau eu hunain, yn eu cyrff ac yn eu heneidiau. Mae y gwaith rhyfedd ac ofnadwy sydd ar y llygad, y glust, y genau, y cymalau, y cylla, y galon, a'r rhedwelïau, yn dwyn dyn ystyriol i ddywedyd, "Ysbryd Duw a'm gwnaeth i; ac anadl yr Hollalluog a'm bywiocaodd i;" ac "ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed."

Mae galluoedd eneidiol dyn hefyd yn profi yn eglurach eto fodolaeth Duw na'r pethau a nodwyd eisoes, sef y cymhwysderau sydd

ganddo i ddeall ac i farnu pethau, i garu ac i ewyllysio, ac i drysori ffeithiau a gwybodaethau yn ystordy mawr ei feddwl. Prawf y pethau hyn hefyd yn mhellach fod yr hwn a wnaeth ddyn yn Fod ysbrydol, yn meddu "deall aneirif," fel y dywed y Beibl; yn meddu calon lawn o gariad, ac ewyllys, sydd yn ei holl ysgogiadau dan ddylanwad pur natur anfeidrol santaidd, a'i fod yn llywodraethwr moesol ei greaduriaid rhesymol.

Heblaw hyn oll, mae ymwybodolrwydd mewn dyn o'i annigonolrwydd ei hun i ymgynal wrtho ei hunan, ac i wneud i fyny ei anghenion ei hunan. Mae yn naturiol yn myned allan o hono ei hun i chwilio am ryw FOD mwy i ymddiried ynddo am ei ddiogelwch a'i ddedwyddwch. Mae y teimlad hwn o ymddibyniaeth yn un cyffredinol, ac wrth wraidd eilunaddoliaeth yr holl fyd. Gwell gan ddyn bwyso ar bren neu faen, wedi ei wisgo â'r syniad o wybodaeth, doethineb, daioni, a gallu, na phwyso arno ei hunan, er mor uchel y synia am dano ei hunan. Mae y teimlad ymddibynol hwn, y newyn cyffredinol yma am Dduw i'w addoli ac i ymgynal wrtho, yn sicr o fod yn brawf mewnol i ddyn o fodolaeth y Duwdod, oblegid nis gellir yn rhesymol dybio fod y fath ddymuniad wedi ei roddi yn enaid dyn heb fod gwrthddrych y fath ddymuniad yn bodoli o gwbl. Ni all rheswm naturiol dyn ymlonyddu hyd nes y caffo hyd i achos cyntaf pethau. Mae yn dilyn effeithiau i'w hachosion yn berffaith naturiol o'i fabandod. Wrth weled yr haul yn codi, y gofyniad sydd yn ei feddwl ef ydyw, Pa bryd y cododd efe gyntaf erioed, a pha beth a barodd iddo ef godi y pryd hwnw? Wrth weled dyn ar ol dyn yn dyfod i'r byd, mae yn naturiol iddo ofyn, Pwy oedd y dyn cyntaf, a pha fodd y daeth hwnw i fodolaeth? Gofynai plentyn unwaith i'w dad, "Ai yr Arglwydd a wnaeth bob peth?" "Ië,' meddai y tad. "Yr haul, a'r ser, a'r ddaear, a'r coed, a'r gwartheg, a'r defaid, a phob peth?" meddai y plentyn. "Ië, pob peth." "Wel, o ba beth y gwnaeth efe bob peth?" "O ddim; dyna y gwahaniaeth sydd rhyngddo ef a ni—rhaid i ni gael pethau i wneud pethau o honynt, ond fe all ef wneud pethau heb unrhyw ddefnyddiau." "Pryd y dechreuodd efe wneud pethau?" ebe y bychan. "O, mae efe wedi dechreu er's amser maith, yn mhell cyn geni neb o honom ni," meddai y tad. "Pwy a'i gwnaeth ef ei hunan?" meddai y plentyn. "Yr oedd efe erioed, *erioed*," ebe y tad. "Sut felly?" ebai y bychan. Ond ni allai ei dad ddywedyd "sut felly," ddim ond gadael y mater yn y fan hòno.

Yr oedd gan wr deallus unwaith fachgen bychan oddeutu chwech oed. Gallai ddarllen ychydig, ond nid oedd ei dad eto wedi ei arfer i ymresymu o gwbl. Torodd y tad lythyrenau cyntaf enw y bachgen â'i fys yn y pridd yn yr ardd, a hauodd ynddynt hadau berw ffreinig; ac wedi tyfu o honynt ychydig, cymerodd y bachgen gydag ef i roddi tro yno, a chanfu yntau ei enw yn *tyfu* yn rhyw gongl yn y lle. Rhedodd at ei dad, a dywedodd wrtho mewn syndod, "Mae fy enw i yn tyfu yn y fanacw." Aeth ei dad gydag ef i weled y

rhyfeddod, a gofynai y bachgen, "Sut yr oedd pethau felly yn bod?" "O," meddai ei dad, "dygwydd tyfu yn y fan yna a wnaeth o." "Wel," atebai yntau, "nid yw yn tyfu yn unlle arall yn yr ardd." "Nac ydyw, ond fe dyfodd yn y fan yna," meddai y tad. Wrth fyned allan, dywedai y bachgen, "'Nhad, 'dwyf fi ddim yn meddwl mai *dygwydd* tyfu a wnaeth fy enw i yn yr ardd." Yna eglurodd y tad y cwbl iddo, a dangosodd iddo nad oedd *dim oll* yn dyfod oddiamgylch o *ddamwain,* ac mai yr achos mawr cyntaf o bob peth ydyw Duw. Gall yr engreifftiau hyn wasanaethu i ddangos fod y meddwl dynol yn naturiol yn chwilio am achos cyntaf pob peth, a bod dyn yn meddu cymhwysder naturiol i chwilio am Dduw, ac i'w addoli wedi ei adnabod.

Mae Duw-wadwyr yn haeru nad oes yr un Duw yn bodoli, ond pa fodd y gwyr y Duw-wadwr nad oes yr un Duw? Mae profion *a priori,* a phrofion *a posteriori,* o'i fodolaeth i'w cael. Os dywed efe nad yw yr holl arwyddion o drefn, amcanion, a dybenion sydd i'w gweled yn natur a Rhagluniaeth ddim ond ffrwythau damwain ddall, mae yn credu peth anhawddach i'w gredu o lawer na chredu bod Duw anfeidrol ddoeth a galluog yn bodoli fel Creawdwr, Cynaliwr, a Threfnwr pob peth. Ië, pa fodd y gwyr yr Atheist nad oes yr un Duw? Ni welodd efe ond ychydig iawn o'r byd bychan hwn erioed; ac os na chenfydd efe brofion eglur o fodolaeth Duw yn y rhanau a welodd o'r byd hwn, beth a wyr efe nad oes profion llawnach ac eglurach o lawer mewn bydoedd eraill nag a geir yma? O ran dim a wyr efe, gallai fod awelon, a rhaiadrau, a tharanau, a mellt rhai bydoedd eraill wedi eu cymhwyso i gyhoeddi enw Duw mewn geiriau. Gall fod enw a phriodoleddau y Goruchaf wedi eu hysgrifenu ar feini a chreigiau rhai bydoedd gan fys Duw ei hunan, o ran dim a wyr efe i'r gwrthwyneb. Neu, gall fod y ddeddf foesol mewn geiriau yn tyfu yn naturiol yn llysiau rhai bydoedd, o ran dim a wyr efe. Cyn y meiddio efe haeru nad oes yr un Duw yn bod, dylai fod yn gydnabyddus âg amaethwyr, a seryddwyr, ac athronwyr sydd yn byw ar fodrwyau Sadwrn. Mae yn gwybod rhy fychan gan' milwaith drosodd i sefyll i fyny i wadu y Bôd o Dduw, ac y mae yn gwadu ei natur ysbrydol ei hunan wrth wadu y Duwdod. Nid yw efe fawr o beth yn ymyl Moses, a Dafydd, a Solomon, a Phaul; a pha fodd y medd efe yr hyfder i haeru nad oes yr un Duw, pryd y mae rhagorolion y ddaear a'r nefoedd yn cyhoeddi eu bod hwy yn ei adnabod yn dda, ac yn ei wasanaethu yn wastadol.

Gan fod bodolaeth Duw yn cael ei brofi yn eglur gan natur pethau, y mae y Beibl yn cymeryd y mater yn *ganiataol,* fel peth wedi ei brofi eisoes. Gwelir hyny yn yr adnod gyntaf oll yn llyfr Genesis, "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear." Yr un modd y mae yr holl lyfr yn cymeryd y gwirionedd mawr hwn yn ganiataol, am y byddai ei wadu yn berffaith ynfydrwydd. Ond er nad yw y Beibl yn profi yn benodol fodolaeth Duw, mae yn fynych yn dangos yn eglur mai *un* Duw sydd, ac *nad* oes arall ond

Efe. Yr oedd hyny yn angenrheidiol iawn, oblegid y duedd sydd mewn dynion i gydnabod ac i addoli gwahanol dduwiau; gan hyny, iaith yr Ysgrythyr ydyw, "Clyw, O Israel, yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd." "Nid oes Duw arall ond myfi; yn Dduw cyfiawn ac yn achubydd, nid oes ond myfi."

Yr oedd graddau dymunol o wybodaeth gywir am Dduw yn mysg dynion pan ddaeth Noah a'i deulu allan o'r arch, ac y dechreuodd dynolryw luosogi ar wyneb y ddaear wedi y diluw. Ond fel y dywed Paul, "Ac megys nad oedd gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth;" "Eithr ofer fuont yn eu rhesymau, a'u calon anneallus hwynt a dywyllwyd." Tybient hwy fod gofalu am bob peth yn ormod o drafferth i Dduw; ac i esmwythâu ei ofalon Ef, lluosogasant dduwiau yn aneirif, a rhanasant y gofalon rhwng y duwiau hyny oll. Ond pa fodd y dichon fod mwy nag un Bod *anfeidrol?* Nid oes le i un anfeidrol arall. Os yw Duw yn fwyaf, yn Oruchaf, yna rhaid fod pob bôd arall yn llai ac yn is nag Ef; a pha *fôd* bynag sydd yn llai ac yn is na'r mwyaf a'r Goruchaf, nis gall hwnw fod yn Dduw. Mae yr unrhywiaeth, cynllun, delweddau, ac amcanion a welir yn holl waith Duw yn natur, Rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn iachawdwriaeth, yn profi mai Un Duw sydd, ac nad oes arall ond Efe.

Er fod natur a Rhagluniaeth yn dangos bodolaeth Duw, ac yn egluro ychydig ar rai o'i briodoleddau, eto ni allasem ni byth gael datguddiad llawn o hono, ein perthynas ni âg ef, ei hawliau ef arnom a'r modd y mae i ni ei wasanaethu wrth ei fodd, heb gael ei feddwl a'i ewyllys Ef wedi eu hegluro i ni mewn geiriau. Gallasai dynion yn rhesymol ddysgwyl y buasai Duw yn datguddio ei ewyllys iddynt mewn iaith ddynol. Fe wnaeth felly; a'r datguddiad gogoneddus hwnw yw y Beibl. Dyma y datguddiad llawnaf a goreu o Dduw a gafodd dynion. Mae yr Arglwydd yn mawrhau ei Air uwchlaw ei enw oll, a dylem ninau wneuthur yr un modd. Mae y datguddiad a geir o Dduw yn yr Ysgrythyr yn cynwys lluaws mawr o'r pethau a geir yn natur a Rhagluniaeth, ond cynwys y Beibl lawer o bethau nad yw yn bosibl i neb eu canfod yn ngweithredoedd y Goruchaf, ac y mae pethau eraill a welir yn ngweithredoedd Duw wedi eu cylchynu â goleuni newydd yn y Beibl, ac âg amlygrwydd a gogoniant na fedd natur fodd i'w haddurno â hwynt. Yn rhanol y gwelir llywodraeth foesol yn natur Duw a Rhagluniaeth, a diau y buasai trefn iechawdwriaeth yn guddiedig byth oni buasai i'r Arglwydd ei datguddio mewn geiriau yn yr Ysgrythyrau.

Mae yr Ysgrythyrau yn rhanu eu hunain yn naturiol i ddau ddosbarth—yr Hen Destament a'r Newydd. Casgliad o wahanol draethodau wedi eu hysgrifenu gan wahanol bersonau mewn gwahanol wledydd yw yr Hen Destament. Fe geir pedwar ar bymtheg ar hugain o'r traethodau neu y llyfrau hyn yn yr Hen Destament. Y prif ysgrifenydd yn y dosbarth hwn yw Moses. Ysgrifenodd efe bump, os nad chwech, o'r llyfrau hyn yn Arabia. Tybia llawer mai efe a ysgrifenodd Lyfr Job, ond nis gellir penderfynu hyny i *sicrwydd.*

Feallai mai Job ei hun a wnaeth. Yr oedd efe yn gallu ysgrifenu, ac y mae yn son am ysgrifenu llyfr yn ei ymddyddanion â'i gyfeillion; a gallai mai ei gael *wedi* ei ysgrifenu a wnaeth Moses, pan oedd efe gyda Jethro yn Midian, ac iddo ef ychwanegu hanes diwedd Job at gorff y llyfr. Ysgrifenodd Joshua y llyfr sydd yn dwyn ei enw ef. Samuel a debygid gasglodd Lyfr y Barnwyr at ei gilydd, Ruth, a rhan o Lyfr cyntaf Samuel. Nathan y prophwyd, a Gad y gweledydd, a ysgrifenasant y gweddill o hanes Dafydd, gwel 1 Cron. xxix. 29. Wedi eu casglu o gofnodau y genedl y mae Llyfrau y Brenhinoedd a'r Croniclau, gan y prophwydi, a'u harolygu yn fanwl gan Ezra. Ezra a ysgrifenodd y llyfr sydd yn dwyn ei enw ef, a Nehemiah y llyfr sydd yn dwyn ei enw yntau, a digon tebyg mai efe a ysgrifenodd Lyfr Esther. Dafydd oedd prif gyfansoddydd Llyfr y Salmau; ond y mae ynddo Salmau o waith Heman, Moses, Asaph, Solomon, Hezeciah, a Hagai, neu Sechariah, debygid. Llyfr hymnau yr hen gyfamod oedd y llyfr hwnw. Ysgrifenodd Solomon y Diarhebion, y Pregethwr, a Chân y Caniadau; ac ysgrifenwyd y gweddill o Lyfrau yr Hen Destament gan y gwŷr y mae eu henwau wrthynt—o Esay hyd Malachi. Rhenid y llyfr yn dair rhan—y gyfraith, y prophwydi, a'r Salmau, ond bod amryw lyfrau heblaw y rhai sydd yn dwyn enwau y prophwydi yn y rhan hòno, ac amryw lyfrau yn llyfr y Salmau heblaw y llyfr a alwn ni yn Llyfr y Salmau.

Ysgrifenid gynt ar grwyn geifr, wedi eu darparu at y dyben hwnw. Ar grwyn geifr, mae yn debyg, yr ysgrifenodd Moses ei bum' llyfr. Tebygol hefyd fod rhai o lyfrau yr Hen Destament wedi eu hysgrifenu ar lian, cyn i'r *papyrus* ddyfod i arferiad. Yr oedd yr inc a arferai yr hynafiaid yn nodedig o ddu, ac yn dal ei liw yn berffaith am oesoedd. Yr oedd llechau y cyfamod wedi eu hysgrifenu ar geryg, gan Dduw ei hunan. Yr oedd y geiriau "Santeiddrwydd i'r Arglwydd," wedi eu cerfio ar ddalen aur ar benwisg yr archoffeiriad, ac enwau y llwythau ar feini gwerthfawr yn y ddwyfroneg, ac ar ysgwyddau yr archoffeiriad, yr hyn a ddengys fod yr hynafiaid yn dra medrus mewn ysgrifenu a cherfio.

Ysgrifenid gynt ar aur, ac arian, a phres, a meini caledion a pharhaus, a phlwm. Ysgrifenid ar risgl coed, cwyr, ac ar brenau a phriddlechau, ac yn ddiweddarach ar y *papyrus*, yr hwn oedd lysieuyn yn tyfu ar lenydd y Nilus, ac oddiwrth yr hwn y daeth y gair *papyr* i ni. Fel yr oedd y llysieuyn Aiphtaidd yn myned yn brin, dyfeisiwyd y memrwn a'r *velum;* ac o'r diwedd, daethpwyd o hyd i'r ffordd i wneud digonedd o bapyr; ac, o ran dim a ymddengys, ni bydd eisieu dyfais eto yn y mater hwn. Yr oedd yr ysgrifbinau a arferid yn dra gwahanol, ac yn cyfateb i'r defnyddiau yr ysgrifenid arnynt, megys pin o haiarn, pin o adamant, a chyrs wedi eu gwneud yn gyffelyb i'r ysgrifbinau a arferir genym ni, ond eu bod yn lletach yn eu blaenau. Yr wyf yn cofio unwaith (yn yr Amgueddfa) weled gweithred-ysgrif (*deed*) am dŷ, wedi ei hysgrifenu yn yr Aipht ar y *papyrus*, yn mhell cyn dyfodiad Iesu Grist yn y cnawd.

Ysgrifenwyd yr Hen Destament mewn geiriau. Yr oedd dull arall o ysgrifenu, sef mewn arwyddluniau; a gall unrhyw un a ewyllysio ganfod y dull hwnw yn yr Amgueddfa Frutanaidd yn Llundain. Rholiau oedd y llyfrau gynt, a'r geiriau oll yn nglŷn â'u gilydd, fel pe buasai pob llinell yn un gair. Yn yr iaith Hebraeg yr ysgrifenwyd yr Hen Destament, oddieithr rhanau o lyfr Ezra, a rhanau o lyfr Daniel. Ysgrifenwyd y rhanau hyny yn y Galdeaeg. Yr oedd ysgrifenwyr yr Hen Destament oddeutu deg ar hugain mewn rhifedi, ac yn perthyn i gylchoedd tra gwahanol mewn bywyd; rhai yn frenhinoedd, ac eraill yn wlad-weinyddwyr; rhai yn offeiriaid, ac eraill yn perthyn i'r dosbarth amaethyddol a bugeiliol.

Ezra, yn ddiau, a drefnodd lyfrau yr Hen Destament i'r ffurf yr oeddynt yn nyddiau ein Hiachawdwr, ac i'r ffurf y maent eto, i raddau helaeth, yn ein dyddiau ni. Ychwanegodd efe, mae yn debygol, ryw ychydig o bethau er gwneud yr ysgrythyrau yn fwy cyflawn ac eglur, a chyfnewidiodd rai hen enwau ar leoedd, a'r cyffelyb, am rai mwy adnabyddus yn ei amser ef; ond gwnaeth y cyfan dan gyfarwyddiadau anffaeledig yr Ysbryd Glan. Mae ôl llaw rhyw ysgrifenydd diweddarach nag Ezra i'w weled hefyd mewn man neu ddau; a chredir mai Simon yr archoffeiriad, yr hwn a elwid "Simon y cyfiawn," oedd hwnw.

Cymerwyd i fyny un cant ar ddeg o flynyddau i ysgrifenu yr Hen Destament, os nad ychwaneg na hyny. Yr oedd Moses wedi ysgrifenu ei bum' llyfr ganoedd lawer o flynyddoedd cyn geni Homer a'r ysgrifenwyr Groegaidd hynaf; a'i lyfrau ef yw y rhai hynaf yn y byd yn bresenol o ddigon. Gellir yn rhesymol gredu fod y gelfyddyd o ysgrifenu wedi cael ei dysgu gan yr Arglwydd i ddynion yn mhell cyn dyddiau Moses, a thebygol ydyw fod y deddfroddwr Iuddewig yn copïo cofnodau hynach na'i ddyddiau ef ei hun yn hanes yr hen fyd, a'r oesau cyntaf ar ol y diluw.

Mae yr Hen Destament wedi ei ysgrifenu mewn rhyddiaeth a barddoniaeth, fel y byddai y materion yn galw am hyny. Y fath lyfr ardderchog ydyw! Caiff pob dyn o feddwl bethau yn union at ei chwaeth yn hwn. Mae ei fywgraffiadau o ddynion hynod yn onest a naturiol. Mae ei hanesion yn cyrhaeddyd dros y diluw i ddechreuad y byd. Mae ei farddoniaeth yn goeth, yn danllyd, ac aruchel dros ben. Mae ei dduwinyddiaeth yn syml, goleu, a manwl. Mae trefn iachawdwriaeth, mewn cysgodau addas, tystiolaethau cedyrn, addewidion gwerthfawr, ac esiamplau cymhwys, yn rhedeg drwy yr holl lyfr. Y Messïa yw ei arwr. Arno ef y sylla yr holl brophwydi. Ato ef y cyfeiria yr holl hanesion a'r holl gysgodau. Parotoi y byd i'w dderbyn ef oedd prif amcan yr oruchwyliaeth Batriarchaidd a'r un Foesenaidd. "Y corff sydd o Grist." "Tystiolaeth Iesu yw ysbryd y brophwydoliaeth." Ni ellir deall y Testament Newydd yn iawn heb astudio yr Hen Destament yn fanwl.

Cwyna rhai nad yw Moses yn rhoddi hanes creadigaeth y byd, a'r diluw, mor fanwl ag y dymunent hwy. Ond dylem gofio mai nid

traethu ar ddaeareg gelfyddydol oedd gorchwyl yr ysgrifenydd santaidd, ond dangos Duw fel y prif weithredydd yn y cyfan, a-dyn fel deiliad yn ei lywodraeth. Mae yn afresymol i ni feddwl y dechreuai Moses lyfr Genesis gyda phenod ar ddaeareg, gwyddoniaeth nad oedd yn adnabyddus dros filoedd o flynyddau wedi hyny. Y cwbl a allwn ni ddysgwyl ganddo ef ydyw, peidio a dywedyd dim sydd yn anghyson â ffeithiau daearegol; ac ni'n siomir yn hyny. Cawn ganddo ef hanes y dyn cyntaf, a'r wraig gyntaf, y briodas gyntaf, yr enedigaeth gyntaf, a'r farwolaeth gyntaf. Dengys i ni, o ran y *dull*, pa fodd y daeth pechod i'r byd; a mwy na hyny, pa fodd y ceir ef allan oddiyma. Iddo ef yr ydym yn ddyledus am hanes y byd hwn am y cyfnod cyn y diluw, ac wedi hyny am ganrifoedd lawer iawn. Ymhola dynion yn aml o ba le y daeth yr amrywiaeth lliwiau a'r dullweddau sydd yn mysg dynolryw; ond y mae Moses, er's miloedd o flynyddoedd, wedi penderfynu fod dynolryw oll wedi tarddu o'r un pâr dechreuol, ac mai Efa oedd mam pob dyn byw; ac y mae ymchwiliadau diduedd yn dangos ei fod yn berffaith gywir yn hyny. Y cyfrif a rydd efe am gymysgiad yr ieithoedd yw yr unig un rhesymol. Mae traddodiadau am y diluw wedi dyfod i lawr o oes i oes i blith yr holl genedloedd. Cwyna rhai nad yw Dafydd yn traethu am yr haul, y lloer, a'r ser, yn ol egwyddorion seryddiaeth ddiweddar; ond pa ddyben da enillasid drwy hyny? Gwneud odlau i foli Creawdwr, a Chynaliwr, a Llywodraethwr y bydoedd oedd ei amcan ef. Ni ddywedodd air sydd yn gwrthdaro seryddiaeth ddiweddar, ac ni all seryddwyr y dyddiau presenol ymddyddan â'u gilydd, chwaethach llefaru wrth y byd, heb ddefnyddio iaith fel yr eiddo yntau.

Y mae genym brofion cryfach am wirionedd ffeithiau yr ysgrythyr nag sydd genym am gywirdeb unrhyw ysgrifeniadau eraill, yn annibynol ar y ddwyfol ysbrydoliaeth a berthyn iddynt. Er engraifft, cymerwch y dyfodiad allan o'r Aipht. Dyna un o'r ffeithiau pwysicaf yn ei chysylltiad â'r Duwdod, ac â dynoliaeth, â gwareiddiad, ac â chrefydd, a nodir yn y Beibl. Os gofynir, A fu Israel yn yr Aipht yn gaethweision? A waredwyd hwy oddiyno gan yr Arglwydd drwy wyrthiau a rhyfeddodau, a thrwy offerynoliaeth Moses ac Aaron, fel y dywed Llyfr Exodus? A fuont hwy yn yr anialwch yn crwydro am ddeugain mlynedd? Yr ydym yn ateb yn ddibetrus, Do; ac y mae yn anmhosibl i'r hanes fod yn ffugiol. Ystyriwn y pethau canlynol, a gwelir hyny tuhwnt i ddadl resymol.

1. Yr oedd y waredigaeth yn un gyhoeddus. Yr oedd y gwyrthiau mawrion a wnaed er eu gwaredu i gyd yn *gyhoeddus*, "yn wyneb haul a llygad goleuni" yr un modd.

2. Yr oedd y gwyrthiau hyn yn bethau y gallai dynion cyffredin eu hamgyffred a barnu am danynt, ac ofer hollol fuasai i Moses geisio cael gan y bobl eu credu oni buasai eu bod yn brofiadol o honynt; ac ofer hefyd fuasai i un ysgrifenydd wedi dyddiau Moses geisio cael gan y bobl gredu y fath bethau heb eu bod yn wirionedd, mwy nag

y gallai ysgrifenydd yn y dyddiau hyn gael gan yr oes hon a'r oesoedd dyfodol gredu ein bod ni wedi dyfod i Frydain o Ffrainc, ar y cyntaf, drwy ffordd sych ar draws gwaelod y môr sy rhwng y ddwy wlad.

3. Yr oedd gwyl y Pasg a gwyl y Pebyll yn ordinhadau cenedlaethol i gadw coffadwriaeth i'r oesoedd oll am y pethau hyn. Yr oedd yr holl genedl Iuddewig yn eu cadw o'r dechreuad.

4. Yr oedd y Pasg wedi dechreu pan gymerodd y waredigaeth o'r Aipht le, a gwyl y Pebyll o'r sefydliad yn Nghanaan. Yn awr, gyda y profion hyn mae yn anmhosibl i'r waredigaeth wyrthiol o'r Aipht beidio a bod yn wirionedd sicr. Heblaw hyny, yr oedd y tabernacl a'i ddodrefn, y crochan aur a'r manna oedd ynddo oedd yn y cysegr, a'r sarph bres oedd yn mysg Israel hyd amser Hezeciah, yn dystion o'r waredigaeth o'r Aipht drwy yr oesoedd. Felly hefyd yr oedd y meini a osodwyd yn yr Iorddonen, a'r meini a osodwyd yn Gilgal, yn dystion o ddyfodiad y genedl ar dir sych drwy yr afon hòno i wlad Canaan. Ond nid yw honyna ond un esiampl allan o lawer a allasem nodi er prawf o wirionedd ffeithiau y Beibl.

Ni alwaf eich sylw yn awr ond at un pwnc arall, sef, Fod Ysgrythyrau yr Hen Destament wedi eu cadw yn ddilwgr drwy yr oesoedd gyda y manylrwydd mwyaf. Bychan yw dywedyd, fod y profion mai Moses a ysgrifenodd y gyfraith, ac mai Joshua a ysgrifenodd y llyfr sydd yn dwyn ei enw, mai Esay a Jeremi a ysgrifenodd y llyfrau sydd yn dwyn eu henwau hwythau, ac mai y prophwydi eraill yw gwir awdwyr y llyfrau a briodolir iddynt, ond y mae yr ysgrifeniadau hyn wedi eu cadw gyda y manylrwydd mwyaf yn eu purdeb gwreiddiol. Mae y pethau canlynol yn tueddu i'n boddloni ar y pen hwn :—

1. Yr oedd ysgrifeniadau Moses yn cael eu cadw drwy yr oesoedd yn y tabernacl, ac yn y deml wedi hyny, hyd gaethiwed Babilon, gwel Deut xxxi. 9, 24—26. Yn Jos. xxiv. 26, dywedir, "A Joshua a ysgrifenodd y geiriau hyn yn llyfr cyfraith Duw;" h.y., cysylltodd y crwyn ar ba rai yr ysgrifenasai efe y llyfr â'r crwyn ar ba rai yr ysgrifenasai Moses. Dywedir fod Samuel wedi ysgrifenu ei eiriau yntau mewn llyfr, a'u gosod gerbron yr Arglwydd, 1 Sam. x. 25. Mae pob sail i gredu fod yr holl lyfrau santaidd yn cael eu cadw yn y cysegr, yn gystal a'r eiddo Moses. Gwel *Jos. Hynafiaethau*, Llyfr III., pen. 1, § 7. Llyfr V., pen. 1, § 17.

2. Yr oedd pob brenin ar y genedl i ysgrifenu iddo gopi o gyfraith Moses â'i law ei hun o'r copi oedd yn y cysegr, yr hyn a amlhai gopïau o'r gyfraith, o leiaf.

3. Yr oedd synagogau yn y wlad, yn ddiau, i'r bobl ymgynull ynddynt i addoli, ac i wrando geiriau Duw, cyn caethiwed Babilon, yn gystal ag wedi hyny; ac yr oedd raid cael copi o'r ysgrythyr yn mhob synagog. Ac wedi caethiwed Babilon, yr oedd synagogau gan yr Iuddewon, fel y gwelwn yn y Testament Newydd, dros yr holl wledydd, ac yn y trefi yn arbenigol.

4. Cyfieithiwyd yr Ysgrythyrau i'r iaith Roeg ryw 300 mlynedd cyn genedigaeth Crist, ac amlhawyd copïau drwy hyny yn ddirfawr.

5. Yr oedd yr Iuddewon yn eiddigeddus dros burdeb a pherffeithrwydd yr Ysgrythyrau, ac wedi cyfrif y geiriau a'r llythyrenau ag oeddent yn y gwahanol lyfrau; ac yr oedd gwahanol *opiniynau* yn eu plith yn tueddu hefyd i'w gwneud yn ofalus ar y mater hwn.

6. Y mae cyfeiriadau Crist a'r apostolion at yr Hen Destament yn profi tuhwnt i ddadl eu bod hwy yn ystyried yr ysgrifeniadau hyn yn ddwyfol, ac felly yn berffaith; gan hyny, dyna y mater wedi ei benderfynu am byth, feddyliem ni.

Gorph. 15fed, 1872.

## Y TESTAMENT NEWYDD.—YSBRYDOLIAETH Y BEIBL.

*Darlith III.*

### AMSER EI YSGRIFENIAD.

Yr oedd yr Hen Destament wedi cael ei orphen oddeutu 450 o flynyddau cyn i'r Testament Newydd gael ei ddechreu. Ysgrifenwyd y Newydd oll o fewn terfynau y ganrif gyntaf o'r Cyfrif Cristionogol.

### EI YSGRIFENWYR.

Ysgrifenwyd ef gan wyth o ddynion cymhwys i'r gwaith—pump o honynt yn ganlynwyr i Iesu Grist yn ystod ei weinidogaeth, sef Matthew, Ioan, Iago, Pedr, a Judas. Yr oedd Paul hefyd yn apostol, wedi ei ddewis i'r swydd hòno mewn modd hynotach na'r un o'r lleill. Yr oedd Marc a Luc yn gymdeithion i'r apostolion, ac yn ysgrifenu dan eu harolygiaeth, yn ol pob tebygolrwydd. Ysgrifenodd Matthew un llyfr, Marc un, Luc ddau, Ioan bump, Paul bedwararddeg (?), Iago un, Pedr ddau, a Judas un, i gyd yn saith ar hugain o draethodau neu lyfrau. Y llyfrau hyn wedi eu casglu yn nghyd a elwir genym y Testament *Newydd*, mewn gwrthgyferbyniad i'r *Hen* Destament, neu lyfrau y cyfamod a osododd yr Arglwydd i fyny yn mysg yr Iuddewon fel ei bobl ddewisedig yn Sinai, a'r hwn gyfamod a barhaodd mewn grym hyd farwolaeth yr Arglwydd Iesu.

### PAHAM Y GELWIR HWN YN DESTAMENT NEWYDD?

Gelwir y llyfrau hyn yn Destament neu yn Gyfamod Newydd gyda phriodoldeb mawr. Gwyr pob astudiwr o'r Ysgrythyrau mai drwy gyfamodau yr oedd yr Arglwydd erioed yn ymwneud â dynion. Gwnaeth Efe gyfamod âg Adda pan oedd yn ei berffeithrwydd. Aeth hwnw yn anfanteisiol i ddynolryw pan droseddodd Adda yn erbyn Duw, neu pan dorwyd amodau y cyfamod gan y dyn cyntaf. Yna amlygodd yr Arglwydd i ddyn gyfamod prynedigaeth pechaduriaid

drwy Had y wraig. Dan hwnw yr achubwyd y credinwyr cyn y diluw. Wedi dyfod o Noah a'i deulu allan o'r arch, fe gadarnhaodd Duw y cyfamod a amlygasai efe i Adda, Seth, Enos, ac Enoch âg ef, gan ychwanegu ato fanteision parhaus i'w hiliogaeth yn y byd newydd, ac i bob peth byw, yn wir, yn gystal a dynion. Pan alwodd Duw Abraham o Ur y Caldeaid, aeth i gyfamod âg ef. Cadarnhawyd hwnw wed'yn âg Isaac ac â Jacob, ac yr oedd yn y cyfamod hwnw hefyd iachawdwriaeth i'r cenedloedd, yn gystal ag i had Abraham yn llinach Isaac a Jacob. Pan ddaeth Israel o'r Aipht, aeth yr Arglwydd i gyfamod â hwy yn mynydd Sinai, a chymerai hwnw i fewn iddo y manteision a gawsai y byd yn y cyfamodau blaenorol. Nid oedd y ddeddf yn dirymu yr addewidion a wnaethai Duw yn Nghrist i'r patrieirch ac i'r byd drwyddynt. Safent yn ddigryn yn nghanol holl *seremonïau* yr oruchwyliaeth Iuddewig, er fod ffurf y cyfamod Iuddewig yn genedlaethol, a llawer o'i fanteision yn perthyn yn neillduol i had Abraham yn llinell Isaac.

Pan amlygodd yr Arglwydd i Dafydd "mai o ffrwyth ei lwynau ef o ran y cnawd y cyfodai efe Grist i eistedd ar ei orseddfa ef," aeth i gyfamod â'r patriarch; ac ar y tir hwnw y gelwir bendithion yr efengyl yn "*sicr* drugareddau Dafydd." Pan gyflawnodd Duw ei gyfamod â Dafydd, yn anfoniad ei Fab i'r byd fel Mab Dafydd o ran y cnawd, gosododd y cyfamod newydd i fyny, "cyfamod gwell, wedi ei osod ar addewidion gwell"—cyfamod sydd yn cofleidio pob cenedl, pob llwyth, ac iaith, "pob creadur," yn ol iaith brydferth ac arwyddocaol yr Efengyl yn ol Marc. Yn y Testament Newydd, y mae eglwys Dduw yn ymddangos mewn ffurf newydd, a than gyfreithiau a rheolau newyddion, ac y mae ei hamcanion, er eu bod yn *hen*, yn gwisgo gwedd newydd i raddau helaeth. Dyma y "nefoedd newydd a'r ddaear newydd" y prophwydodd Esay am danynt yn y cynamseroedd, ac a welodd Ioan yn Dat. xxi. "Wrth ddywedyd cyfamod newydd, efe a farnodd y cyntaf yn hen," meddai Paul yn ei Epistol at yr Hebreaid. Nid yw cyfamodau y nefoedd fel cytundebau yn mysg dynion, ond i raddau bychan. Arddangosiadau a chynygion o fendithion i ddynion ar y telerau a welo y Llywydd mawr yn dda osod i lawr ydyw cyfamodau y nefoedd gan fwyaf. Ond cawn gyfle eto, feallai, i sylwi ar y pethau hyn.

### CYNWYSIAD Y TESTAMENT NEWYDD.

Mae yn deilwng o sylw pob myfyriwr fod yn agos i haner y llyfr a alwn ni y Testament Newydd, yn cynwys hanes genedigaeth, bywyd, gweinidogaeth, marwolaeth, adgyfodiad, ac esgyniad Crist i'r nefoedd. Ceir hanes y Gwaredwr ynddo bedair gwaith drosodd. Mae hyn yn awgrymu fod yr Ysbryd Glan yn golygu fod yn angenrheidiol ac yn fuddiol i ddynion ddarllen llawer ar hanes Iesu Grist. Mae yr hanesion hyn hefyd yn ddihefelydd o ran symledd ac ardderchawgrwydd. Nid dywedyd eu golygiadau eu hunain am y Gwaredwr y mae yr haneswyr hyn yn yr Efengylau, ond dwyn y

person dwyfol hwnw ger ein bronau yn ei ddysgeidiaeth, ei wyrthiau, ei ddyoddefiadau, a'i fuddugoliaeth ar ei holl elynion. Dyma hanes bywyd mewn gwirionedd.

Mae llyfr yr Actau yn gyffelyb, yn mysg llyfrau y Testament Newydd, i lyfr Joshua yn mysg llyfrau yr Hen Destament. Yn llyfr Joshua, ceir hanes am y modd y sefydlwyd Israel yn ngwlad yr addewid, dan arolygiaeth y cyntaf o'u barnwyr; ac yn llyfr yr Actau, ceir hanes sefydliad yr eglwysi cyntefig dan arolygiaeth apostolion Crist. Y llyfr hwn yw yr hanes eglwysig pwysicaf i'r byd o bob hanes a ysgrifenwyd erioed.

Cynwys yr Epistolau yr athrawiaeth a bregethai yr apostolion, a'r rheolau a'r cyfarwyddiadau a roddent i bersonau unigol, teuluoedd, a chymdeithasau crefyddol i ffurfio eu hymarweddiad wrthynt dan wahanol amgylchiadau.

Clöir y Testament Newydd i fyny â gweledigaethau llyfr y Datguddiad, yn yr hwn y tynir y llen, i raddau, oddiar amgylchiadau dyfodol, ac y bras-ddarlunir helyntion eglwys Dduw o ddyddiau Ioan i ddiwedd y byd. Nid oes un gair i'w ddysgwyl eto o'r nefoedd, fel datguddiad oddiwrth Dduw, hyd nes y delo y Barnwr ar gymylau y nef i farnu y byw a'r meirw.

Casglwyd llyfrau y Testament Newydd at eu gilydd yn fuan wedi eu hysgrifeniad. Mae Pedr yn cyfeirio at HOLL Epistolau ei anwyl frawd Paul. Amlhawyd copïau o'r Testament Newydd yn gyflym drwy lafur ysgrifenwyr ag oeddent wrth y gorchwyl o gopïo llyfrau, a chyfieithwyd hwy yn foreu i amryw o ieithoedd; a diau fod cyfieithiad boreuol, nid yn unig o'r Testament Newydd, ond o'r Hen Destament hefyd, i'r iaith Gymraeg; ac y mae yr Esgob Davies, yn 1566, yn dywedyd iddo, pan oedd yn fachgen, weled ysgrif o bum' llyfr Moses yn nhy ewythr dysgedig iddo, ond nad oedd neb yn rhoddi fawr o bris ar yr hen lyfr. Mae cadwraeth yr Ysgrythyrau o'r hen amseroedd hyd nes y dyfeisiwyd argraffu, yn bwnc tra dyddorol, a theilwng o gael ei chwilio yn fanwl iawn. Nid oes yr un o gynysgrifau yr Efengylwyr a'r Apostolion ar gael yn bresenol, ond y mae adysgrifau hen iawn o'r cyfryw ar gael yn ein dyddiau ni. Maent o leiaf yn 14eg neu 15eg o ganoedd o oedran, ac y mae canoedd lawer o adysgrifau diweddarach wedi eu chwilio yn fanwl, a'u cymharu yn ofalus, gan ddysgedigion diweddar. Wedi i'r argraffwasg ddyfod i'r fath arferiad ag sydd iddi yn ein dyddiau ni, ni bydd prinder mwyach o gopïau o Air Duw yn yr Eglwys Gristionogol.

## UNOLIAETH Y DDAU DESTAMENT.

Yr un gwirioneddau, i raddau helaeth, a ddatguddir yn y ddau Destament, ond eu bod yn cael eu hegluro gyda goleuni ychwanegol cryf yn y Testament Newydd. Ceir llygredigaeth llwyr dynoliaeth drwy y cwymp, adenedigaeth, cyfiawnhad drwy ffydd, santeiddhad, a gogoneddiad pechaduriaid yn y naill a'r llall. Cawn y Messïa yn aberth dros bechod, yn offeiriad, yn brophwyd, ac yn frenin yn y ddau.

Mae adgyfodiad y meirw, a'r farn dragwyddol, i'w gweled yn y ddau. Mae dyledswyddau dynion at Dduw ac at eu gilydd yn cael eu gosod allan yn gyffelyb yn y naill a'r llall. Fel y mae yr Hen Destament yn ychwanegu yn ddirfawr at y datguddiadau a gafwyd o Dduw yn natur a rhagluniaeth, felly hefyd y mae y Testament Newydd yn perffeithio y datguddiad a gawsid yn yr Hen Destament. Mae y Newydd, mewn ystyr, wedi ei adeiladu ar yr Hen; ac nid oedd yr apostolion yn dywedyd dim ond a ddywedasai y prophwydi a Moses y delent i ben.

Mae "yr holl Ysgrythyr wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw. Dynion santaidd Duw a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glan." Gan fod y mater hwn yn un pur bwysig, ni a gymerwn olwg ar y gwahanol ffyrdd yr oedd yr Arglwydd gynt yn amlygu ei feddwl i ddynion.

1. Yr oedd weithiau yn amlygu ei feddwl i ddynion mewn geiriau, ac mewn dull yr oedd yn anmhosibl iddynt hwy fethu ei ddeall. Gwnaeth felly gydag Adda, Noah, Abraham, Jacob, Moses, Joshua, a lluoedd heblaw hwynthwy. Daeth Mab Duw yma yn natur dyn, ac amlygodd feddwl y Tad mewn geiriau, yn eglur a digyfeiliorn. Daeth llefau o'r nefoedd yn iaith gyffredin dynion, ac felly y cyhoeddwyd y deg gair deddf oddiar fynydd Sinai. Yn yr amgylchiadau hyn, Duw ei hun oedd yn llefaru.

2. Byddai yr Arglwydd, bryd arall, yn anfon angylion crëedig i lefaru wrth ddynion yn ei enw ef. Anfonodd angylion felly i dŷ Lot yn Sodom. Llefarodd felly wrth Daniel, wrth Pedr, a Phaul, ac Ioan, a llawer heblaw hwy, ac yr oedd hynyna oll eto mewn geiriau.

3. Llefarai wrth ddynion drwy Urim a Thumim; a'r peth tebycaf yw, fod hyny hefyd yn cael ei wneud mewn geiriau. Mae yn naturiol i ni feddwl, oddiwrth hyd ac ansawdd rhai o'r atebion, mai ymofyn â'r Arglwydd mewn geiriau y byddai yr archoffeiriad, a Duw yn ei ateb drachefn mewn geiriau.

4. Cawn hanes rhyfedd am un yn cael ei gyfodi oddiwrth y meirw i lefaru wrth Saul, brenin Israel, ac yr oedd hyny, fel y mae yn eglur, mewn geiriau. Myn rhai na ddaeth Samuel oddiwrth y meirw o gwbl, ond mai Satan oedd yno yn personoli Samuel. Myn eraill mai rhywun oedd gan y ddewines yn personoli Samuel, ond Samuel ddywed y Beibl lawer gwaith drosodd.

5. Byddai yr Arglwydd yn amlygu ei feddwl i ddynion yn fynych drwy freuddwydion. "Drwy hûn a thrwy weledigaeth nos, pan syrthio trwmgwsg ar ddynion," fel y dywed llyfr Job. Amlygodd yr Arglwydd ei feddwl felly i Jacob yn Luz, pan oedd efe ar ei ffordd i Mesopotamia. Datguddiodd ei hunan drwy freuddwydion fwy nag unwaith i Joseph, ac i Pharaoh, ac i drulliad a phen-pobydd Pharaoh, i Solomon, i filwr o Midian, i Joseph gwr Mair, i Paul, ac i nifer fawr heblaw hwynthwy; ac er fod yr amlygiadau hyny yn cael eu gwneud mewn gwahanol bethau, yr oeddynt yn gyffredin yn cael eu gosod allan mewn rhan drwy eiriau.

6. Heblaw hynyna, yr oedd meddwl Duw yn cael ei amlygu hefyd drwy weledigaethau dydd, yn gystal a gweledigaethau nos. Dyna y modd yr amlygodd efe ei hun i Esaiah, Ezeciel, Daniel, Zechariah, Simon Pedr ar nen ty Simon y barcer, Cornelius y canwriad yn Cesarea, ac i Ioan yr apostol yn Ynys Patmos. Yr oedd y gweledigaethau hyn hefyd yn gymysgedig o arwyddluniau a geiriau, fel y gwelwn wrth ddarllen eu hanes; a'r un peth yn union yn y mater hwn yw arwyddluniau a geiriau o ran eu gwasanaeth.

7. Mae yn eglur, wedi y cyfan, mai ffordd gyffredin yr Ysbryd Glan o amlygu ei feddwl i ddynion santaidd gynt oedd drwy ddylanwad uniongyrchol ar eu calonau, yn rhoddi iddynt feddwl yr Arglwydd yn berffaith gywir i'w drosglwyddo i'w cyd-ddynion. "Ysbryd Duw a lefarodd *ynof* fi, a'i ymadrodd ef oedd ar fy nhafod," meddai Dafydd. Yr oedd ysbryd Crist *yn* y prophwydi, medd Pedr. "Dynion santaidd Duw a lefarasant, megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glan." "Am yr efengyl a bregethwyd genyf fi," meddai Paul, "nid yw hi ddynol; canys nid gan ddyn y derbyniais i hi, nac y'm dysgwyd, eithr drwy ddatguddiad Iesu Grist." "Canys Duw, yr hwn a orchymynodd i'r goleuni lewyrchu o dywyllwch, yw yr hwn a lewyrchodd yn ein calonau ni, i roddi goleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn ngwyneb Iesu Grist." Datguddio ei Fab YN yr Apostol a wnaeth yr Argiwydd. Dywed Crist wrth ei ddysgyblion am beidio rhagfyfyrio na rhagofalu pa beth a ddywedent o flaen brawdleoedd, oblegid rhoddid iddynt yn yr awr hòno beth oedd raid ei ddywedyd; canys nid hwynthwy fyddai yn llefaru, ond Ysbryd eu Tad fyddai yn llefaru ynddynt. Fe all Ysbryd Duw roddi goleuni ar bethau yn nghalon dyn heb droi dyn yn beiriant, na dinystrio ei ryddid yn y mater o gwbl. Gall sicrhau ymlyniad y serch wrth yr hyn a gofleidio y deall a'r farn, a gall beri, drwy y deall a'r galon, i'r ewyllys ysgogi yn yr iawn gyfeiriad. Mae y duedd sydd mewn rhai dynion i feddwl fod pob ymwneud uniongyrchol o eiddo yr Ysbryd Glan â'r meddwl yn dystrywio rhyddid dyn, ac yn ei droi yn beiriant, yn codi o olygiadau diffygiol ar ddylanwad dwyfol ar un llaw, ac ar ryddid creadur rhesymol ar y llaw arall. Ond gall y pynciau hyn ddyfod ger ein bron eto os caniateir i ni fywyd, iechyd, a chyfle i ymdrin â hwynt.

"Yr holl Ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw." Ymddengys hyny yn eglur wrth ystyried y pethau canlynol:—

1. Mae yr ysgrifenwyr santaidd yn cytuno, mor bell ag y traethant ar y mater, i briodoli y pethau a ysgrifenent i'r Arglwydd. "A'r Arglwydd a lefarodd wrth Moses." "A'r Arglwydd a ddywedodd wrthyf." "Llefarodd yr Arglwydd wrthyf." "Daeth gair yr Arglwydd ataf." "Bu llaw yr Arglwydd arnaf," ac ymadroddion cyffelyb oeddynt yn wastad yn ngenau yr ysgrifenwyr santaidd. "Yr hyn a *dderbyniasai*" oedd Paul yn ei bregethu; ac hyd yn nod yr Arglwydd Iesu ei hunan a ddywed, "Fy nysgeidiaeth, nid eiddof fi yw, eithr eiddo yr hwn a'm hanfonodd i." "Yr hwn a anfonodd Duw sydd yn llefaru geiriau Duw,"

canys "nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi iddo ef yr Ysbryd," medd Ioan Fedyddiwr am Iesu Grist.

2. Yr oedd yr ysgrifenwyr santaidd, tra y proffesent eu bod yn ysgrifenu geiriau Duw, yn cadarnhau eu tystiolaeth drwy wyrthiau. Ond nid hwy oedd yn gwneud y gwyrthiau. Ni wnaeth dyn wyrth erioed, ni all efe ddim, mwy nag y gall grëu byd; ac ni all creadur ychwaith dderbyn gallu i wneud gwyrthiau. Mae yn rhy fychan i dderbyn y fath allu dwyfol. Yr Arglwydd ei hun oedd yn gwneud y gwyrthiau bob amser, a gallwn fod yn sicr na wnaethai Duw byth wyrthiau i gadarnhau tystiolaeth ysgrifenwyr y Beibl, sef eu bod yn llefaru geiriau Duw dan ddylanwad Ysbryd Duw, oni b'ai fod eu tystiolaeth ar y pen hwnw yn wirionedd digymysg a chadarn.

3. Y mae cynwysiad pethau y Beibl o'r fath fel na allasai dynion byth gael hyd iddynt heb i'r Arglwydd eu hysbysu yn eu cylch. "Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn" y fath bethau. Y maent yn rhy uchel ac yn rhy ddyfnion i ddyn gael gafael arnynt. Mae ei freichiau ef yn rhy fyrion i gyrhaeddyd am danynt. Mae meddwl y gallai Moses, a'r prophwydi, a'r apostolion gael hyd i bethau goruchel yr Ysgrythyrau, yn croesi holl hanes dynolryw yn holl oesoedd y byd. Yr unig gyfrif teg am y mater yw yr hwn a rydd Paul: "Eithr Duw a'u heglurodd i ni drwy ei Ysbryd: canys yr Ysbryd sydd yn chwilio pob peth; ïe, dyfnion bethau Duw hefyd." Mae yr eglurhad yna yn rhesymol ac yn naturiol, ac yn cymeradwyo ei hun i bob dyn ystyriol.

4. Mae purdeb difrycheulyd yr Ysgrythyrau, y rhai ydynt yn lân fel yr eira—fel goleuni y dydd, yn dangos yn eglur na tharddasant erioed o galonau duon a halogedig pechaduriaid. Priodol iawn y gelwir yr Ysgrythyr yn *Ysgrythyr Lan*. Mae y cyfiawnder a'r santeiddrwydd sydd yn rhedeg drwy holl Air Duw yn lan i gyd—yn dysgleirio fel dysgleirdeb y ffurfafen—fel gorsedd Duw ei hun.

5. Mae amcan mawr yr Ysgrythyrau yn cydgordio yn berffaith â dyben penaf Duw yn ei weithredoedd, sef ei ogoniant mynegol Ef ei hun, yn dangos yn eglur y rhaid eu bod o Dduw: ac, heblaw hyny, mae priodoleddau y Duwdod—ei ddoethineb, ei allu, ei ddaioni, ei ras, a'i benarglwyddiaeth goruchel, mewn cysylltiad â'i uniondeb gogoneddus, yn pelydru allan drwy y Beibl i gyd, ac yn cyd-ddangos ei fod o Dduw.

6. Mae cysondeb rhyfedd yr ysgrifenwyr â'u gilydd yn dangos yr un peth. Pa beth a rydd gyfrif am gysondeb Moses â'r prophwydi, dynion mor wahanol i'w gilydd, heb weled eu gilydd erioed, wedi eu dwyn i fyny yn hollol wahanol y naill oddiwrth y lleill; ac eto y maent oll yn cyd-ddweyd ar bob bwnc, a'r apostolion yn cyd-dystiolaethu â'r prophwydi, ac yn cydgyfarfod ar bob athrawiaeth yn y modd llawnaf a phrydferthaf, ac Iesu Grist yn rhoddi ei sel wrth holl dystiolaeth yr Hen Destament, heb eithrio neb o'r ysgrifenwyr hynafol hyny; pan ystyriom hyn oll, argyhoeddir ni o ddwyfoldeb y Beibl.

7. Un o'r prif bethau sydd yn dangos fod yr ysgrifenwyr santaidd dan ddylanwad digyfeiliorn yr Ysbryd Glan pan yn ysgrifenu ydyw, cyflawniad manwl eu rhagfynegiadau am bethau dyfodol. A'u cymeryd hwy y peth oeddynt ynddynt eu hunain, o ran eu gwybodaeth gyffredinol a'u cydnabyddiaeth â gwahanol ranau dysgeidiaeth, rhaid i bob dyn ystyriol addef fod canoedd o ddynion yn y byd yn awr yn llawer mwy dysgedig a goleuedig nag oeddynt hwy. Ac eto, dyna y dynion gonest hyn, gyda manteision cyffredin a bychain, ac mewn amseroedd tywyllion, yn canfod, gyda llygaid eryraidd, drwy niwl a chaddug oesoedd dyfodol, ac yn rhagfynegu dygwyddiadau pwysig i'r holl fyd—pethau da a drwg, gyda chywirdeb digoll, fel y dengys y cyflawniad o'u geiriau. Fel esiamplau i chwi i'w hastudio, drwy eu cymharu â hanesyddiaeth wladol a chrefyddol, gallwn nodi prophwydoliaeth Noah am gyflwr gwasaidd hiliogaeth Cam, yr hon sydd yn cael ei chyflawni hyd y dydd heddyw, er fod gobaith yn ein dyddiau ni y dygir hwythau hefyd i gyflwr gwell yn raddol. Neu darllenwch ragfynegiadau Moses am gyflwr gresynus y genedl Iuddewig pan wrthodent wasanaeth yr Arglwydd yn Deut. xxviii., a chyflawniad manwl y pethau a lefarodd efe yn hanes y genedl yn yr oesoedd dilynol. Neu, darllenwch yn fanwl ac yn ystyriol ragfynegiadau Daniel am y pedair brenhiniaeth a gyfodai ar y ddaear. Nid oedd ond un o honynt *wedi* cyfodi y pryd hwnw, sef Babilon. Ond darlunia y prophwyd y rhai a ddilynent hòno, sef Persia, Groeg, a Rhufain, gyda manylrwydd a chywirdeb diball; a'r modd y rhenid Ymerodraeth Rhufain yn y diwedd yn ddeg brenhiniaeth, ac y cyfodai y corn bychan yn mysg y lleill, a genau iddo yn llefaru mawrhydri, sef y gallu Pabaidd. Neu, ac yn fwy hynod fyth, darllener y prophwydoliaethau am y Gwaredwr, y rhai a gynwysant yn mysg pethau eraill y llwyth a'r teulu o ba rai y deuai, ei fam yn forwyn, y lle y genid ef, yr amser yr ymddangosai, ei nodweddiad, ei athrawiaeth, ei wyrthiau, ei ddyoddefiadau a'i farwolaeth, ei gladdedigaeth, ei adgyfodiad, a'i esgyniad buddugoliaethus i'r nef, a sefydliad a chynydd ei achos ar y ddaear. Mae wythnosau Daniel, yn ddiau, yn un o'r darnau rhyfeddaf o ragfynegiadau, a'u cyflawniad yn cyfateb iddynt, a geir yn yr holl Ysgrythyrau. Gellir gwneud sylwadau cyffelyb am ysgrifenwyr y Testament Newydd, a'u rhagfynegiadau hwythau, yn enwedig Paul yn rhagfynegu cyfodiad y dyn pechod, a'r cyflawniad o hyny, a phrophwydoliaethau llyfr y Datguddiad.

Yn awr, mae yn eithaf eglur y rhaid fod rhywun yn gwybod y pethau a ragfynegwyd fel hyn yn fanwl, onide nis gallasai neb eu rhagfynegu. Nid damwain, yn ddiau, oedd y cyflawniad o'r fath brophwydoliaethau. Mae yn eithaf eglur na allai y prophwydi byth eu gwybod drwy unrhyw foddion oeddent yn eu cyrhaedd hwy, mwy nag y gallai pobl eraill oeddynt yn cydfyw â hwynt eu gwybod.

Yr unig un oedd yn eu gwybod oedd yr Arglwydd, yr hollwybodol Jehofa. Gan hyny, rhaid fod y rhagfynegwyr yn cael eu dysgu yn ddigyfeiliorn gan Dduw pan yn llefaru ac yn ysgrifenu eu prophwyd-

oliaethau mewn gair byr ac i'r pwrpas: "Dynion santaidd Duw a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glan." Mae y Beibl yn llyfr dwyfol—llyfr yr Arglwydd ydyw. Mae ysbrydoliaeth Duw yn rhedeg drwyddo i gyd. Mae delw y nefoedd arno oll.

Gan fod y mater hwn yn un mor bwysig, rhaid i ni ei gymeryd i fyny yn y Ddarlith nesaf.

**Bangor, Gorphenaf 29ain, 1872.**

---

## DWYFOL YSBRYDOLIAETH Y BEIBL.

*Darlith IV.*

Yn y Ddarlith ddiweddaf ar y mater pwysig hwn, sylwyd ar y gwahanol *foddau* yr oedd yr Arglwydd yn amlygu ei feddwl i'r byd drwy yr ysgrifenwyr santaidd, llefau o'r nef, angylion, angel y cyfamod, &c., &c. Defnyddiwyd amryw o resymau hefyd i brofi fod y prophwydi a'r apostolion dan gyfarwyddyd anffaeledig Ysbryd yr Arglwydd pan yn ysgrifenu meddyliau Duw i ddynion. Wedi ail ystyried y pethau hyny drachefn yn lled fanwl, nid wyf yn gweled y dylwn alw dim o honynt yn ol; ond yr wyf yn canfod yn eglur y gallaswn ychwanegu cryn lawer atynt, a dywedyd llawer o bethau eraill i'w hegluro a'u cadarnhau. Ond gan fod y pwnc o ddwyfol ysbrydoliaeth y Beibl yn fater mor bwysig yn ei gysylltiad â chrefydd bersonol, crefydd deuluaidd, a chrefydd gynulleidfaol neu gyhoeddus, ac yn dal y fath berthynas â'n llwyddiant yn ein hymdrechion i gyrhaeddyd gwybodaeth gywir o lawer o bethau buddiol a thra angenrheidiol i ni fod yn oleu ynddynt, a bod ein cysur a'n dedwyddwch ni a'r rhai a wrandawant arnom yn ymddibynu ar fod yr holl Ysgrythyr yn Air Duw mewn gwirionedd; a mwy na hyny, oblegid fod bywyd tragwyddol miliynau y ddaear yn ymddibynu ar, ac yn gynwysedig yn y mater hwn, tybiwyf y byddai yn briodol i mi ychwanegu yn bresenol rai nodiadau a dueddant i ddwyn y mater gerbron eich meddyliau chwi mewn agweddion gwahanol i'r rhai a fuont eisoes dan ein sylw.

Fe fu, o oes i oes, yn y byd ddynion yn gwadu hyd yn nod bodolaeth Duw, er eu bod, wrth wneuthur hyny, yn ymddyrysu mewn anghysonderau diddiwedd. Yr oedd eu hymdrechion hwy eu hunain i geisio *profi* "nad oes yr un Duw," ynddynt eu hunain yn *brawf* o'i fodolaeth ef. Yr wyf yn cofio darllen yn sylwadau yr anffyddiwr Holyoake, fod y pwnc o fodolaeth Duw yn fater sydd heb ei benderfynu eto gan y blaid y perthyn efe iddi, ac yn cael ei adael yn benagored i gael ei astudio yn mhellach gan anffyddwyr yr oes bresenol, er, yn ddiau, fod llawer o'r cyfryw yn mysg yr ynfydion y cyfeirir atynt gan y Salmydd, y rhai a ddywedant yn eu calon, eu geiriau, a'u

hymddygiadau "nad oes yr un Duw." Ond mae y ffaith fod y pwnc yn cael ei adael yn agored i ymchwiliadau pellach i fewn iddo, yn argoel obeithiol am rai o anffyddwyr yr oes hon. Gallant ddyfod, wrth chwilio i fewn i'r pwnc yn ddyfalach, i weled cadernid y profion sydd yn natur a rhagluniaeth o fodolaeth y Goruchaf. Prin y mae eisieu i mi ddywedyd fod holl wadwyr bodolaeth Duw yn unllais yn gwadu dwyfol ysbrydoliaeth y Beibl, oblegid y mae gwadu y naill yn cynwys gwadiad o'r llall o angenrheidrwydd.

Mae dosbarth arall o ddynion, sef y Deistiaid, yn gwadu dwyfol ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau, ac yn ystyried Cristionogaeth yn ffrwyth dychymygion a breuddwydion yr apostolion a'r cyn-Gristionogion. Mae y Deistiaid yn addef bodolaeth Duw, a rhai o honynt yn addef ei berffeithiau, ei ragluniaeth, rhwymedigaethau crefydd naturiol ar ddynion, sefyllfa ddyfodol, a gwobrau i'r da, a chosbau i'r drwg, yn y sefyllfa hòno, yn ol fel y gellir casglu y pethau hyn o lyfrau natur a rhagluniaeth yn unig; ond ni fynant gydnabod y Beibl o gwbl fel datguddiad oddiwrth Dduw i ddynion.

Mae llawer o'r Deistiaid yn edrych ar Moses a'r prophwydi, Crist a'r apostolion, yn *dwyllwyr* gwirfoddol a drygionus. Mae eraill, tynerach eu calonau, yn edrych arnynt fel rhai yn twyllo eu *hunain*, a thrwy eu hysgrifeniadau yn twyllo eraill, heb *fwriadu* hyny. Golygant mai penboethwyr dychymygol a chamsyniol oedd ysgrifenwyr y Beibl, er y *gallent*, o leiaf *rai* o honynt, fod yn credu fod y pethau a lefarent ac a ysgrifenent yn wirionedd.

Golygant fod yn hollol annhebygol yr amlygai Duw ei feddwl i ddynion mewn *geiriau.* Ond gellir gofyn, Ar ba dir y mae hyny yn annhebygol? Amlygodd efe ei hun i ddynion yn ei weithredoedd yn natur a rhagluniaeth, a chan iddo grëu dyn, a'i wneud yn alluog i osod ei feddyliau ei hunan allan, ac i dderbyn syniadau oddiwrth ei gyd-ddynion drwy gyfrwng iaith lafaredig, a bod geiriau yn well cyfryngau nag arwyddluniau i amlygu meddyliau drwyddynt, ac mai Duw ei hunan a gynysgaeddodd ddyn âg iaith, a bod geiriau a meddylddrychau mewn geiriau yn angenrheidiol i ddyn i wasanaethu Duw, ac i gymdeithasu âg ef, ac i fod yn ddefnyddiol yn mysg ei gyd-ddynion; y mae pob tebygrwydd, feddyliem ni, yn natur ac amgylchiadau dyn, a daioni y Brenin mawr, y byddai iddo amlygu ei ewyllys i ddynolryw mewn geiriau yn gystal a thrwy ei weithredoedd. A ddywedir fod Duw yn rhy uchel ac yn rhy fawr i amlygu ei hun i ddynion mewn iaith lafaredig? Mawredd dychymygol dynion llygredig ar y ddaear yw peth felly, ac nid mawredd Duw. "Cadarn yw Duw; ac ni ddiystyra efe neb." Mae Efe yn ddigon mawr i ofalu am greaduriaid na edrychai beilchion y byd hwn byth arnynt. A gwyddom fod un dyn yn fwy ei werth na'r holl greaduriaid eraill sydd yn y byd hwn; ac y mae amlygu ei feddwl iddo mewn iaith yn hollol deilwng o'r Goruchaf. A ddywedir nad oes ar ddynion angen am ddatguddiad llawnach o Dduw nag a geir yn natur a Rhagluniaeth? Duw, ac nid dyn, sy'n gymhwys i roddi barn ar fater felly

Barnodd Duw fod yn angenrheidiol iddo roddi datguddiad mewn geiriau i'r dyn cyntaf mewn cyflwr o berffeithrwydd, yn hytrach na'i adael i ymbalfalu a gwybod meddwl ac ewyllys ei Grëwr drwy ei weithredoedd, ac ni allasai wybod yr ewyllys hòno ond i raddau bychan iawn heb ddatguddiad geiriol o'r ewyllys ddwyfol gyda golwg arno ei hunan fel deiliad o lywodraeth foesol gyfiawn y nefoedd. Pa faint mwy angenrheidiol ydyw i ddyn gael datguddiad geiriol oddiwrth Dduw "wedi tywyllu ei ddeall, ac ymddyeithrio o hono oddiwrth fuchedd Duw, trwy yr anwybodaeth sydd ynddo?" Heb y datguddiad hwnw, buasai cyflwr dyn yn anobeithiol byth. A ddywedir, gan fod dystawrwydd dwfn rhwng nefoedd a daear yn awr, na lefarodd Duw erioed wrth ddynion? Byddai hyny mor ynfyd a haeru, gan nad yw Iesu Grist yn y cnawd ar y ddaear yn awr, na fu efe yma erioed.

Yr oedd yr Undodiaid yn y ganrif ddiweddaf (yn enwedig Dr. Priestley) yn barnu nad oedd yr ysgrifenwyr santaidd dan unrhyw ddylanwad dwyfol *anffaeledig* wrth ysgrifenu, ond eu bod yn ddynion gonest, ac yn traethu eu syniadau fel y cyfryw, a'u bod yn agored i dynu camgasgliadau fel eraill, a'n bod ni i farnu yn nghylch eu cywirdeb neu eu hanghywirdeb fel yr ydym yn barnu llyfrau awdwyr eraill. Y mae ei nodiadau ef yn benaf yn nghylch ysgrifenwyr y Testament Newydd. Gwel *History of Early Opinions*, vol. i., p. 70, a vol. ii., pp 5 a 53. Nid wyf yn meddwl fod ei syniadau ef nemawr yn uwch am ysgrifenwyr yr Hen Destament chwaith. Mae golygiadau Dr. Channing o America, a'r ysgol yr oedd efe y penaf yn eu plith, yn llawer mwy Ysgrythyrol na'r eiddo Priestley; ond y mae yr Undodiaid yn gyffredinol yn cymeryd eu rhyddid i drin y Beibl, i raddau helaeth, fel pe na byddai ond llyfr dynol yn unig. Y mae eraill yn mhlith ysgrifenwyr diweddar, heb fod yn perthyn i'r Undodiaid hyn, yn dra diffygiol ac anmherffaith yn eu golygiadau ar Ysbrydoliaeth y Beibl. Gellid meddwl, wrth ddarllen eu nodiadau, mai *rhanau* o'r Beibl sydd yn ysbrydoledig, a'r rhanau eraill heb fod felly; ond pwy sydd i farnu *pa* ranau sydd yn ysbrydoledig, a *pha* ranau sydd heb fod? Wel, nid oes dim i wneud ond gadael i bob un farnu y mater drosto ei hun, ac felly mae y drws wedi ei agor led y pen i daflu Dwyfol Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau yn hollol dros y bwrdd. Mae y dosbarth hwn wedi gwneud llawer iawn (heb i rai o honynt fwriadu hyny) i siglo crediniaeth dynion yn yr Ysgrythyrau fel gwir Air Duw, yn enwedig dynion gweiniaid eu meddyliau.

Golyga Cristionogaeth uniawngred yn lled gyffredinol fod yr Ysgrythyrau wedi eu rhoddi i ni drwy "Ysbrydoliaeth Duw;" ac felly, fod y Beibl yn llyfr dwyfol. Ond y mae tipyn o wahaniaeth rhwng barnau dynion am yr hyn a elwir "Ysbrydoliaeth Duw" yn y mater yma. Barna rhai fod yr ysgrifenwyr yn traethu eu meddyliau eu *hunain* fel dynion crefyddol a synwyrol, ac mai yr oll a wnai yr Ysbryd Glan oedd eu cadw rhag camgymeriadau a chyfeiliornadau wrth lefaru ac ysgrifenu. Barna eraill fod meddyliau yr ysgrifenwyr

yn aml dan gynhyrfiadau cryfion iawn oddiwrth Ysbryd yr Arglwydd, a'u bod wedi cael eu goleuo a'u dysgu ganddo Ef pa *beth* i'w lefaru ac i'w ysgrifenu, a pha *fodd* i'w osod allan yn deilwng,—fod y meddyliau yn feddyliau Duw, a'r geiriau yn cael eu rhoddi iddynt yn *aml*, ond nid yn wastad, gan yr Ysbryd Glan. Barna eraill, ac yn eu plith Dr. Owen, Dr. Gill, Dr. Carson, y Bedyddiwr enwog, fod yr Ysbryd Glan, nid yn unig yn rhoddi y meddyliau i'r ysgrifenwyr santaidd, ond pob gair a phob llythyren a ysgrifenasant. Gelwir hyn yn ysbrydoliaeth eiriol, ac y mae llawer yn y dyddiau hyn yn bleidiol i'r golygiad caethaf a llawnaf hwn ar Ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau; a phrin y maent yn foddlon i gydnabod dim yn deilwng o Air yr Arglwydd ond sydd wedi ei roddi i ni drwy ysbrydoliaeth eiriol, yn ystyr gaethaf a helaethaf y gair.

Goddefer i minau yn bresenol roddi i lawr ychydig o'r syniadau sydd yn ymddangos i mi yn naturiol, yn rhesymol, ac yn Ysgrythyrol hefyd ar y pwnc pwysig hwn.

I. Yr wyf yn credu yn ddiysgog fod yr holl Ysgrythyrau—yr Hen Destament a'r Newydd, y naill fel y llall, wedi eu "rhoddi i ni drwy Ysbrydoliaeth Duw," a bod eu hysgrifenwyr oll wedi llefaru ac ysgrifenu y pethau sydd ynddynt "fel y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glan." Gan hyny, fod y Beibl mewn gwirionedd yn Air yr Arglwydd, ac mai ymadroddion Duw yw ei ymadroddion, a bod ei awdurdod yn ddwyfol ar bob peth a gynwysa.

II. Ymddengys i mi fod dylanwad yr Ysbryd Glan ar feddyliau yr ysgrifenwyr santaidd yn gweithredu yn berffaith gyson â rhyddweithrediad cyneddfau eneidiol yr ysgrifenwyr, pa mor rymus ac effeithiol bynag fyddai y dylanwad hwnw. Nid oeddynt yn cael eu diddynoli ganddo, ond fod yr holl ddyn yn gweithredu yn berffaith reolaidd dano, fel pan na fyddent dan y dylanwad hwnw. Fel nad yw y dylanwad dwyfol sydd bob moment ar bob dyn yn ei gynal mewn bod, ac fel nad yw dylanwad cryf ac effeithiol yr Ysbryd Glan yn nychweliad a santeiddiad pechaduriaid, yn dyrysu gweithgarwch rheolaidd meddyliau y rhai fyddo dano, felly hefyd nid oedd dylanwad yr Ysbryd Glan ar eneidiau "dynion santaidd Duw" yn dyrysu dim ar eu galluoedd naturiol, ond gadawai i bob un o honynt amlygu ei feddwl, neu yn hytrach meddwl Duw, yr hwn oedd ganddynt i'w fynegu, yn ei arddull naturiol ei hun.

Crybwyllwyd yn awr am *arddull.* Cytuna pawb deallus fod gwahaniaeth mawr rhwng arddulliau ysgrifenwyr y Beibl—rhwng arddull Moses ag un Dafydd, rhwng un Esay ag un Jeremiah, rhwng un Daniel ag un Amos, rhwng arddull Iago ag un Pedr, a rhwng un Paul ag un Ioan y dysgybl anwyl. Mae yr un ysgrifenwr yn aml hefyd o ran arddull yn amrywio oddiwrtho ei hunan mewn rhanau eraill o'i waith. Yn awr, o ba le y tarddodd yr holl amrywiaeth yn arddulliau ysgrifenwyr y Beibl? 1. Oddiwrth y ffaith fod y dylanwad dwyfol oedd yn eu dysgu yn eu gwaith yn gweithio arnynt yn gyson hollol â delweddau eu heneidiau, ac heb eu troi yn beirianau mewn

un modd yn llaw yr Ysbryd Glan. 2. Oddiwrth fwriad dwyfol. Amrywiaeth sydd yn hynodi holl waith Duw. Nid oes dau wyneb, na dwy ddeilen, na dau welltyn, na dau dywodyn yn union yr un fath; na dau lais yn mhob peth fel eu gilydd. Mae llawer iawn o brydferthwch a dyddordeb gwaith yr Arglwydd yn gynwysedig yn yr amrywiaeth bwriadol a rhyfeddol hwn. Yr un modd, bwriadodd yr Arglwydd i'w lyfr fod yn llawn amrywiaeth, ac nid fel cân y gôg, yr un fath o ddechreu i ddiwedd ei thymhor. Pe amgen, ni fuasai y Beibl yn ddarllenadwy; ond mynodd Duw bob amrywiaeth iddo, fel y mae nid yn unig y llyfr pwysicaf, ond y llyfr difyraf yn y byd. Dewisodd Duw ddynion i'w ysgrifenu o bob cylch parchus mewn cymdeithas, a defnyddiodd hwy o fwriad, heb ddim damwain yn y peth, i osod ei feddwl dwyfol allan, bob un yn ei ffordd ei hun, yn hollol naturiol.

III. Barnu yr wyf fod llawer o'r pethau a ysgrifenwyd gan y prophwydi, yr efengylwyr, a'r apostolion yn bethau oedd yn ddigon hysbys iddynt o'r blaen, megys hanes y dyfodiad o'r Aipht i Moses, hanes y sefydliad yn Nghanaan i Joshua, hanes Eli, Saul, a dechreuad teyrnasiad Dafydd i Samuel, hanes y dychweliad o Babilon i Ezra, a hanes Nebuchodonosor, a'i olynwyr yn Babilon, i Daniel. Felly hefyd yr oedd hanes Ioan a Christ yn hysbys i'r Efengylwyr, a hanes teithiau a llafur amryw o'r apostolion yn berffaith hysbys i Luc, ysgrifenydd llyfr yr Actau. Os felly, gellir gofyn, Pa angenrheidrwydd oedd ar y fath ddynion i ysgrifenu pethau felly am fod dan ddylanwad yr Ysbryd Glan? Gellir ateb:—1. Yr oedd dylanwad dwyfol yn angenrheidiol i'w cynhyrfu at y gwaith o ysgrifenu o gwbl, yn lle gadael y gorchwyl o'r neilldu i rywun arall i'w gyflawni. 2. Yr oedd yn angenrheidiol iddynt i ddwyn ar gof bethau oedd bron a myned i ddifancoll, ac eto yn fuddiol. 3. Yr oedd yn anhebgorol angenrheidiol i'w dysgu i ddewis y pethau mwyaf buddiol iddynt hwy i'w hysgrifenu allan o'r llawer yn ychwaneg a wyddent am y gwahanol faterion y traethent arnynt. Digon tebyg hefyd fod rhai pethau a ysgrifenent wedi dianc o'u cof yn hollol er's blynyddau, ond fod yr Ysbryd Glan yn eu dwyn drachefn o ebargofiant yn hysbys iddynt. 4. I ddysgu iddynt pa bryd i roi i fyny, a pha fodd i gymysgu hanesion gwladol â hanesion personol, pethau daearol â phethau nefol, yn briodol gyda eu gilydd yn eu hysgrifeniadau. 5. I'w cadw ar dir gwirionedd bob cam, heb un camgymeriad yn eu gwaith i gamarwain neb arall yn y dyfodol. Yr un peth a ellir ddywedyd am y rhai fu yn casglu Llyfrau y Barnwyr, y Brenhinoedd, a'r Croniclau allan o gofnodau eu gwlad a'u cenedl. Yr oedd dylanwad digoll yr Ysbryd Glan yn angenrheidiol hollol i'w cynhyrfu at y gwaith—i'w dysgu i ddewis y pur a'r buddiol, ac i'w cadw rhag gwneud camsyniadau.

IV. Fe gafodd yr ysgrifenwyr santaidd lawer o bethau yn uniongyrchol oddiwrth Dduw, ac mewn geiriau—oddiwrth angylion santaidd felly, a thrwy weledigaethau nos a dydd; ond yr oedd

dylanwad yr Ysbryd Glan yn anhebgorol angenrheidiol wed'yn i'w dysgu i roddi y pethau hyny ar lawr, heb ychwanegu atynt na thynu oddiwrthynt, ac i dynu gwersi priodol i bawb ar eu pwys.

V. Y maent yn traethu llawer o bethau nad oeddynt yn eu deall, pethau nas gallent byth o honynt eu hunain gael gafael arnynt, na'u hamgyffred ond i raddau bychan wedi eu cael. Yr oedd deddf seremonïol Moses, a'r ddeddf farnol yn wir, o'r fath natur fel na ddaethai llawer o'r pethau byth i'w feddwl ef. Felly hefyd yr oedd proph wydoliaethau y ddau Destament, yn nghyda rhai o brif athrawiaethau y Beibl, neu yn hytrach pynciau mawrion a goruchel yr un athrawiaeth. Yn y pethau hyn oll, yr oedd yn angenrheidiol i'r ysgrifenwyr santaidd nid yn unig gael y pethau, ond y geiriau i osod y pethau allan, yn y pwys, y priodoldeb, a'r lledneisrwydd a berthynai iddynt. Yr wyf yn meddwl hefyd fod yn anhebgorol angenrheidiol i Moses gael datguddiad uniongyrchol oddiwrth yr Arglwydd am lawer o bethau a gynwys ei hanes am y byd cyn y diluw, ac wedi y diluw hefyd. Rhaid fod llawer o'r termau a ddefnyddia efe ac eraill wedi eu cael gan yr Ysbryd Glan.

VI. Nid yw y colliadau a berthynent i amryw o'r ysgrifenwyr santaidd, megys Moses, a Dafydd, a Solomon, dan yr Hen Destament, a Simon Pedr a Phaul dan y Testament Newydd, yn milwrio dim yn erbyn y ffaith eu bod, fel traethwyr cynghor Duw, dan ddylanwad digyfeiliorn ei Ysbryd ef. Rhaid fod yr Ysbryd Glan yn dysgu Paul i roi cynghor o'i feddwl ei hunan i'r Corinthiaid, ac y mae yr eithriad yna hefyd yn cadarnhau y rheol mai dyn dan ddylanwad Ysbryd yr Arglwydd oedd efe yn ei ymwneud cyffredinol â dysgu Cristionogion. O'm rhan fy hun, yr wyf yn ei weled yn anrhydedd mawr i ddwyfol ddoethineb a dwyfol ras i ddefnyddio offerynau â gwendidau yn perthyn iddynt i lefaru wrth ddynion llawn o wendidau. Nid i'r angylion, ond i ddynion, y rhoddodd efe y swydd o ddatguddio ei feddwl i ddynolryw, ond edrychodd efe ei hun ar ol y cwbl.

VII. Gallai fod mwy o duedd mewn dynion i amheu ysbrydoliaeth yr apostolion nag eiddo y prophwydi. Ar y pen hwn, mae y pethau canlynol (ni wnaf ddim ond eu nodi) yn berffaith eglur a sicr:—

1. Yr oedd yr apostolion yn sefyll mewn angen neillduol am ddylanwad anffaeledig i'w cyfarwyddo—fel bywgraffwyr yr Arglwydd Iesu, i gofnodi pethau oedd wedi myned heibio er's llawer dydd—i wneud defnydd priodol o Ysgrythyrau yr Hen Destament, heb eu camgymhwyso at bethau dan yr oruchwyliaeth hon—i'w dysgu i osod allan bethau yr efengyl yn eu gogoniant a'u hardderchowgrwydd eu hunain—i'w dysgu i ffurfio yr eglwysi cyntefig i fod yn gynllun addas i'r holl eglwysi Cristionogol yn mhob parth o'r byd, ac yn yr holl oesoedd dyfodol. Os bu ar neb ericed angen am gael eu dysgu gan ddwyfol ysbrydoliaeth, hwy oedd y dynion.

2. Yr oedd Iesu Grist yn addaw y cai yr apostolion eu dysgu gan yr Ysbryd Glan yn mhob peth oedd yn angenrheidiol iddynt, megys pan ddygid hwy i ateb gerbron brawdleoedd. Ni allai efe ddywedyd

llawer o bethau wrthynt pan oedd gyda hwy ar y ddaear, am nad allent eu dwyn y pryd hwnw, ond addawodd iddynt "Ysbryd y gwirionedd i'w tywys i bob gwirionedd." "Ac wele," meddai, "yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd;" ac yn ol ei addewid, tywalltodd arnynt yr Ysbryd Glan, nes oedd Jerusalem wedi synu drwy ei chalon wrth yr effeithiau a ddilynodd.

3. Mae yr apostolion yn hawlio eu bod dan arweiniad anffaeledig Ysbryd Duw wrth draethu eu cenadwri ac ysgrifenu eu syniadau; a thra yr oeddynt yn hòni pethau felly yr oedd "llaw yr Arglwydd gyda hwy." "A Duw hefyd yn cyd-dystiolaethu drwy arwyddion a rhyfeddodau ac amryw nerthoedd, a doniau yr Ysbryd Glan, yn ol ei ewyllys ei hun."

4. Yr oedd awdurdod yr apostolion yn cael ei gydnabod yn yr eglwysi yn yr oes hòno. Yr oedd y Cristionogion yn ymostwng iddynt, ac yn cydnabod mai ganddynt hwy yr oedd meddwl Crist ar bob peth athrawiaethol ac eglwysig. Mae y Corinthiaid yn ymostwng i awdurdod Paul, ac y mae Ioan yn llefaru yn ei Efengyl ac yn ei Epistolau fel un âg awdurdod ganddo, ac y mae hyny i'w weled yn eglurach fyth pan y cloa i fyny Lyfr y Datguddiad gyda gallu ac awdurdod prophwyd i Dduw. Cyfrifai Pedr Epistolau Paul yn mysg yr Ysgrythyrau eraill. A dywed Justin y Merthyr wrthym fod ysgrifeniadau yr apostolion yn cael eu darllen yn y cynulleidfaoedd yn nghanol yr ail ganrif, yn gystal ag eiddo y prophwydi, ac apelid atynt fel safon ddigyfeiliorn ffydd ac ymarweddiad o'r dechreuad yn eglwysi Crist.

5. Wrth fanwl chwilio y ddau Destament, yr ydym yn cael y gwrthddadleuon a ddygir yn erbyn Dwyfol Ysbrydoliaeth yr ysgrifenwyr yn diflanu fel niwl y boreu o flaen tanbeidrwydd yr haul yn Mehefin neu Gorphenaf. Mae Colenso wedi methu saith mlynedd yn oed Judah, drwy farnu fod Jacob wedi gwasanaethu saith mlynedd am Rahel cyn cael Leah yn wraig, pryd mai y gwirionedd yw, iddo briodi Leah a Rahel o fewn pythefnos i'w gilydd yn nechreu ei wasanaeth gyda Laban. Trwy y camgymeriad yna, gwnaeth gamgymeriadau eraill sydd yn dywedyd yn ddigon isel am ei ben a'i galon. Gellir sylwi yn gyffelyb am ei wrthddadleuon yn erbyn rhifedi yr Israeliaid pan yn ymadael o'r Aipht, a llawer o bethau eraill nad ydynt wrth ei fodd ef yn y daith ryfedd hòno. Mae yr anhawsderau sydd yn hanesion Llyfr y Barnwyr, wrth eu cymharu â'r Testament Newydd, yn diflanu fel mwg o flaen beirniadaeth deg. Felly hefyd y gwna yr amrywiaeth sydd yn hanesion yr Efengylwyr am farwolaeth ac adgyfodiad y Gwaredwr; a'r tybiau fod Paul ac Iago yn gwrthwynebu y naill a'r llall ar bwnc mawr cyfiawnhad pechaduriaid; a phob anghysondeb tybiedig arall, a ddygwyd yn erbyn y Beibl gan elynion achos y Gwaredwr, a'i gyfeillion byrbwyll hefyd, yn y gwahanol oesoedd. Y cwestiwn mawr sydd eisieu ei ateb ydyw, A ddichon dyn ffurfio drychfeddyliau heb eiriau neu arwyddluniau?

CLOAD.

Gwelwn, bellach, mai brenin ac ymerawdwr holl lyfrau y byd yw y Beibl. Yn nghlorianau hwn y mae pob llyfr arall i gael ei bwyso. Wrth linynau hwn y mae gwaith pob awdwr i gael ei fesur. O flaen gorseddfainc hwn y mae pob traethawd i gael ei farnu; ac nid yn unig llyfrau, ond meddyliau, geiriau, a gweithredoedd yr un modd. Os na ddaliant y prawf, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt.

2. Fel y mae hi rhwng dynion a'r Beibl y mae hi rhwng dynion a Duw. Os cyfiawnha y Beibl hwy, y mae Duw yn eu cyfiawnhau. Os yw y Beibl yn eu condemnio, mae Duw ar ei orsedd yn eu condemnio. Mor dirion yn Nuw oedd rhoddi clorian fawr y farn yn ein tai ni, fel y gallem ni bwyso ein hunain ynddi wrth fyned yno.

3. Dyma yr ystorfa fwyaf, lawnaf, odidocaf o ddigon, o wybodaeth hanesiol, fywgraffyddol, philosophaidd, a duwinyddol sydd heddyw ar y ddaear. Cyrhaedda i ddechreu y byd ar un llaw, ac i'w ddiwedd a thros y diwedd ar y llall. Mae yn gyfaill calon i ddyn, ac i bob dyn, a chysura ef yn mhob amgylchiad. Bydd yn mhob iaith yn fuan, a gwna ddiwedd ar holl au-grefyddau y byd; ac wedi crëu y ddaear o'r newydd, ni ddyfethir hwn yn llosgiad mawr y dydd diweddaf. Mae yn *fire-proof*. Daw yn ddiogel drwy y mellt a'r tân MAWR, a bydd ar y fainc WEN FAWR yn barnu pawb ddydd olaf y byd hwn.

**Bangor, Awst 7, 1872.**

---

## TERMAU DUWINYDDOL,

### Y RHAI A ARFERIR YN FYNYCH YN EIN PLITH.

*Darlith V.*

YR Ysgrythyrau yw y pwnc y buom yn ymdrin âg ef yn ddiweddar, ond cyn i ni symud yn mlaen yn mhellach i draethu ein syniadau am rai o brif athrawiaethau y Beibl, neu yn hytrach rhai o brif ganghenau yr athrawiaeth a gymhwysir yn y Gair dwyfol, meddwl yr ydym y byddai yn fuddiol i ni wneuthur ychydig o sylwadau ar rai o'r termau duwinyddol ac athronyddol a arferir yn gyffredin yn ein plith fel pregethwyr ac ysgrifenwyr.

I. Annibyniaeth a dibyniaeth sy dermau a glywir ac a ddarllenir yn fynych iawn. Dyn annibynol, o ran ei amgylchiadau tymhorol, y gelwir yr hwn sydd ag adnoddau ei fywoliaeth dan ei lywodraeth ei hunan; ond y fath yw dibyniaeth dynion ar eu gilydd, ac ar y Creawdwr, yn enwedig, fel na ellir dywedyd fod neb felly ond mewn ystyr gyfyng iawn. Dyn annibynol, o ran ei feddwl a'i farn ar bethau, ydyw

yr hwn sydd yn barnu drosto ei hunan, heb wasaidd ddilyn syniadau ei gyd-ddynion; ond mewn ystyr gyfyng, eto, y gellir dywedyd fod dynion yn annibynol eu barnau. Nid oes dyn i'w gael nad yw barnau doethion yr oesoedd o werth ac o bwys iddo, ac yn enwedig y mae Gair Duw i fod yn safon cywirdeb mewn syniadau ar bynciau duwinyddol i bawb, ac nid yw unrhyw syniadau o nemawr werth ar y materion hyny oddieithr eu bod wedi eu tynu allan o galon y Beibl.

Annibyniaeth y gelwir y drefn eglwysig a berthyn i ni fel enwad crefyddol. Annibynwyr ydym oll. Yr wyf fi yn un yn hoffi yr enw. Gwell genyf gael fy ngalw yn Annibynwr nag yn Gynulleidfaolwr, nac yn Gynulleidfäwr chwaith, yr hwn air sydd fyrach o un sill na'r llall, ond y mae yn rhy hir ac afrosgo, a braidd yn fwy na llonaid genau dyn. Ond mewn ystyr gyfyng yr ydym ni yn Annibynwyr. Mae ein Hannibyniaeth yn ein diogelu rhag gormes oddiwrth eglwysi eraill ein henwad, ond y mae yn berffaith gyson âg undeb rhwng yr holl eglwysi mewn pethau cyhoeddus; ac yr ydym yn ystyried fod cynghor a chynorthwy ein chwiorydd eglwysi o werth mawr. Mae yr hen haeriad fod yr Annibynwyr yn ystyried eu hunain yn annibynol ar Air Duw, ac hyd yn nod ar Dduw ei hun, bron islaw ein sylw. Mae y cyntaf yn hollol groes i'n proffes a'n holl hanes, ac y mae yr olaf yn gableddus.

Un Bod sydd ag y mae annibyniaeth, yn ystyr eangaf y gair, yn perthyn iddo. Y Bod hwnw yw y Goruchaf. Mae yr holl greadigaeth ynddo ef yn cydsefyll. Ni fodolai am haner moment pe tynai ef ei law yn ol. Darfyddai fel ffug-adeilad breuddwyd. Nid oes na dyn nac angel a all gynal ei hun. Ond y mae Duw yn ddigon iddo ei hun ac ynddo ei hun, er ei fod yn anfeidrol fawr. Nis gall dderbyn dim oddiwrth neb; ond y mae efe yn rhoddi i bawb fywyd ac anadl, a phob peth oll. Y mae efe o angenrheidrwydd yn annibynol, ac efe yn unig sy felly, yn ystyr uchaf a pherffeithiaf y gair.

Y mae yr ystyriaeth hon yn annhraethol bwysig i'r athronydd a'r duwinydd; oblegid fel y mae bodolaeth pob peth yn ymddibynol ar Dduw, felly, yn ddiau, y mae daioni a rhinwedd creaduriaid rhesymol yn hollol ymddibynu arno ef.

II. Goruchwyliaethau a chyfamodau y nefoedd. Mae y geiriau hyn yn ein geneuau yn wastad fel pregethwyr ac ysgrifenwyr. Nid oes eisieu ond gair ar y materion hyn.

Goruchwyliaethau Duw mewn cysylltiad â chrefydd ydyw, Y ffurf allanol yr ewyllysiodd efe i grefydd fodoli ynddi am dymhor penodol, megys yr un Batriarchaidd, a'r un Foesenaidd, a'r un Gristionogol. Y mae pethau mewnol ac ysbrydol crefydd yr un o dan bob goruchwyliaeth.

Cyfamodau y nefoedd nid ydynt fel cytundebau rhwng dynion a'u gilydd, y rhai y gall dynion eu ffurfio rhyngddynt a'u gilydd, neu beidio, fel yr ewyllysiont; ond cyhoeddiadau a chynygiadau o fendithion i ddynion ar delerau esmwyth, ac amodau hawdd eu cyflawni; ac y mae yn perthyn iddynt hefyd addewidion *diamodol*, y rhai a

roddwyd er mwyn sicrhau y daw dynion i gyflawni yr amodau perthynol i addewidion eraill. Mae dynion dan y rhwymau cryfaf i dderbyn cynygion cyfamodau y nefoedd, ac y mae yr addewidion sydd ynddynt yn wrthgyferbyniol yn gysylltiedig â bygythion ar ddiystyrwyr cyfamodau Duw. Y prif gyfamodau y cyfeirir atynt yn y Beibl ydyw, y cyfamod tragwyddol rhwng y personau dwyfol, cyfamod Eden, cyfamod Noah, cyfamod Abraham, cyfamod Sinai, y cyfamod â Dafydd, y cyfamod newydd, a'r un a wna Duw â phob credadyn.

III. Cyfiawnder a gras Duw. Cyfiawnder mewn dyn ydyw, tueddfryd ei galon i wneud yr hyn a ddylai tuag ato ei hunan, ei gyddynion, a thuag at Dduw. Cyfiawnder yn Nuw ydyw ei dueddfryd anghyfnewidiol i hawlio iddo ei hunan yr hyn a ddylai gael oddiwrth ei greaduriaid rhesymol, a'i dueddfryd a'i benderfyniad i wneud i'w greaduriaid yr hyn a deilyngant oddiar ei law ef. Gall y sylw fod creaduriaid yn teilyngu rhywbeth oddiar law Duw swnio yn ddyeithr yn nghlust ambell un sydd yma. Ond os yw dyn yn rhwym o wasanaethu Duw, y mae gan y dyn hwnw hawl ar ddatguddiad oddiwrth Dduw, yn yr hwn yr amlygir y Duwdod iddo, a hawl ar alluoedd eneidiol i amgyffred y datguddiad dwyfol, ac i gydymffurfio âg ef, a hawl ar ryddid i ymddwyn a gweithredu yn ngwyneb y y cwbl fel y myno—Jonah yn myned i Ninefeh. Creaduriaid rhesymol yn unig a fedd yr hawliau hyn. Nid oeddynt hwythau chwaith yn eu meddu yn wreiddiol; fel creaduriaid cyfrifol yn unig y meddant hwy.

Gras Duw ydyw ei dueddfryd cariadlawn a daionus i gyfranu ei ddoniau i'r annheilwng, pa un bynag ai fel cymwynasau rhaglunìaethol ai fel rhoddion ysbrydol, dylanwadau yr Ysbryd Glan, a holl ffafrau y Goruchaf i greaduriaid heb eu teilyngu erioed, pa un bynag ai dynion neu angylion fo y derbynwyr.

IV. Penarglwyddiaeth Duw. Wrth y geiriau yna, nid arglwyddiaeth y Goruchaf dros bob peth a olygir, ond hawl oruchel y Duwdod i gynllunio a gwneuthur unrhyw beth a ewyllysio efe na fyddo yn anghyson â chyfiawnder, a'i hawl i gyfranu ei ddoniau i'w greaduriaid, mewn cysondeb â chyfiawnder, fel y myno, y pryd y myno, ac yn y man y myno. Ni wnaeth efe gam âg angylion syrthiedig wrth ddarparu iachawdwriaeth i ddynion, ac nid yw yn gwneud cam â dynion pan yn trugarhau wrth y neb y myno. Mae iachawdwriaeth dynion yn berffaith gyfiawn mewn Iawn anfeidrol dros bechod.

V. Moesoldeb. Mae yn arferol galw dyn hardd ei fuchedd yn ddyn moesol; ond nid oes a fynom ni heddyw â'r syniad hwnw am foesoldeb. Y mae moesoldeb mewn ystyr ddrwg, yn gystal ag mewn ystyr dda; a gweithred foesol ddrwg yn gystal a gweithred foesol dda. Mewn gwirionedd, ansawdd calon, cynllun, a gweithred, wrth eu cymharu â gofynion cyfraith Duw—eu *quality* wedi eu pwyso yn nghlorian uniondeb—ydyw y peth a alwn ni yn foesoldeb. Gweithred o eiddo creadur rhesymol fyddo yn teilyngu clod neu anghlod, yn ol

ei ffurf a'i hansawdd yn wyneb rheol y gyfraith ddwyfol, ydyw gweithred foesol. Ymddengys i mi fod llawer yn son am foesoldeb gweithredoedd, heb wybod dim oll braidd yn nghylch y mater.

VI. "Bodau moesol." Yr wyf yn gobeithio na fydd i neb o honoch chwi byth arfer y fath eiriau yn fynych. Ond beth a olygir wrth fôd moesol, neu greadur moesol? Creadur yn meddu galluoedd anianyddol ac ysbrydol, a'r ansawdd o foesoldeb, neu y *quality* hwnw yn perthyn i'r syniadau a fedda, y cynlluniau a ffurfia, a'r gweithredoedd a wna.

VII. Sefyllfa o brawf. Yr ydym yn cofio amser pan wrthwynebid y syniad gan lawer, fod dyn syrthiedig mewn sefyllfa o brawf. Credent fod *Adda* mewn sefyllfa o brawf; ac am a wyddom, credent fod yr *ail* Adda mewn sefyllfa o brawf pan oedd ar y ddaear. Ond ni fynent fod neb arall mewn sefyllfa felly. Mewn sefyllfa o golledigaeth yn unig yr oedd dynion dan y cwymp, meddent, ac "y mae sefyllfa o gondemniad a sefyllfa o brawf yn hollol anghyson â'u gilydd," oedd yr haeriad beunyddiol yn eu plith. Diau fod dau brawf mawr y natur ddynol wedi myned heibio—un yn y dyn cyntaf Adda, a'r llall yn yr Arglwydd Iesu; ond nid oes yr anghysondeb lleiaf rhwng y ffeithiau hyny a gwirionedd pwysig arall,—fod pob dyn mewn sefyllfa o brawf, yn wyneb y goleuni a'r manteision sy ganddo. Sefyllfa o brawf ydyw sefyllfa yn yr hon y gall creadur cyfrifol, drwy gydymffurfiad â thelerau y cyfamod y byddo efe yn byw dano, sicrhau iddo ei hunan fanteision gwerthfawr; neu ynte, o'r ochr arall, ddwyn arno ei hunan lawer o anfanteision drwy anghydffurfiad â'r cyfryw delerau. Os oedd Duw yn profi Abraham yn offrymiad Isaac ei fab, ac os oedd Israel ar eu prawf yn yr anïalwch (a dywedir yn bendant eu bod), a Hezeciah ar ei brawf yn wyneb neges cenadon tywysogion brenin Babilon, ai tybed nad yw gwrandawyr yr efengyl ar eu prawf yn wyneb ei dwyfol wirioneddau? Diau eu bod. Os derbyniant hi, hwy a gânt fywyd tragwyddol; ond os gwrthodant hi, hwy a gondemnir i gosbedigaeth dragwyddol. Mae sefyllfa dyn yn awr yn sefyllfa i enill, neu i sicrhau pob peth yn feddiant iddo ei hunan ar dir ufudd-dod; neu, o'r ochr arall, i golli pob peth ar dir anufudd-dod i'r efengyl. Dyna yw sefyllfa o brawf.

VIII. Gallu naturiol sydd yn gynwysedig mewn—Fod dyn yn meddu cyneddfau eneidiol addas i wasanaethu Duw a'i gyd-ddynion mewn ymarferiad priodol o honynt, a'i fod yn meddu datguddiad dealladwy iddo o ewyllys yr Arglwydd tuag ato, a'i fod yn rhyddweithredydd yn y defnydd a wnelo o'r pethau hyn. Anallu naturiol ydyw ymddifadrwydd o un neu ychwaneg o'r pethau sydd yn anhebgorol angenrheidiol i ddyn feddu arnynt mewn trefn i fod yn gyfrifol i orsedd Duw; anallu i weled heb lygad, neu i glywed heb glust; anallu i amgyffred heb ddeall, neu i wneuthur ewyllys Duw heb ddatguddiad o'r ewyllys hòno. Yn ol ei allu naturiol y gofynir dyn i roddi ufudd-dod, ac yn ol ei anallu y bydd yn esgusodol; ond y mae gallu neu anallu moesol allan o'r cwestiwn mewn pwnc o gyf-

rifoldeb; hyny yw, nid yw ei fod yn foesol alluog, neu yn analluog i wneud ei ddyledswydd, yn newid dim ar seiliau ei gyfrifoldeb i Dduw. Y mae yn eithaf eglur nad yw yr Arglwydd byth yn gofyn i ddyn wneud unrhyw beth heb fod ganddo allu naturiol i'w gyflawni. Ond gofyna lawer o bethau i ddynion nad oes ganddynt allu moesol i'w cyflawni, ac y mae hyny yn berffaith gyfiawn a theg yn ngweinyddiadau y Goruchaf.

IX. Gallu moesol yw cariad dyn at unrhyw beth, a'i ymhyfrydiad ynddo a'i awyddfryd am wneuthur y pethau yr ymhyfryda ynddynt, pa un bynag ai da neu ddrwg fyddont; felly y mae gallu moesol da, ac amlygir ef pan fo dyn yn awyddus am wneuthur daioni; ac y mae gallu moesol drwg, ac amlygir ef pan fo dyn yn awyddus am wneud drwg.

Anallu moesol ydyw cariad at y da a chasineb at y drwg, fel y gellir dweyd am ddyn da na all efe bechu am ei eni ef o Dduw; ac o'r ochr arall, cariad at y drwg a chasineb at y da, fel y gellir dweyd na all dyn drwg wneud da, am ei fod yn ei gasâu, ac wedi ymhyfrydu a chynefino â gwneuthur drwg. Felly, mae anallu moesol da, ac anallu moesol drwg; a dylid sylwi, er nad yw anallu moesol i wneuthur daioni yn esgusodi neb rhag gwneud ei ddyledswydd, eto y mae yn bechadurus yn ei natur; ac y mae yn rhinweddol yn ei natur pan fyddo yn llywodraethu dyn yn y fath fodd fel nad allo fyw mewn pechod. Ond buddiol fyddai cofio mai mewn modd anmhriodol y gelwir tueddfryd y meddwl, neu ddiffyg o'r tueddfryd hwnw, yn *allu* neu yn *anallu*. Gallu naturiol dyn a elwir yn briodol yn allu dyn, ac yn ol fel y byddo hwnw y bydd ei rwymedigaethu ef gerbron Duw.

[Gadawn yn y fan yna heddyw, Rhagfyr 7fed, 1877.]

## TERMAU DUWINYDDOL.—PARHAD.

### *Darlith VI.*

Y TERMAU y sylwyd arnynt eisoes yw y rhai canlynol:—I. Annibyniaeth a dibyniaeth. Ar y mater hwn, sylwyd—Mai i Dduw yn unig y perthyn annibyniaeth, a bod dibyniaeth o angenrheidrwydd yn perthyn yn hanfodol i bob creadur.

II. Goruchwyliaethau y nefoedd ydynt y ffurfiau allanol yr ewyllysiodd Duw i'w achos yn y byd gymeryd mewn gwahanol gyfnodau.

III. Cyfamodau y nefoedd ydynt wahanol ddatguddiadau o drefn y Brenin mawr, yn cynwys cynygion o fendithion i ddynion ar amodau esmwyth, ac addewidion diamodol i ddwyn dynion i wneud defnydd priodol o addewidion amodol, ac i ddyfod i fyny â thelerau yr amodau hyny.

IV. Cyfiawnder ydyw yr hyn a ddylai fod rhwng dynion â'u

gilydd, a rhwng dynion â Duw—yr hyn a ddylai creadur rhesymol wneud tuag ato ei hunan a thuag at ei Greawdwr.

V. Gras ydyw ffafrau heb eu haeddu, yn tarddu o haelfrydedd calon y Goruchaf a'i ewyllys da ef, i greaduriaid annheilwng o'r ffafrau hyny.

VI. Penarglwyddiaeth Duw ydyw ei hawl oruchel Ef i gynllunio a gwneuthur pa beth bynag a ewyllysio Efe na fyddo yn anghyson â chyfiawnder.

VII. Moesoldeb yw yr *ansawdd* hwnw a berthyn i weithredoedd, cynlluniau, ac amcanion o eiddo dynion a'u gwnelo yn gymeradwy neu yn anghymeradwy, ac yn gymhwys i'w gwobrwyo ar un llaw, ac i'w beio ac i gosbi creaduriaid rhesymol o'u plegid ar y llaw arall.

VIII. Bodau moesol ydynt fodau yn meddu galluoedd a chymhwysderau i gyflawni pethau â'r ansawdd o foesoldeb yn perthyn iddynt.

IX. Gallu naturiol ydyw y cyneddfau, y moddion, a'r rhyddid a fedd creaduriaid cyfrifol i wneuthur pethau da neu ddrwg yn ol fel y dewisont.

X. Gallu moesol ydyw awyddfryd cryf i wneud daioni neu ddrygioni yn ol fel y bo dyn yn dymuno.

XI. Anallu moesol ydyw gwrthwynebiad penderfynol y meddwl i wneud da neu ddrwg yn ol fel y byddo yn teimlo tuag atynt.

XII. Sefyllfa o brawf ydyw sefyllfa y gall dyn enill neu golli yn ol fel y byddo ei ymddygiadau ynddi.

Galwaf eich sylw heddyw yn mhellach at amrywiol o Dermau Duwinyddol na fuont dan ein sylw y tro o'r blaen.

I. *Undodiaeth.* Mae y *system* hon yn dal allan unoliaeth y Duwdod, ac yr ydym ninau yn dal allan yn gadarn "Mai Un Duw sydd, ac nad oes arall ond Efe." Ond mae yr Undodwyr yn gwadu Duwdod y Gwaredwr, ac yn haeru mai dyn yn unig yw efe, ac nad yw efe yn iawn dros bechod, ac nad oes eisieu iawn o gwbl mewn trefn i faddeu pechodau. Haerant hefyd mai wrth yr Ysbryd Glan yr ydym i ddeall, nid person, ond dylanwad ysbrydol a moesol ar ddynion er eu diwygio a'u crefyddoli. Nid yw y *system* hon yn cynyddu nemawr yn y wlad, ac nid yw yn debygol y cynydda yn y dyfodol ychwaith.

II. *Trindodiaeth.* Cyhuddir y Trindodiaid gan yr Undodiaid o wadu unoliaeth y Duwdod. Nid felly: yr ydym ni yn dal yn gadarn, yn ol Moses, mai un Arglwydd yw ein Duw ni, ac yn ol Paul, mai *un* Duw sydd. Cyhuddir ni hefyd o ddal fod tri o dduwiau yn bodoli. Nid felly chwaith: ond tra yr ydym yn dal yn benderfynol unoliaeth bodolaeth Duw, canfyddwn yn eglur fod y Beibl yn tystiolaethu fod rhyw wahaniaethau yn ei fodolaeth Ef, nad oes un gair wedi dyfod i'r golwg eto yn ieithoedd ein daear ni mor gymhwys i'w gosod allan a'r gair *personau.* Nid dywedyd yr ydym fod y gair personau yn bob peth y dymunem iddo fod i osod allan feddwl yr Ysgrythyrau yn y mater hwn, ond dywedyd yr ydym mai hwnw yw y gair goreu y gwyddom ni am dano, ac fel y cyfryw yr ydym yn ei

ddefnyddio. Credwn fod tri o bersonau yn yr un fodolaeth ddwyfol —*tri* o bersonau, a dim ond *un* Duw.

Os gwrthddadleuir fod athrawiaeth y Drindod yn groes i reswm, yr ydym yn ateb:—1. Na pherthyn i ni benderfynu pa fath fodolaeth a *ddylai* bodolaeth Duw fod; ond ein dyledswydd ni ydyw derbyn, yn ffyddiog, yr oll a ddatguddiodd efe am dano ei hunan i ddynion; ac ymddengys i ni, yn ddiymwad, fod athrawiaeth y Drindod yn rhan arbenig a phwysig o'r datguddiad a roddes efe i ddynolryw.

2. Y gall athrawiaeth y Drindod fod uwchlaw rheswm dynol, a rheswm angylaidd hefyd, fel llawer o bethau eraill, ac ar yr un pryd yn berffaith gyson â rheswm, a diau genym ei bod yn gyson â rheswm, oblegid mai y Rheswm mawr tragwyddol ac anfeidrol, Tad pob rheswm creadigol, sydd wedi ei ddatguddio.

3. Credwn nad oes neb mewn sefyllfa i ddywedyd fod yr athrawiaeth hon yn groes i reswm, oddieithr ei fod ef yn cyflawn amgyffred rheswm *yn yr oll ag ydyw*, ac yn gallu dirnad yn berffaith, nid yn unig ei natur fechan ei hun, ond natur anfeidrol y Duwdod hefyd. Tu yma i hyny, bydd y rhan fwyaf o'r pethau sydd yn angenrheidiol i'r gwrthddadleuwr eu meistroli er gwneud ei bwnc yn gredadwy, yn anadnabyddus iddo; ond nid oes a all amgyffred y Duwdod ond y Duwdod ei hunan.

4. Ymddengys i ni nad yw yn deg i neb ymresymu oddiwrth ddyn at Dduw—oddiwrth y creadur at y Creawdwr, fel pe byddent ar yr *un tir*. Dengys rheswm ei hunan y rhaid fod anfeidrol wahaniaeth rhwng y natur ddwyfol, yr hon sydd dragwyddol, angenrheidiol, ac annherfynol, â phob natur amserol, amodol, a therfynol; ac os oes gwahaniaeth hanfodol rhwng y fodolaeth ddwyfol a phob bodolaeth arall, yn eu natur, ai ni allem ni ddysgwyl am ryw ddatguddiad rhyfedd a goruchel am ryw ddull gwahanol o fodoli yn perthyn i'r natur ddwyfol rhagor pob natur grëedig? Diau y gallem. Yn awr, dyma y datguddiad a gawsom: Fod yr un Duw yn bodoli yn dri o bersonau cyd-dragwyddol a gogyfuwch—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan. Nid ydym ni yn dywedyd fod y tri hyn yn *un* yn yr *un ystyr* ag y maent yn *dri*, nac yn *dri* yn yr un ystyr ag y maent yn *un;* gan hyny, mae yr wrthddadl gyffredin, "Nas gall un fod yn *dri*, na thri fod yn ddim ond un," yn anmherthynasol yma, ac yn tori i lawr yn hollol. Yr ydym yn dal mai un natur ddwyfol y sydd, a bod y natur ddwyfol hòno yn yr oll ag ydyw yn perthyn i'r tri Pherson dwyfol; ac eto, fod gwahaniaethau yn y fodolaeth dragwyddol na wyddom ni am air gwell na'r gair personau i'w gosod allan.

III. *Arfaeth Duw.* Mae y gair *arfaeth* yn ei gysylltiad â Duw wedi peri tramgwydd yn aml i feddyliau gweiniaid, a hyny o achos nad yw eu golygiadau ar y pwnc hwn yn rhai goleuedig ac ysgrythyrol. Gall y nodiadau canlynol fod yn help i chwi ffurfio barn gywir ar y mater pwysig hwn:—1. Mai daioni i gyd sydd yn tarddu o arfaeth Duw—daioni pur a digymysg. "Drwg ni thrig gydag ef." 2. Mai cynllun mawr y Duwdod i wneud ei waith mawr a gogoneddus yn

natur, Rhagluniaeth, llywodraeth foesol, ac iachawdwriaeth dynion yw arfaeth Duw. A pha wrthddadl a ddichon fod yn erbyn y ffaith fod Duw yn gweithredu wrth gynllun? Onid ydym yn gweled yn eglur mai felly y mae pethau yn bod? Yr ydym ni ein hunain wedi ein gwneuthur yn ol cynllun—y llygad, y glust, y dwylaw, y traed, y tafod, y galon, a phob peth a berthyn i ni. Y mae cynlluniau Duw i'w gweled yn eglur yn holl natur o'n hamgylch, fel nad ydym yn cyfarfod â dim damweiniol yn un man, ac y mae y Beibl yn eglur yn dywedyd fod iachawdwriaeth dynion yn cael ei dwyn oddiamgylch yn ol yr arfaeth dragwyddol, yr hon a wnaeth efe yn Nghrist Iesu ein Harglwydd. 3. Mai cynllun Duw i wneud ei waith ei hunan yw arfaeth Duw, ac nid i wneud gwaith dynion ac angylion; oblegid nid yw Duw yn gwneuthur gwaith dynion ac angylion; gan hyny, nid yw eu gwaith hwy yn dyfod i fewn yn briodol ac uniongyrchol i arfaeth y Goruchaf ond yn unig mor bell ag y mae a fyno Duw ei hunan â'r gweithredoedd hyny drwy orchymyn iddynt gael eu cyflawni—trwy roddi galluoedd, moddion, a chyfleusderau i'w cyflawni, ac mor bell ag y mae yn dylanwadu ar y meddwl er ei ddwyn i wneud yr hyn sydd ddaionus. Er engraifft, y mae Duw yn gorchymyn i bob dyn yn mhob man edifarhau. Dyna waith Duw, ac y mae yn perthyn i'w arfaeth ef. Mae yn dangos drwg pechod mewn llawer o ffyrdd, a rhesymoldeb edifeirwch, a'r canlyniadau o wir ymostyngiad ger ei fron ef. Dyna waith o'i eiddo ef, ac y mae yn arfaethu ei wneud. Mae yn effeithiol weithio ar feddyliau myrddiynau, nes eu dwyn i edifarhau. Dyna ei waith ef eto, a bwriadodd wneud hyny. Mae yn maddeu ac yn cyfiawnhau yr edifeiriol a'r ffyddiog. Dyna ran arall o'i waith ef ei hunan, ac y mae wedi arfaethu ei wneud. Sarhad ar Dduw fyddai dywedyd ei fod wedi arfaethu i bechod ddyfod i'r byd, ac nid yw yn nemawr gwell i ddywedyd ei fod wedi arfaethu goddef hyny: oblegid goddef yw peidio a'i rwystro i ddyfod yma. *Nacaol* yw y meddylddrych o oddef i ddyn bechu; gan hyny, pa angen sydd am arfaeth i beidio a gweithredu? Y mae eisieu arfaethu i weithredu, ond nid yw yn angenrheidiol i beidio a gweithredu. Nid yw negyddion neu nacaolion o fewn cylch arfaeth Duw o gwbl. Gellir sicrhau hefyd fod arfaeth Duw mor berffaith, fel na raid newid iot o honi byth.

IV. *Etholedigaeth gras* sydd gangen o arfaeth y Goruchaf. Mae y gangen hon wedi cael ei chamddeall a'i chamesbonio yn ddirfawr. Mae i'w gweled yn eglur yn yr Ysgrythyrau—yn yr Hen Destament a'r Newydd. Yr hyn a olygir wrthi ydyw, fod Duw wedi bwriadu erioed i ddwyn torf na rifir byth o ddynolryw i gredu yn ei Fab ef, fel y caffont fywyd tragwyddol, ac i fyw yn dduwiol fel y cymhwyser hwy i fwynhau y bywyd hwnw. Nid yw etholedigaeth yn gwneud drwg i neb, ond gwna dda i rif y gwlith. Nid yw yn rhwystro neb at Iesu Grist, ond mae yn tynu rhif y ser ato. Nid yw yn gwrthod neb, nid yw yn bygwth neb, nid yw yn condemnio neb; ond y mae, trwy ddwyfol Ragluniaeth, gair Duw, a dylanwad yr Ysbryd Glan,

yn ymgeleddu dynion rifedi tywod y môr. Nid yw y Duwdod yn gweithredu yn ol etholedigaeth heb resymau digonol dros yr hyn a wna, ond gallai na ddywed y rhesymau hyny i ni; a sicr yw, mai rhoi hergwd i ddyn hyf y mae Paul, gan ddywedyd, "Pwy wyt ti, O ddyn, yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw?"

V. Y peth olaf a gaiff fod dan ein sylw heddyw ydyw *sicrwydd.* Eglur yw fod y Beibl yn sicrhau i ni y llwydda achos Duw ar y ddaear hon, a bod yn rhaid iddo gynyddu, ac i bob peth croes iddo leihau—y derfydd rhyfeloedd a thywallt gwaed, ac y goresgyn yr efengyl yr holl fyd, &c. Ond y cwestiwn ydyw, pa le y mae y sicrwydd am hyny? Gall dyn arwynebol ei feddwl ateb, a dywedyd, fod y Beibl yn dywedyd mai felly y bydd. Ond ni ddywedasai y Beibl byth mai felly y bydd, oni b'ai fod sicrwydd yn bod am hyny. Gall dyn arwynebol arall ddywedyd fod Duw yn gwybod pob peth, ond nid yw efe yn gwybod fod pethau yn sicr, pryd nad ydynt mewn gwirionedd felly. Y gwir yw, fod sylfaen sicrwydd am bob daioni a gymer le byth yn y Duwdod, a'i arfaethau, a'i benderfyniadau gogoneddus. Ond mae y drwg yn gystal a'r da wedi ei ragweled gyda manylrwydd, a'i ragfynegu hefyd. Nid yw sylfaen sicrwydd am y drwg yn gystal a'r da yn Nuw; byddai ffynon o'r un llygad felly yn rhoddi dwfr melus a chwerw. Mae sylfaen y sicrwydd am ddrwg yn y creadur, yn ei ddiffygolrwydd mewn cymhariaeth i'r Creawdwr, ac anmherffeithrwydd hanfodol ei natur derfynol ef fel bôd ymddibynol. Rhoisom dro bychan ar y pwnc hwn yn y gyfeillach neithiwr. Mae eto dermau y dylem sylwi arnynt.

Bala, y dydd byraf, 1877.

## TERMAU DUWINYDDOL.—PARHAD.

### *Darlith VII.*

Y PETHAU a fuont dan ein sylw y tro diweddaf oeddynt y rhai canlynol: — Undodiaeth, Trindodiaeth, Arfaeth Duw, Etholedigaeth gras, a sicrwydd am fodolaeth pob peth a fodola, da a drwg, a phob amgylchiad a gymer le yn y bydysawd. Dangoswyd fod y sicrwydd am bob da yn y Creawdwr, ac am bob drwg yn y creadur, ac ynddo ef yn unig. Mae eto amryw o dermau duwinyddol y byddai yn fuddiol a phriodol dywedyd gair am danynt, cyn i ni symud yn mlaen i sylwi yn fwy neillduol ar brif bynciau y ffydd Gristionogol, megys—

I. *Pechod.* Mae hwn yn *derm* a geir yn hynod o aml yn y Beibl. Ac os gofynir y cwestiwn, Beth yw pechod? ateba yr Ysgrythyr hwnw hefyd yn eglur a difloesgni, a dywed mai "Anghyfraith yw pechod." Mae pob darllenydd myfyrgar o'r Gair santaidd wedi sylwi yn ddiau y defnyddir geiriau *nacaol* yn bur fynych i osod pechod allan, megys anghyfraith, annuwioldeb, anghyfiawnder,

anghrediniaeth, anufudd-dod, anwiredd, anwybodaeth, a lluaws o ymadroddion cyffelyb i'r rhai yna. Mae gwaith yr ysgrifenwyr santaidd yn mynych ddefnyddio geiriau *nacaol* i osod pechod allan yn ffafriol i'r golygiad, a dywedyd y lleiaf, mai *nacaol* ydyw pechod yn ei natur; ond y mae rheswm cryfach, a mwy penderfynol na hwnyna i'w gael dros y golygiad mai *nacaol* yw pechod yn ei natur, sef fod pob peth *cadarnhaol* (*positive*) yn dyfod oddiwrth Dduw; ond nid yw pechod yn deilliaw oddiwrth Dduw mewn unrhyw ystyr; gan hyny, nis gall pechod fod yn beth *cadarnhaol* o gwbl. Pe gwrthddadleuid fod llawer o bethau *cadarnhaol* yn gysylltiedig â gweithredoedd pechadurus, yr ateb yw, fod y pethau hyny oll yn deilwng o Dduw, ac o hono ef y deilliant yn ddiau; ond yr elfen *nacaol* sydd mewn pechod, sef anghydffurfiad â chyfraith Duw, yn unig sydd yn bechadurus; ac nid yw yr Arglwydd yn awdwr *nacaolion*. Bydd yn dda i chwi a minau fod yn hyddysg yn y mater hwn.

II. *Pechod gwreiddiol.* Dyma derm a geir yn fynych iawn mewn pregethau ac ysgrifeniadau duwinyddol. Wrth bechod gwreiddiol y golygir yn gyffredin, y sicrwydd sydd yn natur pob plentyn i Adda y try efe allan, fel y delo i sefyllfa o gyfrifoldeb, yn bechadur, ac yn droseddwr mawr yn erbyn Duw. Ond eangir y golygiad, gan lawer, megys i gynwys trosedd cyntaf Adda, a'r farn a ddaeth drwy yr un trosedd hwnw ar y dyn cyntaf a'i holl hiliogaeth. Gyda golwg ar y mater hwn, yr ydym yn sefyll ar dir diogel wrth wneuthur y nodiadau canlynol:—

1. Fod Adda wedi ei grëu ar ddelw Duw; ond fel pob bôd ymddibynol arall, fod parhad y ddelw hòno arno yn ymddibynu ar iddo ef bwyso ar Dduw, a thynu ei holl adnoddau cynaliol oddiwrtho ef.

2. I Dduw fyned i gyfamod âg Adda yn Eden, a bod y cyfamod hwnw yn cynwys ei hiliogaeth, yn gystal ag ef ei hunan.

3. Ei fod ef yn ymddiriedolwr ar fendithion gwerthfawr i'w hiliogaeth—bendithion oeddynt hefyd nad oedd gan Adda ei hunan, na'i had, fel creaduriaid cyfrifol, ddim *hawl* arnynt; ac felly, gellid eu gosod i hongian ar ymddygiad y cynrychiolwr, fel pencyfamodwr y sefydliad Edenaidd; ac nid yw eu hatal oddiwrth yr hil, wedi i Adda dori y cyfamod, ond peth sy berffaith deg a chyfiawn.

4. Daeth llawer o golledion trymion i ran hil Adda drwy doriad cyfamod Eden, ond daeth mwy i ran Adda ei hun.

5. Ni olygir fod hiliogaeth y dyn cyntaf yn *gweithredol* droseddu yn Eden; ac ni olygir ychwaith y demnir neb am doriad y cyfamod hwnw. Am eu pechodau eu hunain y demnir dynion.

6. Ni olygir chwaith fod rhyw wenwyn wedi cerdded o Eden drwy eneidiau hil Adda i'w gwneud yn droseddwyr. *Nacaol* oedd yr hyn oedd bechadurus mewn bwyta o ffrwyth y pren gwaharddedig, ac *absenoldeb* bywyd ysbrydol, neu egwyddorion santaidd yn eu calonau, sydd yn gwneud holl hil Adda yn bechaduriaid. Meddylddrych nacaol yw y meddylddrych cywir am bechod gwreiddiol fel am bechod gweithredol, heb ddim cadarnhaol yn yr hyn oedd feius

ynddo; ac felly, mae pechod, yn yr oll ag ydyw, yn eiddo i'r creadur, heb fod a fyno y Crëwr ddim âg ef, ond ei oruwchreoli er dangos gogoniant trefn iachawdwriaeth.

III. *Passive power*, neu allu goddefol, sydd ymadrodd a gyfarfyddir weithiau mewn traethodau athronyddol ar dduwinyddiaeth. Golygir wrtho, y sicrwydd sydd y bydd i unrhyw berson, dyn, neu angel, neu fyd, neu elfen fyned ar eu gwaeth, oddieithr i'r hyn sydd werthfawr, prydferth, a defnyddiol ynddynt gael ei gynal i fyny gan y Creawdwr bendigedig; ac yn mhellach eto, gallu creadur i dderbyn daioni oddiwrth y Creawdwr, heb beri un niwaid iddo, na dyrysu dim ar ei gyfansoddiad. Y mae yn berffaith eglur i ni fod dyn, ac angel hefyd, yn oddefol a gweithredol ar unwaith mewn llawer o bethau. Mae gweithrediad dwyfol bob moment o'u bodolaeth ar eu natur yn eu cynal mewn bod yn barhaus, ac ar bob peth crëedigol arall, mewn cyffelyb fodd. Ac y mae dyn yn *oddefol*, yn gystal ag yn weithredol, yn ei iachawdwriaeth; ac nid oes un gyneddf a fedd yn cael dyrysu dim ar ei gweithrediadau pan y mae yn oddefol felly. Ni ddygwyddodd i mi weled y syniad hwn am y *passive power*, ond y mae yn sicr o fod yn gywir, debygaf. Mae gan ddyn allu i oddef gwellhad yn gystal a gwaethygiad.

IV. *Rhyddid.* Mae y gair hwn ar bob tafod mewn gwlad yn mron. Sonir yn fynych iawn am ryddid yr ewyllys ac ewyllys rydd, ond dull annedwydd i osod y mater allan ydyw ymadroddion felly. *Y dyn* sydd yn rhydd, yn yr ymarferiad o'i allu i ewyllysio, ac nid y gyneddf fel rhyw *agent* ar wahan oddiwrth y dyn. Meddylddrych *nacaol* yw yr un priodol am ryddid. Nid rhywbeth cadarnhaol (*positive*) ydyw, neu rywbeth sylweddol (*substantial*) mewn dyn, ond *absenoldeb gorfodaeth* wrth ddewis ac ymddwyn fel y *myno.* Fel y mae y meddylddrych priodol am bechod—pechod gwreiddiol a phechod gweithredol—yn un *nacaol*, felly hefyd absenoldeb trais a gorfodaeth ar ddyn yn ei ddewisiadau ydyw gwir ryddid.

V. *Angenrheidrwydd.* Dyma air arall sydd yn cael ei arfer yn dra chyffredinol. Dywedir fod y Goruchaf yn bodoli, a'i fod yr hyn ydyw, o ran ei briodoleddau, o angenrheidrwydd; a dywedir fod pob creadur yn ymddibynol ar y Creawdwr o angenrheidrwydd, ac y mae y pethau hyn yn gywir. Nid oes dim dadl yn mhlith dynion am y pethau hyn, nes y deuant i ymdrin âg angenrheidrwydd mewn cysylltiad âg ewyllys a rhyddid creadur rhesymol. Os yw angenrheidrwydd a rhyddid yn anghyson â'u gilydd mewn creadur, paham nad ydynt felly hefyd yn Nuw, y perffeithiaf o'r holl weithredwyr moesol? ac yn Iesu Grist, yr hwn yr oedd angenrheidrwydd moesol yn ei gadw yn annhraethol bell oddiwrth bob pechod, ac eto yr oedd yn rhyddweithredydd perffaith yn yr oll a gyflawnai? Wrth angenrheidrwydd, mewn cysylltiad âg ewyllysiau dynion, y golygir, Fod cysylltiad sicr rhwng achosion moesol a'u heffeithiau yn y meddwl, fel y mae cysylltiad rhwng achosion o natur arall a'u heffeithiau drwy holl weithredoedd y Goruchaf. Ond daw y mater dan sylw eto cyn hir

# CYSYLLTIAD A CHYDWEDDIAD HOLL WAITH DUW

## YN NATUR, RHAGLUNIAETH, LLYWODRAETH FOESOL, A THREFN IACHAWDWRIAETH PECHADURIAID.

### *Darlith VIII.*

YN y sylwadau a wnaed ar yr Ysgrythyrau, a dwyfol ysbrydoliaeth yr ysgrifeniadau hyny, cawsom gyfle i nodi fod perffaith gysondeb rhwng yr ysgrifenwyr santaidd a'u gilydd, er eu bod yn byw mewn amseroedd pell oddiwrth y naill a'r llall, ac yn ddynion tra gwahanol o ran talentau, dygiad i fyny, a'r cylchoedd y tröent mewn cymdeithas—mai yr un oedd eu barn am Duw ac am ddynion fel creaduriaid cyfrifol a syrthiedig; am hawliau y Goruchaf oddiwrthynt, a'u dyledswyddau hwy tuag at Dduw a thuag at eu gilydd; eu bod yn un gyda golwg ar holl bynciau yr athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb; fod y Testament Newydd wedi ei adeiladu ar yr Hen, ac yn gyflawniad gogoneddus o'i gysgodau a'i brophwydoliaethau, a bod ysgrifenwyr y Newydd yn apelio yn wastad, fel y gwnai Iesu Grist o'u blaen, at ysgrifenwyr yr Hen Destament, ac yn dyfynu llawer iawn allan o'u hysgrifeniadau. Felly, mae yn eglur mai yr un gyfundrefn o ddatguddiad dwyfol sydd yn y ddau Destament, ond fod yr hyn a ddechreuasid ddatguddio yn yr Hen wedi ei berffeithio yn y Newydd.

Ein hamcan heno fydd, ceisio dangos fod rhyw gydweddiad, cyddarawiad, a chysondeb cyffelyb i'r un a welir yn y Beibl i'w weled hefyd yn holl waith Duw, nes y mae y cyfan oll yn ymddangos fel un gyfundrefn fawr a gogoneddus, a'i holl wahanol ranau yn gwasanaethu eu gilydd, ac yn cydsicrhau dyben penaf pob peth. Gellir, feddyliwn, ranu y gyfundrefn fawr hòno yn bedwar dosbarth; sef natur, rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn iachawdwriaeth. Mŷn rhai alw y dosbarthiadau hyn yn deyrnasoedd; megys, teyrnas natur, teyrnas rhagluniaeth, a theyrnas gras; ond gallai mai mwy priodol fyddai eu galw yn daleithiau gwahanol yn yr un deyrnas, nag yn deyrnasoedd gwahanol, y naill oddiwrth y llall. Cawn, yn awr, nodi rhai pethau sydd ynddynt yn gyffelyb y naill i'r llall. Mae rhyw gyfatebiaeth a chydweddiad rhyfedd rhyngddynt. Prin y mae angen egluro y termau natur, &c.; os oes, cymerwch yr eglurhad a ganlyn:—Wrth *natur* yr wyf yn deall y greadigaeth weledig ac anweledig hefyd—yn elfenau, yn fydoedd, yn greaduriaid, yn goedydd, a llysiau. Wrth *ragluniaeth* yr wyf yn deall gwaith Duw yn cynal pob peth, ac yn goruwchreoli holl weithredoedd ei greaduriaid i gyrhaeddyd ei amcanion gogoneddus ei hun. *Llywodraeth foesol* ydyw llywodraeth Duw dros feddyliau creaduriaid rhesymol, drwy orchymynion a gwaharddiadau; cymhellion o bob math i ufudd-dod i gyfreithiau y llywodraeth, a gocheliadau rhag gŵyro i dir anufudd-dod, oblegid fod ufudd-dod i Dduw yn gyfiawnder tuag ato ef fel llywydd, ac yn fanteisiol i'r deiliaid yn y byd hwn, ac yn y byd a ddaw, ac anufudd-dod yn hollol *anghyfiawn* ac anfanteisiol hefyd,

mewn amser a thros byth. *Trefn iachawdwriaeth* yw y cynllun gogoneddus i gadw pechaduriaid drwy Iesu Grist, yr hwn a amlygir yn llawn yn yr efengyl.

Yn awr, fe welir yr un pethau yn cael eu hamlygu yn y pedwar dosbarth. Y mae cyfatebiaeth rhyngddynt yn y pethau canlynol, a llawer o bethau heblaw y rhai hyny.

1. Y mae yr un *wybodaeth* fanwl i'w gweled yn y pedwar dosbarth. Mae natur yn dangos mai "Duw gwybodaeth yw yr Arglwydd." Mae pob peth adnabyddus i ni wedi cael eu gwneud o ychydig o elfenau gwreiddiol, fel y mae holl eiriau iaith wedi cael eu gwneud i fyny o ychydig o lythyrenau, wedi eu cymysgu â'u gilydd yn wahanol yn mhob gair. Mae awyr a dwfr, priddoedd a chreigiau, coedydd a llysiau, adar y nef a physg y moroedd, cnawd ac esgyrn dynion ac anifeiliaid, wedi eu gwneud o'r ychydig elfenau gwreiddiol hyn. Yn awr, y fath wybodaeth oedd yn angenrheidiol i gymysgu yr elfenau hyn, gyda phob manylrwydd, yn argyfansoddiad pob peth! Y fath fferyllydd anfeidrol yw Duw! Yr oedd raid iddo wybod y modd i droi gwellt y maes (yr un gwellt yn union) yn esgyrn a chnawd, yn groen ac yn flew, yn waed ac yn llaeth, yn garnau dan ei thraed, ac yn gyrn ar ben y fuwch; a'r modd i droi y gwellt sy'n flew ar y fuwch, yn wlan ar y ddafad. Yr oedd raid iddo wybod pa faint o bwysau a maintioli oedd i fod yn mhob haul a phob planed; ac yn ein byd ni, gwelir yn eglur fod nerth pob gwelltyn a choeden, pob creadur, o bob math, wedi ei fesur yn fanwl ar gyfer pwysau y ddaear, hyd at ffyrfder pob gwelltyn a choeden wedi ei benodi ar gyfer atdyniad ar un llaw, a nerth stormydd ar y llaw arall. Efe a wyddai pa fodd i wneud un creadur yn gyflym, a'r llall yn araf; un i fyw ar dir, a'r llall mewn dwfr, a pha ymborth sydd yn angenrheidiol iddynt oll. Duw sydd yn deall cylchoedd crynion a hir grynion, onglau a llinellau. Efe yw yr hwn sy'n deall gwyddoniaeth, rhif, a mesur. Efe a bwysodd y bydoedd, y naill yn gyferbyniol i'r lleill, a'r naill gyfundrefn yn gyferbyniol i un arall. Efe yw tywysydd Arcturus a'i feibion. "Efe sydd yn rhifo rhifedi y ser, ac yn eu galw oll wrth eu henwau; aneirif yw ei ddeall."

Mae y wybodaeth berffaith a welir yn natur i'w chanfod hefyd yn Rhagluniaeth. Mae yr Arglwydd yn adnabod pob creadur yn ei lywodraeth—o'r archangel i'r pryfyn distadlaf. Gwyr am eu holl amgylchiadau, a'u holl anghenion, a pha beth a gyferfydd yr anghenion hyny. Gwyr y cyfan oll yn mlaen llaw, ac ar unwaith, yn holl raddau bodolaeth o'r dechreu hyd byth. Fel llywydd moesol creaduriaid rhesymol, mae yr unrhyw wybodaeth yn dyfod i'r golwg. Gwyr beth yw nerth galluoedd a manteision pob un o ddeiliaid ei lywodraeth—beth yw swm dyledswydd pob un—beth yw natur pob gweithred a phob gair—beth yw yr egwyddor oddiar ba un y tarddant—ac amcan y gweithredydd wrth gyflawni ei holl weithredoedd. "Mae yn chwilio yr holl galonau, ac yn deall pob dychymyg meddyliau."

Yn nhrefn iachawdwriaeth eto, gwyddai yn berffaith y cwympai dyn, ac yr oedd trefn i'w gadw yn barod cyn ei grëu. Gwyddai pa dderbyniad a g'ai y drefn yn mysg dynion gwrthryfelgar, a darparodd ar gyfer y cyfan, fel nad äi yn ofer. Rhagddywedodd pa fodd yr ymddygid at ei genadon, y prophwydi—at ei Fab, a'r apostolion, a helyntion ei eglwys hyd ddiwedd amser. Mae ei wybodaeth berffaith am holl anghenion dyn fel pechadur, a'r holl fendithion sydd yn angenrheidiol i'w ddiogelu a'i ddedwyddu, a'r modd i'w cael yn eiddo iddo, yn dyfod i'r golwg yn ogoneddus yn nhrefn fawr yr iachawdwriaeth.

2. Mae yr un doethineb yn cael ei amlygu yn y pedwar dosbarth. Doethineb ydyw dewis y dyben *goreu*, y moddion *goreu* i gyrhaedd y dyben goreu hwnw, a'r modd *goreu* i ddefnyddio y moddion goreu hyny. Mae y dyben uwchaf i holl waith y greadigaeth—gogoniant yr Arglwydd. Felly hefyd, yr un yw amcan Rhagluniaeth: "Fel y gwybyddont o godiad haul, ac o'r gorllewin, nad oes neb ond Myfi; Myfi yw yr Arglwydd, ac nid arall," Esa. xlv. 6. Amcan mawr llywodraeth foesol ydyw dangos Duw i'w greaduriaid, a dangos y creaduriaid iddynt eu hunain ac i'w gilydd. Iaith llywodraeth foesol ydyw, "Rhoddwch i'r Arglwydd, rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant a nerth." "Gogoneddwch Dduw yn eich corff ac yn eich ysbryd." "Câr dy gymydog fel ti dy hun." Mae trefn iachawdwriaeth, medd y Beibl, wedi ei llunio "er mawl gogoniant ei ras Ef." "Efengyl gogoniant y bendigedig Dduw" yw yr efengyl. Dyna yr un amcan mawr wedi ei ddewis gan ddoethineb yn y pedwar dosbarth. Mae y moddion a ddefnyddir i gyrhaeddyd yr amcan yn dangos yr unrhyw ddoethineb. Maent oll yn deilwng o Dduw—i gyd yn goeth ac yn amrywiol dros ben. Un o'r pethau sydd yn dangos doethineb Duw yn newisiad moddion yn neillduol ydyw, y modd y gwna efe i'r un pethau ateb llawer o is-amcanion. Dyna yr haul, mae yn llywodraethu y bydoedd—fel patriarch yn eu canol, yn eu cadw oll mewn trefn; ond rhydd oleuni, rhydd wres, *paentia* y dail a'r blodau i gyd mor brydferth, pâr i bethau dyfu ac addfedu, ac ymberffeithio dros wyneb yr holl fyd. Dyna y môr, gynifer o amcanion gwahanol a atebir drwyddo. Dyna yr awyr, dyna y ddaear, dyna y creaduriaid yn ateb llawer o wahanol amcanion.

Mae Duw, yn ei Ragluniaeth, yn defnyddio deddfau a galluoedd natur, ac yn defnyddio creaduriaid afresymol, a dynion da a drwg, a phawb o'r dynion hyny yn rhydd, ac yn cael gwneud fel y mynont, ac amcanion Duw yn cael eu dwyn i ben drwy ei oruwchreolaeth ef ar y cyfan.

Yn ei lywodraeth foesol, y moddion yw cymhellion o bob math i fywyd pur, bygythion am anufudd-dod; a phan elo Duw i gosbi, y mae holl naturiaeth at ei alwad ef, a nerth cydwybod euog yn ei gwneud yn uffern yn mynwes dyn. Pan elo i wobrwyo hefyd, defnyddia y gwlith a'r gwlaw, yr haul a'r awelon, a llawer o bethau, a thywallta heddwch fel afon i galon dyn da.

Yn nhrefn gras, y moddion yw cymhellion, anogaethau, rhybuddion, addewidion, a'r cyffelyb—cariad tragwyddol yr holl drefn, a dylanwad mwyn a thyner (ond hollalluog) yr Ysbryd Glan ar galonau dynion, i'w gwneud yn ufudd yn nydd nerth y Brenin mawr.

Am y modd y gweinyddir yr holl foddion hyn i gyrhaedd yr amcan mawr o amlygu gogoniant Duw, gellir dywedyd ei fod yn mhob peth yn deilwng o Dduw—mae yn wastadol yn dawel a dystaw, nid oes un gair yn cael ei ddywedyd. Mae Duw ei hun o'r golwg, yr offerynau sydd yn cael eu gweled. Nid yw yn treisio meddwl neb, ond mae pawb yn rhydd, yn berffaith rydd. Er yr holl ddylanwadau dystaw a nerthol sydd ar y ddaear hon yn gweithio dan reolaeth Duw, nid yw efe ei hun yn dychrynu neb drwy ymddangosiadau o'i eiddo; ac y mae rhai yn meddwl ei fod ef ei hun wedi gadael y ddaear iddynt hwy i wneud fel y mynont â hi; ond nid felly y mae. Mae yr Arglwydd yma yn ein canol o hyd. Gwelwn felly fod yr un doethineb yn dysgleirio yn natur, Rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn iachawdwriaeth.

3. Mae yr un tragwyddol *allu* yn cael ei amlygu yn y pedwar dosbarth. "Mae ei dragwyddol allu ef a'i Dduwdod i'w gweled yn amlwg yn y pethau a wnaed." Y mae eisieu gallu dwyfol i grëu y peth lleiaf yn gystal a'r mwyaf. Nid oes digon o allu mewn bod yn mysg creaduriaid i ddwyn cymaint a llwchyn i fod; ond dygodd gallu Duw yr holl greadigaeth i fod, yn fater ac yn feddwl, yn eu holl amrywiaeth. Nid wyf fi yn meddwl o ran hyny fod eisieu gallu mwy i grëu haul nag i grëu tywodyn, i grëu archangel nag i grëu gwybedyn. Dwyfol a thragwyddol allu sydd yn angenrheidiol, a gwelir ef drwy anian oll.

Yr un gallu ag a welir yn y greadigaeth yn dwyn pethau i fod, a welir eto yn Rhagluniaeth yn eu cynal mewn bod, ac yn rheoli eu holl weithrediadau i ateb dybenion y Goruchaf. Mae y llaw gadarn oedd yn *crëu* yn dyfod i'r golwg wrth ddwyn Israel o'r Aipht, ac i wlad Canaan yn y pen draw. Mae y gallu dwyfol yna i'w weled yn llywodraeth foesol Duw, o hyd yn dal dynion o flaen gorseddfainc cydwybod euog, er gwaethaf pob ymdrech i ddianc o'i gafaelion; yn tywallt barnau Duw ar ei elynion, ac yn amddiffyn y rhai a ymddiriedant ynddo ef. A phrin y mae yn angenrheidiol i mi ddywedyd fod yr efengyl yn "allu Duw er iachawdwriaeth," a bod Crist "yn Grist gallu Duw," a bod "rhagorol fawredd ei nerth Ef, gweithrediad nerth ei gadernid Ef," yn dyfod i'r golwg yn nychweliad a santeiddiad pechaduriaid. Mae yr un gallu, gan hyny, yn dysgleirio yn y pedwar dosbarth.

4. Gwelir eto yr un daioni yn dysgleirio yn y gwahanol ddosbeirth hyn:—

*Yn natur.* Pan orphenodd Duw waith y greadigaeth, efe a adolygodd yr hyn oll a wnaethai, ac wele da iawn ydoedd. Yr oedd daioni Duw yn eneinio y cwbl, ac megys yn dyferu o fyd i fyd, fel yr olew a dywelltid ar ben yr archoffeiriad, yn dyferu hyd ymyl ei wisgoedd ef.

Yn ei *Ragluniaeth*. "Ni adawodd Duw mo hono ei hun yn ddi-dyst, gan wneuthur daioni, a rhoddi gwlaw o'r nefoedd, a thymhorau ffrwythlon, a llenwi ein calonau ni â lluniaeth ac â llawenydd," Act. xiv. 17. Mae efe "yn ein llwytho ni beunydd â daioni."

Yn ei *lywodraeth foesol*. "Da yw gair yr Arglwydd," medd un o'i weision gynt, Esa. xxxix. 8. Mae y gyfraith yn dda; mae y gwobrau a'r cosbau yn dda—pob peth yn gyfiawn, teg, a da. Ond mae daioni Duw, oedd fel afonydd cryfion yn y dosbarthiadau eraill, wedi myned yn foroedd dyfnion yn *nhrefn iachawdwriaeth*. Dyna y pryd yr "ymddangosodd daioni a chariad Duw tuag at ddyn." Daeth cymaint o ddaioni, cariad, a gras Duw tuag at ddyn i'r golwg yn nhrefn ei gadwedigaeth, fel y mae pob amlygiad arall o ddaioni tuag ato yn cael ei daflu i'r cysgod yn hollol yn ymyl hwnw. Dyma ddaioni Duw yn rhedeg yn elfen fyw drwy y pedwar dosbarth.

5. Mae *penarglwyddiaeth* Duw yn dyfod i'r golwg eto yn y dosbarthiadau hyn. Penarglwyddiaeth Duw ydyw y briodoledd hòno o'i eiddo, yn ol pa un y mae efe yn cyfranu ei ddaioni i'w greaduriaid, fel y gwelo efe yn dda, pryd nad oes ganddynt hwy yr un hawl ar y daioni hwnw. Mae penarglwyddiaeth wedi gosod ei delw ar bob peth yn y greadigaeth. Gwelir hi yn y mawr a'r bychan, y cryf a'r gwan, yr araf a'r cyflym, yr hir a'r byrhoedlog. Mae y cwestiwn, paham y gwnaeth Duw hwynt felly, yn anatebadwy byth, ond trwy addef mai felly y rhyngodd bodd i Dduw eu gwneuthur.

Yn rhagluniaeth, gwelir penarglwyddiaeth yn eglur iawn. Pa gyfrif a roddir am neillduad y genedl Iuddewig i fod yn bobl i Dduw, yn hytrach nag un genedl arall, ond penarglwyddiaeth Duw? A pha gyfrif a roddir am godiad Moses, Joshua, Dafydd, a Solomon, a lluoedd yn eu mysg, i'r sefyllfaoedd a gawsant, ond daioni neillduol Duw tuag atynt, pryd nad oedd ganddynt hwy yr un hawl i'r daioni hwnw? Pwy a roddes gyfoeth i Dafydd, a chalon i'w gyfranu at y deml, ond penarglwyddiaethol ras Duw? Paham y ganwyd ni yn Nghymru oleu a chrefyddol, yn hytrach nag yn Arabia neu China? a gellid ychwanegu mil o bethau eraill yn ddigon hawdd, a'r unig ateb teilwng iddynt fyddai, *Penarglwyddiaeth Duw.*

Mewn llywodraeth foesol, nid oes penarglwyddiaeth o gwbl yn ei *gweinyddiad* tuag ddynion nac *angylion* chwaith; er hyny, penarglwyddiaeth sydd wedi gosod ei therfynau a rhifedi ei deiliaid. Penarglwyddiaeth a gynysgaeddodd y deiliaid â chymhwysderau i fod yn ddeiliaid y fath lywodraeth. Penarglwyddiaethol ras sydd yn mynych noddi y deiliaid rhag gweinyddiad buan cosb eu pechodau, a phenarglwyddiaethol ras sydd wedi darparu gwobrau mor fawr i'r deiliaid ufudd yn y pen draw. Felly, er nad oes penarglwyddiaeth, ond cyfiawnder, yn ngweinyddiad y llywodraeth hon, eto cylchynir hi, ac effeithir ar ei gweinyddiadau, mewn amryw o ffyrdd gan ras penarglwyddiaethol Jehofa.

Y mae penarglwyddiaeth i'w weled yn nodedig yn nhrefn iachawdwriaeth—yn lluniad yr holl drefn: "Yn ol ei arfaeth ei hun a'i

ras, yr hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu, cyn dechreu y byd," y gwnaed y drefn hon. Mae penarglwyddiaeth yn amlwg yn y ffaith mai i *ddynion* ac nid i *angylion* syrthiedig y darparwyd y drefn. Mae penarglwyddiaethol ras yn nychweliad pob pechadur a ddychwelir—yn ei santeiddiad a'i ogoneddiad. Amcan mawr prynedigaeth pechaduriaid ydyw, dyrchafu a gogoneddu Duw fel Duw pob gras. Ni a welwn, gan hyny, fod yr un benarglwyddiaeth ddwyfol yn dal cysylltiad agos â natur, Rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn cadwedigaeth pechaduriaid.

6. Mae yr un manylrwydd i'w ganfod ynddynt oll. Mae holl weithrediadau natur yn fanwl, sicr, ac heb golli dim amser, ac yn dangos yn eglur ei bod yn gweithio wrth gynllun perffaith yn mhob peth. Mae manylrwydd cyffelyb i'w weled yn nhrefn Rhagluniaeth. Fel yr aeth Israel o'r Aipht o fewn corff y dydd apwyntiedig, ac y daethant o Babilon yn yr amser a ragnodasid, felly y mae holl symudiadau Rhagluniaeth yn ol cynllun perffaith a hollol ddiddamwain. Mae llywodraeth foesol yn fanwl a digoll, yn ol cynllun difwlch a chyfiawnder diysgog. Yr un modd y mae trefn iachawdwriaeth yn fanwl a digoll, o'i Halpha i'w Homega. Pob da wedi ei arfaethu gan Dduw; pob drwg wedi ei ragweled yn ei achosion nacaol, ac yn cael ei oruwchreoli gan Dduw yn ei gynllun mawr a gogoneddus i ogoniant ei enw Ef yn y diwedd.

7. Fod pob un a gydymffurfio â deddfau y pedwar dosbarth yn sicr o fod yn ddiogel a dedwydd drwy hyny. Y neb a roddo ufudddod i ddeddfau anian, bydd anian yn dŵr cadarn i'w amddiffyn. Y neb a gydymffurfio â deddfau Rhagluniaeth, bydd Rhagluniaeth yn dda wrth y cyfryw. A phwy bynag a barcho gyfraith Duw, bydd y gyfraith o'i blaid. Ac er i ddyn fethu gyda golwg ar ddeddfau natur, deddfau Rhagluniaeth, a llywodraeth foesol, os derbyn efe yr efengyl drwy ffydd, bydd yn gadwedig byth. O'r ochr arall, os dibrisia efe natur, Rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a gras Duw, bydd yn ddyoddefydd yn y byd hwn, ac am byth yn yr hwn a ddaw.

8. Fod dirgelion cyffelyb i'w cael yn natur, Rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn gras. Mae natur mor llawn o ddirgelion fel y mae gwelltyn glas a goleuni canwyll heb eu deall eto, heb son am ddeddf atdyniad a phob math o fywyd. Mae Rhagluniaeth yn ddyfnder mawr, ac wedi dyrysu llawer. Mae y cwestiwn, pa fodd y llwydda ffordd yr anwir, wedi taflu y dynion goreu i benbleth yn aml iawn. Mae llywodraeth foesol yn llawn dirgelion, yn neillduol dyfodiad pechod i'r llywodraeth hòno, a'r goddefiad o hono drwy yr oesoedd gan Dduw. Yr un modd mae dirgelion yn nhrefn gras—Person Crist, dylanwad dwyfol yn ei natur, adgyfodiad cyrff y saint, a phenarglwyddiaeth dwyfol ras. Mae yr un ddelw yn union ar y pedwar dosbarth yn hyn.

Yn awr, gan fod yr un priodoleddau dwyfol, a'r un delweddau yn hynodi y pedwar dosbarth sy dan ein sylw, a bod yr un amcan mawr i'w ganfod ynddynt oll, a'u bod oll yn wasanaethgar i'w gilydd i

amlygu gogoniant yr Arglwydd yn y cyfan oll, y mae yn naturiol i ni dynu casgliad—Fod natur, Rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a gras achubol yr efengyl yn wahanol ranau yn yr *un drefn fawr*, ac mai un gyfundrefn fawr sydd gan Dduw, a bod hòno yn hollol dan ei lywodraeth Ef ei hun, "Canys o hono Ef, a thrwyddo Ef, ac iddo Ef y mae pob peth," ac y mae holl ranau y drefn fawr hon yn cyduno i briodoli iddo Ef yr holl ogoniant oddiwrth y cyfan yn oes oesoedd.

2. Ymddengys eto, Fod trefn cadw pechaduriaid y *benaf* oll o ffyrdd Duw. Yn hon y mae Efe am wneud son am dano ei hun drwy y cread. Yn hon y gwnaed y pethau mwyaf a rhyfeddaf oll. Y Gair tragwyddol wedi ei wneud yn gnawd, a thrigo yn ein plith ni, a byw a marw drosom ni. Ni chlywodd angylion erioed am y fath bethau yn un rhan o lywodraeth Duw ag a wnaed ar wyneb ein daear ni yn nhrefn ein hiechydwriaeth. Mae y drefn hon yn annhraethol ogoneddus.

3. Mae trefn iechydwriaeth mor fawr, fel y mae pob peth arall, drwy y greadigaeth, wedi eu rhoddi i Ben yr eglwys i fod yn is-wasanaethgar i ddwyn amcanion hon i ben—holl natur a rhagluniaeth yn ei gwasanaethu—llywodraeth foesol a phob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear, yn llaw hollalluog y Gwaredwr, i ddwyn amcanion y drefn hon i ben; pob angel, a cherub, a seraph, yn weision yn gweinyddu ynddi. Natur dyn wedi ei chodi yn mherson Crist i orsedd Duw, a dynoliaeth fel pe byddai wedi ei dyrchafu uwchlaw pob natur arall drwy y greadigaeth.

4. Fod y ffaith o gydgordiad pob peth, a'u cysondeb â'u gilydd, fel gwahanol ranau un gyfundrefn fawr i ateb yr un dybenion gogoneddus, yn cydweddu yn brydferth â datganiadau yr Ysgrythyr, "Mai un Duw sydd, ac nad oes arall ond efe;" oblegid nid oes, trwy natur, rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn gras, ddim yn perthyn i neb arall. Ei bethau Ef sydd yn mhobman, a'i ddylanwad Ef sydd ar a thrwy bobpeth. Nid oes na lle na gwaith i unrhyw Fod dwyfol arall. Pe byddai yn bosibl iddo fodoli (yr hyn nid yw yn bosibl), un *segur* fyddai, heb ganddo ddim i'w wneuthur. Y mae un Duw yn Fod tragwyddol ac anfeidrol yn ei holl briodoleddau, ac "un Duw sydd," ac nid oes lle i un arall, na gwaith i un arall, ond Efe.

5. Mae cydgordiad a chysondeb natur, rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn gras, yn eu holl ranau, fel un gyfundrefn fawr, a gwasanaethgarwch y cwbl i drefn cadw pechaduriaid, yr hon yw haul y cwbl, yn dangos y pwys annrhaethol a berthyn i ddyn fel creadur rhesymol. Y mae meddwl yn fwy na defnydd—yn well, yn ogoneddusach na mater. Mae deddfau y meddwl felly goruwch deddfau anian, yn llawer pwysicach ac ardderchocach na hwy. Yn awr, oni ellir, gan hyny, dynu casgliad teg fod dyn i barhau ar ol y fuchedd hon, ac i fod yn weithredydd moesol byth ar diroedd dyeithr y byd a ddaw?

Dyma natur yn ei holl eangder, Rhagluniaeth yn ei holl amrywiaeth, llywodraeth foesol yn yr oll ag ydyw, yn wasanaethgar i drefn

cadw dyn. Ai tybed nad yw y dyn y mae pob peth yn is-wasanaethgar iddo, i fyw drwy angeu, ac i aros yn rhywle yn hŵy nag yr erys ar y ddaear? Mae y ty a adeilada yn aros yn hŵy nag efe; mae y dodrefn a saernïa yn ei oroesi; mae coed y maes yn hŵy eu hoes nag efe yma. Mae yr un haul wedi goleuo i holl oesoedd y byd, ac wedi holl ddarpariaeth Duw ar ei gyfer—wedi i bob peth ei wasanaethu, ai tybed mai 20, 30, 40, 50, 60, 70, neu 80 fydd hyd tymhor ei fodolaeth ef? Nage, nage. Mae natur, Rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn iachawdwriaeth, a'u cydweithrediad yn y gwaith o ddiogelu a dedwyddu dyn, fel un gyfundrefn fawr yn gweini iddo, yn cydgyhoeddi gyda dwyfol ysbrydoliaeth yn y Beibl,—Fod dyn yn greadur i'w symud o'r byd hwn i'r byd arall, ac i fôdoli am byth yn y byd hwnw.

6. Gan fod y pethau fu dan ein sylw, yn y pedwar dosbarth, i gyd o Dduw, a thrwy Dduw, ac i Dduw, yn hongian wrth Dduw, yn bodoli drwy nerth ei ddwyfol Air a'i ewyllys Ef, ac yn cyfeirio ato yn barhaus, cofiwn ninau mai yn Nuw y mae ein holl ddiogelwch a'n dedwyddwch. Ei ogoneddu Ef yw ein prif ddyben, yn gystal a dyben eithaf pob peth arall. Priodolwn bob mawredd a daioni iddo Ef. Os gwnawn *ni* ryw ddaioni, ni fethwn ni byth wrth briodoli hyny i ddylanwad dwyfol yn ein gweithio ni i hyny; ac os gwnawn ddrwg, o'r ochr arall, ni fethwn ni byth wrth briodoli hyny i ni ein hunain yn hollol.

7. Wedi y cwbl, yn y Beibl yr adnabyddir Duw oreu. Ychydig o ddynion sydd yn meddu amser na moddion i chwilio natur, ac i ddeall ond ychydig am droion rhyfedd Rhagluniaeth, ond mae y Beibl yn llyfr i bawb, yn nghyrhaedd pawb, ac yn llefaru wrth bawb mewn geiriau. Fe welir y Duwdod yn natur, ond yn gan' eglurach yn y Beibl. Mae elfenau cyntaf cyfryngwriaeth i'w gweled yn natur a Rhagluniaeth, ond yn y Beibl y canfyddir Cyfryngwr rhwng Duw a phechaduriaid i'w hachub i fywyd tragwyddol. Mae elfenau athrawiaeth yr Iawn yn ysgrifenedig yn y meddwl dynol, ond yn y Beibl y mae y gwirionedd hwnw wedi ei ddatguddio yn llawn. Mae athrawiaeth cyfrifiad yn gorwedd yn ddystaw yn natur a Rhagluniaeth, feallai, ond y Beibl sydd wedi ei gwneud yn oleu fel haner dydd. Fel y mawrhaodd Duw ei Air uwchlaw ei enw oll, dysgwn ninau wneuthur yr un modd.

## DUW: PA FATH FOD YDYW EFE?

*Darlith IX.*

DANGOSWYD eisoes fod y greadigaeth yn profi bodolaeth yr Hwn a'i creodd, deddfau anian yn profi bodolaeth y Deddfwr, Rhagluniaeth yn profi fod y Rhagluniwr yn bod, a'r llywodraeth fawr sy dros bob

peth yn profi fod Llywodraethwr yn bodoli. Dangoswyd hefyd, yn fyr, nas gall fod ond *un* Duw oddiwrth gyfatebiaeth natur, Rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn iachawdwriaeth—nad oes *le* i un Duw arall, na gwaith iddo i'w gyflawni, nac amcan iddo i'w gyrhaedd, am fod pob peth yn canolbwyntio yn yr *un* Duw a ddatguddir yn natur ac yn y Beibl. Priodol hefyd yw sylwi fod Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd yn dal allan yn unllais "mai un Duw sydd, ac nad oes arall ond Efe," yn erbyn y syniadau oedd yn y byd, ac sydd eto ynddo, am fodolaeth llawer o dduwiau.

Y mater y galwaf eich sylw ato heddyw yn benaf ydyw, Pa fath Fod ydyw y Goruchaf. Diau fod gwylder mawr yn angenrheidiol i ni wrth ymdrin â'r fath fater a hwn. Nid oes le i ddychymygion a thyb-osodiadau yma. Byddai hyfder yn hollol afresymol. Nid oes neb yn adwaen Duw, ond i raddau bychain, ond Efe ei hun. Rhaid cael Duw i amgyffred y fodolaeth ddwyfol. Mae y creadur yn rhy fychan i amgyffred y Creawdwr. Ni all yr holl greaduriaid rhesymol a grëwyd erioed gyda eu gilydd wybod ond ychydig am Dduw. Pe gallai rhyw greadur gyflawn amgyffred y Goruchaf, byddai hwnw yn gymaint ag Ef; ïe, yn fwy nag Ef, ac yn cynwys Duw ynddo ei hunan! "Wele, y nefoedd, a nefoedd y nefoedd, ni allant dy amgyffred," meddai Solomon wrth yr Arglwydd yn ei weddi. Mae mawredd Duw "yn anchwiliadwy," medd y Salmydd; gan hyny, y cwbl a all creadur wneud mewn pwnc fel hwn ydyw, tynu casgliadau teg oddiwrth weithredoedd Duw, a derbyn yn galonog yr hyn a lefarodd Duw am dano ei hun yn ei Air. Cadwer ein meddyliau yn ostyngedig, gwylaidd, a gofalus iawn wrth draethu ein meddyliau am y Duwdod. Dywed yr Arglwydd Iesu, yr hwn oedd yn berffaith gymhwys i'n hyfforddi ni ar y fath bwnc a hwn, fel pob mater arall, am ei fod yn wir Dduw, ac felly yn cyflawn amgyffred y fodolaeth ddwyfol, mai

"YSBRYD YW DUW."

Efe yw yr Ysbryd mawr, tragwyddol, a Thad pob ysbryd crëedig drwy y bydysawd. Mae y gair hwn, sef mai "Ysbryd yw Duw," yn ein dysgu mai Bod heb gorff, rhanau, ac aelodau ydyw Efe. Nid oes dim materol ynddo Ef. Ysbryd pur, syml, ac anweledig yw Duw, yr hwn nas gwelodd un dyn, ac nis dichon ei weled, ac ni welodd angel ef erioed mwy na dyn.

Dysga y fath Air ni hefyd mai Meddyliwr yw Duw, a Thad yr holl feddylwyr eraill drwy y greadigaeth. Efe yw y Rheswm mawr tragwyddol, a ffynon pob rheswm crëedig. Mae holl weithredoedd yr Arglwydd yn dangos yn eglur eu bod yn ffrwyth meddwl a chynllun wedi ei lunio gan feddwl perffaith.

1. Y fath brofion o feddwl sydd yn nghynllun y greadigaeth, a'r fath amrywiaeth o feddwl sydd yn ddiderfyn yn yr amrywiaeth hwnw, o leiaf i ni.

2. Y fath feddwl sydd yn Rhagluniaeth, yn hanes Joseph, Moses, ac Esther—amgylchiadau pob dydd.

3. Y fath feddwl a welir yn llywodraeth foesol Duw. Y Meddwl tragwyddol sydd yma yn llywodraethu meddyliau llai ac is, a'r fath amrywiaeth ac eangder sydd yn y dosbarth hwn eto, ac fel y mae y meddyliau hyn yn ymestyn i dragwyddoldeb, heb derfyn iddynt byth.

4. Yr un peth a ellir ddywedyd am drefn iachawdwriaeth. Mae y drefn i gyd yn orlawn o feddwl—o bob math o feddyliau teilwng o Dduw, a'r cwbl yn dangos mai "Ysbryd yw Duw." Mae holl feddyliau yr Ysbryd mawr tragwyddol yn berffaith—yr un erioed, heb ddim newidiad na chysgod tröedigaeth yn perthyn iddynt. Mae eu *perffeithrwydd* yn brawf o'u hanghyfnewidioldeb. Nis gellir eu newid er gwell. Y maent yn berffaith: ac i Dduw newid ei feddyliau er gwaeth sydd yn anmhosibl. Mae holl feddyliau Duw hefyd yn eiddo priodol iddo Ef ei hunan. Ni chafodd Efe feddwl oddiwrth neb erioed. Maent oll yn berffaith wreiddiol. Ac y mae Efe mor fawr fel y gall feddwl am bob peth ar unwaith, a chario pob rhan o'i gynllun mawr i weithrediad ar yr un pryd, a hyny yn hollol ddidrafferth.

## Y GWAHANIAETH RHWNG DUW FEL YSBRYD A PHOB YSBRYD ARALL.

Er fod rheswm a'r Beibl yn tystiolaethu mai "Ysbryd yw Duw," eto dylem ystyried y gwahaniaeth raid fod rhwng Duw fel Ysbryd a phob ysbryd crëedig. Mae yma wahaniaeth o ran *natur* rhwng yr Ysbryd dwyfol ac ysbrydion eraill, pa un bynag fyddont ai dynion ai angylion. Ysbrydion yw yr angylion oll, ac y mae ysbryd mewn dyn, ac ysbrydoliaeth yr Hollalluog a barodd iddo ef ddeall; er hyny, nid yr UN yw yr ysbrydion crëedig a'r Ysbryd mawr tragwyddol o ran natur. Rhaid fod gwahaniaeth *anfeidrol* rhyngddynt.

1. Mae Duw yn Ysbryd oedd yn bodoli erioed o dragwyddoldeb, a hyny o angenrheidrwydd; ond nid yw yr holl ysbrydion eraill ond bodau crëedig ganddo Ef, ac wedi dyfod i fodolaeth yn bur ddiweddar drwy ei ewyllys a'i allu Ef. Bu adeg nad oedd yr un o honynt hwy yn bodoli, ond ni fu adeg erioed nad oedd Efe yn bodoli. Mae ei fodolaeth Ef yn un o angenrheidrwydd, ond mae eu bodolaeth hwy oll wedi tarddu o ewyllys a chynllun Duw. Gan hyny, rhaid bod gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt a'r fodolaeth oedd erioed o angenrheidrwydd.

2. Y mae yr Ysbryd dwyfol yn annibynol ar bawb a phob peth, a'i holl adnoddau ynddo ei hunan, ac nid mewn dim tuallan iddo ei hun. Rhaid ei fod felly, oblegid nid oedd neb yn bodoli ond Efe ei hunan hyd yn ddiweddar iawn. Pwy a roddes iddo Ef yn gyntaf? "Pwy a fu yn gynghorwr iddo Ef?" Nid derbyn, ond cyfranu y mae Efe—rhoddi i bawb bob peth angenrheidiol i'w bodolaeth a'u dedwyddwch; ond hollol ymddibynol arno Ef am bob peth ydyw ysbrydion crëedig. Nid oes ganddynt *ddim* ond a dderbyniant beunydd oddiwrtho Ef. Wrtho Ef yr *hongiant* oll, ac o'i law y derbyniant yr oll a fwynhant. Y mae angylion, yn gystal a dynion, yn ymddibynol hollol ar Dduw, a byddant felly i dragwyddoldeb.

3. Mae yr Ysbryd dwyfol yn ddiderfyn o ran bodolaeth a galluoedd. Mae efe yn llenwi y nefoedd a'r ddaear; hyny ydyw, y mae efe yn llenwi pob man—yn llenwi tragwyddoldeb ei hun. Nid oes derfyn iddo, ond y mae lle wrth ochr pob creadur nas gall efe ei lenwi, heb adael lle arall yn wag. Y mae terfyn i fodolaeth pob ysbryd ond Ysbryd Duw, a therfynau i'w galluoedd yr un modd; ond y mae pob priodoledd yn Nuw yn ddiderfyn. Aneirif yw ei ddeall. Mae yn gallu pob peth. Gwyr y cwbl, nid yn unig y pethau a berthyn i'w greaduriaid, ond pob peth yn ei gynllun a'i fodolaeth Anfeidrol ei hun.

4. Mae perffeithrwydd yn mhob peth, ac yn mhob ystyr, yn hanfodol i'r Duwdod, ac y mae ei greaduriaid yn hanfodol ddiffygiol ac anmherffaith, ac felly yn agored i fethu a chamgymeryd ar bob llaw. Mae angylion a dynion wedi methu a chamgymeryd, ond Bod perffaith ydyw efe, ac anfeidrol mewn perffeithrwydd.

5. Ysbryd yw Duw, ac Ysbryd gwahanol yn ei natur i ysbrydoedd creadigol; gan hyny, ni welodd neb Dduw erioed. Nis gwelodd un dyn, ac nis dichon ei weled; ac ni welodd neb yn y nefoedd, mwy na'r ddaear, Dduw erioed. Y Brenin tragwyddol, anfarwol, *anweledig* ydyw efe. Mae yn debygol y gall ysbrydion crëedig ganfod y naill y llall, ac adnabod eu gilydd mewn rhyw ffordd ddyeithr ac anadnabyddus i ni; ond ni all neb ganfod y fodolaeth ddwyfol. Mae efe yn trigo mewn goleuni rhy ofnadwy i greadur droi ei olygon ato, a byw. Ni welodd nac Abraham, na Moses, na Joshua, nac Esay ddim ond rhyw arwyddion o'i bresenoldeb Ef, ac y mae dwyfoliaeth ei hun mor anweledig yn mherson Crist ag ydyw yn mherson y Tad, neu yn mherson yr Ysbryd Glan. Ond er fod y Goruchaf yn anweledig, y mae efe gyda ni yn mhob man. Nid yw efe nebpell oddiwrth bob un o honom, oblegid ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod, a meddylddrych difrifol ydyw hwnw, fod Duw gyda ni yn mhob lle. Argraff ddofn o'r gwirionedd hwn a barai i ni ymddwyn yn weddus yn mhob man, ac yn mhob peth.

6. Gan mai Ysbryd yw Duw, rhaid ydyw ei addoli a'i wasanaethu ef mewn ysbryd a gwirionedd. Nid â dwylaw dynion y gwasanaethir ef, fel pe byddai arno eisieu dim. Tra rhesymol ydyw i ddynion, gan hyny, roddi y galon iddo ef; am y galon y mae efe yn ymofyn, a rhaid iddo gael y galon. Mae rheswm a Beibl—y mae deddf ac efengyl, yn gofyn y galon i wasanaethu Duw; ac nid yw addoliad defodol i'r Arglwydd, a'r defodau hyny heb eu gorchymyn gan Dduw, ond perffaith ynfydrwydd.

7. Gan mai Ysbryd yw Duw, ac Ysbryd anfeidrol bell oddiwrth ysbrydion crëedig o ran ei natur, heb ddim materol yn ei fodolaeth, yna, mae yn eglur mai ymostwng i lefaru mewn iaith ddynol y mae yr Ysbryd Glan pan y llefara am Dduw fel pe y meddianai alluoedd corfforol megys dyn, fel y gallem ni, drwy bethau dynol, ddeall rhyw ychydig am bethau dwyfol. Pan ddarlunir yr Arglwydd fel un yn meddu llygaid a chlustiau, ffroenau a genau, dwylaw a thraed; ac fel

un yn meddu cerbydau, a phalas, a meirch, a phethau cyffelyb—troell-ymadroddion yn cael eu defnyddio i ddyfod yn agos at ddynion ydyw y pethau hyny oll. Yr un peth raid ddweyd am ymadroddion a osodant allan fod Duw yn dysgwyl pethau na ddeuant byth i ben—yn edifarhau am iddo wneud dyn, a llawer o bethau cyffelyb, y rhai nas gellir eu cymeryd yn llythyrenol.

Mae gair arall yn y Beibl, yr hwn sydd nid yn unig yn brydferth iawn, ond yn neillduol addas i roddi i ni amryw o syniadau gwerthfawr am y Duwdod. Y gair hwnw ydyw hwn: "Goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim tywyllwch." Troell-ymadrodd sydd yn y geiriau, yn ddiamheu, ond y mae yn droell-ymadrodd llawn o feddwl, ac yn awgrymu llawer o bethau am y Brenin mawr.

1. Y mae y dirgelwch a berthyn i'r Duwdod yn cael ei osod allan drwy y goleuni. Nid oes neb yn gallu amgyffred y goleuni, pa beth ydyw. Felly y mae y creadur yn analluog i amgyffred y Creawdwr.

2. Mae egluro yn perthyn i'r goleuni. Beth bynag sydd yn egluro, goleuni yw. Yn ei gysylltiad â'r Duwdod, gesyd allan yn eglur ei wybodaeth ddiderfyn, a'r modd y mae Efe yn datguddio ei hunan i'w greaduriaid, a'r creaduriaid i'w gilydd. Felly y gelwir Crist yn Oleuni, yn Haul cyfiawnder, y gwir Oleuni sydd yn goleuo pob dyn sydd yn dyfod i'r byd.

3. Meddylddrych arall ydyw *purdeb* difrycheulyd. Nid oes brycheuyn ar oleuni y dydd. Gesyd allan gyfiawnder a santeiddrwydd y Goruchaf—anfeidrol burdeb.

4. Mae y gair yn sefyll am ddiogelwch a dedwyddwch; ac yn ei gysylltiad â Duw, gesyd allan ei ddiogelwch er gwaethaf ei holl elynion. Os pechi, pa niwaid yr wyt ti yn ei wneuthur iddo Ef? Ei ddedwyddwch perffaith ynddo ei hun, ac yn ei holl gynllun gogoneddus a'i weithredoedd lluosog, a llwyddiant ei holl amcanion. Goleuni yw Duw yn yr ystyron hyn, a llawer yn ychwaneg a allesid nodi, megys mai Efe ei hun ydyw achosydd pob llwyddiant a dedwyddwch i'w greaduriaid, a ffynon fawr eu holl gysuron. Myned at Dduw ydyw *myned i'r goleuni*, a mwynhau Duw ydyw mwynhau goleuni pur. Nid oes ynddo Ef ddim sydd groes i'r pethau hyn. Nid o hono Ef y tardd anwybodaeth, llygredigaeth, ac annedwyddwch i neb. O'r creadur y tardd y pethau hyn oll, ac nid oddiwrth yr Arglwydd.

Gallem sylwi ar un gair bychan arall sydd yn y Testament Newydd yn desgrifio y Duwdod: "Duw, cariad yw." Nid ydym, yn ddiau, i feddwl mai y rhinwedd, neu y peth a elwir cariad, ydyw yr hanfod ddwyfol o ran ei bodolaeth. Ond y meddwl yw—Fod cariad yn cael ei amlygu yn holl gynlluniau a gweithredoedd Duw, fel y gellir dywedyd am dano, gan mor llawn y daw ei gariad i'r golwg, *ei fod yn gariad i gyd*. Fe ddywedir rhywbeth tebyg weithiau am ddynion, eu bod yn wybodaeth i gyd—yn dosturi i gyd—yn diriondeb i gyd—yn sirioldeb i gyd. Felly dywedir gan Ioan, mai "Cariad yw Duw," am fod cariad yn nodweddu ei holl ymwneud Ef â'i greaduriaid. Yn

wir, cariad yw sylfaen holl weithredoedd yr Arglwydd. Mae y greadigaeth wedi cael ei bod drwy gariad Duw. Ymawyddu yr oedd Efe am gael myrdd myrddiynau o greaduriaid i gydfwynhau ei ddaioni Ef gydag Ef ei hunan. Felly, fe ddygodd dorfeydd dirifedi i ni o honynt i fodolaeth i fod yn llestri i ddal eu llonaid o'r daioni sydd ynddo Ef ei hun. Yn ei Ragluniaeth, mae ei ddaioni Ef yn llifo drwy yr holl greadigaeth yn afonydd dyfnion—yn eneinio ei holl weithredoedd, ac yn datguddio dyfnderoedd ei gariad a'i ewyllys da Ef tuag at ei greaduriaid. Llywodraeth cariad yw ei lywodraeth foesol Ef, cyfraith cariad yw ei chyfraith foesol fawr, gwobrau cariad yw ei gwobrau; a phan y mae Duw yn cosbi ei greaduriaid am eu pechodau, cariad at yr hyn sydd yn ei le—cariad at iawndrefn—cariad at y daioni cyffredinol a mwyaf, sydd yn peri iddo Ef gosbi felly. Fe sonir yn fynych yn y Beibl am ddigofaint yr Arglwydd—am lid Duw hollalluog, a dywedir mai iddo ef y perthyn dial. "Myfi a dalaf, medd yr Arglwydd," ond nid ydym i feddwl mai rhyw nwyd gynhyrfus a therfysglyd yn ei fynwes Ef yw ei ddigofaint, ond yr angenrheidrwydd moesol santaidd y mae Efe dano i gosbi troseddwyr a *fynant* fyw yn eu pechodau er pob rhybuddion ac anogaethau i'w gadael. Gwrthwynebiad santaidd i bechod, yn cyfodi oddiar gariad at gyfiawnder a santeiddrwydd, yw digofaint Duw, ac nid nwyd yn ymweithio fel y mae yn ei greaduriaid. Felly yr *un* agoriad sydd yn *agor* porth uffern, ac yn *cau* ar y colledigion yno (cariad at y daioni cyffredinol—y daioni mwyaf) ag sydd yn *agor* porth y nef i ollwng myrddiynau y saint i fewn i fwynhau y gwynfyd didranc sydd yno.

Ond diau mai yn nhrefn iachawdwriaeth pechaduriaid y mae cariad Duw yn dyfod i'r golwg yn benaf oll. "Felly y carodd Duw y byd." "Cariad mwy na hwn nid oes gan neb, sef bod i un roddi ei einioes dros ei gyfeillion." Yma y mae cariad y Tad at y Mab, a chariad y Mab at y Tad, a chariad y Tad a'r Mab at yr Ysbryd Glan yn dyfod i'r golwg yn annhraethol ogoneddus, a chariad yr Ysbryd hefyd at y Tad a'r Mab yn ol, a chariad y tri Pherson dwyfol at y byd colledig. Anfeidrol gariad a welir yn y drefn ogoneddus hon.

"Goleuni yw Duw," a thywallt goleuni y mae efe i lygaid meddyliau dynion, fel y gwelont hawddgarwch y Duwdod, gogoniant person a gwaith y Cyfryngwr, a graslonrwydd Ysbryd y gras yn y fath fodd, nes y credont yn yr Arglwydd, ac yr ymorweddant ar ei drefn i gael eu cadw byth. "Duw, cariad yw;" a thywallt ei gariad y mae efe ar led yn nghalonau dynion, nes y delont i'w garu ef, ac i garu eu gilydd ynddo ef, ac i garu pob amcan sydd ganddo ef mewn golwg, a'r holl foddion a ddefnyddia efe i ddwyn ei amcanion gogoneddus i ben Fel y mae egwyddor fawr atdyniad yn dal y bydoedd wrth eu gilydd, ac wrth yr haul, a'r cyfan oll wrth ryw *un* canolbwnc mawr, mae yn debygol; felly hefyd y mae cariad Duw yn cyniweirio o'r orsedd i bob parth o'r cread, ac yn rhwymo bodau santaidd pob byd wrth eu gilydd, ac wrth orsedd y Creawdwr, yn dal yr eglwys ar y ddaear i ganolbwyntio

yn yr eglwys sydd yn y nef, fel, pan ymadawo Cristion oddiyma, y gallo ymgymysgu yn y fan â'r dorf sydd fry, fel yr ymgymysga dwfr yr afon â dwfr y môr, ac y teimlo gartref mewn moment pan osodo ei droed unwaith ar y droedfedd gyntaf o dir y baradwys nefol. Wrth gymeryd y tri gair hyn i ystyriaeth, gallai eu bod yn datguddio mwy o'r Duwdod i ni nag unrhyw dri gair arall drwy yr holl gyfrol ysbrydoledig i gyd.

Y fath Fod mawr, hawddgar, ac ofnadwy yw y Duwdod! Nid yw yr holl greadigaeth ond cwbl wagedd mewn cymhariaeth iddo Ef. Mae Efe yn anfeidrol uwchlaw ei holl greaduriaid. Mae rhai o greaduriaid Duw yn nes ac yn mhellach oddiwrth eu gilydd na'r lleill, ond nid oes yr un o honynt yn nes at Dduw nag eraill. Nid oes dim grisiau i'r meidrol ddringo ar hyd-ddynt at yr Anfeidrol. Nid oes dim a gulha yr agendor fawr sydd rhwng y creadur a'r Creawdwr. Mae pob creadur yn hollol ar yr un tir yn yr ystyriaeth yma. Nid yw angel ddim nes at Dduw na minau, na minau ddim nes at Dduw na'r pryf sydd yn y llwch dan fy nhraed. Nid yw neb, na'r cyfan oll yn nghyd, ond megys *dim* gerbron yr Arglwydd.

Y fath Fod hawddgar hefyd yw Duw! Goleuni ydyw, Cariad ydyw. Mae pob peth sydd ynddo yn annhraethol hawddgar. Mae ei gyfiawnder yn hawddgar, yn gystal a'i ddaioni a'i ras. Mae ei waith yn cosbi yr anedifeiriol yn hawddgar, yn gystal a'i waith yn maddeu i'r edifeiriol.

Y fath etifeddiaeth fawr sydd gan yr hwn y mae yr Arglwydd yn Dduw iddo. Dyna Anfeidroldeb ar gyfer meidroldeb. Duw a digon, yn ddiau.

Y fath ynfydrwydd yw gwrthryfela, a pharhau i wrthryfela yn erbyn Duw. "Pwy a ymgaledodd yn ei erbyn Ef ac a lwyddodd?" Neb erioed. Dyma i chwi dir diogel i sefyll arno wrth bregethu i gynghori pechaduriaid i roddi eu harfau i lawr, ac i gymodi â Duw.

## DUW: PA FATH FOD YDYW EFE?—PARHAD.

*Darlith X.*

YN y ddarlith flaenorol, gwnaed ychydig o sylwadau ar y Duwdod—yr ardderchocaf o bob testun y gall dyn fyfyrio arno. Seiliwyd y sylwadau hyny yn benaf ar dri gair sydd yn y Testament Newydd, sef, "Ysbryd yw Duw," "Goleuni yw Duw," a "Duw, cariad yw." Meddyliais unwaith am roddi y Ddarlith bresenol ar y *Drindod;* ond wrth weled y mater hwnw yn ymledu ac yn dyfnhau wrth fyfyrio arno, fel nad oedd fawr o obaith genyf y gallaswn ddywedyd yr hyn oedd genyf i'w draethu yn y ddarlith hon; a chan fod yr Athrofa yn tori i fyny yn bresenol am ryw dymhor, bernais mai y peth goreu a allwn wneuthur oedd ychwanegu ychydig sylwadau at y rhai blaenorol ar

bwnc y ddarlith ddiweddaf, yn nghyda rhoddi ychydig o gynghorion i'r myfyrwyr ar eu cychwyniad i'w teithiau casglyddol.

1. Fel y mae yn yr oll ag yw, y mae Duw yn bob peth i ddynion. Nid oes fodd i ni gamgymeryd wrth ddywedyd mai yn ei briodoleddau moesol yn benaf y canfyddwn ni ogoniant Duw. Wrth briodoliaethau moesol y Goruchaf yr ydys yn deall ei ddoethineb, ei ddaioni, ei gyfiawnder, ei santeiddrwydd, ei wirionedd, ei ffyddlondeb, a'r cyffelyb. Pa ogoniant bynag a berthyn i hollalluogrwydd, anghyfnewidioldeb, tragwyddoldeb, hollwybodaeth, a hollbresenoldeb y Goruchaf mewn cysylltiad â'i briodoleddau moesol (ac y maent yn annhraethol ogoneddus yn eu cysylltiad â'r cyfryw), eto pe gellid meddwl am Dduw fel un yn meddu y priodoleddau naturiol hyny ar wahan oddiwrth y rhai moesol, byddai y cyfryw Fod yn fwy o wrthddrych i'w arswydo nag i'w garu. Bod ofnadwy fyddai Bod hollalluog, hollwybodol, hollbresenol, ac anghyfnewidiol, heb gyfiawnder a santeiddrwydd, daioni a thrugaredd, gwirionedd a ffyddlondeb, yn perthyn iddo. Ni fuasai neb yn ddiogel nac yn ddedwydd am foment dan lywodraeth Bod felly. Ond wedi y cwbl, TYB-OSODIAD yw hyn oll. Y gwir yw, na allasai y Duwdod fodoli ond fel y mae yn ei holl briodoleddau. Er hyny, y mae yn eithaf gwir mai yn ei briodoleddau moesol y mae gogoniant yr Arglwydd yn llewyrchu yn benaf arnom ni. Mewn cysylltiad â hwy y gwelwn ni urddas ac ardderchogrwydd ei briodoleddau naturiol. Ar yr un pryd, gellir dywedyd yn ddibetrus na fuasai Duw cyfiawn, santaidd, doeth a daionus, ac yn llawn ffyddlondeb a gwirionedd, yn wrthddrych i'w greaduriaid ymddedwyddu ynddo heb ei fod yn hollalluog, yn hollwybodol, yn hollbresenol, ac yn anghyfnewidiol. Fel y MAE yn yr oll ag YDYW, y mae Duw yn bob peth i ddyn.

2. Arwain hyn ni i sylwi—Fod y Duwdod yn weithredydd moesol annhraethol ogoneddus. Nid yn unig y mae dynion ac angylion yn rhyddweithredwyr moesol, ond y mae Duw hefyd, ac yn hyn fel pob peth arall, mae Efe yn anfeidrol ardderchocach na'i greaduriaid. Os gofynir y cwestiwn, A ydyw gwirionedd, ffyddlondeb i'w addewidion, cyfiawnder, santeiddrwydd, a thrugaredd yn rhinweddau yn Nuw, rhaid ateb eu bod. Mae y Beibl yn son am fynegu *rhinweddau* "yr hwn a'n galwodd o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni Ef." Diau ynte, os yw gweithredoedd daionus y Duwdod yn rhinweddau ynddo Ef, eu bod yn tarddu o ddaioni ei natur—fod ei amcan wrth eu gwneuthur y goreu oll—ei fod yn gweithredu wrth reol ddigyfeiliorn, a bod y cymhelliadau sydd yn peri iddo eu gwneuthur oll yn annhraethol deilwng o hono Ef, a'i fod yn berffaith rydd yn y cyflawniad o honynt, ac yn deilwng o gael ei fawrygu a'i glodfori gan ei holl greaduriaid rhesymol am ei holl weithredoedd. Oni b'ai ei fod Ef yn weithredydd moesol ynddynt oll, byddai yn hollol anmhriodol ei ganmol a'i glodfori am danynt. Mae safon gweithredoedd moesol Duw, nid tuallan iddo, ond yn ei natur anfeidrol dda Ef ei hun. Efe ei *hun* yw y safon. Mae pob bwriad o'i eiddo, pob cynllun a luniodd, pob gair a lefarodd, pob

gweithred a gyflawnodd, yn tarddu allan o'i natur anfeidrol santaidd, a than reolaeth y daioni perffaith sydd ynddo Ef ei hunan yn ddigyfnewid byth.

3. Gan fod y Goruchaf yn weithredydd moesol perffaith—anfeidrol berffaith, mae yn hawdd i ni weled mai Efe ei hun yw safon gweithredoedd moesol ei greaduriaid. Gwir yw mai yn yr Ysgrythyrau, a datguddiadau eraill o hono Ef, yr ydym ni i gael allan pa beth a ddylem ni wneuthur dan bob rhyw amgylchiadau; ond wedi y cwbl, Efe a roddes y Gair i ni. Ei galon, ei nodweddiad, a'i ewyllys Ef sydd yn dyfod i'r golwg yn y datguddiad dwyfol. Yn Nuw ei hun y mae y rheswm mawr o herwydd pa un y dylai creaduriaid rhesymol fod yn rhinweddol. Felly y gosodir y mater allan yn y Beibl. Ar *ddelw Duw* y crëwyd y dyn rhinweddol cyntaf. Pethau oedd ac sydd yn Nuw ydyw gwybodaeth, cyfiawnder, a gwir santeiddrwydd. Ei bethau ei hun a roddes yr Arglwydd i addurno nodweddiad moesol y dyn cyntaf. "Byddwch santaidd, canys santaidd ydwyf fi," ydyw iaith yr Arglwydd yn ei air. "Byddwch, gan hyny, drugarogion, megys ag y mae eich Tad yn drugarog." "Cerwch eich gelynion, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant; gwnewch dda i'r sawl a'ch casânt, a gweddïwch dros y rhai a wnel niwaid i chwi, ac a'ch erlidiant. Fel y byddoch blant i'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd; canys y mae efe yn peri i'w haul godi ar y drwg ac ar y da, ac yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn." Dyna iaith y Beibl. Duw ei hun ydyw safon daioni. Bod yn debyg i Dduw yw bod yn dduwiol. Delw Duw ar enaid dyn ydyw duwioldeb. O'r ochr arall, pethau sydd gas gan Dduw—pethau yn taro yn erbyn ei natur bur a santaidd ydyw pechodau. Efe ei hun yw y safon; a gŵyro oddiwrth y safon hòno o ran meddwl, egwyddor, amcan, a gweithrediad ydyw annuwioldeb.

4. Gan fod pob perffeithrwydd sydd yn bosibl yn anfeidrol yn Nuw, perffeithrwydd naturiol a moesol, heb ddim anmherffeithrwydd o un math yn perthyn iddo; nis gall unrhyw anmherffeithrwydd a berthyn i greadur darddu o hono Ef, pa un bynag ai anmherffeithrwydd naturiol ai moesol fyddo. Mae creadur santaidd fel angel yn naturiol yn anmherffaith mewn cymhariaeth i Dduw; ond nid Duw a'i cyfranodd iddo; peth a berthyn, o angenrheidrwydd, ydyw i'r gwahaniaeth sydd rhwng y creadur (pa mor uchel bynag y byddo) a'r Creawdwr. Yn natur pethau y mae, ac nid wedi ei roddi gan Dduw o gwbl. Llawer llai y gellir dywedyd, fod anmherffeithrwydd moesol wedi tarddu o berffeithrwydd moesol y Goruchaf. Drwg ni thrig gydag Ef. Pa ddirgelwch bynag sydd yn gysylltiedig â dyfodiad pechod i'r byd, a'i barhad yn y byd, eiddo y creadur yn hollol ydyw. Mae yn anmhosibl ei fod mewn unrhyw fodd wedi dyfod oddiwrth y Creawdwr. *Diffyg* yw pechod, a *pherffeithrwydd* yw Duw; ac y mae'n anmhosibl iddo ef gyfranu diffygion i'w greaduriaid. Beth bynag a gyfrana Efe, daioni raid iddo fod, mor bell ag y cyrhaedda, ac nid unrhyw ddrwg, o ba natur bynag y byddo.

5. Ymddengys eto fod y Goruchaf dan angenrheidrwydd o wneud yr holl greadigaeth, a'i myrddiynau lluosog, iddo ei hunan, ac i fod dan ei lywodraeth ei hun yn gwbl. I bwy arall y gweithiai Efe ond iddo ei hun? Pwy arall oedd mewn bodolaeth i Dduw weithio iddo, ac er ei fwyn? Nid oedd yr un bod ond Duw y pryd hwnw i'w gael yn unman. Yr oedd Efe hefyd dan yr angenrheidrwydd o gynal a llywodraethu yr holl greaduriaid a ddygai i fod. Iddo ei hun yr oedd Efe yn gweithio yn yr ystyr yma eto. Wedi iddo Ef ddwyn lluaws o greaduriaid i fodolaeth, er ei fod yn eu defnyddio i ofalu am eu gilydd, ac i lywodraethu y naill y llall, eto, nid yw gofal y Llywydd mawr ddim llai. Nid oes angel a allai gadw un creadur yn fyw ac yn ei le am eiliad oni b'ai fod yr Arglwydd ei hun yn ei gynal ac yn ei lywodraethu, drwy holl ofal un creadur am y llall. Fe wywai holl fywyd y greadigaeth, fe ddyrysai holl beirianau natur i gyd, fe hyrddid bydoedd ar draws eu gilydd, fe dorai eu hechelydd, ac fe falurid colofnau y cread yn friwsion, oni b'ai fod llaw Duw yn eu cynal ac yn eu cadw mewn trefn yn barhaus.

Nid oes neb ond Efe a all amgyffred cynllun y greadigaeth, na dybenion myrddiynau o'r pethau a wnaed. Ni welodd neb ond rhanau o'i weithredoedd ef, ac ni wyr neb paham y lluniwyd miliynau o bethau ag y mae Duw yn gofalu am danynt gyda y manylrwydd mwyaf. Gan hyny, iddo ei hun, ac nid i neb arall, y rhaid fod Duw yn gweithio, ac y mae Efe yn ddigon mawr i fod yn ddyben penaf—yn Alpha ac yn Omega pob peth.

6. Gwelwn, gan hyny, y rheswm mawr sydd dros i bob peth ddangos allan ogoniant yr Arglwydd i greaduriaid rhesymol, ac i'r creaduriaid hyny ogoneddu a gwasanaethu Duw yn ol fel y datguddir Ef iddynt. Mae Duw yn hawlio i bob creadur rhesymol ei ogoneddu a'i wasanaethu Ef fel dyben penaf ei fodolaeth. Sylwyd mai cariad yw Duw, a bod ei gariad yn cael ei arddangos yn ei holl ymwneud â'i greaduriaid; ond gan ei fod Ef ei hun yn anfeidrol fwy na'i holl greaduriaid, ac yn anfeidrol well na hwy oll, mae cyfiawnder yn galw am iddo ef garu ei hun yn benaf a blaenaf. Byddai yn annaturiol iddo beidio a gwneud hyny, a byddai yn anghyfiawnder ynddo tuag ato ei hun; a phe gwnai Duw gam âg Ef ei hun, byddai y cam hwnw yn un anfeidrol. Ac fel y mae yn eglur ei fod Ef yn anfeidrol fwy a gwell na'i greaduriaid, mae yn ymddangos yn eglur hefyd mai peth rhesymol iawn yw i bob peth ei ogoneddu a'i wasanaethu Ef—y lleiaf i hongian wrth y mwyaf—y creadur wrth y Creawdwr. Mae trefn Duw i bob peth fod wrth ei ewyllys Ef ac at ei alwad, yn llawn o reswm a gweddusder. Ni oddef natur pethau unrhyw drefn wahanol.

7. Eto: Addefa pawb, feallai, nad oedd gan unrhyw greadur hawl am ddim oddiwrth Dduw yn wreiddiol, ac nad yw yn bosibl fod gan un creadur afresymol hawl am ddim o law Duw wedi ei ddwyn i fod; er hyny, addefir yn rhwydd fod gan greadur cyfrifol fath o hawl am y pethau sydd yn hanfodol i'w gyfrifoldeb, ac am barhad o'r pethau hyny tra y parhao ei gyfrifoldeb. Ond yn yr holl bethau sydd yn

dal cysylltiad â'i benarglwyddiaethol ras Ef, nid oes gan na dyn nac angel hawl ar Dduw. Tra y mae gan ddyn hawl ar gyneddfau eneidiol i amgyffred ei ddyledswydd, a moddion addas i'w chyflawni, a rhyddid i ddewis a gwrthod y pethau y byddo da yn ei olwg—eu dewis neu eu gwrthod, nid yw y dylanwad a sicrha duedd i wneud ei ddyledswydd o fewn cylch ei hawliau ef—gras Duw yn unig yw hyny. Yn ei gyfamodau grasol—yn ei addewidion mawr iawn a gwerthfawr, nid yw Duw yn dyfod yn ddyledwr i ddyn. Dyledwr iddo ei hun yn hytrach yw Duw yn y pethau hyn oll. Nid yw yr holl amodau a gyflawno dyn, na'r holl ufudd-dod a roddo i Dduw, yn rhoddi hawl iddo ef ar ddoniau grasol y Goruchaf. Nid yw dyn yn rhoddi dim i'r Arglwydd sydd yn werth y rhoddion hyn yn gyfnewid am danynt; gras sydd wedi cysylltu bendithion â chyflawniad dyledswyddau. Nid yw edifeirwch yn teilyngu maddeuant, ac nid yw ffydd yn teilyngu cyfiawnhad, na bywyd duwiol yn teilyngu y nefoedd, ond anfeidrol ras a gysylltodd y bendithion hyn oll âg ymarweddiad sydd yn ddyledswydd ar ddynion yn annibynol ar y cyfryw. Nid yw Iawn Crist yn gwneud Duw dan rwymau i ddynion. Y mae Duw yn holl weinyddiadau ei ddwyfol ras yn anfeidrol uwchlaw bod yn ddyledwr i'w greaduriaid, a phe byddai yn ddyledwr iddynt, nid gras a fyddai y pethau hyn mwyach, ond dyledion ar Dduw i ddynion.

8. Drachefn: Y mae Duw mor fawr, mor oruchel, fel na all gwrthryfel angylion syrthiedig na dynion wneud dim niwed iddo Ef. "Os pechi, pa niwed a wnei di iddo ef?" O'r ochr arall, "Os cyfiawn fyddi, pa beth wyt yn ei roddi iddo ef?" neu "beth y mae Efe yn gael ar dy law di?" "I wr fel tydi, dy annuwioldeb; ac i fab dyn, dy gyfiawnder a all rywbeth." Ac os felly, y mae annuwioldeb yn ynfydrwydd perffaith yn mhob ystyr. Fe ddwg yr Arglwydd ei amcanion yn mlaen er gwaethaf dynion a chythreuliaid, ac yn wir, fe ddefnyddia eu gwrthryfel hwy yn nygiad ei ddybenion goruchel oddiamgylch, fel y gwelir yn eglur yn nghwymp dyn ac yn nghroeshoeliad Iesu Grist, ac mewn canoedd o bethau eraill.

Yn hytrach na dywedyd ychydig ar briodoleddau Duw ar wahan o un i un, fel y datguddir hwy yn y Beibl, yr wyf yn barnu fod mwy o duedd i ddeffro meddwl myfyriwr astud yn y sylwadau a wnaed yn y ffordd a gymerasom nag yn y llwybr hwnw. Cewch y cwbl ellir ddywedyd am briodoleddau y Duwdod yn gryno mewn llyfrau hawdd eu cael, megys *Corff Duwinyddiaeth Dr. Lewis*, *Geiriadur Duwinyddol y Parch. W. Jones*, a llawer o lyfrau eraill sydd yn gyffredin yn ein mysg yn Gymraeg ac yn Saesoneg, ac y mae llyfrau o'r fath yn fuddiol ac yn adeiladol iawn i'w darllen ac i'w myfyrio.

Gan eich bod chwi yn awr yn gadael yr Athrofa am dro, ac yn myned i ymweled â gwahanol barthau o'r wlad fel pregethwyr a chasglwyr, goddefwch air o gynghor ar eich cychwyniad allan.

1. Ymdrechwch fod mewn pryd yn mhob man at eich cyhoeddiadau. Nid oes dim sydd anweddusach mewn pregethwr ieuanc na dyfod yn hwyr at y bobl fyddont wedi ymgasglu yn nghyd ac yn

yn dysgwyl am dano. Bydd rhyw ddynion yn rhy hwyr yn mhob lle.

2. Pregethwch ar bethau buddiol, athrawiaethol, neu ymarferol, heb fyned i drin llawer ar bethau dadleuol, ac heb roddi rhyw farn anffaeledig o'r eiddoch eich hunain ar ddim oll o'r pynciau hyny. Bydd yn ddigon buan i chwi pan y byddoch yn gwybod cymaint *ddengwaith* am y pethau hyny ag a wyddoch yn awr i draethu eich barn yn benderfynol arnynt.

3. Peidiwch a phregethu *yn hir.* Y mae deugain munyd neu dri chwarter awr yn ddigon i chwi.

4. Gofalwch yn wastad am fod sylwedd y pregethau a draddodoch yn tarddu allan yn naturiol o'r testynau a ddewisoch. Mae cymeryd benthyg testynau o'r Beibl i hongian pregethau arnynt yn annaturiol a phlentynaidd iawn.

5. Pan ddeloch i gymydogaeth, *galwch* gyda gweinidog y lle (os bydd yno un), ac ymgynghorwch âg ef yn nghylch y casgliad.

6. Peidiwch a bod yn siaradus mewn tai, a gofalwch beth a ddywedoch, a pheidiwch ac adrodd troion trwstan a weloch ar eraill wrth eich lletywyr. Peidiwch *er dim* a chario chwedlau am wendidau gweinidogion, diaconiaid, ac eglwysi o le i le.

7. Dywedwch yn gynes am yr Athrofa, ac am y casgliad tuag ati, a dangoswch eich bod yn ddiolchgar am gael y fraint o fod ynddi.

8. Codwch o'ch gwelyau yn mhob man i gael eich boreufwyd gyda y tylwyth, ac na adewch iddynt hwy orfod gwneud *ail foreufwyd* i chwi ar eich pen eich hun.

9. Byddwch foddlon i'r ymborth a'r driniaeth a gaffoch, os cewch wely dileithder a bwyd iach. Nid ydych chwi i fod yn unlle yn hir.

10. Myfyriwch a gweddïwch lawer ar eich teithiau am fendith a gwenau y nef ar eich llafur oll.

**Bala, Medi 24, 1872.**

## ATHRAWIAETH Y DRINDOD.

*Darlith XI.*

DIAU mai gyda gwylder a pharchedig ofn y byddai yn weddus i ni ymdrin â phwnc mawr, dyeithr, a phwysig fel hwn. Parodd ddyryswch i lawer o feddylwyr cryfion yn yr oesoedd gynt, ac y mae yn parhau yn destun dadleuon hyd yn nod yn y dyddiau goleu presenol.

Er fod Ysgrythyrau yr Hen Destament yn cynwys yr athrawiaeth hon, eto, nid oedd yr Iuddewon yn deall ond ychydig yn ei chylch, mwy na'r athrawiaeth o gyfiawnhad drwy ffydd; ac yr oedd rhai o'r Cristionogion Iuddewig yn barotach i dderbyn athrawiaeth yr Iawn na hon. Yr oedd aberthau beunyddiol yr hen gyfamod wedi eu

parotoi i dderbyn hòno yn rhwyddach na hon, mae yn dra sicr. Yr oedd gau-athrawon Iuddewig hefyd yn codi anhawsderau ar eu ffordd gyda golwg ar y gwirionedd hwn, fel amryw o wirioneddau pwysig eraill.

Heblaw hyny, yr oedd yn yr eglwys Gristionogol, yn y canrifoedd cyntaf, lawer o ddynion oeddynt yn glynu wrth syniadau a gawsent o philosophyddiaeth y Groegiaid, a philosophyddiaeth wylltach y Persiaid a'r Dwyreinwyr. Dygasant y syniadau hyny i fewn i'w credoau, er mawr niwaid i burdeb Cristionogaeth. Yr oedd y Cristionogion *cyffredin* yn yr eglwysi cyntefig yn Drindodwyr o ran eu golygiadau, fel yr apostolion, ac agos bawb o'u dysgawdwyr crefyddol. Ymfoddlonent ar dystiolaethau syml yr Ysgrythyr ar y mater. Ond dechreuodd dynion anturiaethus eu meddyliau ddwyn i fewn dybosodiadau dyeithr gyda golwg ar berson Crist, a phethau eraill, hyd yn nod cyn diwedd yr oes apostolaidd ei hun; ac yn y canrifoedd dilynol, aethant yn *hyfach* ac yn *lluosocach* o ran eu nifer. Yr oeddynt yn wahanol bleidiau, yn Gerinthiaid, yn Ebioniaid, yn Sabelliaid, yn Ariaid, ac yn bleidiau eraill; ond er yr amrywient lawer oddiwrth eu gilydd, yr oeddynt yn cytuno i wadu gwir a phriodol Dduwdod yr Arglwydd Iesu, ac felly yn wrthwynebwyr Athrawiaeth y Drindod, fel y mae Deistiaid, Ariaid, ac Undodiaid y dyddiau presenol. Nid wyf yn meddwl y byddai yn fuddiol i ni yn bresenol fanylu ar hanes y gwahanol bleidiau hyny, a'r cynghorau a gynaliwyd mewn gwahanol fanau gyda golwg ar eu gwahanol gyfeiliornadau. Chwi a gewch yr oll a wyddys yn eu cylch yn *Mosheim*, *Neander*, a'r haneswyr eglwysig eraill. Y mae un peth yn dra nodedig, mai Athrawiaeth y DRINDOD, yr hon sydd yn naturiol yn cynwys Duwdod yr Arglwydd Iesu, a phersonoliaeth a Duwdod yr Ysbryd Glan, oedd yr unig athrawiaeth yr oedd sylw manwl a philosophaidd yn gyffredinol yn cael ei dalu iddi yn y canrifoedd cyntaf ar ol yr oes apostolaidd, nes y daeth Morganiaeth i dynu meddyliau yr eglwysi, i raddau, i gyfeiriad arall. Nid oedd nac Athrawiaeth yr Iawn, Adenedigaeth, Cyfiawnhad, nac unrhyw fater arall yn cael sylw cyffredinol y pryd hwnw fel y mater hwn. Fel Trindodwyr, yr ydym ni yn dal yn gadarn, yn ol y Beibl a rheswm hefyd, mai *un* Duw sydd, ac nad oes arall ond Efe; ond, ar yr un pryd, yr ydym yn dal yr un mor gadarn fod yn yr un Bod dwyfol dri o wrthddrychau gwahaniaethol, cyd-dragwyddol, a gogyfuwch yn mhob priodoledd a pherffeithrwydd, a elwir yn y Beibl, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan. Felly, yr ydym yn dal fod y Duwdod yn bodoli mewn cymdeithas o dri o bersonau gwahaniaethol, a bod y tri hyn yn un Duw. Wrth ddefnyddio y gair *personau* am y gwrthddrychau gwahaniaethol sydd yn y Fodolaeth Anfeidrol, nid ydym yn proffesu fod y gair hwn, yn mhob peth, yr hyn y dymunem iddo fod i osod meddwl y Beibl allan; ond y mae y gair goreu a wyddom ni am dano, ac fel y cyfryw, yr ydym yn ei ddefnyddio. Wrth ddywedyd fod y Tad yn wir Dduw, a bod y Mab yn wir Dduw, a bod yr Ysbryd Glan yn wir Dduw, nid rhanu y natur ddwyfol rhwng

y tri yr ydym; pe felly, ni allai yr un o honynt fod yn Dduw, ond yn hytrach rhanau o Dduw, pe byddai syniad o'r fath yn bosibl, yr hyn nid ydyw; ond yr ydym yn dal fod yr holl Fodolaeth ddwyfol yn perthyn i bob un o'r personau fel eu gilydd. Dywedyd yr ydym mai un Duw sydd, ac nas gall fod ond un, ond fod yn y Duwdod dri o wrthddrychau gwahaniaethol, a alwn ni personau, a bod pob un o'r personau hyny yn wir Dduw mewn undod sydd yn bodoli rhyngddynt, o angenrheidrwydd natur, ac na allasasai y Duwdod fodoli ond felly. Ar y mater hwn, dymunem ddywedyd y pethau canlynol:—

1. Nad ydym yn rhyfygu tybied ein bod yn meddu gwybodaeth gyflawn a pherffaith o'r pwnc gogoneddus ac ofnadwy hwn. Mae y Duwdod yn anfeidrol, a ninau ond megys dim ger ei fron. Gyda llawer mwy o reswm y gallem ddysgwyl y medrem ddal y moroedd ar gledr ein llaw, na dysgwyl y gall ein meddyliau bychain amgyffred y Brenin mawr. "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? A elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd? Cyfuwch a'r nefoedd ydyw, beth a wnei di? dyfnach nag uffern yw, beth a elli di ei wybod? Mae ei fesur ef yn hŵy na'r ddaear, ac yn lletach na'r môr," Job xi. 7—9. Ni wyr neb ond am ranau o *ffyrdd* Duw; llawer llai y gall creadur amgyffred bodolaeth y Creawdwr. Y mae angel mor analluog i amgyffred Duw ag ydyw dyn. "Yn erbyn ei angylion y gesyd efe ynfydrwydd" mewn mater fel hwn. Eto, ni a ddylem ddiolch yn galonog i'r Goruchaf am iddo ddatguddio cymaint o hono ei hun i ni ag a'n galluoga i fod yn ddedwydd ynddo am byth. Ac heblaw hyny, mae yn sicr genym y cynyddwn yn raddol am byth mewn gwybodaeth am Dduw yn ngoleuni y byd a ddaw.

2. Nid ydym yn cymeryd arnom ein bod yn deall natur yr Hanfod dwyfol. Ychydig iawn a wyddom ni am *natur* defnydd. Mae ein hamgyffredion am dano yn gyfyngedig i'r dull a'r modd y mae yn dangos ei hun i ni yn ei wahanol weithrediadau. Mae ein gwybodaeth yn llai fyth am yr *ysbrydoedd* sydd ynom ni ein hunain; ac am angylion, a cherubiaid, a seraphiaid o ran eu *natur*, ni wyddom ni nemawr ddim yn gadarnhaol; ond am yr Ysbryd mawr tragwyddol sydd mor wahanol i bob ysbryd crëedig o ran ei natur, yr ydym yn gwybod llai fyth. Nid yw tyb-osodiadau nas gellir eu profi o ddim gwerth mewn mater fel hwn—rhaid i ni ymfoddloni yn unig ar y pethau y gwelodd Duw yn dda eu hamlygu i ni am dano ei hunan.

3. Nid ydym ychwaith yn hòni ein bod yn deall y modd y mae y personau dwyfol yn gwahaniaethu y naill oddiwrth y llall, na'r modd y maent yn un yn modolaeth yr un Duw. Mae y fath wybodaeth yn rhy ryfedd ac ofnadwy i ni; ond yr ydym yn credu y Beibl, mai un Duw sydd, a bod yr un Duw yn bodoli yn dri o bersonau—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan. Yr ydym yn derbyn y ffaith drwy ffydd yn ngwirionedd y datguddiad a gawsom gan Dduw am dano ei hunan. Rhaid i ni addef ein hanalluogrwydd i amgyffred natur a moddau yr

undeb sydd rhwng ein heneidiau ni ein hunain a'n cyrff i wneud un person o bob un o honom; llawer llai, gan hyny, y gallwn ni amgyffred natur a moddau undeb y personau dwyfol yn modolaeth yr un Duw. Yr ydym ni, fel creaduriaid, yn analluog i amgyffred y mater, o *angenrheidrwydd.* Cynwysir yr anallu hwn yn y ffaith mai *creaduriaid* terfynol ydym, pryd y mae y Duwdod yn anfeidrol. Nid oes a all lawn amgyffred Duw ond efe ei hun.

Cyhuddir ni gan yr Undodiaid o ddal fod *tri* o dduwiau yn bodoli, ond nid dyna ein credo ni. Yr ydym yn credu yn ddiysgog mai "Un Duw sydd, ac nad oes arall ond Efe," ac yn hyn yr ydym yn Undodiaid yn gystal a hwythau. Ond tra yr ydym yn dal *unoliaeth* bodolaeth Duw mor gadarn ac mor gyflawn ag y maent hwythau yn dal y pwnc pwysig hwnw, yr ydym hefyd yn credu fod yr Ysgrythyrau yn gosod allan fod Duw yn bodoli yn wahanol i bob bod arall, a bod tri o wahaniaethau gwrthddrychol yn ei fodolaeth ef na wyddom ni am air gwell i'w gosod allan na'r gair *Personau.* Tri pherson, a dim ond un Duw, ydym ni yn ddal, yn ol tystiolaeth deg ac eglur yr Ysgrythyrau. Rhan o'r gwirionedd sydd gan yr Undodiaid, tra y mae y Trindodwyr yn cofleidio y cwbl sydd yn y Beibl ar y mater hwn. Gwrthddadleuir: "Fod Athrawiaeth y Drindod yn groes i Reswm." I'r wrthddadl hon yr ydym yn ateb fel y canlyn:—

1. Nad yw yn perthyn i ddynion benderfynu, *a priori*, yn ol eu rheswm neu eu dychymygion eu hunain pa fath fodolaeth a ddylai bodolaeth Duw fod, ond mai dyledswydd dynion yw derbyn yn ffyddiog y cwbl a ddatguddiodd y Goruchaf am dano ei hun; ac ymddengys i ni fod Athrawiaeth y Drindod yn rhan o'r datguddiad a roddodd Efe i ni.

2. Y gall Athrawiaeth y Drindod fod uwchlaw rheswm dynol a rheswm angylaidd, fel llawer o bethau eraill, ac ar yr un pryd fod yn berffaith gyson â rheswm. Yr ydym yn credu ei bod felly, oblegid mai y Rheswm mawr tragwyddol ac anfeidrol, Tad pob rheswm, a'r unig ffynon y tardda rheswm yn mhlith creaduriaid allan o honi, sydd wedi ei datguddio.

3. Credwn nad oes neb mewn sefyllfa i allu dywedyd fod yr athrawiaeth hon yn groes i reswm, oddieithr ei fod ef ei hun yn *cyflawn amgyffred* Rheswm *yn yr oll ag ydyw*, ac yn gallu dirnad yn berffaith, nid yn unig ei natur fechan ei hun, ond natur anfeidrol y Duwdod hefyd. Tu yma i hyny, bydd y rhan fwyaf o lawer o'r pethau angenrheidiol i'w gwybod, er penderfynu y mater hwn ar dir rheswm, yn anadnabyddus i'r gwrthddadleuwr. Ond pwy sydd yn deall ac yn amgyffred ei natur ei hun? Llawer llai y gall dyn amgyffred y Duwdod.

4. Ymddengys i ni nad yw yn deg i neb ymresymu oddiwrth y creadur at y Creawdwr—oddiwrth ddyn at Dduw, fel pe byddai y naill a'r llall ar yr un *tir*. Mae rheswm ei hunan yn dangos y rhaid fod anfeidrol wahaniaeth rhwng y fodolaeth ddwyfol, yr hon sydd dragwyddol, angenrheidiol, ac annherfynol, â phob bodolaeth arall yn ei NATUR, oblegid bodolaeth amserol, amodol, ymddibynol, a therfynol

yw yr eiddo pawb ond Duw. Y mae ei fodolaeth ef yn hunan-ymddibynol ac yn anfeidrol.

Yn awr, gan y rhaid bod gwahaniaeth anfeidrol rhwng y Creawdwr yn ei natur a'r creadur yn ei natur, ai nid yw yn rhesymol i ni ddysgwyl am ryw wahaniaeth mawr a rhyfedd yn y DULL y bodola y Creawdwr rhagor y dull y bodola y creadur—pob creadur? Diau ei fod. Wel, dyma y datguddiad a gawsom ni ar y mater hwn,—Fod y Duwdod yn bodoli yn dri o bersonau—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan. Nid ydym ni yn dywedyd fod y Tri hyn yn *un* yn yr ystyr ag y maent yn dri, nac yn dri yn yr un ystyr ag y maent yn un.

Byddai yn briodol i ni yn awr nodi rhai o'r pethau a gynwysir yn y Beibl sydd yn ein boddloni am wirionedd Athrawiaeth y Drindod. Wrth apelio yn benaf at y Beibl, yr ydym yn addef mai athrawiaeth a ddysgir yn yr Ysgrythyrau yw hon; ond ar yr un pryd, nid ydym yn rhoddi i fyny gysylltiad rheswm â hi. O'r ochr arall, credwn fod rheswm goleuedig yn rhwym o'i chydnabod a'i chymeradwyo fel y datguddir hi yn y Gair.

1. Mae amryw o'r geiriau sydd yn y Beibl yn gosod y Duwdod allan, ac yn enwau arno, yn y RHIF LLUOSOG. Mae *Elohim*, y gair Hebraeg am Dduw, yn y rhif lluosog, ac yn cael ei ddefnyddio felly am y Duwdod yn yr Hen Destament, oddeutu dwy fil o weithiau. Y mae ysgolheigion galluog hefyd yn sicrhau i ni fod yr enwau sydd ar Dduw yn yr adnodau canlynol, a llawer o'u cyffelyb, yn y rhif *lluosog* yn yn yr iaith Hebraeg, ac y dylid eu darllen felly os mynir bod mewn cydgordiad cyflawn â'r iaith hòno—"A pha un genedl ar y ddaear sydd megys dy bobl, megys Israel, yr hon Duw a *aethant* i'w gwaredu yn bobl iddo ei hun," 2 Sam. vii. 23. "Diau fod Duw a farnant ar y ddaear," Salm lviii. 11. "Cofia yn awr dy Greawdwyr yn nyddiau dy ieuenctyd," Preg. xii. 1. "Dy briodwyr yw dy *wneuthurwyr*," Esa. liv. 5. "Os wyf fi *feistri*, pa le y mae fy ofn?" Mal. i. 6. Mae y pethau hyn, mewn cysylltiad â phethau eraill, yn awgrymu fod lluosawg-rif o bersonau yn y Duwdod.

2. Cawn fod Duw yn ymddyddan megys â'i gydradd mewn amrywiol o amgylchiadau, a'r cyfan yn awgrymu fod gwahanol bersonau yn y Fodolaeth ddwyfol, megys Gen. i. 26: "Gwnawn ddyn ar ein delw *ni*, ac wrth *ein* llun *ein hunain;* wele y dyn sydd megys un o *honom ni.*" "Deuwch, disgynwn, a chymysgwn eu hiaith hwynt." "Pwy a anfonaf, a phwy a ä drosom ni?" &c.

3 Gwahaniaethir yr Arglwydd oddiwrth yr Arglwydd mewn rhai manau mewn dull sydd yn awgrymu fod personau gwahaniaethol yn y Duwdod, megys Gen. xix. 24, lle y dywedir fod yr Arglwydd wedi "gwlawio ar Sodom a Gommorah frwmstan, a thân oddiwrth yr Arglwydd allan o'r nefoedd." "Dywedodd Jehofah wrth fy Arglwydd (*Adonai*), Eistedd ar fy neheulaw." "Y Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair." (*Adonai* sydd enw lluosog ar Dduw, ac ni pherthyn yn y ffurf hon i neb ond Duw).

4. Ymddengys i ni fod y Messïa addawedig yn yr Hen Destament

yn Berson dwyfol—yn wir Dduw; felly, rhaid fod mwy nag un person yn y fodolaeth dragwyddol.

5. Ymddengys i ni eto fod Ysbryd yr Arglwydd yr un wedd yn Berson dwyfol; ac felly, fod tri o bersonau yn y fodolaeth Anfeidrol —tri pherson mewn undod, tri â'r un anian ddwyfol yn perthyn i'r naill a'r lleill o'r tri; un Duw yn dri o bersonau.

6. Mae y tri Pherson dwyfol yn cael eu nodi allan yn y gorchymyn i fedyddio a dysgu yr holl genedloedd, Mat. xxviii.

7. Mae y tri yn cael eu cydnodi allan hefyd yn y fendith apostolaidd (2 Cor. xiii. 13), "Gras ein Harglwydd," &c. Rhaid addef hefyd fod tebygrwydd nodedig rhwng y fendith apostolaidd a'r fendith â pha un y bendithiai Aaron a'i feibion bobl Israel gynt, gwel Num. vi. 22—27. Mae gweddi yr Apostol Ioan (Dat. i. 4) yn weddi ar y tri Pherson dwyfol. Geiriau tra nodedig ar y mater hwn yw 1 Ioan v. 7. Ond y mae dadl am ddilysrwydd ysbrydoliaeth yr adnod hon, ond nid ydym yn barod i'w rhoddi i fyny. Mae yn llawn mor debyg fod geiriau wedi eu gadael allan o'r adnod gan Sabelliaid ac Ariaid y dyddiau gynt ag ydyw fod Trindodwyr y dyddiau hyny wedi ychwanegu geiriau ati. Pa fodd bynag, gallwn ni hyfforddio bod hebddi yn y mater hwn oblegid amledd ein profion. Fod y tri hyn yn wahaniaethol oddiwrth eu gilydd mewn rhyw ddull na allwn ni ei amgyffred, a welir yn eglur wrth ystyried:—

1. Eu bod yn llefaru am eu gilydd fel personau gwahaniaethol, Salm ii. Mat. iii. Ioan xvii., &c.

2. Dywed y Messïa ei fod ef wedi ei anfon gan yr Arglwydd Dduw a'i Ysbryd, ac mai Dyddanydd *arall* yw yr Ysbryd Glan, yn cael ei anfon gan y Tad a Christ.

3. Mae gweithredoedd gwahanol yn cael eu priodoli iddynt.

4. Mae enwau gwahanol yn cael eu rhoddi arnynt, a'r rhagenwau personol, Myfi, Tydi, Efe, Nyni, a'r cyffelyb, yn cael eu cymhwyso atynt.

Ond er eu bod yn bersonau gwahaniaethol, y personau hyn, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, mewn undeb rhyfedd â'u gilydd, yw yr un Duw a ddatguddir i ni yn natur, yn Rhagluniaeth, ac yn yr Ysgrythyrau. Y maent yn *un* mewn hanfod, mewn priodoleddau, mewn cynlluniau, mewn dybenion, ac yn y moddion sydd i gyrhaeddyd y dybenion hyny. Y maent yn cydweled, yn cydewyllysio, ac yn cydachosi yr holl ddaioni sydd yn mysg y creaduriaid drwy yr holl greadigaeth. "Yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd."

Dywedasom fod rheswm goleuedig yn rhwym o gymeradwyo yr athrawiaeth hon. Yr ydym yn addef yr annhebygrwydd i reswm ei *darganfod* o hono ei hun; ond wedi i ddwyfol ysbrydoliaeth ei dwyn i'r golwg, y mae yn ymddangos yn dra rhesymol. Wrth gynyg y sylwadau canlynol i chwi, nid ydwyf heb beth ofn; nid ofn am eu gwirionedd, yn gymaint ag ofn bod yn rhy hyf wrth ymdrin â Bod anfeidrol fel ein Duw ni.

1. Mae rheswm yn dywedyd wrthym na allwn ni byth amgyffred

y gwahaniaeth sydd rhwng y Personau dwyfol, na'r undeb sydd rhyngddynt yn y Fodolaeth anfeidrol.

2. Mae rheswm eto yn sicrhau i ni y dylem dderbyn, fel plant bychain, yr oll a ddatguddiodd Duw am dano ei hun.

3. Mae Duw wedi dwyn torf aneirif o greaduriaid i fod, ond dywed rheswm na fuasai yn weddus iddo ef eu crëu, eu cynal, na'u llywodraethu ond trwy Gyfryngwr, a bod yn angenrheidiol i'r Cyfryngwr hwnw fod yn gydradd âg ef ei hun.

4. Pa bryd bynag y dechreuodd Duw grëu, yr oedd tragwyddoldeb, pryd na fodolai neb ond efe *cyn hyny*.

5. Mae pob egwyddor dda a rhinweddol wedi tarddu o Dduw—pob perffeithrwydd cymhariaethol a welir yn mysg y creaduriaid wedi dyfod o hono ef.

6. Mae yr egwyddor gymdeithasol i'w gweled yn ei weithredoedd ef, yn rhwymo ei greaduriaid oll yn un.

7. Mae yn angenrheidiol i ddedwyddwch creaduriaid iddynt allu cymdeithasu â'u cydradd ar raddfa bodolaeth.

8. Mae pob perffeithrwydd sydd yn bosibl yn perthyn i Dduw. Nid ydym yn anghofio cyflawnder anfeidrol ei natur ef yn y fan hon; ond buasai y Duwdod heb y perffeithrwydd sydd mewn cymdeithas gydraddol, oni b'ai ei fod yn bodoli mewn cymdeithas o bersonau dwyfol, cyd-dragwyddol a gogyfuwch. Mae athrawiaeth y Drindod yn dilëu unigolrwydd, ac yn sicrhau i ni ei fod yn bodoli mewn cymdeithas dragwyddol ddedwydd o bersonau cymhwys o'r fath gymdeithas.

## ARFAETH DUW.

*Darlith XII.*

Y PWNC y gelwir eich sylw ato heddyw ydyw Arfaeth Duw. Ond pa beth a feddylir wrth Arfaeth y Goruchaf? Pa ddarnodiad a ellir roddi o honi? Wrth Arfaeth Duw yr wyf fi yn golygu—Cynllun gogoneddus y Duwdod i weithio wrtho, a'i benderfyniad disigl i gyflawni ei holl weithredoedd yn ol y cynllun tragwyddol hwnw. Pan ymaflo dyn doeth mewn gorchwyl o bwys, y mae yn wastad yn ei gyflawni yn ol y cynllun goreu a ddichon efe ffurfio i'r amcan hwnw. Yr oedd pontydd Menai, eu pilerau a'u gwaith i gyd, yn hongian yn meddyliau Telford a Stephenson cyn dechreu o honynt ar y gwaith. Felly y mae yr oll a wnaeth Duw erioed, yr oll y mae yn wneuthur yn bresenol, a'r oll a wna efe byth, yn gynllun perffaith a digoll yn ei feddwl tragwyddol ef erioed, a gweithio y cynllun hwnw y mae efe yn ei holl weithredoedd a'r amcanion sydd iddynt. Mae Arfaeth Duw hefyd yn cynwys yr holl foddion a arfera efe i ddwyn ei holl weithredoedd i gyflawniad, a'r amcanion sydd iddynt, yn eu holl

amrywiaeth. Er mai gweithredoedd Duw ei hun, a'r moddion a ddefnyddia i'w gwneuthur, a'r amcanion sydd mewn golwg ganddo yn y cyfan, sydd yn benaf yn gynwysedig yn Arfaeth Duw, eto y mae gweithredoedd daionus ei greaduriaid rhesymol ef, y moddion sydd iddynt i'w ddefnyddio mewn trefn i'w cyflawni, a'r amcanion sydd i fod mewn golwg ganddynt yn hyny, yn gynwysedig hefyd yn Arfaeth y Goruchaf.

Mae pob daioni naturiol a moesol a gymer le byth, pwy bynag a'i gwnelo, yn gynwysedig naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol yn Arfaeth dragwyddol y Goruchaf, oblegid oddiwrth Dduw, yn wreiddiol a gwirioneddol, y deillia pob daioni. Nid oes un wireb yn fwy cadarn na hòno, " Pob da oddiwrth y Creawdwr." "Canys o hono ef, a thrwyddo ef, ac iddo ef, y mae pob peth." Os felly, y mae pob peth yn gynwysedig yn ei Arfaeth ef. Wrth gwrs, daioni yn unig a olygir yn yr adnod.

Mae yr Ysgrythyr yn llefaru yn eglur am Arfaeth Duw. Dywed fod yr Arglwydd "yn gweithio *pob peth* wrth gynghor ei ewyllys ei hun," a'i fod yn gwneud yn hysbys i'r tywysogaethau a'r awdurdodau ei fawr amryw ddoethineb, yn ol yr arfaeth dragwyddol yr hon a wnaeth efe yn Nghrist Iesu ein Harglwydd ni. Dywed yr Arglwydd, "Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." Gwneuthur yn ol meddyliau ei galon, a'i gynghorion er's talm, y mae Duw yn wastadol. "Hysbys i Dduw ei weithredoedd oll erioed." Mae rhanau o Arfaeth Duw yn cael eu galw yn rhaglunio a rhagordeinio yn yr Ysgrythyrau. Mae cynllun Duw, a'i benderfyniad i weithio y cynllun hwnw i gyflawniad, yn cael eu dal allan yn eglur yn yr Hen Destament a'r Newydd.

Gallai nad oes dim sydd amlycach i sylwedydd manwl na bod Duw yn gweithio wrth gynllun yn natur. Mae *plan* i'w weled ar waith yn mhob cyfeiriad, yn y nef a'r ddaear, ac yn yr oll a wna efe. Pan edrychom ni, fel y Salmydd, ar y nefoedd, gwaith ei fysedd ef, yr ydym yn canfod eu bod yn waith ei feddwl ef yn gystal a gwaith ei fysedd. Mae pob byd a hongiodd efe yno, o ran ei faintioli a'i bwysau, wedi ei ffurfio ar gyfer bydoedd eraill, fel y mae cynllun perffaith yn dyfod i'r golwg yn mhob man. Mor fanwl yw y cynllun hwnw, fel y gall dynion ragfynegu dygwyddiadau yn mysg llu y nef am amseroedd meithion i ddyfod gyda chywirdeb difethiant. Pan edrychom ar y ddaear, a'i throadau ardderchog i wneud dydd a nos, tymhorau a blynyddoedd—pan ydym yn gweled pob gwelltyn a phob pren wedi eu mesur o ran eu hyd ac o ran eu nerth ar gyfer pwysau y ddaear, a'r gwyntoedd sydd yn tramwy ar hyd-ddi—pan ganfyddom bob bywyd tyfol wedi ei liwio mor hardd a chymhwys ar gyfer ein golygon, pob pysgodyn wedi ei gymhwyso i'r dyfroedd, pob anifail a phob bwystfil wedi eu cymhwyso i'r maes ac i'r anialwch, pob ymrwyfyn i'r llwch lle y triga, a'r adar o bob rhyw, a'r awyr lle y lledant eu hadenydd, wedi eu ffurfio ar gyfer eu gilydd, nid oes fodd i ni fethu gweled cynllun dwyfol yn y pethau hyn oll. Pan

feddyliom am danom ein hunain, y corff a'i gyneddfau, y meddwl a'i alluoedd yn eu holl amrywiaeth, yr ydym yn barod i ddywedyd gyda'r Salmydd, bob un gyda golwg arno ei hunan, "Rhyfedd ac ofnadwy y'm gwnaed;" ac ni allwn lai na chanfod fod amcan a bwriad gan Dduw yn rhoddiad yr holl alluoedd hyn i ni, fel y mae ei Arfaeth dragwyddol ef yn dyfod i'r golwg yn y pethau hyn oll. Nid yn unig y mae bodolaeth Duw yn dyfod i'r golwg yn y pethau hyn, ond y mae ei gynllun, yn ei amrywiaeth a'i ddoethineb diderfyn, ger bron ein llygaid yn mhob man ac yn mhob peth.

Gellir gweled Arfaeth Duw eto yn amlwg yn ngweithrediadau dwyfol Ragluniaeth. Gallai dyn difeddwl, ond odid, dybied wrth ddarllen Llyfr Genesis mai diniweidrwydd plentynaidd yn Joseph, hoffder annoeth o hono ef yn Jacob, ac eiddigedd pechadurus yn meibion eraill y patriarch, oedd yr unig achosion o werthiad Joseph i'r Ismaeliaid, a'i ddygiad gan y rhai hyny i wlad yr Aipht; ond yr oedd Joseph ei hunan yn mhell o feddwl hyny. Yr oedd efe yn gweled bwriad dwyfol yn gweithio drwy y cyfan, i ateb dybenion pwysig a gogoneddus yn y pen draw. Pan ymgydnabu efe â'i frodyr, dywedodd wrthynt, "Weithian, gan hyny, na thristewch ac na ddigiwch wrthych eich hunain, am werthu o honoch fyfi yma, oblegid i achub einioes yr hebryngodd Duw fyfi yma o'ch blaen chwi. Duw a'm hebryngodd i o'ch blaen chwi, i gadw i chwi hiliogaeth yn y wlad, ac i beri bywyd i chwi drwy fawr ymwared. Ac yr awr hon, nid chwi a'm hebryngodd i yma, ond Duw." Yn mhen dwy flynedd ar bymtheg wedi hyny, dywedodd wrthynt yn mhellach, "Chwi a fwriadasoch ddrwg i'm herbyn, ond Duw a'i bwriadodd i ddaioni, i ddwyn i ben, fel y gwelir heddyw, i gadw yn fyw bobl lawer." A oes rhywun mor ddall a thybied mai damweiniau oedd amgylchiadau gwaredigaeth Moses o'r Nilus gan ferch Pharaoh? neu amgylchiadau cyfodiad Esther i orsedd Persia? neu amgylchiadau genedigaeth Gwaredwr y byd yn Bethlehem Judea? neu amgylchiadau ei farwolaeth a'i gladdedigaeth? Na, na, y mae llaw Duw i'w gweled mor eglur yn y pethau hyn oll fel y mae gweithrediadau pawb eraill yn myned o'r golwg yn ymyl yr eiddo ef. Mae rhagfynegiadau eglur y Beibl am helyntion dinasoedd a gwledydd, cenedloedd a theyrnasoedd, yn enwedig helyntion y genedl Iuddewig, a'r brenhiniaethau cedyrn fu ar y ddaear yn y dyddiau gynt, yn brofion diymwad fod y Brenin mawr yn llywodraethu y byd wrth gynllun manwl a pherffaith, wedi ei luniaethu yn ei holl ranau yn hollol ac yn sicr.

Mae llywodraeth foesol yn ei holl ganghenau yn amlygu Arfaeth Duw. Pan feddyliom fel y mae y deiliaid wedi eu cymhwyso o ran galluoedd, manteision, a rhyddid, i lenwi eu cylchoedd yn ngwasanaeth Duw, ac i fod yn wasanaethgar i'w gilydd, pa un bynag ai angylion ai dynion fyddont; a phan feddyliom, drachefn, fel y mae deddfau cyfiawn y llywodraeth, a gofyniadau teg y llywodraethwr oddiwrth y deiliaid, y cymhellion a roddir i ufudd-dod, a'r farn fanwl fydd ar bawb yn y diwedd, y naill ar gyfer y lleill, y mae bwriad,

cynllun, ac amcanion o eiddo Duw yn ymdywallt ar ein meddyliau yn anwrthwynebol.

Y mae yr unrhyw Arfaeth i'w gweled yn holl ranau trefn iachawdwriaeth, fel, pe na ddywedasai y Beibl ddim am fwriadau dwyfol mewn cysylltiad â'r drefn hon, buasem yn casglu y rhaid eu bod felly yn ol awgrymiadau rheswm a natur pethau. Y maent mor eglur fel nad ydym yn meddwl fod eisieu dywedyd dim yn mhellach yn bresenol ar y mater. Mae Arfaeth y Goruchaf i'w gweled yn nhrefn cadwedigaeth dynion mor eglur fel na all dyn meddylgar fyfyrio ar unrhyw ran o'r drefn fawr, pa un bynag ai Person Crist, yr hwn a roddwyd drwy derfynedig gynghor a rhagwybodaeth Duw; ai ei fywyd a'i farwolaeth, yr hwn oedd yn myned fel yr ysgrifenwyd am dano; ai dychweliad, santeiddiad, a gogoneddiad pechaduriaid, heb ei chanfod yn rheoleiddio pob rhan o'r drefn; ac wrth wneud hyny hefyd, yn gadael y Cyfryngwr ei hun, ei elynion, a'i gyfeillion, a holl ddeiliaid moddion gras, yn berffaith ryddweithredwyr yn mhob peth a wnelont, ac yn mhob cylch y troant ynddo.

Pe na fyddai Duw yn gweithio wrth gynllun perffaith, ni fyddai yn Fod i neb i ymddiried ynddo. Tybiwch fod y bydoedd lluosog a wnaeth efe yn chwyrnellu yn y gwagle heb unrhyw gylchoedd mwy na'u gilydd wedi eu penodi iddynt, ac heb ddim gofal wedi ei gymeryd am eu pwysau na'u maintioli, y naill yn gyferbyniol i'r lleill, ni fyddai un byd drwy y cread yn ddiogel am haner awr. Neu, tybiwch fod ein daear ni wedi ei gwneuthur heb yr un cynllun gyda golwg ar ddim a berthyn iddi, a'i bod yn drigle damweiniau yn lle trefn arfaethol, ac amcanion teilwng i'w cyrhaeddyd drwy bob peth sydd yn bodoli ar ei hwyneb. Pe na fuasai gan Dduw gynllun manwl i'w gario allan drwy bob peth a berthyn iddi, yna annhrefn trwyadl a deyrnasai drwyddi oll. Cawsid gweled afonydd, rhai yn rhedeg i waered o'r mynyddoedd i'r moroedd, eraill o'r moroedd i'r mynyddoedd; coed yn tyfu, rhai a'u gwreiddiau yn y ddaear a'u brigau yn yr awyr, eraill a'u gwreiddiau yn yr awyr a'u brigau yn y ddaear; amaethwyr yn hau maip ac yn medi gwenith, ac yn hau gwenith ac yn medi rhedyn; anifeiliaid yn dwyn rhywogaethau gwahanol iddynt eu hunain; atdyniad nodwydd y morwyr heddyw yn y gogledd-bwynt, yfory yn Ynys Seiriol, drenydd yn Malta, a thradwy yn Mexico; dynion o bob lluniau, heb unrhyw ddeddf yn llywodraethu ffurfiad eu cyrff na'u heneidiau, yn ddychryn i'w gilydd, ac yn warth i'r greadigaeth. Ond yn lle annhrefn, cynllun sydd yn cael ei weithio allan yn mhob peth, ac y mae Arfaeth Duw yn destun llawenydd i drigolion y ddaear, ac yn sylfaen diogelwch a hyder iddynt yn mhob peth—pob peth tymhorol a phob peth ysbrydol hefyd.

Mae cynllun a bwriadau Duw yn dragwyddol, "Yr Arfaeth dragwyddol" y gelwir ei Arfaeth ef. Ni fu dechreu arni erioed, ac ni fydd diwedd arni byth. Meddyliau calon y Brenin mawr ydyw, ac y mae ynddo yn hanfodol, ac o angenrheidrwydd erioed. Nid oes un

meddwl newydd gan yr Arglwydd—yr un bwriad a chynllun diweddar wedi ei ffurfio ganddo. *Hen* yw pob peth sydd yn Nuw; a hen tragwyddol mewn hynafiaeth yw ei holl fwriadau a'i amcanion ef. Dyna ogoniant Duw fel cynllunydd. Gogoniant dyn fel creadur terfynol a ffaeledig yw ei fod yn myned rhagddo o hyd mewn gwybodaeth a doethineb; ond pe buasai y Brenin mawr felly, nis gallasai fod yn Dduw. Creadur fuasai yntau. Buasai raid i ni chwilio am rywun arall i fod yn Gynllunydd, Creawdydd, a Chynalydd pob peth.

Beth a feddyliech chwi am osodiad fel yr un a ganlyn:—Pa beth bynag a wna Duw mewn amser, yr oedd yn bwriadu gwneud y peth hwnw erioed. Creodd Duw ddyn mewn amser; anfonodd ei Fab i farw dros ddyn mewn amser; mae yn cynyg ei fywyd i bechadur trwy yr efengyl mewn amser; mae yn dychwelyd ac yn santeiddio pechaduriaid mewn amser; gan hyny (os yw y gosodiad uchod yn deg), yr oedd yn bwriadu gwneud yr holl bethau hyn erioed. Eto, pa ddaioni bynag a wnelo dynion, ac angylion hefyd, mewn amser, y maent yn ei wneuthur am fod Duw yn eu dysgu, ac yn dylanwadu arnynt yn y fath fodd, fel y maent yn tueddu i wneud y daioni hwnw. Mae dynion yn gwneud llawer o ddaioni, a gwobrwyir hwy am y daioni a wnant; gan hyny, yr oedd Duw *erioed* yn bwriadu eu dysgu a'u dylanwadu yn y fath fodd, fel y gwnelent y daioni a wnaethant. Mae ffynon daioni yn natur ac yn mwriadau y Brenin mawr. Oddiwrtho ef y mae i gyd yn dyfod. Efe sydd yn ei effeithio; ac os yw efe yn ei effeithio mewn amser, rhaid ei fod yn bwriadu hyny erioed.

Daioni yn unig a gynwysir yn Arfaeth Duw. "Drwg ni thrig gydag ef." Mae yn cynwys holl weithrediadau penarglwyddiaeth; ond da i gyd, ac yn unig, a weithredir gan Benarglwyddiaeth Duw. Mae yn cynwys holl weinyddiadau cyfiawnder; ond daioni ydyw hyny oll. Os yw y gyfraith yn gyfiawn, yn santaidd, ac yn dda, y mae ei gweinyddu yn gyfiawn, ac yn santaidd, ac yn dda. Pan fo dyn wedi myned, trwy anonestrwydd, creulondeb, a dirmyg ar holl reolau uniondeb, yn bla ysol ar wlad neu dref, y mae ei garcharu y peth goreu a ellir wneud iddo gyda golwg arno ef ei hun, ac yn ddaioni mawr gyda golwg ar ei gyd-ddynion. Felly hefyd y mae gweinyddiad cyfiawnder yn llywodraeth Duw yn ddaioni mawr ynddo ei hunan, ac yn ei gysylltiad â holl lywodraeth foesol y Brenin mawr. Yn awr, os yw gwneuthur daioni yn ganmoladwy ac yn deilwng o Dduw, y mae bwriadu gwneud daioni, a bwriadu hyny er tragwyddoldeb, yn ganmoladwy a theilwng o Dduw yr un modd. Yn wir, y mae daioni y bwriadwyd ei wneuthur er ys talm, a'r amser i'w wneud heb ddyfod dros dymhor hir, yn ymddangos yn *fwy* daionus na rhyw ddaioni a wneir dan gynhyrfiad y foment, ac heb ei ystyried yn flaenorol. Felly y mynai yr Arglwydd i ddynion wneud daioni, sef fel efe ei hun. Yr oedd Paul yn arfaethu myned i Rufain i bregethu yr efengyl. "Pob un megys y mae yn rhagarfaethu yn ei galon, felly rhodded," meddai ef wrth y Corinthiaid pan yn casglu i'r saint tlodion yn Judea. Felly yn union, wrth weled Duw yn cyfranu ei ddoniau

mewn amser i rai wedi haeddu ei wg a'i soriant byth, y mae meddwl ei fod ef yn bwriadu gwneud felly erioed yn rhoddi golwg hawddgar a dymunol dros ben ar ddaioni y Brenin mawr. Da pur a digymysg a ddeillia o Arfaeth Duw, a dim ond da, yr hyn a ddengys y dylem glodfori Duw am ei Arfaeth, yn gystal ag am wneud daioni yn ol ei Arfaeth.

Dywedwn eto, Fod Arfaeth Duw yn anghyfnewidiol yn mhob peth. Fel y mae Duw yn anghyfnewidiol yn ei natur, felly nid yw ei gynlluniau a'i fwriadau ef yn gyfnewidiol. Mae bwriadau dynion yn cyfnewid, am fod eu gwybodaeth yn gyfyng pan oeddynt yn eu ffurfio. Daeth pethau eraill i'r golwg ar ol hyny, a gwelsant fod yn angenrheidiol iddynt gyfnewid eu cynlluniau; ond "Duw gwybodaeth yw yr Arglwydd." Gwyr bob peth am dano ei hun, ac am ei holl greaduriaid. "A'i amcanion ef a gyflawnir." Mae ganddo y gallu i'w dwyn i ben, ac fe wna. Mae ei fwriadau ef yn berffaith, ac y mae'n anmhosibl newid yr hyn sydd berffaith er gwell. Os newidir yr hyn sydd berffaith, rhaid y newidir ef er gwaeth. "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir." "Y mae efe yn un, a phwy a'i try ef?" Pe buasai bwriadau Duw yn agored i gyfnewidiadau, ni allesid pwyso arnynt, ac ni buasent yn deilwng o Dduw. Ond fel y maent yn anghyfnewidiol, y maent yn greigiau tragwyddol, cadarnach na'r nefoedd, ac yn ddisigl byth, fel y Brenin mawr ei hunan. Fe'u gweithia allan oll i gyflawniad. "Fy holl ewyllys a wnaf."

Arfaeth neu benderfyniad Duw i wneud daioni ei hunan, ac i ddylanwadu ar ei greaduriaid yn y fath fodd ag a'u dygo hwythau i wneuthur daioni, ydyw sail gwybodaeth sicr y Duwdod am yr holl ddaioni a gymer le dros byth yn y bydysawd. Ond os, fel y dywedwyd, mai daioni yn unig sydd yn deilliaw o Arfaeth Duw, pa beth yw sail gwybodaeth sicr y Duwdod am y drygau dirifedi a gyflawna creaduriaid rhesymol yn y byd hwn ac yn y byd arall? Yr ateb yw, mai terfynolrwydd y creadur, a'i ddiffygolrwydd mewn cymhariaeth i'r unig Fod perffaith ydyw sail y sicrwydd hwnw. Gwyr Duw wrth yr hyn ydyw y creadur pa fodd yr ymddyga dan bob amgylchiadau. Gan hyny, y mae dwy sylfaen i sicrwydd; un yn y Creawdwr, a'r llall yn y creadur. Yn Nuw ei hun y mae sylfaen sicrwydd am bob da, ac yn y creadur y mae sail y sicrwydd sydd am bob drwg. "Pob da oddiwrth y Creawdwr, a phob drwg oddiwrth y creadur." Mae y materion hyn wedi bod dan eich sylw chwi yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, a chafwyd sylwadau rhagorol ar seiliau sicrwydd da a drwg gan amryw o honoch.

Pan ddywed yr Ysgrythyrau fod yr Arglwydd wedi caledu calon Pharaoh—wedi anog Dafydd yn erbyn Israel i gyfrif y bobl, ac mai y pethau a ragluniodd llaw a chynghor Duw eu gwneuthur a wnaeth Herod, Pontius Pilat, y cenedloedd, a phobl Israel wrth osod Iesu o Nazareth i farwolaeth, a phethau cyffelyb, barnodd rhai, yn enwedig y diweddar a'r galluog Dr. Hopkins o Long Island, y rhaid fod drwg yn gystal a da yn gynwysedig yn mwriadau arfaethol y Goruchaf.

Yr ydym yn ystyried y fath olygiad yn hollol afresymol, yn ddiraddiol i'r Brenin mawr, yn groes i natur pethau; ac felly yn hunanddinystriol. Nid yw geiriau y Beibl ar y pethau a nodwyd ddim ond troell-ymadroddion, neu ddull cyffredinol dynion o lefaru ar y fath faterion, dim ond ffurf boblogaidd o osod y pethau allan. I egluro hyn, mae teulu crefyddol a bucheddol yn byw yn awr mewn lle adnabyddus i mi. Mae yn perthyn i'r teulu hwnw fab, yr hwn, er yr holl foddion a'r manteision oedd ganddo i ragori ar ei gydieuenctyd mewn moesoldeb a rhinwedd, a droes allan yn wr ieuanc meddw ac afreolus dros ben. Gwnaeth ei rieni yr oll a allent i ddiwygio y gwr ieuanc, ond y cwbl yn ofer. Dywedai rhai na ddylasent roddi na bwyd, na dillad, na llety iddo; ond yr oedd yn fab iddynt hwy, a theimladau rhieni oedd yn eu mynwesau tuag ato. Ond, oblegid eu bod yn gweini cymwynasau iddo, ac heb ei fwrw allan o'u haelwyd, yr oedd y cymydogion yn dywedyd yn aml mai y tad a'r fam oedd yn anog y llanc i afradlonedd, ac yn achosi ei fywyd afreolaidd. Bod cysylltiad neillduol rhyngddynt hwy âg ef sydd eglur, ond yr oedd yn gysylltiad naturiol iawn a rhinweddol hefyd. Dyna ddull poblogaidd y byd o lefaru ar faterion o'r fath, pa un bynag a fyddont ai drwg ai da. Felly, ymostwng y mae y Beibl i lefaru wrthym am galedwch Pharaoh a chroeshoeliad Iesu Grist, yn y dull yr arfera dynion draethu eu meddyliau ar y fath bethau. Bod cysylltiad agos rhwng Duw a brenin yr Aipht sydd eglur, oblegid yn Nuw yr oedd efe yn byw, yn symud, ac yn bod. Y gwyddai yr Arglwydd yn berffaith pa fodd yr ymddygai Pharaoh dan oruchwyliaethau y nefoedd, mai ymgaledu a wnai yn lle ufuddhau a gollwng y bobl ymaith, sydd yr un mor eglur; oblegid yr oedd yn ei adnabod yn gyflawn, ac yn gwybod yn ddiffael beth fyddai gweithrediadau ei holl alluoedd dan ddylanwad anghrediniaeth yn wyneb cenadwri Moses ato.

Mae yn eglur eto na allasai Pharaoh ymgaledu dan y moddion a weinyddwyd tuag ato, heb iddo gael bywyd, ac anadl, ac ymborth, ac amser, ac awdurdod brenhinol. Pe buasai Duw yn ei ladd yn y dechreuad, ni allasai ymgaledu dan genadwri Moses. Gan fod Pharaoh i fod mewn sefyllfa o brawf gyda golwg ar gais yr Arglwydd drwy Moses ac Aaron, rhaid oedd iddo gael llawer o bethau gan yr Arglwydd, ac nis gallasai eu cael gan neb arall. Oblegid y pethau hyn y dywedir, mewn ffordd droell-ymadroddol, fod Duw wedi caledu calon Pharaoh. Ond gwelir yn eglur, wrth fanylu ar y mater, fod y cwbl a wnaeth Duw yn gyfiawn, santaidd, a da, ac yn anhebgorol angenrheidiol i frenin yr Aipht mewn sefyllfa o brawf yn wyneb cenadwri gweision yr Arglwydd. Felly, gan fod y cyfan a wnaeth Duw yn y mater yn dda, yr oedd yn deilwng i fod yn ei fwriadau tragwyddol; ac yr oedd bwriad i galedu calon Pharaoh yn hollol ddiangenrhaid, ac nid yw Duw yn bwriadu pethau o'r fath. Yr oedd brenin yr Aipht yn ymgaledu yn naturiol dan ddylanwad anystyriaeth ei galon ei hun, yn annibynol ar bob bwriad dwyfol. Y cwbl

oedd a fynai Duw â chaledwch calon Pharaoh oedd mewn goruwchreoli y caledwch hwnw i ogoniant ei enw a lles y byd.

Yr un modd y gellir dywedyd na arfaethodd Duw erioed i'r Iuddewon a'r Rhufeiniaid i groeshoelio y Gwaredwr. Nid oedd *eisieu arfaethu* i'r Iuddewon a'r Rhufeiniaid wneud hyny. Yr oedd balchder, rhagfarn, cenfigen, a chreulondeb yr Iuddewon, anghyfiawnder a meddalwch Pilat, a'i benderfyniad i foddhau yr Iuddewon yn y mater, a gwaseidd-dra y milwyr, yn sicrhau y gwnaent y creulondeb hwnw yn annibynol ar Arfaeth Duw, a gwyddai efe hyny yn berffaith er tragwyddoldeb. Y pethau a wnaeth Duw ei hun yn y mater, ac nid y pethau a wnaeth yr Iuddewon, ydyw yr hyn a arfaethodd efe. Ond beth a wnaeth yr Arglwydd yn yr amgylchiad hwnw? Dim ond daioni pur. Eiddo y gelynion, yn gythreuliaid a dynion, oedd yr holl ddrygeddau. 1. Fe roddodd Duw i leiddiaid y Gwaredwr fywyd ac anadl, nerth ac iechyd, amser a chyfleusderau, i ymddwyn fel yr ewyllysient at yr Arglwydd Iesu; a chan eu bod hwy i fod mewn sefyllfa o brawf yn wyneb gweinidogaeth, gwyrthiau, a nodweddiad Mab Duw, yr oedd hyny yn anhebgorol angenrheidiol, ac yn ddaioni pur a digymysg. 2. Traddododd Duw ei Fab i raddau helaeth i ewyllys a dwylaw ei elynion. Yr oedd hyny hefyd yn ddaioni pur a digymysg, ac yn ffrwyth ei gariad tragwyddol at ei anwyl Fab, at yr Iuddewon eu hunain, ac at y byd yn gyffredinol. 3. Fe oruwchreolodd yr holl elyniaeth yn erbyn ei anwyl Fab, fe waharddodd weddill cynddaredd yr Iuddewon, fe sicrhaodd na thorid asgwrn o hono, ac na chleddid ef gyda y drwgweithredwyr a groeshoeliwyd gydag ef, fel y byddai ei adgyfodiad yr un mor sicr a'i farwolaeth; ac yr oedd hyn hefyd yn ddaioni pur a digymysg. Y pethau a wnaeth Duw, a fwriadodd efe eu gwneuthur, ac nid yw ei gysylltiad ef â'r mater yn ei fwriadau yn myned yn mhellach na'r daioni a wnaeth efe, ac a wna efe eto drwy farwolaeth ei Fab. Dull poblogaidd a throell-ymadroddol o eiddo y Beibl yw dywedyd fod y croeshoeliad wedi ei ddwyn oddiamgylch yn ol Arfaeth Duw, oblegid na allasai neb byth groeshoelio ei Fab heb i Dduw ei draddodi i ddwylaw yr Iuddewon, ac heb iddynt hwythau gael y pethau ag oedd yn anhebgorol angenrheidiol i'w gosod mewn sefyllfa o brawf yn wyneb gweinidogaeth a gwyrthiau yr Arglwydd Iesu. Gellir dywedyd yn mhellach, a hyny gyda sicrwydd mawr, nid yn unig na arfaethodd Duw erioed ddim sydd ddrwg, ond na arfaethodd efe erioed *oddef* i ddynion gyflawni yr hyn sydd ddrwg. Ymddengys fod dywedyd i Dduw arfaethu *goddef* i bechod ddyfod i'r byd, ac arfaethu *goddef* i ddynion groeshoelio ei Fab, yn hollol ddiangenrhaid, ac yn wrthddywediad plentynaidd a hollol amddifad o synwyr. Arfaeth i weithio, ac nid i beidio gweithio, yw ei Arfaeth ef, ac Arfaeth i oddef i ddynion wneud drygau sydd o'r un ystyr ag Arfaeth i wneud dim. Gall rhyw rai ddychymygu y gwelant ryw sylwedd mewn peth felly; os gallant weled hyny, croesaw iddynt.

Dywedasom fod Arfaeth Duw yn cynwys holl weithredoedd yr

Arglwydd. Os gwrthddadleua rhai fod hyny yn gosod allan fod y Duwdod yn penderfynu ac yn bwriadu yn nghylch pethau rhy fychain i Fod mor fawr i benderfynu yn eu cylch,—y mae pob peth yn fychain mewn cymhariaeth iddo ef; ac os penderfynodd ef ryw bethau o gwbl, pethau bychain raid eu bod i gyd iddo ef. Y mae wedi gwneud creaduriaid byw mor fychain na all neb eu gweled heb wydrau cryfion. Nid oes un dyn mewn sefyllfa i allu rhoddi barn deg ar y fath bwnc. Beth bynag y mae Duw yn wneud mewn amser, bwriadodd ei wneud erioed. Mae efe yn gwneuthur pethau bychain iawn; gan hyny, bwriadodd wneuthur y pethau bychain iawn hyny.

Gwrthddadleua rhai yn erbyn Arfaeth Duw am ei bod, yn ol eu tyb hwy, yn cyfyngu ar ryddid y Brenin mawr. Diau mai efe yw y Rhyddweithredydd *penaf* a mwyaf gogoneddus, ac eglur yw ei fod erioed wedi bwriadu gwneud ei holl weithredoedd. Mae ei gynllun yn berffaith, ac yn amlygu doethineb a daioni anfeidrol—y cynllun goreu a all fod ydyw, ac y mae yn anmhosibl i Dduw wneud, na bwriadu gwneud, ond y peth sydd *oreu*, eto y mae efe yn berffaith ryddweithredydd. Barnu yr ydym, os oes rhywun yn teimlo awydd i ymddifadu Duw o'i gynllun perffaith, ac o'r angenrheidrwydd moesol sydd yn hanfodol yn mherffeithrwydd ei natur i gario y cynllun perffaith hwnw allan, heb ei newid am un gwaelach, fod yn bryd i hwnw adolygu ei olygiadau am natur rhyddid perffaith, rhag ei fod yn coleddu syniadau am dano na safant yn wyneb yr hyn sydd eglur am ryddid y Brenin mawr, rhyddid y Cyfryngwr mewn sefyllfa o brawf, rhyddid angylion da ac angylion drwg, a rhyddid dynion cyfrifol i Dduw am eu hymddygiadau; a'i fod yn dal rhyw ryddid dychymygol sydd yn gwadu dylanwad cymhellion ar y meddwl wrth ffurfio ei benderfyniadau, ac felly yn taflu llywodraeth foesol, sydd yn llawn o bob math o gymhelliadau, yn hollol dros y bwrdd, ac yn arwain i dir diffrwyth amheuaeth ac anffyddiaeth. Ond os byw ac iach a fyddwn, daw y mater hwn o Ryddid yn y Duwdod, y Cyfryngwr, a deiliaid llywodraeth foesol, dan ein sylw yn yr adeg briodol. Nid yw syniadau rhai athronwyr ar y pwnc o ryddid yn gwneud dim ond amlhau amheuwyr. Y maent yn ddinystriol i lywodraeth foesol am eu bod yn gwadu dylanwad priodol cymhellion yn ffurfiad penderfyniadau, ar un llaw, ac yn dadymchwelyd trefn cadw pechaduriaid ar y llaw arall, gan eu bod yn gwadu dylanwad effeithiol yr Ysbryd, fel nad oes gan ddyn mwyach na chymhellion moesol i'w ysgogi at yr hyn sydd dda, na dylanwad dwyfol ychwaith—dim ond efe ei hun yn nghanol ei benarglwyddiaeth a'i annibyniaeth, heb ddim mewnol nac allanol yn llywodraethu dim ar ei ysgogiadau. Ni all Duw mwyach na barnu y byd, na'i achub, na gwneud dim ond dysgwyl wrth ewyllys hunanbenderfynol y creadur dyn.

Nid oes dim yn Arfaeth Duw i ddychrynu neb. Nid yw ond cynllun perffaith Duw, a'i benderfyniad i weithio y cynllun hwnw allan. Nid yw cynlluniau dynion nac yn dychrynu nac yn digaloni

neb, oddieithr eu bod yn rhai drygionus a chreulon yn eu natur, a gallu yn llaw y cynllunydd i'w cario allan. Am gynlluniau cyffredin dynion, y maent yn galonogol i bawb gydweithio â hwy i'w dwyn i ben. Mae cynllun Duw yn ddaioni pur, ac yn galonogol i bawb gydweithio âg ef ar y tir ac ar y tònau. Ac os ydyw felly mewn pethau naturiol, pa faint mwy y mae felly mewn pethau moesol ac ysbrydol? Os gwelir dyn fyddo yn dychrynu wrth feddwl am Arfaeth Duw, sydd yn gariad a santeiddrwydd i gyd, gellir penderfynu na ddylid gollwng hwnw yn mhell dros riniog ei dŷ wrtho ei hunan na dydd na nos.

**Bangor, Gorphenaf 7, 1873.**

## GWEITHREDOEDD DUW.

*Darlith XIII.*

Y TRO diweddaf y bum i yma, dywedwyd ychydig am Arfaeth neu gynllun tragwyddol y Brenin mawr, a'i benderfyniad digyfnewid ef i gario y cynllun hwnw allan i gyflawniad perffaith yn natur, rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn iachawdwriaeth dynion. Ein hamcan heddyw fydd cymeryd golwg fèr ar y Duwdod yn gosod ei gynllun tragwyddol ar waith yn nygiad ei greaduriaid i fodolaeth.

Peth dedwydd iawn i ni ydyw meddwl fod y Duwdod ynddo ei hun yn ddigon i'w ddedwyddwch ei hun, heb ymddibynu ar ei greaduriaid o gwbl, oblegid nid oedd neb yn bodoli ond efe ei hunan yn dri o bersonau hyd yn ddiweddar iawn; a phe buasai ei ddedwyddwch ef yn ymddibynu ar ei greaduriaid, rhaid y buasai yn Fod annedwydd iawn erioed, a ffynonau ei ddedwyddwch bob un heb ddechreu tarddu hyd nes y dygwyd y greadigaeth i fodolaeth. Pa bryd bynag y dechreuodd Duw ddwyn y greadigaeth i fod (ac y mae y meddylddrych am greadur yn cynwys terfynoldeb, ac adeg benodol yn yr hon y dechreuodd fodoli), yr oedd tragwyddoldeb cyn hyny, yn yr hwn nid oedd neb yn bodoli o gwbl ond y Duwdod ei hunan; ond yr oedd efe yn anfeidrol ddedwydd yn ei fodolaeth ei hun, ac yn ei fwriadau gogoneddus, cyn bod yr un creadur wedi cael ei lunio ganddo.

Y mae gwaith Duw yn y greadigaeth yn dangos gallu anfeidrol—gallu ag y mae pob gallu yn mysg y creaduriaid yn tarddu allan o hono yn hollol ymddibynol arno, ac megys dim mewn cymhariaeth iddo. Mae y Beibl yn galw y gallu hwnw yn "dragwyddol allu." Gallu ydyw hwn i alw pethau i fod o *ddim*—gallu i ffurfio pethau heb ddim defnyddiau i ffurfio pethau o honynt—gallu i ffurfio elfenau ac i gymysgu a threfnu y rhai hyny drachefn yn y fath fodd fel y dygwyd i fodolaeth yr holl fydoedd o honynt, a'r holl fywyd elfenol, tyfol, ac anifeilaidd sydd ynddynt; ond gallu yn cael ei reoleiddio

gan wybodaeth, doethineb, a daioni anfeidrol oedd hwn, yn yr holl amlygiadau a wnaeth yr Arglwydd o hono.

Mae eangder diderfyn i *ni* yn ngweithredoedd yr Arglwydd. Y mae terfyn yn ddiau i'r greadigaeth, ond y mae yn eglur na wyr dyn ddim am dano. Yr ydym hefyd yn tueddu yn gryf i feddwl na wŷr angel mwy na dyn am derfynau creadigaeth Duw. Mae dyn o hyd, wedi ei holl ymchwiliadau, yn cael allan mai difyru ei hun y mae ar làn môr mawr rhyfeddodau y greadigaeth, a digon tebyg fod angel yn ystyried ei hunan, ar ol ei holl wibdeithiau cyflym o'r naill fan i'r llall yn y cread, fel rhyw wybedyn bach yn chwareu o gylch y canol o hyd. Ond y mae efe, yr hwn a wnaeth y cyfan, "yn rhifo rhifedi y ser, ac yn eu galw oll wrth eu henwau," ac nid yn unig y mae ganddo ef enwau ar fydoedd, ac ar bob elfen sydd yn myned i mewn i'w cyfansoddiad, ond hefyd ar bob creadur sydd yn byw ynddynt, o'r mwyaf hyd y lleiaf oll. Mae ganddo ef enwau nid yn unig ar ddynion ac angylion, ond ar bob anifail a bwystfil sydd yn y maes, ar bob pysgodyn sydd yn yr afonydd, y llynoedd, a'r moroedd mawrion llydain; pob ymrwyfyn sydd yn llwch y ddaear, a phob bywionyn, anweledig i ni, sydd yn chwareu mewn dafn o ddwfr. Mae enwau ganddo ef ar bob gwelltyn a dyf o'r ddaear, pob deilen sydd yn ei choedwigoedd, a phob llwchyn sydd o'i mewn. Nid oes neb ond Duw a wyr beth yw eangder y greadigaeth, ond gwyr efe yn berffaith am bob peth o'i mewn hyd ei heithafion. Nid oes greadur anamlwg iddo ef. Y mae pob peth yn noeth ac yn agored yn ei lygaid ef, am yr hwn yr ydym yn son. Tra na allwn ac na ddymunem ddywedyd dim yn benderfynol am breswylwyr bydoedd eraill yn y gwagle, y tebygolrwydd ydyw eu bod yn cael eu preswylio gan fodau rhesymol ac afresymol, yn gyffelyb i'r byd hwn. Yr ydym yn sicr fod haf a gauaf, gwanwyn a chynhauaf yn perthyn i lawer o honynt fel i'r byd hwn. Mae iddynt eu dyddiau, eu misoedd, a'u blynyddoedd. Mae oerni gogleddol a gwres canolbarthol yn perthyn iddynt. Mae'n ddigon tebyg fod amaethwyr yn enill eu bywoliaeth wrth drin y ddaear yn Iau, ac hyd yn nod ar fodrwyau y blaned Sadwrn. "Mor lluosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd; gwnaethost hwynt oll mewn doethineb." A pha beth bynag a ddywedir am fydoedd eraill, y mae ein daear ni, pa fodd bynag, yn llawn o gyfoeth y Brenin mawr.

Ymddengys eto fod rhanau helaeth o'r greadigaeth yn annhraethol hen. Mae ser i'w canfod yn bresenol, drwy ddrychau cryfion yr oes hon, oedd mewn bod ganoedd o filoedd o flwyddi yn ol, oblegid cymerasai eu goleuni amser hir felly i deithio yma; a pha bryd y cyrhaeddodd yma, nid oes neb ond Duw a wyr. Fe gytunir yn weddol yn awr fod ein daear ni yn hen iawn. Cymerodd dymhor dirfawr i'w ffurfio fel y mae yn awr, a'i mwnau, a'i gloau, a'i chreigiau, a gweddillion ei chreaduriaid o'i mewn. Nid rhyw chwe' mil, fel y tybir yn gyffredin gan anwybodusion, yw oed ein daear ni, na chwe' mil ar hugain chwaith, ond y mae yn hen tuhwnt i bob dyfaliad o'r eiddom ni. Mae Moses yn dywedyd hyny yn yr adnod gyntaf yn

Llyfr Genesis, neu o leiaf, yn awgrymu peth felly, pan y dywed, "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear." Nid dygiad y ddaear i fod, na'r nefoedd chwaith, a olygir yn ngwaith y chwe' dydd, ond cymhwysiad y ddaear i fod yn gartref cysurus i ddyn, a gosodiad llu y nef i wasanaethu arno, gan Dduw.

Ymddengys mai yn raddol iawn y dygwyd y byd i'r ffurf y mae ynddo yn bresenol. Cymerodd ugeiniau o filoedd o flynyddau i ffurfio rhai o haenau y ddaear hon. Bu yma lawer creadigaeth o greaduriaid byw o flaen yr un sydd ar wyneb y ddaear yn bresenol —llawer tô o fwystfilod ac anifeiliaid nad oes yr un o honynt yn mysg creaduriaid presenol y byd hwn—llawer tô o adar cyn y tô presenol, ac yn doau o rywogaethau gwahanol i'w gilydd i gyd. Pwy a fedr ddywedyd pa mor hir oedd yr adeg a gymerwyd i ffurfio yr haenau glo sydd yn cael eu gweithio yn bresenol? ac y mae y cyfan oll wedi eu gwneud o ychydig o elfenau gwreiddiol wedi eu cydgymysgu gan y fferyllydd Anfeidrol, fel y mae holl eiriau yr iaith Gymraeg, y rhai ydynt dros gan' mil mewn rhifedi, wedi cael eu ffurfio drwy gymysgedd rheolaidd o lythyrenau yr egwyddor. Yn awr, os yw y ddaear yn annhraethol hen, rhaid fod yr haul felly, oblegid yr oedd ei fodolaeth ef yn anhebgorol angenrheidiol i fodolaeth y ddaear. Hebddo ef, buasai y ddaear fel rhyw blentyn amddifad heb dad i hongian wrtho, ac heb ganolbwnc i ymddibynu arno. Pe gofynid i mi pa fodd y dygwyd y gyfundrefn hon i fod, fy atebiad fyddai, mai nid gwneud planedau a lleuadau i ddechreu a wnaeth Duw, ond gwneud yr haul yn mlaenaf oll, ac yna dwyn y bydoedd sydd yn ymddibynu arno i fodolaeth, bob un yn ei gylch i dderbyn eu llywodraethiad a'u haddurniadau oddiwrth ganolbwnc mawr y gyfundrefn. Nid yw dyn, yn ddiau, ond creadur pur ddiweddar ar wyneb y ddaear hon, ond cymerodd amser maith i gymhwyso y ddaear i fod yn gartref cymhwys iddo ef.

Gwelir eto fod rhyw gymhwysder rhyfedd i'w gilydd yn ngweithredoedd yr Arglwydd. Y mae y naill wedi ei wneud i wasanaethu y llall yn ogoneddus dros ben, fel na all dyn gael dim ar ei ol ef. Mae y tiroedd yn gwasanaethu y moroedd, a'r moroedd yn gwasanaethu y tiroedd yn ol drachefn. Mae bywyd elfenol yn gwasanaethu y bywyd tyfol—y bywyd elfenol a'r tyfol yn gwasanaethu y bywyd anifeilaidd. Mae y bywyd elfenol, y tyfol, a'r anifeilaidd yn gwasanaethu dynion, a dynion i'w gwasanaethu hwythau yn ol, ac i wasanaethu eu cyd-ddynion, a'r cyfan gyda eu gilydd i wasanaethu yr Arglwydd. Mae dydd a nos ar gyfer eu gilydd, ac y mae y naill mor angenrheidiol ag ydyw y llall. Mae gwanwyn ar gyfer y cynhauaf, yr haf ar gyfer y gauaf, ac oerni ar gyfer gwres. Mae gwlawogydd a sychderau ar gyfer eu gilydd, gwyntoedd cryfion a thawelwch mawr, gwahanol wledydd a hinsoddau, pob math o greaduriaid, wedi eu gwneud y naill ar gyfer y llall. Mae angylion yn wasanaethwyr i ddynion, ac y mae dynion yn wrthddrychau myfyriaeth ac astudiaeth i angylion. Mae holl waith Duw yn un gyfundrefn fawr

dragwyddol, a'i holl ranau yn gwasanaethu eu gilydd, a than reolaeth yr un Llywydd hollalluog ac anfeidrol ddoeth.

Gellir dywedyd eto fod harddwch neillduol yn holl waith yr Arglwydd, "Gogoniant a harddwch yw ei waith ef." Mae efe wedi prydferthu pob peth a wnaeth. Nid yn unig y mae'r nefoedd serenog yn hardd, a'r ddaear yn brydferth, ond y mae pob pren, gwelltyn, a blodeuyn yn brydferth. Mae y creaduriaid o bob math yn nodedig o ran eu harddwch, ac y mae yr harddwch yma yn llawn o amrywiaeth, fel y gellir dywedyd, "Arall yw gogoniant yr haul, ac arall yw gogoniant y lloer, ac arall yw gogoniant y ser, oblegid y mae rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant;" ac y mae yr amrywiaeth hwn yn rhedeg drwy holl waith y Brenin mawr.

Mae holl weithredoedd yr Arglwydd eto wedi eu gwneud i gydateb *un* amcan mawr a gogoneddus, sef dangos gogoniant yr Arglwydd i'w greaduriaid rhesymol, fel y delont i'w adnabod ef ac i'w wasanaethu, ac i'w fwynhau yn yr oll ag ydyw.

Diau fod llawer iawn o is-amcanion yn cael eu hateb drwy weithredoedd yr Arglwydd. Mae yr amcanion hyny mor amrywiol ag ydyw anghenion ac elfenau dedwyddwch a diogelwch creaduriaid rhesymol ac afresymol hefyd. Efe a wnaeth y mynyddoedd uchel yn noddfa i'r geifr, a'r creigiau i'r cwningod. Yr oedd cedrwydd Libanus wedi eu gwneud nid yn unig i adeiladu y deml, a phalasdy Solomon, ond yno y nythai yr adar. "Y ffynidwydd yw ty y ciconia." Mae llawer o is-amcanion i'r haul, yr awyr, y tir, a'r môr, y creaduriaid, a'r adar; ond wedi y cwbl, cydgyfarfyddant oll mewn traethu gogoniant yr Arglwydd i'w greaduriaid rhesymol. Dyna amcan mawr mwyaf ac uchaf pob peth. "Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun." "Canys o hono ef a thrwyddo ef, ac iddo ef y mae pob peth." Tystion Duw yw y cwbl a wnaeth efe. Cyd-dystion ydynt â gair y gwirionedd, a'r un pethau hefyd a dystiolaethant, i raddau helaeth iawn. Mae priodoleddau Duw wedi eu hargraffu ar natur, rhagluniaeth, llywodraeth foesol, a threfn iachawdwriaeth, fel y mae yn eglur mai un gyfundrefn fawr ydynt oll gyda eu gilydd dan lywodraeth yr *un* Brenin mawr, i ateb yr un dybenion mawr—gogoniant y Duwdod yn lleshad yr holl greadigaeth.

Mae gweithredoedd Duw i gyd wedi eu gwneuthur drwy y Cyfryngwr mawr. Mae y Beibl yn berffaith eglur ar hyn; "Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth, ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd; trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd." "Canys trwyddo ef y crëwyd pob dim, yn weledig ac yn anweledig, pa un bynag ai thronau, ai arglwyddiaethau, ai tywysogaethau, ai meddianau; pob dim a grëwyd trwyddo ef, ac erddo ef; ac y mae efe cyn pob peth; ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll." Ni all dim fod yn eglurach nag ymadroddion y Beibl ar y mater hwn.

Gallai fod llawer o resymau hollol anadnabyddus i ni dros i Dduw grëu pob peth, a chynal pob peth, a llywodraethu pob peth, a barnu dynion ac angylion drwy y Cyfryngwr; ond y mae rhai pethau yn

ymddangos i ni a ddywedant fod hyny yn weddus iawn, a dweyd y lleiaf:—

1. Gallai fod anrhydedd gorsedd Duw o'r fath, fel na fuasai yn weddus iddo ef ymwneud yn uniongyrchol â chreadur ond drwy Gyfryngwr. Mae hyd yn nod gorseddau y ddaear hon yn hòni rhyw ucheledd, fel na allant ymwneud yn uniongyrchol â'r deiliaid, ond fod cyfryngwyr yn angenrheidiol i ddiogelu urddas yr hwn fyddo yn eistedd ar yr orsedd yn ngolwg y deiliaid. Yn awr, os ydyw hynyna yn wir gyda golwg ar benaduriaid yn mhlith dynion, pa faint mwy y geilw anrhydedd gorsedd y Brenin tragwyddol am Gyfryngwr i weinyddu rhwng yr orsedd a'r greadigaeth?

2. Gallai fod tanbeidrwydd gogoniant Duw y fath, fel na allai efe ymwneud yn uniongyrchol â chreadur heb ei ddyfetha wrth ymwneud yn uniongyrchol felly âg ef, a bod yr angenrheidrwydd am Gyfryngwr rhwng yr orsedd a'r greadigaeth yn codi o natur pethau, sef natur Duw, a natur ei greaduriaid. Gwyddom y byddai i Dduw ymwneud yn uniongyrchol â dyn pechadurus, a dweyd y lleiaf, yn ddinystr hollol i ddyn. Mae gwaith yr Arglwydd yn cuddio ei was Moses yn agen y graig tra byddai ei ogoniant yn myned heibio iddo, yn dysgu gwers i ni ar y mater hwn. Yn Nghrist yn unig y gall pechadur gyfarfod y Duwdod; ac o ran dim a wyddom ni, gall fod ar Adda cyn pechu, ac angel na phechodd erioed, angen am Gyfryngwr yn gystal a dyn wedi syrthio; ac y mae llawer o bethau yn tueddu i'n hargyhoeddi fod yn weddus i Dduw ymwneud â'r greadigaeth sydd islaw dyn drwy Ganolwr yn gweinyddu rhyngddynt.

3. Y mae y Cyfryngwr sydd wedi ei ordeinio yn gwisgo natur un o greaduriaid Duw, fel y mae y priodoldeb mwyaf i'r Duwdod ymwneud â'i greaduriaid drwy hwnw, pa un bynag ai crëu, ai cynal, ai llywodraethu, ai achub, ai gwobrwyo, neu gosbi, fyddo yr amcan mewn golwg.

4. Y mae yr holl greadigaeth yn llaw y Cyfryngwr, at ei wasanaeth ef i ddwyn amcanion gogoneddus y Duwdod i ben; gan hyny, y mae priodoldeb iddo ef fod yn wneuthurwr y pethau fyddont at ei wasanaeth ef felly.

5. Er hyn oll, nid ydym yn taflu y personau eraill allan o'r gwaith mawr a gogoneddus. Y mae y fath undeb rhyngddynt, fel y maent i raddau helaeth yn gydweithwyr yn mhob peth mewn crëu, cynal, llywodraethu, ac achub. "Y Tad, yr hwn sydd yn aros ynof fi, efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd," medd Crist. *Partners*, cydweithwyr, yw y Drindod, er fod y gwaith yn swyddogol yn cael ei ddwyn yn mlaen trwy y Mab, "Yr un Cyfryngwr sydd rhwng Duw a dynion."

Y mae Duw yn gweithio o hyd. "Mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn, ac yr ydwyf finau yn gweithio." Pan ddywedir fod Duw wedi gorphen ei waith yn y greadigaeth, ni olygir ei fod yn peidio a gweithio, ond ei fod wedi gorphen cymhwyso y ddaear i fod yn gartref i ddyn, a'r nefoedd i roddi goleuni ac anadl einioes iddo. Y

mae yr un gallu mawr tragwyddol yn angenrheidiol i gynal y pethau a wnaed mewn bodolaeth, ag oedd yn angenrheidiol i'w dwyn i fodolaeth ar y dechreu; ac felly, y mae cynaliaeth yn fath o greadigaeth barhaus a beunyddiol. "O herwydd dy ewyllys di y maent, ac y crëwyd hwynt." Yr un tragwyddol allu sydd yn angenrheidiol i beri iddynt barhau i fod ag oedd eisieu i'w crëu.

Eto: gellir gofyn, A oes tebygrwydd y bydd i bethau a ddygodd Duw unwaith i fodolaeth beidio a bodoli drachefn? Meddwl yr ydym nad oes genym ni yr un engraifft o unrhyw beth a ddygwyd i fod yn syrthio i ddiddymdra yn ol. Er hyny, tuedd naturiol pob peth sydd yn ymddibynol ydyw dychwelyd i'r dim o ba le y daeth; a phe peidiai Duw a'i gynal am eiliad, felly y byddai yn ddiau. Nid oes dim yn parhau o angenrheidrwydd, gan hyny, ond y Duwdod, nac ysbryd dyn, nac angel chwaith, mwy na defnydd difywyd. Penderfyniad Duw i gynal pethau mewn bod ydyw sylfaen eu parhad. A ydyw Duw yn penderfynu cynal pob sylwedd materol yn gystal a sylweddau ysbrydol mewn bod byth? Nid ydyw efe wedi hysbysu i ni. Mae y mater yn hollol yn ei law ef ei hunan, ond byddai yn burion i ni ddeall fod ein bodolaeth ni a phob peth arall yn troi ar ewyllys Duw.

Y mae yr Arglwydd wedi bwriadu i'w weithredoedd ef gael eu hastudio genym ni, a'i greaduriaid ysbrydol eraill. "Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd, wedi eu ceisio gan bawb a'u hoffant." "Meddyliais am dy holl waith, ac am dy weithredoedd y myfyriaf." Nod ar yr annuwiol ydyw hwnw: "Am waith yr Arglwydd ni ofalant, a gweithred ei ddwylaw ef nid ystyriant." Llyfr mawr agored i gael ei ddarllen a'i astudio gan ddynion ac angylion ydyw gweithredoedd yr Arglwydd. Y mae Duw ei hunan mewn cysylltiad â'i weithredoedd yn mhob man. Y mae i'w adnabod ynddynt, a thrwyddynt, i raddau helaeth iawn.

Diau fod llawer o bethau a wnaeth efe, ac y mae efe yn eu cynal hefyd, na wyddom ni na neb arall yn y byd hwn *i ba beth* y maent da. Ond diau fod y cyfan oll yn rhan arbenig o gynllun tragwyddol y Duwdod, ac yn angenrheidiol i lanw rhyw wagle yn y cynllun hwnw. Fe *wyr* efe i beth y maent yn dda. Rhanau, a dim ond rhanau o ffyrdd Duw sydd yn ein golwg ni eto, ac a fydd yn ein golwg ni yn dragywydd; ond y mae efe yn ddoeth o galon, ac yn alluog o nerth, a'i amcanion ef a gyflawnir.

Llawer gwaith y gofynwyd cyn hyn, pa bryd y creodd Duw yr angylion? Y mae y Beibl yn dywedyd wrthym pa bryd y crëwyd y dyn cyntaf oll; ond nid yw yn ein hysbysu pa bryd y crëwyd dim arall yn mron. Ni ddywedodd Duw o gwbl pa bryd y crëwyd yr angylion. Gelwir hwy yn "Ser y bore." Barna rhai mai yr angylion a greodd Duw gyntaf o'i holl greaduriaid; ond nid yw hyny yn debygol. Gellid meddwl fod yn angenrheidiol iddynt *hwy* gael amlygiadau o Dduw i'w dysgu am dano ef. Digon tebyg fod angylion wedi eu crëu cyn i ddyn gael ei grëu; ond nid cyn i Dduw grëu llawer o bethau eraill i'w amlygu ei hun iddynt.

Mae gweithredoedd Duw gan mwyaf yn weithredoedd na all neb arall eu gwneud ond efe. Mae gwneud yr un fath ag ef yn analluadwy. Gall dynion dynu lluniau, ond ni all neb wneud y pethau ond Duw. Gall dynion dynu lluniau eu cydryw, anifeiliaid, mynyddoedd, creigiau, cymoedd, a rheieidr; ond rhaid cael Duw i *wneud* y pethau. Peth nad all neb arall eu gwneud a wna efe gan mwyaf. Ac er fod dynion yn gallu adeiladu yn dda, nid yw eu gwaith ond cyffredin iawn yn ymyl ei waith ef yn adeiladu y creigiau a chrystyn y ddaear bob yn haen, mor reolaidd, ac mor deilwng o hono ef ei hunan. Mae dynion yn gwneud pysgod-lynoedd godidog; ond nid ydynt yn werth eu henwi yr un diwrnod a'r llynoedd a'r moroedd, pysgod-lynoedd y Brenin mawr. Mae dynion yn ceisio gwneuthur blodau, ond nid oes bywyd ynddynt. Ceisio dynwared Duw ydyw y cyfan a all dyn wneud. Efe yw y gwreiddiol. Prif orchwyl dyn ydyw darganfod gwaith Duw a'i droi i ymarferiad, er ei les ei hun a'i gyd-ddynion, a gogoniant y Gweithydd mawr a hollalluog.

Darganfyddwr yw y daearegwr wrth chwilio haenau y ddaear. Darganfyddwr yw y seryddwr wrth ddosbarthu ser adnabyddus, a chwilio am eraill nad oeddynt yn weledig o'r blaen. Nid oes yr un seren newydd yn y nefoedd oblegid ei fod ef yn seryddwr. A darganfyddwr yw yr athronydd naturiol; cael allan y pethau sydd yn bod yw ei orchwyl ef. Yr un modd yr athronydd meddyliol; astudio deddfau y meddwl yw ei waith ef. Felly hefyd yr athronydd moesol; ei orchwyl ef ydyw cael allan bethau a ddylai fod mewn cysylltiad â deddf ac efengyl Duw, a phaham y dylent fod, a phaham nad ydynt yn bod lle y *dylent* fod; a phaham y maent yn bodoli mewn amgylchiadau neillduol. Darganfyddwr yw y duwinydd goleuedig. Nid dychymygu cyfundrefn dduwinyddol y mae, ond chwilio allan beth a ddywed yr Arglwydd ar bob mater, ac ymostwng fel plentyn bach i dystiolaeth Duw. Gweithydd heb ei fath yw yr Arglwydd, a bydd ei weithredoedd ef yn fwngloddiau dihysbydd yn cael eu chwilio allan yn dragywydd gan ddynion ac angylion gyda hyfrydwch annhraethadwy. Y pethau mwyaf a wnaeth dynion erioed, gan Dduw y cawsant y cynlluniau a'r doethineb i'w gweithio allan. Mae Arch Noah, y Tabernacl yn yr anialwch, a'r deml yn Jerusalem yn engreifftiau teg o hyn. Efe sydd yn dysgu amaethwr i drin y ddaear, a'r celfyddydwr i wneud ei waith. Nid oes dim daioni naturiol na moesol drwy y nef na'r ddaear nad Duw yw yr achos gwreiddiol o hono, pwy bynag fyddo yr offerynau i'w ddwyn i ben. Gwir a ddywedodd Hannah, "Nid dim (da wrth gwrs) hebot ti."

Gan y daw gwaith Duw mewn cysylltiad â llywodraeth foesol, dwyfol Ragluniaeth, a threfn iachawdwriaeth dan ein sylw wrth ymdrin â materion eraill perthynol i'r gyfundraeth dduwinyddol a ddysgir i ni yn y Beibl, ni ymhelaethwn heddyw, gan gadw mewn golwg y gwirionedd disigl—Beth bynag a wna Duw mewn amser, yr oedd yn bwriadu gwneud hyny erioed.

**Aberteifi, Gorphenaf 29ain, 1873.**

# PERTHYNAS YR ARGLWYDD A'I WEITHREDOEDD.

*Darlith XIV.*

Y MATER fu dan ein sylw ddiweddaf oedd perthynas gweithredoedd yr Arglwydd â'u gilydd. Dangoswyd eu bod, i raddau helaeth, yn dwyn yr un delweddau; bod yr un ddoethineb, yr un gallu, yr un daioni, yr un benarglwyddiaeth ynddynt oll, a'u bod, oll gyda eu gilydd, yn mhob dosbarth o honynt, yn amlygu gogoniant Duw i'w greaduriaid rhesymol. O ganlyniad, fod eu cynlluniau wedi eu tynu gan yr un meddwl, a'u bod wedi eu dwyn i ben gan yr un llaw gadarn, i ateb yr un dybenion gogoneddus; eu bod i gyd dan yr un lywodraeth gref a manwl, a chyda'u gilydd yn profi fod *un* Duw—mai un Duw sydd, ac nad oes arall ond efe; a phe byddai un arall, na byddai hwnw yn werth dim i neb, gan na byddai ganddo ddim byd i'w wneuthur, am fod y Duw a amlygir yn y Beibl yn gwneuthur pob peth ei hunan yn mhob dosbarth o ymerodraeth fawr y nefoedd. Heddyw ni a wnawn ychydig iawn o sylwadau ar berthynas yr Arglwydd â'i weithredoedd.

I. Efe yw Creawdwr pob peth. Efe ei hunan, heb gynorthwy neb arall; oblegid nid oedd neb gynt yn bodoli ond efe. "Dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch pwy a greodd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi, gan amlder ei rym ef, a'i gadarn allu, ni phalla un." "Efe a wnaeth y nefoedd, a'r ddaear, y môr, a'r hyn oll sydd ynddynt." Gwaith ei fysedd ef yw y nefoedd serenog fawr, ac efe a wnaeth y ddaear, ac a'i crogodd ar ddiddim, gan daenu y gogledd ar y gwagle; ac efe a'i llanwodd hi â'i gyfoeth, ac a'i rhoddes hi felly yn llawn o drysorau i feibion dynion. "Y môr sydd eiddo, ac efe a'i gwnaeth; a'i ddwylaw a luniasant y sychdir." Fe wnaeth efe y defnyddiau gwreiddiol o *ddim*, fe'u ffurfiodd yn ol ei ewyllys ei hunan, ac a wnaeth yr holl greaduriaid yn eu holl amrywiaeth allan o'r defnyddiau a wnaethai efe o'r blaen, o ddim; felly, nid oes ond un fodrwy rhwng pob creadur a diddymdra; ac nid yw dyn, fel y sylwai y diweddar David Williams, Troedrhiwdalar, "ond mab daear, ac *ŵyr dim.*"

II. Y mae cysylltiad arall rhwng y Goruchaf â'i weithredoedd: Y mae efe yn cynal pob peth a wnaeth â gair ei nerth. Efe sydd yn bywhau ac yn nerthu pob dim. Mae pob peth a ddechreuodd fodoli yn agored i beidio a bodoli bob moment, oddieithr iddo gael ei gynal mewn bodolaeth. Nid yn unig y mae elfenau, a bydoedd, a phethau difywyd yn agored i syrthio i'w diddymdra dechreuol yn ol, oni chynelir hwynt gan yr Arglwydd bob moment mewn bod, ond y mae pethau bywydol, yr holl greaduriaid sydd yn yr awyr, yr anifeiliaid a'r bwystfilod sydd ar wyneb y ddaear, a'r bywiolion sydd yn ei llwch, a'r ymlusgiaid dirifedi sydd yn ei moroedd, yn agored i beidio a bodoli, oddieithr iddynt gael eu cynal mewn bodolaeth gan yr hwn a'u gwnaeth; a dywedaf ychwaneg, heb ddim petrusder, mae eneidiau dynion, mae angylion y nefoedd, mae cythreuliaid uffern, oll yn

rhwym o syrthio yn ol i'w diddymdra dechreuol, oni chynal Duw hwynt mewn bodolaeth. Mae enaid dyn, mae angel, ac y mae cythraul yn anfarwol, ond nid yn eu natur hwy eu hunain y mae eu hanfarwoldeb, ond yn mhenderfyniad y Duwdod i gyfranu bywyd iddynt yn dragywydd. Duw ei hunan yn "unig sydd ganddo anfarwoldeb." Nid oes neb arall a all "godi ei law i'r nefoedd, a thyngu y bydd efe byw yn dragywydd." Mae bodolaeth pob creadur yn ymddibynu ar ei ewyllys a'i benderfyniad ef i'w gynal mewn bod. Pe byddai iddo ef dynu ei law gynaliol yn ol, fe ddiflanai yr holl greadigaeth allan o fodolaeth, y greadigaeth faterol a'r greadigaeth ysbrydol hefyd, mewn amrantiad; ac ni byddai neb ond Duw yn bodoli, megys yr ydoedd cyn crëu y pethau sydd. Gan hyny, mae yr un gallu yn angenrheidiol i gynal y pethau a grëwyd mewn bod ag oedd i'w dwyn i fod yn y dechreuad. Mae dylanwad mawr y Crëwr, yn ei holl amrywiaeth, yn ol amrywiaeth rhyfeddol natur ei greaduriaid, yn cael ei ddefnyddio ganddo ef bob eiliad i gynal y pethau a wnaeth. Mae efe yn gweithio yn barhaus a diorphwys ar holl fodolion y greadigaeth fawr er ei dal i fyny, "ond ni flina ac ni ddiffygia Duw tragwyddoldeb." Gallwn ninau ddywedyd ar ol yr Apostol Paul, "Ei fod ef yn rhoddi i bawb," ac i ninau yn eu plith—YN RHODDI bywyd ac anadl a phob peth oll. Mae rhywun yma, bellach, yn barod i ddweyd mai creaduriaid gwaelion iawn, ynddynt eu hunain, yw yr holl fodau a greodd y Goruchaf; ïe, y rhai godidocaf o honynt oll. Diau fod y syniad yn gywir. Cwbl wagedd ydynt ar y goreu. Os bydd rhywun yn rhyfeddu na fuasai Duw yn gwneud pethau yn fwy annibynol na hynyna, a'u digonedd ynddynt eu hunain, ac yn hunangynaliol, yn lle eu bod i gyd yn hongian wrtho ef, yr ateb yw, y buasai efe yn gorfod gwneud creaduriaid yn hanfodol ymddibynol a chyfartal iddo ei hun, yr hyn sydd yn wrthddywediadol ac afresymol i'r eithaf. Yr unig dir y gall creadur fodoli arno o gwbl ydyw tir perffaith ymddibyniaeth ar Dduw am ei fodolaeth a'i holl ddedwyddwch. Y mae creadur a chreadigaeth annibynol, yn ol natur pethau, sef natur y *creadur*, a natur y *Creawdwr*, yn hollol analluadwy. Gall ystyriaeth briodol o hyn fod yn foddion i'n tywys ni i well adnabyddiaeth o honom ein hunain ar un llaw, ac i well adnabyddiaeth hefyd o'r Duwdod ar y llaw arall.

III. Mae cysylltiad arall rhwng yr Arglwydd â'i weithredoedd: Efe yw perchenog, neu feddianydd pob peth. Gan mai efe a wnaeth bob peth, ac mai efe sydd yn cynal pob peth, mae yn canlyn yn naturiol mai efe yw perchenog pob peth. Mae perchenogion etifeddiaethau mawrion i'w cael ar y ddaear; ond ni wnaethant droedfedd erioed o'r etifeddiaethau hyny. Nid oeddynt yn eu meddiant ychwaith hyd yn ddiweddar iawn, a byddant wedi myned o'u gafael cyn bo hir. *Leaseholders* ydynt ar y goreu. Mae dynion hefyd yn berchenogion tai, a llongau, a nwyddau; ond gan yr Arglwydd y cawsant y defnyddiau i'w gwneuthur, a'r arian a'r aur i dalu am

danynt. Ond y mae Duw yn feddianydd mewn ystyr ddyfnach na hynyna. "Efe a'n gwnaeth ni." "Ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa." "Eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyflawnder; y byd, ac a breswylia ynddo. Canys efe a'i seiliodd ar y moroedd, ac a'i sicrhaodd ar yr afonydd." "Y byd a'i gyflawnder sydd eiddof fi, holl fwystfilod y coed ydynt eiddof fi, a'r anifeiliaid ar fil o fynyddoedd. Adwaen holl adar y mynyddoedd, a gwyllt anifeiliaid y maes ydynt eiddof fi." Ond y gair hynotaf ar y mater yw hwn a ddywedir gan Melchisedec, brenin Salem, a chan Abraham hefyd, pan y galwant yr Arglwydd, "Y Duw Goruchaf, meddianydd nefoedd a daear," hyny ydyw, meddianydd pob peth sydd yn bosibl.

IV. Dyma eto gysylltiad arall rhwng yr Arglwydd a'i weithredoedd: Mae efe yn Llywodraethwr pob peth. Gan mai efe a wnaeth bob peth, ac mai efe sydd yn cynal pob peth, ac mai efe yw perchenog pob peth, mae yn naturiol iddo fod yn Llywodraethwr pob peth. Mynai gwŷr llys brenin yn Lloegr, gynt, ei ddarbwyllo ei fod yn arglwydd ar dònau y môr yn gystal ag ar y tir sych. Gwyddai y brenin yn dda mai gweniaith oedd y cyfan oll; ond gan y mynent hwy ei berswadio felly, gorchymynodd iddynt osod ei gadair ef ar draeth y môr pan oedd y llanw allan, a dywedai yntau yn awdurdodol wrth y llifeiriant am sefyll draw, gan ysgwyd ei deyrnwialen yn wyneb yr eigion mawr; ond dyfod yn mlaen yr oedd y tònau, ac oni buasai iddynt gilio, ei lyswyr ac yntau, buasent oll wedi eu gorchuddio gan y tònau, fel Pharaoh yn y Môr Coch. Ond y mae Duw yn llywodraethu ymchwydd y môr pan ruo ei dònau, ac yr oedd Duw yn y cnawd yn tawelu y gwynt a'r môr â gair o'i enau, ac yn cerdded ar ei dònau, fel pe buasai y môr yn balmant o farmor. "Y môr sydd eiddo, ac efe a'i gwnaeth." Buasai yn ddifyr gweled y diweddar Victor Emanuel yn ysgwyd ei deyrnwialen ar Vesuvius neu Etna, ac yn gorchymyn iddynt ymlonyddu, a pheidio a mygu, a thywallt eu hylifedd allan; ond y mae y mynyddoedd yn toddi dan droed y Goruchaf. Nid oes gan y llyngesydd cadarnaf ddim i'w wneud ond ymollwng o flaen y corwynt cryf; ond y mae Duw yn gwneud y cymylau yn gerbyd iddo, ac yn rhodio ar adenydd y gwynt. "Tân a chenllysg, eira a tharth, a gwynt ystormus, ydynt yn gwneuthur ei air ef." "Mae ei frenhiniaeth ef yn llywodraethu ar bob peth." Ei weision ef ydyw pob peth, pob elfen, pob byd, pob angel, a phob diafol hefyd. Mae ganddo lywodraeth dros feddyliau dynion ac angylion; ac y mae holl amgylchiadau y byd yn plygu i'w awdurdod ef. Mor ddedwydd i Gristion yw y gair hwnw, "Yr Arglwydd a deyrnasa byth, sef dy Dduw di Seion, dros genedlaeth a chenedlaeth. Molwch yr Arglwydd." Diau hefyd y caiff "pob peth gydweithio er daioni i bawb sydd yn caru Duw, sef i'r rhai sydd wedi eu galw yn ol ei arfaeth ef."

V. Mae yr Arglwydd yn cael hyfrydwch mawr yn ei weithredoedd. Mae yn caru holl waith ei law, o'r archangel hyd y pryfyn distadlaf sydd mewn bod. Dywedodd "mai da iawn oedd yr oll a wnaethai."

"Yr Arglwydd a lawenycha yn ei weithredoedd." Ond o holl weithredoedd Duw, oddiwrth drefn yr iachawdwriaeth y mae efe yn dysgwyl mwyaf; ac y mae pob peth arall i fod yn is-wasanaethgar i hòno. Mae ei gysylltiad ef â'r drefn hòno yn neillduol o agos, o'r cyfamod boreu hyd y gogoneddiad. Dyma ei brif waith ef yn ddiau, ac yn hon y llawenycha yn benaf, ac nid yw eto wedi haner wneud ei gwaith; ond, "pan adeilado yr Arglwydd Seion, y gwelir ef yn ei ogoniant," a dyna y pryd y gwelir Seion yn ei gogoniant hefyd. Amen.

## Y DYN CYNTAF ADDA.

*Darlith XV.*

DYN oedd prif wrthddrych bwriadau a gwaith y Creawdwr yn y byd hwn. Efe oedd y blaenaf mewn golwg, ond yr olaf a ddygwyd i fodolaeth. Yr oedd y byd wedi ei barotoi yn rhagorol i'w dderbyn. Yr oedd awyr wedi ei darparu iddo i'w hanadlu, ymborth i ddiwallu ei anghenion, dwfr glan i dori ei syched, goleuadau y nen i lewyrchu arno, ac ar bob peth o'i amgylch, a gwrthddrychau fyrdd iddo weled gogoniant yr Arglwydd ynddynt a thrwyddynt. Yr oedd pob peth arall wedi eu dwyn i fod o'i flaen ef—holl amrywiaeth bywyd elfenol, bywyd tyfol, a bywyd anifeilaidd, a'r cyfan fel cyfrolau mawrion wedi eu hagor ger ei fron, fel y gallai eu hastudio, a gweled Duw drwyddynt.

Nid ydym yn gwybod beth yw cynllun Duw i boblogi bydoedd eraill sydd o'n hamgylch, os oes creaduriaid rhesymol ynddynt, fel y mae yn bur debygol fod. Yr ydym yn sicr fod cynllun Duw i boblogi y nefoedd yn dra gwahanol i'w gynllun i boblogi y byd hwn. Nid oes cenedlaethau yn mysg angylion yn y nef, nac yn mysg angylion syrthiedig yn uffern. Creodd Duw hwy yn dyrfaoedd dirifedi yn y dechreuad, a'r *un* rhifedi ydynt eto, oddieithr fod Duw wedi crëu eraill i ychwanegu eu rhifedi ar ol hyny, ac heb hysbysu y ffaith i ni ar y ddaear. Y mae yr ychwanegiad at boblogaeth y nefoedd, ac uffern hefyd, yn cael ei wneud o'r ddaear hon.

Ond byd y cenedlaethau yw y byd hwn. Felly yr ordeiniodd Duw i greaduriaid rhesymol lenwi y ddaear. Mae y naill genedlaeth i darddu o'r llall, yn dô ar ol tô, a chysylltiad perthynasol rhwng holl ddynolryw â'u gilydd, o ddechreu y byd hyd ei ddiwedd. Heblaw hyny, y mae pob cenedlaeth yn dyfod yma yn fabanod dinerth, ac heb wybod dim, ac yn raddol ac arafaidd hefyd yr enilla pob un wasanaeth ei alluoedd corfforol a meddyliol; ac y mae casglu gwybodaeth fuddiol yn orchwyl parhaus i ddynolryw. Ac nid yn unig y mae dynion yn dyfod yma yn genedlaethau, ond y mae pob peth arall yn dyfod i fod yn gyffelyb—yn anifeiliaid a bwystfilod, yn bysg ac adar, ac ymrwyfiaid. Tardda y naill dô o honynt o'r llall, nes y

mae cysylltiad rhwng creaduriaid yr oes hon â'r rhai o'r un rhywogaeth a'u blaenasant yn yr holl oesoedd a fuont yn flaenorol. Felly hefyd y mae gwellt y ddaear, i raddau helaeth, a'r coedwigoedd. Dyna drefn bodolaeth bywyd tyfol, yn gystal a bywyd anifeilaidd. Gallai fod dulliau gwahanol i ddwyn creaduriaid i fod mewn bydoedd eraill, ac y mae hyny yn bur debygol, oblegid gwyddom fod amrywiaeth rhyfeddol yn rhedeg drwy holl waith yr Arglwydd.

Mae agos bawb yn cytuno mai creadur pur ddiweddar ar y ddaear yw dyn. Gallai fod creadigaethau, y naill ar ol y llall, yn y byd hwn, o'r hen amseroedd, o anifeiliaid a bwystfilod, pysgod, adar, ac ymlusgiaid; ond nid oes y tebygrwydd lleiaf fod yr un creadur rhesymol yn eu mysg. Nid rhyw greadur afresymol, wedi ei ddyrchafu drwy ryw ddadblygiadau a gwelliantau i greadur rhesymol chwaith, ydyw dyn; ond creadur hollol newydd o eiddo y Gwneuthurwr mawr, o ran ei ffurf, ei alluoedd, ac amcan ei fodolaeth—creadur y gosodir y personau dwyfol allan fel yn eistedd mewn cynghor gyda golwg ar ei greadigaeth, yr hyn sydd yn gosod allan y bwriedid iddo fod yn meddu urddas uwch, ac amcanion pwysicach a gogoneddusach na'r holl greaduriaid eraill. Mor bell ag y gallwn ni wybod yn awr, y mae dyn yr uwchaf oll o greaduriaid y ddaear hon, a'r isaf, ar amryw ystyron, o greaduriaid rhesymol a chyfrifol y Brenin mawr. Ymddengys i ni yn awr fel rhyw ddolen gydiol rhwng y natur anifeilaidd a'r natur angylaidd. Mae y materol a'r ysbrydol yn cydgyfarfod ynddo.

Yr oedd y greadigaeth yn y byd hwn yn anorphenol nes crëu dyn i fod yn enaid iddi, yn frenin arni, ac yn dafod i drosglwyddo y moliant oddiwrthi i orsedd Duw. Nid oedd yma yr un creadur a allai adnabod Duw o gwbl, na'i fwynhau yn y mesur lleiaf, nes y dygwyd dyn i fod. Yr oedd yma deml, ond nid oedd yr un offeiriad eto yn gweinyddu ynddi; yr oedd yr allor yn barod, ond nid oedd yr un aberthwr yn sefyll wrthi; yr oedd holl natur fel telyn newydd ei thantio, a phob tant yn llawn o'r beroriaeth felusaf, ond nid oedd yr un telynwr i chwareu ei fysedd ar ei thànau, nes y creodd Duw ddyn. Dyn yw campwaith gogoneddus y ddaear hon.

Mae dyn wedi ei lunio, fel y darlunia y Beibl, o bridd y ddaear o ran ei gorff, ac â'r hyn a dyf allan o bridd y ddaear y porthir, y dilledir, ac y clydir ef, i raddau helaeth iawn; ond y mae ardderchawgrwydd rhyfedd yn ei gyfansoddiad corfforol—pob cymal, gwythïen, a rhydweli; yr esgyrn, y gïau, y cylla, y galon, yn enghreifftiau teg o allu a doethineb y Creawdwr. Y golwg, y clyw, yr archwaethiad, yr arogliad, y teimlad, y gallu symudol, ac yn arbenigol y tafod, yn dangos ardderchawgrwydd dyn goruwch pob creadur arall. Mae y llygad a'r tafod yn destynau ardderchog i fyfyrio arnynt, ac yn brofion eglur mai Duw gwybodaeth a doethineb yw ein Duw ni.

Ond gogoniant penaf dyn yw y meddwl anfarwol sydd ynddo, a'r galluoedd cryfion a chynyddol byth a fedd y meddwl hwnw. Y

cymhwysder sydd yn yr enaid i adnabod, gwasanaethu, a mwynhau Duw yn dragywydd. Nid ydym wrth fyfyrio ar ysbryd dyn yn gweled ynddo elfenau dadfeiliad, fel y gwelwn yn mhob peth o'n cylch. Ysbryd pur ydyw; ond er hyny, y mae yn eglur ei fod yntau, fel pob peth creadigol arall, yn ymddibynu am ei fodolaeth ar Dduw. Penderfyniad Duw i'w gynal mewn bod dros byth yw y rheswm mawr am anfarwoldeb ysbryd dyn, ac nid rhywbeth hanfodol yn natur yr ysbryd ei hun. Duw yn unig sydd yn anfarwol, o angenrheidrwydd, amodol yw anfarwoldeb pob peth crëedig.

Myn llawer fod dyn yn gyfansoddedig o gorff, ac enaid, ac ysbryd. Gwyddom fod Plato a'i ddilynwyr yn dal athrawiaeth felly, a bod y tadau Platonaidd, megys Origen, ac eraill, yn yr Eglwys Gyntefig, fel y mae llawer eto, yn dal golygiadau cyffelyb. Seilir y syniad o dair rhan mewn dyn hefyd ar eiriau sydd yn y Beibl, megys geiriau Moses, pan ddywed ddarfod i Dduw lunio Adda o bridd y ddaear, ac iddo anadlu yn ei ffroenau ef anadl einioes, a'r dyn a aeth yn enaid byw; a geiriau Paul pan ddymuna gyflawn santeiddiad y Thessaloniaid, ac y crybwylla am y corff, yr enaid, a'r ysbryd; a'r geiriau sydd yn y bedwaredd benod o'r Epistol at yr Hebreaid, lle y darlunir gair Duw yn llymach nag un cleddyf daufiniog, ac yn cyrhaeddyd trwodd hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd, a'r cymalau a'r mêr. Ond y mae yn eglur mai meddylddrych yr apostol ydyw *cyflawnder*, *yr holl ddyn;* ac yn ol dim a ymddengys, gall ei fod yn defnyddio syniadau poblogaidd yr oes hòno am yr holl ddyn i osod ei feddwl allan, heb fwriadu traethu dim yn athronyddol ar y cyfansoddiad dynol, fel y mae yr ysgrifenwyr santaidd yn defnyddio syniadau poblogaidd seryddwyr a daearyddwyr eu hoes i osod eu syniadau allan, heb fwriadu pleidio yr un gyfundraeth seryddol na daearyddol mwy na'i gilydd. Ac y mae dal fod Moses yn gosod allan athroniaeth y cyfansoddiad dynol yn y geiriau y cyfeiriwyd atynt, gan olygu y corff wrth yr hyn a wnaed o bridd y ddaear, a'r egwyddor o fywyd anifeilaidd wrth anadl yr einioes, a'r ysbryd anfarwol wrth yr enaid byw, dipyn yn ddychymygol, a chroes i arferiad Moses wrth ysgrifenu, a dywedyd y lleiaf. Ni welsom ni neb eto a allai ddywedyd wrthym beth yw yr hyn a olygant wrth yr egwyddor o fywyd anifeilaidd mewn dyn o gwbl, mewn cysylltiad â'r ysbryd anfarwol sydd ynddo. Nid ydym, mewn un modd, yn gwadu bodolaeth y fath egwyddor mewn dyn; ond dywedyd yr ydym fod yn rhaid i ni gael goleuach a chryfach profion o'i bodolaeth, cyn y gallom ni dderbyn yr athrawiaeth fel athroniaeth bur. Hyd nes y caffom y cyfryw brofion, ni a ymfoddlonwn ar eiriau Crist, fel yn gosod allan yr holl ddyn, pan ddywed am ddinystr enaid a chorff yn uffern, a geiriau eraill sydd yn y Beibl yn darlunio marwolaeth fel ymadawiad yr enaid: "A bu wrth ymado o'i henaid hi." A phan fu farw yr Arglwydd Iesu dywedir, "Efe a roddes i fyny yr ysbryd." Ond gofalwn ar yr un pryd am gadw ein meddwl yn agored i dderbyn goleuni pellach ar y pwnc, o ba le bynag y delo. Pa fodd bynag, y

mae yn ddigon i ateb ein hamcan presenol i ni gymeryd dyn yn ol y darnodiad cyffredinol o hono, fel yn gynwysedig o feddwl a chorff—un ran yn faterol, a'r llall yn ysbryd pur ac anfarwol.

I'r Beibl yr ydym ni yn ddyledus am bob syniad cywir sydd genym am gyflwr gwreiddiol y dyn cyntaf Adda. Dywed y Beibl yn bendant fod y dyn cyntaf wedi ei grëu ar ddelw Duw. Medd y personau dwyfol yn y cynghor a fu ar y mater, "Gwnawn ddyn ar ein delw ni, wrth ein llun ein hunain; ac arglwyddiaethant ar bysg y môr, ac ar ehediad y nefoedd, ac ar yr anifail, ac ar yr holl ddaear, ac ar bob ymlusgiad a ymlusgo ar y ddaear." Felly Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y creodd efe ef; yn wryw ac yn fenyw y creodd efe hwynt," Gen. i. 26, 27. Mae y geiriau *delw Duw* yn cael eu mynychu i osod allan sicrwydd a phwysigrwydd y mater. Ond pa beth yn benaf ydym i ddeall wrth *ddelw Duw* yn y geiriau hyn a'u cyffelyb, yn y gyfrol santaidd? Golyga rhai mai yr oll a feddylir ydyw y galluoedd meddyliol â pha rai y cynysgaeddwyd dyn gan y Crëwr, fel y mae yn gymhwys i gymdeithasu â'r Brenin mawr, i amgyffred ei feddwl, ac i gydymffurfio â'i ewyllys ddatguddiedig, ac i'w fwynhau fel ffynon ei fywyd a'i ddedwyddwch. Mae eraill yn barod i ychwanegu at y meddylddrych yna, y syniad o *lywodraeth* ac awdurdod dros greaduriaid israddol iddo ei hun; ac felly ei fod yn berchen rheswm a llywodraeth, fel y medd yr Arglwydd ei hun, ond fod yr eiddo dyn yn israddol i eiddo y Creawdwr. Cytunir yn bur gyffredin mai *rhyw beth* neu bethau yn meddwl Adda, ac nid yn ei gorff, oedd delw Duw, ar ba un y crëwyd ef. Nid ydym wedi darllen ond un awdwr, a hwnw yn Gymro, ond ei fod wedi ei ysgrifenu yn yr iaith Seisonig, a olygai fod dyn o ran ei gorff ar ddelw Duw; ond y mae golygiadau hwnw am Dduw mor wylltion ac afresymol, fel y mae rheswm a gweddusder yn peri i'r darllenydd eu gwrthod ar unwaith gyda syndod a dychryn. Dyn mawr ac anfeidrol ydyw Duw yn ol ei syniad gorwyllt ef! Ond dywed yr Hwn oedd yn adnabod y Goruchaf yn berffaith, mai "Ysbryd yw Duw."

Nid ydym yn amheu nad oedd Adda yn dwyn ynddo debygolrwydd gwan i Dduw, fel yr oedd yn berchen rheswm, serchiadau, ac ewyllys, ac fel yr oedd yn llywydd ar yr holl greaduriaid a ddygasai Duw i fodolaeth ar y ddaear hon; ond y mae yn eglur i ni mai nid yn hyny yr oedd y ddelw ddwyfol yn ei enaid ef yn gynwysedig yn *benaf*, ond yn uniondeb a santeiddrwydd gwreiddiol ei feddwl goleu a digwmwl. Fe'i crëwyd ef yn ddyn oedd yn meddu syniadau cywir a digyfeiliorn yn ei ddeall, ac uniondeb a phurdeb difrycheulyd yn ei galon. Felly y daeth o law Duw, yn dwyn delw foesol ei Greawdwr yn y pethau sydd yn hynodi y Goruchaf o ran ei natur ac fel gweithredydd moesol pur a chyfiawn. Diau nas gallasai dyn ddwyn delw foesol Duw ond ar raddfa fechan, am mai creadur bychan yw, a llai na dim mewn cymhariaeth i'r Duwdod; er hyny, gallai ddwyn tebygrwydd moesol i Dduw yn ol maintioli ei alluoedd.

Dywed Moses i Adda, wedi ei gwymp, "genedlu mab ar ei lun a'i ddelw ei hun," mewn gwrthdarawiad i ddelw Duw, ar yr hon y creasid ef. Yn awr, nid oes yr un lle i amheu nad oedd Seth yn meddu cystal galluoedd eneidiol a'i dad, ac nad oedd yn feistr ar y creaduriaid oedd o'i amgylch; ac ni chollasai Adda chwaith nerth ei gyneddfau, na'i lywodraeth dros y creaduriaid afresymol drwy droseddu, o leiaf, ond i raddau bychain iawn; ac fe'i hadferwyd iddo yn ol dan y cyfansoddiad cyfryngol drachefn, fel y mae dyn yn frenin eto ar holl naturiaeth o'i amgylch. Pan ddywedir fod Adda wedi cenedlu Seth ar ei ddelw ei hun, y meddwl yw, ei fod yn gyfranog o ddelw lygredig ei dad Adda, a bod y ddau yn amddifad o ddelw Duw.

Mewn perthynas i ddelw Duw ar y dyn cyntaf Adda, ni allwn wneud dim yn well na derbyn yn galonog esboniad yr apostol Paul ar y gair, yn ei waith yn darlunio adferiad y ddelw hòno ar y duwiolion. Mae delw Duw ar enaid dyn yn gynwysedig mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a gwir santeiddrwydd. Yr oedd y pethau hyn yn berffaith yn y dyn cyntaf fel y daeth o law Duw.

Yr oedd yn meddu gwybodaeth gywir. Ni olygir wrth ddywedyd hyny ei fod yn gwybod llawer o bethau a wyddys yn awr. Ni feddylir ei fod yn dduwinydd fel Paul, neu Jonathan Edwards, neu yn seryddwr fel Newton, neu yn ddaearegwr fel Miller a Hitchcock, a gwŷr mawr yr oes hon; ond cynysgaeddwyd ef â phob gwybodaeth oedd yn angenrheidiol iddo mewn trefn i wasanaethu Duw a'i fwynhau. Yr oedd ei wybodaeth yn berffaith gywir, mor bell ag y cyrhaeddai. Goleuodd Duw ef â gwybodaeth i lenwi ei holl gylchoedd yn hollol berffaith a difwlch. Gall plentyn yn awr wneud y tro am dymor heb wybodaeth, oblegid fod gan ei rieni a'i warcheidwaid wybodaeth; ond dyn fel Adda, yn ei gyflawn faintioli, ac yn gallu symud o fan i fan, yn ei gyflawn nerth, buasai yn beryglus iddo ei hun pe na fuasai yn meddu gwybodaeth gywir am lawer o bethau a berthynent i'w sefyllfa. Yr oedd ei berthynas â Duw yn galw am iddo feddu gwybodaeth fanwl am lwybr ei ddyledswydd. Buasai yn anghymwys i fwynhau ei sefyllfa anrhydeddus heb raddau o wybodaeth am ddeddfau a gwrthddrychau naturiol oedd o'i gylch. Wrth ddywedyd hyn, ni olygir ei fod yn meddu y wybodaeth hon yn annibynol ar sylw a myfyrdod; ond y peth a olygir yw, fod Ysbryd Duw, fel ysbryd gwybodaeth a doethineb, yn ei arwain yn anffaeledig i dynu casgliadau cywir a digyfeiliorn am bob peth.

Yr oedd uniondeb, neu gyfiawnder, yn elfen yn ei enaid. Carai yr hyn sydd yn ei le mewn meddwl, a gair, a gweithred, a glynai wrtho yn gadarn. Yr oedd ei chwaeth yn bur, ei deimladau yn santaidd, a phob ysgogiad meddyliol o'i eiddo yn berffaith lan. Pelydrai allan o'i enaid ddelw Duw, fel y mae y llyn llonydd ar ddydd teg a thawel yn pelydru yr haul allan o'i fynwes. Yr oedd yn llawn o *wir* santeiddrwydd. Purdeb difrycheulyd oedd ei hynodrwydd. Wrth ddywedyd hyn, ni olygir ei fod yn ei greadigaeth yn meddwl ac yn teimlo yn briodol, cyn iddo gael cyfle i wybod am

Dduw a'i ddyledswyddau; ond y peth a olygir yw, ei fod yn meddu cymhwysder moesol i feddwl ac i deimlo yn gywir yn wyneb pob datguddiad a gaffai oddiwrth yr Arglwydd, a hyny drwy undeb yr Ysbryd Glan â'i ysbryd ef, fel ffynon o fywyd ysbrydol o'i fewn. Presenoldeb yr Ysbryd Glan yn ei enaid oedd yn ei gymhwyso i deimlo a gweithredu yn briodol fel deiliad deddf, a datguddiadau dwyfol o ewyllys yr Arglwydd iddo. Yr oedd ei alluoedd ef ar gyflawn waith, a'r Ysbryd Glan o'i anfeidrol ras yn sicrhau iawn syniad, iawn deimlad, ac iawn weithrediad yn holl alluoedd ei enaid. Peth fel yna a olygwn wrth gyfiawnder a phurdeb gwreiddiol y dyn cyntaf; a Duw, yr hwn a'i creodd, oedd ffynon y bywyd ysbrydol a feddianai. Gallai nad oes yr un gair gwell i osod allan y peth a ysgogai holl alluoedd Adda at yr hyn oedd ddoeth, cyfiawn, a santaidd, na'r gair *bywyd ysbrydol*, a bod ei holl ymarweddiad tra y safodd ei dir yn tarddu allan o'r bywyd ysbrydol hwnw, ac yn llawn o fywyd, fel yr achos a'i cynyrchai.

Ymddengys fod Adda wedi ei ffurfio, o ran ei gorff, o'r tir cyffredin y tu allan i derfynau gardd Eden; oblegid pan drowyd ef allan o'r ardd, dywedir i Dduw ei yru allan o Eden i lafurio y ddaear o'r hon y cymerasid ef. Nid ydym ni yn rhoddi pwys mawr ar y ffaith hon yn ei chysylltiad â sefyllfa dyn cyn y cwymp, fel y gwna rhai. Er hyny, gallai fod gwaith Duw yn planu yr ardd yn Eden, ac yn arwain y dyn a luniasai ef iddi i lafurio yr ardd, ac i'w chadw hi, yn awgrymu fod Adda yn yr ardd i fod mewn cysylltiad newydd â'i Greawdwr ac â'i hiliogaeth. Mae yn ymddangos fod gardd Eden wedi ei phlanu gan yr Arglwydd, ac Adda wedi ei ddwyn iddi, a'i fod wedi dangos eangder ei wybodaeth a'i amgyffredion yn enwi y creaduriaid cyn i Efa gael ei chrëu. Yr un modd pan ddygwyd Efa ato, efe a ddangosodd ei amgyffredion cywir am dani, a dywedodd, "Hon weithian sydd asgwrn o'm hasgwrn i, a chnawd o'm cnawd i; hon a elwir gwraig, oblegid o wr y cymerwyd hi."

Nid oes dim yn fwy eglur na bod dyn yn gyfrifol i Dduw am ei weithredoedd, ei eiriau, ei feddyliau, a'i holl amcanion. Mae y cyfrifoldeb hwn yn seiliedig ar berthynas dyn â Duw, fel ei greadur sydd yn hollol ymddibynol arno, y galluoedd a feddiana, y moddion moesol a fwynha, a'r rhyddid cyflawn sydd ganddo i wneuthur fel yr ewyllysio, fel creadur rhesymol a chyfrifol i orsedd ei gyfiawn Lywydd. Ni all Duw adael creadur rhesymol heb lywodraeth dros ei ymddygiadau, ac y mae y creadur yn rhwym o ufuddhau i holl ewyllys Duw. Mae rhwymau o bob tu yn y mater hwn. Rhwymau i lywodraethu o du y Creawdwr, a rhwymau i ufuddhau o du y creadur; ac fe barha y rhwymau tra bo y creadur mewn bodolaeth. Nis gellir, yn ol natur pethau, ddatod y rhwymau hyn, oddieithr i'r Llywydd mawr adael i'r creadur syrthio yn ol i'w ddifodaeth gyntefig. Gan hyny, yr oedd Adda dan ddeddf i Dduw mor fuan ag y daeth yn rhyddweithredydd moesol. Ond gellir gofyn, Pa le yr oedd y ddeddf foesol oedd i fod yn rheol ei holl ymddygiadau y pryd hyny?

A gellir ateb, yr oedd yn ysgrifenedig ar ei galon, ac wedi ei datguddio iddo o ran ei chynwysiad gan yr Arglwydd. Nid oes dim yn fwy rhesymol na golygu y rhoddai Duw ddatguddiad mewn geiriau i'r dyn a greasai efe ar ei ddelw ei hun; ac nid oes dim yn fwy ysgrythyrol na golygu y gwnai efe i'r dyn cyntaf yr hyn a wna efe i ddyn a adnewyddir i wisgo ei ddelw ef trwy ras, sef y dodai efe y gyfraith hòno yn ei feddwl, ac yr ysgrifenai efe hi yn ei galon, i fod yn egwyddor santaidd o'i fewn. Ond wrth ddywedyd hyn, ni olygwn fod y gyfraith yn nghalon dyn, fel y mae greddf yn natur anifail; ond y peth a olygir yw, ei bod yn ei gof o ran ei gwahanol ranau a'i chynwysiad; ei bod yn ei ddeall o ran amgyffrediad cywir a goleu o honi; ei bod yn ei serchiadau o ran cariad ati, ac ymhyfrydiad ynddi; ei bod yn ei gydwybod o ran gofal am beidio ei throseddu; a'i bod yn ei ewyllys mewn ysgogiad santaidd i roddi ufudd-dod iddi. Felly yr oedd wedi ei hysgrifenu ar galon y dyn cyntaf, a rhywbeth felly hefyd yw yr argraffiad o honi a wneir ar galon pechadur, pan ddygir ef drwy greadigaeth newydd i wisgo delw Duw, ac i ymhyfrydu mewn parchu a chadw cyfraith yr Arglwydd. Yr oedd dyn yn wreiddiol dan y ddeddf i Dduw. Yr oedd y ddeddf hòno yn hysbys iddo. Ac yr oedd yn ymhyfrydu mewn rhoddi ufudd-dod iddi yn mhob peth.

Nid oedd Adda eto yn dal unrhyw berthynas â'i had, ond perthynas naturiol, fel yr oedd yr holl hiliogaeth, yn ol trefn y Brenin mawr, i ddisgyn o hono ef fel eu cyff a'u gwreiddyn. Mae gofyniad fel y canlyn yn cael ei roddi yn fynych gyda golwg ar y mater hwn, sef, Beth fuasai y canlyniad i had Adda pe troseddasai efe yn erbyn rhyw un o orchymynion cyfraith Duw, cyn i'r Arglwydd ei osod yn gynrychiolwr i'w had? oblegid mae addewid am had, a modd i'w cynal hefyd, yn gynwysedig mewn geiriau a lefarodd Duw wrth Adda cyn iddo ei osod yn bencyfamodwr. Gwelir fod y geiriau canlynol yn cynwys hyny: "Ffrwythwch ac amlhewch, a llenwch y ddaear, a darostyngwch hi. A Duw a ddywedodd, Wele, rhoddais i chwi bob llysieuyn yn hadu had, yr hwn sydd ar wyneb yr holl ddaear, a phob pren yr hwn y mae ynddo ffrwyth pren yn hadu had i fod yn fwyd i chwi," Gen. i. 28. Yn ol dim a ymddengys, yr oedd y pethau hyn wedi eu rhoddi i Adda, ac i'w had, yn annibynol ar y cyfamod a wnaed âg Adda wedi hyny.

Yn awr, mae yn ymddangos, pe troseddasai Adda yn erbyn y ddeddf foesol cyn iddo gael ei osod yn bencyfamodwr i'w had, mai *arno ef ei hun* y disgynasai cosb y trosedd, na fuasai trosedd felly yn rhwymo y llywodraethwr i dori Adda i lawr y dydd y troseddai, er y daethai dan ddedfryd marwolaeth oblegid ei fai y foment y troseddasai. Ni ddylid anghofio yma, fod Adda yr ail wedi ei ordeinio yn Gyfryngwr cyn crëu yr Adda cyntaf. Nid ymddengys y buasai trosedd felly yn rhwystro yr hiliogaeth i ddyfod i fodolaeth. Yr oeddynt hwy i ddyfod i fodolaeth yn yr iawn bryd, pa fodd bynag yr ymddygai Adda. Y cwbl a welwn ni fel canlyniad i'r fath

drosedd, yn debyg o effeithio ar yr had, fuasai esiampl ddrwg eu tad yn tueddu i'w llygru hwythau; ac os buasai *rhai* o honynt yn dilyn yr esiampl ddrwg hòno, disgynasent dan ddedfryd gollfarnol fel eu tad Adda.

Yr ydym yn awr yn ymresymu ar y dybiaeth fod Adda yn sefyll mewn cysylltiad tadol yn unig â'i hiliogaeth fel deiliaid deddf foesol, ac heb fod yn gynrychiolwr iddynt. Ond cawn ddangos eto ei fod ef, yn ngoruchwyliaeth Eden, yn cynrychioli ei holl had, ac mai yn y sefyllfa hòno yr effeithiodd ei ymddygiadau ef ar ei holl hiliogaeth. Y mae lle cryf i gredu fod dwyfol ras yn sicrhau uniondeb ymddygiad Adda, fel deiliad y ddeddf foesol yn *unig*, yn mhob peth ond yn mhwnc y ffrwyth gwaharddedig. *Yno* yr oedd efe yn neillduol ar ei brawf, ac yn y mater hwnw y gadawodd Duw ef i ddangos i'r greadigaeth beth yw y creadur ardderchocaf ynddo ei hun, a phan beidio ag ymddibynu ar Dduw, a glynu wrth ei orchymynion. Gosododd yr Arglwydd y dyn cyntaf, nid yn unig dan y ddeddf foesol fel person unigol, ond yn gynrychiolwr ei had yn nghyfamod Eden, fel yr oedd ei ymddygiadau ef yn y sefyllfa hòno yn cyrhaeddyd yn mhellach nag ef ei hun, ac yn effeithio ar ei holl had, yn gystal ag arno ef ei hun. Mae y cyfamod hwnw yn gyffredin yn cael ei alw y cyfamod gweithredoedd. Ond nid ydym ni yn gweled rhyw briodoldeb neillduol yn y darnodiad—ymddengys ei fod yn sefydliad grasol iawn, ar amryw o ystyriaethau. Mae cyfiawnder ynddo, ond mae ynddo hefyd foroedd o ras.

1. Ymddengys hyny pan ystyriom fod bendithion gwerthfawr yn gynwysedig ynddo, bendithion i holl hiliogaeth Adda trwy yr oesoedd, a bendithion yn tarddu o benarglwyddiaethol ras Duw, a bendithion nad oedd gan Adda ei hun, na neb o'i hiliogaeth, un math o hawl iddynt fel deiliaid llywodraeth foesol, a chreaduriaid cyfrifol i Dduw.

2. Yr oedd yn beth grasol iawn yn Nuw osod tad yr holl hil i'w cynrychioli. Gofalu yr oedd efe felly am ddedwyddwch ei blant ei hun. Yr oeddynt oll wedi eu cysylltu âg ef fel un corff; ac nid oes dim yn fwy naturiol nag i dad geisio sicrhau dedwyddwch ei hiliogaeth. Gwelsom dadau a mamau plant yn ymfudo i eithafoedd y ddaear er mwyn sicrhau cysuron eu hiliogaeth, a hyny hefyd wedi iddynt gyrhaeddyd gwth o oedran. Ni ddylid anghofio yma mai i ofalu am ei had ei hun y gosodwyd Adda yn gynrychiolwr.

3. Cafodd dynolryw, nid yn unig eu tad naturiol i sefyll drostynt, ond yr oedd hwnw yn ei gyflawn synwyr, ac yn ddyn perffaith, cyfiawn, a santaidd. Yr oedd yn llawer tebycach, a llefaru yn ddynol, y byddai iddo ef ofalu am eu rhagorfreintiau, nag y byddai iddynt hwy wneud hyny, bob un yn bersonol drosto ei hunan, fel yr ymddangosent yn eu tro ar chwareufwrdd y ddaear hon.

4. Yr oedd y telerau a osodwyd i lawr yn y cyfamod yn rhai esmwyth dros ben. Nid oedd un weithred allanol, dim ond rhai meddyliol, sef parch i'r gorchymynwr, a chariad at gyfraith y cyfamod,

yn angenrheidiol i sicrhau cyfoeth diderfyn iddo ef ei hunan a'i holl had. *Peidio* bwyta o ffrwyth pren neillduol oedd yr oll a geisid. Nid rhyw waith caled a geisid gan Adda, dim ond *peidio* bwyta o ffrwyth un pren yn yr ardd. Peidio cyffwrdd âg ef—peidio, bod yn *llonydd*, dyna y cwbl. Ni fu erioed delerau esmwythach, na hawddach eu cyflawni. Nid oedd yn bosibl i unrhyw beth fod yn ysgafnach.

5. Yr oedd gan Adda bob cyflawnder o bob peth tuag at wneud ei hunan ac Efa yn gysurus, heb gyffwrdd â ffrwyth gwaharddedig pren gwybodaeth da a drwg. Yr oedd ei holl anghenion wedi cael darparu ar eu cyfer ar dir hollol gyfreithlon; ac uwchlaw y cwbl, yr oedd yr Arglwydd wedi hysbysu iddo yn eglur beth fyddai y canlyniad o dori y cyfamod iddo ef, ac i'w hiliogaeth, fel nad oedd dim yn guddiedig rhagddo ar y pen hwnw. "Gan farw ti a fyddi farw," os troseddi, oedd bygythiad Duw.

6. Os deuai ymosodiad arno, os cylchynid ef gan demtasiwn, ac os teimlai ei fod yn wan yn ei hwyneb, yr oedd anfeidrol ras ei Dad nefol wrth law i'w helpu i ddyfod yn ddiogel drwy y brofedigaeth. Pe buasai efe yn gwaeddi am gynorthwy, yn apelio at dynerwch a thosturi ei Dad nefol i roddi iddo fwy o nerth i orchfygu, a gras mwy nag arferol yn wyneb profedigaeth anarferol, fe gawsai ei wrando yn y fan. Paham, tybed, na fuasai efe yn gwaeddi am help? Paham na ddywedasai wrth Dduw, "O Arglwydd, dyma rywbeth newydd a dyeithr iawn, trugarha wrthyf, a dwg fi drwy y brofedigaeth fawr hon." Fe gawsai fwy na deuddeg lleng o angylion i'w gynorthwyo yn y fan, cawsai afonydd o ras i'w wneud yn fwy na choncwerwr! Yn lle hyny, ymollwng a wnaeth efe dan y brofedigaeth, anghofiodd Dduw, a'r addewid o fywyd ar dir ufudd-dod, a'r bygythiad o farwolaeth ar dir anufudd-dod; anghofiodd ei *hun*, a'i hil, a'r cyfan, a llyncwyd ef i fyny gan orawydd pechadurus i fod megys Duw; ac felly, andwyodd ei hun a'i holl had. Y pwnc nesaf fydd y profion fod Adda yn cynrychioli ei had yn nghyfamod Eden.

## CYNRYCHIOLAETH ADDA.

### *Darlith XVI.*

DYWEDWYD eisoes fod y dyn cyntaf wedi ei lunio o bridd y ddaear o ran ei gorff, a bod ei ysbryd anfarwol yn dwyn delw Duw ynddo; a bod creadigaeth dyn wedi cymeryd lle cyn i'r Arglwydd blanu gardd Eden i'w dderbyn. Yna planodd Duw yr ardd, a gwnaeth hi yn lle ardderchog, a hollol gymhwys i wneud dyn yn ddedwydd a chysurus o'i mewn. Wedi hyny, pan oedd y lle yn hollol barod i'w dderbyn, cymerodd yr Arglwydd y dyn ac a'i gosododd yn yr ardd i'w llafurio ac i'w chadw hi.

Trefn Duw bob amser ydyw darparu pob peth yn mlaen llaw ar gyfer ei greaduriaid i ateb i'r sefyllfa y byddo ei greaduriaid ynddi ar y pryd. Tu allan i Ardd Eden, lle y crëwyd dyn, a phan nad oedd efe yn dal unrhyw berthynas â Duw, ond yr hyn sydd yn naturiol i bob creadur rhesymol fel deiliad deddf foesol; a phan nad oedd unrhyw gysylltiad rhyngddo â'i hiliogaeth, ond yr un naturiol o dad cyffredinol iddynt, yr oedd y lle yr oedd dyn wedi ei grëu ynddo yn hollol addas iddo y pryd hwnw. Ond gan fod yr Arglwydd am ddwyn dyn i berthynas uwch a godidocach âg ef ei hun na'r hon a gynwysir yn y ffaith fod dyn yn dwyn ei ddelw, ac yn ddeiliad y ddeddf foesol, ac yn bwriadu ei ddwyn i berthynas agosach â'i hiliogaeth na'r un dadol yn unig, yr oedd yn angenrheidiol, i ateb amcanion y perthynasau newydd hyn, i le newydd gael ei ddarparu i dderbyn Adda, ac i fod yn gartref dedwydd iddo tra y byddai ei sefyllfa o brawf yn parhau; gan hyny, yn ol arfer y Goruchaf o barotoi pethau yn mlaen llaw, efe a blanodd yr ardd, ac a gymerodd y dyn ac a'i gosododd ynddi; yna fe'i dygodd i'r berthynas newydd âg ef ei hun ac â'i had; mewn gair, aeth i gyfamod âg ef, ac yn y cyfamod hwnw fe osododd y dyn yn gynrychiolwr ei hiliogaeth. Yr oedd hyn oll yn rasol iawn yn Nuw, yn anrhydedd mawr i ddyn, ac yn fanteisiol iawn i'w hiliogaeth pe cadwasai efe y cyfamod. Ac er na wnaeth efe hyny, nid ydym yn meddwl fod sefyllfa ei hil ddim gwaeth yn awr nag y buasai pe buasent hwy oll heb yr un cynrychiolwr, ac yn sefyll drostynt eu hunain ar eu prawf yn unig fel deiliaid deddf foesol y nefoedd.

Wrth ddefnyddio y gair *cyfamodau* am oruchwyliaethau yr Arglwydd tuag at ddynion, nid ydym yn golygu fod y cyfamodau hyny yn cyfateb yn mhob peth i gytundebau cyfamodol a wneir yn mhlith dynion fel cydraddolion mewn llawer o ystyriaethau. Pell ydym oddiwrth feddwl felly. Mae goruchwyliaethau y nefoedd o natur uwch a godidocach na dim sydd yn cymeryd lle rhwng dynion a'u gilydd. Mae dyn yn naturiol, ac, o angenrheidrwydd, dan y ddeddf foesol i Dduw; ond nid yw, o angenrheidrwydd naturiol, dan gyfamodau y nefoedd. Ychwanegiadau grasol at yr oll y mae dyn yn feddianol arno, fel deiliad y ddeddf foesol, yw y cyfamodau hyn. Buasai Adda yn ddeiliad deddf pe nad aethai Duw i gyfamod âg ef. Felly hefyd y buasai Noah a'i had, Abraham a'i hil, Israel fel cenedl, Dafydd a'i deulu, a ninau sydd dan y cyfamod newydd, pe buasai y cyfamod newydd hwnw heb ei ddwyn i mewn erioed.

Amlygiadau, neu gyhoeddiadau, o fwriadau grasol Duw i gyfranu ei *ddoniau* i ddynion, mewn tystiolaethau ac addewidion gwerthfawr, a'r doniau cynygiedig i gael eu derbyn a'u mwynhau gan ddeiliaid y cyfamodau, yn ol y telerau a osodo y Goruchaf i lawr, ydyw cyfamodau y nefoedd. Er enghraifft, mae y cyfamod a wnaeth Duw â Noah yn parhau eto, ac y mae pob cynhauaf a fedir genym yn ffrwyth y cyfamod hwnw; ond ni dderbyn hiliogaeth Noah y bendithion, ond drwy gydymffurfio â'r telerau o lafurio y ddaear, ac

ymdrechu yn egnïol am danynt. Mae gras a dyledswydd yn cydgyfarfod yn y mater.

Mae y cyfamod Abrahamaidd yn ddeublyg yn ei ffurf. Yn un o'r ffurfiau hyny, deil berthynas neillduol â had Abraham yn ol y cnawd; ac yr oedd y bendithion cynwysedig ynddo i'w cael gan y cyfryw drwy ffydd ac ufudd-dod; ac yr oedd arwydd yr enwaediad yn un o'r telerau ar ba rai yr oedd had naturiol Abraham i dderbyn y bendithion. Ond yr oedd i'r cyfamod Abrahamaidd, fel y dengys Paul yn ei Epistol at y Rhufeiniaid, a'r un at y Galatiaid, ffurf arall; ac yr oedd Abraham yn cael ei wneuthur, yn ol y ffurf hòno, yn dad cenedloedd lawer, ac yn etifedd y byd; ond yr oedd y telerau o rodio llwybrau ffydd Abraham, ac ufudd-dod i ewyllys Duw, yn gysylltiedig âg ef yn y ffurf eang hòno, er nad oedd yr enwaediad yn ddefod rwymedig ar neb, ond had naturiol y patriarch, a'r rhai oedd mewn cysylltiad teuluol, crefyddol, a gwladwriaethol â'i hiliogaeth ef. Yr oedd yn y cyfamod hwnw felly ras mawr, a manteision gwerthfawr, nid llai nag iachawdwriaeth dragwyddol i ddynion; ond yr oedd yn y cyfamod hefyd delerau, y rhai yr oedd yn angenrheidiol cydymffurfio â hwynt mewn trefn i sicrhau meddiant o'i ragorfreintiau a'i fendithion.

Gellir gwneud sylwadau cyffelyb gyda golwg ar y cyfamod Iuddewig, a'r cyfamod presenol hefyd. Yr oedd manteision gwerthfawr yn perthyn i'r Hen Gyfamod; ond y ffordd yr oedd yr Iuddewon i'w mwynhau oedd, trwy ufudd-dod i ewyllys yr Arglwydd, a chadw ei orchymynion ef. Y mae bendithion annhraethol eu gwerth yn cael eu cynyg i'r byd yn y Cyfamod Newydd; ond rhaid i ddeiliaid y cyfamod, mewn trefn i'w meddianu, feddu ffydd yn Nghrist, a phrofi eu ffydd trwy ufudd-dod i'r efengyl.

Pur debyg o ran ei natur ydyw cyfamod Eden. Yn hwnw mae y bendithion gwerthfawr o fywyd ysbrydol, bywyd naturiol, a bywyd tragwyddol, yn cael eu haddaw i Adda a'i hiliogaeth ar y telerau esmwyth o ffydd yn Nuw, ac ufudd-dod mewn *un peth*, sef ymatal rhag bwyta o ffrwyth un o brenau yr ardd. Yr oedd yma ras mawr o du yr Arglwydd mewn cysylltiad â dyledswydd o du Adda i gydymffurfio â'r telerau a osododd yr Arglwydd ger ei fron. Mor bell a hynyna, y mae goruchwyliaeth Eden yn debyg i holl oruchwyliaethau eraill y nefoedd tuag at blant dynion. Gallesid nodi tebygrwydd mewn pethau eraill hefyd. Ond y cyfamod yr oedd un Eden debycaf iddo yw y cyfamod a wnaeth Duw â'i Fab, yr Arglwydd Iesu. Yr oedd Adda yn "ffurf yr un oedd ar ddyfod," yr Adda diweddaf, yr ail ddyn, yr Arglwydd o'r nef. Yr oeddynt yn annhebyg i'w gilydd mewn amryw bethau; ond â'u tebygolrwydd y mae a fynom ni yn bresenol.

1. Daeth y ddau i'r byd hwn trwy wyrth, uwchlaw holl ddeddfau natur, er fod y gwyrthiau hyny yn wahanol iawn i'w gilydd. Eto, yr oedd genedigaeth Crist o forwyn yn wyrth mor ryfedd ag oedd llunio Adda o bridd y ddaear.

2. Yr oedd y ddau yn dwyn ynddynt ddelw Duw. Crëwyd Adda ar y ddelw hòno. *Y peth santaidd* oedd Iesu Grist yn ei enedigaeth.

3. Yr oedd y ddau dan y ddeddf i Dduw, ac mewn sefyllfa o brawf yn wyneb ewyllys ddatguddiedig yr Arglwydd iddynt.

4. Ymddengys fod y ddau yn rhyddweithredwyr perffaith, ac yn ddeiliaid cymhellion moesol ar un llaw, a dylanwadau dwyfol ar y llaw arall; ac os felly, mae y ddau gasgliad canlynol yn naturiol a theg:—1. Fod cymhellion, y rhai sydd yn eu natur yn dylanwadu ar galonau ac ewyllysiau dynion, yn gyson â gwir ryddid. 2. Fod dylanwad dwyfol ar y galon, pa mor rymus bynag y byddo, yn gadael y gweithredydd yn yr oll a wnelo yn berffaith rydd. Ond y prif debygrwydd rhwng Adda a Christ sydd i'w weled yn y ffaith, fod y ddau yn bersonau cyhoeddus, yn sefyll dros eraill fel eu cynrychiolwyr; ac felly, fod canlyniadau eu hymddygiadau mewn sefyllfa o brawf, i raddau helaeth, yn effeithio ar fyrddiynau heblaw hwynt eu hunain. Dywedasom fod canlyniadau ymddygiadau y ddau gynrychiolwr, i *raddau helaeth*, yn myned yn mhellach na hwy eu hunain, ac yn disgyn ar eraill hefyd. Dywedasom felly yn fwriadol, oblegid nid ydym yn gweled fod holl ganlyniadau camwedd Adda yn disgyn ar ei had ef; ac nid ydym yn gweled, o'r ochr arall, fod holl ganlyniadau ufudd-dod Crist yn dyfod ar ddynolryw, yn unig am ei fod ef wedi bod yn ufudd drostynt hyd angeu y groes. I egluro hyn, dywedwn: Er fod camwedd Adda wedi ei ddwyn ef ei hun i afael euogrwydd cydwybod, ac yn agored i gosb dragwyddol, ni ddaeth y canlyniadau hyny, fel cosb ei gamwedd ef, ar ei had; oblegid ni all euogrwydd cydwybod fodoli ond fel canlyniad trosedd personol y troseddwr ei hun; ac nid yw yr Ysgrythyr yn un man yn cysylltu colledigaeth dragwyddol dynion, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol chwaith, â chamwedd Adda, ond â chamweddau dyn ei hun fel deiliad deddf a goruchwyliaeth efengyl Duw. Ni chollwyd neb erioed o hil Adda oblegid ei drosedd ef. Cyn y collir dyn, rhaid iddo ef droseddu yn ei berson ei hun, a chymeradwyo mewn calon a buchedd yr hyn a wnaeth Adda; ac yn ngwlad yr efengyl, wrthod yr iachawdwriaeth a gynygir iddo yn Adda yr ail. O'r ochr arall yr un modd, ni chedwir neb heb eu dwyn drwy yr Ysbryd Glan i undeb ysbrydol â'r Arglwydd Iesu. Ac ni chedwir neb mewn oedran a synwyr yn ngwlad yr efengyl heb dderbyn tystiolaeth Duw am ei Fab, a bywyd duwiol. Nid yw yn ddigon er cadw gwrandawr yr efengyl fod Crist wedi marw, rhaid iddo ef selio drwy ffydd a phroffes mai geirwir yw Duw, mewn trefn i gael iachawdwriaeth.

Ond, a ydyw cysylltu dynion â'u gilydd yn y fath fodd ag y dywedir fod Adda a'i had wedi eu cysylltu yn ngoruchwyliaeth Eden, yn deg a chyfreithlon, sydd bwnc a drinir yn fynych, ac amheuir tegwch y fath gysylltiad yn aml. Y mae yn eglur i ni fod y fath beth a chynrychiolaeth ar raddfa fechan yn mhlith dynion yn barhaus. Gwelir hi mewn teuluoedd. Mae rhieni yn cynrychioli eu plant o hyd nes y delont i

oedran a synwyr; ac wedi hyny hefyd, gall y rhieni wneud pethau a fyddont yn fantais fawr, neu yn *an*fantais fawr iddynt yn y dyfodol. Mae yr un peth i'w weled mewn corfforiaethau dinasol, ac mewn gwladwriaethau. Mae yn mhob gwlad rydd gynrychiolaeth; ond er fod gan y bobl, neu, o leiaf, lawer o honynt, lais yn newisiad y cynrychiolwyr, y mae tyrfa fawr mewn gwladwriaeth nad oes ganddynt lais yn y byd yn hyny; ond y mae ymddygiadau y cynrychiolwyr yn peri manteision neu anfanteision mawr i'r cyfryw, heb fod ganddynt hwy unrhyw lais yn y mater. Gellir dywedyd yr un peth am anturiaethau morwrol. Mae y dwylaw a'r môr-deithwyr yn llaw llywydd llong i raddau helaeth iawn—mae eu bywydau wedi eu hymddiried i'w ofal ef. Nid oes dim sydd yn fwy cyffredin na bod un yn sefyll dros eraill mewn materion masnachol. Mewn gair, y mae taflu cynrychiolaeth dros y bwrdd yn materion cyffredin bywyd yn taro yn erbyn natur pethau, a holl drefniadau y gymdeithas ddynol. Heblaw hyny, y mae pawb uniongred yn addef na ellid byth gadw pechaduriaid, ond trwy gynrychiolaeth, un yn sefyll dros eraill, ac nid oes neb yn mysg y cyfryw yn amheu nad oedd Iesu Grist yn gynrychiolwr i ni ar Galfaria. Yn awr, os yw cynrychiolaeth yn deg ar Galfaria, rhaid ei bod yn deg hefyd yn Eden, oddieithr fod y ffaith alarus fod ymddygiadau pechadurus y cynrychiolwr wedi troi yn anfanteisiol i ni yn ei gwneud yn annheg—yr un yw yr egwyddor yn y naill a'r llall. Mae genym enghreifftiau lawer yn y Beibl o ddynion yn cael manteision helaeth drwy bobl eraill, ac er eu mwyn. Teulu Noah, y Sodomiaid, hiliogaeth Abraham, hiliogaeth Phineas, teulu Dafydd. Y mae genym enghreifftiau lluosog, ar y llaw arall, o ddynion yn dyfod i afael anfanteision lawer oblegid ymddygiadau pobl eraill—y cynddiluwiaid, a'r Sodomiaid yn enwedig; y plant bychain yn eu plith; yr Aiphtiaid oblegid ymddygiadau Pharaoh; y prophwydi oblegid drygioni Israel a Judah, a'u brenhinoedd, yn enwedig. Mae yr un peth i'w ganfod bob dydd yn ein plith ninau, mewn llawer o enghreifftiau.

Yn wyneb yr ystyriaethau hyn, mae yn ymddangos yn eglur fod cynrychiolaeth Eden yn berffaith gyfiawn a theg, a dywedyd y lleiaf. Gellid ychwanegu, fod tebygrwydd mawr, ar olwg ddynol, y buasai Adda, fel dyn ar ddelw Duw, yn debycach o sefyll ei dir na neb o'i hiliogaeth mewn sefyllfa o brawf drosto ei hun. Yr oedd efe yn dad i ni oll, ac yn ei gyflawn wybodaeth a'i synwyr pan gymerodd efe yr ymddiriedaeth arno ei hun; ac nid oedd perygl yn debyg o ymosod arno ond o un man. Ond y mae peth arall, cryfach na dim a nodwyd, yn profi tegwch cyfamod Eden tuhwnt i bob dadl, sef, Fod yr holl ragorfreintiau yr oedd Adda yn ymddiriedolwr arnynt dros ei had, yn rhoddion rhad o eiddo Duw, ac yn bethau nad oedd gan neb, nac Adda na'i had, hawl iddynt fel deiliaid cyfrifol llywodraeth y nef. Pethau oeddynt nad oedd ar Dduw rwymau i'w rhoddi i neb; ac os rhoddai hwynt, yr oedd ganddo ef berffaith hawl i osod i lawr y telerau ar ba rai y caffai hil Adda eu mwynhau. Ni allai Adda na'i hiliogaeth eu hawlio

oddiar law yr Arglwydd. Yna, y cwestiwn ydyw, A oes gan Dduw hawl i wneud fel y gwelo yn dda â'r eiddo ei hun? A all efe eu cyfranu neu beidio fel y gwelo yn oreu? Ac os myn efe eu cyfranu, a all efe yn gyfiawn eu rhoddi i hil Adda, yn ol telerau a osodo efe i lawr mewn cyfamod â thad holl deulu dyn? Nid wyf yn meddwl fod neb na ateba y fath ofyniadau yn gadarnhaol, gan sefyll o du hawl y Goruchaf i gyfranu ei roddion fel y gwelo yn oreu. Ond wedi y cwbl, a oes genym sail deg i gredu fod Adda yn berson cyhoeddus, ac yn cynrychioli ei had yn ngoruchwyliaeth Eden? Yr ydym yn barnu fod, oblegid y pethau canlynol:—

1. Y mae planiad gardd Eden, a dygiad y dyn iddi, fel y nodwyd yn barod, yn awgrymu yn gryf fod yr Arglwydd am sefydlu goruchwyliaeth newydd i ddangos ei ddaioni yn mhellach tuag at y dyn a'i hiliogaeth. Pe na buasai hyny yn meddwl yr Arglwydd, nid ydym yn gweled un angenrheidrwydd am blanu yr ardd, na gosod dyn ynddi i'w chadw a'i llafurio o gwbl; ond os oedd Duw yn myned i gysylltiad newydd â'r dyn ac â'i hil, yr oedd priodoldeb mewn gosod y dyn mewn sefyllfa newydd i gyfarfod yr amcan gogoneddus hwnw o eiddo Duw.

2. Y mae y bygythion cysylltiedig â thoriad y cyfamod yn disgyn ar hil Adda; ac y maent hwy yn cael eu hymddifadu o'r rhagorfreintiau yr oedd efe yn ymddiriedolwr arnynt, yn gystal ag Adda ei hun. A'r casgliad naturiol ac angenrheidiol ydyw, y buasai y bendithion cynwysedig yn y cyfamod yn dyfod yn eiddo i'r hiliogaeth yn gystal a'u tad, pe cadwasai efe y cyfamod.

Yn awr, ai Adda ei hunan yn unig sydd wedi dyfod dan ddedfryd marwolaeth naturiol? Onid yw ei holl hiliogaeth yn gorfod marw fel yntau, ïe, plant bychain, y "rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda?" Ac onid yw y Beibl yn dywedyd yn eglur, mai "yn Adda y mae pawb yn meirw?" Y mae marwolaeth babanod yn brawf na ellir dyfod byth drosto, os yn Adda y mae pawb yn meirw, fod y dyn cyntaf yn cynrychioli ei holl had yn nghyfamod Eden. "Cyflog pechod yw marwolaeth," pob marwolaeth i greadur rhesymol—ni phechodd plant bychain erioed yn eu personau eu hunain; gan hyny, os yn Adda y mae pawb yn meirw, rhaid fod eu marwolaeth yn ganlyniad trosedd cyntaf Adda, a'i fod ef yn gynrychiolwr ei hiliogaeth yn ngoruchwyliaeth Eden.

Yn mhellach, onid yw y ddynoliaeth wedi llygru yn llwyr, pob un o hil Adda wedi troi allan yn wrthryfelwr penderfynol yn erbyn yr Arglwydd, fel nad oes neb cyfiawn wrth natur, nac oes un? Ac onid yw y farwolaeth ysbrydol fawr hon sydd yn llenwi y byd yn gyffredinol, yn profi fod dynoliaeth yn cael ei chynrychioli gan y dyn cyntaf, a bod yr hil wedi colli, drwy ei anufudd-dod ef, yr hyn a fuasai yn sicrhau uniondeb mewn calon a buchedd ynddynt hwy? Pa fodd y rhoddir cyfrif am lygredigaeth llwyr dynoliaeth, ond trwy ei chysylltiad â chodwm y dyn cyntaf? A pha fodd y gallasai llygredigaeth Adda ei hunan ddyfod yn gyffredinol i fysg ei blant, oni b'ai ei fod ef drwy ei gam-

wedd wedi fforffedu ar eu rhan hwy, fel eu cynrychiolwr, yr hyn a fuasai yn sicrhau eu bywyd ysbrydol fel deiliaid llywodraeth y Goruchaf? Ai i Adda yn unig y dygai y ddaear ddrain a mieri? Ai efe, ar ei ben ei hunan, fu dan orfodaeth i fwyta bara drwy chwys ei wyneb? Onid yw eu holl blant yn gorfod enill eu bywoliaeth yn union fel eu tad? A'r ychydig sydd yn cael eu bywoliaeth yn esmwyth, y mae eu brodyr a'u chwiorydd yn gorfod llafurio yn galed, a chwysu drostynt, fel y gallont hwy gael y bywyd esmwyth hwnw. Ai Efa ei hun sydd yn dwyn plant drwy boen a gofid? onid yw ei holl ferched yn mhob oes dan yr un ddedfryd? Y mae yn eglur eu bod. Gallesid ychwanegu, ond y mae hyn yn ddigon ar y pen hwn i ddangos fod holl hil Adda wedi eu huno âg ef yn un corff moesol mawr yn nghyfamod Eden, a bod effeithiau y trosedd cyntaf wedi eu gorddiwes hwy oll fel y cynrychiolwr ei hun.

Ond y prawf egluraf a chryfaf a gawn o gynrychiolaeth Adda ydyw y lleoedd yn y Testament Newydd (Rhuf. v. 12; 1 Cor. xv.) sy'n dal y dyn cyntaf Adda, a'r Arglwydd Iesu, yr ail ddyn, y naill ar gyfer y llall. Mae yr adran (*paragraph*) sydd yn niwedd y bumed benod yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, yn y modd egluraf, yn gwneuthur hyny, fel nad ydym yn meddwl yr amheua neb y ffaith, ond dynion sydd yn tueddu i amheu pob peth sydd yn y Beibl, naill ai am eu bod uwchlaw eu hamgyffredion, neu yn anghydweddol â'u chwaeth hwy eu hunain. Daeth pechod i'r byd, medd y *paragraph* dan sylw, "drwy un dyn;" nid dywedyd wrthym y mae Paul pwy a bechodd gyntaf, ni fuasai gwybod pwy a bechodd gyntaf fawr o beth i ni; ac yn wir, nid y dyn cyntaf, ond y wraig, wedi ei thwyllo, oedd yn y camwedd. Ond dangos y mae yr apostol pa fodd y daeth pechod i'r byd yn gyffredinol, fel y mae holl ddynolryw wedi llygru. Llygrwyd y byd drwy un dyn, ond ni allasai hyny ddim bod, oddieithr fod y dyn hwnw yn gynrychiolwr ei hiliogaeth.

Dengys yr adran yn mhellach fod marwolaeth wedi dyfod drwy bechod yr un dyn hwnw ar bob dyn; ie, hyd yn nod ar y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda. Nid wyf fi yn gwybod am unrhyw ystyr mor naturiol i'w roddi i'r geiriau, a'u golygu yn gosod allan fabanod. Buasai yn hynod i Paul, wrth son am deyrnasiad marwolaeth drwy Adda, fyned heibio i ffaith mor nodedig a marwolaeth babanod heb ei chrybwyll, na chyfeirio ati o gwbl.

Mae Adda yn cael ei osod allan fel ffurf yr un oedd ar ddyfod; ac y mae y ffurf hòno, yn ddiau, yn gynwysedig yn benaf yn ei undeb â'i hiliogaeth fel eu cynrychiolwr, fel y dengys Paul drwy y *paragraph* rhyfedd hwn. Mae condemniad ar yr hil yn dyfod o Eden, ac y maent wedi eu hymddifadu drwy y camwedd cyntaf o fanteision lluosog a gawsent, pe y cadwasai eu cynrychiolwr y cyfamod. O'r ochr arall, mae cyfiawnhad bywyd—bywyd ysbrydol a bywyd tragwyddol, yn llifo allan o gynrychiolaeth Iesu Grist. Nid yw y *paragraph* rhyfedd hwn yn dweyd fod dyn wedi colli ei alluoedd eneidiol, na cholli y moddion sydd yn datguddio ewyllys

Duw iddo, na cholli ei ryddid drwy gwymp Adda, ond dengys yn eglur ei fod wedi colli ei fywyd, colli ffafr Duw, colli dylanwadau yr Ysbryd Glan i osod ei holl enaid ar ganol ffordd uniondeb a rhinwedd. Collodd lawer iawn drwy gamwedd Adda; ond caiff lawer mwy nag a gollodd trwy gynrychiolaeth yr Ail Adda.

Nid yw y Beibl, chwaith, yn gosod allan ein bod ni ein hunain yn gweithredol droseddu yn Eden. Mae yr ymwybodolrwydd sydd ynom yn tystio na allasai hyny ddim bod. Y dyn cyntaf, fel ein cynrychiolwr ni, a dorodd y cyfamod, ac yn ol telerau y cyfamod hwn, y mae llawer o ganlyniadau ei gwymp ef wedi disgyn yn berffaith gyfiawn hefyd ar ei holl hiliogaeth. Nid ydym i feddwl, chwaith, fod llygredigaeth fel rhyw wenwyn yn cerdded drwy holl gorff dynoliaeth. Nid peth cadarnhaol felly ydyw pechod, ond diffyg moesol mewn calon, egwyddor, gair, neu weithred. Colled a gawsom ni yn Eden, ond colled sydd yn effeithio ar ein holl fuchedd a'n sefyllfa fel deiliaid cyfrifol yn llywodraeth Duw.

Diau y gwyddai Duw erioed mai tori i lawr a wnai dynoliaeth ar ei phrawf yn wyneb cyfamod Eden. Wrth feddwl am hyny, bydd ambell un yn barod i amheu y doethineb o osod goruchwyliaeth felly i fyny o gwbl. Gellir dweyd yn ddibetrus na fuasai Duw byth yn ei gosod i fyny oni buasai yr atebid dybenion pwysig a gwerthfawr drwyddi, er na fu yn foddion i ddedwyddu had Adda.

1. Yr oedd Duw am egluro drwyddi fod ganddo ef hawl ar ddynion, ac y gall efe eu gosod yn y sefyllfa y gwelo efe yn dda.

2. Fod llawer o'i ddoniau gwerthfawrocaf ef yn bethau nad oes gan neb o ddynolryw unrhyw hawl iddynt fel deiliaid llywodraeth foesol, ac mai rhoddion gras penarglwyddiaethol ydynt, nid yn unig i bechaduriaid, ond i angylion difrycheulyd, yn gystal ag i Adda cyn y cwymp, ac y gall efe eu rhoddi neu eu hatal fel y gwelo yn oreu, heb wneud cam â neb.

3. Yr oedd Duw, yn nghyfamod Eden, am roddi prawf i'r greadigaeth nad oedd dyn, pan ar y goreu, mwy nag angel, ddim ond "cwbl wagedd pan ar y goreu," a bod holl ddiogelwch creadur santaidd yn aros ar ei ymorweddiad ar Dduw. Mae y wers hon yn cael ei dysgu yn eglur yn Eden.

4. Ac yn benaf oll, yr oedd cynrychiolaeth y dyn cyntaf yn fanteisiol iawn i egluro i'r byd gynrychiolaeth Iesu Grist, a'r unig lwybr drwy ba un y gellir cadw pechaduriaid. Mae yr ail ddyn i'w adnabod drwy y cyntaf—yr olaf drwy y blaenaf. Yr oedd Adda, yn ddiau, yn gysgod o Grist, ac y mae egwyddorion cyfamod Eden yn help i ddynion gael golwg deg ar Grist yn ufuddhau drosom ni. Mae gwendidau y dyn cyntaf yn dangos gogoniant yr ail ddyn; ac y mae methiant y cyntaf yn ein dwyn i weled gogoniant ychwanegol yr ail ddyn, yr Arglwydd o'r nef.

Ni ychwanegaf heddyw, ac ni chaf fi gyfle i'ch anerch eto, yn ddiau, nes y dychwelwch o'ch teithiau casglyddol. Taened Duw ei edyn drosoch, a llwydded eich amcan yn ymweled â'r eglwysi.

# LLYGREDIGAETH LLWYR DYNOLIAETH MEWN CANLYNIAD I'R CWYMP.

*Darlith XVII.*

GAN fod y mater hwn yn un pwysig dros ben i bob dyn feddu golygiadau ysgrythyrol a chywir arno, ac yn neillduol felly i bregethwyr yr efengyl; a chan y bydd y golygiadau fyddo gan ddyn ar sefyllfa dynolryw ar ol y cwymp yn Eden yn sicr o ddylanwadu yn gryf ar ei olygiadau ar bob cangen arall o'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb, tybiwn mai buddiol fydd i ni heddyw fanylu ychydig ar y mater hwn mewn nodiadau ychwanegol at y rhai a wnaed genym y tro diweddaf. Dywedwyd y pryd hwnw na olygir wrth yr athrawiaeth o lygredigaeth llwyr y natur ddynol—

1. Fod dyn, drwy y cwymp, wedi colli yr un o'r galluoedd naturiol sydd yn ei gyfansoddi yn oruchwyliwr moesol a chyfrifol i Dduw am ei ymddygiadau.

2. Na chollodd dyn ei ryddid i ddefnyddio ei alluoedd fel y byddo da yn ei olwg ar y pryd.

3. Nad yw llygredigaeth dyn mewn canlyniad i'r cwymp yn rhyw aflendid naturiol (*physical polution*).

4. Na olygir fod dynion drwy y cwymp yn awr wedi myned mor bell oddiwrth Dduw ag y gallant fyned, drwy ymgaledu yn eu pechodau. O'r ochr arall, fe ä dyn annuwiol bellach bellach oddiwrth yr Arglwydd am dragwyddoldeb.

5. Dywedwyd hefyd na olygir nad yw dynion annuwiol yn gwneuthur llawer o bethau a ystyrir yn gymhariaethol dda, hyny yw, yn dda mewn cymhariaeth i bethau gwrthgyferbyniol iddynt. Ond, er hyny, golygir fod dyn wrth natur yn hollol amddifad o'r uniondeb gwreiddiol hwnw oedd yn elfen yn nodweddiad tad yr hil ddynol pan grëwyd ef; ac yn yr ymddifadrwydd hwnw o gyfiawnder a santeiddrwydd gwreiddiol yn ei natur, fod pob plentyn i Adda yn sicr o droi allan yn bechadur yn erbyn yr Arglwydd.

Ceisiwyd profi yr athrawiaeth o lygredigaeth llwyr dynoliaeth mewn canlyniad i'r cwymp drwy yr Ysgrythyrau, drwy hanesion dynolryw yn holl oesoedd y byd, a thrwy fychander llwyddiant pob ymdrech i ddiwygio y byd drwy foddion moesol, yn annibynol ar waith neillduol yr Ysbryd Glan yn dwyn dynion i'r iawn allan o faglau y gelyn.

Ychwanegir heddyw y pethau canlynol:—1. Fod yn eglur oddiwrth yr hanes ysgrythyrol yn Genesis fod Adda, yn y sefydliad Edenaidd, nid yn unig yn sefyll drosto ei hunan, ond dros ei hiliogaeth hefyd fel eu cynrychiolwr, a bod ei ffyddlondeb ef fel eu cynrychiolwr yn sicrhau i'w had fywyd a dedwyddwch fel iddo ef ei hunan; a'i anffyddlondeb, o'r ochr arall, yn eu dwyn i afaelion marwolaeth a cholledion eraill lawer iawn. Fod Adda yn gynrychiolwr ei had yn ngoruchwyliaeth Eden, a ymddengys yn eglur yn yr hanes yn Genesis. Y pethau a ddywedir yno am Adda, a ddywedir hefyd am ei feibion, ac sydd gywir hyd heddyw; a'r pethau a ddywedir am

Efa, sydd gywir hefyd am ei holl ferched. Ond y mae Paul yn Rhuf. v. wedi gosod y mater o gynrychiolaeth Adda tuhwnt i bob dadl resymol, a'r geiriau hefyd a arfera yn 1 Cor. xv., "Yn Adda y mae pawb yn meirw." Mae yr enwau a rydd efe ar Iesu Grist, "Yr Adda diweddaf," "yr ail ddyn," yn cynwys yr un gwirionedd. Mae pawb agos yn addef fod Iesu Grist yn gynrychiolwr; ac os oedd efe, yr "Adda diweddaf," yn sefyll dros eraill, felly hefyd yr oedd yr Adda cyntaf. Nid oes, yn wir, yr un rheswm yn erbyn cynrychiolaeth Adda yn Eden, nad yw yr un mor gryf yn taro yn erbyn cynrychiolaeth Iesu Grist ar Galfaria.

Mae yr egwyddor gynrychioliadol yn rhedeg drwy holl gylch cymdeithas; ac nid oes neb yn mron yn amheu ei thegwch. Gwelir hi mewn teulu. Mae y penteulu yn fath o gynrychiolwr yn mhlith ei blant a'i wasanaethyddion. Gwelir hi mewn bwrdeisdref a dinas. Mae yn y senedd, ac ar fwrdd llong, mae y llywydd yn gynrychiolwr yno. Mae yn yr Eglwys Gristionogol. Nid yn unig y mae Iesu yn ein cynrychioli ni yn y nefoedd, ond yr ydym ninau yn cynrychioli ein gilydd mewn llawer o bethau yn fynych ar y ddaear.

Wrth ddywedyd fod Adda yn cynrychioli ei hiliogaeth, a bod Iesu Grist yn dwyn ein pechodau ni yn ei gorff ar y pren, ni olygir fod Iesu yn dyoddef oddiwrth euogrwydd cydwybod ac anobaith ar y groes; a phan ddywedir fod canlyniadau toriad cyfamod Eden wedi dyfod ar hil Adda, ni olygir fod yr ymwybodolrwydd o fai, a'r pangfeydd o'i herwydd, wedi dyfod ar hil Adda, fel y daethant ar Adda ei hunan; eto y mae llawer o'r canlyniadau wedi dyfod ar yr had, yn gystal ag ar Adda ei hunan. Mae ei holl had yn dyfod i'r byd dan ddedfryd condemniad, ac amddifadrwydd o lawer o fanteision a fuasent yn eu meddiant oni buasai toriad cyfamod Eden. Y peth sydd yn eglur i bawb ydyw, eu bod wedi eu condemnio i farwolaeth naturiol drwy doriad cyfamod Eden, oblegid yn Adda y mae pawb yn meirw, ac y mae babanod yn meirw, "y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda." Nid oes amheuaeth ar fy meddwl nad babanod sydd gan yr apostol mewn golwg. Buasai yn syndod iddo ef son am farwolaeth dynion mewn oed mewn cysylltiad âg Adda, heb ddywedyd gair am y myrddiynau babanod sydd yn syrthio i'r bedd heb bechu erioed yn eu personau eu hunain. Y maent yn meirw hefyd drwy bob marwolaeth erchyll—dwfr y diluw, tân Sodom, trwy law yr angel dinystriol yn yr Aipht, trwy y cleddyf, y newyn, a'r haint. "Cyflog pechod yw marwolaeth;" ond ni phechasant hwy yn weithredol, paham, gan hyny, y maent yn meirw? "Yn Adda y mae pawb yn meirw." Dedfryd Eden sydd yn eu hysgubo i'r bedd, a dynion mewn oed hefyd yn wir yn gystal a hwythau. Y mae canlyniadau toriad cyfamod Eden wedi dyfod ar bawb yn ddiwahaniaeth.

Mae yn eglur eto nad oes ond *un* ffordd i drigolion daear i fyned i'r nef, sef drwy haeddiant yr Arglwydd Iesu. Yr un gwaed a wna gymod dros faban bach a thros henafgwr 80 oed; a'r un dylanwad dwyfol sydd yn angenrheidiol i aileni plentyn mis oed a henafgwr

70ain oed. Yn awr, os mai drwy Grist y cedwir babanod yn gystal ag eraill, yna rhaid eu bod yn cael eu cynwys yn y dinystr mawr a ddaeth ar ddynoliaeth drwy y cwymp, a'u bod yn cael eu cynrychioli ar Galfaria gan yr ail Adda pan yn marw dros bawb.

Diau mai y peth pwysicaf a gollodd dynolryw drwy y cwymp ydyw hawl gyfamodol i ddylanwad yr Ysbryd Glan i roddi iawn gyfeiriad i'w heneidiau, ac i gynyrchu tuedd ynddynt i addoli a gwasanaethu Duw. Ond gellir dweyd yn ddibetrus na chollodd dynion, drwy godwm Eden, ddim ag sydd yn perthyn iddynt fel creaduriaid cyfrifol i Dduw. Rhoddion rhad, heb eu haeddu gan nac Adda na neb arall, a gollwyd. Rhoddion o eiddo gras penarglwyddiaethol Duw, y rhai a addawyd i'w had os buasai Adda yn cadw amodau esmwyth y cyfamod. Yr oedd efe a'i hiliogaeth yn ddeiliaid ynddo, ac yn golledigion drwy ei godwm arswydus ef. Mae y ffaith hon yn tori i lawr yn hollol y gwrthddadleuon a godir yn erbyn *cyfiawnder* goruchwyliaeth Eden. Yn wir, mae yr oruchwyliaeth hòno mor gyflawn o ras, fel y mae yn anhawdd penderfynu pa un sydd amlycaf ynddi, ai gras ai cyfiawnder y Goruchaf.

Mae yn ymddangos fod gan yr Arglwydd erioed sicrwydd perffaith mai troseddu a dinystrio ei hunan a'i hiliogaeth a wnai Adda fel pencyfamodwr yn Eden. Os gofynir paham y gosododd efe Adda yn gynrychiolwr ei had, pan y gwyddai efe yn berffaith mai eu dinystrio a wnai efe yn nydd ei brawf, diau mai cwestiwn i'r Arglwydd ei hunan i'w ateb ydyw hwnyna. Nid oes neb arall a ddichon ei ateb yn ei holl fanylion ond efe. Ond yr ydym ni yn gweled yn eglur yn y cwymp—1. Fod yr anfeidrol wahaniaeth sydd rhwng y Creawdwr a'r creadur yn cael ei amlygu yn amgylchiadau cyfamod Eden. 2. Fod cwbl wagedd y creadur, pan adewir ef iddo ei hunan yn wyneb profedigaeth, yn cael ei arddangos yn eglur, a bod ei ddiogelwch yn troi ar iddo hongian wrth y Duwdod, a phwyso arno ef yn hollol. 3. Dysgodd prawf a chwymp dyn lawer o wersi i'r holl greadigaeth resymol na anghofir mo honynt ganddynt byth. Ond o ba le y cyfodai sicrwydd mai dystrywio ei hun a'i hiliogaeth a wnai Adda yn nydd y prawf? Bod sicrwydd gan Dduw mai felly fyddai sydd eglur, am y rheswm fod yr "Adda diweddaf" wedi ei apwyntio i waredu'r hil ddynol fyrddiynau o oesoedd cyn i'r Adda cyntaf gael ei grëu. Ond o ba le y cyfodai y sicrwydd hwnw? Nid yw dweyd fod yr Arglwydd yn hollwybodol, ac felly ei fod yn gwybod mai i lawr yr äi Adda a'i had, yn cyffwrdd â'r mater, oblegid nad yw Duw yn gwybod fod peth yn sicr, pryd nad yw yn sicr ynddo ei hun, neu ar ryw seiliau digonol i roddi cyfrif am ei fodolaeth. Byddai gwrthddywediad ac anghysondeb felly yn ngwybodaeth yr Anfeidrol. Diau fod arfaethau digyfnewid Duw yn cynwys sicrwydd perffaith am fodolaeth pob peth a gynwysir yn yr arfaeth dragwyddol hòno. Ond daioni i gyd a gynwysir yn arfaeth Duw. Drwg ni thrig gydag ef. Drwg mawr oedd cwymp dyn; felly, nis gall y cwymp fod yn gynwysedig yn arfaeth Duw, ac nis gall y sicrwydd am dano

fod yn sicrwydd arfaethol o gwbl. Ond ai nid oes sylfaen *arall i sicrwydd* heblaw yn arfaeth Duw? Meddyliwn yn ddibetrus fod, a bod y sicrwydd hwnw yn niffygolrwydd y creadur wrth ei gymharu â'r Creawdwr. Elfen nacaol o sicrwydd yw hon. Mae cysylltiad mor sicr rhwng achosion nacaol a'u heffeithiau ag sydd rhwng achosion cadarnhaol a'u heffeithiau hwythau. Mae marwolaeth, er mai nacaol yw y syniad, mor sicr a'r wyrth gadarnhaol o adgyfodiad y meirw. Mae absenoldeb yr haul yn sicrwydd *nacaol* am dywyllwch, fel y mae ei bresenoldeb yn sicrwydd cadarnhaol am oleuni. Sicrwydd *nacaol* sydd yn bodoli am yr holl ddrwg a gymerodd neu a gymer le eto yn y byd hwn, a'r byd arall. Dyna y sicrwydd oedd am lygriad yr hen fyd, Sodom a'r Aipht, ac am greulondeb yr Iuddewon yn croeshoelio Mab Duw; a sicrwydd cadarnhaol, yn cyfodi o arfaeth Duw, a bwriadau grasol Jehofa, sydd am bob daioni a gymer le yn y nefoedd ac ar y ddaear.

Mae yr egwyddor nacaol hon o sicrwydd yn ddigonol i roddi cyfrif am holl lygredigaeth plant dynion, heb ddal fod rhyw egwyddor lygredig fel rhyw *wenwyn* cadarnhaol wedi rhedeg drwy holl gorff dynoliaeth. Mae *absenoldeb* purdeb a santeiddrwydd yn mhob plentyn i Adda; mewn gair arall, absenoldeb delw Duw ar ei enaid, yn cynwys sicrwydd perffaith mai yn bechadur y try allan fel y delo i fyny i sefyllfa o gyfrifoldeb. Trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, h.y., ar led i'r holl fyd yn gyffredinol.

Mae llygredigaeth dyn o'r fath natur, fel y mae cynydd diderfyn yn perthyn iddo—ä rhagddo am byth oni achubir dyn oddiwrtho drwy haeddiant Crist, a dylanwadau yr Ysbryd Glan, a moddion gras.

Ni ychwanegir heddyw, ond dyger ni i ryfeddu gras, cyflawnder, a chyfaddasder trefn y cadw ar gyfer y byd.

## Y CYFAMOD GRAS.

### *Darlith XVIII.*

LLYGREDIGAETH llwyr dynolryw, neu ymadawiad hollol dynoliaeth oddiwrth yr Arglwydd mewn canlyniad i'r cwymp, oedd y pwnc fu dan ein sylw y tro diweddaf. Y cyfamod gras, neu y cynllun gogoneddus i ddwyn iachawdwriaeth i ddynion, yn cael ei amlygu a'i osod i fyny yn y byd, a gaiff fod pwnc y ddarlith bresenol.

Darfyddodd cyfamod Eden fel cyfamod bywyd i Adda a'i had, pan dorwyd ef trwy anufudd-dod y dyn cyntaf. Pe cadwasai y cynrychiolwr ef, yr oedd pob cymhwysder ynddo i ddiogelu bywyd a dedwyddwch Adda, ac i ddwyn bendithion gwerthfawr, rhai tymhorol a rhai ysbrydol, i feddiant ei holl hiliogaeth; ond nid oedd o'i fewn *unrhyw* ddarpariaeth tuag at adferu unrhyw ddyn syrthiedig i

heddwch Duw yn ol, ac i ail fwynhad o hono. Gofynwyd yn fynych, Gan y gwyddai y Duwdod erioed na sicrheid dedwyddwch neb drwy gyfamod Eden, paham y gosodwyd ef i fyny o gwbl? Mae yn beryglus fod y fath ofyniad yn aml yn tarddu o ormod hyfder gerbron yr Arglwydd, fel pe credai dyn nad oes gan Dduw hawl i wneud dim heb roddi ei resymau dros ei wneuthur gerbron ei greaduriaid.

Awgryma y gofyniad hefyd yn fynych mai sicrhau dedwyddwch dyn yw y peth *pwysicaf* a ddichon fod, ac y dylai ymwneud Duw âg ef ddiogelu ei fywyd a'i ddedwyddwch pa fodd bynag yr ymddyga efe tuag at Dduw a'i orchymynion; ond y mae y fath syniad am ddedwyddwch dyn, sef mai hwnw yw y peth penaf sydd mewn bod, yn gamsyniol. Y mae gogoniant Duw uwchlaw dedwyddwch dyn.

Awgryma y gofyniad eto yn aml, nad yw yn ddoeth na gweddus yn Nuw amlygu ei ewyllys i'w greaduriaid rhesymol, oddieithr fod *sicrwydd* y bydd iddynt hwy wneuthur ei ewyllys ef. Mae yr awgrymiad yn taro yn erbyn priodoldeb y gyfraith ar Sinai, oblegid ei bod yn cael ei throseddu; ac yn erbyn priodoldeb cyhoeddiad yr efengyl, oblegid ei bod yn cael ei gwrthod, yr hyn sydd yn berffaith afresymol. Felly, pan wrthddadleuir nad yw yn briodol i Dduw osod unrhyw beth i fyny yn mhlith dynion, os gallant hwy wneud camddefnydd o hono er eu dinystr eu hunain, mae yr wrthddadl yn profi *gormod*, ac felly nid yw yn profi dim.

Camsyniad hefyd ydyw tybied mai *colled i gyd* a ddaeth i'r byd drwy gyfamod Eden. Mae dybenion gogoneddus, adnabyddus i ni, wedi eu dwyn oddiamgylch drwy y cyfamod hwnw.

1. Cafwyd drwyddo eglurhad gogoneddus ar *gyfiawnder* Duw, a'i hawl yn ufudd-dod dyn i'w orchymynion, yn y pethau lleiaf fel yn y pethau mwyaf.

2. Ac ar gyfer hyny mae, wrth gwrs, yn egluro rhwymedigaethau dynion i ufuddhau i Dduw yn mhob peth.

3. Dengys yn eglur wagedd perffaith dyn ynddo ei hunan, a bod ei holl ddiogelwch yn Nuw; ac mewn argyhoeddiad dwfn a pharhaus o'i hollol ymddibyniaeth yn mhob peth sydd dda ar y Creawdwr.

4. Eglura, i raddau helaeth, ras a daioni y Brenin mawr yn cysylltu rhagorfreintiau mor werthfawr âg ufudd-dod mor fychan a'r un a geisid oddiwrth Adda.

5. Gwelir yn mhellach yn nghyfamod Eden *falais* a *dichellion* Satan, a'i ddrwg ewyllys tuag at Dduw a dynion, ac nad ydym ninau i ddysgwyl na daioni na thynerwch byth oddiwrtho ef.

6. Profa annhraethol ddrwg pechod, a'r galanasdra mawr a all un pechod wneuthur yn y byd, a bod pechod i'w gasâu â chasineb cyflawn.

7. Mae yn arweiniad rhagorol i fewn i drefn iachawdwriaeth trwy yr ail Adda, ac yn egluro amryw o'i phrif egwyddorion i raddau helaeth a dymunol.

Felly, nid colledion yn unig a ddaeth i'r byd trwy oruchwyliaeth Eden, ond manteision mawrion hefyd; ac nid yw y pethau a nodwyd

ond pigion allan o lawer o bethau eraill a allesid grybwyll, pe buasai galwad am hyny; ond, yn ddiau, y mae gan Dduw resymau na wyddom ni ddim am danynt dros osod cyfamod Eden i fyny. Pa fodd bynag, mae yr hyn a allwn ni ei wybod am y mater yn ddigon i foddloni unrhyw feddwl diragfarn am uniondeb, a thegwch, a buddioldeb y cyfamod hwnw, er ei fod, mewn llawer o bethau, trwy anufudd-dod ein cynrychiolwr, wedi troi allan yn anfanteisiol a cholledus i ni. Pan aeth cyfamod Eden yn chwilfriw, yr oedd y cyfamod gras, ffrwyth cariad, gras, a daioni tragwyddol ac anfeidrol y Goruchaf, yn barod i gael ei ddatguddio yn y fan. Yr oedd canlyniadau prawf y dyn cyntaf wedi eu rhagweled gan yr Arglwydd i'r manylrwydd mwyaf, ac wedi cael rhagddarparu ar eu cyfer yn y modd mwyaf effeithiol mewn cynrychiolwr arall, yr ail ddyn, yr Adda diweddaf. Paham y rhagddarparodd Duw y fath Waredwr, a'r fath iachawdwriaeth i ddynion, ac y gadawodd efe'r angylion syrthiedig heb obaith gwaredigaeth yn dragywydd, sydd bwnc rhy ddwfn a rhy ofnadwy i'r meddwl dynol allu treiddio i lawr i'w ddyfnderoedd. Tybiwyd gan lawer fod y pethau canlynol a'u cyffelyb yn fath o resymau dros fod dynolryw wedi cael Gwaredwr, yn hytrach na'r angylion y rhai ni chadwasant eu dechreuad, megys—

1. Mai dynion yw y blaid *wanaf* o'r ddwy a wrthryfelodd yn erbyn yr Arglwydd; fod dynion yn wanach eu galluoedd a'u cyrhaeddiadau na'r angylion a bechasant; ac mai arfer Duw bob amser yw cymeryd sylw trugarog o'r gwan a'r dinerth. Os bydd plentyn bach amddifad, analluog i ofalu am dano ei hun, fe gaiff hwnw gartref ar aelwyd y Brenin mawr, wedi colli nodded yn mhob man arall.

2. Fod yr angylion a bechasant yn llenwi sefyllfaoedd *uchel* yn llywodraeth Duw; ac er eu bod yn wŷr llys y Goruchaf, gwrthryfelasant yn ei erbyn gerbron ei orseddfainc, ond nad oedd dyn ond creadur mewn cylch llawer îs. Yr oedd, yn ddiau, yn llywydd ar y byd hwn--yn fath o frenin dan y Brenin mawr, ond brenin ar anifeiliaid a bwystfilod, pysgod, adar, ac ymrwyfiaid oedd efe wedi y cwbl, tra yr oedd yr angylion syrthiedig yn dywysogion ar fydoedd a chyfundrefnau, feallai, ac yn enwedig y penaeth yn eu mysg—yr uwchaf, fel y tybir, yn yr holl greadigaeth.

3. Golygir hefyd mai ei dwyllo a gafodd dyn i wrthryfela yn erbyn yr Arglwydd; ond nid ei hudo a'i lithio a gafodd Satan i wrthryfela, oblegid nid oedd neb i'w hudo. Efe oedd y pechadur cyntaf oll, a *dechreuodd* pechod yn ei galon ef ei hun. "Y mae efe yn gelwyddog, ac yn dad iddo."

4. Pe na ddarparesid Gwaredwr i ddyn, buasai Duw yn colli un natur resymol a greasai o'i wasanaeth am byth. Yr oedd lluoedd o'r natur angylaidd wedi syrthio, mae yn wir, ond yr oedd lluoedd eraill wedi cadw eu dechreuad; ond am ddyn, pan aeth efe i lawr, aeth pob un i lawr gyda eu gilydd; ac felly, ni buasai un dyn yn mysg gwasanaethwyr Duw oni buasai i ddynolryw gael Gwaredwr; ond fe farnodd y Goruchaf na fuasai yn ddoeth na da ynddo ef i grëu natur

resymol, a'i cholli drachefn, i gyd oll, yn dragywydd o'i wasanaeth. Pa un a oes rhyw werth yn y pethau a nodwyd fel rhesymau dros ddarparu Gwaredwr i ddynion, pryd y gadawyd angylion heb achubwr, ai nid oes, boddloned pob un ei feddwl ei hunan. Wedi y cwbl, gallai mai dywedyd mai felly y rhyngodd bodd i'r Duwdod, a bod y rhesymau am hyny ynddo ef ei hunan, o'n golwg ni, fyddai y peth diogelaf; er hyny, nid ydym yn meddwl y bydd yr Arglwydd yn ddig wrthym am chwilio tipyn i'r mater, tra y gwnelom hyny yn wylaidd a gostyngedig.

Yr adeg o drosedd cyntaf dyn, hyd nes daeth yr Arglwydd i alw Efa ac yntau i gyfrif, oedd y dywyllaf a'r fwyaf ofnadwy a fu ar ein byd ni erioed, ond ni pharhaodd yn hir. Clywodd Adda lais yr Arglwydd Dduw yn rhodio tuag ato gydag awel y dydd. Awel hwyr y dydd y troseddodd dyn oedd hòno, mae yn debygol. Felly, ni fu dyn gymaint ag un noswaith heb glywed am had y wraig yn Waredwr i'r hil ddynol, ac yn ddinystriwr i Satan. Yn ngwaith Duw yn llefaru wrth Satan y daeth hyny i'r golwg; a dyna adnod toriad y dydd ar ddynoliaeth, a'r agoriad aur a agorodd ddrws trugaredd o flaen dyn syrthiedig. Ond nid ydym i feddwl mai y rhagfynegiad am had y wraig oedd y cwbl a amlygodd Duw y pryd hwnw o'i drefn i gadw dyn, er fod y rhagfynegiad hwnw yn cynwys *canolbwynt* y drefn i gyd. Amlygodd efe ychwaneg na hyny yn ddiamheu.

Yr oedd gwaith Duw yn gyru y dyn allan o ardd Eden, ac yn gosod cerubiaid â chleddyf tanllyd ysgwydedig i gadw ffordd pren y bywyd, yn amlygiad eglur iddo, nad oedd efe i ddysgwyl bywyd mwy ar dir gweithredoedd y ddeddf, a bod ei unig obaith am fywyd tragwyddol o hyny allan yn had y wraig, a'i haeddiant ef, a gras penarglwyddiaethol Duw drwyddo. Diau fod yr Arglwydd y pryd hwnw wedi sefydlu aberthau gwaedlyd i osod allan, ac i ddal o flaen meddyliau dynion trwy yr oesoedd athrawiaeth ogoneddus yr Iawn dros bechod a wneid yn nghyflawnder yr amser gan had y wraig. Rhaid fod aberthu yn ordinhad ddwyfol, canys dywedir fod Abel wedi aberthu o flaenffrwyth ei ddefaid, *drwy ffydd;* ffydd ydyw crediniaeth o dystiolaeth, yna nis gallai Abel aberthu drwy ffydd yn Nuw, heb dystiolaeth oddiwrth Dduw ar y mater. Nid ffydd mewn dyfais o'i eiddo ef ei hun na'i dad Adda a olygir, ond ffydd yn Nuw, ac yn Oen Duw, a dynai ymaith bechodau y byd. Pur debyg hefyd fod y peisiau crwyn a wnaeth yr Arglwydd i Adda ac Efa yn grwyn ebyrth. (Ni fwyteid cig y pryd hwnw). A bod gwaith Duw yn eu gwisgo am danynt yn arwyddocâu cymhwysiad o'r iachawdwriaeth at eu cyflyrau trwy yr Ysbryd Glan. Mae hyny yn debygol, a dywedyd y lleiaf a ellir ar y mater. Dyna gyfamod Eden yn mysg y pethau a fuont; a dynolryw, bellach, yn ddeiliaid cyfamod newydd, neu y *cyfamod gras,* fel y gellir yn eithaf priodol ei alw.

Ond er dwyn dyn o dan y cyfamod manteisiol hwnw, a'r unig gyfamod ag y mae yn bosibl cadw *pechadur* trwyddo; eto, ymddengys nad yw gosodiad dynion yn ddeiliaid cyfamod iachawdwriaeth trwy

Iesu Grist, wedi eu rhyddhau oddiwrth lawer o effeithiau niweidiol y cyfamod cyntaf. Ymddengys hyny wrth ystyried y pethau canlynol:—

1. Er fod dynolryw dan y cyfamod gras, nid ydynt wedi eu gwaredu oddiwrth lafur, a phoen, a chwys, wrth geisio enill eu bara beunyddiol; ac y mae llawer o'u hanturiaethau, fel mwngloddwyr a marsiandwyr, yn troi yn siomedigaeth a cholled iddynt yn aml.

2. Mae y felldith a gyhoeddwyd yn Eden ar y ddaear hon yn gorwedd ar ei thiroedd hyd heddyw, yn ol y ddedfryd, "Melldigedig fydd y ddaear *o'th achos di:* trwy lafur y bwytei o honi holl ddyddiau dy einioes. Drain hefyd ac ysgall a ddwg hi i ti, a llysiau y maes a fwytei di." Mae mor afrywiog, fel mai drwy lafur dirfawr a diarbed yr arloesir, y gwrteithir hi, ac y dwg dipyn o gynyrch at wasanaeth dyn; a phethau hollol anfuddiol iddo ef at ei gynaliaeth a ddwg, os gadewir hi yn ei chyflwr naturiol. Y cnwd fydd drain ac ysgall, brwyn a mieri, rhedyn a danadl, a'r cyffelyb.

3. Mae holl ferched Efa dan yr un ddedfryd a'u mam yn lluosogiad dynolryw. Trwy boen y dygant blant, a mynych y mae porth bywyd yn troi yn borth marwolaeth iddynt hwy a'u rhai bychain. Nid Rahel, a gwraig Phineas, oedd yr unig ddwy a syrthiasant i'r bedd yn yr amgylchiad hwnw, ond myrddiynau o'u chwiorydd yn holl oesoedd y byd.

4. Er gosod dynion gan Dduw dan y cyfamod gras, nid ymddengys fod y cyfamod hwnw wedi sicrhau drwy ddylanwad dwyfol ar galonau meibion a merched Adda, yr ysgogent hwy o ddechreuad eu bodolaeth tuag at rinwedd; ond, o'r ochr arall, dechreuant eu gyrfa yn y byd mewn amddifadrwydd o burdeb a santeiddrwydd, ac y maent oll yn troi allan yn bechaduriaid yn erbyn yr Arglwydd.

5. Er eu bod dan y cyfamod gras, y mae elfenau natur yn dal gwg tuag atynt. Bygythir hwy gan y fellten oddiuchod, a'r daeargryn oddi-isod. Mae y corwynt a'r llifeiriant, oerni a gwres, yn cadw eu llygaid arnynt, ac yn eu gwylio yn barhaus, fel swyddogion y llywodraeth ddwyfol. Mae bwystfilod ac ymlusgiaid yn ymfyddino yn erbyn dyn.

6. Er fod dynolryw dan gyfamod grasol y nef, nid yw y cyfamod hwnw yn eu gwaredu rhag gorfod marw, pa mor dduwiol bynag y byddont; ac os anturia rhywun ddweyd mai dysgyblaeth y cyfamod gras yn unig yw marwolaeth (ac nid oes gan neb wrthwynebiad i'r syniad fod gras Duw yn goruwchreoli angeu ei hunan i fod yn eiddo i'r saint), er hyny, dywed y Beibl mai yn Adda y mae pawb yn meirw. Dedfryd Eden sydd yn cael ei chario i weithrediad ar ddynion pan y dychwelir hwy i byrth y bedd, a hyny drwy bethau ofnadwy yn aml.

Wrth ystyried y pethau hyn, ac eraill, gwelir fod dyn, yn bresenol, yn ddeiliad y cyfamod gras; ond ei fod, ar yr un pryd, yn dwyn ynddo ei hunan, ac o'i amgylch, lawer o ganlyniadau gofidus toriad y cyfamod cyntaf. Ond y mae manteision mawrion a phwysig wedi

dyfod i ddynolryw trwy i Dduw osod y byd dan gyfamod grasol yr iachawdwriaeth drwy Grist.

1. Symudwyd dyn o'r cyflwr o anobaith y buasai ynddo wedi toriad cyfamod Eden. Yr oedd adferiad i ddelw Duw, ac i heddwch a chymod âg ef, yn beth na wyddai Adda ddim am dano, nes y clywodd am Waredwr yn had y wraig; ac yn ngosodiad y cyfamod gras i fyny, torodd gwawr gobaith yn hyfryd ar deulu dyn, fel y gellir dweyd, yn ddiau, "I'r rhai sydd yn nghymdeithas y rhai byw oll y mae gobaith. Mae Iesu Grist, had y wraig, nid yn unig yn obaith Israel, ond "yn ei enw ef y gobeithia y cenedloedd." Efe yw "gobaith holl gyrau y ddaear." "Iesu Grist ein gobaith" y gelwir ef. Efe yw y gobaith a osodwyd o'n blaen ni i gymeryd gafael ynddo am ein bywyd tragwyddol.

2. Eto, mae yr Arglwydd yn cyfranu bendithion tymhorol yn lluosog i ddynion dan y cyfamod gras, ac yn eu sicrhau iddynt drwy gyfamod â'r ddaear, ac â phob peth byw o'i mewn.

3. Mae bendithion ysbrydol hefyd yn cael eu cyfranu yn helaeth drwy gyfryngdod Iesu Grist, a masnach rydd rhwng nefoedd a daear yn barhaus drwy ei berson a'i ufudd-dod ef.

4. Mae holl fendithion iachawdwriaeth yn cael eu datguddio i ddynion yn yr efengyl, a'u cynyg iddynt yn daer—dim ond iddynt eu derbyn a'u cofleidio. Mae gwahoddiad y nefoedd ar bob dyn i droi ei wyneb at yr Arglwydd Iesu Grist am ei fywyd. Y mae yr holl rwystrau o du y nefoedd i bechadur edifeiriol *gael* ei fywyd wedi eu symud ymaith trwy Iawn anfeidrol dros bechod; ac y mae Duw wedi dyrchafu ei Fab i fod yn Dywysog ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch a maddeuant pechodau, ac i symud y rhwystrau o ochr dynion.

5. Mae dyn wedi adenill, i raddau helaeth, y llywodraeth a'r awdurdod oedd ganddo yn wreiddiol dros elfenau natur, fel y mae yn gallu troi dwfr a thân, gwynt a thrydan, a lluaws o elfenau eraill at ei wasanaeth. Mae wedi enill meistrolaeth fwyfwy, ac yn parhau i'w henill o hyd dros y pethau hyn; ac y mae holl natur gwylltfilod, ac adar, ac ymlusgiaid, a'r pethau yn y môr, wedi eu dofi, ac i gael eu dofi gan y natur ddynol, medd Iago, Iago iii. 7. Daeth hyn oll i ddynion fel deiliaid y cyfamod gras, a thrwy gyfryngdod yr Arglwydd Iesu.

6. Cafwyd amlygiadau o'r Duwdod, ac o berson Mab Duw, sydd uwchlaw pob dirnadaeth mewn gogoniant a mawredd, dan y cyfamod a osododd Duw i fyny wedi y cwymp. Datguddiodd nid yn unig ei allu a'i wybodaeth, ond ei fawr amryw ddoethineb, golud ei ddaioni, cyfoeth ei ras, ei gyfiawnder pur a difrycheulyd, a'i santeiddrwydd tanllyd. Mae Duw wedi dyfod i olwg ei greaduriaid—wedi ymddatguddio yn y fath fodd na welsai rhesymolion y cyffelyb o'r blaen. Ac heblaw hyny, y mae dyn wedi ei ddatguddio iddo ei hunan mewn modd rhyfeddol, yn eangder ei alluoedd, ei rwymedigaethau, a'i gyfrifoldeb; yr ucheledd y dichon efe ei gyrhaeddyd, y

cyfoeth a'r urddas y gall ef eu meddianu, a'r gogoniant tragwyddol a'r mawredd y dichon efe gael ei goroni â hwynt.

Mae y gwahanol gyfamodau a osododd Duw i fyny yn y byd ar ol y cyfamod gras yn wahanol oruchwyliaethau o'r cyfamod hwnw, ac yr oedd datguddiadau y nefoedd yn cynyddu dan bob un o honynt, nes y daeth y dysgawdwr Iesu i lefaru yn eglur am y Tad, a'i gynlluniau, a'i ffyrdd gogoneddus, ac yr anfonodd efe Ysbryd y gwirionedd i dywys ei apostolion i bob gwirionedd. A phan ddelo goruchwyliaeth berffaith y byd a ddaw i mewn yn ei holl oleuni a'i gogoniant, ni fydd hòno ond goruchwyliaeth olaf y cyfamod gras. Dyfnderoedd gras y cyfamod hwnw a ddadblygir fwyfwy dan hòno hefyd dros byth. Caiff dyn yn ol nid yn unig y cwbl a gollodd yn yr Adda cyntaf, ond caiff, trwy ras a haeddianau Adda yr ail, anfeidrol fwy nag a gollodd. Caiff fywyd, a chaiff ef yn helaethach o lawer, ac ar sylfaen sicrach a diogelach yn mhob ystyriaeth. Daw, yn llaw dyner, ond hollalluog, Tywysog y bywyd, yn rhydd o afaelion pob marwolaeth—marwolaeth farnol, marwolaeth foesol, marwolaeth naturiol, a'r ail farwolaeth, a chaiff deyrnasu mewn bywyd trwy un Iesu Grist, a chyda ei Waredwr yn oes oesoedd.

Mae cyfamod Eden, fel y dangoswyd, i raddau, mewn darlith flaenorol, mewn amryw bethau yn gynlinelliad o'r cyfamod gras; yr oedd y naill fel y llall yn ddwyfol yn eu tarddiad a'u gosodiad i fyny. Yr oedd y cynrychiolwr cyntaf yn ffurf yr un oedd ar ddyfod. Yr oedd mwynhad hil Adda o fendithion cyfamod Eden yn troi ar berffeithrwydd y cynrychiolwr; a gallai hefyd fod cymeradwyaeth yr hil o'r holl sefydliad yn un o îs-delerau y cyfamod. Felly hefyd, mae bywyd tragwyddol dynion dan y cyfamod gras yn troi, yn benaf, ar ufudd-dod perffaith y Pencyfamodwr i holl ewyllys y Tad, a phob deddf y bu dani, ac fel îs-delerau, ar gymeradwyaeth dynion yn bersonol o'r holl drefn, a'u derbyniad calonog o honi, yn athrawiaethol ac ymarferol. Mae dynoliaeth wedi bod ar ei phrawf yn y ddau gynrychiolwr, a daeth ei gwendid ar un llaw, a'i nerth ar y llaw arall, i'r golwg yn y modd egluraf.

Ond rhagora y cyfamod gras ar y cyfamod gweithredoedd yn ddirfawr, nid yn unig yn rhagoriaeth y cynrychiolwr, ond yn nghyflawnder y bendithion a ddaeth trwyddo i'r byd, yn aruthredd y ffordd y daethant i'n cyrhaedd ni, yn nghadernid yr holl sefydliad, yn symledd y drefn i gael gafael yn y bendithion, sef drwy ffydd, ac ufudd-dod cywir ac egwyddorol, er na byddo yn berffaith; pryd yr oedd *perffeithrwydd personol* yn bob peth yn nghyfamod Eden, ac yn y datguddiad llawnach o fwriadau tragwyddol Duw, ei gyfiawnder a'i ras, ei ddoethineb a'i gariad, a gafwyd trwy y cyfamod gras, nag a amlygwyd yn ngoruchwyliaeth Eden, a llawer o bethau eraill a allesid nodi. Ni ddygodd cyfamod Eden neb i afael dedwyddwch; ond y mae meibion lawer wedi eu dwyn i ogoniant trwy Iesu Grist. Yr oedd torf felly wedi ei dwyn yn ddiogel i ogoniant cyn perffeithio Tywysog eu hiachawdwriaeth hwy trwy ddyoddefiadau, er's dros

ddeunaw can' mlynedd yn ol; ac y mae torf luosocach fyth wedi ei gwaredu wedi hyny; ond nid yw rhif yr holl rai a waredwyd o'r dechreuad hyd yn bresenol ond dyrnaid bychan mewn cymhariaeth i'r rhifedi a ddygir i ogoniant yn y dyfodol.

Mae adeiladu un bwthyn bychan yn fwy o gampwaith nag a fyddai llosgi holl dai a dinasoedd cred; ac y mae rhoddi bywyd i un ymrwyfyn yn y llwch, yn fwy gorchest nag a fyddai lladd holl fywiolion gwlad; adeiladu a rhoi bywyd y mae y cyfamod gras i ddynion a gollasant eu bywyd, ac a warchaeasid i fyny gan farwolaeth.

Methodd y cyfamod cyntaf a diogelu parhad bywyd y cynrychiolwr oedd eisoes yn y meddiant o fywyd; ond y mae y cyfamod a osodwyd i fyny wedi y cwymp yn effeithiol i godi tyrfa na rifir byth o waelodion dyfnion ceunentydd duon llygredigaeth a thrueni, i dir uchel, goleu, diogel, a dedwydd iachawdwriaeth dragwyddol; a bydd yr holl glod am hyny yn cael ei roddi am byth gan yr holl waredigion i'r Duwdod, y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan.

Ni chwanegir heddyw. Daw prawf a chyfrifoldeb dyn fel deiliad y cyfamod gras dan ein sylw y tro nesaf.

**Bala, Rhagfyr 23ain, 1873. (Yr ail Ddarlith wedi fy nyfod i'r Bala).**

## DYN YN GYFRIFOL, AC MEWN SEFYLLFA O BRAWF.

*Darlith XIX.*

MAE teimlad dwfn o gyfrifoldeb dyn i Dduw am ei holl ymddygiadau, yn gorwedd yn wastadol yn ei fynwes. Mae ei gydwybod yn dwyn tystiolaeth i'w gyfrifoldeb bob amser, oddieithr fod dyn, trwy fywyd o annuwioldeb, wedi ei serio a dystewi ei llais; ac, er hyny, y mae adegau ar fywyd dyn anystyriol iawn y *myn* ei gydwybod gael gwrandawiad. Mewn gair, y mae cyfrifoldeb dyn wedi ei ysgrifenu â bys y Creawdwr yn ei natur ysbrydol. Mae efe yn teimlo ei fod yn gyfrifol. Er ceisio ysgwyd ymaith ei gyfrifoldeb oddiwrtho, y mae yn methu llwyddo i wneuthur hyny. Y mae y syniad ei fod yn gyfrifol yn mynu trigo yn ei enaid, er gwaethaf pob ymegnïad i ymryddhau oddiwrtho.

I *Dduw* yn *benaf* y mae dyn yn gyfrifol. Gwir yw ei fod yn gyfrifol i'w gyd-ddynion fel aelod mewn teulu, neu aelod mewn cymdeithas, neu ddeiliaid o lywodraeth wladol; ond, wedi y cyfan, Duw sydd wedi ordeinio i ddyn fod yn aelod o deulu, yn aelod o gymdeithas, ac yn ddeiliad o lywodraeth wladol; ac oddiwrtho ef yn benaf y daw y gorchymyn i ddyn iawn-ymddwyn yn y gwahanol gysylltiadau yn mha rai y gosodwyd ef.

Y mae yr ymwybodolrwydd o gyfrifoldeb dynion i Dduw yn

ymwthio i'r golwg mewn llawer dull, ac weithiau bron yn ddiarwybod iddynt hwy eu hunain, megys—

1. Pan fo dyn yn dyoddef cam oddiwrth ei gyd-ddyn, ac yn dymuno i Dduw dalu y pwyth i'r hwn sydd yn gwneuthur y cam. Gall y fath ddymuniad fod yn annuwiol yn ei natur, ac yn gyffredinol y mae felly; oblegid nid dymuno i Dduw gosbi gwneuthurwr y cam a ddylai yr hwn sydd yn cael y cam; ond dymuno i Dduw ei ddwyn i weled drygedd ei ymddygiad, a'i ddwyn i edifeirwch, fel y caffo faddeuant; ond er hyny, mae y fath ddymuniad yn ddangosiad amlwg o'r syniad cyffredinol sydd mewn dynion fod Duw yn barnu trigolion y byd, a bod dynolryw yn gyfrifol i'w orsedd ef am eu hymddygiadau.

2. Gwelir yr un syniad o gyfrifoldeb i Dduw yn dyfod i'r golwg yn yr apeliadau a wneir at Dduw trwy lwon gan baganiaid yn gystal ag Iuddewon a Christionogion mewn llysoedd gwladol, ac ar achlysuron eraill. "Fel hyn y gwnelo y duwiau i mi, ac fel hyn y chwanegont, oni wnaf erbyn y pryd hwn yfory dy einioes di megys einioes un o honynt hwy," meddai y baganes Jezebel wrth Elias y prophwyd, wedi iddo ladd prophwydi Baal. Apeliad at eilun-dduw, neu at y gwir Dduw, am sicrwydd yr hyn a ddywedir, neu uniondeb yr hyn a wneir ydyw llwon; ac y mae yr apeliad yn golygu fod yr hwn yr apelir ato yn meddu hawl a gallu i alw dynion i gyfrif am eu hymddygiadau.

3. Pan fo gwlad yn cael ymosod arni trwy ryfel, ac yn cael ei gorthrymu gan wlad arall, mae y blaid wanaf, yn gyffredin, o'r hen amseroedd hyd y dyddiau presenol, yn apelio at Dduw am uniondeb eu hachos, a chyfiawnder eu hunanamddiffyniad; a phan y byddo y teimlad o'u plaid yn gryf, y mae y fyddin a'i meddo bron yn anorchfygol, megys yr eiddo Oliver Cromwell, neu George Washington. Mae y darlithydd heddyw yn gadael y pwnc o gyfiawnder rhyfel amddiffynol heb ei gyffwrdd. Y peth a etyb ei amcan ef ydyw y dangosiad a rydd yn fynych o'r syniad dwfn sydd yn mysg llywodraethwyr gwledydd ac arweinwyr byddinoedd y rhai a orthrymir, o'r ffaith fod gallu sydd uwchlaw gallu dynol yn llywodraethu y byd, a bod dynion yn gyfrifol i'r gallu hwnw am eu hymddygiadau tuag at eu gilydd.

4. Mae dyn, yn naturiol, yn condemnio ac yn ffieiddio y neb a geisio ganddo ef wneud cam â'i gyd-ddyn drwy wneud peth y tystia ei gydwybod nad yw yn gyfiawn, neu beidio gwneud yr hyn a ddylai wneud. Gallai mai cydsynio â'r demtasiwn a wna y dyn trwy lygredd ei galon; ond er iddo gydsynio, efe a ffieiddia y temtiwr, ac ni ymddirieda ynddo mwyach. Dengys hyn eto fod gan ddynion, yn naturiol, ymsyniaeth o'u cyfrifoldeb i'r Goruchaf.

5. Mae yr ymwybodolrwydd o gyfrifoldeb hefyd yn dyfod i'r golwg yn yr edmygedd a deimlir yn gyffredinol o nodweddiad cyffeswyr a safasant yn ddigryn dros y gwirionedd, neu, o leiaf, yr hyn a gredent hwy sydd yn wirionedd, a'r merthyron a roddasant eu heinioes i lawr dros egwyddorion gwir grefydd. Gwir yw y gall dyn

roddi hyd yn nod ei einioes i lawr dros yr hyn nad yw wirionedd, er ei fod ef yn credu yn ei bwysfawredd a'i ddilysrwydd; ond y mae math o edmygedd yn meddyliau dynion o wroldeb a chydwybodolrwydd hyd yn nod dyn felly. Ond y foment y credir fod dyn yn myned yn ferthyr, er mwyn hynodrwydd neu hunanglod, mae yr edmygedd yn llwyr ddiflanu, ac anghymeradwyaeth yn dyfod i fewn yn ei le. Dengys hyn oll y syniad gwreiddiol sydd gan ddynion am bwysigrwydd gwirionedd a chyfiawnder, a bod dyn yn y pen draw yn gyfrifol i Dduw am ei ymddygiadau oll.

6. Mae y Beibl i gyd, yr Hen Destament a'r Newydd, yn dal allan yn eglur fod dyn yn gyfrifol i Dduw am ei holl feddyliau, ei eiriau, a'i weithredoedd. Gofyna Duw ei galon, ei *holl* galon, ei holl enaid, ei holl nerth, ac am ei holl amser, i'w wasanaethu ef, fel deiliad deddf ac efengyl. Mae hyny mor amlwg fel nad oes angen ymhelaethu arno.

Ymofyniad pur naturiol ydyw, Ar ba beth neu bethau y mae cyfrifoldeb dyn yn seiliedig? Paham y gelwir dyn i gyfrif gan yr Arglwydd, ac y tâl efe iddo yn ol ei ymddygiadau? Gellir ateb y gofynion yna a'u cyffelyb mewn ychydig o eiriau.

1. Un maen yn sylfaen cyfrifoldeb dyn ydyw, ei berthynas ef â Duw fel ei greadur—Duw a'i gwnaeth, ac efe a'i pïa. Efe yw meddianydd nefoedd a daear, a'r oll a gynwysant. Ei bobl ef ydym ni. "Yr holl eneidiau eiddof fi ydynt, fel enaid y tad, felly hefyd enaid y mab," medd yr Arglwydd.

2. Mae dyn yn hollol ymddibynol ar Dduw am bob daioni. Efe sydd yn rhoddi i ni fywyd ac anadl, a phob peth oll. "Ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod." "Defaid ei borfa" ef ydym ni. "Y Duw a'm porthodd er pan ydwyf hyd yr awr hon," medd Jacob. "Pa beth sydd genym a'r nas derbyniasom oddiwrtho ef?"

3. Y cyneddfau, neu y galluoedd eneidiol â pha rai y cynysgaeddodd Duw ef. Wrth ddywedyd cyneddfau, ni olygir fod y cyfryw yn rhanau neu yn aelodau yn yr enaid. Pell ydym o feddwl eu bod felly: ond pob cymhwysder a gallu a roddodd Duw i ddyn i fod yn weithredydd moesol yn ei lywodraeth ef.

4. Y moddion drwy ba rai yr amlygir bodolaeth ac ewyllys Duw i ddyn, cynwys y moddion hyn yr holl gyfryngau a ddefnyddia y Goruchaf i amlygu ei hunan i ddynion, a'u dyledswyddau hwythau tuag ato ef a thuag at eu gilydd, pa un bynag ai drwy natur a'i deddfau, rhagluniaeth a'i manylder, y ddeddf foesol a deddfau pendant, neu drwy efengyl ein Harglwydd Iesu Grist.

5. Y perffaith ryddid sydd gan ddyn i ddewis ac ymddwyn fel y myno dan bob amgylchiadau fel gweithredydd moesol.

6. Yn olaf: Yr egwyddor fawr a blanodd y Crëwr yn natur dyn i ymofyn am ddedwyddwch yn yr oll a wna, fel mai megys daioni y dewisa bob peth. Nis gall ddewis fel drwg, ond fel daioni tybiedig, pa un bynag a fo felly ai na fyddo. Pwy a ddengys i ni ddaioni, a llwyddiant, a chyfoeth, a llawenydd, ydyw llais dynol-

ryw yn eu holl gynlluniau a'u hanturiaethau, ac nid pwy a ddengys i ni ddrygioni, ac aflwyddiant, a thlodi, a thristwch, a marwolaeth. Gall fod y ffyrdd a ddewisa dynion yn arwain i ddrwg, ac aflwydd, a gwarth, ond nid fel y cyfryw y maent hwy yn eu dewis.

Dyna seiliau cyfrifoldeb. Y mae pawb a'u medd yn gyfrifol i Dduw. Wrth sylwi ar y pethau hyn, gwelir yn eglur na all babanod, cyn i'w cyneddfau ddadblygu, fod yn gyfrifol; na dynion mewn oed fyddont yn amddifaid, o'u genedigaeth, o alluoedd eneidiol, na gwallgofiaid; ac felly, y mae ar y ddaear lawer o bobl nad ydynt yn gyfrifol, er eu bod yn eiddo Duw, ac yn byw arno. Y mae yn ddigon eglur hefyd fod amrywiaeth mawr yn nghyfrifoldeb dynion. Er fod pawb yn gydwastad fel creaduriaid Duw, ac fel rhai ymddibynol arno ef, eto, y mae llawer o amrywiaeth yn y galluoedd a roddwyd i ddynion, a'r moddion moesol a fwynhant; a rhaid fod amrywiaeth cyfatebol yn eu cyfrifoldeb. Rhoddodd y Goruchaf bum' talent i un, dwy i'r llall, ac un i'r trydydd; a gofyn pob un *fel* y derbyniodd o'i law y mae efe. Gofyna y rhai na feddant yr Ysgrythyrau, yn wyneb natur a Rhagluniaeth—yr Iuddew pan oedd dan yr hen gyfamod, yn wyneb natur, Rhagluniaeth ac Ysgrythyrau yr Hen Destament—a deiliaid yr oruchwyliaeth hon, yn wyneb natur, Rhagluniaeth, y ddeddf, a'r efengyl. Daw yr amser a gafodd dynion i fwynhau eu rhagorfreintiau, yr iechyd, a'r cyfleusderau a fwynhawyd ganddynt, i gyd i mewn i'r cyfrif a wneir â hwynt. Byddant yn gyfrifol nid yn unig yn wyneb y pethau a fwynheir ganddynt, ond am esgeuluso pethau eraill y gallasent eu mwynhau, pe buasent yn ewyllysio, ac yn ceisio hyny.

Mae dyn yn gyfrifol am egwyddorion a meddyliau ei galon. Mae yr Arglwydd yn gofyn y galon—yr holl ddyn oddimewn. Gofyna y tafod am burdeb mewn geiriau ac ymadroddion. Gofyna ufudd-dod yn yr holl ymarweddiad, ac nid ufudd-dod hanerog, ond un perffaith, a ofyna deddf ac efengyl Duw gan ddynion; ond gall Duw dderbyn ufudd-dod anmherffaith yn gymeradwy yn haeddiant Iesu Grist.

Wrth fyfyrio ar gyfrifoldeb dyn, mae yn eglur fod *terfynau* i'w gyfrifoldeb.

1. Nid yw dyn yn gyfrifol am yr hyn nad oes ganddo allu naturiol i'w gyflawni. Wrth *allu* yn y fan hon yr wyf yn deall cyneddfau eneidiol addas, moddion cymhwys, a rhyddid i'w defnyddio i ddwyn unrhyw amcan i ben. Nid yw Duw yn gosod ar ddyn fwy nag a haeddo, fel y gallo fyned i gyfraith âg ef. Os yw yr Arglwydd yn gofyn i ddyn gadw ei gyfraith ef, rhaid fod gan ddyn allu i'w chadw; ac os gofyna efe iddo gredu yr efengyl, rhaid, o ganlyniad, fod dyn yn meddu gallu i gredu yr efengyl. Mae cyfrifoldeb dyn yn terfynu yn y fan y terfyna ei allu i gyflawni yr hyn a orchymyna Duw iddo. Gwyddom fod tueddfryd yn y meddwl i gydymffurfio âg ewyllys Duw yn cael ei alw yn *allu*, a diffyg tueddfryd yn cael ei alw yn *analluu;* ond gelwir tueddfryd yn allu, a diffyg tuedd yn anallu, oblegid tlodi iaith, a'r anhawsderau a deimlir i gael termau priodol i osod amryw o ddelweddau a sefyllfaoedd y meddwl allan. Dyma ddyn

mewn dyled i'w gymydog. Y mae ganddo fodd i dalu. Gelwir hyny yn allu naturiol i gyfarfod ei ofynwr, a hyny yn eithaf priodol. Ond mae y dyn yn hollol anfoddlon i dalu, a gelwir hyny yn anallu, yn anmhriodol ddigon, fel yr ymddengys yn eglur. Ond os na fydd ganddo *fodd* i dalu, gelwir y diffyg *modd* yna yn ddigon priodol yn anallu; os bydd ewyllys a thuedd i dalu, er na fedd nac arian na meddianau i gyfarfod ei ofynwr, dywedir ei fod yn alluog, mewn ystyr foesol, i dalu, ond yn analluog mewn ystyr naturiol. Dengys hyn, a phethau cyffelyb, fod y termau a arferir yn fynych yn ein plith yn gofyn eu hadolygu a'u diwygio; ond fel rheol gyffredinol, eglur yw fod cyfrifoldeb dyn yr un hyd a'r un led a'r cyneddfau eneidiol y cynysgaeddwyd ef â hwynt—y moddion sydd o fewn ei gyrhaedd i wneuthur ewyllys yr Arglwydd, a'r rhyddid y mae efe yn fwynhau i ddefnyddio y cyneddfau a'r moddion hyny.

2. Nid yw dyn chwaith yn gyfrifol am ganlyniadau, llwyddiant, neu aflwyddiant ei ymdrechion i wneuthur daioni. Gallai Noah neu Jeremiah fod yn dra aflwyddianus fel pregethwyr; ond nid oeddynt hwy yn gyfrifol ond am ddefnyddio y moddion oedd ganddynt yn gyflawn a gonest tuag at ddychwelyd y bobl at yr Arglwydd. Er na buont hwy lwyddianus yn hyny; eto, nid oeddynt gyfrifol am y methiant, ac yr oeddynt yn lan oddiwrth waed pawb oll. O'r ochr arall, ymddengys i mi nad yw Adda yn gyfrifol am yr holl gamweddau a gyflawnwyd drwy yr oesoedd gan ei had. Yr wyf yn nodi Adda, yn neillduol, oblegid fod ei gamwedd ef wedi effeithio mwy ar ddynion eraill nag unrhyw gamwedd arall a gyflawnwyd. Am dori cyfamod Eden, yr oedd efe yn gyfrifol, a hyny pan yn gwybod beth fyddai y canlyniadau, ac yn berffaith wirfoddol. Yn y camweddau dilynol, daeth gweithredwyr eraill i mewn, y rhai oeddynt mor wirfoddol ag yntau yn eu camweddau, ac yn gyfrifol am eu hymddygiadau. Am ei gamwedd ei hun, yn yr oll ag ydyw, o ran ei natur, ei amgylchiadau, a'i duedd ddinystriol, y mae dyn yn gyfrifol, ac nid am bob peth a wneir gan eraill, pa rai oedd heb eu geni, lawer o honynt, o leiaf, pan oedd y camweddwr ar y ddaear. "Pob un drosto ei hun a rydd gyfrif i Dduw;" pe amgen, ni fyddai neb yn y byd ond Adda yn gyfrifol.

3. Mae ein rhwymedigaeth i'n cyd-ddynion yn fynych yn effeithio ar ein cyfrifoldeb yn ein dyledswyddau tuag at Dduw. Dywed Iesu Grist, "Gan hyny, os dygi dy rodd i'r allor, ac yno ddyfod i'th gof fod gan dy frawd ddim yn dy erbyn, gad yno dy rodd gerbron yr allor, a dos ymaith; yn gyntaf, cymoder di â'th frawd, ac yna tyred ac offrwm dy rodd." Yr oedd aberthu dros bechod yn ddyledswydd gyffredinol ar droseddwyr yr hen gyfamod; ond os byddai dyn yn analluog i gael aberth mewn ffordd onest i'w ddwyn yn mlaen, yr oedd, yn ddiau, yn rhydd oddiwrth y ddyledswydd, oblegid y mae Duw yn casâu trais yn boethoffrwm. Ni fynai yr Arglwydd iddo ladrata aberth i'w allor ef. O'r ochr arall, mae dyledswyddau dynion tuag at Dduw yn fynych yn terfynu eu rhwymedigaethau i ddynion. Er y dylai Cristionogion ufuddhau i'r awdurdodau gwladol, fel rheol

gyffredinol; eto, gall amgylchiadau gyfodi yn mha rai y bydd anufudd-dod yn rhinwedd, yn enwedig pan elont i ymyraeth â chrefydd; yna, "Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion."

4. Mae yn eglur eto, na ddylem ni argymhell dynion i gyflawni pethau sydd yn dda ynddynt eu hunain, oddiar au-gymhellion, megys cymhell dynion i fod yn haelionus at y Feibl Gymdeithas, yn unig oblegid y bydd hyny yn ychwanegu eu parch a'u clod yn mysg eu cyd-ddynion; neu i wneud cyfiawnder âg eraill, yn unig ar yr egwyddor o esmwythder personol iddynt hwy eu hunain, fel y barnwr anghyfiawn, yr hwn ni farnai achos y wraig weddw, oblegid fod hyny yn iawn ynddo ei hunan, ac yn degwch tuag at y weddw a'i gorthrymwr, ond a wnaeth hyny (yn ol y ddameg), fel y caffai efe ei hun lonydd, ac esmwythder gan yr hon a orthrymid. Rhoddi iddo ei hun y mae y cyntaf. Prynu ei glod y mae, ac y mae yn derbyn ei wobr. A barnu iddo ei hun y mae yr ail, ac y mae yntau yn derbyn yr esmwythder a geisiai. Ofer i'r fath ddynion edrych at Dduw am wobr eu gwaith.

Gellid ychwanegu sylwadau eraill lawer i ddangos fod cyfrifoldeb dyn yn cael ei lywodraethu, a'i helaethu, a'i derfynu hefyd gan luaws o bethau yn ychwanegol; ond gwasanaetha y pethau a nodwyd i agor dorau o flaen eich meddyliau chwi, a'm meddwl inau, i'n tywys i faes toreithiog dros ben, ar ba un y gallwn ni lafurio gyda hyfrydwch, llwyddiant, a budd dirfawr yn y dyfodol, os caniateir i ni estyniad dyddiau ar y ddaear.

Oddiwrth y sylwadau hyn, ni a welwn—1. Fod gofynion Duw oddiwrth ddynion yn berffaith resymol a theg. Gofyn dyn fel y *mae* y mae'r Arglwydd. Mae adeilad fawr cyfrifoldeb wedi ei chyfodi yn deg ar y sylfaen a osododd Duw i lawr, nid yw na chulach na lletach na'r sylfaen, ond yn cyfateb iddi yn mhob peth.

2. Gwelwn fod *tuedd* i wneuthur ewyllys Duw allan o'r cwestiwn mewn pwnc o gyfrifoldeb. Cyneddfau, moddion, a rhyddid yw y meini mawr yn sylfaen cyfrifoldeb dyn. Pe byddai tuedd i ufuddhau yn sylfaen cyfrifoldeb, yna byddai dyn diduedd i ufudd-dod yn rhydd; a'r mwyaf diduedd fyddai y pellaf oddiwrth rwymau i ufuddhau, a Satan fyddai y lleiaf ei bechod o holl bechaduriaid y greadigaeth, oblegid ei fod ef y mwyaf annhueddol i roddi parch ac ufudd-dod i ewyllys yr Arglwydd. Mae y mater hwn yn un pwysig dros ben, a dylai gael ei fyfyrio yn dda; oblegid y mae yn bwnc sydd yn dyfod i'r golwg o hyd yn nghyflawniad y weinidogaeth, yn gystal ag yn ein llysoedd isel ac uchel yn y wladwriaeth.

3. Er fod gwaith Duw yn crëu dyn yn fôd rhesymol, ac yn ei gynysgaeddu â galluoedd eneidiol, ac yn ei gylchynu â moddion moesol, gan ei ffurfio yn rhyddewyllysiwr at ei ddewisiad ef ei hun yn *wreiddiol*, ac nad oedd gan y creadur unrhyw hawl i gael ei grëu yn fôd rhesymol a rhydd felly (oblegid pa fodd y gallasai y creadur hawlio dim cyn iddo fodoli i hòni hawl); eto, wrth ei ystyried fel creadur *cyfrifol*, y mae ganddo *fath* o hawl ar y Crëwr am yr holl

bethau sydd yn cyfansoddi sylfaen ei gyfrifoldeb, fel y sylwa Dr. Williams a Dr. Payne, a duwinyddion deallus a goleuedig ar y mater hwn; ond nid oes gan ddyn hawl ar duedd i ufuddhau, nac ar unrhyw ddylanwad dwyfol a gynyrcha y fath dueddfryd, yn mhellach na dylanwad y moddion moesol a fwynha fel deiliad rhydd a chyfrifol i lywodraeth y Goruchaf.

4. Y mae dynion yn rhwym o ufuddhau i Dduw fel deiliaid deddf a deiliaid galwadau yr efengyl; a dylent gofleidio pob peth a gynygir iddynt yn nhrefn iachawdwriaeth. Pa dystiolaeth bynag a roddir ger eu bronau, pa addewidion bynag a wneir iddynt, a pha ragorfreintiau bynag a roddir at eu dewisiad, y maent dan y rhwymau cryfaf a ddichon fod i dderbyn a chofleidio y cyfan ar awdurdod y Brenin mawr, fel eu cyfiawn Lywydd. Nid oes ganddynt unrhyw hawl i droi eirchion y Goruchaf draw; ac os byddant mor anystyriol a gwneud, y mae gallu tragwyddol yn llaw yr Arglwydd i'w dwyn i gyfrif am hyny, ac i afael cosb gyfiawn fel dirmygwyr ei gyfraith a'i efengyl ogoneddus ef.

5. Ymddengys yn mhellach, y bydd creaduriaid rhesymol yn gyfrifol i Dduw yn y nefoedd, ac yn uffern hefyd dros byth. Nid oes dim a all eu rhyddhau oddiwrth eu dyledswyddau tuag at Dduw fel eu Llywydd cyfiawn, a thuag at eu gilydd fel deiliaid ei lywodraeth foesol ef, ond difodaeth, neu ynte ryw gyfnewidiad ar eu galluoedd a ddinystria seiliau eu cyfrifoldeb. Nid oes y sail wanaf i feddwl y cymer na'r naill na'r llall le yn dragywydd; a'r casgliad teg ydyw, y bydd creaduriaid rhesymol yn gyfrifol i Dduw yn oes oesoedd.

## DYN MEWN SEFYLLFA O BRAWF.

### *Darlith XX.*

Yn y Ddarlith ddiweddaf, gwnaethom rai sylwadau ar Gyfrifoldeb dyn; sef yr awgrymiadau a'r profion sydd genym o'i gyfrifoldeb, seiliau a therfynau ei gyfrifoldeb. Heddyw y mater gaiff fod dan ein sylw ydyw—*Fod dyn mewn sefyllfa o brawf* yn wyneb yr holl fanteision sydd ganddo i wybod a gwneuthur ewyllys ei Greawdwr a'i gyfiawn Lywydd. Gwelir yn union fod y mater hwn yn dal perthynas agos â chyfrifoldeb dyn i Dduw; yn wir, mae yn anhawdd iawn i ni allu gweled pa fodd y gall dyn fod yn gyfrifol heb fod mewn *math* o sefyllfa o brawf.

Wrth ddywedyd fod dyn yn y byd hwn ar ei *brawf,* meddwl yr ydym: 1. Fod manteision ac anfanteision, enillion a cholledion, dedwyddwch ac annedwyddwch, bendith a melldith, yn cael eu gosod yn deg o'i flaen yn natur, rhagluniaeth, a gair yr Arglwydd. 2. Y gall dyn, drwy ei ymddygiadau doeth neu annoeth tuag at y pethau a osodir felly o'i flaen, sicrhau ei leshad a'i ddedwyddwch ei hunan i raddau

helaeth yn y byd hwn. 3. Fod bywyd tragwyddol dyn, neu ei golledigaeth dragwyddol, yn ymddibynu ar ei ymddygiadau tuag at drefn fawr yr iachawdwriaeth. Dyna yn fyr a olygir wrth ddywedyd—Fod dyn yn y byd hwn mewn sefyllfa o brawf.

Gwir yw fod dau brawf *mawr* y natur ddynol wedi myned heibio. Dau brawf drwy *gynrychiolaeth* oedd y rhai hyny. Yn y profion hyny, y dyn cyntaf a'r ail ddyn oedd yn sefyll yn gyfrifol i'r orsedd dros eraill; ond yn y prawf sydd ar ddynion yn bresenol, y mae pob dyn yn sefyll drosto ei hun yn y prif bethau y profir ef ynddynt.

Bu gwrthwynebiad mawr flynyddau yn ol i'r *term* sefyllfa o brawf, ac i'r syniad cynwysedig ynddo, sef fod ar law dyn, os myn, sicrhau ei ddedwyddwch ei hunan am amser ac am dragwyddoldeb, ond yn ofer hollol y gwrthwynebid y *term* a'r syniad a gynwysa. Mae y naill a'r llall wedi sefyll eu tir yn ddisigl, a safant felly hefyd yn y dyfodol. Ni ddygodd neb yn mlaen unrhyw *derm* gwell i osod y meddwl allan na sefyllfa o brawf. Pe llwyddid i wneud hyny, ni fyddai genym y gwrthwynebiad lleiaf i roddi hwn o'r neilldu, ac i gofleidio hwnw. Ond y mae un peth pur gryf o blaid yr un a arferir genym: y mae yn ysgrythyrol. Gwyr pob darllenydd manwl o'r Beibl fod Israel yn eu taith o'r Aipht i Ganaan yn cael eu harwain oddiamgylch yn yr anialwch er eu *profi*. I'w *profi* yr arweiniodd Moses hwy at ddyfroedd chwerwon Marah. Yno y gwnaeth Duw "ddeddf a chyfraith, ac yno y *profodd* efe hwynt," Exod. xv. 25. Yr oedd yr Arglwydd yn gwlawio arnynt fara o'r nefoedd, "fel y gallwyf eu *profi*, a rodiant yn fy nghyfraith ai nis gwnant," Exod. xvi. 4. Felly cyhoeddiad y gyfraith ar Sinai, Exod. xx. 20: "I'ch *profi* chwi y daeth Duw, ac i fod ei ofn ef ger eich bronau, fel na phechech." "Cofia yr holl ffordd yr arweiniodd yr Arglwydd dy Dduw di ynddi y deugain mlynedd hyn, drwy yr anialwch, er mwyn dy gystuddio di, gan dy *brofi*, i wybod yr hyn oedd yn dy galon, a gedwit ti ei orchymynion ef, ai nas cedwit," Deut. viii. 2. Yr oedd Duw yn goddef gau-brophwydi i gyfodi yn mysg Israel, er eu *profi*: "Canys yr Arglwydd eich Duw sydd yn eich *profi* chwi, i wybod a ydych yn caru yr Arglwydd eich Duw â'ch holl galon, ac â'ch holl enaid," Deut. xiii. 3. Wrth adael y gwersyll, dywed Moses bethau wrth y bobl sydd yn dangos yn eglur eu bod mewn *sefyllfa o brawf* gwel Deut. xxx. 15—20: "Wele, rhoddais o'th flaen heddyw einioes a daioni, ac angeu a drygioni," &c. Dyma brawf eglur fod Israel mewn sefyllfa o brawf. Yr oedd gweddill o'r Canaaneaid wedi eu gadael yn y wlad, "I *brofi* Israel trwyddynt hwy, a gadwent hwy ffordd yr Arglwydd, gan rodio ynddi, fel y cadwodd eu tadau hwynt, neu beidio," Barn. ii. 22; gwel hefyd pen. iii. 1—4. Gwyddom ddarfod i'r Arglwydd adael Hezeciah yn achos neges cenadau brenin Babilon, "i'w *brofi* ef, i wybod y cwbl ag oedd yn ei galon," 2 Cron. xxxii. 31. Ac yn moreu oes y byd bu i Dduw *brofi* Abraham yn achos offrymiad Isaac ei fab. "Wedi iddo fy *mhrofi*," meddai Job, "mi a ddeuaf allan fel aur," Job xxiii. 10. Ar ei brawf y mae dyn o

hyd, fel deiliad pob goruchwyliaeth a osododd Duw i fyny erioed. Mae dyn ar ei brawf yn wyneb deddfau cyffredin natur. Os parcha efe y deddfau hyn, byddant yn amddiffynyddion cedyrn iddo. Caiff lawer o fanteision ar dir ufudd-dod, mewn iechyd, diogelwch, a llwyddiant mewn pethau tymhorol; ond, o'r ochr arall, os eu dibrisio a'u hanmharchu a wna, heb dalu gwarogaeth i'w hawdurdod, caiff ei gosbi, mewn llawer ffordd, yn ddiarbed hefyd. Bydd, ar dir ufudd-dod, yn enillwr meddyliol; ac ar dir anufudd-dod, bydd yn golledwr yn yr ystyr hòno hefyd.

Mae yr un mor eglur eto fod dynion ar eu prawf yn wyneb lluaws o amgylchiadau rhagluniaethol. Mae manteision ac anfanteision o flaen dynion yn barhaus; trwy ddefnyddio moddion priodol gyda diwydrwydd ac egni, gall dyn sicrhau iddo ei hun ac eraill fanteision lluosog; ond drwy seguryd a diofalwch, bydd dyn yn golledwr mawr. Mae llwyddiant ac aflwyddiant dynion wedi ei roddi, i raddau helaeth, yn eu dwylaw eu hunain. Llaw y diwyd, fel rheol gyffredin, sydd yn cyfoethogi. Ar lafur, ac nid ar ddiofalwch, y mae dwyfol Ragluniaeth yn gwenu. Y mae gan Solomon lawer o wersi ar y mater hwn yn Llyfr y Diarhebion. Y mae daioni a drygioni o flaen dyn bob dydd —llwyddiant ac aflwyddiant yn gwynebu arno yn barhaus. Fel aelod o deulu, drwy gydymffurfio â rheolau uniondeb ac ymarweddiad rhinweddol, gall enill iddo ei hunan ac eraill fanteision, a chysur, a dedwyddwch lawer; ac o'r ochr arall, gall, drwy ymarweddiad direol, ddifuddio ei hunan ac eraill yn ddirfawr, a cholli lluaws o fanteision, gan amddifadu ei hun a hwythau o lawer o gysur a heddwch. Felly, y mae dyn mewn sefyllfa o brawf fel aelod o deulu. Ac eto, os gall dyn enill manteision drwy fod yn gymydog da, a cholli llawer o ddiogelwch a chysur drwy fod yn gymydog diwerth; ac os yw ei fanteision a'i anfanteision yn troi, i raddau helaeth, ar ei ymddygiadau ef ei hun, rhaid ei fod mewn sefyllfa o brawf fel cymydog.

Gellir dywedyd yn gyffelyb am ddyn fel celfyddydwr, fel masnachwr, fel deiliad o lywodraeth wladol; ac y mae yn berffaith eglur fod dynion mewn sefyllfa o brawf yn wyneb y moddion y gallant eu defnyddio i sicrhau eu gwir leshad yn y gwahanol gysylltiadau hyn. Mae dyn yn ddeiliad deddf foesol, a gorchymynion pendant llywodraeth foesol Duw, ac y mae yn gyfrifol i'w gyfiawn Lywydd am ei holl ymddygiadau fel deiliad llywodraeth y Goruchaf. Ar dir ufudd-dod, gall sicrhau iddo ei hunan lawer iawn o fanteision gwerthfawr; ond os byw yn anufudd a wna, a mathru y gorchymynion dan ei draed, caiff ei gosbi, yn ddiau, ac nid oes modd dianc rhag melldith y ddeddf, a mathru y gorchymynion, a gwrthryfela yn erbyn y llywodraeth. Mae llywodraeth y Goruchaf yn eang, ac yn cynwys pob cylch ag y dichon dynion ei lenwi; awdurdod y llywodraeth hòno—ei gwobrau a'i chosbau, yw y gallu sydd yn rhwymo dyn i ufuddhau yn mhob cylch mewn bywyd. Gall aelod eglwysig ddywedyd ynddo ei hun, Os byddaf fi yn ffyddlon yn y cylch pwysig yr wyf fi yn troi

ynddo, caf, nid yn unig gymeradwyaeth fy nghydwybod a'm cydaelodau, ond cymeradwyaeth y Brenin mawr ei hunan; ac o'r ochr arall, os byddaf yn ddiofal ac anffyddlawn, collaf ymddiriedaeth dynion da, syrthiaf dan gondemniad fy nghydwybod, a than wg a soriant y Goruchaf. Yr un modd y gall pregethwr ddywedyd, Os byddaf fi yn ffyddlon a llafurus, gallaf wneud gwasanaeth o dipyn o werth i deyrnas y Gwaredwr, drwy fendith Duw ar fy llafur; cadwaf yn fy mynwes gydwybod dda, a chymeradwyir fy ngwaith gan y Barnwr cyfiawn, pan adolygir y cyfan oll. O'r ochr arall, gwae fydd i mi oni phregethaf yr efengyl yn ei phurdeb a'i symledd i bechaduriaid. Nid yw yr hwn a roddo ei law ar yr aradr, ac a edrycho ar y pethau sydd o'i ol, yn gymhwys i deyrnas Dduw ar y ddaear, nac yn y nefoedd chwaith. Yn awr, os oes gan yr aelod eglwysig, y diacon, yr athraw yn yr Ysgol Sul, a'r pregethwr fanteision i'w cyrhaeddyd drwy ffyddlondeb, diwydrwydd, a chydwybodolrwydd; ac o'r ochr arall, os syrthiant i afaelion gwarth, a cholled, a gwg yr Arglwydd drwy ddiofalwch, diffrwythder, ac anffyddlondeb, rhaid eu bod oll mewn sefyllfa o brawf yn eu gwahanol gylchoedd. Cynygiai dyn gynt am gael dyfod i'r gyfeillach grefyddol mewn addoldy yn Ngogledd Cymru. Dywedai rhyw hen flaenor "mai gwell, feallai, fyddai iddo gael dyfod yno ar ei brawf." "Purion," meddai hen weinidog ffraeth oedd yn y lle, "ar dy brawf yr wyt tithau hefyd yma, a minau, a phawb sydd yma yn gystal ag yntau, goeliaf fi;" ac yno y gadawyd y mater. Dygwyddodd hyny yn addoldy corff o bobl oeddynt yn wrthwynebwyr mawr ar y pryd i'r syniad, fod dyn mewn sefyllfa o brawf o gwbl, na bod yn bosibl iddo *fod,* ac mewn cyflwr colledig ar yr un pryd.

Yr ydym yn awr yn dyfod i ystyried y pwnc o sefyllfa o brawf mewn cysylltiad âg iachawdwriaeth dragwyddol dynion fel gwrandawyr a darllenwyr gwirioneddau yr efengyl.

Nis gall paganiaid fod mewn sefyllfa o brawf, ond mor bell ag y mae natur ynddynt hwy eu hunain, ac o'u hamgylch, a Rhagluniaeth ddwyfol yn eu *gosod* ar eu prawf. Nid ydym yn amheu chwaith na all penarglwyddiaethol ras Duw achub pagan fyddo yn ceisio rhagori mewn cyfiawnder, trugaredd, a doethineb, drwy Grist, er na chlywodd y pagan son am dano. Nid amheuwn, chwaith, na all dwyfol ras ddysgu pagan i fod yn gyfiawn, trugarog, a thirion, oddiar rai egwyddorion teilwng, o leiaf, er na fo yr Ysgrythyrau yn adnabyddus iddo. Ni synia neb meddylgar fod peth fel hyn yn milwrio yn erbyn anfon y Beibl a chenadon hedd at y paganiaid, mwy nag y mae goleuni y ganwyll yn y nos yn milwrio yn erbyn goleuni yr haul, pan gyfodo. Nid yw yr holl oleuni a ga pagan yn ei fynwes ei hunan, yn natur o'i amgylch, ac yn Rhagluniaeth Duw, ond fel goleu canwyll yn nghanol y ddunos; ond y mae llewyrch Cristionogaeth yn tywynu lle y byddo fel goleuni yr haul. Anfoner y moddion goreu i'r byd; ond na ddiystyrer moddion o natur îs. Yn awr, nid oes a fynom ni â phaganiaid, ond â thrigolion gwlad yr efengyl, y rhai sydd yn mwyn-

hau, yn ychwanegol at natur a rhagluniaeth, y moddion goreu a roddodd Duw i ddynion, sef Moses a'r prophwydi, yr efengylwyr a'r apostolion; neu, o leiaf, a allent eu mwynhau pe yr ewyllysient.

Dywedwn yn eofn, fod preswylwyr gwlad efengyl mewn sefyllfa o brawf yn wyneb yr efengyl, ac y gallant, os mynant, sicrhau eu tragwyddol iachawdwriaeth drwy dderbyn ac iawn ddefnyddio yr efengyl; neu, o'r ochr arall, y gallant, os hyny a ddewisant, ac os mynant hyny, esgeuluso gwrthod a chamddefnyddio trefn Duw i gadw pechaduriaid, ac felly, sicrhau eu tragwyddol golledigaeth. Felly y mae dedwyddwch bythol dyn, neu, o'r ochr arall, ei drueni tragwyddol, yn troi ar ei ymddygiadau ef ei hun mewn sefyllfa o brawf yn wyneb moddion iachawdwriaeth. Dyna y *trobwynt* ar ba un yr ymddibyna ei gyflwr am dragwyddoldeb. Ond gadewch i ni edrych a ellir PROFI hynyna. Y mae yn berffaith eglur yn y Beibl fod Duw yn caru y byd hwn â chariad anfeidrol: "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." Y mae pob esboniad a gynygiwyd ar y gair BYD yn yr adnod yna, heblaw yr un a gymer y gair yn ei ystyr eangaf, yn tori i lawr yn deg, ac yn arwain i lawer o anghysonderau. Nid yw yr Arglwydd yn ewyllysio bod *neb* yn golledig, ond dyfod o bawb i edifeirwch. "Yr hwn sydd yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig, a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd."

Gosodwyd Crist yn Iawn anfeidrol dros bechodau yr holl fyd, ac y mae efe, yn ei berson gogoneddus, ac yn ei ufudd-dod perffaith hyd angeu y groes, yn llenwi holl ofynion cyfiawnder dros y troseddwyr i gyd, fel y byddai Duw yn gyfiawn wrth gyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu. Mae ynddo ef bob cymhwysder i fod yn Waredwr addas a digonol i bob pechadur, beth bynag fyddo ei bechadurusrwydd. Mae Duw yn yr efengyl yn galw ar bob pechadur i droi ei wyneb at Grist am ei fywyd—mae yn gorchymyn i bob dyn yn mhob man edifarhau am ei feiau, a chredu yn yr hwn a anfonodd efe i'r byd i fod yn Iachawdwr *i'r byd.* Mae yn deisyf, yn anog, ac yn erfyn ar ddynion gymeryd gafael yn y bywyd tragwyddol, yr hwn a gynygir iddynt yn yr efengyl.

Mae yr holl fendithion ysbrydol sydd yn angenrheidiol i ddwyn oddiamgylch *holl* iachawdwriaeth dynion o fewn eu cyrhaedd, yn cael eu cynyg iddynt, ac yn cael eu rhoddi yn rhad i bawb sydd yn teimlo eu hangen o honynt, ac a lefo am danynt, drwy ffydd yn enw Iesu Grist.

Mae dyn yn *alluog* i gydymffurfio â'r telerau a esyd yr efengyl ger ei fron. Nid ydym i feddwl fod yr Arglwydd yn gofyn iddo wneuthur dim ond yr hyn y mae ganddo alluoedd naturiol i'w cyflawni, a moddion addas a digonol i'w ddwyn i ben—dim ond iddo ef eu defnyddio fel y gall ac y dylai wneuthur.

Mae pob peth yn rhwymo dyn i gydymffurfio âg ewyllys Duw yn mhwnc mawr ei iachawdwriaeth—pob peth yn ei natur ymddibynol

ef ei hun, y galluoedd a'r moddion sydd ganddo, a'r rhyddid a fwynha—pob peth o du cyfiawnder ac awdurdod gorsedd Duw. Fe ddylai gredu tystiolaeth Duw am ei Fab. Nid oes ganddo hawl i wrthod ei fywyd yn angeu y groes, er y *gall* wneud hyny, os myn ddystrywio ei hunan. Nid oes ganddo hawl i gerdded cam ar y ffordd lydan sydd yn arwain i ddinystr, er y gall wneud hyny yn yr ymarferiad o'i ryddid, i ymddwyn fel yr ewyllysia os myn. Mae ganddo fanteision a bendithion o annhraethol werth a bythol eu parhad, i'w cael i'w feddiant drwy ufudd-dod i ewyllys yr Arglwydd yn mater mawr ei gadwedigaeth, neu i'w colli byth ar dir anufudd-dod. Mae angeu ac einioes yn cael eu gosod yn deg ger ei fron, a phob anogaeth i ddewis yr einioes ac i ochel angeu, a bydd yn gyfrifol i Dduw yn y diwedd am ei holl ymddygiadau at drefn yr iachawdwriaeth drwy Iesu Grist; ac ymddygir ato gan y Barnwr cyfiawn yn union fel yr ymddyga efe at y drefn fawr hon.

Wrth ystyried y pethau hyn, a llawer o bethau eraill a allesid eu nodi, ymddengys yn eglur fod pawb yn ngwlad yr efengyl mewn sefyllfa o brawf yn ngwyneb trefn Duw i gadw pechaduriaid; a bod dedwyddwch tragwyddol y cyfryw, neu eu trueni tragwyddol, yn troi ar eu hymddygiadau hwy eu hunain at y drefn ogoneddus hon. Gwyddom y gwrthddadleuwyd llawer, ac y gwrthddadleuir eto, yn erbyn y syniad fod dyn yn awr mewn sefyllfa o brawf. Dywedir yn—

I. Na fedd dyn, fel y mae ei sefyllfa wedi y cwymp, allu i dd'od i fyny â'r telerau a osodir ger ei fron yn yr efengyl; ac felly, nas dichon fod mewn sefyllfa o brawf. Ystyriwn fod yr wrthddadl hon yn taflu sarhad mawr ar Dduw, oblegid gesyd allan fod yr Arglwydd yn gofyn gan ddyn beth na *all* efe ei wneuthur. Ond beth a olygir wrth y gair *gallu* yn yr wrthddadl? Wrth allu y dylid deall cyneddfau, moddion priodol, a rhyddid i ymddwyn fel y byddo dyn yn ewyllysio. Drwy droell-ymadrodd y gelwir parodrwydd ac ewyllysgarwch i wneud rhywbeth yn allu, ac anewyllysgarwch i wneud peth ag y medd dyn gyneddfau, moddion addas, a rhyddid i'w wneuthur yn anallu; ac erbyn i ni fanwl sylwi ar ystyr y gair *gallu* yn yr wrthddadl, y cwbl a olyga ydyw, anewyllysgarwch. Ond pa esgusawd dros beidio cydymffurfio âg ewyllys Duw ydyw fod dyn yn anewyllysgar i hyny? Dyna yr elfen dduaf a dyfnaf yn ei bechod. A oes rhywun a esgusoda gelwyddwr am ei fod yn tueddu i ddwyn camdystiolaeth? neu ddyn sydd a modd ganddo i dalu dyled oblegid ei fod yn anewyllysgar i wneud hyny? neu leidr am y myn ladrata, ei fod yn anewyllysgar i fyw yn onest? Nid ydym yn tybied; ac felly, nid oes gan undyn esgus am y pechod mawr o wrthod, ar y tir ei fod yn anewyllysgar i'w dderbyn.

II. Gwrthddadleuir, Na all dyn fod mewn sefyllfa o brawf ac mewn cyflwr colledig ar yr un pryd. Diau pe byddai y prawf y dadleuir drosto yn golygu fod dyn i weithio cyfiawnder iddo ei hunan i'w gyfiawnhau drwyddo gerbron Duw, ac i enill bywyd iddo ei hun drwy ei deilyngdod personol, byddai rhywbeth tebyg i rym yn y fath

wrthddadl. Ond y *peth* y profir dyn ynddo yn awr ydyw hyn, A dderbyn efe ei fywyd yn rhad drwy haeddiant y Gwaredwr, ai na wna? A gymer efe ei achub yn nhrefn Duw neu beidio? Mae prawf felly yn berffaith gyson â'r ffaith fod dyn mewn cyflwr colledig, ac nid oes neb ond y colledig o ran ei gyflwr a all fod mewn sefyllfa o brawf ar y tir manteisiol hwn. Bu Adda mewn sefyllfa o brawf ar dir diniweidrwydd, ond methodd a dal ei dir am na welodd yn oreu gadw gorchymyn yr Arglwydd. Ond ail gynyg am ei fywyd drwy Grist y mae dyn yn gael yn awr, ar y telerau esmwyth y bydd iddo ei dderbyn yn *rhodd* o law y Cyfryngwr.

III. Gwrthddadleuir drachefn, Fod dal fod dynion mewn sefyllfa o brawf yn anghyson â'r angenrheidrwydd am ddylanwadau yr Ysbryd Glan i ddychwelyd a santeiddio pechaduriaid. Gallai nad oes neb uniongred a amheua nad oedd Adda, pan ar ei brawf yn Eden, dan ddylanwadau Ysbryd yr Arglwydd, ac nad oes neb o'r cyfryw ychwaith a amheua nad oedd yr *ail* Adda, pan ar ei brawf, dan ddylanwadau yr Ysbryd Glan. "Nid wrth fesur yr oedd Duw yn rhoddi iddo ef yr Ysbryd." Felly y mae yn ffaith eglur fod dylanwad yr Ysbryd Glan yn gyson â sefyllfa prawf y ddau gynrychiolwr, ac ni welwn unrhyw reswm i gredu nad ydyw yn berffaith gyson â sefyllfa o brawf yn holl ddeiliaid goleuni yr efengyl, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Nid yw yr Ysbryd Glan yn rhoddi unrhyw allu newydd i ddyn, ond yn achosi tueddfryd ynddo i ddefnyddio y galluoedd sydd ganddo yn barod; ac anewyllysgarwch dyn i wneud ei ddyledswydd sydd yn peri fod dylanwad neillduol yr Ysbryd Glan yn angenrheidiol i dueddu dynion i wneud yr hyn a allant ac a ddylent wneuthur. Nid ydym yn gweled fod yn anhawddach cysoni sefyllfa o brawf âg ymddibyniaeth cyffredinol ar Dduw a dylanwad yr Ysbryd Glan yn *hil* Adda, nag ydyw dangos cysondeb yr ymddibyniaeth â'r dylanwad hyny yn y ddau gynrychiolwr eu hunain.

IV. Gwrthddadleuir, Fod dyn annychweledig yn farw mewn camweddau a phechodau, a bod yn anmhosibl i ddyn marw fod mewn sefyllfa o brawf; ond, gofynir, A ydyw dyn yn farw fel y mae pren neu faen yn farw? A ydyw efe yn yr un sefyllfa a'r marw yn ei fedd? Ni all y marw yn ei fedd wneuthur dim, "ac nid oes iddo gyfran byth mwyach o ddim oll a wneir dan yr haul." Troellymadroddion yw y rhai a ddarluniant bechaduriaid yn feirw. Dangos yr ydys fod y cyfryw mor ddiles yn nheyrnas Crist ag ydyw y marw i'r byd, o ran y pethau a ddygir yn mlaen ynddo. Mae *duwiolion* hefyd yn cael eu darlunio yn feirw i bechod yn fynych, am na fynant fyw mewn pechod. Felly y darlunir annuwiolion yn feirw, am na fynant fyw i gyfiawnder a rhinwedd. Ond y mae dyn yn ei sefyllfa annychweledig yn wrthddrych gorchymynion, addewidion, anogaethau, a bygythion; ac er fod ei gyflwr yn druenus iawn, nid oes neb, feallai, a haera ei fod yn yr un sefyllfa ag yr oedd Adda ynddi cyn i Dduw ymweled âg ef, a chyn iddo gael yr addewid o had y wraig. Y mae gobaith yn awr i "holl gyrau y ddaear." "I'r rhai sydd yn

nghymdeithas y rhai byw oll y mae gobaith;" ac y mae pob calondid i'r pechadur i gymeryd gafael yn y gobaith a osodir o'i flaen, a dangosir iddo yn eglur y perygl o esgeuluso, a gwrthod gwneud hyny. Mewn gair arall cyfystyr, Mae dynion mewn sefyllfa o brawf dan weinidogaeth yr efengyl,—bywyd ac angeu yn cael eu gosod yn deg o'u blaenau, a phob anogaeth iddynt i ddewis yr einioes, fel y byddont byw.

## RHINWEDD.

*Darlith XXI.*

Y MAE Paul, yn y benod ddiweddaf o'i Epistol at y Philippiaid, yn crynhoi llawer o bethau i ychydig iawn o le, ac yn dywedyd, "Pa bethau bynag sydd wir, pa bethau bynag sydd onest, pa bethau bynag sydd gyfiawn, pa bethau bynag sydd bur, pa bethau bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd ganmoladwy, od oes un *rhinwedd*, od oes dim clod, meddyliwch am y pethau hyn. Y rhai a ddygasoch, ac a dderbyniasoch, ac a glywsoch, ac a welsoch ynof fi, y pethau hyn gwnewch: a Duw yr heddwch a fydd gyda chwi." Mae y fath eiriau yn dangos fod y maes ar ba un y mae rhinwedd i lafurio yn un eang iawn; a bod gweithrediadau rhinwedd yn dra amrywiol, a bod bywyd rhinweddol yn sicrhau presenoldeb Duw gyda ei bobl, a'i gymeradwyaeth o honynt.

Dywed Pedr fod y saint wedi eu galw i ogoniant, a *rhinwedd* fel y ffordd i gyrhaeddyd y gogoniant hwnw, ac mai eu dyledswydd fel galwedigion Duw ydyw mynegu rhinweddau yr hwn a'u galwodd allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef; a hyny, nid yn unig trwy lefaru am y rhinweddau dwyfol, a'u cyhoeddi mewn geiriau; ond hefyd drwy eu hefelychu, a'u dangos yn eu gwaith yn eu holl ymarweddiad, gan fod yn ddilynwyr Duw fel plant anwyl. "Chwanegwch at eich ffydd *rinwedd*," ac felly profwch wirionedd eich ffydd, a'i bod yn un fywiol a diffuant, oblegid ei bod yn dwyn ei ffrwythau priodol a naturiol yn eu bywydau, meddai yr un apostol mewn adnod arall.

Ond pa beth ydyw rhinwedd? neu paham y mae agweddau neillduol ar y meddwl, cynlluniau, geiriau, gweithredoedd, ac ymddygiadau o eiddo dynion, yn cael eu cyfrif yn rhinweddol ac yn ganmoladwy, fel y mae yn gweddu i'r Anfeidrol eu cymeradwyo a gwobrwyo dynion o'u plegid? Mae syniadau gwŷr o enwogrwydd mawr yn amrywio llawer ar y mater hwn, ac ni fyddai yn anfuddiol i ni wneud ychydig o nodiadau byrion ar rai o'r syniadau hyny.

Golygiad Hobbes ar y mater hwn (fel llawer o amheuwyr cyffelyb iddo) ydyw, fod pob rhyw weithredoedd, yn wreiddiol, yn amddifad o nodwedd foesol, ac nad ydynt ynddynt eu hunain na *da* na *drwg;* ond addefa y gall cyfraith fyddo yn eu gorchymyn neu yn eu gwahardd roddi iddynt nodwedd foesol, a pheri eu bod yn dda neu

yn ddrwg; a bod ufudd-dod i gyfraith yn rhinweddol, ac anufudd-dod yn feius. Ond ni chaniateir i Hobbes a'r anffyddwyr dynu canolfur y gwahaniaeth rhwng *da* a *drwg* i lawr yn ddiseremoni fel hyn. Dywedwn yn eofn fod gwreiddiol a hanfodol wahaniaeth rhwng da a drwg; fod daioni yn tarddu yn wreiddiol oddiwrth Dduw, a drygioni yn deilliaw o anwybodaeth, anystyriaeth, rhyfyg, a diffygolrwydd creadur rhesymol; bod eu natur yn hollol wahanol. y naill yn gadarnhaol a'r llall yn nacaol—un yn ffrwyth yr Ysbryd, a'r llall yn ffrwyth y cnawd. A pha fodd y gall cyfraith wneud pethau yn dda, neu yn ddrwg, yn annibynol ar eu daioni, neu eu drygedd ynddynt eu hunain? Os dywedir fod cyfraith yn amlygiad o ewyllys *lluaws* o seneddwyr, ac felly yn peri fod ufudd-dod iddi yn dda, ac anufudd-dod yn ddrwg, yr ydym yn ateb na all deng mil o ddynion, mwy nag un dyn, roddi i weithred y nodwedd o ddaioni neu ddrygedd, yn annibynol ar y peth ydyw ynddi ei hunan; ac y mae cyfraith uwch yn bod na chyfraith ddynol; a phan y bo gorchymynion seneddau a thywysogion y byd yn croesi y gyfraith hòno, y mae esiamplau yr apostolion yn arweinyddion digyfeiliorn i ni, a "Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion."

Awn gam yn mhellach eto, a dywedwn, Nid yn unig nas gall cyfreithiau dynol newid yr hyn sydd dda yn ei natur i ddrwg; neu yr hyn sydd yn ddrwg i dda, mwy nag y gallant wneud *dau* a *dau* yn bump, neu *square* a *triangle* yr un ffurf a'u gilydd. Ond yn mhellach, nid am fod cyfraith Duw yn gorchymyn peth y mae y peth hwnw yn rhinwedd, ac nid am ei bod yn gwahardd peth y mae y peth hwnw yn bechadurus. Diau fod datganiad o feddwl ac ewyllys Duw gyda golwg ar unrhyw weithred yn ein dysgu ni i *wybod* yn gywir fod y gyfryw weithred yn dda neu yn ddrwg ynddi ei hunan; ond nid y datganiad ei hun, pa un bynag ai mewn ffurf o gyfraith neu dystiolaeth, sydd yn peri fod y weithred yn dda neu yn ddrwg; ond y mae Duw yn tystiolaethu neu yn deddfu gyda golwg ar weithredoedd, am eu bod yn dda neu yn ddrwg yn eu natur. Nid fod Duw yn gwahardd llofruddiaeth sydd yn gwneud llofruddiaeth yn bechod, ond gwaherddir ef am ei fod yn bechod ynddo ei hunan.

Nid ydym yn cyfyngu y nodiadau hyn, ychwaith, yn hollol i orchymynion moesol Duw, ond gellir eu cymhwyso, i raddau helaeth, at orchymynion pendant y Goruchaf hefyd. Addefwn yn rhwydd nad oedd yn ddyledswydd ar Adda ymatal oddiwrth ffrwyth y pren yn Eden *cyn* i Dduw wahardd hyny; nad oedd yn ddyledswydd ar Abraham i enwaedu gwrywiaid ei dŷ cyn i'r Arglwydd orchymyn hyny; nad oedd yn ddyledswydd ar ddynion aberthu ychain, defaid, a geifr ar allor yr Arglwydd cyn iddo ef orchymyn iddynt wneuthur felly; ac na fuasai yn ddyledswydd arnom ninau fedyddio a chymuno yn annibynol ar orchymynion i wneud y pethau hyny; ond er hyny oll, ymddengys i ni fod y gorchymynion pendant y cyfeiriwyd atynt yn seiliedig ar reswm dwyfol, ac ar gymhwysder tragwyddol y naill beth i'r llall, er nad ydym ni yn gydnabyddus ond i raddau bychain

â seiliau y deddfau pendant hyn. Fod cymhwysder blaenorol ynddynt i ateb dybenion y Goruchaf tuag at ddynion a ymddengys yn eglur. Nid yw o un dyben i neb ddadleu yn erbyn eu rhesymoldeb a'u cymhwysder, oblegid nad oeddynt yn ddyledswyddau cyn iddynt gael eu gorchymyn, mwy nag a fyddai dadleu yn erbyn dyledswyddau moesol Adda tuag at ei wraig a'i blant, am nad oeddynt yn ddyledswyddau arno cyn fod ganddo wraig a phlant.

Syniad Dr. Hutcheson ydyw, Fod ein Crëwr wedi ein cynysgaeddu â gallu gwahanol i'n rheswm, yr hwn a eilw efe yn *moral sense*, a bod y gallu hwnw yn peri fod rhai gweithredoedd yn foddhaol i ni, a'r lleill yn anfoddhaol, yn debyg fel y mae y synwyrau allanol yn gyfryngau i roddi i ni hyfrydwch mewn aroglau peraidd a blas hyfryd. Pa mor gymhwys bynag fuasai y synwyr moesol (*moral sense*) y dadleua efe drosto i ddwyn gweithredydd moesol perffaith i adnabyddiaeth gywir o dda a drwg; am ddyn, fel creadur syrthiedig, nid oes yr un gallu o'i fewn, fel y gellir yn hawdd brofi, nad yw yn agored i fethu yn aml yn ei benderfyniadau a'i weithrediadau moesol. Mae y fath beth yn bod a chydwybod ddrwg a halogedig, yn gystal a chydwybod dda a phur. Ymddengys fod yr awdwr hwn yn dal fod cymeradwyaeth y synwyr moesol (*moral sense*) tybiedig yn rhoddi i weithred ei rhinwedd, a bod ei anghymeradwyaeth yn rhoddi i weithred arall ei drygedd. Nid yn unig profa y *moral sense* fod gweithred yn dda neu ddrwg, ond efe yw y gallu hwnw sydd yn rhoddi iddi ei daioni neu ei drygedd. Dyna ddigon ar yr olygddysg yna. Yn ol Hutcheson, nid yw daioni neu ddrygedd gweithred foesol, wedi y cwbl, ddim ond pwnc o chwaeth!

Dywed Dr. Adam Smith, pan fo'm ni yn cydymdeimlo yn gyflawn â gweithred o eiddo rhywun arall, fod y weithred hòno yn un dda; ac o'r ochr arall, os cawn allan fod y fath gydymdeimlad â gweithred dyn arall yn anmhosibl, fod y weithred hòno yn un ddrwg. Gyda golwg ar ein gweithredoedd ein hunain, ein bod yn dychymygu fod eraill yn cydymdeimlo â ni, a'n bod ninau yn cydymdeimlo â'r cydymdeimlad hwnw. Yr ydym yn ystyried pa fodd yr edrychir ar ein gweithredoedd ni gan farnwr anmhleidiol. Os gallwn gredu y cymeradwyir hwy gan hwnw, ein bod ninau yn eu cymeradwyo; ac o'r ochr arall, os ymddengys i ni yr anghymeradwyir hwy gan y cyfryw, ein bod ninau yn eu hanghymeradwyo ac yn eu collfarnu. Nid yw y golygiadau sydd gan Dr. Smith yn dangos beth ydyw rhinwedd o ran ei sylfeini o gwbl, ac yn ddiau nid yw yn profi fod gweithredoedd neillduol yn dda neu yn ddrwg, oddieithr fod y cydymdeimlad y cyfeiria yr awdwr ato yn sicr o fod yn gywir mewn dyn syrthiedig, yr hyn sydd yn mhell oddiwrth y gwirionedd, fel y gellir profi yn eglur. Heblaw hyn oll, gesyd ei syniadau ef rinwedd neu ddrygedd gweithredoedd, nid ynddynt hwy eu hunain, wrth eu cymharu â safon berffaith da a drwg, ond yn nghyfansoddiad y meddwl sydd yn eu cymeradwyo neu yn eu hanghymeradwyo; ac felly, pe buasai y meddwl wedi ei gyfansoddi dipyn

yn wahanol i'r hyn ydyw, buasai y da yn ddrwg, a'r drwg yn dda. Flynyddoedd yn ol, mynodd yr ysgrifenydd y llyfr a elwir "*The Theory of the Moral Sentiments*," er mwyn cael gwybod beth oedd golygiadau awdwr galluog y "*Wealth of Nations*" ar faterion moesol, a chafodd allan nad oedd Dr. Adam Smith mewn un modd yn arweinydd y gellid ymddiried ynddo ar bynciau pwysig cysylltiedig â moesoldeb. Mae y fath eithafion o wylltineb yn nghyfundrefn Dr. Smith fel nad ydyw yn gafaelu yn dŷn yn meddwl y darllenydd o gwbl.

Mae yr enwog Dr. Brown yn gwadu y gwahaniaeth a wneir yn gyffredin rhwng *gweithred* foesol a *gweithredydd* moesol, gan olygu y naill mor gysylltiedig â'r llall, fel nad yw gweithred foesol yn ol ei olygiad ef ond y gweithredydd mewn sefyllfa neillduol yn cynyrchu effaith mewn cysondeb â'r teimladau. Gwrthddadleuir hynyna gan lawer o ysgrifenwyr galluog, a golygant fod yn bosibl i weithred fod yn un gymhwys a phriodol, pryd na fo y gweithredydd yn rhinweddol o gwbl; ac yn y gwrthwyneb, y gall y gweithredydd fod yn rhinweddol, pryd na fo y weithred yn un gymhwys ac addas, ac mai nid teg a phriodol yw uno y gweithredydd â'r weithred, fel y gwna Dr. Brown. Dywed hefyd nad yw rhinwedd yn rhywbeth sydd yn meddu hanfodiad ynddo ei hunan, fel y tybid fod hanfodion yr ysgolion, ac nad yw yn dragwyddol fel meddylddrychau y Platoniaid. Perthynas rhwng gweithredoedd neillduol a'r teimladau a gynyrchir yn y meddwl wrth fyfyrio ar y gweithredoedd hyny ydyw rhinwedd, yn ol syniad y Doctor, sef teimlad o gymeradwyaeth o'r cyfryw weithredoedd. Nid yn y gweithredoedd na'r gweithredydd y mae rhinwedd felly, ond yn eu perthynas â'r teimlad o gymeradwyaeth a gynyrchir yn y meddwl; ond ni ddywed y Doctor wrthym pa fodd y cynyrchir y teimlad hwnw o gymeradwyaeth yn y meddwl yn absenoldeb rhinwedd yn y weithred y myfyrir arni, yr hyn yn ddiau ydyw un o ddiffygion ei gyfundraeth ef, sef dangos i ni effaith heb yr un achos a all ei chynyrchu.

Bai mawr arall ar gyfundraeth Dr. Brown ydyw, ei bod yn gosod rhinwedd i ymddibynu ar gymhwysder y meddwl i dderbyn argraffiadau cymeradwyol o restr o weithredoedd a elwir (er mwyn cyfleusdra yn unig), yn weithredoedd da; ac os felly, eglur yw, pe byddai y meddwl wedi newid ychydig arno o ran ei gyfansoddiad, y gallai pethau hollol wahanol gael ei gymeradwyaeth, yr hyn sydd yn gosod allan nad yw rhinwedd, yn ol y gyfundraeth hon, fawr gwell nag enw gwag a diwerth. Mae eraill yn dal syniad sydd yn arwain i'r un golygiad, sef mai ar gyfansoddiad y meddwl yr ymddibyna rhinwedd; ond y mae Dr. Brown yn addef hyny, pryd nad yw neb o'r lleill mor deg a gonest a'i ganiatau. Yn ol syniad Dr. Brown am rinwedd, sef ei fod yn gynwysedig mewn perthynas rhwng y weithred a'r teimlad o gymeradwyaeth yn y meddwl, pa fodd y gall rhinwedd fodoli cyn i feddyliau a ellir gynhyrfu i deimladau o gymeradwyaeth gael eu crëu? oblegid yr oedd rhinwedd yn bodoli cyn i ddynion nac angylion gael eu bodolaeth; ac yn ol y gyfundraeth hon, gallai fod rhinwedd mewn

Atheist, ac mewn cenedl o Atheistiaid. Mae canlyniadau eraill lawer, y rhai nas gellir eu cymeradwyo, yn tarddu oddiwrth y golygiadau a ddelir gan y gwr enwog a galluog hwn.

Drwg genym fod cyfundraeth yr Esgob Butler ar y pen hwn yn dra diffygiol. Wrth feddwl am y gwasanaeth mawr a wnaeth y gwr hwn drwy ei Gyfatebiaeth a'i bregethau i Wyddoniaeth foesol a Duwinyddiaeth naturiol, y mae ein siomiant, o gymaint a hyny, yn *fwy* wrth ddarllen ei sylwadau ar natur rhinwedd. Mae un o'i edmygwyr penaf, y diweddar Syr James Mackintosh, yn gorfod addef nad oes yn ei gyfundraeth ef yr un atebiad i'r gofyniad, Beth ydyw y brif elfen sydd yn hynodi pob gweithred rinweddol? Dyn yn dilyn natur ydyw y dyn rhinweddol, yn ol Butler; ond wrth ddilyn natur, ni olyga efe ufudd-dod i bob nwyd a thueddfryd a ymgodo yn natur lygredig dyn, fel y gwnai yr hen Stoiciaid, y rhai a ddalient mai byw yn ol natur ydyw bywyd rhinweddol. Ond wrth ddilyn natur, golyga Butler, "Dilyn amcan amlwg ffurfiad y cyfansoddiad dynol, yn yr hwn y mae cydwybod yn allu llywodraethol, ac yn brif elfen symudol." Bywyd yn dilyn natur, gan hyny, yn ol Butler, ydyw, "Bywyd yn cael ei ffurfio yn ol cymhellion a barn awdurdodol cydwybod." Diau genym fod y gwr hwn yn credu fod gwahaniaeth hanfodol rhwng drwg a da; ond nid yw wedi dwyn y gwahaniaeth hanfodol hwnw i mewn i egluro ei ddamcaniaeth (*theory*) ar rinwedd, fel y buasai yn ddymunol. Rhydd ormod o le i gydwybod a'i gweithrediadau yn y mater hwn. Pe buasai cydwybod bob amser yn sicr o fod yn iawn yn ei barn ar bethau, cawsem felly yn ein cyfansoddiad arweinydd digyfeiliorn i ddangos i ni beth sydd rinweddol; ond ni fuasem er hyny ddim nes i wybod *paham* y mae felly. Ond nid yw cydwybod mewn dyn syrthiedig ddim yn arweinydd anffaeledig. Mae llygredd wedi gŵyrdroi barn cydwybod mewn llawer iawn o bethau, ac nis gellir ymddibynu ar gywirdeb ei barn yn fynych. Yr oedd Paul mor gydwybodol pan yn erlid yr eglwys, ag oedd efe wedi hyny pan yn pregethu yr efengyl; a gwyddom oll, er y tybiai efe wrth erlid ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw, mai gwneud gwasanaeth i Satan yr ydoedd. Felly, er fod cydwybod yn allu mawr a phwysig yn enaid dyn, nid yw cydwybod heb ei goleuo a'i phuro yn arweinydd diogel i neb er ei ddwyn i fyw ar dir rhinwedd a santeiddrwydd. Gallesid nodi amryw o ddiffygion eraill yn nghyfundraeth yr enwog Butler; ond y mae yr hyn a ddywedwyd eisoes yn ddigon i ddangos nad yw efe, pa mor alluog bynag ydyw ar bethau eraill, yn arweinydd anffaeledig ar y pwnc o rinwedd.

Barn Jonathan Edwards ar y mater hwn ydyw, Fod rhinwedd yn gynwysedig mewn cariad at fodolaeth yn gyffredinol, ac at bob bod yn ol maintioli ei alluoedd, neu swm ei fodolaeth. Gan mai Duw yw y bod mwyaf, efe a ddylid garu yn benaf; a dylid caru pob bod gweledig yn ol fel y cynysgaeddodd Duw ef â galluoedd a chyneddfau, o'r uchaf hyd yr isaf oll.

Mae amryw o bethau pwysig a ellir ddwyn yn erbyn cyfundraeth

Jonathan Edwards, megys—1. Yr anhawsder i ddyn allu gwybod pa faint ydyw swm bodolaeth gwahanol fodau yn llywodraeth Duw, fel ag i allu rheoleiddio ein cariad atynt a'n hewyllys da iddynt.

2. Am ei bod yn cau allan deimladau cariadlawn *neillduol* tuag at berthynasau a chymwynaswyr, gan gynwys y cyfan yn y gair *Bòdolaeth* yn gyffredinol. Yn ol y syniad yma, nid yw y gwr i garu ei wraig ei hun yn fwy na gwraig rhywun arall, oddieithr ei bod yn meddu cyfran fwy o fodolaeth neu alluoedd na'i chymydoges. Nid yw tad a mam i garu eu plant am eu bod yn perthyn yn neillduol iddynt hwy eu hunain, ond yn unig fel rhanau o'r fodolaeth gyffredinol fawr, ac yn ol y lle a lanwant yn y fodolaeth hòno.

3. Mae yn gosod allan y dylai dyn garu y diafol yn fwy na'i wraig a'i blant, oblegid fod swm ei fodolaeth ef, neu ei alluoedd, yn llawer mwy na'r eiddynt hwy; ac os yw barn Edwards ei hun mewn lle arall yn gywir, mai Satan yw y cryfaf ei alluoedd o holl greaduriaid Duw, yna, yn ol ei ddamcaniaeth ef, dylem garu Satan yn nesaf at y Duwdod, oblegid rhagoriaeth ei alluoedd ar eiddo creaduriaid eraill y Brenin mawr. Ni raid ychwanegu. Mae y pethau yna yn ddigon i ddangos fod rhywbeth allan o'i le yn sylfaen damcaniaeth y gwr mawr hwn. Bu Mr. Fuller a Dr. Williams yn ceisio amddiffyn golygiadau Edwards, ond ni lwyddasant i ddangos eu cywirdeb, ond yn unig mewn rhan, er y dymunasai y ddau yn fawr allu dwyn y galluog Edwards allan o'r dyryswch yr aeth iddo wrth geisio ffurfio cyfundraeth foesol.

Mae amryw o ysgrifenwyr Cristionogol, yn gystal a rhai anffyddol, yn dal fod rhinwedd gweithred yn gynwysedig yn ei defnyddioldeb; mewn gair arall, mai y *canlyniadau* sydd yn deilliaw oddiwrth unrhyw weithred sydd yn rhoddi iddi ei nodweddiad moesol. Mae yr awdwyr hyn yn ymranu yn ddau ddosbarth. Gwna rhai y defnyddioldeb yn un personol i gyflawnwr y weithred; ac felly, y maent gystal a dal allan nad yw rhinwedd, wedi yr holl ganmoliaeth a roddir iddo, ddim ond hunangariad dan lywodraeth callineb, yn dwyn yn mlaen leshad personol dyn ei hunan. Byddai raid i fy meddwl i gael ei gyfansoddi yn dra gwahanol i'r hyn ydyw cyn y gallwn i byth dderbyn y fath ddysgeidiaeth hunanol a honyna, yn enwedig a geiriau eglur y Beibl o flaen fy llygaid. "Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo eraill hefyd. Canys bydded ynoch y meddwl yma, yr hwn oedd hefyd yn Nghrist Iesu," Phil. ii. 4, 5, 6. Ac er i rai ychwanegu mai ei les ei hun drwy holl ystod ei fodolaeth a olygant, nid yw y mater eto ddim wedi ei gymeryd allan o gylch hunanoldeb, ond y mae braidd yn waeth, oblegid fod yr hunangais, nid yn unig i derfynau amser, ond drosto i dragwyddoldeb hefyd. Mae dosbarth arall yn dal mai defnyddioldeb cyhoeddus a chyffredinol sydd yn rhoddi y nodweddiad o rinwedd i weithredoedd; ond y mae y ddau ddosbarth yn cytuno mai effeithiau neu ganlyniadau gweithredoedd sydd yn cyfansoddi eu rhinwedd. Dywed pleidwyr y ddamcaniaeth yma fel rhesymau drosti:—

1. Mai dyma y ddamcaniaeth oreu, am ei bod yn hawdd ei deall, ac o gymhwysiad cyffredinol.

2. Am fod pawb bron yn rhoddi gwerth ar weithredoedd, yn ol fel y byddo eu defnyddioldeb.

3. Rhaid, medd Dr. Dwight, fod sylfaen rhinwedd mewn defnyddioldeb, oblegid nad oes unrhyw ddaioni yn y pen draw ond dedwyddwch.

4. Nad oes dim a'n rhwyma ni i wneud unrhyw beth nad yw yn ein tueddu i'n gwneud yn ddedwydd, a chymeryd holl ystod ein bodolaeth i ystyriaeth. Dyna brif resymau y defnyddiolwyr dros eu golygiad ar y pwnc o rinwedd.

Yn awr, mae y rhai sydd yn dal fod hanfodol wahaniaeth rhwng da a drwg ynddynt eu hunain, ac yn annibynol ar eu canlyniadau, yn addef amryw o'r pethau a nodwyd.

1. Cytunant â'r defnyddiolwyr fod pob gweithred dda yn ddefnyddiol i'r gwneuthurwr, a chymeryd holl ystod ei fodolaeth dan ystyriaeth; ond nid ydyw hyny yn profi mai ei defnyddioldeb sydd yn cyfansoddi ei rhinwedd. Yn hytrach, dywedwn, mai ei rhinwedd sydd yn peri ei bod yn fuddiol.

2. Addefwn eto y gall llywodraethau gwladol wneud cyfreithiau, megys i godi trethi a'r cyffelyb, oddiar yr ystyriaeth fod hyny yn ddefnyddiol i'r wladwriaeth, ond dywedwn nad oes ganddynt hawl i gyfreithloni lladrad, trais, a llofruddiaeth. Ni allant fyned i'r tiroedd yna o gwbl; a gall amgylchiadau gyfodi yn mha rai y byddo yn gyfreithlon i ddynion wneud penderfyniadau, a'u gosod mewn gweithrediad hefyd, ar yr egwyddor o ddefnyddioldeb; ond mewn pethau cyffredin, heb y nodweddiad o foesoldeb yn perthyn iddynt, y gallant wneud hyny.

3. Addefir eto nad oes rhwymau ar ddyn i wneuthur dim fyddo yn groes i'w leshad a'i ddedwyddwch ef ei hun yn yr oll o ystod ei fodolaeth. Ond nid ydym yn gweled fod y pethau hyn yn cyfreithloni yr haeriad mai yn nefnyddioldeb gweithred y mae ei rhinwedd.

O'r ochr arall, credu yr ydym fod daliadau y defnyddiolwyr yn

1. Yn annaturiol, oblegid mae y meddwl mewn amrantiad yn condemnio gweithred ddrwg heb fyned i'r drafferth i'w dilyn i'w chanlyniadau, ac hefyd yn cymeradwyo gweithred dda heb oedi eiliad, na chwilio dim i'r pwnc, beth fydd ei chanlyniadau yn mhen miloedd o oesau eto. Dyna drefn y meddwl dynol o edrych ar bethau. Gan hyny, y casgliad teg ydyw, fod y daioni yn y weithred ei hunan, ac yn cael ei ganfod yn ddioed gan feddwl goleuedig, neu, o'r ochr arall, y drwg yn yr un modd.

2. Os mewn defnyddioldeb yn unig y mae rhinwedd yn gynwysedig, paham nad oes rhinwedd yn yr haul, yn y cawodydd gwlaw, yn yr awelon, ac yn mhridd y ddaear? Mae rhinwedd, os felly, mewn agerddlongau ar y môr, ac y mae cant o agerddbeirianau ar y tir yn llawer mwy rhinweddol na chant o ddynion da, os defnyddioldeb yn unig sydd yn cyfansoddi rhinwedd.

3. Os dywed neb yn wyneb hynyna nad yw yn bosibl i rinwedd fodoli ond mewn gweithredoedd a gyflawnir gan greaduriaid yn meddu deall ac ewyllys, pa fodd nad yw y cyfryw yn deall yn union eu bod yn rhoi y pwnc i fyny, gan eu bod yn addef fod pethau pwysig heblaw defnyddioldeb yn cyfansoddi rhinwedd?

4. Nid yw cyfundraeth y defnyddiolwyr yn gorwedd yn esmwyth ar ymadroddion yr ysgrythyrau, ac y mae y cyfryw yn lluosog dros ben. "Gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw;" "Gogoneddwch Dduw yn eich corff ac yn eich ysbryd." Dyna y cymhelliad cryfaf a all fod i fywyd rhinweddol—gogoniant Duw, sef y cymhelliad mawr a barodd i'r Duwdod wneud ei holl weithredoedd.

Yn y ddarlith hon, cymerasom olwg ar gyfundraeth Hobbes, yr hwn a ddatgan mai deddfau sydd yn peri fod gweithredoedd yn dda neu yn ddrwg; *moral sense* Dr. Hutcheson; golygiadau Brown, Butler, a Jonathan Edwards, ac eiddo y defnyddiolwyr. Mae pethau eraill i ddyfod dan ein sylw eto, ond rhaid eu gadael hyd y tro nesaf.

## NATUR RHINWEDD.—Parhad.

*Darlith XXII.*

Yn y Ddarlith flaenorol ar y mater hwn, sylwasom ar *syniadau* amryw o wŷr enwog a draethasant eu golygiadau arno, megys Hobbes, Hutcheson, Dr. Adam Smith, Dr. Brown, Butler, Jonathan Edwards, a llawer sydd yn seilio rhinwedd mewn defnyddioldeb, y rhai a alwem er mwyn cyfleusdra yn Ddefnyddiolwyr. Ni allem gytuno ond mewn rhan â golygiadau yr un o'r enwogion a enwyd, a gwrthodem gyda dirmyg olygiad Hobbes, mai deddfau gwladol sydd yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng da a drwg, ac nad oes dim gwahaniaeth gwreiddiol rhyngddynt. Ystyriwn olygiadau amryw o'r lleill yn gyfeiliornus, ond nid yn annuwiol fel eiddo yr anffyddiwr; a'r lleill, megys Brown, Butler, ac Edwards yn *ddiffygiol*, yn hytrach nag o duedd niweidiol.

Y cwestiwn i'w ateb yn bresenol ydyw, "Mewn pa *beth* neu *bethau* y mae rhinwedd yn gynwysedig?" Gellir rhoddi amryw ddarnodiadau o rinwedd, a phob un o honynt yn gyson â'u gilydd, a gallai y byddai hyny yn fuddiol hefyd, er mwyn gwneud y mater mor oleu ag y medrir.

I. Rhinwedd ydyw cyd-darawiad neu gydweddiad calon a gweithredoedd dyn â'r gwahanol berthynasau y saif ynddynt, megys ei berthynas â Duw, â Mab Duw, â chyfraith ac efengyl Duw; ei berthynasau â'i gyd-ddynion, megys ei rieni, ei wraig a'i blant, ei gymydogion, ei feistriaid bydol, brodyr a chwiorydd crefyddol, dysgawdwyr a hyfforddwyr, llywodraethwyr ei wlad, a lluaws o gysylltiadau a pherthynasau cyffelyb, y byddai yn anhawdd, feallai, eu

darlunio bob yn un ac un. Ond pa berthynasau bynag y saif dyn ynddynt, bod ei galon a'i ymddygiadau mewn cydgordiad teg â hwynt.

II. Cydffurfiad calon ac ymarweddiad dyn â phriodoleddau moesol Duw, megys ei gyfiawnder, ei santeiddrwydd, ei ddaioni, ei drugaredd, ei amynedd, a'i hirymaros, a'r cyffelyb; mewn gair arall, fod dyn yn adlewyrchu o'i galon a'i holl fuchedd ddelw Duw, fel y mae y llyn llonydd yn adlewyrchu yr haul o'i fynwes ar ddydd tesog a digymylau, ac felly ei fod yn ddilynwr Duw fel plentyn anwyl, gan ymdebygoli iddo ef yn mhob peth y gall dyn ymdebygoli ynddo i'r Goruchaf; neu, cymerwch ddarnodiad arall mwy syml:—

III. Rhinwedd ydyw ufudd-dod dyn o ran calon ac ymarweddiad i holl ewyllys ddatguddiedig Duw iddo ef. Mae y darnodiad cyntaf yn gosod allan rinwedd fel cydweddiad â pherthynasau dyn a gwahanol wrthddrychau. Yr ail yn gosod rhinwedd allan fel tebygrwydd moesol calon a buchedd dyn i Dduw. Y trydydd yn edrych ar ddyn fel deiliad datguddiad dwyfol, ac yn dywedyd mai rhinwedd ydyw ufudd-dod mewn calon a gweithredoedd i'r amgylchiadau a wnaeth yr Arglwydd o'i ewyllys i ddyn. Credwn fod y tri yn cynwys yr un pethau, mewn gwahanol ffurfiau, a'u bod yn berffaith gyson â'u gilydd.

Gellid crynhoi llawer o bethau, ac yn wir, yn agos bob peth cysylltiedig â natur rhinwedd, i'r atebion a roddir i'r gofyniadau dilynol, sef, yn—

1. Beth yw y dyledswyddau y mae yn angenrheidiol i ddyn eu gwneuthur (cyflawni)?

2. Paham y maent yn ddyledswyddau ar ddyn?

3. Pa fodd y gall dyn wybod eu bod yn ddyledswyddau arno?

4. Mewn pa beth neu bethau y mae daioni a chymhwysder mewn gweithred yn gynwysedig?

5. Pa beth neu bethau a gyfansoddant rinwedd yn y gweithredydd?

6. O ba le y mae tarddiad rhinwedd, a pha beth yw ei safon eithaf?

(1.) Am y cyntaf o'r gofynion hyn, sef, "Pa rai yw y dyledswyddau y mae dyn dan rwymau i'w cyflawni?" gallai mai yr atebiad mwyaf cywir a chynwysfawr ydyw geiriau syml cyfraith Duw; "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, â'th holl enaid, ac â'th holl nerth, a'th gymydog fel ti dy hun." "Ar y ddau orchymyn hyn," medd Iesu Grist, "y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll." Ond wrth sylwi yn fanwl arnynt, mae y ddau yn ymranu ac yn ymganghenu i luaws o orchymynion, ac y mae llawer o ddyledswyddau yn gysylltiedig â hwynt, y dylai dyn eu cyflawni mewn ufudd-dod iddynt. Ond nid yw y cynllun sydd genym heddyw i fanylu ar ddyledswyddau lluosog dyn. Arweiniai hyny ni yn rhy bell oddiwrth y prif bethau y dymunem yn benaf sylwi arnynt. Digon yw dywedyd, "Fod pob perthynas y saif dyn ynddi â Duw ac â'i gydgreaduriaid, yn cynwys dyledswyddau cyfatebol, y rhai ydynt yn tarddu yn naturiol o'r perthynasau hyny."

(2.) Mae y gofyniad, "Paham y maent yn ddyledswyddau gorphwysedig ar ddyn?" wedi ei ateb eisoes genym yn y sylwadau a wnaed ar seiliau cyfrifoldeb. Perthynas dyn â Duw fel ei greadur ymddibynol arno am bob daioni; y galluoedd a roddodd yr Arglwydd iddo i'w gymhwyso i'w wasanaethu ef; y moddion y cynysgaeddwyd dyn â hwynt, er amlygu iddo holl gylch ei ddyledswyddau tuag at Dduw, tuag ato ei hunan a'i gydgreaduriaid; a'r perffaith ryddid sydd ganddo i weithredu ac ymddwyn yn wyneb y cwbl fel y dewiso, ydyw meini sail holl ddyledswyddau dynion, fel deiliaid llywodraeth foesol Duw; a gallu cosbawl y gyfraith a'i bygythion ar ei throseddwyr ydyw y *grym* a'r *nerth* sydd yn rhwymo dynion i ufuddhau i ewyllys ddatguddiedig Duw yn nghyflawniad eu dyledswyddau.

Yr atebiad i'r gofyniad, "Paham y mae dyn yn greadur cyfrifol?" yw yr atebiad priodol hefyd i'r cwestiwn, "Paham y dylai dyn ufuddhau i holl orchymynion yr Arglwydd?" Yr un pethau, sef y pethau a nodwyd, yw y gwir resymau am y naill fel y llall.

(3.) "Pa fodd y gall dyn wybod pa ddyledswyddau sydd yn perthyn iddo mewn gwahanol amgylchiadau, a pha fodd y dylai ymddwyn?" Mae y mater hwn yn gofyn ystyriaeth ddifrifol, ac ymchwiliad dyfal. Cyfarfyddir ein hymchwiliadau yma gan yr holl lygreddau sydd wedi dyfod i'r natur ddynol drwy y cwymp, ac ymarferiad gwastadol dynion â gwneuthur y pethau na ddylent eu gwneuthur, a thrwy hyny, tueddiadau llygredig dynoliaeth wedi eu cryfhau yn ddirfawr, fel nad yw gweithrediadau moesol dynion yn agos i'r peth y dylent fod.

Wrth olrhain a chwilio natur, caiff yr athronydd naturiol nid yn unig fod pob peth sydd yn elfenau y greadigaeth, a'r holl greaduriaid afresymol i fod ynddynt, ond hefyd fod eu gweithrediadau i gyd mewn cydweddiad a chysondeb trwyadl âg amcanion Duw yn eu creadigaeth a'u cynaliaeth, heb ddim methiant o gwbl mewn unrhyw ddosbarth o honynt. Mae holl weithrediadau atdyniad, tân, dwfr, gwyntoedd, oerni, a gwres, &c., yn union y peth y bwriadodd Duw iddynt fod. Yn ol iaith brydferth y Salmydd, mae "tân a chenllysg, eira a tharth, a gwynt ystormus yn gwneuthur ei air ef." Felly hefyd y mae adar a physg, anifeiliaid a bwystfilod, pysgod y môr, ac ymrwyfiaid y llwch. Mae y cyfan oll yn cyflawni amcanion y Goruchaf, ac ni fethasant erioed. "Beth bynag sydd, sydd iawn," mor bell ag y mae gweithrediadau y pethau hyn oll yn myned. Mae pob peth sydd ynddynt, a phob peth a wnant, yn foddlon i'r hwn a'u gwnaeth. Beth bynag sydd ynddynt, a pha beth bynag a wnant, mae y cyfan yn ei le.

Pan elo yr athronydd meddyliol i astudio meddwl dyn, mae yntau hefyd i raddau helaeth ar yr un tir a'r hwn sydd yn astudio yr elfenau a'r creaduriaid. "Yr hyn sydd, sydd iawn," yn y dosbarth hwnw hefyd. Nid yn unig y mae pob aelod sydd yn y corff yn gymhwys y peth y dylai fod, ond y mae pob cyneddf a gallu, yn eu holl amrywiaeth, sydd yn enaid dyn, y peth y dylai fod—pob nwyd a

theimlad yn ei le; a rheswm da iawn am hyny ydyw, mai gwaith Duw fel Creawdwr yw y cyfan, ac y mae y cyfan yn deilwng o hono ef. Ond pan ddelom at weithrediadau moesol y galluoedd sydd mewn dyn, yr ydym yn cyfarfod â llygredigaeth natur lawn o ddiffygion, mewn cymhariaeth i'r peth a ddylai fod yn wyneb deddfau y Brenin mawr.

Gwir yw fod gweithrediadau galluoedd eneidiol dyn, mor bell ag y gellir eu golygu, yn weithrediadau *naturiol*, ac mor bell ag y cyrhaedda y gweithrediadau hyny yn ol deddfau gosodedig i'r meddwl weithredu wrthynt. Ond pan edrychir ar weithrediadau y meddwl yn nrych athroniaeth foesol, ac yn wyneb cyfraith Duw, mae diffygion a gŵyrni yn dyfod i'r golwg yn y fan. Mae difaterwch a seguryd yn perthyn i'r deall. Esgeulusa lawer o'r pethau y dylai eu cymeryd i mewn i'r cyfrif, a than ei ystyriaeth, wrth chwilio am wirionedd. Mae yn diystyru pob cangen o wybodaeth, os bydd graddau o drafferth iddo ef i'w meistroli. Mae y Beibl yn son am gydwybod ddrwg a halogedig, yn gystal ag am gydwybod dda a phur.

Tra y byddo dynion fel hyn heb fod yn gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth, yn gas ganddynt Dduw, ac yn dywedyd wrtho, "Cilia oddiwrthym, canys nid ydym yn ewyllysio gwybod dy ffyrdd;" yn ebargofi y ddeddf, ac yn gollwng y Deddfroddwr dros gof, gan gydredeg i bob rhyw ormod rhysedd, rhaid fod gŵyrni rhyfedd wedi dyfod i mewn i weithrediadau moesol dynolryw—rhaid fod rhyw ddyryswch pwysig wedi dyfod i fewn i'r natur a ddylai weithredu yn hollol reolaidd. Pe byddem yn cael cyfle i sylwi ar weithrediadau moesol angylion, neu ddynion perffeithiedig, gallem dynu casgliad teg oddiwrth eu hymddygiadau—oddiwrth y pethau sydd gyda golwg ar y pethau a *ddylent fod.* Gallem wybod beth sydd yn ei le, dim ond i ni wybod beth y maent hwy yn ei wneuthur, oblegid fod eu calonau a'u gweithredoedd hwy yn perffaith gyd-daro âg ysbryd a llythyren cyfraith Duw. Ond nid yw gwybod yn fanwl beth y mae dyn yn wneuthur ar y ddaear yn ddangoseg yn y byd i neb fod ei ymddygiadau ef yn eu lle, a hyny oblegid y diffygion moesol a berthyn iddo.

"Mae natur foesol dyn wedi dirywio," medd ysgrifenwyr efengylaidd ar Athroniaeth foesol. Nid oes genym y gwrthwynebiad lleiaf i'r term *natur foesol*, tra y deallir wrtho, natur ysbrydol dyn, yn cyflawni gweithredoedd ag y mae yr *ansawdd* o foesoldeb yn perthyn iddynt; neu, mewn gair arall, gweithredoedd y byddo eu natur a'u ffurf mewn cyd-darawiad â chyfraith Duw; neu, o'r ochr arall, mewn gwrthdarawiad iddi. Ond rhaid i ni addef ein bod wedi llwyr ddiflasu ar waith dynion, y rhai, fel y gellid casglu yn deg wrth eu lleferydd, na wyddent yn y byd beth a feddylir wrth *foesoldeb*, yn tra-mynychu y termau llywodraeth foesol, gweithred foesol, natur foesol, bod moesol, a r cyffelyb. Ac y mae yn berffaith eglur fod dynoliaeth wedi gŵyro oddiwrth yr Arglwydd yn y fath fodd fel nad ellir casglu beth a *ddylent* wneuthur oddiwrth yr hyn y *maent yn* wneuthur. Mae hyd yn nod dynion da iawn yn llawn o ddiffygion. "Mewn llawer

o bethau yr ydym ni bawb yn llithro." Wrth ystyried y pethau hyn, eglur yw fod dyn yn sefyll mewn angen am ryw faen prawf i ddangos iddo beth sydd yn rhinweddol, a pha beth sydd yn bechadurus. Mae yr Arglwydd wedi rhoddi y profiedydd hwnw iddo, fel y dichon wybod beth sydd ganmoladwy, a pha beth sydd yn feiadwy yn ei galon, ei eiriau, a'i weithredoedd. Rhoddodd Duw ddatguddiad felly ynddo ef ei hun, yn ei natur, yn nghyfansoddiad ei feddwl. Y mae dyn, gan hyny, i raddau, yn ddeddf iddo ei hunan, fel y dywed Paul ar y mater hwn.

Mae dyn yn naturiol yn eigion ei enaid yn condemnio celwydd, dirmyg o rieni, lladrad, a llofruddiaeth; ac o'r ochr arall, yn eigion ei galon, yn cymeradwyo gwirionedd, parch i rieni, gonestrwydd, diweirdeb, tiriondeb, a'r cyffelyb. Mae barn a theimladau ei enaid yn unionach na'i ymddygiadau. Gwna lawer o bethau croes i'r peth a gymeradwya ei gydwybod; ond bydd rhyw fantais dybiedig fwy ganddo mewn golwg bob amser na'r anfantais o fyned dan gondemniad ei gydwybod. Taerir yn erbyn hyn fod y Spartiaid yn cymeradwyo lladrad, os gallai bachgen ladrata heb gael ei ddal wrth wneud hyny. Ond nid y lladrad oedd y Spartiaid yn gymeradwyo, ond medrusrwydd y lleidr yn gallu dianc heb ei ddal.

Haerir eto, fod dynion yn hoffi creulondeb, am fod arferiad gan rai cenedloedd i ladd eu plant, ac i fwrw eu rhieni allan i newynu wedi iddynt heneiddio. Ond wrth edrych yn fanwl i'r mater, gwelir mai nid y creulondeb a gymeradwyir ganddynt, ond wrth weled y byd hwn mor lawn o drueni, mai am ddanfon eu plant a'u rhieni y maent tuhwnt i gyffiniau anffodion y fuchedd hon. Meddwl yr ydym y gellid gwneud cyfundraeth foesol weddol gywir, mor bell ag y cyrhaeddai, allan o farnau cydwybodol dynolryw ar wahanol bethau, eu teimladau tuag atynt, a'u chwaeth naturiol gyda golwg arnynt, oblegid y maent yn fynych yn dangos "gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau." Y mae Duw yn ddiau wedi gwneud y meddwl dynol yn gymhwys i farnu rhwng da a drwg yn naturiol, ac ni all ddewis y drwg fel drwg, ond fel daioni tybiedig bob amser. Diau y byddai y gyfundraeth foesol a ffurfid felly oddiwrth farnau, cydwybodau, a theimladau dynolryw yn un dra diffygiol; er hyny, gellid ei gwneud yn gywir i raddau pell.

Ond yr hyn a ddengys i ddyn yn berffaith beth sydd dda, a beth sydd ddrwg, ydyw y datguddiad dwyfol—gair yr Arglwydd. Mae hwnw yn berffaith. Nid oes ynddo na gŵyrni na thrawsedd. Mae yn brofiedydd digyfeiliorn. Wedi i ni foddloni ein meddyliau mai gwir air Duw ydyw, ein gorchwyl nesaf fydd gwybod yn gywir beth a ddywed wrthym; yna, ei gredu yn galonog a'i roddi mewn ymarferiad. "At y gyfraith ac at y dystiolaeth, ac oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt." Ar bob mater mae barn y Beibl yn derfynol—"Pa beth a ddywed yr ysgrythyr?" "Pa fodd y darlleni?" "A'r ysgrythyr nis gellir ei thori." Dyma oleufynag anffaeledig i ddyn.

Gofyniad arall cysylltiedig â rhinwedd ydyw, "Pa beth mewn gweithred a'i gwna yn gymhwys i gael ei hystyried yn weithred dda?" Ymddengys y gall gweithred fod yn un gymhwys, pryd na fyddai dim rhinwedd yn y gweithredydd. Gall mam dirion ofalu yn dyner am ei phlentyn afiach, yn unig o serch naturiol tuag ato; ond eto, nid oes mwy o rinwedd yn serch mam at ei phlentyn bach, oddieithr fod y serch hwnw yn gysylltiedig â rhyw egwyddor santaidd, ac yn cael ei gysegru gan yr egwyddor hòno, mwy nag sydd yn serch naturiol dafad at ei hoen bach. Mae y weithred yn gymhwys, ond nid oes rhinwedd yn y gweithredydd. Gall dyn gyfranu yn haelionus at achosion elusengar neu grefyddol, ac y mae cymhwysder yn y cyfraniadau i gyfarfod angen, ac i ateb dybenion y fath achosion; ond gwyddom y gall dyn wneud hyny i ddynwared pobl eraill, ac i enill sylw ei gyddynion; ac felly, er fod cymhwysder yn y weithred, nid oes rhinwedd yn y gweithredydd. Cyn y gellir dywedyd fod gweithred yn un gymhwys a da—

1. Rhaid iddi fod yn cael ei gorchymyn yn ngair Duw; neu, o leiaf, yn un a orwedd yn esmwyth ar rediad yr ysgrythyrau neu natur pethau.

2. Rhaid iddi fod yn un y bo cymhwysder ynddi i sefyllfa ac amgylchiadau y neb a'i gwnelo. Wrth edrych dros adroddiad y Feibl Gymdeithas am y flwyddyn ddiweddaf, gwelir yn eglur nad oes ond ychydig o'r cyfranwyr wedi rhoddi fel y llwyddodd Duw hwy, ond eu bod yn dynwared eu gilydd, y rhan fwyaf o honynt, drwy roddi swllt bob un. Ni bydd yr un ffyrling, yr wyf yn ofni, ar gyfer eu henwau yn y diwedd, o leiaf bydd arnynt gywilydd o'u cyfraniadau.

3. Rhaid fod cymhwysder mewn gweithred i ateb y dyben fo mewn golwg, a rhaid i'r dyben hwnw fod yn un da. Ni fyddai anfon ysgolfeistr i fwrdd llong fyddai yn cael ei dryllio gan y tònau yn weithred gymhwys i amgylchiadau y bobl fyddent ar y bwrdd. Cwch i gael y bobl i'r làn sydd eisieu. Byddai anfon ysgolfeistr i bentref yn y wlad i ddysgu plant yn weithred gymhwys, a'r amcan hefyd yn un da. Ond fel y nodwyd, gall gweithred fod yn gymhwys pan na byddo dim rhinwedd yn y gweithredydd.

5. Cwestiwn arall ydyw, "Beth sydd yn cyfansoddi rhinwedd yn y gweithredydd?" Gall fod rhinwedd yn y gweithredydd pan na fo y weithred yn mhob ystyr y peth y dylai fod, fel y sylwyd o'r blaen, y gall gweithred fod yn un gymhwys ac addas, pryd na fo y gweithredydd yn rhinweddol o gwbl. Gall diffyg fod mewn gweithred, a hwnw yn cyfodi o ddiffyg *dealltwriaeth* yn y gweithredydd, ac nid oes yr un weithred, mae yn debygol, heb ddiffygion ynddi, a gall fod diffygion hefyd yn y gweithredydd; ac eto, gall y weithred a'r gweithredydd fod yn gymeradwy gyda Duw, pan fo calon y gweithredydd yn onest, ond bydd felly trwy berffeithrwydd Iesu Grist. Pe na allai rhinwedd fod mewn neb ond gweithredydd moesol perffaith, a phe na ellid galw un weithred yn dda ond un berffaith yn nghlorianau deddf a chyfiawnder, ofer fyddai son am rinwedd mewn byd sydd, fel hwn, wedi ei andwyo; ond y mae Duw yn cymer-

adwyo *peth* daioni yn Abiah, yn nhy Jeroboam, er nad oedd y daioni hwnw yn y gwr ieuanc wedi cynyddu i gyflawn addfedrwydd. Sonia y Beibl am yr hwn sydd *wan* yn y ffydd--y rhai *lleiaf* hyn—rhai y rhaid iddynt wrth laeth, ac nid bwyd cryf; ac anogir Cristionogion i gynyddu mewn gras a gwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist. Dengys y pethau hyn yn eglur fod yn bosibl i wir rinwedd fodoli mewn dynion y byddo eu diffygion yn lluosog. Ond er hyn i gyd, mae yn angenrheidiol i'r gweithredydd, mewn trefn i fod yn rhinweddol, feddu y pethau canlynol, a bod yn ddidwyll ynddynt:—

1. Dylai fod yn oleu, i raddau, yn nghylch llwybr ei ddyledswydd yn y peth a wna, fel y byddo yn gweithredu oddiar argyhoeddiad ei fod yn gwneud yn iawn, ac nid yn gweithredu yn y tywyllwch, megys o ddamwain. Yn y llyfr mwyaf athronyddol yn yr Hen Destament, anogir dynion yn ddifrifol i ymofyn am wybodaeth, a darlunir y dyn rhinweddol fel dyn doeth, a rhinwedd yn ddoethineb, drwy yr holl lyfr. Yr un modd y darlunir Cristionogion yn y Testament Newydd, fel rhai wedi eu goleuo, wedi goleuo llygaid eu meddyliau: "Y rhai oeddych gynt yn dywyllwch, ond yr awr hon goleuni ydych yn yr Arglwydd." "Rhodiwch fel plant y goleuni." Y maent "wedi eu galw allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef." Mae gweinyddiad moddion gwybodaeth ac addysg yn cymeryd yn ganiataol fod graddau o wybodaeth gywir am bethau yn anhebgorol angenrheidiol i iawn-weithrediad.

2. Dylai fod cariad at yr hyn sydd yn ei le, a gwirfoddolrwydd yn y gweithredydd, cyn y gellir dywedyd fod ei weithrediadau yn rhinweddol Nid yn unig dylai ddeall yr hyn sydd briodol, ond ymserchu ynddo fel y cyfryw. Rhai yn caru Duw, yn ymserchu yn Mab Duw, yn ymhyfrydu yn Ysbryd Duw a'i holl waith; rhai yn caru gwirionedd Duw, achos a phobl Dduw, ydyw pobl rinweddol. Cyflawnder y gyfraith a'r efengyl hefyd ydyw cariad; ac heb gariad nid yw dyn ddim, medd Paul, ar dir crefydd a rhinwedd.

Yn awr, os bydd cariad y gwirionedd yn llywodraethu y galon, bydd yr ewyllys yn ysgogi yn naturiol tuag at yr hyn sydd rinweddol. Derbynir gair Duw yn ewyllysgar, bydd ewyllys dyn yn nghyfraith yr Arglwydd: "Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth," medd y Salmydd. Yna bydd gwirfoddolrwydd yn holl ysgogiadau dyn gyda phob peth sydd dda. Pob gwr ewyllysgar ei galon oedd i gyfranu gynt at y Tabernacl; ac y mae hwn yn beth mor bwysig mewn rhinwedd, fel nad oedd Paul yn foddlon i ddal Onesimus gydag ef yn Rhufain heb gael cydsyniad Philemon: "Fel na byddai dy ddaioni di megys o angenrhaid, ond o fodd," meddai wrth y gwr hwnw.

3. Mae cydwybodolrwydd hefyd yn elfen anhebgorol angenrheidiol mewn rhinwedd: "A hyn yw ein gorfoledd ni, sef tystiolaeth ein cydwybod." Yr ydym yn credu fod genym gydwybod dda, gan ewyllysio byw yn onest yn mhob peth." Gall dynion yn ddiau gyflawni pechodau ysgeler yn berffaith gydwybodol, megys yr oedd Saul

yn erlid yr eglwys; felly, nid yw yn ddigon i ddyn fod yn gydwybodol, ond dylai ei gydwybod fod yn un oleuedig a phur.

4. Dylai yr amcanion fyddo gan ddyn pan yn cyflawni ei weithredoedd fod yn rhai teg a chyfiawn; os amgen, nis gall rhinwedd fod yn y gweithredydd, mwy nag yn Simon y swynwr, pan yn cynyg arian am ddawn yr Ysbryd Glan, yr hwn ddawn a chwenychai i ateb ei amcanion swynol ei hun; ond nid oedd "ei galon yn uniawn gerbron Duw." Rhaid fod gan ddyn nod o flaen ei lygaid, a hwnw yn un teilwng, cyn y gall fod rhinwedd yn ei ymddygiadau. Nid yn unig rhaid i'r weithred fod yn un gymhwys, ond amcan y gweithredydd yn un cymhwys hefyd.

5. Heblaw hyn, dylai y moddion a arfera dyn i gyflawni ei amcanion fod yn foddion teg a gonest yr un modd: "Trwy arfau cyfiawnder ar ddeheu ac ar aswy," medd Paul. Gellir dywedyd ar amryw o ystyron fod symudiad Joseph o Ganaan i'r Aipht wedi bod yn fendith i'r Aipht a Chanaan, ond nid oedd dim diolch i'w frodyr ef am hyny. Yr oedd eu hamcan hwy, a'r moddion a ddefnyddiasant, yn hollol anghyfiawn. Nis gall dyn ystyriol gymeradwyo ymddygiadau Rahab yn Jericho, pan yn traethu celwyddau am yr ysbïwyr a guddiasai yn y llin ar nen y ty. Nid yw yr ysgrythyr yn gwneud hyny, hyny yw, yn cymeradwyo ei hymadroddion. Adrodd y peth fel y bu y mae y Beibl. Gellid dywedyd yr un peth am ymddygiadau Mordecai yn Persia. Nid oedd ganddo ef hawl i ddefnyddio y moddion a ddefnyddiodd, er fod dwyfol Ragluniaeth wedi goruwchreoli y cyfan er lles i'r Iuddewon yn y diwedd. Dadl gyffredin ydyw,—"Os bu gwirionedd Duw yn helaethach i'w ogoniant ef trwy fy nghelwydd i, paham y'm bernir inau eto megys pechadur?" A chof gan lawer ydyw, fod un o brif wleidyddion Prydain Fawr yn ceisio cyfiawnhau yr Iuddewon am groeshoelio Crist, oblegid y manteision a ddaeth i'r byd drwy hyny. Ond pa ddiolch oedd iddynt hwy am hyny? Tywallt eu llid ar y diniwed, "y sant a'r cyfiawn," yr oeddynt hwy. Tarddodd y manteision i gyd o ffynon arall, yr hon nad oeddynt hwy yn gofalu dim am dani. Diau y dylai yr holl foddion a arfera dyn i ddwyn amcanion daionus i ben fod yn rhai *daionus* a *theg.*

6. Ac yn olaf oll, dylai dyn mewn trefn i fod yn rhinweddol wrth gyflawni ei weithredoedd da, wneud y cyfan wrth reolau digyfeiliorn gair Duw, ac am fod Duw yn gorchymyn iddo. Dylai weithio i Dduw, er mwyn Duw, ac er gogoniant i Dduw. Rheol anffaeledig ydyw hòno: "Gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw"—amaethu, masnachu, celfyddydu, morio—pob peth. "Ar (âr) yr annuwiol sydd bechod," am nad yw yn trin ei dir i Dduw, ond yn hollol iddo ei hun: "O hono ef, ac iddo ef, y mae pob peth." Mae y dyn gwir rinweddol yn gysegredig i Dduw yn yr oll y mae yn wneuthur. Rhaid, yn wir, i'r weithred fod yn un gymhwys a phriodol, a'r gweithredydd hefyd fod, fel y darluniasom ef, cyn y gellir ei gydnabod yn ddyn rhinweddol, fyddo yn ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da.

Mae genym un gofyniad arall, ar ba un y sylwn ychydig iawn cyn y darfyddom neu y terfynom y sylwadau hyn, sef, "O ba le y tardda rhinwedd, a pha beth yw ei safon eithaf?" Mae y gofyniad yn ymranu yn ddau. Gellir ateb y cyntaf fel hyn: O Dduw y tarddodd yr holl rinwedd sydd yn bodoli drwy y nefoedd a'r ddaear. Duw a wnaeth angylion y peth ydynt, ac efe a'u cynaliodd ar dir rhinwedd; ac addefa y saint ar y ddaear "mai ei waith ef ydynt hwy:" "Yr hwn a'n gweithiodd ni i hynyma yw Duw." O'r môr anfeidrol o ddaioni sydd yn Nuw y llifodd yr holl aberoedd, y nentydd, a'r afonydd o ddaioni sydd yn rhedeg drwy y greadigaeth, ac i'w orsedd ef y llifant i gyd yn ol.

Am y rhan arall o'r gofyniad, mae wedi ei ateb eisoes mewn rhan. Ymddengys yn eglur mai safon rhinwedd i'r pagan ydyw cyfansoddiad ei feddwl ef ei hun, a chyfansoddiad natur o'i amgylch, a'r gwersi a ddysga iddo; ond nid dyna y safon eithaf; rhaid fod hòno, feddylid, yn y Duw a wnaeth y meddwl ac a ffurfiodd natur.

Safon rhinwedd i'r rhai sydd yn meddu yr Ysgrythyrau ydyw, cyfansoddiad y meddyliau sydd ganddynt, a natur o'u cylch; ac yn ychwanegol at y cwbl, ac yn *benaf oll*, y datguddiad a roddodd Duw o'i ewyllys yn ei air. Wedi y cyfan, nid y Beibl yw y safon eithaf, ond y Bod gogoneddus a'i llefarodd. Gorchymyna y Beibl i ddynion fod yn wirioneddol, yn gyfiawn, yn bur, yn santaidd, yn drugarog, a'r cyffelyb; ond nid ydym yn meddwl mai am fod y Beibl yn gorchymyn y pethau hyny y maent yn rhinweddau. Rhaid mai am eu bod *yn rhinweddau*, yn hytrach, y mae yr Ysgrythyrau yn eu gorchymyn. Ond pa le yr oeddynt cyn i'r Ysgrythyrau gael eu hysgrifenu, a chyn i'r greadigaeth gael ei dwyn i fod? Yr ateb yw, yn nodweddiad moesol y Duwdod.

Dywedir, a hyny yn eithaf cywir, mai ewyllys Duw tuag at ddynion a amlygir yn yr Ysgrythyrau; ond y mae gofyniad yn cyfodi yn naturiol mewn meddwl ymofyngar, sef, Beth sydd yn peri fod ewyllys Duw yr hyn ydyw yn mhob peth? Yr ateb ydyw, Am fod ewyllys y Goruchaf dan ddylanwad a rheolaeth ei natur, a hòno yn anfeidrol ogoneddus yn mhob ardderchawgrwydd moesol. Gan hyny, mae y greadigaeth yr hyn ydyw, am fod Duw yr hyn ydyw. Mae dyn ac angel yr hyn ydynt, o ran eu cyfansoddiad, am fod Duw, yr hwn a'u gwnaeth, yr hyn ydyw. Mae llywodraeth foesol, deddf ac efengyl yr hyn ydynt, am fod Duw yr hyn ydyw. Mae rhinwedd yr hyn ydyw am fod y Goruchaf yn ei holl briodoleddau yr hyn ydyw. Gwelwch—

1. Fod gwir rinwedd yn anamlach yn mysg dynion nag y tybir yn fynych.

2. Fod galwad uchel ar bawb yn nghyflawniad eu gweithredoedd da, i edrych arnynt eu hunain ac ar eu gweithredoedd, fel na chollont wobr eu gwaith, ac y caffont gymeradwyaeth y nef i'w cyflawniadau.

3. Fod yn anmhosibl ysgaru cywir rinwedd a gwir grefydd oddiwrth eu gilydd, lle y byddo y naill y bydd y llall, ac ynfydrwydd yw son fod rhinwedd lle nad oes duwioldeb.

# PECHOD.

## *Darlith XXIII.*

MAE yn eithaf eglur i bob sylwedydd ystyriol fod dynoliaeth yn y byd hwn wedi colli ei haddurniadau a'i gogoniant, ac wedi ei darostwng i gyflwr truenus ac andwyol. Collodd yr adnabyddiaeth hwnw o Dduw, a'r mwynhad o hono, a feddai yn y dechreuad; a'r hwn pe buasai yn ei meddiant a sicrhai ei diogelwch, a'i dedwyddwch, mewn amser ac am byth. Y dinystrydd mawr a chyffredinol sydd wedi ei dwyn i drueni tymhorol ac ysbrydol ydyw *pechod.* Dyna yr haint ofnadwy sydd wedi ymaflyd yn nghyfansoddiad y natur ddynol, ac wedi ei darostwng i afaelion pob math o ingoedd a dyoddefaint, tlodi a gwarth. Ond pwy sydd yn cyflawni pechod, neu pwy sydd yn bechadur, a pha beth ydyw pechod o ran ei natur? a pha ddarnodiad syml a chryno a ellir roddi o hono?

1. Mae y syniad o bechod yn cynwys fod y pechadur, pa un bynag a fyddo ai dyn ai angel syrthiedig, yn feddianol ar natur foesol ac ysbrydol; ei fod yn berchen deall, serchiadau, ewyllys, a chydwybod; mewn gair arall, ei fod yn meddu cymhwysderau i fwynhau Duw, y daioni penaf y gall creadur ei fwynhau. Pa ddifrod bynag, neu ddinystr ar feddianau neu fywydau dynion a wna daeargryn, mynydd tanllyd, neu dymhestl ar dir neu fôr, nid oes neb yn meddwl eu bod i'w beio am hyny. Pa anrhaith bynag a wna ymlusgiaid, anifeiliaid, gwylltfilod, neu adar yr awyr, nid oes neb yn ystyried eu bod i'w beio, am eu bod yn amddifad o natur foesol. O'r ochr arall, ni ystyrir hwy yn teilyngu canmoliaeth, pan fyddo eu gweithrediadau yn ffafriol i ddwyn yn mlaen amcanion amaethyddol, masnachol, a bywioliaethol dynolryw, a hyny hefyd am na feddant alluoedd rhesymol. Creadur yn meddu galluoedd eneidiol, a modd i'w defnyddio fel y byddo yn dewis, a ddichon gyflawni daioni, neu ddrwg moesol, ac nid unrhyw greadur arall.

2. Mae y syniad o bechod yn golygu fod y pechadur dan ddeddf gymhwys i'w gyfansoddiad, fel gweithredydd moesol. Mae dyn yn ddiau dan lawer o ddeddfau, megys deddf pwys a thyniad, deddf greddfau naturiol, deddfau meddyliol, a'r cyffelyb; ond fel creadur cyfrifol i Dduw, mae efe dan ddeddf foesol fawr llywodraeth y nef, yr hon sydd yn gofyn y galon yn gystal a'r ymarweddiad: "Lle nid oes deddf (foesol felly), nid oes gamwedd," ac nis dichon fod.

3. Cyn y gallo dyn gyflawni pechod, rhaid fod y ddeddf foesol, dan ba un y gweithreda, yn amlygedig iddo, naill ai yn gyhoeddedig mewn geiriau, neu yn ysgrifenedig yn ei natur ef ei hun, a natur pethau, neu bob un o'r ddau. Ni ddichon neb gyflawni pechod yn erbyn deddf na ddichon wybod dim am dani.

4. Nid oes neb a all gyflawni pechod ond creadur hollol rydd yn ei weithrediadau. Fel y mae rhyddid yn anhebgorol angenrheidiol i gyflawni gweithred rinweddol, felly hefyd y mae yr un mor angenrheidiol i gyflawni gweithred bechadurus. Pe gallai *gorfodaeth* ddyfod

i mewn, dinystriai nodwedd foesol gweithredoedd dynion, ac ni byddent mwyach na da na drwg, mwy na symudiadau rhyw beirianwaith a orfodir i weithio.

Wedi nodi fel hyn pwy a ddichon gyflawni pechod, ceisiwn egluro pa beth yw pechod o ran ei natur. Rhoddir i ni amryw ddarnodiadau o hono gan wŷr dysgedig a deallus, megys y rhai canlynol:—Drwg moesol, neu bechod, ydyw unrhyw esgeulusdod, dirmyg, neu drosedd o gyfraith foesol ddoeth, gyfiawn, a daionus Duw, ἀνομία, 1 Ioan iii. 4; Rhuf. viii. 7. (Dr. Pye Smith). Diffyg cydffurfiad gwirfoddol â nodweddiad moesol Duw; absenoldeb y perffeithrwydd neu y daioni moesol hwnw a ddylai fod mewn creadur cyfrifol. Diffyg cydffurfiad yn y tueddfryd, yr ewyllys, a gweithrediadau gwirfoddol creaduriaid rhesymol âg unig reol uniondeb datguddiedig yn yr amlygiadau a wnaeth Duw o'i ewyllys. (Dr. Pye Smith). Beth bynag sydd yn groes i ewyllys santaidd Duw. (Arnot). Unrhyw ddiffyg cydymffurfiad â, neu drosedd o unrhyw gyfraith ddwyfol fo wedi ei rhoddi fel rheol i greaduriaid rhesymol. (Catecism y Gymanfa). Diffyg cydymffurfiad â gofynion cyfraith Duw. (Dr. E. Williams). Yr wyf fi yn cynyg y darnodiad canlynol:—*Diffyg moesol gweithred, wrth ei chymharu â'r hyn a ddylai fod, yn ol gofynion cyfiawn ewyllys ddatguddiedig Duw.* Geiriau y Beibl am bechod ydynt y rhai canlynol: methu y nod, neu grwydro allan o'r ffordd, tori rheol, tori dros y terfynau, trosedd, anghyfiawnder, gwrthryfel, anufudd-dod, a'r cyffelyb. Darnodiad yr Apostol Ioan yw yr egluraf a'r cyflawnaf o'r cwbl, efallai, "*Anghyfraith* yw pechod."

Yn ol y darnodiad hwn, *diffyg—an*, ydyw pechod o ran ei natur yn ddiamheuol. Diffyg ydyw pob pechod o ran ei natur. Byddwn yn fynych yn galw llygredigaeth ein natur mewn canlyniad i'r cwymp yn bechod gwreiddiol; ond nid ydym yn meddwl fod rhyw *wenwyn* marwol wedi cael ei drosglwyddo oddiwrth Adda i eneidiau a chyrff ei hiliogaeth. Nid rhywbeth cadarnhaol (*positive*) felly ydyw llygredd gwreiddiol neu etifeddol dynolryw; ond cynwysir ef mewn diffygion, gwagder, absenoldeb purdeb a santeiddrwydd; diffyg o egwyddorion ac elfenau bywyd ysbrydol, absenoldeb Ysbryd Duw yn yr enaid, diffyg cyfiawnder a daioni moesol yn y galon, absenoldeb y pethau sydd i fod mewn creadur rhesymol perffaith, yr hwn y gall cyfraith Duw ei gymeradwyo fel y cyfryw. Diffyg, ac nid rhyw sylwedd materol, nac ysbrydol chwaith, ydyw llygredigaeth gwreiddiol yr hil ddynol, a hwythau, dan ddylanwad diffygion cyntefig eu natur resymol, yn troi allan yn weithredwyr diffygiol, cyfatebol i'r diffygion moesol gwreiddiol oedd ynddynt.

Diffyg eto yw pechod gweithredol o bob desgrifiad o ran ei natur. Gwyr darllenwyr y Beibl fod llawer iawn o'r *termau* a ddefnyddir yn yr Ysgrythyrau am bechod yn rhai nacaol, megys anwiredd, annuwioldeb, anghyfiawnder, anufudd-dod, aflendid, afiechyd, anwybodaeth, anghyfraith, anffyddlondeb, annoethineb, a'r cyffelyb, y rhai ydynt oll yn cynwys syniadau nacaol am bechod; ac er bod ffurf

ymadroddion eraill fel pe byddent yn gadarnhaol, megys trais, traha, trosedd, pechod, drygioni, a chyfryw ymadroddion; eto, wrth ystyried y fath eiriau yn wyneb cyfraith yr Arglwydd, diffyg cydymffurfiad â'r ddeddf yw y meddylddrych a gynwysant. Diffyg yw natur pechod yn galon, pan na fyddo eto ond mewn chwenychiadau, cynlluniau, bwriadau, ac amcanion. Diffyg ydyw mewn geiriau, a diffyg ydyw hefyd mewn ymarweddiad. Nid rhywbeth *sylweddol* mewn bwriad, gair, na gweithred, yw yr hyn sydd bechadurus ynddynt, ond diffyg cydgordiad â chyfraith Duw, a chyd-darawiad â'i hysbryd ac â'i hamcan. Gellir dywedyd yr un peth am bechodau o esgeulusdod a gomeddiad. Pan fo dyn yn esgeuluso neu yn gwrthod gwneud ei ddyledswydd, mae efe, y pryd hwnw, yn ddiwyd gyda phethau eraill a waherddir iddo, ac nid yw ei galon mewn un modd yn cydymffurfio â'r ddeddf sydd yn gorchymyn ufudd-dod oddiwrtho; ac y mae ei ymddygiad yn eglur ddangos pa mor bell ydyw o fod y peth y dylai fod, yn ol ei gofynion hi. Gan fod y mater hwn, sef natur pechod, yn un mor bwysig yn ei gysylltiad â gwyddoniaeth foesol, duwinyddiaeth, a gweinidogaeth yr efengyl, byddai yn fuddiol i ni ymhelaethu arno, ac yr wyf yn awyddus am i mi fy hunan, a chwithau, feddu golygiadau cywir ar y pwnc.

Wrth fanwl chwilio i mewn i natur pechod, dylem wahaniaethu yn ofalus rhwng gweithred, a'i chymeryd yn gryno yn yr oll ag ydyw, â'r hyn sydd bechadurus ynddi, sef ei diffyg cydymffurfiad âg ewyllys yr Arglwydd. Y fath ydyw ymddibyniaeth y creadur ar y Creawdwr, fel na all efe gymaint a meddwl un syniad, na dywedyd yr un gair, na symud llaw na throed, na gwneuthur dim yn wir heb help oddiwrth yr Arglwydd, "Canys ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod." Ac nid yw yn ddigon i ddyn fod i Dduw lunio ei gorff a'i enaid yn gymhwys i fod yn weithredydd moesol, ond y mae yn angenrheidiol iddo fod dan law Duw bob *moment* cyn y gallo weithredu o gwbl. Os bydd rhywun yn anfoddlon i fod mor ymddibynol ar Dduw a hynyna, yr ydym yn dywedyd y pethau canlynol wrth hwnw:—

1. Fod angylion y nef mor ymddibynol ar Dduw ag yw dyn, a'r greadigaeth yr un modd; felly, nid yw efe ond ar yr un tir a phob peth o waith y Brenin mawr, y rhai a gynelir oll â gair ei nerth ef.

2. Dywedwn wrth y dyn sydd yn anfoddlon i'r syniad o ymddibyniaeth trwyadl ar Dduw, fod ei anfoddlonrwydd yn wrthryfel yn erbyn ei natur ei hunan, a phob natur arall drwy y bydysawd, ac yn sarhad ar yr unig gynllun ar ba un y dichon creadur fodoli o gwbl, sef cyflawn ymddibyniaeth ar Dduw.

3. Dywedwn yn mhellach wrth y cyfryw, fod ei anfoddlonrwydd ef yn ymgais wan am ddiddymu y gwahaniaeth hanfodol sydd rhwng y creadur a'r Creawdwr, ac i osod y creadur, ar ol iddo unwaith gael ei fodolaeth, ar dir annibynol fel y Duwdod ei hunan; ac felly, yn cynwys ynddo elfenau y pechod cyntaf yn Eden, ac yn wrthryfel mawr yn erbyn yr Arglwydd. Mae syniadau cywir am ymddibyniaeth

drwyadl y creadur ar y Creawdwr mor bwysig, fel na ddylai dyn *byth anturio* i roddi ei droed ar dir gwyddoniaeth foesol, heb eu gwreiddio yn dda yn ei feddwl yn gyntaf oll. O gamgymeriadau ar y pen hwn y mae prif gyfeiliornadau y byd wedi tarddu allan; ac o'r un ffynon y llifa yr ysbryd hunanddigonol a geir mor aml yn mysg Cristionogion (mewn enw), a'r syniadau isel sydd yn y wlad am yr angenrheidrwydd am weddïau taerion a pharhaus yn bersonol, yn deuluaidd, ac yn gynulleidfaol. Teimlad dyfnach o ymddibyniaeth ar Dduw a barai i ni fel yr apostolion weddïo mwy na mwy, nos a dydd; ac felly, fe feithrinid pob gras a rhinwedd yn ein mysg, a byddai crefyddwyr yn gewri yn nerth Duw, yn lle bod yn gorachod yn eu nerth eu hunain.

Yn awr, os yw creadur yn ymddibynu ar y Creawdwr am ei fodolaeth, mae yn canlyn ei fod yr un mor ymddibynol arno am ei gynaliaeth, ac am ei holl ysgogiadau corfforol a meddyliol. Mae cydweithrediad y Duwdod yn angenrheidiol iddo yn barhaus. Nid yn unig y mae llaw Duw yn angenrheidiol i reoli ac i alluogi elfenau, a bydoedd, a chreaduriaid afresymol i lenwi y cylchoedd a benododd yr Arglwydd iddynt, ond hefyd i alluogi meddyliau dynion ac angylion i weithredu fel y bwriadwyd iddynt wneuthur. Mae gan Dduw law yn eu holl ysgogiadau a'u holl weithredoedd, ac nis gallant byth eu cyflawni heb ei gydweithrediad ef, pa un bynag a fyddont o ran eu nodwedd foesol ai da ai drwg. Mae help ei allu ef yn anhebgorol angenrheidiol i nerthu y meddwl i ffurfio pob syniad, i lunio pob cynllun, ac i amcanu pob amcan ynddo ei hunan, cyn iddynt ymddangos mewn gweithrediad o gwbl, ac y mae nerthu y meddwl i weithredu felly yn berffaith deilwng o Dduw, pa un bynag ai da ai drwg fyddo nodwedd foesol y gweithrediadau meddyliol hyny. Rhaid i ddyn gael help Duw i lefaru pob gair a ddel allan o'i enau, pa un bynag ai cablu, ai gweddïo, ai pregethu a wnelo, neu ynte drafod ei amgylchiadau tymhorol. Pan lacio Duw ryw ychydig ar linynau y cyfansoddiad, fel y gwna drwy y parlys ac anhwylderau eraill, bydd dyn yn analluog i ddywedyd cymaint a gair. Yr wyf yn dywedyd eto fod yn hollol deilwng o Dduw i helpu dyn i draethu ei ymadroddion fel y byddo yn dewis eu traethu, pa nodwedd foesol bynag a berthyna iddynt.

Yr un modd, nis gall dyn droi ei fwriadau a'i gynlluniau yn weithredoedd, heb i Dduw barhau i nerthu ei feddwl i sefyll at ei benderfyniadau; rhoddi cyfleusderau yn ei ffordd, a rhoddi nerth yn mhob llinyn, gewyn, cymal, a chyneddf yn ei gyfansoddiad, fel y gallo ddwyn ei amcanion i ben; ac y mae hyny yn berffaith deilwng o Dduw, ac yn hollol annibynol ar nodwedd foesol y gweithredoedd a gyflawnir. Yn wir, y mae yr Arglwydd yn cynal Satan ei hunan, ac yn parhau i nerthu pob gallu a fedd, ac y mae hyny mor deilwng o hono, ac mor dda a santaidd ynddo, ag ydyw iddo gynal a nerthu dyn da neu angel i gyflawni eu gweithredoedd.

Pan ystyriom y pethau hyn, gwelir yn amlwg fod yr Arglwydd yn cynorthwyo dyn, nid yn unig i wneud ei weithredoedd da, ond ei

weithredoedd drwg hefyd; a bod llawer o bethau yn perthyn i bob gweithred ddrwg, a'i chymeryd yn yr oll a olygir wrth y fath air, yn rhwym o fod yn dyfod oddiwrth Dduw, ïe, y mae pob peth a berthyn i weithred ddrwg, ond ei drygedd yn unig, yn rhwym o fod yn wreiddiol yn dyfod oddiwrth yr Arglwydd. Mae ganddo law yn y cyfan a berthyn i weithred ddrwg, ond ei diffygolrwydd pechadurus, sef ei hanghydffurfiad â gofynion y gyfraith. Eiddo dyn ei hunan yn unig ydyw hwnw. Nid yw yn bosibl fod gan Dduw law yn y diffyg hwnw sydd yn cyfansoddi pechadurusrwydd gweithred; oblegid nid yw efe yn awdwr diffygion o gwbl, yn naturiol na moesol. Pethau *cadarnhaol* ac nid *nacaol* y mae efe yn wneuthur—y bydoedd, ac nid y gwagle a wnaeth Duw. Y dydd, ac nid y nos, a wna efe. Bywyd, ac iechyd, a chysuron yw ei waith ef, ac nid marwolaeth. Duw sydd yn rhoddi llygaid a chlyw i ddyn; ond pan enir dyn yn ddall, neu yn fyddar, nid oes neb a feddwl fod yr Arglwydd wedi gwneuthur ei ddallineb, neu ei fyddardod. Nid oes gwneud ar y fath bethau, absenoldeb gwneud pethau a ddangosant, a deillion a byddarion a fuasem ni oll oni buasai i Dduw, yn ei ddaioni, roddi llygaid a chlyw i ni, pryd nad oedd genym ni ddim hawl arno ef am y naill na'r llall.

Heblaw nad yw Duw yn awdwr diffygion naturiol, byddai yn fwy afresymol fyth pe b'ai modd i ni ddal fod Duw yn awdwr diffygion moesol a phechadurus. Mae ganddo ef law, a'r llaw fwyaf a phenaf, yn mhob peth sydd dda mewn dynion, yn gystal ag angylion; ond byddai priodoli iddo ef ddiffygion moesol, yn gystal a haeru y perthyna iddo ef (yn yr hwn y mae *cysondeb* anfeidrol) wrthddywediadau, gwrthegwyddorion, a gwrthamcanion. Priodolid iddo felly y drwg yn gystal a'r da, a llawer o bethau annuwiol a rhyfygus cyffelyb a darddant o'r syniad fod Duw yn awdwr diffygion yn gystal a pherffeithderau. Wrth ddal mai diffyg moesol gweithred foesol, wrth gymharu y peth ydyw â'r hyn a ddylai fod, yn wyneb cyfraith yr Arglwydd; neu mewn gair arall, mai anghyfraith yw pechod, yr ydym mewn cysondeb trwyadl â'r Beibl, ac â natur pethau, sef natur y Creawdwr a natur y creadur. Yr ydym yn dal mai y Duwdod ydyw ffynon pob daioni naturiol a moesol, nas gellir ei demtio ef â drygau; ac nid yw efe yn temtio neb; a bod pob drwg yn tarddu o'r creadur. Mae y syniad yn cynwys, nid yn unig nad yw Duw yn awdwr pechod, ond fod yn anmhosibl iddo fod, gan nas gall efe fod yn awdwr unrhyw ddiffygion, ac nad oes diffygion, ond perffeithrwydd anfeidrol ynddo ef ei hun; ac i greaduriaid yn unig y perthyna diffygion. Rhydd y syniad mai diffyg yw pechod, a bod gan Dduw law yn mhob peth sydd *gadarnhaol* mewn gweithred a elwir (a'i chymeryd gyda ei gilydd) yn un ddrwg—help i ni i egluro geiriau tebyg i'r rhai hyny: "A'r Arglwydd a galedodd galon Pharaoh," mewn cysondeb â santeiddrwydd anfeidrol y Goruchaf. Gorwedd y syniad hefyd yn esmwyth ar natur trefn iachawdwriaeth, a darpariadau dwyfol ras ar gyfer gwneud i fyny anghenion pechaduriaid. Mae y

syniad o'r pwys mwyaf i bob dyn fyddo yn astudiwr, ac yn awyddus am olygiadau cyson ar wahanol bethau fyddont yn ymwthio i'w sylw, wrth fyfyrio ar wahanol ganghenau duwinyddiaeth ac athroniaeth foesol.

Gyda llaw, dylid sylwi fod pawb sydd yn dal fod pechod yn rhyw *sylwedd* naturiol neu ysbrydol, yn rhwym o'i dadogi ar Dduw; oblegid efe yw cynyrchydd pob sylwedd materol ac ysbrydol. Y mae pawb sydd yn dal mai rhywbeth sylweddol ydyw pechod, yn cael ei gynyrchu gan serchiadau ac ewyllysiau dynion, yr un modd yn gwneud Duw yn awdwr pechod, ac y mae y dosbarth a'i golygant yn rhyw sylwedd ysbrydol a materol, wedi eu cydgymysgu â'u gilydd, ac wedi ei gynyrchu gan amgylchiadau, yn ei dadogi ar Dduw, fel y gwna y lleill; ac nis gallant ddianc o'r rhwydwaith sydd yn dŷn am danynt. Am y rhai sydd yn haeru ei fod yn bodoli heb unrhyw achos iddo, na rheswm am ei fodolaeth, mae y rhai hyny yn ei dragwyddoli, ac yn ei ddwyfoli, gan briodoli iddo yr annibyniaeth hwnw na pherthyna i neb na dim ond y Duwdod yn unig. Yr unig olygiad ar bechod a saif ei dir yn ddigryn yw yr hwn y dadleua Edwards, Williams, Smith, a Payne drosto, sef mai *diffyg* ydyw o ran ei natur.

Na ryfedded myfyrwyr athrofaol ein bod yn manylu ar y mater hwn. Yr ydym yn cofio ymddyddanion ar y pwnc er ys pymtheg a deugain o flynyddau bellach, ar aelwydydd ardal gyfagos i hon, ar hirnos y gauafau, rhwng dynion a merched deallus, ac awyddus am gyrhaeddyd golygiadau cyson ar byneiau crefydd; ac os oedd cysondeb yn beth dymunol a gwerthfawr yn ngolwg y bobl wledig a diaddurn hyny, pa faint mwy dymunol a gwerthfawr y dylai golygiadau cyson ar fater fel hwn fod yn ngolwg dysgawdwyr crefyddol yr oes sydd yn cyfodi?

Yr wyf hyd heddyw yn cofio yn dda am ddau wr gwledig, aelodau eglwysig yn yr un capel, yn ymddyddan â'u gilydd, wrth dori ffosydd ar rosdir, ddechreu y gwanwyn, oddeutu 52 o flynyddoedd yn ol. Yr oeddwn i yno yn fachgenyn yn cydweithio â'r ddau. Rhywbeth fel y canlyn oedd yr ymddyddan rhyngddynt:—

*Sion.* Beth yw dy farn di, Dafydd, am bechod?

*Dafydd.* Barnu yr wyf fi mai *diffyg* ydyw pechod o ran ei natur —diffyg dyfod i fyny â gofynion cyfraith Duw.

*Sion.* Os diffyg ydyw pechod, mae yn ymddangos i mi nad ydyw yn *ddim byd* felly; ac nid yw yn debyg y cosba Duw ddynion am *ddim byd!*

*Dafydd.* Ond y mae rhagor mawr rhwng *dim*, neu beth heb fodoli, a *dim* i ateb i ofynion cyfraith sydd yn ceisio perffeithrwydd gan ddyn—mae diffyg felly i ateb i'r gofynion yn siwr o fod o ganlyniad mawr yn mhob llywodraeth, ac yn llywodraeth Duw yn enwedig.

*Sion.* Wedi y cwbl, DIFFYG ydyw DIM BYD!

*Dafydd.* Bwria dy fod yn byw yn afradlon, ac yn gwario holl enill y tyddyn yma mewn oferedd, a bod dydd talu y rhent yn dyfod, a thithau heb *ddim* i dalu, ac felly am ddwy flynedd neu dair,

*Dim* fyddai hyny; ond *dim* a gostiai i ti golli dy gartref fyddai. *Diffyg* lle y dylai *fod peth* a fyddai. Dylai yr Arglwydd gael ffrwyth arnom ni; ond nid yw yn cael dim ar lawer o honom; a'r rhai sydd yn dwyn *tipyn* o ffrwyth, diffygiol iawn ydym ar y goreu, ac y mae y diffyg hwnw yn *bechadurus* ynom.

*Sion.* Mae y Beibl yn siarad am bechod fel *peth.*

*Dafydd.* Dylid ystyried nad oedd dynion gynt wedi astudio pethau yn fanwl iawn, ac felly, yr oedd yn rhaid defnyddio geiriau cryfion felly i osod pethau nacaol allan, onide, ni allasent hwy ddim deall fawr ddim yn eu cylch. Dywedir fod Duw yn crëu tywyllwch; ond mae yn eglur mai diffyg goleuni yw tywyllwch, ac nid rhywbeth wedi ei grëu o gwbl. Yr un modd, diffyg gwres ydyw oerni, ac nid rhywbeth wedi ei grëu fel goleuni a gwres. Felly, dywed Ioan mai anghyfraith yw pechod, yr hyn sydd yr un peth a dweyd mai diffyg cydymffurfiad â chyfraith Duw ydyw, fel y clywsom yn ddiweddar yn y bregeth ar y geiriau yna.

*Sion.* Mae pechod wedi ei drosglwyddo oddiwrth Adda i ni, a rhaid ei fod yn *beth* cyn y gellid ei drosglwyddo!

*Dafydd.* Ymddengys i mi y gellir trosglwyddo diffygion yn llawn mor hawdd a phethau; ac fe ddywedwyd yn y bregeth y cyfeiriwyd ati, Os rhyw lwmp llygredig a sylweddol ydyw pechod, yn cael ei drosglwyddo o dad i fab, *y byddai doctor da yn well gwaredwr i ddynion na Iesu Grist, oblegid gallai hwnw gael gafael ar y lwmp, a'i dynu ymaith*, ac yr wyf fi yn meddwl fod y dywediad yn gywir hefyd.

*Sion.* "Y *peth*" y mae Paul yn galw pechod. "Y peth nid wyf yn ei ewyllysio, hyny yr wyf yn ei wneuthur." Beth am hynyna?

*Dafydd.* Os yw pechod, mewn gwirionedd, yn *beth*, rhaid mai Duw yw ei *awdwr*. Ni welaf fi neb a all wneud pethau ond Duw; ac os Duw a'i gwnaeth, nid pechod mo hono; ac felly, nid oes pechod yn y byd o gwbl.

Bu farw Sion cyn hir iawn wedi yr ymddyddan dyddorol hwn, ond bu Dafydd fyw am 40 mlynedd wedi hyny. Cefais i lawer cyfeillach gydag ef mewn blynyddau dyfodol cyn myned i'r weinidogaeth, ac ar ol hyny hefyd. Yr oedd yn wr gwir ddeallus, ac yn hollol sefydlog yn ei farn am natur pechod, sef mai *diffyg* cydymffurfiad mewn calon a buchedd âg ewyllys ddatguddiedig Duw i ddynion ydyw, ac nid rhyw sylwedd ysbrydol o fath yn y byd.

Diau y gwyddai Duw erioed yn berffaith y deuai pechod i fewn i anurddo ac i andwyo y natur ddynol. Gwyddai hefyd am yr holl ddifrod a wnai yn y byd drwy yr holl oesoedd. Mae ymddygiadau yr Aiphtiaid tuag at Israel yn y gorthrymder a gawsant yno, ac ymddygiadau plant Israel yn eu gwrthryfel yn erbyn yr Arglwydd, dan eu barnwyr a'u brenhinoedd, wedi eu rhagfynegu gan yr Arglwydd yn fanwl. Mae y creulondeb a gyfarfyddodd Iesu Grist oddiar law yr Iuddewon wedi ei ragfynegu. Mae yr ymadawiad mawr oddiwrth y ffydd wedi ei gofnodi gan Paul, ac eraill, ac y mae gollyngiad Satan allan o'i garchar, yn y diwedd, a'r difrod a wna efe ar Eglwys

Dduw, wedi ei hysbysu i ni yn llyfr y Datguddiad. Nid *tybiau* yw y pethau hyn yn meddwl Duw, ond sicrwydd perffaith. Ac un peth a ddengys fod sicrwydd gan Dduw am deyrnasiad pechod ar blant dynion ydyw, y ffaith ei fod ef wedi apwyntio ei Fab i fod yn Waredwr i ddynion, cyn creu y dyn cyntaf, fel yr oedd trefn yn barod i achub dyn y foment yr aeth i lawr, a'r drefn hòno yn mhob peth yn cyfateb i anghenion byd syrthiedig, yn gyflawn a pherffaith.

Gan na thrig drwg gyda Duw, a'i fod yn lanach ei lygaid nag y gall edrych ar anwiredd; gan ei fod ef yn anfeidrol gyfiawn a santaidd, nid yw yn beth posibl fod pechod wedi tarddu o'i fwriadau ef, mwy nag o'i galon. A'r cwestiwn pwysig ydyw, Ar ba sail y meddai Duw *sicrwydd* am ddyfodiad pechod i'r byd, a'r dinystr a wnai yn y byd? Rhaid fod sicrwydd am y ffeithiau hyn yn rhywle, a bod y sicrwydd hwnw ar seiliau disigl. Ond ar ba beth y mae yn seiliedig? Gallai fod rhywun yn barod i ddywedyd fod yr Arglwydd yn hollwybodol. Os tybia neb fod sylw fel yna yn atebiad rhesymol i'r cwestiwn, rhaid ei fod yn blentynaidd dros ben. Os gwyddai Duw yn *sicr* y deuai pechod i'r byd, rhaid fod *sicrwydd* am ei ddyfodiad. Dywedyd y gwyr Duw yn sicr bethau nad ydynt yn sicr, sydd wrthddywediad perffaith—ac ychwanegu y gwyddai efe hyny erioed heb ddim sicrwydd am y peth, ond am ei fod yn hollwybodol, sydd ychwanegiad dwl at yr ynfydrwydd blaenorol! Mae y gofyniad eto heb ei ateb; ydyw, y mae heb ei gyffwrdd. Nid rhagwybodaeth Duw sydd yn gwneud pethau yn sicr, ond am eu bod yn sicr y gwyr efe eu bod felly.

Addefir yn rhwydd iawn fod bwriadau dwyfol i wneud daioni, ac i ddwyn creaduriaid y Brenin mawr i wneuthur daioni, trwy y nefoedd, y ddaear, a'r holl greadigaeth, yn sylfaen sicrwydd perffaith y cymer y daioni a fwriadwyd le. Mae y sicrwydd yna yn y Duwdod ei hunan, a'r bwriadau sydd yn aros yn ddigyfnewid ynddo, oblegid nid oes cysgod tröedigaeth yn perthyn i Dduw. Ond ni ddygodd Duw bechod i'r byd. Yna ni fwriadodd iddo ddyfod yma; ac eto, gwyddai yn sicr y deuai yma. Gan hyny, rhaid fod sylfaen arall i sicrwydd heblaw bwriadau dwyfol: a pha beth ydyw? Gwyr Duw pa beth yw creadur—gwyr am ei derfynoldeb a'i ddiffygolrwydd cymhariaethol iddo ef ei hun; ac o ganlyniad, gwyr pa fodd y gweithreda creadur terfynol felly dan bob amgylchiadau. Mae sail y sicrwydd oedd gan Dduw erioed am ddyfodiad pechod i'r byd yn y creadur dyn, a'r terfynolrwydd a berthyn iddo, ac y mae y sicrwydd mor berffaith a'r hwn sydd yn tarddu o arfaeth y Goruchaf. Nid yw yr Arglwydd yn arfaethu dim yn afreidiol. Nid oedd eisieu arfaeth i sicrhau cwymp dyn, gan fod y sicrwydd am hyny yn y dyn ei hun; ac ychwaneg, buasai yn anmhosibl i fôd anfeidrol santaidd arfaethu y fath beth a chwymp dyn; gan hyny, ni fwriadodd Duw erioed i bechod ddyfod i'r byd.

Mae rhai fel pe byddent yn anfoddlon i'r syniad na fwriadodd Duw i bechod ddyfod i'r byd; mynant gael rhyw gysylltiad rhwng

hyny âg arfaeth Duw. Gan hyny, y maent wedi dyfeisio cysylltiad nad oes yr un rhithyn o sail iddo, nac yn y Beibl na natur pethau, sef fod yr Arglwydd wedi arfaethu goddef i bechod ddyfod i'r byd.

Addefir yn rhwydd fod Duw wedi bwriadu goruwchreoli dyfodiad pechod i'r byd, er gogoniant i'w enw, a daioni i'r greadigaeth yn y pen draw. Arfaethodd aberth drosto; bwriadodd ei faddeu i'r edifeiriol, a bwriadodd ddwyn myrddiynau i edifeirwch, fel y derbyniont faddeuant pechodau. Bwriadodd orchfygu pechod drwy nerth ei anfeidrol drugaredd a'i ras, a'r gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. Bwriadodd yr hyn oll a ddygir i ben drwy yr efengyl, a dylanwad yr Ysbryd Glan, a bwriadodd boblogi y nefoedd â phechaduriaid wedi eu cyfiawnhau a'u santeiddio.

Ond pan ddywedir ei fod wedi bwriadu *goddef* i bechod ddyfod i'r byd, yr ydym yn barod i ofyn, pa amcan oedd i'r fath fwriad a hwnw? Gan fod pechod yn sicr o ddyfod i'r byd dan weinyddiad cyfiawn o lywodraeth Duw tuag at ddyn, yn annibynol hollol ar arfaeth i oddef iddo ddyfod, pa ddyben da a doeth a ellid ateb drwy arfaethu goddef iddo ddyfod? A pha beth ydyw goddef? Peidio a rhwystro peth—peidio gweithredu. Ai arfaeth i *beidio* gweithredu ydyw arfaeth Duw? Nage, arfaeth i weithio yw ei arfaeth ef, ac nid arfaeth i beidio gweithio. Ai tybed fod yr Arglwydd mor awyddus am i bechod ddyfod i'r byd fel yr arfaethai ei oddef i ddyfod yma, pryd yr oedd sicrwydd am ei ddyfodiad yn hollol annibynol ar arfaeth y Brenin mawr? Arfaethu *peidio* rhwystro i bechod ddyfod i'r byd yw arfaethu ei oddef i ddyfod. Arfaethu *peidio;* arfaethu peidio arfaethu ei luddias i ddyfod, ond pa angenrheidrwydd sydd am arfaethu peidio a gweithredu? Pan y mae dyn yn arfaethu myned yfory i Landderfel, a ydyw efe yn penderfynu peidio myned i New York, a New Orleans, neu Aberdaron? Ai tybed fod Duw yn arfaethu pethau afreidiol, pryd y mae dyn yn rhy synwyrol i fwriadu pethau o'r fath? A aeth dyn o'r diwedd yn ddoethach na Duw? Y gwir yw, nad oes a fyno arfaeth Duw ddim â goddef i bechod ddyfod i'r byd; a'r cwbl a ellir yn rhesymol ddywedyd ar y mater ydyw, na ddaeth pechod yma o gwbl yn ol ewyllys Duw, ond yn hollol groes iddi; ac, ar yr un pryd, na welodd efe yn ddoeth iddo ei rwystro. Y mae y syniad am arfaeth i oddef iddo ddyfod yn hollol afreidiol, ac nid yw Duw yn gwneud pethau nad oes angen am danynt.

Mae y mater hwn yn un pwysig, a llawn o ddyddordeb. Ni allwn heddyw draethu amryw o bethau yn ei gylch sydd ar ein meddwl; gan hyny, rhaid i ni eu gadael hyd y ddarlith nesaf.

*A.*—Er egluro ychydig ar yr hyn a ddywedwyd am gydweithrediad Duw mewn gweithredoedd a gyfrifir, a'u cymeryd yn y cyfanswm, yn ddrwg, a bod hyny yn deilwng, yn berffaith deilwng, o Dduw, gadewch i ni egluro y syniad yn y dull a ganlyn:—Dyna leidr yn gallu cael allan fod gwr ag arian yn ei logell i groesi mynydd yn y nos, ar hyd ffordd led anhygyrch. Yr oedd yn deilwng o Dduw

i nerthu ei feddwl i ddeall ac amgyffred peth felly, yn gystal a rhywbeth arall. Penderfyna y lleidr gynllwyn i'r gwr, ac ä i'r mynydd, a llecha yn nghysgod careg gerllaw y ffordd i ddysgwyl dyfodiad y teithiwr. Yr oedd mor deilwng o Dduw nerthu ei aelodau i ddringo i'r mynydd a'u nerthu i fyned i rywle arall—i'r addoliad, er engraifft. O'r diwedd, clyw swn ei draed yn nesâu at y lle, a chanfydda ef wrth oleuni gwan y ser. Nis gallasai ei weled na'i glywed heb i Dduw gadw ei glyw a'i olwg i weithio yn rheolaidd; ac y mae hyny yn dda ac yn deilwng o Dduw iddo wneud. Cyfyd i fyny, a dywed wrth y gwr am roddi ei arian iddo ef. Nis gallasai godi heb i Dduw barhau i roddi nerth iddo, na dywedyd y geiriau heb i Dduw barhau rheolaidd weithrediad ei beirianau llafar, ac y mae hyny yn deilwng o ddaioni yr Arglwydd. Gan na ddyry y gwr arianog ei eiddo iddo, tery ef nes y byddo yn ddiymadferth ar lawr. Yr oedd yn deilwng o Dduw i nerthu braich y dyn i daro. Wrth daro yr enill gofaint a seiri eu bywoliaeth. Rhydd y dyn ei law yn llogell yr hwn a darawyd, a symud yr arian oddiyno i'w logell ei hun, ac y mae yn deilwng hollol o Dduw i nerthu dynion i symud pethau o'r naill le i'r llall. Dianga y lleidr ymaith, ac y mae mor deilwng o Dduw ei nerthu i ddianc ag oedd iddo nerthu Lot i ffoi o Sodom. Gwelir yn y pethau hyn oll fod y cyfan a wnaeth Duw yn *dda iawn*, ac yn deilwng o hono ef; ac mai camddefnydd o wybodaeth a nerth, a rhoddion eraill o eiddo Duw—mewn gair, troi y cwbl i amcanion annheilwng, oedd pechod yr ysbeilydd; neu anghydffurfiad â'r gyfraith sydd yn dywedyd, "Câr dy gymydog fel ti dy hun."

*B.*—Dywedwyd nad yw gwybodaeth anfeidrol yn gymhorth yn y byd i ganfod sicrwydd lle nad ydyw. Gellir dywedyd ychwaneg, Fod gwybodaeth berffaith yn sicr o ganfod sicrwydd lle y mae, ac o weled yn ddiffael nad oes sicrwydd lle *nad* ydyw. Na thwylled neb ei hunan gyda syniadau heb eu chwilio. Gwybodaeth berffaith ydyw gwybod pethau, pob math o bethau, yn union fel y maent, yn sicr neu yn ansicr, ac nid yw yn rhoddi i'r pethau na sicrwydd nac ansicrwydd.

## PECHOD.—PARHAD.

### *Darlith XXIV.*

YN y Ddarlith flaenorol ar y mater hwn, traethasom ein barn, yr hon, gyda llaw, sydd yn ffrwyth llawer o ystyriaeth bwyllog, mai diffyg ydyw pechod; pob pechod—pechod gwreiddiol a gweithredol—pechodau y galon, y tafod, a'r ymarweddiad, ac nid unrhyw sylwedd materol nac ysbrydol. *Anghydffurfiad â chyfraith Duw*—"Anghyfraith yw pechod." Dangoswyd hefyd nad oedd eisieu arfaeth o eiddo Duw i *oddef* i bechod ddyfod i'r byd, nad yw yr Arglwydd yn gwneud pethau heb eu heisieu; ac o ganlyniad nad

yw yn briodol dywedyd fod Duw wedi arfaethu *goddef* i bechod ddyfod yma. Pe buasai arfaeth yn angenrheidiol yn y mater o gwbl, nid arfaeth i *oddef* i bechod ddyfod i'r byd a fuasai hono, ond arfaeth i rwystro ei ddyfodiad; ac addefir genym yn rhwydd iawn, pe yr ataliesid ei ddyfodiad i'r ddaear, y buasai arfaeth ddwyfol yn angenrheidiol i hyny.

Cawn yn Llyfr Genesis hanes lled fanwl am y modd y daeth dyn i fod yn droseddwr. Twyllo Efa a wnaeth y sarph, drwy weithio ar yr egwyddor naturiol a blanodd y Crëwr yn mynwes dyn, yr hon a bar iddo ymawyddu am gynyddu o ran ei wybodaeth, ei urddas, a'i fwynhad. Llwyddodd i daflu y wraig i amheuon am eirwiredd ac ewyllys da yr Arglwydd. Wedi ei thwyllo a'i hudo felly, hi a gymerodd o ffrwyth y pren, ac a fwytaodd. Llwyddodd hithau wedi hyny i hudo Adda hefyd i gyflawni yr un anfadwaith ag a wnaethai hi ei hunan. Barna rhai mai nid ei dwyllo a gafodd Adda gan ei wraig, ond iddo ef fwyta o ffrwyth y pren mewn math o ryfyg herfeiddiol o awdurdod y Brenin mawr, a hyny yn bwyllus, a'r holl ganlyniadau yn eglur o flaen ei feddwl; ond ni welsom ni eto unrhyw resymau cryfion i brofi hyny. Yn ol dim a ymddengys yn oleu, pa fodd bynag, ei dwyllo a gafodd yntau hefyd gan Efa ei wraig.

Ond boed hyny fel y bo, eglur yw nad yw yr hanes am gwymp dyn a geir yn Llyfr Genesis yn ddim ond hanes yr amgylchiadau, neu ddesgrifiad o'r modd y daeth dyn i fod yn droseddwr. Nid yw yn dywedyd wrthym o ba le y tarddodd pechod, na'r achos gwreiddiol o hono. Darlunio amgylchiadau a moddau y mae hanesion am bechodau pobl eraill yn y Beibl yn wastadol bron.

Ond nid dyn ydyw y troseddwr cyntaf yn llywodraeth foesol Duw. Yr oedd angel syrthiedig wedi troseddu o flaen dyn. Chwareu teg i ddyn, er gwaethed ydyw, nid efe oedd y cyntaf i ddatod a chodi lluman gwrthryfel yn ymerodraeth y Goruchaf. Satan oedd yr arch-wrthryfelwr yn llywodraeth Duw; ac os tybia neb fod yr amgylchiadau hudoliaethus a ddarlunir yn Llyfr Genesis yn ddigonol i roddi cyfrif am gwymp dyn, mae y gofyniad hwn yn codi yn naturiol, Pa fodd y cwympodd angel? Efe oedd y pechadur cyntaf, ac felly nid oedd modd iddo ef gwympo drwy i ryw fôd rhesymol ei demtio a'i hudo, oblegid efe oedd y blaenaf oll ar restr pechaduriaid, ac nid oedd pechadur arall mewn bod i'w hudo ef i droseddu. Dechreuodd y gwrthryfel ynddo ef ei hun. Ei eiddo ef ei hunan yn unig ydoedd. Pan y mae yn dywedyd celwydd, o'r eiddo ei hun y mae yn ei ddywedyd, oblegid y mae yn "gelwyddog, ac yn dad iddo," medd yr Ysgrythyrau. Wrth edrych ar y mater yn ei gysylltiad â Satan, yr ydym yn gweled yn eglur fod ffynon darddiol pechod yn rhywle yn natur creadur rhesymol, ac nid yn unig nac yn benaf mewn allanolion a fyddont yn gysylltiedig âg ef.

Dylid ystyried hefyd nad yw hudoliaethau ond cyfleusderau i dda neu ddrwg fyddo mewn dyn neu angel i ddangos ac amlygu ei hunan. Parodd hudoliaeth i'r daioni oedd yn Joseph belydru allan yn

ogoneddus iawn; a gwyddom fod y dyn Crist Iesu "wedi ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninau," ac mai y daioni oedd ynddo a ddeuai i'r golwg drwy y temtasiynau oll, "Eto heb bechod." O'r ochr arall, y mae temtasiynau yn gyfleusderau ac achlysuron yn aml i lygreddau dori allan o'r galon, fel yn amgylchiad Dafydd a gwraig Urias, Solomon a'i wragedd lluosog, Hezeciah a chenadon brenin Babilon, a lluaws sydd o'n hamgylch bob dydd. Ond nid yw temtasiynau yn rhoddi na drwg na da mewn dynion. *Cyfleusderau ac achlysuron ydynt* i ddrwg neu dda ddangos ei hun, a thori allan. Rhaid *ei fod* cyn y toro allan, er yr addefwn fod temtasiynau yn achlysuron i enyn a bywiogi llygreddau fyddont mewn dynion yn flaenorol, ond nid y pethau hyn ydyw ffynon wreiddiol llygredigaeth mewn dyn, ac fe ddangoswyd eisoes nas gallent fod yn ffynon llygredigaeth diafol, oblegid nad oedd un temtiwr yn eu gweinyddu tuag ato ef, fel y gweinyddodd ef hwy tuag at ddyn. Mae y bobl sydd yn priodoli ffurfiad tueddfryd calon dyn, ei chwaeth, ac egwyddorion llywodraethol ei feddwl i ddylanwad cymhellion allanol yn unig, yn priodoli mwy o allu i'r cymhellion allanol hyny nag a allwn ni ei ganiatau, oblegid yr ydym yn credu fod rhan bwysig o'r cymhellion, a'r rhan bwysicaf hefyd, yn nghalon y dyn y dygir y cymhellion allanol i weithio arno; mewn gwirionedd, amrywiog (*complex*) ydyw cymhellion, ac y mae llwyddiant y rhan allanol o honynt yn ymddibynu ar ansawdd fewnol y galon, fel y gwyr pregethwyr yr efengyl yn dda drwy brofiad chwerw; oblegid pa mor fanteisiol bynag yw cynygion dwyfol ras, gwrthodir hwy yn benderfynol. Felly, mae y syniad am ffynon llygredd mewn cymhellion yn tori i lawr. Felly, nis gallwn ganiatau mai mewn cymhellion allanol y mae ffynon darddiol llygredd moesol, oblegid pe felly, byddai gwreiddyn y drwg tuallan i'r dyn, ac yn annibynol arno; ac fel y nodwyd eisoes, nid yw yr oll a ddygir i weithio ar ddyn mewn ffordd o gymhelliad oddiallan iddo, er ei ddenu i weithredu yn y naill ffordd neu y llall, ddim ond rhan o'r cymhellion. Mae y rhan arall o honynt, a'r rhan bwysicaf o lawer hefyd, oddifewn i ddyn—yn nhueddfryd ei galon, ei chwaeth, a'i ymhyfrydiad, ac egwyddorion moesol ei feddwl.

Nis gallwn ychwaith ganiatau i neb symud ffynon darddiol pechod o'r rhan allanol o'r cymhellion i'r rhan sydd yn dufewnol, sef i lygredigaeth y tueddfryd a'r chwaeth, a hyny am y rheswm eglur i bawb mai llygredigaeth y tueddfryd ac egwyddorion y galon yw y peth sydd i roddi cyfrif am dano, ac nid yw yn rhesymol i neb roddi cyfrif am y llygredd hwnw drwy y llygredd hwnw ei hun. Troi mewn cylch yn hollol fyddai hyny—codi a disgyn yn yr un man.

Eglur ydyw hefyd nas gallwn dderbyn gwaith dynion yn haeru mai yn y diafol y mae ffynon llygredigaeth dyn, a'i fod wedi ei drosglwyddo o'r angel syrthiedig i ddyn; oblegid yn un peth, y mae y syniad yn gosod pechod allan fel rhywbeth sylweddol a ellir ei drosglwyddo o'r naill greadur i'r llall, ond nid yw pechod yn sylwedd materol nac ysbrydol trosglwyddadwy felly. Pe byddai yn sylwedd

trosglwyddadwy, byddai raid i ni ddal, fel y nodwyd y tro diweddaf, mai Duw yw ei awdwr, yr hyn a fyddai yn gabledd, ac ni allai pechod fod, yn ol y fath syniad, yn ddrwg o gwbl. Dywedwn eto *mai diffyg moesol gweithred foesol creadur rhesymol, yn ngwyneb gofynion cyfraith Duw*, ydyw pechod. Peth arall sydd genym yn erbyn y syniad yw, nad yw yn rhoddi i ni reswm yn y byd am waith y meddwl dynol, os oedd yn weithredydd gwirfoddol yn y mater, yn cymeradwyo ac yn derbyn egwyddorion a chwaeth lygredig oddiwrth y diafol. Ac os dywedir nad oedd dyn yn rhyddweithredydd yn y mater, dywedwn ninau nas gallasai fod yn bechadur felly o gwbl yn llygriad ei natur—dim ond goddefydd hollol ddifeius. A mwy na'r cwbl, mae y syniad yn fyr o daflu unrhyw oleuni ar wreiddyn drwg moesol yn y diafol ei hunan. Ac yn y mater hwn, y mae *mor bwysig* i ni gael allan o ba ffynon y tarddodd llygredigaeth diafol ag ydyw i ni gael allan o ba le y tarddodd llygredigaeth dyn, oblegid cael goleuni ar y naill sydd yn rhoddi goleuni ar y llall, ac y mae lle cryf i farnu mai yr *un* ydyw gwreiddyn drwg moesol mewn angel syrthiedig ag mewn dyn syrthiedig hefyd.

Mae rhai, a llawer yn wir, yn dal mai yn ewyllys dyn y mae gwreiddyn drwg moesol. Daliant hefyd, o leiaf lawer o honynt, fod ffynon daioni yr un modd yn ewyllys dyn. Atebir y gofyniad, Pa fodd y rhoddir cyfrif am ddaioni moesol mewn dyn, drwy ddywedyd, "Mai yr ewyllys sydd yn hunan-benderfynol, ac yn gweled yn dda benderfynu ymhyfrydu mewn daioni, a gwneud daioni yn ol ei hunan-benderfyniad." Yr un modd atebir y gofyniad, Pa fodd y rhoddir cyfrif am ddrwg moesol mewn dyn, drwy ddywedyd, "Mai yr ewyllys yn ei hunan-benderfyniad sydd yn gweled yn dda hoffi drygioni, a'i wneuthur, yn ol ei phenderfyniad gyda golwg ar hyny."

Mae y ffordd esmwyth yna o roddi cyfrif am wreiddyn drwg moesol yn un pur wasanaethgar i amrywiol ddosbarthiadau o ddynion, yn enwedig y rhai canlynol, megys—

1. Y dosbarth diog a dilafur, y rhai na ofalant ddim yn nghylch y manylion am unrhyw beth—pechod ar un llaw, na rhinwedd ar y llaw arall. Y maent hwy fel Galio, nid yw yn werth ganddynt drafferthu i wybod dim oll yn nghylch y mater. I siarad, chwerthin, chwedleua, cerdded o dŷ i dŷ, i fwyta ac yfed, cysgu, a breuddwydio y daethant hwy i'r ddaear. Nid oddiwrth y mwnci aflonydd a llawn yni (fel y myn Darwin) y tarddasant hwy, ond oddiwrth y *sloth*. 2. Mae y syniad hwn hefyd yn un tra gwasanaethgar i'r dosbarth dwl a hollol amddifad o allu i dreiddio i mewn i arddansoddiaeth (*metaphysics*)—dynion na allant feistroli dim byd ond rhyw ddwsin neu ddau o ffeithiau sydd ar y wyneb, ac eglur i bawb. 3. Mae yn hwylus iawn eto i wasanaethu amcan mân-anffyddwyr sydd am briodoli da a drwg, y naill yn gystal a'r llall, i ewyllys dyn, ac am daflu y Duwdod mor bell ag y gallant dros derfynau eu cyfundraeth foesol, am fod ei bresenoldeb ef yn annyoddefol iddynt, a'r

syniad mai efe yw ffynon pob gwir ddaioni moesol, yn anghydweddol â'u dychymygion a'u dymuniadau.

Ond nis gallwn gytuno â'r syniad mai ewyllys dyn, nac ewyllys angel syrthiedig chwaith, ydyw ffynon darddiol drwg moesol; oblegid y pethau canlynol, ac eraill a allasem enwi, fel pethau sydd yn anghyson â'r fath syniad, ac yn ei ddadymchwelyd yn hollol:—

1. Mae y syniad yn cynwys fod ewyllys dyn yn weithredydd (*agent*), ac yn annibynol ar alluoedd eraill yr enaid, ac yn penderfynu pethau ei hunan, yn ol rhyw ddeall, a rhyw galon, a chydwybod sydd yn perthyn yn neillduol iddi hi ei hun, pryd nad oes yr un ewyllys felly gan y Duwdod ei hunan, na neb o'i greaduriaid. Mae ewyllys y Duwdod ei hunan yn cael ei rheoli yn hollol gan ei natur anfeidrol ddaionus a santaidd. Felly hefyd y mae pob ewyllys arall yn cael ei rheoli gan natur y bôd y perthyna yr ewyllys iddo. Nid ffynon gallu yw yr ewyllys, ond offeryn gallu, ac nid oes angen am i ni ond *apelio* at ymwybodolrwydd mewn trefn i weled hyn yn eglur. Mae yr hen air, "Lle y byddo ewyllys y bydd gallu," yn cynwys llawer mwy na gweithrediadau ewyllys noeth. Golyga fod y farn, a'r serchiadau, a'r holl enaid, yn ysgogi yr ewyllys at ei gwaith. Mae pechod yn wastad yn dechreu yn ngweithrediadau galluoedd sydd yn foddion i ysgogi yr ewyllys at ei gwaith, megys camgymeriadau yn y deall, cariad at bethau anghyfreithlon yn y serchiadau, llygredd yn y gydwybod, a'r cyffelyb. Nid yr ewyllys sydd yn weithredydd moesol, ond perchen yr ewyllys.

2. Nid yw dywedyd mai yn yr ewyllys y mae ffynon drwg moesol yn ddim amgen na cheisio egluro y peth drwy y *peth* ei hunan Y cwestiwn ydyw, Paham y mae yr ewyllys yn penderfynu gwneud drwg yn hytrach na daioni? Chwilio am yr achos o hyny yr ydys; ac yn lle cyfarfod y cwestiwn yn deg, atebir ni drwy ddywedyd ei bod yn gwneud hyny, yr hyn sydd yr un peth a dywedyd ei bod yn dewis y drwg am ei bod yn dewis. Pe gofynai dyn am eglurhad ar ffeithiau yn natur, a chael atebion fel y rhai a roddir yn aml i ofyniadau am bethau meddyliol, fe chwarddai am ben y fath atebion. Mae yr afon Ohio yn rhedeg am ei bod yn rhedeg. Mae yr haul yn codi am ei fod yn codi, a'r lleuad yn newid am ei bod yn newid. Byddai atebion felly yn destynau gwawd. Pur debyg iddynt ydyw yr ateb a roddir gan y neb a ddywedo fod yr ewyllys yn penderfynu gwneuthur drwg o honi ei hunan, ac yn unig drwy ei hunanbenderfyniad. Y peth a geisir wybod ydyw, paham y mae yr ewyllys yn dewis felly; a'r ateb a geir ydyw ei bod yn gwneud felly. Ai tybed fod y meddwl yn gweithredu heb unrhyw achos? A ydyw ewyllys dyn yn cenedlu effeithiau heb achosion priodol i'w cynyrchu? Na, nid yw yn debyg. Mae rhyw reswm am benderfyniadau yr ewyllys fel am bob peth arall a gynyrchir gan eu priodol achosion. Mae y dynion mwyaf deallus yn cyduno fod achosion yn dwyn eu priodol effeithiau yn y meddwl, fel yn mhobman arall; ac nid oes effaith heb achos iddo yn yr ewyllys, mwy nag yn y greadigaeth

weledig. Paham y gŵyrai ewyllys creadur santaidd oddiwrth ffordd y gwirionedd, fel eiddo yr angel ar y dechreu, ac ewyllys Adda cyn y cwymp, yw y peth yr ymofynir yn ei gylch.

3. Mae y ffaith bwysig ac eglur fod holl ddynolryw, yn mhob oes o'r byd, yn gweled fod yn angenrheidiol iddynt arfer moddion, a'r moddion tebycaf o lwyddo hefyd, i ysgogi ewyllysiau eu gilydd at ddaioni a drygioni, y naill fel y llall, yn dangos yn eglur fod y dyb fod yr ewyllys ddynol yn hunan-benderfynydd annibynol ar y deall a'r serchiadau, yn groes i syniad cynhwynol dynolryw ar y mater; a gwyddom oddiwrth y dull a gymerodd diafol i demtio ein rhieni cyntaf beth yw ei farn ef ar y pwnc; a gwyddom hefyd beth yw barn angylion, ac ni adewir ni yn y tywyllwch am farn y Duwdod ar y mater. Os addefir fod ewyllys dyn yn ei phenderfyniadau yn ymddibynol ar yr amgyffredion, y farn, a'r serchiadau, a dylanwad cymhellion, yna, mor sicr ag mai nid DAU a DAU ydyw pump, felly, nid yr ewyllys yw ffynon darddiol drwg moesol.

4. Ni adewir ni yn y tywyllwch o gwbl am ffynon darddiol daioni. Yr oedd delw Duw ar y dyn cyntaf yn dyfod oddiwrth yr Arglwydd, ac y mae ei hadnewyddiad ar bechadur yn dyfod o'r un man. "Ei waith ef ydym ni, wedi ein crëu o newydd yn Nghrist Iesu." "Y dyn newydd, yr hwn, yn ol Duw, a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir santeiddrwydd." Nid oes un wireb yn fwy eglur a chadarn na hòno, "Pob da oddiwrth y Creawdwr;" ac felly, nid ewyllys dyn yw gwreiddyn daioni moesol, ond y Duwdod ei hunan ydyw *gwreiddyn yr ewyllys*, a phob daioni a berthyn i'w phenderfyniadau.

5. Nid yw y Beibl, ychwaith, yn ein gadael ni yn y tywyllwch gyda golwg ar lawer o bethau cysylltiedig â tharddiad pechod. Dywed wrthym mai eiddo dyn ei hun yw ei bechod. "Yr annuwiol a ddelir â rhaffau ei bechod ei hun." "Canys yna y temtir pob un pan y tyner ef, ac y llithier gan ei chwant ei hun. Yna chwant, wedi ymddwyn, a esgor ar bechod; pechod hefyd, pan orphener, a esgor ar farwolaeth." Mae yn sicrhau nad oes gan Dduw, yn arfaethol na gweithredol, law yn y byd mewn pechod. "Canys nid wyt ti, Dduw, yn ewyllysio anwiredd, a drwg ni thrig gyda thi." "Na ddyweded neb pan demtier ef, Gan Dduw y'm temtir. Canys Duw nis gellir ei demtio â drygau, ac nid yw efe yn temtio neb." Ac yn wir, pe na ddywedasai y Beibl yr un gair ar y pwnc, gallasem dynu casgliad teg oddiwrth yr hyn a wyddom am natur y Duwdod, fod yn anmhosibl iddo ef feddu unrhyw law mewn dwyn pechod i fodolaeth. Mae Jonathan Edwards wedi bod dipyn yn fyrbwyll pan ddywedodd nad oedd ganddo ef wrthwynebiad i ddweyd fod Duw yn awdwr pechod mewn ystyr gyfyng ac israddol. Mae Dr. Williams yn beirniadu y sylw yna, ac yn dywedyd nad yw Duw yn awdwr pechod mewn ystyr gyfyngedig felly, nac mewn unrhyw ystyr arall, ond nas gall fod mewn ystyr yn y byd yn awdwr iddo. Mae sylw Dr. Williams yn eithaf priodol, a diau genym, pe buasai Edwards yn fwy cydnabyddus âg *achosion nacaol* a'u heffeithiau, na ysgrifenasai efe byth y fath eiriau.

Gormod o duedd oedd yn y gwr mawr hwnw i gysylltu pob peth âg arfaeth Duw, naill ai yn weithredol neu yn oddefol.

Yn awr, gan nas gellir rhoddi cyfrif teg am ddyfodiad pechod i'r byd drwy ddywedyd ei fod wedi tarddu o hudoliaethau y diafol, nac o hono ef ei hunan, drwy ryw drosglwyddiad i ddyn o anian ddrygionus oddiwrtho ef, nac o'r ewyllys ddynol, fel cyneddf, mae y cwestiwn mawr, "O ba le y tarddodd llygredigaeth moesol?" yn gofyn cael atebiad ar ryw egwyddor arall sydd yn fwy cyson â natur pethau; sef natur y Duwdod ar un llaw, a natur ei greaduriaid rhesymol ar y llaw arall.

Yn awr, mae yn debygol yr addefa pob dyn ystyriol fod hanfodol wahaniaeth rhwng y Creawdwr a'i greaduriaid rhesymol, a bod y gwahaniaeth hwnw yn anfeidrol. Eglur ydyw, er fod ysbryd mewn dyn, a bod ysbrydoliaeth yr Hollalluog wedi peri iddo ef ddeall, nas gall ysbryd crëedig dyn fod o'r un *natur* a'r Ysbryd mawr tragwyddol a'i dygodd i fodolaeth, ac sydd yn ei gynal yn barhaus mewn bod.

Mae holl briodoleddau naturiol y Duwdod yn dragwyddol a diderfyn, ond y mae holl briodoleddau neu alluoedd naturiol dyn, ac angel hefyd, yn derfynol ac ymddibynol ar Dduw am eu bodolaeth, a'u gweithgarwch. Mae yr un mor eglur eto fod anfeidrol wahaniaeth rhwng priodoleddau moesol y Duwdod (megys ei ddaioni, ei gyfiawnder, a'i santeiddrwydd) a phriodoleddau moesol creadur, er iddo fod ar ddelw Duw. Mae rhinweddau y Goruchaf yn anfeidrol, ac yn hollol annibynol ar bawb a phobpeth, ac yn bodoli erioed a byth ynddo ef ei hunan. Mae terfyn i bob peth a berthyn i'r creadur, a hyny o angenrheidrwydd. Nid creadur fyddai pe na byddai felly; ac nis gallasai fodoli o gwbl, ond o fewn terfynau meidroldeb ac ymddibyniaeth. Gan hyny, y mae diffygion naturiol a moesol yn perthyn o angenrheidrwydd i'r creadur, pan ar y goreu, wrth ei gymharu â pherffeithrwydd anfeidrol y Creawdwr. Mae yn *agored* i gamgymeryd mewn syniadau, mewn geiriau, ac mewn ymddygiadau; ac y mae *angel* perffaith, a *dyn* perffaith *wedi* camgymeryd mewn syniadau ac ymddygiadau, er fod llwybr eu dyledswydd yn amlwg o'u blaen; ïe, mor oleu a haner dydd.

Yn awr, gan mai diffyg ydyw pechod o ran ei natur, ymddengys i ni mai y ffynon o ba un y tarddodd allan ydyw *y diffygolrwydd cymhariaethol a berthyn i bob creadur rhesymol.* Diffygolrwydd moesol mewn syniadau ac ymddygiadau ydyw pechod, yn tarddu allan o'r diffyg cymhariaethol, hyny yw, wrth ei gymharu â pherffeithrwydd y Duwdod, yr hwn a berthyn yn wreiddiol i bob creadur rhesymol. Nid oes amheuaeth yn y mesur lleiaf yn ein meddwl, wrth draethu ein barn bwyllog, mai y *diffygolrwydd naturiol hwnw* ydyw *y wir ffynon* o ba un y deilliodd camwedd yn llywodraeth foesol y nefoedd. Dywedwn eto mai o'r diffygolrwydd a nodwyd y tardda *pob pechod*—pechod cyntaf yr angel syrthiedig, yn gystal a phechod cyntaf Adda.

Ychwanegwn yn mhellach, mai o'r *un* ffynon y tardda pechodau

dynion yn holl oesoedd y byd ag y tarddodd y pechod cyntaf allan o honi. Nid yw yn angenrheidiol i ni gael hyd i ryw ffynon arall, fel tarddle pechodau hil Adda—un newydd a gwahanol i'r hon y tarddodd pechod cyntaf Adda o honi. Yr un o ran ei natur yw pechod pob oes a gwlad, a'r un hefyd yw y ffynon y tarddasant o honi.

Nid ydym heb wybod yn dda y codir dadleuon lawer yn erbyn y golygiad hwn ar ddeiliad drwg moesol, ond gofyna fwy o ofod nag sydd genym ni heddyw i ateb y gwrthddadleuon hyny. Ni a'u cymerwn dan ystyriaeth yn y ddarlith nesaf, ac a derfynwn y ddarlith hon gydag ychydig o osodiadau mwy ymarferol ar fawredd y drygioni sydd mewn pechod.

1. Mae mawredd drwg pechod yn ymddangos wrth ystyried ei fod yn taro yn erbyn Duw. Mae geiriau Joseph yn d'od i'n meddwl yn naturiol yma, "Pa fodd y gwnaf y mawr ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw?" A geiriau Dafydd, "Yn dy erbyn di, tydi dy hunan, y pechais, ac y gwnaethum y drwg hwn yn dy olwg; fel y'th gyfiawnhäer pan leferych, ac y byddit bur pan farnech." Diystyru Duw yn benaf y mae pechadur wrth droseddu—Duw, y Bod mwyaf, ardderchocaf, a goreu; y Goruchaf yn mhob peth; Tad y greadigaeth a'i myrddiynau lluosog; ac ar haelfrydedd yr hwn yr ymddibyna y pechadur am ei fodolaeth, ei gynaliaeth, a'i holl ddedwyddwch am dragwyddoldeb. Mae pob gwrthryfel yn erbyn Duw yn cynwys ynddo anniolchgarwch, rhyfyg, a gwallgofrwydd moesol annarluniadwy. Mae mawredd ac urddas y Bod y troseddir yn ei erbyn, yn rhoddi mawredd ar y trosedd, nas gellir ei draethu byth.

2. Ymddengys ei ddrwg eto wrth ystyried ei fod yn ddirmyg dwfn ar gyfraith foesol fawr llywodraeth y Goruchaf. Mae y gyfraith hòno yr *un* o ran ei natur a'i hegwyddorion yn mhob byd lle y mae creaduriaid rhesymol. Er y gall amrywio mewn gwahanol fydoedd o ran ffurf ei gorchymynion a'i gwaharddiadau; eto yr un ydyw o ran y prif beth a gais—sef cariad pur at y Llywodraethwr, ac at gydgreaduriaid, deiliaid y llywodraeth. Mae y dull gogoneddus y cyhoeddwyd hi ar Sinai gynt yn dangos ei mawredd a'i hurddas, a'r modd y daeth Mab Duw dani yn egluro ei phwysfawredd. Bu ein myfyrdodau lawer gwaith yn ymddifyru yn mhlith deddfau y Goruchaf. Buom oll yn meddwl am y difrod a ddilynai alw deddf pwys a thyniad yn ol, ac er hyny gwelwn ei bod wedi ei gosod o'r neilldu yn y Môr Coch, a'r Iorddonen, a lleoedd eraill; ond gwelai Duw fod yn angenrheidiol ei hadferu i'w grym drachefn, er cadw pethau yn eu priodol leoedd. Ond byddai yn llai peth, a llai o niwaid yn tarddu o hono, pe diddymid pob deddf naturiol, na phe dinystrid deddf foesol gorsedd y Goruchaf, ac ymgais i'w dilëu o fodolaeth ydyw pechod, ac i lenwi yr holl fydysawd âg annhrefn moesol; ond nis gellir ei diddymu, ac nid oes diolch i ddyn am hyny. Rhaid iddi barhau tra bo Duw a'i greaduriaid rhesymol mewn bod.

3. Ystyriaeth arall a ddengys ddrwg pechod ydyw mawredd aruthrol y drefn a ddygodd Duw oddiamgylch mewn trefn i'w faddeu a'i

ddilëu, mewn cysondeb â hawliau deddf a chyfiawnder. Dyma (yn ol dim a ymddengys) brif ddrychfeddwl y Duwdod ei hun. Yr oedd y drefn hon wedi ei llunio ganddo ef cyn dechreu y byd; ac y mae y byd hwn a'r bydoedd eraill wedi cael eu dwyn i fod i wasanaethu trefn iachawdwriaeth. Y fath syniad aruthrol ydyw meddwl am Fab Duw—Person dwyfol ac anfeidrol—yn cael ei wneuthur o wraig, a than y ddeddf, fel y prynai ni y rhai oeddym dan ei melldith, drwy fyw yma drosom, a marw drosom, gan "ddwyn ein pechodau ni yn ei gorff ar y pren." Person dwyfol wedi dyfod i'n natur ni, i dlodi a gwarth, angeu y groes a'r bedd, ac yn cael ei ddyrchafu drachefn i'r nefoedd i eiriol drosom, a Pherson dwyfol arall yn ymgymeryd â'r gorchwyl o gymhwyso bendithion y drefn at feddyliau pechaduriaid, ac i'w cymhwyso i ogoniant yn y diwedd. Yn wir, yr oedd portreiadau y pethau hyn mewn aberthau a phuredigaethau, yn gyfundrefn ryfedd o ran ei gwerth a'i mawredd dan yr hen gyfamod, a chyn hyny; ac nid ydoedd wedi y cwbl ond math o ddarlun cysgodol o drefn fawr cadw dynion drwy waed ac angeu Iesu Grist.

4. Ond ystyriwn, drachefn, y fath ddrygedd a raid fod mewn gwrthodiad penderfynol o'r drefn fawr a gogoneddus hon—mewn "mathru Mab Duw"—"barnu yn aflan waed y cyfamod, a difenwi Ysbryd y gras." Y mae hwn yn bechod mor ddu, fel nad oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach. Dyma bechod y pechodau, a'r unig bechod a ddinystria ddynion dan yr efengyl. Wrth ddywedyd hyny, nid ydym yn haeru nad yw pechodau eraill yn bechodau damniol, ond yr ydym yn gweled trefn i'w maddeu hwynt oll—môr o waed i'w llyncu hwy oll i fyny; ond os gwrthodir y drefn hòno, bydd y pechod mawr o'i gwrthod, a holl bechodau eraill dyn, yn gorwedd ar ei enaid dros byth. A'r fath ddinystr ydyw dinystr enaid anfarwol! Y fath gam a wna pechadur, sydd yn *mynu* byw yn ei bechodau, â'i enaid anfarwol ei hun! Ni fyddai dinystrio y ddaear, na dinystrio y gyfundrefn heulaidd, ond peth bychan yn ymyl dinystrio enaid dyn. *Trochi ei ddwylaw yn ei waed ei hun y mae y pechadur.*

5. Ystyriaeth arall sydd yn dangos mawr ddrygedd pechod ydyw, y gosb dragwyddol a weinyddir o'i herwydd ar y pechadur yn y byd a ddaw. Yr ydym yn dywedyd yn ddibetrus ei bod yn *gosb dragwyddol.* Dywedwn felly ar sail gair Duw, ac ar sail natur pethau. Nid dyma y lle i brofi y pwnc. Prin y mae eisieu ei brofi; mae yn ei brofi ei hun. Y cwbl sydd yn angenrheidiol ydyw, ateb rhai gwrthddadleuon a ddygir gan ddynion yn erbyn tragwyddol gosbedigaeth yr annuwiol, yr hwn sydd yn mynu byw a marw yn anedifeiriol am ei bechodau.

Rhaid fod rhyw ddrwg annarluniadwy mewn pechod, pryd y mae yn angenrheidiol i Dduw trugarog a graslawn, mewn trefn i amddiffyn ei orsedd, wneud pechaduriaid anedifeiriol yn esiampl i'r holl greadigaeth o'r drygedd hwnw. Cawn, feallai, gyfle eto i ddywedyd ein meddwl ar y mater hwn rywbryd yn y dyfodol, os caniateir i ni fywyd ac iechyd.

## Y GWAREDWR.

*Darlith XXV.*

WEDI i bechod ddyfod i'r byd, ac i bob gobaith am ddiogelwch a dedwyddwch dynoliaeth, ar dir gweithredoedd y ddeddf, ddiflanu am byth yn nhoriad cyfamod Eden, yr oedd golwg ddu ac anobeithiol o flaen Adda a'i hiliogaeth; ond yn annysgwyliadwy iawn i'n rhieni cyntaf, fe dorodd pelydr o oleuni allan o ganol y niwl a'r caddug. Wele fysedd meinion, a rhuddain gwawr dydd o ras, yn ailagor drws o ymwared yn yr awgrym a roddwyd iddynt o ymddangosiad Had y wraig i ysigo siol, ac i ddatod gweithredoedd y diafol. Yr oedd Adda arall (cynrychiolwr newydd i'r hil ddynol, ac yn gweithredu ac yn dyoddef dan gyfamod gwell nag un Eden) i wneud ei ymddangosiad yn yr adeg a fwriadasai y Brenin mawr, ac yn hwnw bellach yr oedd gobaith, ac *unig obaith* dyn syrthiedig i ganolbwyntio. Efe oedd i fod yn waredwr ac yn iachawdwr i'r byd—i adferu dynion i ddelw Duw, i gymod âg ef, ac i fwynhad bythol o hono. Ato ef yr oedd ffydd a gobaith y byd i gyfeirio eu golygon, ac wrtho ef yr oedd holl oesau y ddaear i hongian eu holl obeithion, ac o hono ef yr oedd eu bywyd tragwyddol i ffrydio allan.

Y prif beth sydd yn hynodi y Gwaredwr ydyw MAWREDD—mawredd yn holl eangder ystyr y gair. Mawredd dynol fel Mab y dyn, "Tecach yw na meibion dynion"—arwr dynoliaeth, yr unig ddyn cyflawn, perffaith, a allodd ein daear ni erioed fagu, "un yn rhagori ar ddeng mil." Mawredd Dwyfol—Mab Duw, uniganedig Fab Duw, ei briod Fab, "Duw wedi ymddangos yn y cnawd." Yr oedd dwyfoliaeth yn ei holl ogoniant anfeidrol, a dynoliaeth yn ei holl arddercbogrwydd wedi eu bythol uno â'u gilydd ynddo ef. Yr oedd y Gwaredwr a addawyd i ddynion i uno yn ei berson rhyfeddol y terfynol a'r annherfynol, yr amserol a'r tragwyddol, y meidrol a'r anfeidrol, gwendid a hollalluawgrwydd, cyfnewidioldeb ac anghyfnewidioldeb. Felly y gesyd Ysgrythyrau yr Hen Destament ef allan. Yr oedd i fod yn Berson ar ei ben ei hunan, heb ail iddo yn y nef na'r ddaear. Gall y pethau canlynol mewn perthynas iddo fod yn foddion i ddangos i ni ryw ychydig o'r Mawredd a berthyn iddo ef.

1. Y tymhor maith a gymerwyd i'w ddatguddio i'r byd. Yr oedd pedair mil o flynyddoedd rhwng yr addewid gyntaf a gafwyd am dano, a'i chwblhad yn nghyflawnder yr amser—rhwng toriad y wawr a chyfodiad haul cyfiawnder ar deulu y ddaear. Cymerodd y cyfnod maith yna i egluro i'r byd pa fath un a fyddai—beth a wnai pan ddeuai, a beth fyddai canlyniadau ei ddyfodiad, neu y "gogoniant ar ol hyny." Daeth y datguddiad o hono yn raddol—pob oes yn cael ychwanegiad at y datguddiad a feddai yr oes flaenorol iddi, nes o'r diwedd y mae yr olaf o'r prophwydi fel "llef un yn llefain yn y diffaethwch," yn cyhoeddi, "Parotowch ffordd yr Arglwydd." "Rhaid iddo ef gynyddu." Hwn yw Mab Duw! "Wele Oen Duw,

yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd." Fel y mae rhedfa o dair mil o filldiroedd i afon drwy gyfandir yn sicrhau fod yr afon hòno yn ei hymdywalltiad i'r môr yn afon fawr, felly y mae y rhagddangosiadau am y Messïa, a'r rhai hyny yn gynyddol am bedair mil o flynyddoedd, yn sicrhau y byddai ef, pan ddeuai, yn un mawr iawn. Fel y mae y dyn a saif wrth ffynon darddiol afon fawr fel y Mississippi, yn edrych gyda dyddordeb synfawr ar yr afon fechan, nid am ei bod yn fwy na llawer ffynon arall a welodd ef, nid am fod ei dwfr yn loewach na dwfr rhyw ffynon arall, nac oblegid fod y blodau a dyfant o'i chylch yn harddach na'r rhai a addurnant ymylon llawer ffynon hysbys iddo ef, ond yn unig am ei bod yn ddechreuad afon hir, gynyddol, yr hon a gluda ar ei mynwes fil o longau cyn yr ymgollo yn y cefnfor, a'r hon a gyferfydd y môr mawr ei hunan ugeiniau o filldiroedd cyn y disgyn iddo i'w chroesawu i'w fynwes fel un o'i ferched anwylaf a mwyaf defnyddiol. Felly hefyd y safwn ninau uwchben yr addewid fechan yn Eden am had y wraig, mewn syndod hyfryd a dyddorol dros ben, nid oblegid fod yr addewid yn oleu iawn ynddi ei hun, nac oblegid ei bod yn ddatguddiad cyflawn iawn o drefn iachawdwriaeth, ond yn hytrach am ei bod y gyntaf o gyfres hir o ddatguddiedigaethau—yn cyrhaeddyd dros y diluw, dros yr oruchwyliaeth Batriarchaidd, a'r un Foesenaidd ar ol hòno—datguddiadau nad ydynt yn terfynu, ond yn ymeangu o hyd yn eu gloewder, nes cael y Messïa i'r byd, i'r groes, i'r bedd, allan o hono, ac i'r nefoedd, lle yr oedd efe o'r blaen.

Buasai yn annheilwng o ddoethineb dynion, chwaithach doethineb Duw, i ddefnyddio y fath dymhor hir i egluro pa fath un a fyddai Pedr, Iago, Ioan, Paul, Awstin, neu Luther, heb son am Cyrus neu George Washington. Rhaid fod y Person y cyfododd yr Arglwydd y fath rifedi o enwogion i ragddywedyd pa fath un a fyddai am dymhor mor hir, yn rhyw un gwir fawr; pe amgen, buasai yr holl gynllun i'w ddatguddio yn un gwrthun—mynydd mewn gwewyr, ac yn esgor ar lygoden! Udgyrn yn seinio i alw sylw at redynen! Os nad oedd ef yn un mawr iawn, buwyd yn rhy hir yn rhagbarotoi ar gyfer ei ddyfodiad—bu gormod o drafferth yn adeiladu esgynlawr iddo ef gyflawni ei amcanion arno, a gormod o lafur i barotoi y byd i'w dderbyn; ond yr oedd ef y fath berson fel y buasai yn werth i'r ddaear ddysgwyl nid yn unig am bedair mil o flwyddi am dano, ond am bedair miliwn o ran hyny. Yr oedd yn werth ei gael pan wnaeth ei ymddangosiad eilwaith. Mae y cysgodau neu y ffugrau a ordeiniwyd i'w ragbortreiadu, yn ei osod allan yn un mawr. Meddyliwch am y personau oedd yn ei bortreiadu, megys Adda, Noah, Abraham, Melchisedec, Moses, Aaron, Josuah, Dafydd, Solomon, a Zorobabel. Dynion ardderchocaf y ddaear hon oedd y rhai hyny; ac eto ni allent ei bortreiadu ond ar raddfa fechan iawn. Ni allai Adda ei bortreiadu ond fel cynrychiolwr; nac Abraham ond fel gwreiddyn ei had ysbrydol; na Moses ond fel Cyfryngwr rhwng pleidiau, rhyddhäwr caethion, a blaenor pobl Dduw; na Melchisedec nac Aaron ond fel Archoffeiriad;

na Josuah ond fel Tywysog llu yr Arglwydd; na Dafydd ond fel Brenin a Gorchfygwr; na Solomon ond fel adeiladwr teml Dduw; na Zorobabel ond fel arweinydd y bobl o gaethiwed i ryddid. Ac wedi sypio yr enwogion yna oll yn un, portread gwan o hono ef a wnaent gyda eu gilydd. Yr oedd yn rhaid cael y mana, ysgub y blaenffrwyth, y sarph bres, y tabernacl, y deml, y pasc, gwyl y pebyll, a gwyl y cymod, a'u holl ddefodau i'w cynorthwyo. Ac nid oedd hyny chwaith yn ddigon, yr oedd yn rhaid cael myrddiynau o ebyrth gwaedlyd—y bustych, yr ŵyn, y geifr, y colomenod, a'r durturod yn ddirifedi, i wneud y darlun i fyny. Yr oedd cyllyll yn treulio allan wrth ladd a blingo aberthau—a'r allorau yn ymwisgo dan lwythi trymion o goed, a thân, a phoethaberthau, a hyny o ddechreu y byd hyd nes y llefodd ef allan, "Gorphenwyd," ar y pren. Yr oedd y cysegriadau, y puredigaethau, y dwfr o'r creigiau, yn rhanau yn y darlun, heblaw y ffynon, yr afon, y seren, yr haul, a phren y bywyd; ac wedi y cwbl, ni wnai y cyfan gyda'u gilydd ddim ond cysgod gwanaidd a dwl o hono ef.

Yn awr, yr oedd gosodiad y *personau* a'r *pethau* hyn oll i fyny yn bortreiadau o hono ef, yn ormod peth, oddieithr fod rhyw fawredd aruthrol yn perthyn iddo. Yr oedd y personau yn rhy anrhydeddu a'r pethau yn rhy ddrudion, a gormod o amser yn cael ei gymeryd i fyny gyda hwynt, oddieithr fod y gwrthddrych a bortreiadent yn un gwirioneddol fawr a gogoneddus; a buasai yn hollol annheilwng o Dduw eu hordeinio, ond fel portreiadau o berson a mawredd mwy nag un daearol yn perthyn iddo.

Drachefn, mae ymadroddion cryfion yr Hen Destament wedi eu cyferbynu â rhai cryfach fyth y Testament Newydd, yn gosod allan ei fawredd yn eglur dros ben. Fe'i gosodir allan yn yr Hen Destament fel Jehofa, y Duw Cadarn, Tad Tragwyddoldeb, Mab Duw. Yr un modd y dywed y Testament Newydd am dano, ei fod yn Alpha ac yn Omega pob peth, yn Greawdwr, yn Gynaliwr, ac yn Llywodraethwr pob dim. "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Mae efe "yn ddysgleirdeb gogoniant y Tad, ac yn wir lun ei berson ef;" ac eto, "wedi ei wneuthur o wraig a than y ddeddf," yn wir ddyn yn gystal ac yn wir Dduw.

Gosodir ef allan yn meddu gwybodaeth berffaith—gras, a thrugaredd, a thosturi at drueiniaid o bob math. Mae cyfiawnder tanllyd a santeiddrwydd difrycheulyd wedi eu hieuo â thynerwch digyffelyb yn ei natur ogoneddus ef. Mewn gair, y mae y Beibl yn gosod allan—yr Hen Destament a'r Newydd, y naill fel y llall—fod pob mawredd dwyfol a dynol yn ei berson rhyfedd a gogoneddus ef. Mae yn was ac yn Arglwydd, yn oen ac yn llew, yn ddeiliad ac yn frenin, yn addolwr ac yn cael ei addoli, yn wir ddyn perffaith, "santaidd, difeius, dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid," ac "uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd." Dywed Pedr, "Canys nid gan ddilyn chwedlau cyfrwys yr hysbysasom i chwi nerth a dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, eithr wedi gweled ei fawredd ef â'n llygaid."

Yn mhellach eto, mae y gwaith sydd ganddo ef i'w gyflawni ar y ddaear, ynddo ei hunan, ac ar ei ben ei hunan, pe na fuasai dim arall genym i'w ddywedyd am dano, yn brawf digonol o'i fawredd. Nid ydym yn rhyfeddu fod Dafydd, er ei fod yn dad iddo, o ran y cnawd, yn ei alw ef yn Arglwydd, a hyny dan ddylanwad uniongyrchol ac anffaeledig yr Ysbryd Glan. Fe ddaeth ef i'r byd, nid yn gymaint i bregethu yr efengyl, er ei fod yn gwneuthur hyny yn ddiwyd iawn, ond i wneud yr efengyl ei hunan i'r Apostolion i'w phregethu ar ol ei ymadawiad ef i'r nefoedd; nid i wneuthur gwyrthiau, ac i iachâu clefydau y daeth efe yma yn gymaint, ond i agor ffordd i "gwbl iachâu y rhai oll sydd yn dyfod trwyddo ef at Dduw." Nid yn rhyw lamp i oleuo Gwlad Canaan y daeth efe, ond yn oleuni y byd, yn haul cyfiawnder, yn fywyd i'r byd yn ystyr eangaf y gair bywyd: "Crist ein bywyd ni." Daeth yma i dywallt goleuni y nefoedd ar diroedd duon y ddaear hon, i amlygu Duw i ddynion, a dynion iddynt eu hunain; i wneud heddwch rhwng nefoedd a daear drwy waed ei groes, ac i seilio teyrnas a bery byth yn y gwaed gwerthfawr hwnw. Daeth yma i ddiogelu urddas ac anrhydedd dwyfol gyfiawnder yn wyneb maddeuant pechodau, i gymodi pob peth â'u gilydd yn wyneb y gorchwyl dyeithr o gyfiawnhau yr annuwiol. Daeth yma, yn ol iaith yr angel Gabriel, "i ddybenu camwedd, i selio pechodau, i wneuthur cymod dros anwiredd, ac i ddwyn cyfiawnder tragwyddol, i selio y weledigaeth a'r brophwydoliaeth, ac i eneinio y santeiddiolaf, i sicrhau y cyfamod â llawer dros un wythnos, ac i wneud i'r aberth a'r bwyd-offrwm beidio." Daeth i'r byd i osod un oruchwyliaeth ddwyfol o'r neilldu, ac i osod un arall i fyny yn ei lle. I wneud yr Iuddewon a'r cenedloedd yn un corff drwy y groes, gan ladd y gelyniaeth drwyddi hi, ac i wneud angylion a dynion yn un teulu, i orchfygu ac i ysigo siol y sarph, i ddatod gweithredoedd y diafol, i ddilëu pechod, ac i gymeryd meddiant drwy fuddugoliaeth o byrth marwolaeth. Daeth i'n natur ni i fyw drosom, ac i farw drosom, i offrymu ei hun yn aberth ac yn offrwm i Dduw dros ein pechodau ni, fel y boddlonid y Goruchaf ar ein rhan, ac y llenwid y nefoedd â haeddiant, a'r ddaear âg iechydwriaeth.

Fe wnaeth ef hynyna oll, a llawer o bethau eraill a allesid nodi. Fe orphenodd ef ei waith mawr i gyd, a gallodd lefain allan, "Gorphenwyd," ar Galfaria, pryd y mae pawb eraill yn gorfod gadael pob peth heb eu gorphen, yn eu dechreu neu ar eu haner—seryddiaeth, daeareg, celfyddydwaith, pob peth. Ond pe gallesid uno holl alluoedd ac adnoddau angylion Duw, a'u gwneud i gyd yn un gallu mawr, ni buasai ond megys *dim* yn ymyl yr adnoddau oeddynt yn angenrheidiol i gyflawni gwaith y Messïa. Mae mawredd aruthrol y gwaith yn dangos mawredd y Person a'i cyflawnodd.

Unwaith eto. Pan amlygir i ni yn yr Ysgrythyrau mai Gwaredwr y byd a greodd bob peth, yn weledig ac yn anweledig, pa un bynag ai defnydd elfenau, a bydoedd, gweledig a theimladwy, ai ysbrydion anweledig—thronau, tywysogaethau, a meddianau tragwyddoldeb, a

bod y cyfan wedi eu crëu, nid yn unig trwyddo ef, ond erddo ef, sef at ei wasanaeth ef, a'i fod ef yn eu cynal hwynt oll, ac yn alluog i'w llywodraethu a'u defnyddio hwynt i gyd yn nygiad ei amcanion yn mlaen fel Cyfryngwr a Gwaredwr y byd, y mae ei fawredd ef yn dyfod i'r golwg mewn modd neillduol.

Efe yw canolbwynt y cread. Ynddo ef y mae pob peth yn cyd-sefyll. Ei orsedd ef yw canolbwynt llywodraeth foesol a naturiol Duw, allan o honi y mae deddfau y llywodraeth i gyd yn dyfod. Efe ydyw y Brenin sydd yn llywodraethu ar bob peth. Ei groes ef hefyd ydyw canolbwynt trefn iachawdwriaeth pechaduriaid; a'i berson ef yw canolbwynt gogoniant a dedwyddwch diderfyn nef y nefoedd, ac efe a fydd haul ei chyfiawnder a goleuni ei hiechydwriaeth yn dragywydd. Mae efe yn cael ei bortreiadu fel dymuniad yr holl genedloedd. Mae rhyw wagder yn enaid dyn ar y ddaear nad oes dim a all ei lanw ond person mawr a gogoneddus y Cyfryngwr. Er chwilio yn mhob man, a phrofi pob peth, yr oedd y gwagle hwnw heb ei lenwi nes cael hyd i'r Messïa yn ein natur ni yn Waredwr i ddynolryw; ac fe fydd gwagle cyffelyb byth yn y nefoedd hefyd, nad oes a all ei wneud i fyny ond ei berson gogoneddus ef. Mae efe yn llenwi pob peth.

Ond paham y bu ef cyhyd heb wneud ei ymddangosiad? Paham na ddaethai efe i'r byd cyn i bedair mil o flynyddoedd fyned heibio ar ol i bechod ruthro i mewn i halogi a dystrywio dynolryw? Yr oedd yn angenrheidiol egluro natur a dyfnderoedd llygredigaeth dynolryw, cyn iddo ef ddyfod i'w gwaredu o afaelion y llygredigaeth hwnw. Yr oedd raid rhoddi prawf i'r ddaear ac i'r nefoedd hefyd, mor analluog oedd dynion i waredu eu hunain allan o'r trueni yr aethant iddo. Tra yr oeddynt yn prysur chwilio am waredigaeth yn y naill gyfundrefn grefyddol a'r llall, suddo yn ddyfnach yr oeddynt o hyd i bydewau a chorsydd anwiredd, barbariaeth, a thrueni. Yr oedd eisieu profi na "allai y ddeddf, am ei bod yn wan trwy y cnawd," waredu dynolryw, na chosbau a barnedigaethau y nefoedd doddi calonau pechaduriaid, a'u gwneud yn ufudd i'r llywodraeth ddwyfol; na *dim ond gwaed ei groes ef* ddarparu meddyginiaeth i anhwylderau dynoliaeth.

Yr oedd eisieu parotoi y ddaear, a dadymchwelyd y naill ymerodraeth ar ol y llall, nes cael yr un Rufeinig i drethu yr holl fyd, cyn y gellid cael chwareufwrdd priodol i arddangos cyfiawnder a gras Cristionogaeth arno.

Yr oedd yn rhaid cynefino dynion â'r athrawiaeth fawr o iachawdwriaeth drwy waed aberthau iawnol, mewn trefn i'w parotoi i dderbyn y waredigaeth sydd drwy aberth y Cyfryngwr; a digon tebyg fod eisieu parotoi y nefoedd hefyd gogyfer â datguddiad cyflawn o drefn gras i gadw dynion. Wrth ystyried yr holl bethau hyn, fe welir yn eglur fod Crist wedi gwneud ei ymddangosiad yn yr amser goreu,—"Cyflawnder yr amser."

Ar ol i'r addewid a wnaethid i'r tadau, lawer gwaith drosodd, danio

awenydd beirdd a llenorion yr oesau; pan oedd pegynau olwynion peiriant goruchwyliaeth y cysgodau wedi treulio allan yn mron, a'r holl gyfundrefn hòno wedi myned bellach yn bur ddieffaith ar y genedl Iuddewig, pan oedd pobl dda yn dyheu am rywbeth amgenach na'r defodau cysgodol, ac yn ymdyru i Jerusalem i ddysgwyl ymwared, a'r bobl feddylgar yn mysg y cenedloedd yn troi eu golygon tua Judea, ac yn hiraethu am ymddangosiad y Person a addawsid; dyma y Messïa yn cael ei eni yn ll-ty yr anifeiliaid, yn Bethlehem. Fe ddaeth yn y dydd a'r awr a benodasid yn ol arfaethau y nefoedd, a phrophwydoliaethau Daniel, ond daeth mewn dull na ddysgwyliasid am dano gan ei gydwladwyr.

Er iddo ddyfod o deulu Dafydd, y teulu anrhydeddusaf yn eu plith, ni fynent hwy dderbyn Messïa oedd yn ddyn tlawd, ac wedi ei eni yn llety yr anifail, a'r hwn oedd yn "wr gofidus a chynefin â dolur; pan edrychent arno, nid oedd ei bryd fel y dymunent ef." Tywysog tymhorol, rhyfelwr, a gorchfygwr oeddynt hwy yn ei ddysgwyl, ac am na ddaeth yn ol eu camesboniadau hwy ar brophwydoliaethau yr Hen Destament, gwrthodasant ef: "At yr eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun nis derbyniasant ef." Yr oedd yr Iuddewon wedi eu camddysgu er's oesoedd ar y mater hwn, a chroeshoeliasant y gwir Waredwr ar bren; ond pe gwybuasent, medd Paul, ni chroeshoeliasent Arglwydd y gogoniant. Er hyny, daeth amcanion tragwyddol y Duwdod mewn agor ffordd o iachawdwriaeth i ddynion i ben felly, ond nid oedd diolch i'r Iuddewon am hyny. Cyflawni eu bwriadau ysgeler eu hunain oedd ganddynt hwy mewn golwg yn yr oll a wnaethant. Ond yr oedd y nefoedd wedi ei hyfforddi a'i dysgu yn well na'r ddaear yn y mater. Yr oedd angylion a saint gogoneddedig wedi deall pa fath wr oedd y Messïa i fod. Yr oeddynt hwy dan ddysgeidiaeth anffaeledig a pherffaith yr Ysbryd Glan ei hunan, a gwyddent mai gwr isel ei amgylchiadau a fyddai y Gwaredwr pan wnelai ei ymddangosiad; ac y byddai raid iddo ddyoddef llawer—marw ar y croesbren—disgyn i'r bedd—adgyfodi, ac esgyn i'r nef, goruwch yr holl nefoedd, fel y cyflawnai bob peth. Am ansawdd gwybodaeth llu y nef am y Messïa cyn ei ymddangosiad, y mae ymadroddion Gabriel, y rhai a ddyfynwyd eisoes o Lyfr Daniel, yn esiampl ragorol, a'r pethau a ddywedwyd gan angel wrth Zecharias, wrth Mair a Joseph, cyn geni Iesu Grist, yn dangos fod y nefoedd yn deall y pwnc yn drwyadl, gan hyny yr oedd angylion yn ei arddel fel Person dwyfol yn ei dlodi, ac yn ei addoli pan oedd yn faban bychan yn y preseb. Gweiniasant arno ef a'i rieni yn y ffoedigaeth i'r Aipht, a'r dychweliad oddiyno; felly hefyd y gwnaethant yn yr anialwch, yn yr ardd, ac yn ei adgyfodiad o'r bedd, a'i esgyniad i'r nef. Dechreuodd ef ar ei waith yn ddioedi; yn wir yr oedd ei ymgnawdoliad ei hunan, nid yn unig yn rhagbarotoad iddo ef i gyflawni ewyllys y Tad, ond yn weithred fawr a rhyfedd o ufudd-dod i'r ewyllys hòno; ac yn nghylch y pethau a berthynent i'w Dad yr oedd efe o hyd, "Ei fwyd a'i ddiod oedd gwneuthur ei ewyllys ef, a gorphen ei

waith." Ni bydd i ni heddyw ymhelaethu; cawn eto, os byw ac iach a fyddwn, ddweyd ein meddwl yn llawn am waith yr Arglwydd Iesu pan oedd yma ar y ddaear. Terfynwn y sylwadau hyn â'r adfyfyrdodau canlynol:—

1. Mae yn dra sicr mai y peth mwyaf a rhyfeddaf o ffyrdd y Duwdod oedd anfoniad Mab Duw i'r byd yn natur dyn. Byddai yn rhyfygus ynom fod yn rhyw benderfynol iawn ar y fath fater, am na wyddom ond ychydig am y pethau lluosog a wnaeth y Brenin mawr; ond er hyny, y mae yn dra thebygol na wnaeth ef erioed *ddim rhyfeddach* nag uno dwyfoliaeth â dynoliaeth yn mherson ei Fab.

2. Mai dyna yr anrhydedd mwyaf a gafodd ein natur ni erioed—ei huno â pherson Mab Duw! Ni chafodd yr un natur arall chwaith ei hanrhydeddu fel hyn! Bydd natur dyn yn dragywydd goruwch pob tywysogaeth, awdurdod, a gallu, drwy y nefoedd a thrwy y greadigaeth; yn wir, dyma hynodrwydd a berthyn i'n natur ni a bâr i ni fod yn falch *ein bod yn ddynion.*

3. Ymddengys fod y Duwdod yn golygu mai yn natur dyn ei hun y rhaid gweithio allan ei iachawdwriaeth. Pa beth bynag a ddywedo, neu a feddylio hwn a'r llall, *dyna farn y Duwdod,* a rhaid fod ei farn ef yn berffaith gywir. Tebygol yw genym hefyd, mai dyma un o'r pethau diflasaf gan ddiafol, gweled dyn yn dyfod i fyny drwy y dyn Crist Iesu; ond y mae yn *ffaith lawn* o gysur i ni. Cawsom Waredwr sydd yn un o honom ni ein hunain, a holl hynodion a delweddau ein natur yn perthyn iddo.

## ETHOLEDIGAETH GRAS.

*Darlith XXVI.*

GWELIR darnodiad Paul o etholedigaeth yn Rhuf. xi. 5. Bu y geiriau *ethol, etholedig, etholedigaeth, etholedigion,* ac eraill o gyffelyb ystyron iddynt, yn feini tramgwyddiadau ac yn greigiau rhwystr i lawer o fyfyrwyr cyn hyn, ond nid oes achos i neb ddychrynu wrth gyfarfod â'r fath eiriau, os etholedigaeth *gras* ydyw etholedigaeth y Beibl. Y mae gan ddyn *bob peth* i'w ofni fel pechadur oddiwrth *gyfiawnder* Duw, ond dim oll oddiwrth ei ras. Ni fygythiodd, ni chondemniodd, ni chosbodd gras neb erioed, ac ni wna hyny byth. Gwaith gras erioed oedd ymgeledddu a dyrchafu yr annheilwng. Dyna hefyd yw ei waith yn bresenol, a hyny fydd ei waith yn dragywydd. Testun llawenydd a gorfoledd i holl ddynolryw ydyw gras, ac nid peth i'w arswydo mewn modd yn y byd; felly, os etholedigaeth gras yw etholedigaeth y Beibl, mae ynddi elfenau cysur, calondid, a gorfoledd, ac nis dichon fod yn *wir achos* digalondid, tristwch, na dychryn i neb. Mae y gair *ethol,* a'i gymeryd yn ei wahanol dreigliadau a'i gysylltiadau, o ystyr eang iawn, fel y gwelir wrth ystyried y pethau canlynol:—

1. Cymhwysir ef at Fab Duw, fel un wedi ei ethol i fod yn Gyfryngwr. Gelwir ef amryw weithiau yn etholedig i'r swyddau a leinw, ac i gyflawni y gwaith a osodwyd iddo i'w wneuthur gan y Tad. 2. Y mae dynion hynod, fel Moses, Aaron, Dafydd, Solomon, y prophwydi, a'r apostolion, yn cael eu gosod allan yn y Beibl fel rhai wedi eu hethol gan Dduw i'r cylchoedd a lanwent. 3. Mae y genedl Iuddewig yn cael ei gosod allan yn y Beibl fel cenedl etholedig i fwynhau breintiau yr hen gyfamod o fysg cenedloedd eraill. 4. Gesyd y gair allan hefyd ddewisiad personau neillduol o blith eu cydraddolion i gyflawni rhyw orchwyl neillduol, megys Solomon i adeiladu y deml yn hytrach na Dafydd ei dad. Dywed Simon Pedr:—"Ha wŷr frodyr, chwi a wyddoch ddarfod i Dduw er's talm o amser yn ein plith ni fy ethol i, i gael o'r cenedloedd trwy fy ngenau i glywed gair yr efengyl, a chredu." Joshua i arwain Israel i Ganaan, yn hytrach na Moses. 5. Yr oedd dwy natur yn sefyll mewn angen am iachawdwriaeth, ond i ddynion y dewisodd Duw ei darparu:—"Ni chymerodd efe naturiaeth angylion, eithr had Abraham a gymerodd efe." 6. Gosodir allan yn yr Ysgrythyrau fod credinwyr oesau y byd wedi eu hethol gan Dduw i santeiddrwydd fel moddion, ac i fywyd tragwyddol fel dyben, ac er mawl gogoniant ei ras ef fel y dyben penaf. "Megys yr etholodd efe ni ynddo ef cyn seiliad y byd, fel y byddem yn santaidd ac yn ddifeius ger ei fron ef mewn cariad. Wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad trwy Iesu Grist, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef." Gwel Ephes. i. 4. Rhuf. viii. 28—30; ix.; xi. 5, &c. 2 Thes. ii. 13, 14. 1 Pedr i. 2. Act. xiii. 48. Ioan xvii. &c. Pe gofynid i ni am ddarnodiad o etholedigaeth gras, cynygiem yr un canlynol:—"*Etholedigaeth gras ydyw, Bwriad tragwyddol Duw i ddwyn dylanwad yr Ysbryd Glan, a dylanwad gair y gwirionedd, i ymwneud â meddyliau torf ddirif o ddynion, yn y fath fodd ag a sicrhao eu dychweliad at yr Arglwydd, eu santeiddiad, a'u gogoneddiad.*" Mae Duw yn gwneud pob peth yn ol ei gynllun, neu ei arfaeth berffaith, dragwyddol, a digyfnewid ei hunan. Mae cynllun i'w ganfod yn holl waith Duw yn natur a Rhagluniaeth, a threfn iachawdwriaeth hefyd. Rhan o arfaeth neu gynllun Duw ydyw etholedigaeth y saint i santeiddrwydd a gogoniant. Fel y mae Duw yn gweithio ei gynllun allan yn natur a Rhagluniaeth, drwy amgylchiadau pob dydd, felly hefyd y mae Duw yn cario allan ei gynllun i weithrediad yn nychweliad, santeiddiad, a gogoneddiad pechaduriaid. "Yn ol ei arfaeth ef"—yn ol yr arfaeth dragwyddol, yr hon a wnaeth ef yn Nghrist Iesu ein Harglwydd ni, y mae Duw yn achub pechaduriaid. Nid yw Duw yn gwneud dim mewn amser ond y pethau a fwriadodd efe eu gwneuthur er tragwyddoldeb. "Hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll erioed," Act. xv. 18. Os trown y syniadau hyn i gyfreswm (*syllogism*), bydd fel y canlyn:—Pa bethau bynag a wna Duw mewn amser, yr oedd yn bwriadu gwneuthur y pethau hyny erioed; mae efe yn achub torf ddirif o bechaduriaid mewn amser; gan hyny, yr oedd efe yn bwriadu erioed i achub y rhai sydd yn cael eu hachub.

Eto, fe wna Duw, mewn amser, yn ddiffael yr hyn a fwriadodd ei wneuthur mewn amser. "Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." Ond nid yw Duw yn dychwelyd holl ddynolryw ato ei hunan mewn amser; gan hyny, ni fwriadodd efe yn nhragwyddoldeb y dychwelai efe yr holl fyd ato ei hun. Drachefn, Duw ei hunan yw y prifweithredydd yn nychweliad, santeiddiad, a gogoneddiad pob un a achubir. "Ei waith ef ydym ni." "Hysbys i Dduw ei weithredoedd oll erioed." Gan hyny, fe wyr Duw yn berffaith rifedi y dorf, ddirif i ni, a ogoneddir yn y pen draw. Eto, y mae gwybodaeth Duw yn y mater hwn, fel pob mater arall, yn anfeidrol berffaith. Pe deuai i'r nefoedd un yn ychwaneg nag a wyr efe a ddaw yno, byddai raid i hyny fod heb i Dduw wybod dim oll yn nghylch y mater; neu pe deuai yno un yn llai na'r rhif a wyr Duw a ddaw yno, byddai un allan o'r nefoedd, y gwyddai Duw erioed y byddai yno; felly, gwnai y syniad yna hefyd yr Hollwybodol yn anwybodus. Gan hyny, nid oes un gyfundrefn a luniwyd erioed a all ddwyn cynifer ag *un* i'r nefoedd yn ychwaneg na'r *system* sydd yn dal etholedigaeth pob credadyn cyn seiliad y byd, heb wneud yr Anfeidrol mewn gwybodaeth yn anwybodus o'i weithredoedd ei hunan yn nghadwedigaeth dynion.

Nid yw etholedigaeth gras yn cynwys gwrthodedigaeth neb o gwbl. Pethau cadarnhaol yw gwrthddrychau bwriadau dwyfol, ac nid pethau nacaol. "Ei weithredoedd oll erioed" sydd yn wrthddrychau arfaeth Duw, ac nid pethau *nad* yw yn eu gwneuthur. Dynion sydd yn damnio eu hunain, ac nid Duw—achub y mae efe; felly, nid oes a wnelo efe â phechod, oblegid diffyg ydyw; nac â cholledigaeth dyn, oblegid amddifadrwydd bythol o Dduw ydyw hyny. Haera rhai y rhaid fod etholedigaeth yn cynwys gwrthodedigaeth. Y mae yn ddigon i ni, yn wyneb haeriadau felly, ddweyd, Na raid, ac ni all chwaith. Yr wyf fi yn bwriadu myned i Bethesda yr wythnos hon; ond a ydyw hyny yn cynwys y rhaid fy mod i, wrth fwriadu felly, yn bwriadu hefyd nad af i Le'rpwl, Manchester, Llanymawddwy, a phob pentref, a thref, a dinas, ar wyneb y ddaear? Pe byddai peth felly yn gysylltiedig anwahanol â bwriadu myned i Bethesda, byddwn i am rai blynyddoedd yn ffurfio y penderfyniad i fyned i Bethesda. Dyma ddyn yn bwriadu myned i ben y Wyddfa yr wythnos hon, ai tybed y rhaid i hwnw benderfynu hefyd mai nid i ben Moel Famau yr ä, ac felly am bob mynydd arall ar wyneb y ddaear? Byddai tybied hyny yn wrthun ac afresymol hollol. Yr un mor afresymol a hyny ydyw dal fod etholedigaeth gras i fywyd tragwyddol yn cynwys gwrthodedigaeth pob un a gollir yn y diwedd. Dewisiad syml o'r dorf ddirif a gedwir yw etholedigaeth, ac nid gwrthodiad o neb, pwy bynag a fo. Dywedir fod etholedigaeth gras yn cynwys fod yr Arglwydd yn derbyn wynebau dynion; ond y mae y bobl a ddywedant hyny yn dal fod cael mwynhau moddion gras yn help i ddynion fod yn gadwedig. Yr oedd yn haws i'r Iuddewon fod yn gadwedig na'r Chineaid, a Duw a wnaeth y gwahaniaeth rhwng y ddwy genedl; ond a oedd hyny yn dderbyn wyneb? Derbyn wyneb ydyw gosod

hawliau un o'r neilldu, a derbyn un arall yn groes i reolau cyhoedd-edig tegwch a chyfiawnder. Pan y mae Duw yn cyfranu ei roddion, y rhai na theilyngodd neb, fel y gwel efe ei hun yn dda, nis gall hyny fod yn dderbyn wyneb; oblegid y mae Duw wedi gwneuthur hyny erioed, gan roddi mwy o amser i un na'r llall, mwy o iechyd, mwy o foddion gwybodaeth; ac os yw achub un dyn yn gam âg eraill, yna y mae Duw yn dderbyniwr wyneb. Ond pechod ydyw derbyn wyneb: eithr ni thrig drwg gydag ef. Heb ystyried mae y gwrthddadleuwr *beth ydyw* derbyn wyneb, onide ni *feiddiai* ddywedyd fod achub Paul yn ol etholedigaeth gras yn gam â phobl eraill.

Dywed rhai *perffaith anystyriol* y cedwir etholedigion Duw pa beth bynag a wnelont. Nid felly. I santeiddrwydd fel moddion, ac i ogoniant fel dyben, yr etholwyd hwynt, "Fel y byddem yn santaidd ac yn ddifeius ger ei fron ef mewn cariad." Mae yr holl foddion yn gynwysedig yn y bwriad tragwyddol, yn gystal a'r dyben. Trwy ffydd a santeiddrwydd y cedwir pawb a gedwir byth. Rhaid cael etholedigion Duw yn berffaith ddifeius—i hyny yr etholwyd hwy.

Dywedir fod etholedigaeth yn anghyson â galwad gyffredinol yr efengyl. Mae yr efengyl yn galw pawb at Iesu Grist; a phe deuai pawb, fe dderbynid pawb. Nid yw etholedigaeth yn rhwystr i neb, ond y mae yn helpu torf ddirif. Sicrwydd i Dduw, i Iesu Grist, ac i'r eglwys ydyw etholedigaeth, y gwel Iesu o lafur ei enaid, ac y diwellir ef. Ni fuasai yn ddoeth gadael trefn fawr a drud, fel trefn iachawdwriaeth, heb ddim sicrwydd am y canlyniadau yn iachawdwriaeth dynion. Nid oes *sicrwydd* mewn bod y daw pechadur *o hono ei hunan* i gredu yr efengyl, ac i fyw yn dduwiol, ond y *sicrwydd* a geir yn mhenderfyniad Duw i effeithiol ddwyn torf ddirifedi i gredu, drwy ddylanwad yr Ysbryd Glan a gair y gwirionedd. Dwy sylfaen sicrwydd sydd: un yn sylfaen sicrwydd am rinwedd mewn creadur, a chynwysir hòno yn arfaeth Duw, neu ei benderfyniad i wneud dynion yn rhinweddol drwy ddwyfol ras, fel y mae ef yn ffynon pob daioni. Y llall ydyw sylfaen sicrwydd mai ymlygru a wna creadur, os gadewir ef (yn gyfiawn hefyd) iddo ei hunan, ac y mae yn gynwysedig yn niffygolrwydd a therfynoldeb y creadur wrth ei gymharu â'r Creawdwr. Fe wyddai Duw yn berffaith sicr fod gelyniaeth calon pechadur yn ei erbyn ef o'r fath, fel na *fynai* gael ei achub ganddo, a'i falchder ef o'r fath fel y ffieiddiai y meddylddrych o gael ei gadw drwy drugaredd a gras. Er fod yr efengyl yn berffaith addas ar ei gyfer, er y gall efe ei chredu, ac mai efe a raid ei chredu, ac nid Duw ei chredu drosto; er hyny oll, gwyddai y Goruchaf na fynai dynion, gan falchder eu calonau, ddyfod at ei Fab ef, fel y caffont fywyd, heb iddo ef ei hun ysgogi eu meddyliau at hyny; ac os efe yw y prif weithydd yn iachawdwriaeth dynion, tardda hyny o'i arfaeth rasol ef ei hunan, ac fe gynwys yr arfaeth rasol hòno sicrwydd am gadwedigaeth torf ddirifedi. Gallasai Duw yn gyfiawn beidio cadw neb. Ond gan iddo ef weled yn dda gadw, yna yr oedd un o ddau beth yn rhwym o gymeryd lle, naill ai cadw pawb oll yn

ddiwahaniaeth; ond nid yw hyny, yn ol addefiad pawb, yn cymeryd lle; neu ynte, gadw y dosbarth mwyaf o lawer, fe'lai fil am bob un a gollir yn y diwedd; ac os dosbarth lluosog felly sydd yn cael eu cadw yn ol doethineb anfeidrol y Ceidwad ei hunan, yna y mae etholedigaeth y cyfryw, o blith y lleill, yn dyfod i fewn o angenrheidrwydd, ac ni ellir osgoi y bwriad tragwyddol i'w cadw heb ruthro yn anystyriol yn erbyn dysgeidiaeth y Beibl, a rheswm hefyd.

Pe meiddiai rhywun ofyn, Gan fod Duw yn cadw dynion o gwbl, paham na chadwai efe bawb yn ddiwahaniaeth? Gellid ateb, O ran mawredd ei ras, a gwerth yr Iawn, y gallai efe blygu ewyllys pob dyn i dderbyn y cymod; ond eglur yw, er hyny, nad yw efe yn gweled yn ddoeth i wneud hyny. Nid oes neb yn ddiau, na dyn nac angel, a all ateb y fath gwestiwn. Duw ei hun a all. Ond gallwn ni sicrhau fod gan Dduw ei resymau am gadw pob un a gedwir, er na hysbysodd efe y rhai hyny i ni. Nid yw yn gwneud dim oll heb resymau am ei wneuthur, oblegid rheswm, y rheswm mawr tragwyddol a digyfnewid ydyw efe, a Thad pob rheswm creadigol, pa un bynag ai rheswm dynol ai un angylaidd. Nid ydym i dybio fod etholedigaeth gras heb resymau digonol drosti. Mae y natur ddynol lygredig yn anfoddlon i neb gael unrhyw fantais, oddieithr i bawb oll gael y fantais hòno. Ond o ba le y tarddodd y genfigen a'r drwg ewyllys yna, ond o lygredigaeth a chyfyngder meddwl dyn dan lywodraeth ei bechod? Ai nid cyfreithlon a theg yw i ddyn wneuthur fel y myno â'r eiddo ei hun, tra nad oes un ddeddf yn cael ei throseddu? Pa faint mwy teg ydyw i Dduw weinyddu ei ras, yr hwn na theilyngodd neb erioed, fel y gwelo efe ei hun yn addas? Cwyna rhai fod etholedigaeth yn gosod dosbarth dirif o ddynion ar dir mwy manteisiol na'r lleill o ddynolryw, ond y mae y gweddill o ddynion ar y tir y mynent hwy osod pawb, a pha sail resymol sydd i neb gwyno o gwbl yn y mater?

Haera rhai fod etholedigaeth gras yn dinystrio rhyddid creadur rhesymol; ond pa fodd y gall peth a gymerodd le "cyn seiliad y byd" ddinystrio rhyddid neb? Os oes rhywbeth yn cyffwrdd â rhyddid dyn, dylanwad dwyfol ar y meddwl sydd yn gwneud hyny, ac nid etholedigaeth. Ond a ydyw dylanwad yr Ysbryd Glan ar y meddwl yn treisio dyn? Dim o'r fath beth. Gweithio ynom "*ewyllysio*" y mae dylanwad dwyfol. "Ufuddhau o'r galon" y mae credinwyr. "Dy bobl a fyddant *ewyllysgar* yn nydd dy nerth." Rhyw dybiau afresymol am ryddid a awgryma y fath beth a bod etholedigaeth yn ei ddinystrio.

Athrawiaeth y Beibl yn benaf ydyw, "Etholedigaeth gras;" ond y mae yn athrawiaeth rheswm hefyd. Pan eir i ymresymu ar y pwnc, cwestiwn sydd i'w ystyried ydyw hwn, Pwy yw achosydd dychweliad a santeiddiad pechaduriaid? Os y dyn ei hunan, o hono ei hunan, sydd yn ymgodi i ddelw Duw o ddelw Satan, nid yw etholedigaeth yn angenrheidiol; ond os Duw yw y prifweithredydd yn y mater, yna yr oedd efe erioed yn bwriadu gwneud hyny ar y personau a gedwir, felly daw etholedigaeth i fewn, ac nid oes un gallu yn y greadigaeth a all ei thaflu dros y bwrdd. Ni ddylai neb osgoi athraw-

iaeth etholedigaeth, ac ni ddylai chwaith gael mwy o le yn y weinidogaeth nag a ga yn y Beibl. Ond os bydd pregethwr yn ei hosgoi yn fwriadol, fe ddigia Duw wrtho, ac fe farna y bobl sydd yn darllen yr epistolau a'r efengylau, naill ai ei fod yn ddyn anwybodus, neu ei fod yn llwfryn, neu y ddau. Rhodder i bob athrawiaeth Feiblaidd "ei bwyd yn ei bryd," a'r lle a rydd yr Ysgrythyrau iddi. Mae Penarglwyddiaethol Ras mor deilwng o Dduw ag ydyw cyfiawnder. Terfynwn heddyw yn y fan hon drwy ddweyd,—

1. Mai cam â'r athrawiaeth hon ydyw ei gosod allan fel pe na chadwa Duw ond ychydig o ddynion drwyddi. Bydd rhifedi y cadwedigion yn ddirfawr, yn ddiau, ac ni bydd ond dyrnaid bychan o rai colledig yn y pen draw mewn cymhariaeth i'r dorf fydd ar ddeheulaw Iesu ddydd y farn.

2. Dengys yr angenrheidrwydd am etholedigaeth yn eglur mor ystyfnig yw gwrthryfel dyn wrth natur.

3. Dengys eto fod cadwedigaeth dynion o Dduw o'r Alpha i'r Omega. Mae gan ddyn lawer o waith i'w wneud yn ei iachawdwriaeth; ond Duw, er hyny, yw y prifweithiwr yn y mater.

4. Pa bethau bynag a ymddengys i ni yn dywyll yn bresenol, diau y dylem gredu pob gair sydd yn y Beibl, a dysgwyl am ychwaneg o oleu ar bethau tywyll yn y man. Dywed Pedr am i ni fod yn ddiwyd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr; ond sicr i bwy? Nid i Dduw, ond i ni ein hunain, ac eraill.

5. Mae bwriad tragwyddol o eiddo Duw i gadw torf ddirif o bechaduriaid yn anogaethol hollol i bawb i ymarfer â holl foddion bywyd tragwyddol. Dywed Jonathan Edwards, pe buasai sicrwydd na achubasid dim ond un *yn ei oes ef*, y dylasai efe wneud ei oreu i fod yr *un hwnw*.

6. Cofiwn yn wastad mai llyfr Duw ydyw llyfr yr arfaeth, ac na ddaw gair byth o'r nef i'n hysbysu ein bod ni yn perthyn i etholedigion Duw. Awn ni at dystiolaethau y Beibl, a chredwn y rhai hyny, ac at ei orchymynion am reolau bywyd crefyddol; y dirgeledigaethau ydynt eiddo yr Arglwydd.

## ETHOLEDIGAETH A GALWAD YR EFENGYL.

*Darlith XXVII.*

YN y sylwadau a wnaed y tro o'r blaen ar "Etholedigaeth Gras," dywedwyd:—1. Fod etholedigaeth torf ddirifedi o ddynolryw i fywyd tragwyddol yn athrawiaeth ysgrythyrol. Nodwyd rhai rhanau o'r Beibl lle y delir y gwirionedd hwnw allan yn eglur, a gallesid nodi lluaws o adnodau eraill, ac yn enwedig diwedd yr wythfed benod o'r Epistol at y Rhufeiniaid, y nawfed benod drwyddi oll, a rhanau yn yr unfed benod ar ddeg, a llawer o ymadroddion ein Gwaredwr, yn enwedig ei eiriau yn Mat. xi. a Ioan xvii. 2. Sylwyd hefyd fod

yr un gwirionedd yn dilyn o angenrheidrwydd oddiwrth resymeg, megys fod Duw wedi bwriadu erioed i wneuthur pob peth a wna efe mewn amser ac i dragwyddoldeb hefyd: "Hysbys i Dduw yw ei weithredoedd oll erioed," Actau xv. 18. Fod Duw yn dychwelyd torf ddirif o ddynion mewn amser; gan hyny, ei fod yn bwriadu eu dychwelyd er tragwyddoldeb. Mae yn eglur nas gellir dadymchwelyd y rhesymeg uchod, ond drwy brofi, yn 1af, nad yw Duw wedi bwriadu erioed i wneud y pethau a wna efe mewn amser; neu yn ail, mai nid efe sydd yn brifweithredydd yn nychweliad y rhai a ddychwelir. Ond nid yw yn debygol y bydd ar neb ryw awydd mawr am geisio profi nerth ei feddwl drwy ymdrechu ei dadymchwelyd, o leiaf, ni welais i neb yn awyddus am hyny hyd yma. Gwelais rai yn ceisio *osgoi* y pwnc drwy ddywedyd nad oes na *chynt* na *dyfodol* gyda Duw, ond mai un presenol tragwyddol yw y cwbl gydag ef. Ond ni thycia yr osgoad hwnw iddynt mewn un modd; (1.) Oblegid gorfodir hwynt i roddi iaith eglur y Beibl o'r neilldu, megys y geiriau, "O'r dechreuad," "cyn seiliad y byd," "cyn yr oesoedd," a'u cyffelyb. (2.) Y maent yn ymhòni gormod, ac yn awgrymu y gallant hwy synied am bethau fel y synia Duw am danynt, ac felly yn gwneuthur eu hunain gystal a Duw. (3.) Maent yn arwain dynion i dryblith nas gallant eu dwyn eu hunain nac eraill allan o hono, drwy haeru mai yn *awr* y mae Duw yn crëu y byd cyntaf a greodd—bod Adda yn Eden yn *awr*, bod Crist yn y preseb yn *awr*, ac ar y groes yn *awr*, ac yn y nef yn *awr;* bod diwedd y byd yn *awr*, a'r farn yn *awr*. Pa beth bynag yw syniad yr Anfeidrol am bethau, ac ni wyr neb hyny ond efe ei hunan, nid yw dyn wedi ei ffurfio i synio am bethau felly. Gan hyny, doethineb dyn ydyw sefyll at eiriau dwyfol ysbrydoliaeth, ac y mae y rhai hyny yn sicr o fod yn gywir, yn ol barn Duw am ei bethau ei hun. (4.) Pe byddai y dywediad yn gywir—nad oes dim wedi ei wneud gyda Duw er tragwyddoldeb, ni fyddai hyny yn gwellhau dim ar y mater, oblegid y mae efe, os felly, yn cynllunio ac yn bwriadu achub torf ddirif o bechaduriaid yn *awr*, ac yn eu hachub yn weithredol hefyd yn *awr*, yr hyn sydd yn dangos mai yn ol bwriad *presenol* y mae efe yn achub torf ddirif yn bresenol. Helaethais ar hyn heddyw, oblegid y gwn fod tebygrwydd y delir rhai pobl ieuainc, fel rhai adar, gyda manus, pryd y gellir dysgwyl y gwyr hen adar creiffion ragor rhyngddynt a grawn pur yr ysgrythyr a rheswm.

Dywedwyd y tro o'r blaen, nad oes yr un gyfundraeth a all ddwyn *un* yn ychwaneg i'r nefoedd na'r llall. Dengys Arminius, John Wesley, a Fletcher, dyrfa fawr a achubwyd *heb* eu hethol, yn ol eu cyfundraeth hwy, ond rhifedi penodol ydynt, hysbys i Dduw; ond daw Dr. Owen, Jonathan Edwards, Dr. Chalmers, Dr. Wardlaw, Dr. Williams, Roberts o Lanbrynmair, a Williams o'r Wern yn mlaen, a dywedant yn eofn, Mae pob un o'r dorf fawr yna yn yr etholedigaeth ydym ni yn ddal; felly, cydgyfarfydda pawb yn yr un man o ran rhif y cadwedigion.

Am y gwrthddadleuon yn erbyn etholedigaeth gras, bu un o honynt dan ein sylw eisoes, sef fod athrawiaeth etholedigaeth yn gosod Duw allan fel derbyniwr wyneb. Atebwyd nad ydyw gwaith Duw yn cyfranu rhoddion i ddynion fel y gwelo yn oreu, heb fod gan neb hawl ar y rhoddion hyny, yn derbyn wyneb o gwbl; pe byddai yn dderbyniwr wyneb, y gosodai Dduw allan yn dderbyniwr wyneb wrth ddewis y genedl Iuddewig yn bobl iddo ei hunan, a rhoddi breintiau mawrion iddynt fel y gwnaeth wrth freintio y prophwydi a'r apostolion goruwch eraill—wrth roddi mwy o synwyr, mwy o ddyddiau, a mwy o gyfoeth i un dyn nag i ddyn arall; mewn gair, yn ol y syniad yna am dderbyn wyneb, fod Duw bob amser yn dderbyniwr wyneb. Dywedwyd mai derbyn wyneb ydyw cydnabod hawliau un dyn, ac ymddwyn ato yn deg yn ol rheolau adnabyddus, a thaflu hawliau dyn arall dros y bwrdd mewn cyffelyb sefyllfa, a hyny drwy annhegwch a llygredigaeth; ond lle na byddo hawl (fel nad oes yn mater iachawdwriaeth dynion colledig eisoes), na all fod derbyn wyneb o gwbl. Y neb y myno y mae efe yn trugarhau wrtho, pan nad yw efe dan rwymau i drugarhau wrth neb. Cariad, gras, ac ewyllys da Duw ydyw ffynonau iachawdwriaeth dynion. Gwrthddadl arall, Fod galwad yr efengyl yn cynwys fod ei holl wrandawyr yn meddu gallu i gydymffurfio â hi, ond fod etholedigaeth bersonol i santeiddrwydd a gogoniant yn cynwys fod dynion yn hollol analluog i roddi ufudd-dod i'r efengyl; gan hyny, ni all etholedigaeth, yn yr ystyr Galfinaidd ddiweddar, mwy nag un Calfin ei hunan, gydsefyll â galwad yr efengyl. Mae rhyw gamgymeriad dybryd yn meddyliau y rhai a ddygant yr wrthddadl hon yn mlaen. Mae y Calfiniaid diweddar yn dal yn gadarn fod dyn yn meddu *gallu* i dderbyn yr efengyl; hyny yw, ei fod yn meddu cyneddfau eneidiol—moddion addas i amlygu iddo ei ddyledswydd, cymhellion cryfion i'w chyflawni, a rhyddid i ewyllysio ac i wneuthur fel yr ewyllysio. Creda y Calfiniaid diweddar fod dyn yn alluog i wneud pob peth a gais Duw ganddo eu gwneuthur. Credant yn mhellach mai nid oblegid unrhyw anallu mewn dynion i dderbyn yr efengyl y mae bwriad tragwyddol o eiddo Duw i ddychwelyd pechaduriaid yn angenrheidiol, ond oblegid eu hanewyllysgarwch i ddychwelyd. Gallant, ond ni fynant droi at Dduw. Daw etholedigaeth gras i fewn i gadw torf ddirif, drwy weithio ynddynt "ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef," neu "eu gwneuthur yn ewyllysgar yn nydd nerth Duw; ac oni buasai y bwriad grasol yna, na throisai neb o hil Adda eu hwynebau at yr Arglwydd. Mae etholedigaeth gras yn cynwys y gall dyn dderbyn ei fywyd yn angeu y groes, ond na wna hyny; ac nid mewn un modd nad oes ganddo allu i wneud. Dywedir weithiau fod ethol torf ddirif o ddynolryw, a'r dorf luosocaf o ddigon o honynt, yn anghyfiawnder at bawb eraill o'r hil ddynol. Os oes gan holl ddynolryw HAWL, ar dir cyfiawnder, oddiar law Duw i fywyd tragwyddol, diau fod y rhai na ddychwelir at yr Arglwydd yn cael cam; ond pwy a feiddia ddweyd fod gan gynifer ag un o

ddynolryw *hawl* ar Dduw i gael ei gadw? Mater o ras anfeidrol ydyw cadwedigaeth dynion; ac os o ras, nid o *hawl* mwyach; os amgen, nid yw gras yn ras mwyach; felly, y mae yr wrthddadl hon yn syrthio i'r llawr wrth ei phwysau ei hunan, neu yn dianc i'r awyr gan ei hysgafnder, feallai, fyddai yn fwy priodol i mi ddweyd.

Drachefn: dywedir fod gras mawr yn ymddangos yn ngalwad yr efengyl ar bawb i droi eu hwynebau at Grist am eu bywyd, ond haerir fod bwriad tragwyddol i gadw torf ddirif o ddynolryw yn dwyn cwmwl ar ras galwad yr efengyl. Ond pa fodd y dichon hyny fod? Mae galwad yr efengyl yn aros yr un, a'i gras yr un, yn ddigyfnewid. Gallai un feddwl mai ychwanegu yr amlygiad o ras yn ddirfawr y mae etholedigaeth, drwy sicrhau y *daw* torf ddirif o ddynolryw i dderbyn galwad yr efengyl. Y mae bwriad tragwyddol Duw i effeithiol gadw torf ddirif yn ychwanegiad dirfawr at ras yr alwad ei hunan, ac nid yw gras y bwriad tragwyddol i gadw y rhai a gedwir yn tynu dim oddiwrth alwad yr efengyl, ond yn ychwanegiad diderfyn at "y gras" sydd yn dwyn i mewn gyhoeddiad "iachawdwriaeth i bob dyn."

Gwrthddadleuir, a rhoddir pwys mawr gan rai ar yr wrthddadl: Fod bwriad tragwyddol o eiddo Duw i ddwyn torf aneirif o ddynolryw at Grist, i'w cynal gyda gwaith yr Arglwydd, ac i'w gogoneddu yn y diwedd, yn rhwystr i neb arall ddyfod at y Gwaredwr. Ond pa fodd y dichon i hyny hefyd fod? Mae galwad yr efengyl yn ei grym o hyd. Mae Crist yn parhau i ddywedyd, "Y neb a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." *Deued pob dyn* at Grist, ac fe dderbynir pob dyn ganddo. Mae hyny yn cael ei sicrhau, ac nid yw y geiriau a ddywedodd efe, "Ond ni fynwch chwi ddyfod ataf fi fel y caffoch fywyd," yn cyffwrdd â'r alwad hòno mewn un modd. Saif yn ei grym o hyd. Amcan galwad yr efengyl ydyw cael dynion at Iesu Grist, ac amcan etholedigaeth sydd yr un ag amcan galwad yr efengyl. Nid yw y naill yn croesi y llall mewn un modd. Yn awr, pa fodd y gall bwriad tragwyddol i gadw rhif y gwlith fod yn erbyn yr amcan i gadw sydd yn ngalwad rasol yr efengyl? Helpu eu gilydd y maent; nid gwrthweithio, ond cydweithio; a rhwng y naill a'r llall, achubir myrddiynau dirifedi. Gan eu bod o'r un amcan, os yw bwriad i gadw yn rhwystr i gadwedigaeth, yna mae *galwad* i gadw yn rhwystr i gadw hefyd.

Os dywedir fod bwriad i gadw rhif y tywod yn cynwys bwriad i gondemnio torf o ddynolryw, dangosasom yn y ddarlith ddiweddaf na all etholedigaeth gynwys gwrthodedigaeth o gwbl. Ond ychwanegwn yn awr, Os yw bwriad i gadw yn cynwys bwriad i golli, yna y mae gweithredol gadw rhai yn cynwys gweithredol golli y lleill—y mae gweithredol santeiddiad un dosbarth yn cynwys gweithredol lygriad y gweddill. Os yw y bwriad yn cynwys y gwrthwyneb, yna y mae gweithred yn cynwys gweithred arall hollol groes, o ran ei natur, iddi ei hunan; ac os felly, paham nad yw crefydd yn cynwys annuwioldeb? a'r nefoedd ei hunan yn cynwys uffern? Os yw pob

peth a wna Duw yn cynwys pethau hollol groes iddynt hwy eu hunain, yna nid oes derfyn ar syniadau afresymol a chableddus. *Bwriad i gadw* y rhai *a gedwir* ydyw etholedigaeth, ac y mae colledigaeth dynion yn tarddu yn hollol o honynt hwy eu hunain. Ni ellir tadogi colledigaeth dynion ar Dduw mwy nag y gellir tadogi pechod arno ef.

Mae doethineb anfeidrol Duw yn dyfod i'r golwg yn eglur yn etholedigaeth gras. Gwyr pawb fod deddf foesol Duw ac efengyl gras Duw yn cael eu dibrisio gan ddynion—troseddir y ddeddf a gwrthodir yr efengyl. Oni buasai fod gan Dduw fwriad tragwyddol i gymhwyso iachawdwriaeth at feddyliau dynion drwy yr Ysbryd Glan a gair y gwirionedd, ni fuasai gan Dduw ei hunan ddim sicrwydd am gadwedigaeth dynion drwy farwolaeth ei Fab; yn wir, buasai sicrwydd penderfynol y buasai dynion yn unfryd yn ymesgusodi rhag derbyn y drefn. Ni buasai yn ddoeth gadael trefn fawr a drud fel trefn cadw pechaduriaid, heb sicrwydd am yr holl ganlyniadau. Etholedigaeth gras sydd yn sicrhau cadwedigaeth dynion. Ond dywed rhywun fod yr Arglwydd yn gwybod pob peth a fydd byth. Yr ateb i hynyna ydyw, Nid yw efe yn gwybod fod pethau yn *sicr* heb fod sail i'r sicrwydd hwnw. Byddai hyny yn wrthddywediad hollol. Yr unig sylfaen sicrwydd am ddaioni yn mysg dynion ac angylion hefyd ydyw bwriad tragwyddol Duw i *achosi* rhinwedd a daioni. Gwell genyf fi ddweyd mai bwriad tragwyddol Duw *gyda golwg ar* drefn iachawdwriaeth yw etholedigaeth, ac nid *rhan* o'r drefn ei hunan. Ei fwriad ef i gadw drwy y drefn ydyw. Mae yn gysylltiedig â'r drefn, ac yn cynwys sicrwydd am lwyddiant y drefn; ond y mae y drefn yn gyflawn ynddi ei hun yn Nghrist, a'i ufudddod llawn a pherffaith drosom ni hyd angeu y groes. Mae "pob peth yn barod," yn ol iaith yr efengyl. Y sicrwydd sydd gan Dduw, a chan eglwys Dduw, y cedwir dynion drwy y drefn ydyw etholedigaeth gras. Mae llawer o bethau yn dal cysylltiad â threfn iachawdwriaeth dynion na fyddai yn briodol dywedyd eu bod yn rhanau o'r drefn ei hunan. Y mae dyfodiad pechod i'r byd, a'r anrhaith a wnaeth yn y byd, yn dal cysylltiad agos â'r drefn i waredu dynion o'i afaelion; er hyny nid oes neb a ddywed fod pechod yn rhan o'r drefn i lanhau dynion oddiwrtho. Bu Augustus Cesar yn offeryn i ddwyn oddiamgylch ran o'r drefn, a Judas Iscariot yn offeryn i ddwyn oddiamgylch ran arall o honi, ond ni ddywed neb eu bod hwy yn rhanau o drefn iachawdwriaeth. Bu Paul yn offeryn i gael llawer o eneidiau at Iesu Grist, a Phedr, ac Iago ac Ioan yr un modd, ond nid priodol fyddai dywedyd mai rhanau o drefn Duw i gadw oeddynt. Felly hefyd gwell genyf fi ddywedyd mai *sicrwydd* am gadwedigaeth dynion drwy y drefn fawr ydyw etholedigaeth gras, yn hytrach na dywedyd ei bod yn rhan o'r drefn ei hun. Cyn terfynu y nodiadau hyn gellir sylwi—

1. Fod yr ysgrythyrau yn dal allan yn eglur mewn lluaws o fanau fod iachawdwriaeth dynion, yn weithredol, yn troi ar y pethau a wna

Duw o'i benarglwyddiaethol ras, pa mor fawr bynag yw gallu dyn, ac y mae yn fawr; pa mor gymhwys bynag yw trefn iachawdwriaeth i gyflwr dyn, ac y mae yn hollol gymhwys; pa mor ychydig bynag a geisir ganddo, mewn trefn i gael ei gadw, ac ychydig iawn a geisir ganddo hefyd yn ddiau; pa mor gyffrous bynag yw galwadau yr efengyl arno i ddychwelyd, ac y maent yn neilldnol felly; y mae ei galedwch ef mor fawr, ei falchder, ei anystyriaeth, a'i anghrediniaeth mor gryfion, fel mai penarglwyddiaethol ras Duw sydd yn y diwedd yn ei ysgogi ef i ddyfod at Grist am ei fywyd. Gosodir hyny allan yn eglur gan Dduw ei hunan wrth Moses, "Mi a drugarhaf wrth yr hwn y trugarhawyf, ac a dosturiaf wrth yr hwn y tosturiwyf." Y mae Paul yn dyfynu yr adnod hòno, ac yn tynu y casgliad canlynol oddiwrthi:—"Felly, gan hyny, nid o'r hwn sydd yn ewyllysio y mae, nac o'r hwn sydd yn rhedeg chwaith, ond o Dduw, yr hwn sydd yn trugarhau." Yr egwyddor fawr yna a ddelir allan ganddo yn y nawfed benod o'r Epistol at y Rhufeiniaid, o'r dechreu i'r diwedd. Felly hefyd yn y rhan olaf o'r wythfed benod, rhan o'r xi., ac Ephesiaid i., a llawer o leoedd eraill. Mae y ffaith hon yn cynwys etholedigaeth gras, a phe gallai dynion droi etholedigaeth allan o'r Beibl, ni fyddent ond yn yr un man, tra yr arhosai y ffaith mai gras penarglwyddiaethol sydd yn achub dynion.

2. Fod cysondeb etholedigaeth gras â galwad yr efengyl yn sefyll ar dir cyffelyb i benderfyniadau Duw yn ei Ragluniaeth, a'i anogaethau i ddynion i wneud eu dyledswyddau, fel y byddont dan nawdd dwyfo Ragluniaeth. Penderfynodd Duw achub Noah a'i deulu yn yr arch ond gosododd Noah ar waith i bregethu cyfiawnder i'r hen fyd, fe na fyddai yn angenrheidiol dwyn y diluw arno yr un amser. Penderfynodd linell derfyn einioes dynion; ond ar yr un pryd, anoga ddynion i amddiffyn eu bywyd a'u hiechyd drwy iawnymddygiad.

3. Fod athrawiaeth etholedigaeth gras, ac un dylanwad effeithiol yr Ysbryd Glan mewn adenedigaeth a santeiddiad credinwyr, yn rhwym o sefyll neu syrthio gyda'u gilydd.

4. Mai y prif achos o wrthwynebiad dynion i athrawiaeth etholedigaeth ydyw, anfoddlonrwydd i Dduw gyfranu ei roddion fel y gwelo yn dda ei hunan. Gwyr y darlithydd hyny drwy brofiad. Buasai yn dda ganddo, gynt, pe gallasai daflu athrawiaeth etholedigaeth allan o'r Beibl. Wedi methu, ymgymododd â hi, ac ymddengys iddo, yn awr, yn hardd a gogoneddus dros ben, ac yn llawn o gysur ac anogaeth i ddyn i droi at Ddnw.

5. Fod dynion yn dderbynwyr o ffafrau dwyfol, ac yn rhyddweithredwyr ar unwaith, ac nad yw gras yn gwanhau rhwymau i ddyledswydd, ond yn hollol i'r gwrthwyneb.

# Y NEFOEDD.

*Darlith XXVIII.*

YN niwedd prawf mawr y farn dragwyddol, arweinir y dorf waredigol gan y Barnwr i drigo yn eu cartref bythol. Bydd y rhan luosocaf o'r dorf fawr yn hollol gydnabyddus â'r lle, am eu bod wedi cartrefu yno o'r blaen rhwng eu marwolaeth ag adgyfodiad y meirw, a miloedd lawer o honynt wedi bod yno yn hir iawn; ond bydd y nefoedd yn hollol ddyeithr i'r dorf o rai byw fydd ar y ddaear pan adgyfodir y meirw, y rhai a newidir oll mewn moment, ar darawiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf. Yr olwg gyntaf a gaiff y cyfryw ar y nefoedd fydd, pan ddygir hwy yno gyda y dyrfa waredigol; a diau na fynegwyd iddynt erioed, ac na ddychymygasant hwythau yn eu horiau mwyaf athrylithfawr neu ramantus y filfed ran o'r gogoniant a ddaw i'w meddiant y pryd hwnw fel gwir ddysgyblion yr Arglwydd Iesu. Meddant ogoniant ein Harglwydd Iesu Grist cyn neu wrth eu harwain ymaith o gyffiniau ein daear ni; anerchir yr holl eglwys fawr gan y Gwaredwr yn y geiriau hyn, "Deuwch chwi, fendigedigion fy nhad, etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd." Ymddengys fod y nefoedd yn *lle*—yn fan neillduol yn y greadigaeth. Prawf:—Mae yn lle mawr ac eang. Rhaid ei fod. Pa le y mae, nid oes neb yn gwybod, ac nid yw dychymygion fawr o werth mewn mater fel hwn. Un byd mawr, mwy na'r holl fydoedd i gyd yn un ydyw, medd rhai; cyfundrefn o fydoedd mawrion, medd eraill, agos i'w gilydd, ac yn chwyrnellu y naill o gylch y lleill, ac yn meddu digon o sugndyniad ynddynt i ddal yr holl greadigaeth i hongian wrthynt; ond y gwirionedd ydyw, nad oes neb ar y ddaear yn gwybod pa le y mae y nefoedd, na pha fath le ydyw.

Pa le bynag y mae y nefoedd, pa le bynag y gogoneddir eglwys Dduw gyda y Gwaredwr, ymddengys na bydd ysbryd wedi ymadael â'r corff ddim yn hir yn cyrhaedd yno o'r ddaear. Esiamplau: enaid y Gwaredwr ei hun, ac enaid y lleidr a achubwyd ar y groes, "Heddyw y byddi gyda mi yn mharadwys," medd Iesu Grist wrtho; ac yr oedd y pryd hwnw yn dri y prydnawn. Nid hir y bydd angel yn dyfod o'r nefoedd i'r ddaear. Er esiampl: Yr angel Gabriel yn ehedeg yn fuan, ac yn cyffwrdd â Daniel yn nghylch pryd yr offrwm prydnawnol, ac yn dywedyd wrtho, "Yn nechreu dy weddïau yr aeth y gorchymyn allan, a mi a ddaethum i'w fynegu i ti." Gellir darllen gweddïau Daniel yn bwyllog mewn llai na deng munyd; felly, ni fydd angel ddim deng munyd yn teithio y ffordd o'r nefoedd i'r ddaear, a dywedyd y mwyaf. Digon tebyg na fydd ysbryd, o ran hyny, ddim haner munyd ar y daith rhwng y nef a'r byd hwn. Am y modd y mae yr Arglwydd yn cynal preswylwyr y nefoedd, a lluaws o faterion cyffelyb, "nid amlygwyd i ni eto," a digon tebyg na ellir datguddio pethau felly i ni yn y fuchedd hon. Rhaid aros ychydig eto cyn y gallwn eu gwybod. Mae anghymhwysder ynom ni yn awr i dderbyn datguddiadau am bethau nefol. Mae yn ddigon i ni yn bresenol

allu gwybod pob peth sydd yn angenrheidiol i ni i fyned yno, fel y cymhwyser ni i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni rhyfeddol hwnw.

Mae yr enwau sydd ar y nefoedd yn yr ysgrythyrau yn dangos i ni urddas a gogoniant, diogelwch a dedwyddwch perffaith y lle, megys "gorphwysfa," "ei orphwysfa ef;" nid yn unig yr orphwysfa a barotodd efe i deithwyr blin drwy anial garw y fuchedd hon, a gweithwyr caled gyda'i achos ar y ddaear, ond ei orphwysfa ef ei hunan. Pan orphenodd efe waith y greadigaeth, gosodir ef allan yn gorphwyso ar y seithfed dydd, mewn cyflawn foddlonrwydd mai da iawn ydoedd yr oll a wnaethai, a bydd gorphwysfa y saint i raddau helaeth mewn bod yn union o'r un farn a Duw ei hunan am ei holl weithredoedd ef mewn crëu, a chynal, llywodraethu, barnu, ac achub pechaduriaid, mai da iawn ydoedd y cyfan oll, annhraethol dda, a gogoneddus uwchlaw dirnadaeth. Pa faint bynag a amheuwyd ac a rwgnachwyd, ac fe amheuwyd ac fe rwgnachwyd llawer ar hyd y ffordd tuag yno gan lawer o'r saint, ond ar ol gweled pob peth wedi cydweithio mor berffaith er gogoniant i Dduw, a'u lles hwy eu hunain, dywedant âg un llais mai da iawn oedd y cyfan oll. I osod allan orphwysfa y saint defnyddir dwy gymhariaeth yn y Beibl, sef Gwlad Canaan—gorphwysfa Israel wedi taith flinderus yr anialwch, a'r dydd Sabbath. Y mae priodoldeb neillduol yn y ddwy gymhariaeth, "Gwlad yn llifeirio o laeth a mel" oedd Gwlad Canaan, a dydd bendigedig yw y Sabbath. Caiff y llafurwr diwyd a blin, sef mab y forwyn gaeth, ei anadl ato ar y dydd hwnw. Golygfa ardderchog yw yr un a geir ar y llafurwr yn dyfod at ei dŷ i orphwys ar nos Sadwrn, gan roddi ei bladur yn y goeden, neu ei gryman yn y tô gwellt hyd foreu dydd Llun. Caiff orphwyso ar y dydd Sabbath. Pwy bynag o honoch a ewyllysio weled ansawdd pethau yn mwthyn y llafurwr ar nos Sadwrn, darllened *The Cottager's Saturday Night* yn ngweithiau Robert Burns. "Goleuni" sydd enw arall ar y nefoedd. Mae yr enw prydferth hwn yn gosod allan wybodaeth eang, llawenydd pur, llwyddiant perffaith, a santeiddrwydd difrycheulyd y preswylwyr, "Yna y llewyrcha y rhai cyfiawn fel yr haul yn nheyrnas eu Tad." Geilw Iesu Grist y nefoedd hefyd yn "dŷ ei Dad ef." Dyma un o'r enwau mwyaf prydferth a dymunol sydd ar y lle. Dengys y bydd y saint yno fel plant anwyl a chariadlawn ar aelwyd glyd a llawn eu Tad, gyda'u brawd a'u prynwr. Mae pob peth sydd hoff a thyner a dedwydd yn yr enw hwn; ond nid yw y gair *ty* wrtho ei hun yn ddigon cryf. Gelwir y nefoedd hefyd yn ddinas—"Dinas ac iddi sylfeini, saer ac adeiladydd yr hon yw Duw." Mae y saint yn ddinasyddion, ac felly yn berchenogion rhagorfreintiau gwerthfawr a pharhaol. Ond y mae y geiriau *ty* a *dinas* yn rhy weiniaid wrthynt eu hunain; mae y nefoedd yn *wlad*, ac yn wlad well na Gwlad Canaan, a digon o le ynddi i bawb o'r trigolion fyw heb gyfyngu dim y naill ar y llall. Y mae yr enwau yn cyfodi uwch, uwch; mae y nefoedd yn deyrnas—"Teyrnas Crist a Duw"—teyrnas

dragwyddol, a'r deyrnas yn etifeddiaeth i'r saint. "Etifeddwch y deyrnas." "Os plant, etifeddion hefyd, sef etifeddion i Dduw, a chydetifeddion â Christ;" ac y mae yr etifeddiaeth yn un "anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, ac yn nghadw yn y nefoedd i'r rhai sydd, trwy allu Duw, yn gadwedig, trwy ffydd i iachawdwriaeth, parod i'w datguddio yn yr amser diweddaf." Mae yr etifeddiaeth wedi ei henill iddynt trwy *haeddiant* gan y Gwaredwr, ac wedi dyfod yn eiddo i'r saint drwy rinwedd eu hundeb âg ef, fel aelodau yn y corff ysbrydol, gogoneddus y mae efe, fel Gwaredwr, yn ben ysbrydol iddo. Ond yr enw perffeithiaf a llawnaf o feddwl, feddyliem ni, o'r holl enwau sydd ar y nefoedd ydyw bywyd, "Y Bywyd." Yn wir, cyfundrefn o fywyd ydyw yr efengyl—"afon bur o ddwfr y bywyd." Mae yn fyw i gyd, ac nid oes marwolaeth o'i mewn, ond marwolaeth Tywysog y bywyd, a marw i bechod, mewn cydymffurfiad â'i farwolaeth ef. "Crist ein bywyd ni" ydyw Crist yr efengyl, yr hwn a ddaeth i'r byd fel y caem ni fywyd, drwy roddi ei fywyd ei hunan dros fywyd y byd. Mae ei holl bethau hi, sef yr efengyl, yn bethau bywyd; ei goleuni, ei bara, ei dwfr, ei gras, ei chyfiawnhad, ei ffordd, "o farwolaeth i fywyd" y mae y cwbl a berthyn iddi yn arwain. Myned i'r nefoedd ydyw myned i'r bywyd. Mae pob peth yno yn llifeirio gan fywyd. Ni ddichon marwolaeth o unrhyw natur roddi ei droed plymaidd i lawr ar y fath dir a thir y bywyd. Mae yr enw hwn yn cynwys prydferthwch, dedwyddwch, llwyddiant, a chynydd. Cynwys fod holl drigolion y nefoedd yn gyfiawn gerbron yr Arglwydd, yn santaidd a difrycheulyd, ac yn hardd a gogoneddus yn eu cartref tragwyddol. Mewn perthynas i ddedwyddwch perffaith y nefoedd, diau ei fod yn canolbwyntio yn Nuw drwy y Cyfryngwr. Heddwch a ffafr Duw ydyw ei brif elfen, yn nghyda mwynhad o hono—presenoldeb y Cyfryngwr; bod yn wastadol gyda'r Arglwydd; bod yn llawn byth o'r Ysbryd Glan, a chymdeithas bur a pherffaith rhwng pawb â'u gilydd, a'r cyfan i barhau yn dragywydd. Pe gofynid i ni, Pa fath le ydyw y nefoedd? ein hateb fyddai, Gwlad orlawn o wirionedd, heb ddim camgymeriad, ac o gynydd gwastadol mewn gwybodaeth a phrofiad o'r gwirionedd; gwlad lawn o gyfiawnder a santeiddrwydd, ac o sel danllyd dros ba beth bynag sydd bur, defnyddiol, ac anrhydeddus; gwlad o weithgarwch diflino, lle mae y preswylwyr yn gorphwys mewn gwaith, ac nid mewn segurdod; gwlad lawn o gariad at Dduw, yn Dri yn Un, ac at eu gilydd rhwng pob graddau yn y lle; a gwlad sydd yn orlawn o heddwch dwfn, ac o ddiolchgarwch a gorfoledd. Dyna ddigon byth i wneud dyn yn dragwyddol ddedwydd—cael bod yn wastadol gyda'r Arglwydd; ond gellir dweyd yn ddibetrus y gwna Duw bob peth a all daioni a gras anfeidrol ei wneuthur tuag at ogoneddu a dedwyddu ei bobl, ac y parha efe i wneuthur felly byth bythoedd.

Cytuna pawb fod y nefoedd yn llawn o gariad pur a pherffaith, ond ymddengys fod rhai yn amheu a fydd ffydd yno; ond wrth ystyried fod ffydd yn cofleidio pob gwirionedd datguddiedig, ac mai drwy

ffydd yr ydys yn derbyn ac yn dal gafael ar bob gwirionedd cynwysedig mewn tystiolaethau, rhaid, debygid, fod y saint gogoneddedig yn credu o hyd wneuthur y bydoedd drwy air Duw—ddarfod crëu dyn ar ddelw Duw—iddo gwympo, ac i Grist farw dros ein pechodau ni, a bod gwerth a haeddiant anfeidrol yn ei waed. Gan mai drwy ffydd yn unig y gellir derbyn tystiolaethau, a dal gwirionedd wedi ei dderbyn, rhaid fod ffydd yn y nefoedd, os oes gwirionedd yno, yn dylanwadu ar feddyliau y preswylwyr byth. Ond a oes yno obaith, yn gystal a chariad a ffydd? Gras ydyw ffydd sydd yn derbyn y gwirionedd yn y gorphenol, yn gystal a'r dyfodol; ond gras ydyw gobaith sydd yn edrych yn mlaen yn unig, ac yn dysgwyl rhyw bethau addawedig yn y dyfodol. Yn awr, a oes rhyw debygrwydd yn natur pethau y ceir datguddiadau pellach a llawnach o Dduw, ei gynlluniau, a'i weithredoedd, ac yn enwedig o'i gyfiawnder a'i ras yn y nefoedd? ac a oes yno addewidion am ddatguddiadau o'r fath? Os oes, ac y mae hyny yn bur debygol, os nad yn sicr, yna, rhaid fod yno obaith am y fath ddatguddiadau.

Eto, ai ni fydd personau unigol yn y nefoedd yn gobeithio am gynydd yn eu mwynhad personol, fel y byddo eu llafur i dreiddio i bethau dwyfol yn myned yn mlaen? Ac onid ydyw yr holl nefoedd yn dysgwyl rhyw bethau mawrion oddiwrth ddatguddiadau a wneir gan y Cyfryngwr, yn y dyfodol, o bryd i bryd. Yn raddol y rhaid datguddio pethau i ddynion yn y nefoedd, fel ar y ddaear. Os felly, prin y gellir cau gobaith allan o'r nefoedd mwy na ffydd.

Cwestiwn tra dyddorol ydyw hwn, A fydd edifeirwch am bechodau yn y nefoedd, fel y mae yn eneidiau y saint ar y ddaear? A drosglwyddir y teimlad hwnw i'r nefoedd, ac a bery efe yno byth? Gellid meddwl y rhaid y bydd mawredd y waredigaeth oddiwrth bechod yn tueddu, yn hytrach, i ddyfnhau edifeirwch, ac nid i'w ysgafnhau; ond yr anhawsder ydyw hwn,—Pa fodd y mae edifeirwch yn gyson â pherffaith ddedwyddwch? Y mae yn gyson â maddeuant llawn. Yr oedd Paul yn ffieiddio ei hun, am iddo erlid eglwys Dduw, wedi cael maddeuant; ac onid yw yn edifar ganddo heddyw, yn y nefoedd, am y trahausder hwnw? Ai nid yw yn angenrheidiol i ddyn deimlo yn ol fel y mae pethau yn galw am iddo deimlo, neu yn ol cymhwysder pethau (*fitness of things*)? A phe byddai yn ddiffygiol yn hyny, a allai efe barchu ei hunan a'r gyfraith a droseddodd, fel y mae yn gweddu iddo wneuthur? O'n rhan ni, meddwl yr ydym fod parhad edifeirwch am bechod dros byth, yn gyson â chyflawn ddedwyddwch; ond gallai mai y goreu i ni ydyw gadael y mater hwn, ac eraill tebyg iddo, i gael ei esbonio yn y byd a ddaw.

Y bydd amrywiaeth yn ngwobrau y nefoedd a ymddengys yn eglur oddiwrth yr Ysgrythyrau. Nid yw yn rhesymol i ni feddwl y bydd Cristion dystaw ac anghyhoedd ar yr un tir yn y nef a'r Apostol Paul; neu y bydd Iuddew duwiol yn y gwersyll Iuddewig, ar yr un tir a Moses. Fe dderbyn pob un ei briod wobr ei hun, yn ol ei lafur ei hun; a thebyg y parha y gwahaniaeth hwn yn dragywydd, er pob

cyfnewidiad er gwell a fydd yn amgylchiadau a chynydd preswylwyr y gogoniant.

Ond gair eto ar waith y nefoedd. Gwaith mawr y nefoedd fydd addoli a gwasanaethu Duw. A fydd yno ganu mawl? Mae yn debyg y bydd, onide y mae yn eglur ein bod ni wedi camgymeryd yn ddirfawr. A fydd yno weddïo? Os bydd hyny yno, y mae yn gyson iawn â sefyllfa o ymddibyniaeth ar Dduw, ac nis gellir codi creadur byth uwchlaw bod yn ymddibynol ar y Creawdwr. A fydd astudio athroniaeth naturiol a seryddiaeth yn y nef? Tebyg iawn y bydd. A phaham nad yw Kepler, Newton, a Locke, yn ymddifyru yn y pethau yr ymhyfrydent ynddynt ar y ddaear? Paham nad yw dyn oedd yn deithiwr mawr ar y ddaear, yn ymweled â phell-barthau llywodraeth Duw yn y nef? Paham nad yw Milton yn barddoni yn y nefoedd? Paham nad ydyw Paul, Jonathan Edwards, a Dr. Williams, yn ymroddi i arddansoddiaeth yn y nefoedd, fel yr oeddynt ar y ddaear? Paham nad yw Dr. Owen a John Howe yn rhagori mewn duwinyddiaeth, fel yr oeddynt pan yma gyda ni? Pa reswm sydd yn erbyn fod Moses yn traddodi darlithiau yn y nefoedd ar yr Hen Gyfamod, a Phedr, Iago, ac Ioan ar y Cyfamod Newydd? Pa reswm sydd yn erbyn fod Dafydd yn darlithio ar gerddoriaeth, a Joseph a Mordecai ar berffeithrwydd gweithrediadau Rhagluniaeth? Paham nad yw Iesu Grist ei hun yn egluro athrawiaeth yr Iawn, a chyfryngwriaeth? Paham nad oes yn y nefoedd gymanfaoedd i addoli a mawrygu y Drindod? Os yr ateb i'r holiadau hyn, a mil o'u cyffelyb fydd, "Nid amlygwyd eto," gadawer hwy yn llonydd, ymroddwn ni o ddifrif drwy wasanaethu Duw ar y ddaear, a chredu yn Iesu Grist â'r holl galon, a phwyso ar ei deilyngdod ef yn unig am ein cymeradwyaeth gerbron Duw, am gymhwysder moesol a chyfreithiol i fyned at y dyrfa lan sydd yn y nef, i fwynhau Duw yn dragywydd, heb gwmwl rhyngom â gwedd ei wyneb.

## COSB YR ANNUWIOL.

*Darlith XXIX.*

MAE yn ffaith addefedig gan bawb, oddieithr ychydig o Anffyddwyr eithafol, fod y Goruchaf yn frenin mewn llywodraeth fawr a gogoneddus ar ei holl greaduriaid. Mae ei lywodraeth yn cynwys amrywiaeth mawr. Mae ganddo lawer math o greaduriaid i'w rheoli, a llawer math o ddeddfau ar gyflawn waith yn eu llywodraethu. Mae dynion, a phob creadur rhesymol arall, yn ddeiliaid llywodraeth *foesol* o eiddo yr Arglwydd drostynt. Wrth lywodraeth *foesol* y golygir, llywodraeth dros egwyddorion, bwriadau, cynlluniau, geiriau, ac ymddygiadau creaduriaid rhesymol, a hyny drwy foddion moesol, megys gorchymynion a gwaharddiadau, addewidion a bygythion, anogaethau a gocheliadau, gwobrau a chosbau—gwobrau am ufudd-dod, a

chosbau am anufudd-dod; mewn gair, yr holl ddarpariadau sydd gan y Llywydd mawr i lywodraethu creaduriaid rhesymol a rhydd yn eu dewisiadau a'u hymddygiadau. Gan hyny, y mae yn eglur fod dynion dan ddeddf foesol i Dduw. Mae deddf foesol y nefoedd yn gyfiawn, santaidd, a da—yn seiliedig ar yr hyn yw Duw, fel Creawdwr, Meddianwr, Cynaliwr, a Llywydd pawb oll, ac ar yr hyn ydyw dyn fel creadur rhesymol o ran ei alluoedd, y moddion moesol sydd ganddo, a'r rhyddid perffaith a fedd i weithredu ac ymddwyn fel y gwelo yn oreu dan bob amgylchiadau. Mae y ddeddf hon yn ddigyfnewid cyhyd ag y parhao y Llywodraethwr a'r deiliaid i gydfodoli, a bydd hyny byth. Mae yn perthyn i'r ddeddf foesol—deddf fawr creaduriaid rhesymol, wobrau i'r ufudd, a chosbau i'r anufudd; a'r gwobrau a'r cosbau hyny mewn cysylltiad â hawliau cyfiawn y Duwdod dros ei greaduriaid rhesymol, ydyw y nerth a fedd y gyfraith i rwymo pob dyn i roddi ufudd-dod i'w gorchymynion. Ni fedd y ddeddf fel *deddf* unrhyw wobrau i'w rhoddi i'r ufudd chwaith, ond llonyddwch, diogelwch, ac amddiffyniad rhag cael cam; os derbyn dyn, neu angel, ychwaneg na hyny, rhaid i'r ychwanegiad darddu o ffynon arall, tra gwahanol i'r ddeddf, ond perffaith gyson â hi; sef o benarglwyddiaethol ras a daioni y Goruchaf. Mae yn eglur fod dyn fel troseddwr dan felldith y ddeddf; ond y mae yr efengyl yn y byd hwn wedi dyfod i fewn i waredu dyn oddiwrth felldith y ddeddf, ac yn cyhoeddi cyfiawnder, drwy yr hwn y gall pob un a'i cymeradwyo, ac a'i derbynio drwy ffydd, ddyfod i fyny â gofynion y ddeddf. Mae ganddi fodd i faddeu i'r edifeiriol, ac i santeiddio yr halogedig, ac i'w gymhwyso i fwynhau Duw yn ei Fab yn dragywydd. Mae yr efengyl yn gyfundrefn o ras mawr a phenarglwyddiaethol; ond yn berffaith gyson â chyfraith Duw—mae yn cadarnhau y ddeddf. Nid yw mewn un modd yn gwanhau ei hawliau, nac yn lliniaru ei gofynion, ond cydnebydd ei grym a'i hawdurdod; ac amcan yr efengyl ydyw codi dyn i ddelw y ddeddf, ei ddwyn i'w charu, ac i ufuddhau i'w holl ofynion —ysgrifenu y gyfraith yn y galon, a gwneud gwrthryfelwyr yn ddeiliaid ufudd a chariadlawn yn llywodraeth y Goruchaf. Mae dyfodiad yr efengyl i fewn fel datguddiad gogoneddus o gariad a gras Duw tuag at ddynion fel pechaduriaid, yn eu gosod dan rwymau i gredu yr efengyl, fel y byddont gadwedig. Pan ddaeth yr efengyl i fewn fel deddf ffydd, neu ffordd i bechaduriaid ddyfod i fyny gerbron Duw drwy ffydd yn Nghrist, mae llywodraeth foesol Duw dros ddynion yn ei chymeryd megys yn ei llaw, ac yn ei holl weinyddiadau allanol—y cyhoeddiad o honi, a'i hordinhadau, ac y mae yn rhwymo pawb sydd yn mwynhau ei gwahoddiadau i'w derbyn a'i chofleidio. Mae holl gymhelliadau yr efengyl, fel hyn, yn dyfod yn gymhelliadau o eiddo y *llywodraeth* i ddynion droi eu hwynebau at Iesu Grist am eu bywyd, a'r gollfarn yn ngafael pa un y cafodd yr efengyl bob dyn, yn cael ei symud ymaith oddiar bob un a *gredo;* ond y mae y gollfarn wreiddiol, gydag ychwanegiad arswydlawn at ei herchylledd, yn aros o hyd ar bob un sydd yn mathru Mab Duw, yn barnu yn aflan waed y cyfamod,

ac yn difenwi Ysbryd y gras. Ni ddichon esgeuluswyr iachawdwriaeth ddianc rhag cosbau y llywodraeth ddwyfol. Os try dyn ymaith oddiwrth yr hwn sydd yn llefaru o'r nef, rhaid iddo gyfarfod yr holl ganlyniadau o hyny.

Fel y mae dyn dan rwymau i ufuddhau i Dduw ar un llaw, y mae Duw yntau yn rhwym o lywodraethu ar y llaw arall. Os yw Duw dan rwymau i lywodraethu, y mae dan rwymau i gosbi y rhai a ymlynant yn eu pechodau, ac a fynant fyw yn annuwiol, yn ol fel y bygythia wneud yn ei air. Naill ai rhaid i Dduw beidio a bod yn frenin, neu y mae yn rhaid iddo gosbi y rhai a fynant fyw a marw yn annuwiol. Mae yn anmbosibl iddo beidio a bod yn frenin, gan hyny y mae dan angenrheidrwydd didroi yn ol o gosbi gwrthryfelwyr na fynant wneud heddwch âg ef yn marwolaeth ei Fab. Ond mae y gyfraith yn hollol gyfiawn yn ei chosbau. Ni chaiff neb ddim cam yn hyny. Nid yw yn gosod ar ddyn fwy nag a haeddo, fel y gallo dyn fyned i gyfraith â Duw. Nid yw yr Arglwydd yn gweled yn dda wneuthur cam â gwr yn ei fater. Bydd amrywiaeth mawr, mae'n dra sicr, yn ngwobrau y nef; ac ymddengys y bydd amrywiaeth cyffelyb yn nghosbau uffern hefyd. Mae natur pethau, a'r Beibl hefyd, yn ein dysgu mai felly y bydd.

Deolir annuwiolion i wlad sydd ar ei phen ei hunan, i fyd o ofidiau digymysgedd, am ryw agendor fawr â phob peth sydd ddedwydd a llwyddianus. Mae enwau dychrynllyd ar y lle yn y Beibl—uffern, llyn o dân a brwmstan, niwl y tywyllwch, y lle poenus hwn, y fflam hon, a'r cyffelyb. Prin yr ydym yn meddwl fod y fath ymadroddion i'w deall yn llythyrenol. Nid oes neb deallgar yn golygu, feddyliem, fod y termau a ddefnyddir i osod allan ddedwyddwch y nefoedd i'w deall yn llythyrenol. Darlunir y saint yn *llewyrchu* yno fel yr haul, yn gwledda, yn eistedd ar orseddau, yn mynwes Abraham, wedi eu coroni, yn chwareu ar eu telynau, a phethau cyffelyb. Os gofynir paham y defnyddir y fath droell-ymadroddion i osod allan ddedwyddwch y nefoedd? yr ateb ydyw, ein bod ni yn y fuchedd hon yn analluog i amgyffred pethau fel y maent yn y nefoedd, ac nad oes geiriau yn ieithoedd y ddaear yn gymhwys i drosglwyddo i ni syniadau priodol am danynt; yna, o angenrheidrwydd, rhaid defnyddio y fath *dermau* ag a'n dygo ni drwy bethau adnabyddus i feddu rhyw syniad am ddedwyddwch y lle. Yr un modd, debygid, y defnyddir y termau niwl, tywyllwch, tywyllwch eithaf, tân fflamllyd, tân tragwyddol, llyn yn llosgi o dân a brwmstan, yr ail farwolaeth, a *thermau* cyffelyb, oblegid nad ydym ni yn y fuchedd hon yn alluog i amgyffred gwir sefyllfa colledigion yn nystryw; ond gallwn, drwy y fath droell-ymadroddion a'r rhai uchod, ddeall fod gofid, petrusder, poen, ac ingoedd arswydlawn yn uffern, a gosodir y mater ger ein bron yn y wedd hon, fel y dygir ni i ochel y ffordd sydd yn arwain i'r lle poenus hwnw.

Mae dyn, fel y sylwyd, yn ddeiliad llywodraeth foesol. Mae y llywodraeth yn bygwth cosbi troseddwyr. Hyny oedd ei bygythiad yn y dechreuad—mae yn ddigyfnewid. Mae yn bygwth cosbi eto;

mae *yn* cosbi; mae pawb yn addef hyny. Mae yn gwneud yn iawn; y Duwdod sydd yn ei gweinyddu. Rhaid fod barn Duw yn ol gwirionedd; ni ddichon ef gamgymeryd. Nid yw yr efengyl yn newid dim ar nerth a rheoleidd-dra llywodraeth foesol Duw. Darpariaeth rasol i achub dynion rhag syrthio, drwy eu pechodau, dan gosbau y llywodraeth ydyw hi. Mae yn cydnabod uniondeb y gyfraith, a thegwch cosbau y llywodraeth. Nid deddf newydd, dynerach na'r hen gyfraith, mo honi, ond trefn gras Duw i achub, ac y mae y *term* gras a gymhwysir ati, yn addef tegwch bygythion yr orsedd yn erbyn troseddwyr annychweledig.

Mae cosbau lawer wedi eu gweinyddu yn y fuchedd hon ar ddynion gan y llywodraeth ddwyfol, er fod yr efengyl yn y byd. Fe drengodd Ananias a Sapphira dan gosb gerbron un o brif gyhoeddwyr maddeuant pechodau. Fe ddinystriwyd yr Iuddewon a'r Ymerodraeth Rufeinig wedi hyny, er fod iachawdwriaeth Duw yn cael ei chyhoeddi i bawb yn ddiwahaniaeth. Mae pob deddf yn rhedeg ar ei throseddwyr, a'r ddeddf foesol fel y lleill; ac er i ddyn gael maddeuant, ni ymedy y cleddyf â thy llawer troseddwr byth.

Mae pechod, a glynu wrtho, yn peri poenau arswydlawn yn y fuchedd hon. Mae llawer dyn, heblaw Ffelix, yn dychrynu wrth fyfyrio ar gyfiawnder, a dirwest, a'r farn a fydd. Mae meddwl y cyfryw yn fath o uffern fechan yn fynych. Mae y dosbarth goreu o ddynion yn ysgoi y cyfryw ddyn fel esgymunbeth; mae yntau yn teimlo hyny, ac yn gweled ei drueni. Y fath wahaniaeth ar y ddaear sydd rhwng torf o blant diniwaid, neu dorf o grefyddwyr addolgar a didwyll, a thorf o ladron neu lofruddion? Mae pechodau dynion yn rhuo yn eu hwynebau yn aml, ac yn eu bygwth âg annedwyddwch a melldith yn fynych, ac y mae hyny oll yn awgrymu iddynt fod rhyw ddysgwyl ofnadwy am farnedigaeth ac angerdd tân o'u blaen. Nid yw angeu yn newid cyflwr na chalon un dyn, ac y mae pob peth yn arwyddocâu y trosglwyddir ei euogrwydd a'i boenau gyda'r annuwiol i'r byd a ddaw. Ac yno, dyna fydd iaith ddigyfnewid y Barnwr tragwyddol, "Yr hwn sydd anghyfiawn, bydded anghyfiawn eto; a'r hwn sydd frwnt, bydded frwnt eto." Os gofyn rhywun paham y gwnaeth Duw ddyn yn greadur rhesymol, ac agored fel y cyfryw i bechu yn ei erbyn, ac, o ganlyniad, yn agored i fyned i afael cosbau y llywodraeth ddwyfol, yr ydym yn ateb, Fod y dyn a feiddio ofyn y fath ofyniad yn rhyfygus i'r eithaf. "A argyhoeddo Dduw, atebed i hyny." Ar yr un pryd, barnu yr ydym fod llywodraeth foesol yn drefn a ellir amddiffyn ar bob tir rhesymol. Drwy wneud dyn yn ddeiliad o'r fath lywodraeth yr agorir drws o'i flaen i gyrhaeddyd anrhydedd a dedwyddwch dibendraw. Mae y cyneddfau sydd ganddo yn ei gymhwyso i fwynhau y Duwdod ei hunan, a'r moddion moesol sydd yn ei feddiant, a'r rhyddid sydd yn ei hynodi, yn ei ddyrchafu yn ddirfawr, pan y mae yn eglur, pe na buasai yn ddeiliad llywodraeth foesol, na allasai byth ymddyrchafu uwchlaw anifeiliaid y maes.

Yn ol pob cyfundraeth dduwinyddol ac athronyddol a ffurfiwyd

erioed, fe fydd tyrfa fawr o ddynolryw yn golledig, ac nid oes yr un gyfundrefn mwy na'u gilydd a all fyned ag un i'r nefoedd yn ychwaneg na'r lleill. Yr un rhifedi yw y cadwedigion a'r colledigion yn y pen draw yn ol pob *system*. Ond y gofyniad pwysig ydyw hwn, tra y mae pawb agos yn cytuno y cosbir annuwiolion, beth fydd hyd y gosb? A fydd hi yn dragwyddol ei pharhad, ai ynte cosb dros dymhor terfynol a fydd? ac ar ol i'r amser terfynol hwnw ddyfod i ben, a adferir pawb yn ol i heddwch a ffafr y Duwdod, ac a ddiffoddir y tân tragwyddol? Ateb llawer ydyw, y parha y gosb yn dragywydd; ond ateb eraill ydyw, y gwaredir pawb o'i gafaelion ryw adeg, agos neu bell, yn y byd arall, fel y gwelo Duw yn oreu i ddwyn yr adferiad oddiamgylch.

Ond ymddengys i ni, wrth ddarllen y Beibl, y parha y gosb yn dragwyddol. Dyna yr argraff a wnaeth llawer o adnodau yn yr ysgrythyrau ar ein meddwl lawer o flynyddoedd yn ol, ac y mae yr argraff hwnw yn parhau eto yn ddileihad; yn wir, y mae yn llawer dyfnach nag ydoedd gynt erbyn hyn, ond dywedwn ychwaneg ar y pwnc yn ei gysylltiad â'r ysgrythyrau pan ddelom i sylwi ar y gwrthddadleuon a ddefnyddir yn erbyn cosb dragwyddol. Ni chynygir heddyw ond dau reswm, y rhai sydd, yn ol ein bryd ni, yn cadarnhau y bydd y gosb yn un dragwyddol.

1. Er fod Duw yn anfeidrol mewn trugaredd, fel yn ei briodoleddau eraill, er ei fod yn Dduw parod i faddeu, er fod pob peth yn y greadigaeth yn cyhoeddi hyny, eto eglur ydyw na allasai efe achub cynifer ag un pechadur heb Iawn anfeidrol dros ei bechodau. Efe a ddarparodd Iawn digonol, a hyny ar ei draul ei hunan. Gosododd ei Fab i fod yn Iawn, "drwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, drwy faddeuant y pechodau a wnaethpwyd o'r blaen, drwy ddyoddefgarwch Duw, i ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn, fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu." Yn ol y geiriau hyn, buasai yn anghyfiawn yn Nuw i gyfiawnhau dynion heb i gyfiawnder gael ei egluro a'i ddangos drwy Iawn mor fawr a Pherson anfeidrol Mab Duw, a hwnw yn ein deddfle ni, "yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu y groes." Mae yn bwnc eglur a diamheuol na all yr Arglwydd achub neb ond drwy aberth anfeidrol Iesu Grist. Ond dywed Paul yn bendant, os ymroi i bechu o'u gwirfodd a wna dynion yn y fuchedd hon, ar ol derbyn gwybodaeth o'r gwirionedd gogoneddus am Grist a'i aberth, nad oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach, "Eithr rhyw ddysgwyl ofnadwy am farnedigaeth, ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr." Ni fydd aberth Crist yn gyfrwng iachawdwriaeth i neb o'r cyfryw mwyach; ond o'r ochr arall, trymha gwrthodiad o Grist gosb dibriswyr ei Berson a'i waed, yn y byd a ddaw, yn ddirfawr. Yn wir, hyny fydd y cyhuddiad mawr yn erbyn gwrandawyr anghrediniol yr efengyl. "Hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni." Neu, fel y sylwa Dr. Owen, yr unig bechod damniol dan yr efengyl ydyw anghrediniaeth. Nid golygu y mae yr

hen dduwinydd Anghydffurfiol, nad yw pob pechod, ynddo ei hunan, yn ddamniol, ond y maddeuir y cyfan drwy yr Iawn, a ffydd yn Iesu Grist; eithr os parha anghrediniaeth i deyrnasu dros y meddwl hyd derfyn bywyd, y pâr hyny i ddyn fyned dan gosb dragwyddol am ei anghrediniaeth, ac am ei holl bechodau eraill hefyd, gan nad oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach, drwy yr hwn y gall dyn fod yn gadwedig. Yn awr, onid yw y syniad nas gall Duw faddeu pechod i ddyn ar y ddaear heb Iawn dros ei bechod, ond y gall Duw faddeu ei holl bechodau wedi iddo fyned i uffern, *heb* aberth drostynt, yn un afresymol iawn? A ydyw yn hawddach maddeu i ddyn wedi iddo fyned i uffern, na maddeu iddo ar y ddaear? Os gellir maddeu i ddynion yn uffern *heb* Iawn, paham na ellir maddeu i ddynion ar y ddaear *heb* Iawn? Ac os felly, nid yw iawn dros bechod yn angenrheidiol o gwbl; a chreulondeb oedd darostwng Iesu Grist i boenau ac angeu y groes, ac Undodiaeth yw y gyfundraeth gywir ar bwnc dyoddefaint Crist. Trowch y mater i gyfreswm fel hyn:—Ni all Duw faddeu pechod heb Iawn anfeidrol drosto. Pan elo dynion i uffern drwy ddibrisio aberth Crist, nid oes Iawn dros bechod wedi ei adael mwyach; gan hyny, ni all Duw faddeu pechodau yr uffernolion. Os gwrthddadleuir fod Iawn wedi ei roddi dros eu pechodau unwaith, ac y gellir maddeu iddynt yn uffern drwy yr aberth hwnw, atebir—Fod sefyllfa prawf y rhai a gollir wedi myned drosodd—nad yw yr efengyl yn myned drosodd i uffern i gyhoeddi maddeuant a chyfiawnhad, ac nad yw Crist yn Iawn dros y pechod o'i wrthod ef yn derfynol ac am byth. Byddai raid cael trefn newydd hollol i achub colledigion; ond nid oes yr awgrymiad lleiaf yn y Beibl am y fath drefn newydd; a rhyfyg fyddai i neb ddychymygu am fodolaeth y drefn newydd, ac nid ydyw dychymygion o'r fath ond ynfydrwydd, "At y gyfraith ac at y dystiolaeth, ac oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt."

Un sylw arall, ac ni a derfynwn am heddyw. Ni fyddai adferyd dynion o uffern heb eu haileni, eu crëu o newydd, eu cymodi â'r Goruchaf, a'u santeiddio o unrhyw fantais, ond anfantais fawr i lywodraeth Duw. Nid oes modd gwneud y pethau uchod ar y ddaear ond drwy yr Ysbryd Glan; ac nid yw yr Ysbryd Glan yn gweithredu ar ddynion ond drwy aberth Crist. Gan nad oes aberth dros bechodau colledigion wedi ei adael mwyach, nid oes, chwaith, fodd i ddylanwad yr Ysbryd Glan groesi yr agendor fawr i gyfnewid a santeiddio yr uffernolion; ac heb eu cymodi â Duw, uffern a fyddai pob man iddynt hwy, oblegid hanfod eu trueni ydyw gwg a soriant y Duwdod, a'i ymadawiad oddiwrthynt, gan eu gadael iddynt eu hunain, a than lywodraeth eu pechodau. Eu gollwng allan o'r carchar heb eu cyfnewid fyddai gollwng llewod, a theigrod, a bleiddiaid i flino y llywodraeth dros byth. Nid yw yn debygol y gwna Duw beth felly, ac ni ddatguddiodd efe i ni fod moddion a dylanwadau i aileni a santeiddio dynion yn uffern. Cymerwn y mater mewn llaw eto yn y ddarlith nesaf.

## COSB YR ANNUWIOL.—PARHAD.

*Darlith XXX.*

YN y ddarlith ddiweddaf, nodwyd dau reswm sydd yn bolltio drws carchar Anwn, ac yn sicrhau na adferir colledigion oddiyno. Un ydoedd, "Nad oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach, drwy yr hwn y gall Duw yn gyfiawn eu gwaredu." A'r llall, "Nad oes yr un dylanwad dwyfol, drwy ba un y gellir eu cymhwyso i ddyfod allan o'r carchar hwnw; ac heb eu cymhwyso i ddyfod allan, barn ar yr holl greadigaeth fyddai eu dwyn oddiyno." Ni a gymerwn y mater i fyny yn y man y gadawsom ef, gan sylwi yn mhellach fel y canlyn:—

3. Mae tystiolaethau y Beibl ar y mater yn gwneud argraff ddofn ar y darllenwr astud ac ystyriol, fod cosb yr annuwiol yn dragwyddol ei pharhad. Mae yn y meddwl dynol wrth natur wrthwynebiad i'r athrawiaeth hon. Er hyny, pan elo dyn a rhagfarn yn ei feddwl yn erbyn y syniad o dragwyddol gosb, i ddarllen y fath ymadroddion a'r rhai canlynol yn yr Hen Destament, y mae yr argraff a wneir ar ei feddwl yn un o bryder, ac ofn, ac amheuaeth nad yw ei ddymuniadau ef am ddiweddiad i'r gosb yn seiliedig ar gadernid. "Canys y mae phiol yn llaw yr Arglwydd, a'r gwin sydd goch, ac yn llawn cymysg, eto holl annuwiolion y tir a wasgant ac a yfant ei waelodion," Salm lxxv. 8. "Minau a fynegaf yn dragywydd, ac a ganaf i Dduw Jacob," adn. 9. Mae yn dra sicr fod y Salmydd yn golygu y bydd cosb yr annuwiolion yn parhau cyhyd a'i ganiadau yntau i Dduw Jacob, ac y bydd y naill a'r llall yn dragywydd. Eto, dywed Esay am yr annuwiolion, "Canys eu pryf ni bydd marw, a'u tân ni ddiffydd." Mae geiriau Daniel yn rhai tra nodedig, "A'r llawer sydd yn cysgu yn llwch y ddaear a ddeffroant, rhai i fywyd tragwyddol, a rhai i warth a dirmyg tragwyddol." Mae yn dra eglur y golygir yn y geiriau, fod y bywyd tragwyddol a fwynha un blaid, a'r gwarth a'r dirmyg a ddisgyn ar y blaid arall, o'r un parhad a'u gilydd, y naill a'r llall yn dragwyddol. Dywedir yn mlaen yn y benod, y bydd y rhai a droant lawer i gyfiawnder fel y ser byth ac yn dragywydd, ac eglur, debygid, ydyw y bydd gwarth a dirmyg y lleill yn aros byth ac yn dragywydd.

Pan ddelom i'r Testament Newydd, lle y dadlenir egwyddorion teyrnas nefoedd gan Frenin y deyrnas hòno ei hunan, y tirion a'r maddeugar Iesu Grist, mae mellt cyfiawnder yn erbyn yr annuwiol, a'r taranau a ruant uwch ei ben—y naill yn myned yn fwy deifiol, a'r lleill yn fwy rhochus. "Yr us a lysg efe â thân anniffoddadwy," medd Ioan Fedyddiwr. "Y rhai hyn a änt i gosbedigaeth dragwyddol, ond y rhai cyfiawn i fywyd tragwyddol;" a'r un gair a arferir am y naill a'r llall, sef αἰώνιον. Ac yn ol dim a ymddengys, fe bery cosb yr annuwiol cyhyd a bywyd tragwyddol y gwaredigion. Darllener hefyd eiriau Crist yn Marc, 9fed benod, lle y mae ef yn dyfynu geiriau Esay deirgwaith, ac yn eu cymhwyso at gosb colledigion. Darllener hefyd ddameg y goludog a Lazarus, lle y mae Iesu Grist yn codi cŵr

y llen oddiar y byd tragwyddol, ac yn dangos i ni y nefoedd ac uffern, am y gagendor fawr a'u gilydd, y gwr tlawd yn cael ei ddyddanu yn mynwes Abraham, a'r goludog yn cael ei boeni yn y fflam hòno, ac yn methu cael dafn o ddwfr i oeri ei dafod. Mae yn ffaith awgrymiadol iawn, fod y geiriau mwyaf tanllyd ar bwnc cosb yr annuwiol wedi dyfod o enau yr Arglwydd Iesu, y cyfaill penaf i bechaduriaid a welodd ein daear ni erioed. Efe yw yr hwn a ddywedodd y buasai yn dda i Judas Iscariot "pe nas ganesid ef." "Ac os gwnant hyn yn y pren ir, pa beth a wneir yn y crin?"

Mae geiriau Paul ar gosb yr annuwiol yn finiog ac ofnadwy, "Y rhai a ddyoddefant yn gosbedigaeth ddinystr tragwyddol oddi gerbron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef," 2 Thes. i. 9. Gwel Heb. hefyd, penod x, adnodau 25—29. Bydd cosb y drygionus, yn ol llyfr y Datguddiad, yn parhau "ddydd a nos, yn oes oesoedd." Dyna rai o syniadau y Beibl ar y mater.

4. Yr ydym yn gweled, ac yn golygu yn mhellach, Fod pechod yn *haeddu* tragwyddol gosbedigaeth; mae ynddo annhraethol ddryg edd. Gellir canfod hyny wrth ystyried:—

(1.) Fod cyfraith Duw yn cyhoeddi fod "pob un nad yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt yn felldigedig." Ac y mae y gyfraith "yn gyfiawn, yn santaidd, ac yn dda." Nid yw yn gosod ar ddyn fwy nag a haeddo.

(2.) Mae pob pechod a gyflawno dyn yn taro yn erbyn Duw, yr hwn sydd lanach ei lygaid nag y gall edrych ar anwiredd. Tery pechod yn erbyn anfeidrol burdeb a santeiddrwydd; teifl ddirmyg ar orsedd a llywodraeth Duw; sarhad ydyw ar y natur ddwyfol ei hunan yn ei holl fawredd a'i gogoniant. Mae yn taro yn erbyn dyn ei hunan, yn erbyn dynion eraill, yn erbyn iawndrefn yn mysg creaduriaid rhesymol drwy y bydysawd; ond yn benaf, yn erbyn Duw. Dyna oedd syniad Dafydd pan ddywedai, "Yn dy erbyn di, tydi dy hunan y pechais;" a dyna syniad Joseph pan ddywedai, "Pa fodd y gwnaf y mawrddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw?" Mae y syniad priodol am ddrwg pechod i gael ei ffurfio yn wyneb gogoniant, a mawredd, ac urddas anfeidrol y natur ddwyfol, ac nid yn ol mesur a phwysau o ddyfais dynion ar y ddaear. Mae sarhau tywysog daearol gan ddeiliad yn cael ei ystyried gan bawb yn fwy o ddrwg, ac yn erchyllach bai, na phe sarhai y cyfryw un cydradd iddo ei hunan; ond beth ydyw hyny mewn cymhariaeth i sarhau y Duwdod a'i lywodraeth gyfiawn a theg? Mae pechod, yn yr olwg yma, yn annhraethol ddrwg, ac yn haeddu cosb gyfatebol i'w ddrygedd. Mae y drygedd a'r gosb i fod yn gyfatebol i'w gilydd; ac nid oes ffordd mwyach wedi ei gadael i'w byrhau, nac i'w hysgafnhau.

(3.) Gwelir eto ddrygedd pechod yn mawredd yr aberth oedd yn angenrheidiol i agor ffordd i'w faddeu, ac i gadw pechaduriaid rhag ei ganlyniadau. Barn Duw ar y mater hwn ydoedd—Fod yn angenrheidiol i Berson dwyfol ac anfeidrol ymuno â'r natur ddynol, byw a marw dros y troseddwyr, i foddloni cyfiawnder, fel y gellid cael

ffordd gyfreithlawn i gadw pechaduriaid; a barn Duw sydd yn gywir ar y fath fater a hwn. Pe buasai rhywbeth llai na hyny yn ateb y dyben, cawsai Mab Duw ei arbed, yn ddiau.

Oddiwrth y pethau hyn, yr ydym yn gweled—1. Fod pechod yn ddrwg na all dyn nac angel amgyffred ei faint. 2. Nas gellir cael gafael ar bechod ei hunan i'w gosbi, ar wahan oddiwrth y pechadur a'i cyflawno; ynte rhaid ei gosbi yn mherson y canolwr a'i cymero arno ei hun, gan sefyll yn neddfle pechaduriaid; ond wedi i bechadur wrthod y ffordd o ddiangfa iddo a drefnodd Duw, nad oes ffordd arall drwy ba un y gall efe ddianc yn oes oesoedd.

5. Pechu a wna dyn yn dragywydd yn ngafael cosb oblegid ei bechodau ar y ddaear. Mae yn ddeiliad eto yn llywodraeth Duw; mae deddf foesol y llywodraeth yn ei ofyn, yn ei holl alluoedd, i garu Duw yn berffaith, â'i holl galon, â'i holl enaid, â'i holl nerth, ac y mae yntau yn ei throseddu fwyfwy, ac felly yn suddo ddyfnach ddyfnach i drueni a chosbedigaeth. Nid oes gobaith y dychwela efe oddiwrth ei gamweddau yn uffern, drwy unrhyw benderfyniad o eiddo ei ewyllys ei hunan; ac nid yw yn natur pechod i droi yn burdeb a santeiddrwydd. Nid oes moddion dychweliad yn y wlad lle y mae, na ffordd iddo ddychwelyd mwyach; ac felly, mae yr euog a elo i uffern wedi ei gau i fyny i dragwyddol gosbedigaeth, heb aberth dros ei bechodau wedi ei adael mwyach; yn haeddu tragwyddol gosb, oblegid ei sarhad ar Dduw a'i lywodraeth, ac ar Fab Duw a'i aberth; heb ddylanwad dwyfol wedi ei ddarparu i'w santeiddio, na moddion moesol i droi ei feddwl at Dduw fel Maddeuwr mewn Iawn, ac yn troseddu fwyfwy yn ngafael cosb. Felly, nid ymddengys fod y gobaith lleiaf i neb a wrthodo drefn Duw, ac a elo i uffern, i ddyfod allan oddiyno yn oes oesoedd.

Dywed pleidwyr adferiad o uffern fod trugaredd Duw yn anfeidrol, ei ras yn ddiderfyn, ac y gellir dysgwyl adferiad colledigion rywbryd, ar sail gras y natur ddwyfol. Fod trugaredd Duw yn anfeidrol, a'i ras yn ddiderfyn, sydd yn wirionedd tragwyddol; ond y mae mor wir a hyny fod Duw yn anfeidrol mewn cyfiawnder, yn gystal ag mewn trugaredd a gras, a gwaith cyfiawnder ydyw llywodraethu a chosbi troseddwyr. Mae yn eglur, er fod gras Duw yn ddiderfyn, na allai efe achub dynion ar y ddaear heb i gyfiawnder gael ei anrhydeddu mewn Iawn anfeidrol dros bechod; yn awr, y gall efe, drwy ei drugaredd a'i ras, achub dynion o uffern heb Iawn, sydd bwnc ag y mae natur pethau, sef natur Duw a'i lywodraeth, yn hollol yn ei erbyn. Mae y baich o brofi fod Iesu Grist yn Iawn dros y rhai sydd yn uffern, yn perthyn i'r gwrthddadleuwyr, ac nid i ni; neu fod gan Dduw drefn arall i drugaredd weithio drwyddi yn unol â chyfiawnder, sydd yn yr un modd yn bwnc iddynt hwy brofi; neu ynte y gall Duw achub colledigion uffern heb Iawn, sydd yr un modd yn fater iddynt hwy brofi. Pan welom y prawf, ni a chwiliwn i mewn iddo.

Haerir eto mai creulondeb yn Nuw fyddai cosbi dynion yn dragywydd—nad yw yr Arglwydd yn greulon; gan hyny, nis gall

athrawiaeth cosb dragwyddol fod yn wirionedd. Yr ydym yn gwadu gwirionedd y prif osodiad yn y cyfreswm blaenorol, sef mai creulondeb yn Nuw ydyw cosbi dynion am eu pechodau yn dragywydd. Pa fodd y gall cosbi yn dragywydd y rhai a fynant fyw mewn pechod yn dragywydd fod yn greulondeb? Yr ydym o'r ochr arall yn dal, os yw cosbi o gwbl yn gyfiawn (ac nid oes neb yn gwadu nad yw Duw yn cosbi), fod cosbi yn dragywydd y rhai a fynant wrthryfela yn dragywydd yn berffaith deg. Dywedwn ychwaneg eto: Mai dan gosb fythol yw y lle *goreu* y gall y Llywydd cyfiawn osod y fath droseddwyr; ac mai cariad at y daioni cyffredinol—heddwch a diogelwch y llywodraeth foesol, ac anrhydedd yr orsedd a'r gyfraith, sydd yn galw am hyny. Egwyddorion moesol sydd yn gosod yr Arglwydd dan angenrheidrwydd i gosbi fel y mae yn gwneud, ac nid nwydau a chreulondeb, oblegid nid yw pethau felly yn perthyn iddo ef mewn unrhyw fodd. Digofaint Duw (nid nwyd) yw yr angenrheidrwydd moesol y mae efe dano i weinyddu ei lywodraeth yn gyfiawn tuag at bawb. Os yw cosbi byth y rhai sydd yn gwrthryfela byth, yn anghyfiawn, yna rhaid fod y gyfraith sydd yn gofyn ufudd-dod cariadlawn oddiwrthynt byth yn anghyfiawn; ac os yw y gyfraith yn anghyfiawn, yna rhaid fod gosodwr y gyfraith yn anghyfiawn. A thybio peth felly, chwaithach ei haeru, sydd gabledd yn erbyn Duw.

Pan ddywedir fod tragwyddol gosb yr annuwiol yn anghyson â thadolaeth Duw, dylid ystyried mai troell-ymadroddion yw geiriau fel Tad, a Phriod, a'r cyffelyb, pan y cymhwysir hwy at Dduw. Y mae annhraethol bellder rhwng yr Arglwydd a'i greaduriaid rhesymol, yn gystal a'i greaduriaid afresymol, o ran ei natur fel o ran ei sefyllfa fel eu Llywydd. Mae cydraddoldeb natur rhwng tad naturiol a'i blentyn, ond nis gall fod cydraddoldeb felly rhwng Duw a dynion, nac angylion chwaith. Maent yn fodau hollol wahanol yn eu natur, yr hyn sydd yn dangos mai troell-ymadroddion yw y fath eiriau, yn dangos fod yr Arglwydd yn ymddwyn at ei greaduriaid rhesymol mewn rhai pethau yn debyg fel yr ymddyga tad tuag at ei blant. Ond pa le y ceir tad teilwng o'r enw nad yw yn frenin ar ei aelwyd? nad yw yn dangos ei anfoddlonrwydd mewn llawer ffordd tuag at ei blant na fynant ufuddhau iddo? Dyweder a fyner ar y pwnc o Dadolaeth Duw, deddfau anhyblyg a welwn ni yn cylchynu dynion ar bob llaw, ac ni arbedant neb a'u troseddo, ac nid yw trugaredd, wedi oesoedd y gwyrthiau, yn ymyraeth â'u gweithrediadau.

Dywedir yn mhellach, nad yw y geiriau *byth, tragwyddol, yn oes oesoedd*, a'r cyffelyb, a gysylltir â chosb yr annuwiol, o angenrheidrwydd yn golygu na dderfydd y cyfryw gosb, am eu bod yn cael eu defnyddio am ddeddfau yr hen gyfamod—am offeiriadaeth Aaron, ac am bethau eraill, y rhai, er iddynt barhau yn hir, a ddarfuasant. Yr un modd, er y gall y geiriau bythol, tragwyddol, a'r cyffelyb, osod allan amser maith i'r drygionus fod dan y gosb, nad ydynt o angenrheidrwydd yn gosod allan gosb ddiddiwedd. Yr ydym yn ateb, fod y geiriau hyn yn eu cysylltiad â chosb yr annuwiol, yn rhwym o olygu

cosb ne fydd diwedd arni. Os nad oes moddion gras yn uffern, os nad oes yno ddylanwad dwyfol i gyfnewid calonau y preswylwyr, os nad oes Iawn dros eu pechodau wedi ei adael mwyach, ac os nad oes trefn gan y Duwdod i waredu dynion allan o uffern, yna o angenrheidrwydd mae y geiriau yn golygu cosb ddiddiwedd. Hyd nes y profir fod trefn gan Dduw i waredu dynion o ddystryw—trefn newydd i waghau uffern, neu fod y drefn a wrthodwyd gan y colledigion pan oeddynt ar y ddaear, yn gymhwys, ac yn cael ei chynyg iddynt wedi iddynt fyned i uffern; yr ydym yn rhwym o gredu fod y geiriau *cosbedigaeth dragwyddol, dinystr tragwyddol*, yn golygu cosb ddiddiwedd. Ond nid ydym yn dysgwyl y daw neb yn mlaen a all ddangos fod trefn yn bod i achub dynion a chythreuliaid allan o garchar cadarn llywodraeth y Goruchaf.

Am y syniad y diddymir annuwiolion yn y diwedd, ac felly na byddant mewn bodolaeth i'w cosbi, dywedwn yn fyr y pethau canlynol:—

1. Nid "cosbedigaeth dragwyddol" a fyddai diddymu dyn—enaid a chorff—allan o fodolaeth, ond cosbedigaeth fer, a ber *iawn* hefyd; rhywbeth yn debyg i ddienyddiad llofrudd gan lywodraeth wladol, a hollol annhebyg i weinyddiadau teg llywodraeth foesol Duw tuag at ei deiliaid.

2. Nid oes un engraifft mewn bod fod yr Arglwydd wedi diddymu dim oll a wnaeth efe, llawer llai fod eneidiau dynion i gael eu diddymu—y bodau ardderchocaf, oddieithr angylion, a greodd Duw erioed, mor bell ag y gwyddom ni.

3. Nid yw y fath eiriau a *dinystrio, dyfetha, marwolaeth*, a'r cyffelyb, yn golygu, pan gymhwysir hwy at gosb yr annuwiol, eu diddymu allan o fodolaeth, ond eu *hamddifadu* o bob dedwyddwch. Mae y fath eiriau a *dinystrio, dyfetha*, a'r cyffelyb yn cael eu defnyddio yn wastadol gan ddynion, a chan ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau, ond nid ydym yn gwybod am unrhyw esiampl lle y golygant ddifodaeth. Ni allai tân Sodom ddiddymu defnyddiau y ddinas hòno—dim ond eu datod oddiwrth eu gilydd, a'u gwasgaru yma a thraw. Pan ddywedir fod masnachwr wedi ei ddyfetha, yr hyn a olygir ydyw fod ei amgylchiadau wedi cyfnewid er gwaeth, ac nid ei fod wedi ei ddilëu allan o fodolaeth. Felly yn yr un modd, pan ddywedir fod pechaduriaid yn dinystrio eu hunain, neu pan ddywedir y dyoddefant "ddinystr tragwyddol oddi gerbron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef," ni olygir fod pechaduriaid yn diddymu eu hunain, na bod yr Arglwydd yn eu diddymu; ond eu bod yn dwyn eu hunain i gyfyngderau, trallodion, ac ingoedd, a bod yr Arglwydd yn eu gosod dan gosbedigaeth arswydlawn fel gwrthryfelwyr penderfynol yn ei erbyn ef. Mae y meddylddrych o ddiddymu eneidiau dynion yn beth nad oes dim yn debyg iddo yn adnabyddus o gwbl, a diau genym mai dynion a'i dyfeisiodd i ateb eu hamcanion eu hunain.

Nid ydym yn gweled fod cynifer ag *un* adnod yn y Beibl yn ffafrio adferiad o uffern, na diddymiad yr annuwiolion chwaith; a rhaid i ni

gael Beibl *newydd* cyn y gallwn gredu y naill na'r llall. Am y syniad fod ymuniad y Gwaredwr â'r natur ddynol yn sicrhau cyflawn waredigaeth holl ddynolryw yn y pen draw, credu yr ydym fod hyny yn hollol ddisail, ac y gwelir hyny yn eglur wrth chwilio i'r mater, ond ni feddwn amser heddyw i gymeryd y pwnc hwnw dan ein hystyriaeth. Os yw cyfraith Duw yn gyfiawn, mae gweinyddu ei chosbau yn gyfiawn hefyd. Os cyfraith cariad ydyw cyfraith Duw, nis gall gweinyddu ei chosbau fod yn groes i gariad, ond y mae yn berffaith gyson âg ef. "Duw, cariad yw." Amen.

## NATUR EGLWYS GRISTIONOGOL.

*Rhan o Ddarlith.*

GAN nad oes yr un ffurf gyflawn o drefn a llywodraeth eglwysig, na chyfarwyddiadau manwl yn nghylch pob peth perthynol i drefn eglwys wedi eu crynhoi yn nghyd yn y Testament Newydd, ai nid ydyw yn gyfreithlon i ddynion gymeryd yr holl fater i'w dwylaw eu hunain, a ffurfio trefniadau i lywodraethu eglwysi yn ol dymuniadau eu calonau eu hunain? Yr ydym yn ateb, Nac ydyw, oblegid,—

1. Gan fod yr Arglwydd wedi amlygu ei feddwl i raddau helaeth ar y pwnc, drwy osod egwyddorion trefn eglwys ar lawr yn y Testament Newydd, ac amlygu ei feddwl drwy gyfarwyddiadau a gocheliadau, anogaethau a rhybuddion i'r eglwysi gynt; gan fod genym esiamplau lawer o'r modd y gweithredai yr eglwysi apostolaidd dan lygaid yr apostolion eu hunain, y mae yn ddyledswydd ar Gristionogion i fabwysiadu, ac i osod mewn ymarferiad yr oll a ddatguddiodd Duw, mor bell ag y cyrhaedda y datguddiad hwnw, a diystyrwch ar air yr Arglwydd fyddai ymddwyn yn wahanol i hyny. Y mae rheswm ei hunan yn ein dysgu y dylem blygu i air anffaeledig Duw o flaen pob peth a feddylio dynion ar fater fel hwn.

2. Heblaw fod *rheswm* yn dywedyd y dylem ni dderbyn yn galonog bob awgrym a geir ar y mater hwn, fel unrhyw fater arall yn ngair yr Arglwydd, mae yr Ysgrythyrau yn ein rhwymo i wneud hyny. Llyfr i'w dderbyn yn yr oll ag ydyw, drwy ffydd, yw y Beibl. Yn awr, os ydyw Duw wedi llefaru yn y llyfr hwn ar natur eglwys Gristionogol, fel y mae, yn ddiau, yr ydym dan rwymau, yn ol iaith a rhediad y llyfr ei hunan, i dderbyn pob gair a ddywedodd Duw ar y pwnc.

"Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion," oedd wirionedd dwfn yn meddyliau yr apostolion. "Ai cyfiawn yw gerbron Duw wrando arnoch chwi yn hytrach nag ar Dduw, bernwch chwi?" meddent gerbron y llys yn Jerusalem. Fe fyn Duw i ddynion ei wasanaethu ef yn ol ei air a'i ewyllys ddatguddiedig ef ei hunan, ac nid yn ol eu mympwyon eu hunain. Anfonodd yr Arglwydd Saul a'i fyddin yn erbyn yr Amaleciaid; gorchymynodd iddo ddystrywio

pob peth yn y wlad. Arbedodd Saul Agag y brenin. Arbedodd hefyd y goreu o'r defaid a'r ychain, a'r brasaf o'r ŵyn, a phob peth oedd dda, ac ni ddifrodasant hwy. Pan gyfarfu Saul â Samuel, dywedodd y brenin wrth y prophwyd, "Bendigedig fyddech di gan yr Arglwydd; mi a gyflawnais air yr Arglwydd. A dywedodd Samuel, Beth ynte yw brefiad y defaid hyn yn fy nghlustiau, a beichiad y gwartheg, yr hwn yr ydwyf yn ei glywed? Y bobl a'u harbedodd i'w haberthu i'r Arglwydd," meddai Saul. "Paham na wrandewaist ar lais yr Arglwydd," ebe Samuel, "eithr troaist at yr anrhaith, a gwnaethost ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd. Yn wir," ebe Saul, "mi a wrandewais ar lais yr Arglwydd, ac a rodiais yn y ffordd y'm hanfonodd yr Arglwydd iddi, a dygais Agag brenin Amalec, ac a ddifrodais yr Amaleciaid. Ond y bobl a gymerth o'r ysbail, ddefaid a gwartheg, blaenion y ddifrodaeth, i aberthu i'r Arglwydd dy Dduw yn Gilgal. A yw ewyllys yr Arglwydd ar boethoffrymau, neu ebyrth, megys ar wrando ar lais yr Arglwydd?" ebe y prophwyd. "Wele, gwrando sydd well nag aberth, ac ufuddhau na brasder hyrddod. Canys anufudd-dod sydd fel pechod dewiniaeth," 1 Sam. xv. Dyna engraifft deg o'r Beibl o anfoddlonrwydd yr Arglwydd ar ddyn a ddygai ei fympwyon ei hunan i fewn i wasanaeth Duw yn lle rhoddi ufudd-dod calonog i Air yr Arglwydd. Y mae Iesu Grist yn dyfynu geiriau y prophwyd Esay, ac yn dywedyd, mai yn ofer yr anrhydedda dynion yr Arglwydd, gan ddysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth; gan hyny, ni ddylai dynion feiddio troi ewyllys ddatguddiedig Duw o'r neilldu yn y mater o drefn eglwysig, mwy nag mewn rhyw fater arall datguddiedig yn yr Ysgrythyrau.

3. Er y gellid tybied y gallai amgylchiadau gyfodi mewn eglwys Annibynol na cheir cyfarwyddiadau pendant gyda golwg arnynt, nac engreifftiau o bethau yr un fath a hwynt yn cael ymdrin â hwynt, a'u penderfynu yn yr eglwysi apostolaidd; eto ni chyfyd dim mewn cynulleidfa nad oes egwyddorion wedi eu gosod i lawr yn y gair dwyfol sydd yn eu cynwys, ac yn hollol addas i ddysgu cynulleidfa i ymdrin â hwynt. Fel y mae y gair, "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon," yn gyfarwyddyd anffaeledig i ni yn ein dyledswyddau tuag at Dduw; a'r gair, "Câr dy gymydog fel ti dy hun," yn arweinydd i ni gyda golwg ar ein dyledswyddau tuag at ddynion; felly hefyd y mae y geiriau, "Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn"—gwneler eich holl bethau chwi mewn cariad—na wneler dim drwy gynhen neu wag ogoniant, a'r cyffelyb, yn addysgwyr da i ni mewn pethau na allwn gael gorchymynion pendant gyda golwg arnynt, megys yr adegau a'r dull o gario yr addoliad cynulleidfaol yn mlaen ar y Sabbathau, a'r modd i gynal cymdeithasau crefyddol ar yr wythnosau; pa gyfarfodydd heblaw rhai hollol grefyddol sydd gyfreithlon i ni eu cynal yn ein haddoldai; y modd y mae i eglwys godi pregethwyr, a'r cyffelyb. Dylem yn y pethau hyn oll ofalu na bydd dim a wnelom yn croesi hawl y gynulleidfa i roddi ei barn a'i phleidlais ar y mater—dim a fyddo yn sawru o dra-arglwyddiaeth a gormes ar etifeddiaeth Duw—na dim

a wrthdarawo yr engreifftiau sydd genym o arferion y prif eglwysi apostolaidd. Mewn pethau amlwg, daliwn y traddodiadau a ddysgir i ni yn y Testament Newydd yn gadarn a diysgog; mewn pethau amheus, bydded pob un sicr yn ei feddwl ei hun, a syrthiwn i'r ochr ddiogelaf; ac mewn pethau dibwys, mewn cymhariaeth, bydded pob un sicr yn ei feddwl ei hun, a dysgwn bawb gydoddef eu gilydd mewn cariad.

Os gofynir i ni a ydym yn meddwl fod y drefn Gynulleidfaol sydd yn ein plith ni yn awr yn hollol y peth y dylai fod yn ol yr Ysgrythyr? yr ydym yn ateb nad ydym yn barnu hyny; ond credwn fod yn ein plith amryw o ddiffygion sydd yn galw am ystyriaeth bwyllog, a diwygiad trwyadl, ac nid ydym ychwaith yn anobeithio y ceir diwygiad mawr ynddynt yn raddol.

1. Yr ydym yn credu fod rhy fychan o ymdrechion yn ein plith i feithrin duwioldeb a chrefydd ysbrydol. Mor bell ag y gwelsom ni, rhyw ychydig o ddynion iach eu calonau, a dioruchwyliaeth ar eu meddyliau, dynion a merched beilchion a hunangeisiol, sydd wedi bod yn ein heglwysi y rhwystrau penaf i lwyddiant achos crefydd yn ein mysg. Dylai yr eglwysi Cynulleidfaol droi eu sylw yn benodol at y mater hwn. Trefn i lywodraethu pobl grefyddol ydyw Annibyniaeth. Mae y drefn yn rhagdybied crefydd bur yn y gynulleidfa, ac nid ydym yn amheu nad yw yn haws trin pobl ddigrefydd mewn math o undeb eglwysig drwy y drefn esgobaethol, neu yr henaduriaethol, na thrwy y drefn gynulleidfaol; ond os bydd crefydd bur ar ei thraed, nid oes yr un cynllun mor syml, ac mor esmwyth, a hawdd ei gario yn mlaen, ag yw yr un Annibynol.

2. Diffyg mawr arall yn mysg Annibynwyr y dyddiau hyn ydyw y duedd gref sydd mewn mân-gynulleidfaoedd gweiniaid i fod yn eglwysi cyflawn ynddynt eu hunain, yn lle ymgysylltu â chynulleidfaoedd mwy a chryfach na hwynt-hwy, a chydgyfarfod â'r cyfryw yn achlysurol. Pan elo cynulleidfa fechan, egwan, heb yr un person yn eu plith yn meddu na dylanwad crefyddol, na gwybodaeth, na phwyll i flaenori ar y lleill, i ddynwared Annibyniaeth eglwysig, ä y cyfryw gynulleidfa yn fuan i ymrafaelio â'u gilydd, ac i bardduo nodweddiad y naill y llall, er dianrhydedd i enw yr Arglwydd Iesu, a rhwystr effeithiol i lwyddiant achos crefydd yn y lle. Doethineb cynulleidfa fechan fyddai bod mewn undeb â rhyw gynulleidfa fwy. Byddai hyny yn nerth ac yn galondid iddi mewn llawer ystyriaeth.

3. Gwendid mawr arall yn mysg Annibynwyr y dyddiau hyn ydyw diffyg gofal cynulleidfaol am fagu a meithrin y plant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Yr ydym yn ofni y gall fod crefydd deuluaidd gref, urddasol yn isel ar aelwydydd llawer o deuluoedd; ond pa fodd bynag am hyny, yr ydym yn sicr fod ymgeleddu y plant yn mhell o'r peth y dylai fod. Mae yn debyg fod gwaith y Methodistiaid Calfinaidd yn dal fod plant proffeswyr crefydd yn cael eu geni yn aelodau eglwysig wedi ffurfio gagendor letach rhwng yr Annibynwyr a'r plant nag a fuasai rhyngddynt â hwy oni b'ai hyny. Cof yw gan

lawer sydd eto yn fyw fod hen aelodau cynulleidfa fawr heb fod yn mhell oddiyma yn gwrthwynebu yn egnïol i blant ddyfod gyda eu rhieni i'r cyfeillachau crefyddol. Ac er i weinidog y lle sefyll yn wrol dros i'r plant fod yn bresenol yn y cyfeillachau hyny, parheid i wrthwynebu y peth, ac edrychid yn ddirmygus gan y gwŷr hyny ar y plant a berthynent i'r gyfeillach, ac ni ymddygent tuag atynt mor dirion ag y gwnaent tuag at blant eraill. Mae dyddiau gwell na'r rhai hyny wedi gwawrio ar ein henwad; ond y mae yr ymgeledd a roddir i'r plant y dydd heddyw yn mhell o gyfateb i'r peth a feddyliai Iesu Grist pan yn dywedyd wrth Simon Pedr, "Portha fy ŵyn." Mae hwn yn fater y dylai eglwysi yr Annibynwyr ei gymeryd at eu hystyriaethau difrifolaf; oblegid os collir gafael ar y plant, bydd y cynulleidfaoedd yn dyoddef yn fawr drwy hyny.

4. Gwendid mawr arall ydyw rhyw ddiffyg cydymdeimlad rhwng gwahanol eglwysi â'u gilydd. Mae yn anhawdd gan eglwys gref yn fynych gynorthwyo un wan, ac os gwna ryw ychydig o help i un felly mewn cyfyngder, ychydig iawn a fydd hyny. Mae llawer eglwys gyfoethog yn gallu edrych yn ddigon tawel ar eglwys dlawd fel rhyw Lazarusen anghenus yn ei drws yn mysg y cwn am flynyddau. Dylai fod genym fwy o hyder yn ein gilydd, a mwy o deimlad dros ein gilydd nag sydd genym yn gyffredin. Dylem fedru ymuno â'n gilydd fel un gwr mewn pethau cyhoeddus a chyffredinol. Yr ydym yn dysgu tipyn ar y pen hwn, ond eto y mae lle.

5. Mae eisieu i'n llywodraeth eglwysig gael ei gweinyddu yn gryfach, ac mewn gwell ysbryd. Nid yw aelodau ein heglwysi i fod fel Israel yn nyddiau eu barnwyr—pob un yn gwneud yr hyn sydd uniawn yn ei olwg ei hun, heb ofalu am ddim ond boddio eu hunain yn mhob peth. Credwn mai yr eglwys Annibynol yn Llanuwchllyn oedd yn y sefyllfa oreu o ran llywodraeth eglwysig yn nechreu y ganrif bresenol o holl eglwysi Gogledd Cymru. Mae llywodraeth gariadlawn yn nerth ac yn addurn i Eglwys Gristionogol. Dyna rai o'r pethau a ystyriwn yn wendidau yn y drefn Annibynol, fel y mae yn cael ei chario yn mlaen yn ein dyddiau ni. Dyna rai o wendidau Annibyniaeth yn ei gwaith. Pe gofynid i ni yn mhellach, pa fodd y glynwn wrth y drefn hon, er gwybod am y gwendidau hyn ac eraill, yr ateb ydyw, am y gwyddom am wendidau mwy na hwy yn perthyn i drefniadau eraill, ac am y gwelwn fwy o wirionedd Beiblaidd yn y drefn Gynulleïdfaol nag a welwn mewn unrhyw gyfundrefn arall. Pe yr arosai dyn nes y gwelai ryw drefn eglwysig na fyddai ganddo unrhyw wrthddadleuon yn ei herbyn, mae yn debyg nad ymunai âg unrhyw eglwys Gristionogol tra y byddai byw. Nid oes genym ond dewis y drefn agosaf i'r Beibl yn ol ein barn ddiduedd mewn mater fel hwn, a chydymddwyn â phethau nas gallwn, er ceisio ein goreu, mo'u cael i'r ffurf a ddymunem; gan hyny, nid oes genym ond cymeryd y ffurf a farnom sydd yn dyfod agosaf i'r Testament Newydd, a bod yn gedyrn yn ein hymlyniad wrth hono, ac ar yr un pryd yn ddiragfarn tuag at bawb sy'n barnu yn groes i ni.

Ni fydd yn anfuddiol i ni, yn y fan hon, i ddywedyd gair am bregethwyr yr efengyl yn eu cysylltiad â'r eglwysi Cynulleidfaol. Ni a welsom lawer o bregethwyr efengyl yn rhai ffyddlon dros ben fel aelodau eglwysig, ac ni a welsom eraill o honynt yn rhai gweiniaid, diwerth, ac anhawdd iawn eu trin. Mae llawer o bregethwyr wedi colli eu parch oblegid eu musgrellni gyda moddion crefyddol. Fel yr ydych chwi (y myfyrwyr) yn awr ar ymwasgaru, mae'n debyg y dychwelwch i'ch cartrefi. Gadewch i mi erfyn arnoch fod yn ofalus ar eich holl ymarweddiad yn mysg eich holl gymydogion. Peidiwch a gwario eich amser fel pe byddai yn ddiwerth. Ewch i bob cyfarfod gweddi, i bob cyfeillach grefyddol, ac i bob oedfa; ewch i bob un mewn pryd, a chymerwch eich rhan yn y cyfarfodydd hyny yn rhwydd a dirodres.

Mae o bwys mawr i chwi fod yn barchus gartref. Na ddilynwch gwmni gwael. Tra byddo modd i chwi gael cwmni Owen a Howe, Watts a Doddridge, Jonathan Edwards a Fuller, drwy eu hysgrifeniadau, ni fyddwch heb gyfeillion gwerth bod yn eu cwmni; heb son yn awr am y prophwydi, Iesu Grist, a'r apostolion. Nac ymhyfrydwch yn nghwmni mân-ferchetos gwamal a chwerthinllyd, ond dewiswch gwmnïaeth anrhydeddus; cwmnïaeth a'ch gwna yn well ac nid yn waeth, yn ddoethach ac nid yn ffolach, yn fwy cyfrifol ac nid yn fwy anmharchus.

---

Mewn perthynas i'r atebion i'r gofyniad, sef, Beth yw y sicrwydd sydd y dygir dynion mewn byd llygredig fel hwn i fod yn ddynion da, ac yn wneuthurwyr daioni? yr wyf yn ofni na ddeallodd pob un mo'r gofyniad yn gywir; ond eto, nid oes yr un o'r atebwyr wedi camgymeryd llawer gyda golwg arno. Mae yr holl atebwyr bron i gyd, o leiaf, yn cytuno mai rhywbeth yn Nuw yw sylfaen y sicrwydd sydd am ddygiad dynion i fod yn ddynion da. Daioni anfeidrol y natur ddwyfol, medd rhai. Ychwanega y lleill at hyny fwriadau grasol Duw, a'r moddion ordeiniedig gan Dduw i ddwyn ei fwriadau i ben drwyddynt. Mae yn ddigon eglur fod yn rhaid cael rhywbeth heblaw daioni natur Duw i fod yn sylfaen sicrwydd y gwneir dynion yn ddynion da; oblegid nid yw daioni y natur ddwyfol yn sylfaen sicrwydd y gwneir angylion drwg yn angylion da. Ychwanegwch, ynte, drefn iachawdwriaeth yn yr oll ag ydyw at ddaioni y natur ddwyfol; ond eto, mae lluoedd yn parhau yn ddynion drwg yn nghanol holl foddion gras; ac felly, nid ydyw daioni natur Duw, na chymhwysder trefn y cadw, yn sicrhau y dygir y cyfryw i fod yn bobl dda. Y mae eisieu dau beth arall eto cyn y ceir sicrwydd—bwriadau grasol, a dylanwad dwyfol.

---

DOLGELLAU: ARGRAFFWYD GAN W. HUGHES.

(Finished reading Dec.r 24 1882.)